Rel. 143(2 4° Evans

Part 2. [B—BYW.] 5s. Net.

Dictionary
of
The Welsh Language.

By the

Rev. D. Silvan Evans, B.D.

Rector of Llanwrin, Machynlleth, North Wales.

Geiriadur Cymraeg.

Gan y

Parch. D. Silvan Evans, B.D.

Rheithor Llanwrin.

Carmarthen:

W. SPURRELL & SON.

LONDON: SIMPKIN, MARSHALL, & CO.; TRÜBNER & CO.

MDCCCLXXXVIII.

B, *sf.* the second letter and the first consonant of the Welsh alphabet, corresponding in power to the Eng. *b;* and mutable in syntax and composition into *f* and *m;* as, *brawd*, brother; *ei frawd*, his brother; *fy mrawd*, my brother; *bodd, anfodd; balch, ammalch.* It is itself also one of the mutates of *p;* as, *pen*, a head; *ei ben*, his head.

¶ Initial *b* in some words interchanges with *m*, and it is not always obvious which is the older form; as, *baban, maban; bach, mach; bagell, magell; bath, math; banon, manon; banal, manal; basg, masg; ben, men; benyw, menyw; beisgawn, meisgawn; bwci, mwci.* In a few instances a similar interchange takes place between *b* and *p;* but in most of these cases *b* is a mutate of *p;* as, *ba, pa; ban, pan; be, pe; beth, peth; beunydd, peunydd. Poed* (=boed, bydded), where *b* becomes *p*, is, with some others, an exception.

Ba, *a.pr.* [mut. of *pa*, q.v.] what; what?

Ba fath, what sort; what sort?

Ba ddelw na bai ddialedd
Am un a fai mewn ei fedd?—*L. G. Cothi*, i. v. 1.

Os llonydd a fydd efo,
Ba ernych gan bawb arno!—*Thomas Prys.*

Ba fardd o'n gwlad i'm caniad a'm coel.
Llywelyn Sion (Cyfr. y Beirdd, 113).

Ba wledd a'r na bu i'w lys?
Ba wall, o bai ewyllys?
Ba fwyniant heb ei finiaw?
Ba chwant heb rychwant o braw?
Gronwy Owain, 33 (cf. 95).

Ba beth=*Pa beth*, q.v. (s.v. *Pa*).

Mi ae gowinneis y offereid bid
Ae hesgip ae higneid
Ba beth orev rac eneid.—*Myv. Arch.* i. 579 (A.B. ii. 44).

Ba hyd (=pa hyd)? how long?

Bwch gwyllt yn ebach gelltydd,
Ba hyd i'w fywyd a fydd?—*Gro. Owain*, 106 (cf. 117).

Ba, *sm.* [im.] baa; the cry of a sheep or lamb; a bleat.

Baban, -od, *sm.* [maban (dim. of *mab:* cf. *mebyn*), than which it is a later form; or it may be imitative of infantile utterance: cf. Ir. *baban;* Ga. *bab;* Mx. *bab, baban;* O.E. *baban, babbon;* mod. E. *babe, baby.* It is not from English] a babe, baby, or infant; a doll.

Tri thrwyddedawg teulu, ac ni fyddant wrth lafur, a gorchwyl, a swydd: *baban;* oedranus; ac athraw teuluaidd.—*Cyfreithiau Cymru*, ii. 492.

Pan doddo'r frân fe ryna'r *baban.—Diareb.* (M.A. iii. 188.)

Bedydd babanod, infant baptism.

Y mae pawb yn addef nad oes genym yn y Bibl un siampl eglur o *fedydd babanod*, na gorchymmyn pendant i'w bedyddio. . . Os gellir profi eu hawl i fedydd, nid yw o un pwys nad yw y geiriau, *bedydd babanod*, ddim yn y Bibl.—*Geo. Lewis:* Drych Ysgr. 505.

Buarth baban, a baby ring or circle; a lighted stick turned round and round to divert a child: called *olwyn dân* in some parts of N.W.

Rhwysg mab a *buarth baban*,
Rhed y dur fal rhod o dân.
D. ab Gwilym, cxxxiv. 37 (cf. cxxxviii. 18).

Bwcled, er nas dywedwn,
Y sydd gyda'r eurdlws hwn;
Enllyn i gleddeu unllaw,
Un llun *buarth baban* llaw.—*Llawdden.*

Sometimes written *buarth paban, paban* being a modification of *baban.*

Am hyny gadawont i dadmaethod a mammaethod yr eisteddfodau a chymdeithasau areithiol i chwareu eu '*buarth paban*' eu hunain yn ddiwarafun am ennyd.
Gwallter Mechain: Gwaith, ii. 291.

Babanaidd, *a.* babish, baby-like, babyish, infantile; childish.

Babandod, *sm.* infancy; babyship; babyhood; childishness.

O'i fabandod, from his infancy.

Babaneiddrwydd, *sm.* childishness, puerility.

Babanllyd, *a.* babyish; childishly silly.

Babanllys, *sm.* black archangel, black horehound (*Ballota*)?

Agripalma, *babanllys*, dynaden ddall, torloes.
Meddygon Myddfai, 281.

Babanoed, *sm.* infancy; childhood.

Babanu, *v.* to make a baby of; to treat as a baby or infant; to baby; to become a baby.

Bableg, *sf.* [im.: cf. E. *babble;* Fr. *babiller;* Germ. *babbeln:* apparently not connected with *Babel*, Gen. xi. 9] babble, babblement, prattle, chatter.

A'r fronfraith a luniwys i'r eos pa gystal gwr oedd y fwyalch, maint ei leg a'i ddysg, a gwirioned a mwyned gwas ydoedd. Heb yr eos, Ni waeth iti daw â'th ffreg a'th *fableg;* mi a fynaf ŵreiddach a milwreiddach, a thywysogeiddach gwr no'r mwyalch.—*Iolo Mss.* 175.

Bacas, } *pl.* bacsau (*for* bacasau, bagasau), *sf.*
Bagas, } [cf. L. *baxea, baxa*] a footless stocking, or a stocking the foot of which consists only in a strip covering the upper side of the foot, which is called *tafod y facas* or *dalyn y facas.*

Dydd gwyl Geiliau, at y bara haidd a'r *bacsau*=Plough-Monday (the end of the Christmas festivities), resume ordinary fare and working clothing.—*Gwent.*

Bacsau chwiwgi, } stockings without any feet,
Bacsau chwiwgwn, } simply covering the legs
Bacsau pen geist, } to the instep.

Bacsau ceffyl, the fetlock of a horse; shaggy hair growing around the pastern joint. Hence, *Llwyd y Bacsau*, the name of Sir Rhys ab Thomas's famous horse, on which he rode at the battle of Blackheath in 1497.

Bacon, *s.pl.* [=macon, macwn, magon: cf. *bag, bagwy;* L. *bacca* or *baca*] berries; acini.

Baconen, *f.* }
Baconyn, *m.* } (ō), *pl.* bacon, *s.* a berry.

Bacsen, *sf.* dim. of *bacas*, q.v.

Bacsog, } *a.* [bacas] wearing footless stockings;
Bacsiog, } having large fetlocks.

Ceffyl bacsog, a horse with large fetlocks; a shaggy-legged horse.

Efe a ä i'r ffair nesaf, ac a bryna bar o geffylau coesau *bacsiog*, ac ysgwyddau llydain, a mwng tew mawr.
Seren Gomer, xv. 41.

Iâr facsog, a hen with feathered legs.

Bacwn, ynau (*ȳ*), *sm.* [E. *bacon*, †*bacoun*, *bacun*, *baken;* O.Fr. *bacon;* L.L. *baco*, *bacona*, *baconus* (Du Cange, s.v.); Ir. and Ga. *bogun*] bacon, hog's flesh salted and dried.

Moch gwys, yspadda hwynt; a chystal a fydd eu *bacynau* a rhai y tyrchod.—*Cato Cymraeg* (Y Greal, 150).

Ystlymyn y bacwn, a bat (*vespertilio*); so called from its supposed partiality to bacon.

Bacwy, -on, *sm.* and *s.cl.* [bag] 1. a cluster; a bunch.

2. clustering fruit; a berry.

Cais *facwyon* y dyrysi, sef y mwyar, y rhai tyner, a brig banal, a brig rhuw, a'u pwyo yn fân ac yn fâl yng nghyd. *Meddygon Myddfai*, ii. 530.

Casgl y llysewyn yn nyddiau y Nadolig, pan fo'r gwyfon, sef ei *facwyon* neu'r ffrwyth, yn eu llawn addfedrwydd. *Meddygon Myddfai*, ii. 796.

Bacwyog, *a.* [=bagwyog] clustered; bunched; berried.

Eiry mynydd pysg yn llyn
Balch hebawg *vacwyawg* unbyn
Nid ef a geiff pawb a ofyn.
Engl. Eiry Mynydd: M.A. i. 551.

Bacwyog, *sf.* houseleek (*Sempervivum*).—*Meddygon Myddfai*, 289.

Bach, -au, *sm.* [C. *bah;* Br. *bâc'h;* Ir. *bacc*, *bacan;* Ga. *bacan*] a hook; a crook; a grapple, grapnel, or grappling-iron; a tenter; a hinge; a claw or talon.

Ac otino i tenid wint a *bacheu* ac wrth rafeu. ac ena i dieneidid wint.—*Brut Gr. ab Arthur* (A): M.A. ii. 230.

Am hyny y gosodaf fy *mach* yn dy ffroen, a'm ffrwyn yn dy weflau.—2 *Bren.* xix. 28 (cf. Esec. xxix. 4; xxxviii. 4).

Mal tynu *bach* trwy goed.—*Diareb.* (M.A. iii. 164).

Bach arad, the hook by which the team is attached to the plough.

Bach bugail, a shepherd's crook.

Bachau crochan, pot-hooks, pot-hangers.

Bach a dolen, *Bach a llygad*, } hook and eye, crook and eye.

Bach dor, *Bach drws*, } the hinge of a door.

A *bachau dorau* y tŷ, o fewn y cyssegr sancteiddiolaf, a dorau tŷ y deml, oedd aur.—1 *Bren.* vii. 50.

Bach deintur, a tenter-hook.

Bach gwair, a hay-hook; a barbed hook to draw hay from the rick.

Bach pysgota, a fishing hook.

Oddi ar y bachau, off the hinges.

Yn ei fachau (=yn ei grafangau), in his clutches.

Bach, -au, *sf.* [Ir. *bagh;* Ga. *bagh:* cf. *cilfach*, *ebach*, *Bachwy*] a nook, corner, or angle. Hence, *Y Fach*, the appellation of many places situated in a nook; as, *Y Fach*, in Lleyn; *Y Fach Ddeiliog*, in Penllyn; *Y Fach Goch*, and *Bach y Saint*, in Eifionydd; *Y Fach Wen*, in Arfon; and many others.

Bach y walbant, the angle formed by the wall and roof of a building, when the space is not filled up with masonry.

Bach, *cp.* llai, lleied, lleiaf, *a.* [O.Ir. *becc*, *bec;* Mod. Ir. *beag;* Ga. *beag;* Mx. *beg*] 1. little; small; minute.

Dyn bach, 1. a little or small man. 2. a child; an infant.

Wrth drochi y *dyn bach* yn y bedyddfan, efe a arfer y ffurf hon ar eiriau.—*Ll. G. Gyffredin* (Bedydd Neillduol).

A phan gyflawnwyd wyth niwrnod i enwaedu ar y *dyn bach*, galwyd ei enw ef Iesu.—*Luc* ii. 21 (cf. 16, 27).

Un bach (*f.* un fach; *pl.* rhai bach), a little one; a babe, an infant; a small one.

Gwyn ei fyd a gymmero ac a darawo dy *rai bach* wrth y meini.—*Salm.* cxxxvii. 9.

Pa beth sydd yn peri i'r anifeiliaid, ac i adar yr awyr, hebgor peth o'u hymborth eu hun . . . i borthi eu *rhai bach?* *Dr. J. Davies:* Llyfr y Res. II. i. 10.

Plentyn bach (*pl.* plant bach), a little, small, or young child; an infant.

Tŷ bach (*pl.* tai bach), 1. a small house (as compared with others). 2. a cottage, a cot; a house without land attached to it. 3. a child's imitation of a house; a little house. 4. a necessary house; a privy.

Bach y nyth, the last or youngest of a hatch, brood, or litter; the youngest child (with the subaudition of its being rather too much indulged).

Dillad bach, baby-clothes, baby-linen.

Dynan fechan fach, a very little woman.

Adar bach, small, little, or young birds.

Yn y bore bach, very early in the morning; with the dawn.

Yn araf bach, very slowly; slowly and gently.

Yn ddistaw bach, very silently, quietly, or privately; in confidence.

Yn gynnil bach, very gently or delicately.

Nid yw hyny ond peth bach, that is but a small matter.

Ychydig bach, very little.

2. an epithet of endearment, kindness, or familiarity, and sometimes of commiseration, to which the English has no precise equivalent. It expresses less than *dear*, its nearest Eng. synonym, is more familiar, and less emphatic. *Bach*, in this sense, does not necessarily imply littleness, except so far as diminutiveness conveys the notion of endearment; and it belongs much more to the spoken than to the written language, for much of its meaning depends on the tone of the speaker.

Fy machgen bach i, my little boy; my dear boy; my good boy; my good (little) fellow.—*C.S.*

Da fy ngeneth fach, that is my good little girl.

Dowch, Dafydd bach, dowch! come, David, that's a good man, come!—*C.S.*

3. junior, younger; lesser. Cf. *Bychan.*

Bachdro, -ion, *sm.* a sharp turn; a bend like that of a hook or crook; a maze.

Lle bachdroawg, neu â llawer o *fachdroion* ynddo, anhodd dyfod allan o hono.—*Walters.*

Bachdroad, -au, *sm.* a turning sharply; a sharp turn.

Bachdroawg, **Bachdroiog,** } *a.* labyrinthian; mazy; intricate.

Lle bachdroawg, a labyrinth; an intricate place.—*W.*

Bachdroawl, *a.* that turns sharply or acutely; labyrinthian.

Bachdrofa, -oedd, fëydd, fäu, *sf.* a labyrinth; a maze.

Yna y disgynasant oll, ac y crwydrasant mewn syndod trwy y *fachdrofa* o rodfëydd tanddaiarol, lle yr oedd y cyrff wedi eu gosod yn rhesi ar bob tu.—*Rasselas*, xlvii.

Bachdroi, *v.* to turn in an acute angle; to turn sharply or acutely.

Bachdroiog, *a.*=*Bachdroawg.*

Bachell, -au, *sf.* [bach] a nook or corner; a snare, a toil; a grasp.

Is law hyn, yr oedd *bachell* swrth, lle yr oedd rhai o'r potecariaid wedi eu malu, a'u gwthio i botiau priddion.
Elis Wynn: Bardd Cwsg, 83.

Bachelliad, -au, *sm.* a getting into a corner or nook; an ensnaring; a hooking; entanglement.

Bachellu, *v.* to ensnare; to trip one's heels; to supplant.

Cadw fi rhag y gwr [*gwŷr] traws; y rhai a amcanasant *fachellu* fy nhraed.—*Salm.* cxl. 4.

Bachellwr, wyr, *sm.* a snarer or ensnarer; a supplanter.

Baches, -au, *sf.* a pretty little woman (a term of endearment).

Dyn faches (=dyn fach), a little doll of a woman.

I'w gwneuthur, llafur nid lles,
Yn feichiog, fy *nyn faches!*—*D. ab Gwilym*, lxxi. 33.

Bachgen, *pl.* bechgyn, *sm.* [bach+dim. term. *cen* (=*cyn*, *can*): cf. *hurthgen*, *lloercen*, *penllorcan*, *surcan*] 1. a boy; a (male) child.

Rhodd ac adrodd, rhodd *bachgen.*—*Diareb.* (M.A. iii. 176.)

Pan oeddwn *fachgen*, fel *bachgen* y llefarwn, fel *bachgen* y deallwn, fel *bachgen* y meddyliwn.—1 *Cor.* xiii. 11.

Er yn fachgen, from a child; from childhood or boyhood.—2 *Tim.* iii. 15.

Bachgen mewn ysgol, a boy at school, a schoolboy.

Yr Hen Fachgen, Old Nick.

2. a youth, a young man (without special reference to age).

Y bechgyn, the boys; the young men; the sons (as opposed to the daughters).

Bechgyn a merched, boys and girls; young men and young women.

Dydd Llun Pasc, crammwyth; a'r rhospau ar yr achos hyny rhwng *bechgyn a merched.*—*Iolo Morganwg.*

Cati fachgen, a tomboy, a romping girl.—*S. W.*

Bachgen ifanc (*pl.* bechgyn ifainc), a young man; a bachelor.

¶ *Bachgen* is more delicate and respectful than *boy*, though the latter is its nearest English equivalent.

Y bachgen Iesu, the child Jesus.

Arosodd *y bachgen Iesu* yn Ierusalem.—*Luc* ii. 43 (cf. 40).

Bachgenaidd (ĕ), *a.* boyish; like a boy; childish.

Pan aethym yn wr, mi a rois heibio bethau *bachgenaidd.*
1 *Cor.* xiii. 11.

Chwareu bachgenaidd, boys' play; boyish games.

Bachgendod, -au, *sm.* boyhood, boyism.

Bachgeneiddio, *v.* to become boyish.

Bachgeneiddrwydd, **Bachgendid,** } *sm.* boyishness; childishness.

Pan aethym yn wr, mi roisym heibio *fachgeneiddrwydd* [**fachgendid*].—*W. Salesbury:* 1 Cor. xiii. 11.

Bachgenes, -au, *sf.* a girl, a lass, a damsel.

F' enaid wâr fynwes,
Unbenaidd beunes;
Cell bid rhag gwres
I gain *fachgenes.*—*Siams Tomas* (Cyfr. y Beirdd, 82).

Ac ef a orucpwyd, a nyni yn myned i weddïaw, bod i nebun *fachgenes*, ag iddi yspryd dewindabaeth, gyhwrdd â ni.—*W. Salesbury:* Act. xvi. 16.

Bachgenes â bochau gwynion, o Wynedd,
A wanws fy nghalon.—*W. Lleyn.*

Rhoddasant y bachgen er putain, a gwerthasant *fachgenes* er gwin, fel yr yfent.—*Ioel* iii. 3.

Bachgenos, *s.pl.*=*Bechgynos.*

Bachgenyn, *pl.* bechgynos, *sm.* 1. a little or young boy.

A thithau, *fachgenyn*, a elwir yn brophwyd i'r Goruchaf.
Luc i. 76 (cf. 66; Matt. xiii. 4, 5).

2. a boy, a lad, a youth; a young man.

Y mae yma ryw *fachgenyn*, â chanddo bum torth haidd, a dau bysgodyn.—*Ioan* vi. 9.

Cymmer bridd *bachgenyn* ifanc rhwng deg a deuddeg oed.
Meddygon Myddfai, ii. 347.

¶ Diminutives in Welsh, as in other languages, have sometimes the force of their primitives; so *bachgen* and *bachgenyn* are occasionally convertible terms.

Bachiad, -au, *sm.* a hooking; a bending like a hook or crook; a winding; a grappling.

Bachig, *a.* smallish; small; diminutive.

Bachigion, diminutives.

Bachigyn, *sm.* a very little thing; a very little while.

Bachigyn, *a.* very little, small, or minute.

Ychydig bychanigyn, a very little thing; a very little or short while.

Ychydig *bychanigyn* eto, a'r hwn sydd yn dyfod a ddaw, ac nid oeda.—*Heb.* x. 37.

Bachler, -iaid, *sm.* [from an early form of E. *bachelor* (O.Fr. *bacheler*), the source of which is not well ascertained: cf. *baglor*] a bachelor, a young knight.

Ac yna yd urdwyt Gi a Bown vab Terri ac ugeint o *uachleryeit* gyt ac wynt. odyna peri dwyn y goron. a choronhau Gi ohonei.—*Bown o Hamtwn*, ¶ 62.

Syr *bachler* tebic wyt y wr ar ormot kerdet.
Bown o Hamtwn, ¶ 53.

Bachog, *a.* hooked, curvated; bent; crooked; having many windings, turnings, or bendings.

Bachogrwydd, *sm.* hookedness; crookedness.

Bachol, *a.* tending to hook or grapple; hooking, grappling.

Bachu, **Bachio,** } *v.* 1. to hook, to hitch; to grapple; to bend.

Ewch a *bechiwch* hwy yng nghrog gerfydd eu tafod wrth y clogwyn eirias acw.—*Elis Wynn:* Bardd Cwsg, 92.

2. to form into nooks, recesses, or windings; to lurk.

Bachu 'r wyd ym mhob buches.—*Deio ab Ieuan Du.*

Bachwr, wyr, *sm.* one who hooks or hitches; a grappler.

Bachwy, -au, -on, *sm.* [bach (*f.*)+gwy] a bay.

Bachwy Baffin, Baffin's Bay.

Bachyn, *sm.* [dim. of *bach*] a small hook; a hook or crook.

Bad, -au, *sm.* [Ir. *bad;* Ga. *báta;* L.L. *batus;* A.S. *bát.* 'Cf. Gael. *bata*, a staff, a cudgel; Irish *bata*, a stick, a pole, or branch; *bat*, *bata*, a stick, a staff, *bat*. The original "boat" was a stem of a tree.' Skeat, Etym. Dict. s.v. *Boat*] a boat.

Tair llynges yn aches armes cyn brawd . . .
Gwnahawd *bad* betrawd.—*Taliesin:* M.A. i. 64.

Bwrw *badeu* allan awnaethant wynteu a nessau parth ar tir.—*Mabinogion*, iii. 82.

Nid rhaid march buan danad,
Neu bont ar aber, na *bad.*—*D. ab Gwilym*, lxix. 25.

Aethym i *fad*, ddyw Sadwrn,
Fel yr aeth, ysywaeth, swrn.—*Rhys Llwyd.*

Braidd y gallasom gael y *bad.*—*Act.* xxvii. 16 (cf. 30, 32).

Bad pysgota, a fishing boat.

Bad pysgotwyr, a fishermen's boat.

Doeth Harald vab Godwin mewn *bat pisgotwyr* y chware.
Brut y Saeson: M.A. ii. 515.

Bad yspeienna, an advice boat.

Badau Caerlleon, Chester boats; a sportive name sometimes applied to shoes or clogs unusually large and clumsy.—*S.W.*

Bad, *sf.* (cf. Br. *bad*, 'stupor;' C. *bad*, *badt;* *badus*, 'lunaticus;' Ir. *bath*] plague; pestilence.

Cad ar grad arall cad gawad guall
Cad mal *bad* a ball a phellt ar grud.
Gwalchmai: M.A. i. 197.

Y fad felen, (=y fall felen) the yellow plague or pestilence.

Ac ymewn eglwys en emyl Dygannwy e bu varw [Maelgwn] pan weles e *vat velen* drwy dwl dor er eglwys.
Brut Gr. ab Arthur: M.A. ii. 359.

¶ In the phrase 'y fad felen' it is not quite clear whether the unaffected initial should be *b* or *m;* but the analogy of the cognate dialects seems in favour of the former. With *bad* and *mad* cf. *ball* and *mall*. See *Mad.*

Badaid, eidiau, *sm.* a boatful.

Gyr alltudedd
Yn gareidiau, yn gofleidiau,
Yn lloreidiau, llawer adwedd,
Yn llongeidiau, yn *fadeidiau*,
Yn garteidiau, gwŷr i'w tudwedd.
D. Nanmor, i Iarll Penfro.

Badfa, -oedd, fëydd, *sf.* a place where a river is crossed by boat; a ferry. It forms several place-names.

Badred, -au, *sm.* } a boat-race, a re-
Badredfa, -oedd, fëydd, *sf.* } gatta.

Nid byth y pery'r *badred* rhwng y ddwy brifysgol, er mor boblogaidd ydyw y blynyddoedd hyn.
U. C. W. Magazine, iii. 162.

Badwr, wyr, *sm.* a boatman; a ferryman.

Badwriaeth, -au, *sf.* a boatman's calling or occupation; boating.

Badd, -au, *sm.* [a Teutonic word (A.S. *bæd*), which seems to be of comparatively late introduction into Welsh as an appellative, being first found registered in Lhwyd's *Arch. Brit.* 214, and taken from Henry Salesbury's Ms. Dictionary. It next appears in W. Evans's Dictionary (1771), and then in Pughe's (1794), who, deriving it from the non-existent *ba*, quotes as authority a couplet from L. G. Cothi, where it apparently denotes not *a bath*, but '*The Bath*,' in Somersetshire] a bath; a bathing-place.

Y byd o ddynion fal i'r *Badd*,
A ä oddi yna i'r noddfa nadd.—*L. G. Cothi*, III. vii. 17.

Tref y Badd, the town of Bath.

Aed tref gyd ag ef, Leon Gawr, er bod,
A *Thre'r Badd* a Winsawr.
Dafydd Nanmor, i Iarll Penfro.

Esgob Badd, the bishop of Bath.

A thrwy ganmawl rei o wyrda Lloegyr ae hescyb y kyssegrawd escob *Bad* ef yn vrenhin.—*Brut y Tywysogion*, 292.

Baddeg, -au, *sf.* [cf. *byddag*, *byddagl*] a loop; a buckle.

Baddeg esgid, a shoe-buckle.

Cywydd i geisio *baddegau esgidiau* gan Sion Mawddwy.
Llywelyn Sion.

Baddiad, -au, *sm.* a bathing.

Baddon, -au, *sm.* [see *Badd*, of which it may have been intended as plural; for Pughe calls it 's.m. aggr.' Cf. *Bathonia*, the Latinised form of Bath; and adj. *Badonicus*] a bath; a bathing-place.

Baddon clauar, a tepid bath.

Oni allwn ni dybygu, pe dechreuasai Ioan ar ei swydd yng Ngogledd Prydain Fawr, na throchasai efe na dyn na dynes am lawer o fisoedd yn y flwyddyn, oni allasai gael *baddon clauar.*—*Isaac Jones:* Esp. Matt. iii. 6.

Baddon twym, a warm bath.

Marchog y Baddon (=Marchog yr Enaint), Knight of the Bath.

Tref Faddon, } the town or city of Bath;
Caer Faddon, } formerly called *The Bath.*—*M.A.* ii. 2.

A phan ordiwedassant y llu. neur disgynnassei Arthur aelu y cedyrn od is *Kaervadon.*—*Mabinogion*, ii. 380.

Pob gradd a'i gofyn fal *Tref Faddon.*
L. G. Cothi, I. xxxiv. 33.

Bleiddud fab Rhun . . . a wnaeth esgyll i hedeg, ac hedodd o *Gaer Faddon* hyd yn Llundain.
Hen Ysgrif (Brython, ii. 193).

Afon Faddon, the river of Bath (apparently the Avon). One of the old names of Bristol is *Caer Odor Nant Baddon;* short, *Caer Odornant;* and still shorter, *Caer Odor* or *Caerodor.*

Bleiddud ab Rhun ab Lleon . . . a wnaeth ddinas ar lan afon *Faddon.*—*Hen Ysgrif* (Y Greal, 4).

Ac ef [Dyfnwal] a wnaeth ddinas ar lan afon Sabrina, ac a'i gelwis hi *Caer Odor;* canys yr afon fechan y sydd yn myned drwy y dref a elwir *Odornant y Badd;* a hi a elwir heddyw, o'r ddwy iaith, Brysto.—*Heu Ysgrif* (Y Greal, 5).

Gwaith Faddon, the battle of Badon; the action of Badon Hill (fought about A.D. 520).

Fal *gwaith Fadon* fawr wriawr oriain
Gwelais gadau geirw a rud feirw rain.
Cynddelw: M.A. i. 204 (cf. 209, 259, 262).

O oes Gwrtheyrn Gwrtheneu hyd *waith Badwn* yr ymladdawdd Arthur a'i hynaif â'r Saeson . . . wyth mlynedd ar hugain a chant. O *waith Badwn* hyd Gamlan, dwy flynedd ar hugaint.—*Llyfr Coch Hergest* (Brython, ii. 54).

Enaint Baddwm, baths of Badon; the hot waters of Bath.

Yna yd oerhaa *yneint Badwm.* ae dyffred iachwyawdyl auagant agheu.—*Brut. Gr. ab Arthur* (B): M.A. ii. 264.

Probably the same place is intended in the subjoined obscure quotations:

Gwerlig haeton gvaut verdidon *vaton* vet veint.
A.B. ii. 40 (cf. M.A. i. 579).

Cystuddfull bawddull *baddwm* y pechod
Yw'r mab bychan iad-lwm.
Dafydd y Coed: M.A. i. 496.

Baddondy, dai, *sm.* a bath-house.—*Gwyddoniadur Cymreig.*

Baddonle, -oedd, *sm.* a bathing-place.

Carlsbad ydyw y *baddonle* mwyaf enwog yn Germani.
Parthsyllydd, i. 372.

Baddug, *sm.* a mist, a fog; vapour.

Bae, *v.*=*bai*, *byddai*.

O *bae* arnat ti orthrin.

Trystan a Gwalchmai: M.A. i. 178.

Bae, *sm.* [E. *bay;* Fr. *baie:* from L. *baca* or *bacca*] bay, the bay-tree (*Laurus nobilis*).

Dail y bae, bay leaves.

Cymmer ychydig o *ddail y bae*, a'r geidwad wyllt, a dail syfi, a dail neu wreiddiau y samwl, a dail y gwyddwydd, a rhosmari; a mortyra bob un wrth ei hunan yn fâl mâl o'r llysiau hyn.—*Meddygon Myddfai*, ii. 519 (cf. 741).

Bae, -au, *sm.* [E. *bay;* Fr. *baie;* L.L. *baia;* Ir. *bagh*] a bay, an arm of the sea.—*C.S.*

Baeart, *sm.* [from E. *bayard*] properly a bay horse; but used in North-West Wales as a common name for horses, without any reference to the colour.

Ni'm dawr o'r Faenawr i'r Fan,
O ryw *faeart* rhy fuan.

L. G. Cothi, IV. xx. 11 (cf. VIII. vi. 21).

Baedd, -od, beidd, *sm.* [C. *bahet* (C.V.), *baeth*] a boar.

Pandaeth yr gaer nadyn. na mil. nar *baed*. nar cwn. na thy. nac anhed, nys gwelei yny gaer.—*Mabinogion*, iii. 151.

Baedd cenfaint, } a herd-boar; a boar set apart
Baedd cenfain, } for breed.

Guerth *baed kenuein* baed arall aallo cleinaw ahwch oe ulaen ac arall yny ol.

Cyfreithiau Cymru, i. 734 (cf. 446, 718, 742, 786, 790).

Baedd coed (*pl.* baeddod coed, beidd coed), a boar of the wood, a wild boar.

Pan gryssyei Garadawc y gat
Mal *baed coed* trychwn trychiad.—*Aneurin:* God. 309.

Kyvoethawc dwywes y koedyd. ty sydd aruthred yr *beyd koet*.—*Brut Gr. ab Arthur:* M.A. i. 102 (cf. 336).

O ierch a *beid coet*. nyt oed neb a wypei eu riuedi.

Bown o Hamtwn, ¶ 26 (cf. 2, 8).

Y *baedd* o'r *coed* a'i turia.—*Salm.* lxxx. 13.

Y Baedd Coed, the Woodland Boar; the old name of a constellation.—*Barddas*, i. 404.

Baedd gwyllt, a wild boar.

Ym mhob gwlad lle yr oedd *baeddod gwylltion*, yr oedd eu hela bob amser yn ddifyrwch mawr . . . ac yn y wlad hon ystyrid y *baedd gwyllt* yn helwriaeth ragorol.

Cylchgrawn, i. 230.

Ni bydd unawr *baedd* enwyllt
Heb ewyn gwyn o'i ben gwyllt.—*Sion Meirion.*

Baedd dof, } a tame or domesticated boar.
Baedd gwâr, }

Y Baedd, the Boar=a name given to King Richard III., whose badge was a silver boar.

Llew a bwch, parchell, y *baedd*.

L. G. Cothi, VIII. iii. 19 (cf. 10).

Y baedd arian oedd arwydd Rhicard III. ac am hyny efe ei hun a gyfenwid *Y Baedd.*—*W. O. Pughe:* Bardd, ii. 3.

Yna daw'r *Baedd*, llawn-waedd llu,
A'i fryd awch ar fradychu;
A Llew du yna llydan-waedd
A yr bw ar y *Baedd*.—*Robin Ddu ab Siancyn.*

Baedd, *sm.* a buffet, a beating; abuse.

Baeddaidd, *a.* boarish; like a bear.

Baeddgig, -oedd, *sm.* boar's flesh, brawn.

Baeddiad, -au, *sm.* [baeddu] a beating, striking, or buffeting; maltreatment; a soiling or bedraggling.

Baeddog, *a.* [baedd] having the nature or disposition of a boar; boarish.

Baeddol, *a.* of a boar; like a boar; boarish.

Baeddredog, *a.* [baedd+rhed-eg] going after the boar. 'Marem semper appetens. Dicitur de suibus sterilibus, quae licet usque subent, nunquam concipiunt.'—*Glossarium in Leges Wallicas*, 557.

Teithi hwch yw, na bo *baeddredawg*, ac nad yso ei pherchyll; a'i gorfod dair nos a thri diau rhag y fynyglawg. Ac os ei pherchyll a ys, neu o bydd *baeddredawg*, ei thraianwerth a adferir drachefn.—*Leges Wallicae*, III. v. 3 (7).

Baeddu, *v.* [L.L. *batto;* L. *battuo* or *batuo;* E. *beat:* cf. *maeddu*] 1. to beat, strike, bang, or thump; to buffet about; to bray, bruise, pound, or stamp; to maltreat, to abuse.

Pob edn o'r byd alltudryw
A'i *baedd*; ond rhyfedd ei byw!

D. ab Gwilym, clxxxiv. 33.

Hwy a'i daliasant ef, ac a'i *baeddasant*, ac a'i gyrasant ymaith yn waglaw.—*Marc* xii. 3 (cf. 5; xiii. 9).

Cymmer ychydig halen glas wedi ei sychu a'i bylori'n fâl, a chymmysg ef yn dda gyda melyn wi, drwy ei *faeddu* yn dda, a dod wrth y dolur.—*Meddygon Myddfai*, ii. 286.

2. to beat, vanquish, or conquer.

Bydd geidwad, *baedda* gedyrn.—*Lewys Morganwg.*

Er cael helaeth oruchafiaeth,
Buddugoliaeth—*baeddu* gelyn;
Drud y prynwyd, pan ganfuwyd
Rif a laddwyd—oer fael iddyn'!

Gwallter Mechain: Gwaith, i. 86.

3. to tumble about or wallow in the dirt; to bedraggle.

Baeddu dillad, to soil or bedraggle clothes.

Baeddwaew, -awr, *sf.* a boar-spear.

Baeddwr, wyr, *sm.* a beater; one who buffets; one who soils.

Baen, *s.pl.* kernels; nuts of stone-fruit; drupes.

Baenogen, *pl.* baenogion, } *sf.* a kernel; a stone
Baenen, *pl.* baen, } (of fruit); a drupe.

Baen, cnau, calonau eirin. *Baenen*, cneuen, carreg eirinen. *Baenogen*, eirinen. *Baenogion*, eirin, aeron cerrygog.—*O.V.*

Baeol, -au, *sm.* a pail; a pot. Sometimes written *paeol* (cf. Gr. πέλλα).

A *baeol* helyc: a *baeol* gwynn mangylchawc: a chlawr pobi: a dysgyl gic: a *baeol* helycbrenn . . . keinnawc kyureith atal pop vn o hynny.

Cyfreithiau Cymru, i. 582 (cf. 296, 722).

Boly baeol, a potbelly.

Ni fyn elw, ond fy nilid;
Ar fol y *Boly Baeol* bid.—*D. Llwyd ab Ll. ab Gruffydd.*

Baesg, -au, *sf.* [=baisg: cf. Ir. *basc*] a ring; a circle.

Baesg, modrwy; cylch.—*Havod Ms.*

Baesned, -au, *sf.* [C. *basnet;* E. *basnet, basinet;* L.L. *basinetum, bacinetum*] a basinet, a small steel headpiece.

A Bras a ddaeth â'i blaid yntau yn ei gylch; ac am ei ben *baesned*, ac yng nghoryn y *faesned* yr oedd eli gwerthfawr.—*Buchedd Collen* (Y Greal, 338).

Baewydd, (*sg.* -en, *f.*) *s.cl.* and *pl.* bay, bay-trees (*Laurus nobilis*).

Laurus, llorwydd, dail y cwrw, diodwydd, y bae, y *baewydd*.—*Meddygon Myddfai*, 287 (cf. 282).

Cais y sensegl, y rhai a fo â chalonau duon iddynt, a'r tresgl, a rhuw, ac os myni, dod ddalen o'r *baewydd*, a golch yn lân.—*Meddygon Myddfai*, ii. 781.

Bag, -au, *sm.* [cf. *ysbagau*] 1. a limb, shoot, or branch; a leg.

Bagau, legs, shanks; uffarnau, baglau, cluniau, &c.

Iolo Glossary.

A'i fagau i fyny, with his feet upwards; head over heels; topsy-turvy.—*Penllyn.*

2. a cluster (of grapes, nuts, plums, &c.); a bunch.—*Gwent.*

Bag o gnau, a bunch of nuts.

Bagau cwrel gardd Celi.—*Inco*, i'r Ser.

Bagad, -au, -oedd, *sm.* [Br. *bagad, bagat;* C. *bagad, bagas;* Ga. *bagaid*] 1. a cluster, a bunch; a group; a knot; a pendant.

Bagad grawn (*pl.* bagadau grawn), a cluster or bunch of grapes.

Wrth y grawn y deallir y gwin a wesgir o'r *bagad grawn*.
H. Perri: Egl. Ffr. iii. (cf. xvii.)

Bagadau, clusters; pendants.

Llun meillion gwyrddion, llun garddau Ffrengig,
Llun brig y goedwig yn *fagadau*.
L. G. Cothi, i. xxxi. 35 (cf. i. xiv. 44).

2. (*sm-f.*) a good or considerable number; a good many; a multitude, a troop, a company; many.

Bagad o bobl, a cluster of people; a considerable number of people; many people; a flock.

A *bagad o bobl* y ddinas oedd gyd â hi.
Luc vii. 12 (cf. Marc x. 46).

Os mawredd yw coledd cail,
Bagad gofalon bugail.—*Gro. Owain*, 12.

Defaid y fagad, sheep of the flock.

Trawaf y bugail, a defaid y *fagad* [*gorlan, cadw] a oysgerir.—*W. Salesbury:* Matt. xxvi. 31.

Bagadog, *a.* clustered, clustery, bunchy; growing in or hanging with clusters; having pendants.

Nid fforest rywiog heb goed *bagadog*,
Nid marchog arfog heb glog, heb gledd.
L. G. Cothi, viii. x. 53.

Bagadu, *v.* to cluster; to bunch; to group.

Bagaid, eidiau, *sm.*=*Bagad* 2.

Hyn a brofwyd gan *fagaid*.—*Meddygon Myddfai*, ii. 347.

Bagedyn, -au, *sm.* a small cluster; a bob, a small pendant.

Bagell, -au, *sf.* [=bachell] a nook or corner; a snare; a mesh.

Gochelwch rhag dyfod i *fagell* y rhwyd,
Fal buoch ys dyddiau â'ch pen yn y glwyd.
Sion Bradfford.

Gwrthoda ladau dyn chwannawg; byddant yn *fagell* i ti.
W. O. Pughe: E.D. i. 5.

Yr oedd efe yn y fagell, he was in the secret or plot; he had a hand in it.—*Gwent.*

Bagio, *v.* [bag: cf. *bagad, bagwy*] to crowd or press; to tread (hay, corn, &c.) so as to cause lodging and clustering.

Mae'r gwair wedi ei fagio, the hay has been trodden or beaten down.—*N. W.*

Bagl, -au, *sf.* [L. *baculus, baculum;* Ir. *bachall, bachol;* Ga. *bachall*] 1. a crook; a crutch.

Ef a gwnaeth idaw *bagyl* o haiarn, a hono en vlaenllym iawn. ar hon o damweiniei Duw idaw kafael kyfwrd y lladei enteu e dewyn.—*Brut Gr. ab Arthur:* M.A. ii. 376.

Ffon fagl (*pl.* ffyn baglau), a crutch; a stilt.

Ni raid i Arthur wrth *ffyn baglau*.—*Diareb.*

2. a crosier, a crook, a pastoral staff.

Hywel Da . . . a devynnawd attaw o bop kymhwt oe teyrnnas whegwyr aaruerynt o awdurdawt ac ygneittaeth a holl eglwysswyr yteyrnnas aaruerynt o teilygdawt *bagleu* megys archescob Mynyw ac escyb ac abadeu aphrioreu hyt ylle aelwir y Ty Gwynn ar Taf yn Dyuet.
Cyfreithiau Cymru, i. 338.

Ac yr awr honno wynt awelynt yn dyuot y wrth y nef. gwr gwedy gwisgaw esgobwisc ymdanaw. a *bagyl* yn y law. a choron am y benn.—*St. Greal*, § 67.

Balch y *bagyl* baguy eur y hemyeint.
Cynddelw: M.A. i. 244.

Bagl esgob, a bishop's crosier or pastoral staff.

Bagl ac efengyl, crosier and gospel.

Pann teruynno llys maer achyghellawr bieu dangos y teruynneu drosti os eglwys *bagyl ac euegyl* a teruyna.
Cyfreithiau Cymru, i. 536.

3. [cf. Ir. *ball*] a limb or member; one of the extremities (especially the lower ones).

Cerdded ar (*ei*) *bedair bagl*, to go on all-fours.

A'i faglau i fyny, with his feet upwards; head over heels; topsy-turvy.—*S. W.*

Rhwymo pedair bagl un, to bind one's four limbs; to bind a person hand and foot.—*S. W.*

Baglau brain (=traed brain, *N. W.*), crows' feet, pot-hooks, scrawled letters.—*S. W.*

4. a branch, shoot, or sprout.

Cais blanigion yn ifainc, mal maint gwiail, a thor, a dyro ar y drybedd uwch ben y tân, a derbyn y defnynau a ddêl o'r bonau, a chymmer lonaid llwy o fêl, a blaen llysiau'r tai, a'r penau a'r *baglau* o'r cennin, ac ychydig o fwstardd paill . . . a berw y cwbl yng nghyd.
Meddygon Myddfai, ii. 90.

Baglan, -au, *sf.* [dim. of *bagl*] a crook; a hook.

Baglan brenn neut kynhayaf
Rud redyn melyn kalaf:
Neur digereis agaraf.
Llywarch Hen: A.B. ii. 259 (cf. 260, 435).

Baglawl, *a.* relating to a crook or crosier; entangling.

Bid gwir *baglawl* bid rygyngawd gorwydd.
Llywarch Hen: M.A. i. 125.

Baglog, *a.* 1. crutched; having a crook or crutch; curved; entangled.

Ffon faglog (1), a staff with a curved top; a crook, a crosier.

Yn eglwys S. Harmon, ger llaw Rhaiadr Gwy, yr oedd *ffon faglog* S. Curig oddi ar lofft y grog, wedi ei goreuro a'i harddu â meini a pherlau gwerthfawr.
Theo. Evans: D.P.O. ii. 4 (275).

(2) a staff with a curved or cross top; a crutch or crook.—*S.*

2. limbed, having limbs.

Cain faglog, fair of limb; fair-limbed.

Kynn bum *kein vaglawc* bum kyffes
Eiryawc keinmygir ny eres
Gwyr ar goet [Argoed] eiryoet am porthes.
Llywarch Hen: A.B. ii. 259 (cf. 435).

Gwrdd faglog, strong-limbed; stout of limb; brawny.

Tri *gwrdd faglawg* Y.P. Rineri mab Tangwn a Thinwaed *Faglawg*, a Ffryder mab Dolor Deifr a Bryneich.
Trioedd: M.A. ii. 5.

3. bearing or entitled to bear a crosier; having a pastoral staff.

Llyma lyfyr ogyfreith awnaeth Hwel Da yny Ty Gwynn ar Daf yn Yfed, yr hwnn y doyth yno o wyr Hwel y chwegwyr doethaf o bop kymwt Ynghymry o lygion a seith vgeint *baglawc* o archesgyp ac esgyp ac athrawon da ac abadeu aphriorieit, a doythyon Kymry oll.
Cyfreithiau Cymru, i. 340 (cf. 620; ii. 82, 366).

Baglogion, those entitled to bear a crosier (such as archbishops, bishops, and abbots).

Pedwar peth a ganalod y brenhin yny law ehun: vn yw, gwneuthur bath; eil yw gwneuthur kyfreith; trydyd yw kynal breint *bagylogyon* y deyrnas.
Cyfreithiau Cymru, ii. 364.

¶ *Baglog*, in the expression 'esgidiau *baglog*' (*Ios.* ix. 5), appears to be an error for *maglog*, the word used by Bp. Morgan, *b* and *m* being in some cases commutable initials. 'Esgidiau *maglog*' would denote that the shoes were full of holes (*maglau*); but 'esgidiau *baglog*' (from

bagl-u), if a different word be intended, would imply that the shoes entangled the feet of the wearers. The original signifies patched; cf. the Eng. A.V.: 'old shoes and clouted;' with which the marginal reading (*clytiog*) of more recent Welsh editions agrees.

Baglor, -ion, -iaid, *sm.* [formed from *bagl*, with reference to the supposed derivation of L.L. *baccalaureus* or *baccalarius* (=bachelor) from *baculus*=bagl] a bachelor=one who has taken the first or lowest degree at a university.

Baglor Celfyddydau (*pl.* Baglorion Celfyddydau), Bachelor of Arts.

Ym mha eglwys blwyf neu gapel bynnag y bo curad, ag y sy'n Athraw Celfyddydau, neu *Faglawr Celfyddydau*, neu'n amgen yn abl ddigon i ddysgu ieuenctyd . . . yr ydym yn mynu . . . i'r curad dywededig ddysgu plant y plwyf.—*Canonau Eglwysig*, 78.

Baglor Cyfraith (*pl.* Baglorion Cyfraith), Bachelor of Law.

Baglor Cyfreithiau, Bachelor of Laws.

Baglor Cyfraith Leyg, Bachelor of Civil Law.

Baglor Duwinyddiaeth, *Baglor Dwyfyddiaeth*, *Baglor Difinyddiaeth*, (*pl.* Baglorion Duwinyddiaeth, &c.) Bachelor of Divinity.

Yr ydym ninnau wrth hyny . . . yn gosod ac yn ordeinio, na pheidio archesgobion ac esgobion ag arferu y gwisgad sy'n gynnefin i'w graddau. Hefyd, yr holl ddeonau, pen colegau, archdiaconiaid, a phrebendariaid mewn eglwysydd cadeiriol a cholegol, a hwy'n offeiriaid neu'n ddiaconiaid, Doctoriaid Difinyddiaeth, Cyfraith, a Physygwriaeth, *Baglorion Difinyddiaeth*, Athrawon Celfyddydau, a *Baglorion Cyfraith* y bo ganddynt fywioliaeth eglwysig, a wisgant yn arferol ynau a cholerau'n sefyll.—*Canonau Eglwysig*, 74.

Bagloriaeth, -au, *sf.* bachelorship, baccalaureate.—*W.*

Baglu, *v.* 1. to hold with a crook; to hook.—*P.* 2. to entangle; to ensnare; to become entangled.

Baglu traed, to entangle the feet.

Baglur, -on, *s.cl.* [metathesis of *blagur* or *balgur*] =*Blagur*, *Balgur*.

Bagluro, *v.* to bud; to shoot, sprout, or germinate; to bloom or blossom; to emanate.

Weithiau ef a *faglura*'r cyfryw henwau o'r fan a darawer.—*Dr. Gr. Roberts:* Gram. 111.

Bagluryn, *sm.*=*Blaguryn*.

Per bren dawn, pair obryn da,
Por gwyn *bagluryn* Buga.—*Iolo Goch*, i R. Mortimer.

Baglwr, wyr, *sm.* 1. one who entangles or ensnares. 2. one with (awkward) limbs.

Mae'n haeddu cael, y *baglwr* cam,
Y cebystr am ei wddwg.—*Hen Ganu.*

Bagod, -au, *sm.*=*Bagad*.

Canys er bod enw a son mawr am *fagod* o feirdd hen trwy Gymru, hyny a fu yn fwy o eisieu gwŷr cyfanddysg, odidawg, a diddiffyg mewn gwybodaeth ac ieithoedd, nog o herwydd eu rhagoriaeth nhwy.
Dr. Gr. Roberts: Gram. 272.

Bagwn, *sm.* strength, might, potency.—*P.*

Bagwnog (*ŵ*), *a.* strong; potent.—*D.*

Bagwy, -on, *sm.* a cluster; a bunch; a raceme.

Gorwyn blaen afall blodau *fagwy*
Balch caen coed bryd pawb parth yd garwy.
Gwalchmai: M.A. i. 193.

Ac adan rut em ruteur vodrwy
Ac uch wynep gwyn gwineu *vagwy*.
Cynddelw: M.A. i. 217 (cf. 244).

Bagwy gyr ym malch asgre.—*N.*

A chanti dyga waddawl o foddhäus
Fagwyon i decäu ei ddifryw ddail.
W. O. Pughe: C.G. v. 229.

Bagwy on, the hanging clusters of the ash.

Baglawg bydin *bagwy on*
Hwyaid yn llyn graenwyn tòn.
Llywarch Hen: M.A. i. 129.

Bagwyo, *v.* to cluster; to bunch; to hang in clusters.

Bagwyog, *a.* clustered; in clusters; racemous, racemed.

Bagwyol, *a.* clustering; bunching.

Bangaw, *a.* [ban+caw?] prompt, ready; fluent, flowing, eloquent; fine, elegant; noble; elaborate.

Gnawd eryr ebyr abar gwet *bangaw*
Y bencrud wy gyuet.
Llyw. ab Llywelyn: M.A. i. 293.

Ymadrodd bangaw, flowing or eloquent speech; elegant language.

Ac yna y dywawt gwr balch telediw. ac *ymadrawd bangaw* ehawn gantaw.—*Mabinogion*, ii. 379.

Iaith fangaw, fine, eloquent, or elegant language: 'poetical language, as flowing in harmony, being bound together, as the lines or strains agreeably to the metres.' (*P.*)

Cerdd fangaw, an elaborate poem or song.

Pan vynno yvrenhines gerd oe gwaranndaw yny hystauell canet y bard teulu idi tri chanu ogerd *vangaw* trwy lef kymhetraul megys na rwystro ar y neuad.
Cyfreithiau Cymru, i. 388.

Ac eos gain fain *fangaw*,
O gwr y llwyn ger ei llaw.
D. ab Gwilym, xlv. 25 (cf. cxiv. 37).

Bangaw lais eos dlosaf.—*D. ab Gwilym*, cci. 25.

Cangen lawen olewwydd
Yn ei llaw *fangaw* a fydd.
Dafydd Ddu Eryri: Corff y Gainc, 35.

Bangawrwydd, *sm.* fluency; promptness; elaborateness.

Bangu, **Bangaw,** *sf.* [ban+cu?] a handbell rung before a funeral procession; a handbell.

Bangu, cloch law a genid rhag cyrff idd y llan.
Hengwrt Ms.

Y Lasgwm nyd oet trwm tri vrtassawc
Edewid *bangu* gu gadwynawc.
Ar deu ereill ureisg y Vrycheinyawc.
Gwynfardd Brycheiniog: M.A. i. 270.

O gylch yr un amser yr oedd cloch hynod a elwid *Bangaw* yn eglwys Glasgwm ger llaw Maesyfed, yr hon a fuasai gynt ym meddiant Dewi yr archesgob. Yr oedd gwraig o'r parthau hyny wedi cael cennad i ddwyn y gloch (canys cloch law oedd hi) i gastell Rhaiadr Gwy, lle yr oedd ei phriod yn garcharor, am ei bod yn gobeithio y cai efe ei rydd-did ar waith gwŷr y castell yn clywed pereidd-lais y gloch *Bangaw:* ond hwynt-hwy a gymmerasant y peth yn ddiystyr, gan wthio allan y wraig, a chymmeryd y gloch oddi arni, a'i chrogi wrth hoel yn y ueuadd. Ond erbyn y boreu, tref Raiadr . . . oedd yn fflamio hyd entrych awyr, a'r cwbl a losgodd yn ulw mân, ond yr hoel y crogasid y gloch arni, lle yr oedd y tân heb fenu.
Theo. Evans: D.P.O. ii. 4 (275).

Bai, *pl.* beiau, *sm.* [cf. O.Ir. *bét*] a fault; an error; vice, a crime.

Rac *beieu* rieu yny rennid but
Dy rybut Ruffut a rybuchid.
Llywarch ab Llywelyn: M.A. i. 287.

Heb *fai* nid neb ar aned.
Englynion Eiry Mynydd: M.A. i. 544.

Cas a ogano arall am y *beiau* a fo arno ei hun.—*Diareb.*

Aml *bai* lle nis cerir.—*Myv. Arch.* i. 15 (cf. iii. 147),

Llawn *beiau* oll yw'n bywyd;
Llawn *bai* yw pob lle'n y byd.—*Sion Tudur.*

Ba wr a fu heb ryw *fai*?—*Iorwerth Fynglwyd.*

Bwrw bai ar, *Rhoi bai ar*, to lay the blame on; to find fault with; to blame.

Nid gwiw *bwrw bai ar* y truan hwnw am fy llestair i ysgrifenu.—*Gronwy Owain*, 280.

Cael bai ar, } to find fault in; to find fault
Cael bai yn, } with.

Nid wyf fi yn *cael* dim *bai ynddo*.—*Ioan* xix. 6.

Ar fai, at fault; to blame; faulty.

Yr ydych ar fai, you are to blame.

Y mae bai mawr arnoch, you are much to blame.

Mae bai arno, he is to blame; he is blameworthy.

Pan fetho'r gwr aredig, bydd *beion* ar y swch;
Pan fetho'r heliwr ddala, bydd *beion* ar y bwch;
Ni ellir tori'r castell gan *feion* sy'n y tŵr;
Pan fetho'r diawl â nofio, bydd *beion* ar y dwr.—*Pennill*.

Beiau y wasg, errors of the press, typographical errors; errata.

Bai, *v.* [bod, *v.*]=*Byddai*.

Baich, *pl.* beichiau, *sm.* [C. *be;* Br. *béac'h*] 1. a burden; a load.

Nachaf y dynyon yndyuot. gwr coch gwaruoel gogrispin. a *beich* gwrysc ar y gefyn. a gwreic veinlas vechan.
Mabinogion, ii. 373.

Beich o bechodeu nyd bychodrwyt.
Einion ab Gwalchmai: M.A. i. 333.

O Fair! ys teg o forwyn,
A fu ar fraich *faich* mor fwyn!—*D. ab Gwilym*, cxi. 17.

Nid *baich* ond *baich* o bechod;
Yn y farn, gwae ddyn o'i fod.—*D. ab Meredydd ab Tudur*.

Araf yr eir i orallt
A *baich* yng ngwrthwyneb allt.—*Dafydd Nanmor*.

Yma y gwelwch ei fod yn ein hannog ni i gymmeryd yr iau hwn, yn unig fel y gallai ef wrth hyny ein llonychu ni, a thynu'r *baich* oddi arnom: ïe, meddaf, tynu'r *baich* oddi arnom a'n llonychu, ac nid ein llwytho ni a'n blino mewn modd yn y byd: ein dadlwytho ni o *feichiau* trymion ac ieuau'r byd hwn: oddi wrth *faich* gofal, a *baich* trymder, a *baich* cynfigen, a chas, a malais; a *baich* balchder, a *baich* ymgyrhaeddyd am swyddau, a *baich* cybydd-dod, a *baich* annuwioldeb, a *baich* tân uffern. Oddi wrth yr holl *feichiau* a'r ieuau gofidus hyn yr ewyllysiai Grist ein gwared ni, trwy roi ar ein gwarau ni ei iau ef yn unig a'i *faich*.
Dr. J. Davies: Llyfr y Res. II. i. 9.

Heb awen, *baich* yw bywyd,
A'i rhodd yw rhyngu bodd byd.—*Gronwy Owain*, 2.

Bwrn a baich, bundle and burden.

Puybynnac y barner ydau dadanhud *bwrn a beych* oe ryuot ay *wurn* ac ay *ueych* ay dan ac ehun ay dat kyn noc ef yn kyuanhedu ayluyt ary tyr ew a dyly bot yno.
Cyfreithiau Cymru, i. 172.

Baich cefn, a burden or load that is, or may be, carried on the back; a back load or burthen.

Os trwy datanud y gyt a *beich keuen* ydoeth yr tir a gynnhelis ytat gynt hyt y varw tri dieu atheirnos ykeiff orffwys.—*Cyfreithiau Cymru*, i. 538 (cf. ii. 678, 680).

Baich a gwasanaeth, burden and service.

2. [cf. *beichiog* 2] conception; an embryo or fœtus.

Colli y baich, to miscarry.

Llestair neu rwystro ymddwyn, *colli'r baich* neu ddistrywio'r ffrwyth o wir fodd; neu amcanu hyny.
Allwydd Paradwys, 91.

Baich, *pl.* beichiau, *sm.* [cf. *boech*] an outcry or scream; a bellow; a roar.

Baid, *pl.* beidiau, *sm.* liveliness; briskness; life.

Od ä â'i enaid, *baid* banw,
I'r lwyd-long wyllt erlid-lanw.—*D. ab Gwilym*, xcix. 25.

Baidd, *pl.* beiddiau, *sm.* a challenging, daring, or adventuring; a challenge; a venture.

Bain (*sg.* ban), *s.pl.* [ban, *sg.*] heights, high places, downs, uplands.

Yn ubain uch *bain* y byd.—*Rhys Goch Eryri*, i'r Gwynt.

Bainc, beinciau, *sf.* [=mainc: C. *benc;* Ir. *binse;* Ga. *being;* Mx. *benk, beck;* A.S. *benc:* cf. *banc*] a bench; a seat.

Yssid hynn ar vrynn gwynn goleu vchel
Gan ochel drygoet drygweithredeu
Mynogi a pherchi a pharch *beinkeu*
Yn eglwys a chynnwys a channwylleu
Yssid gyfetach gan gyfeteu
A charu Duw yn drech no phennaetheu.
Gwynfardd Brycheiniog: M.A. i. 273.

Y *beinkeu* ar tubyst, ar dor, ar gynor, ar gordrysseu, ar trosteu, ar trothwyeu keinawc kyfreith yw gwerth pob un o honunt.—*Cyfreithiau Cymru*, i. 720.

Baint (*sg.* bant), *s.pl.* heights, high places, downs.

Cain cynnwyre—amlwg *baint;*
Gnawd cwsg ym more gan fraint:
Ffawd i ddiawg nid rhyfaint.
Englynion Cain Cynnwyre: M.A. iii. 141.

Bais, *s.cl.* [bas] 1. shallows, flats, shoals, shelves; a shallow place, a ford.

Hyd pan ddillyngwys Crist gaethiwed
O ddwfn *fais* affwys abred.—*Taliesin:* M.A. i. 170.

Nid eilhaws dignaws dygnais ddawn dadlau
Ar ddyn didlawd cwrtais
No myned hwyrged hirgais
I Werddon o Fôn o *fais*.
Gr. ab D. ab Tudur: M.A. i. 480.

Gallas arglwyt was aer gleis Lywelyn
Lewenyt dwfyn a *beis*.
Llyw. ab Llywelyn: M.A. i. 303.

Y don bengrych-lou grochlais,
Na ludd, goel budd, ym' gael *bais*.—*D. ab Gwilym*, xli. 1.

2. low water; shallow water.

Mor tywawt y sydd yno. ar gro yn kerddet heb ddwfyr. ag ef a leinw yn tonneu megys mor arall. ag ny orffwys vyth. ag ny ellir vynet arnaw ar *veis*. nag o un wedd arall.
Yst. Gwlad Ieuan Fendigaid, § 6.

Baisg, *sm.* [cf. Ir. *basc*] the same as *baesg*.

Baisg, modrwy; cylch.—*Havod Ms.*

Boed hir hoedl fraisg *vaisg* gwasgawd cenedloedd
Cain adlam noeth a thlawd.
Gr. ab Meredydd: M.A. i. 448.

Bait, *v.* [from *bod*]=*Byddit*.

Bâl, *pl.* baloedd, *sf.* a peak, a point; a conical hill or mountain. Hence, *Y Fâl* (Eng. The Sugarloaf), a conical mountain in Monmouthshire.

Cain cynnwyre—gwynnawg *bâl;*
Gnawd i euawg hir oral:
Gwell cyflawnder nog aur mâl.—*Myv. Arch.* iii. 142.

Mwy nid af i blith y syml daiog-feirch a rygais y gwyllt-*faloedd* acw.—*Iolo Mss.* 174.

Eiry y fâl, the snow of the peak.

Gwedd eiry y fâl, a hue like the snow of the peak.

Morwyn fyddi ddiddïal
Erof fi, wedd *eiry y fâl*.—*D. ab Gwilym*, cli. 33.

I fun eiliw nyf ar *fâl*.—*Llanover Ms.*

A'th dal, lliw manod *baloedd*,
Fy ngwen wyl, fy ngwenwyn oedd!
D. ab Gwilym, ccxlvii. 19.

Bâl, *pl.* balau, *sm.* [Ir. & Ga. *ball:* allied to E. *boll, ball;* L. *bulla:* cf. *bul*] 1. a bundle.

Bâl o lin, a bundle of flax.

2. the bud or first shooting of trees and plants; bloom.

Ond i mi nis daw y dydd,
A thirion hwyr a bore ni nesânt,
Na golwg *bâl* y gwanwyn, blodyn haf,
Na deadellau, chwaith na dynawl drem.
W. O. Pughe: C.G. iii. 45.

Bal, *a.* [Br. *bal;* Ir. and Ga. *ball*] 1. having a white face or forehead (as a horse); marked with a blaze or white streak on the face.

Ceffyl bal (*f.* caseg fal), a horse with a blaze in the forehead, a white-faced horse.

Drwg, Siaen, yw dy raen, fal dreinach, dy fod
Ar dy farch cyfeddach:
Dwl, bwl boen, dal y *bal* bach;
Dos gan bwyll; disgyn bellach.
Dafydd Llwyd Mathew (Cyfr. y Beirdd, 139).

¶ In Welsh it is confined (in this sense) to the horse; but in Breton it is applied to other animals as well. See Le Gonidec, *Dict. Bret.-Franc.* s.v. *Bal.*

2. gloomy, glum; black-visaged; grim-faced.

Edrych yn fal, to look gloomy or black.

Bwci *bal* yn y wal.—*Llên y Werin.*

O fewn palasau hefyd bu llawer bwgan *bal*
Yn gwneyd trybestawd cethin, lle byddai aur mewn gwal.
Gwynionydd: Briallen, 14.

Yr oedd arni hi ddychryn wrth feddwl am gynnal y fath gynnadledd â'r bwci *bal.*—*Ystên Sioned*, 82.

¶ *Bal* seems to imply that the face is of a different colour from the rest of the body; hence the apparently contradictory meanings. It is in common use in both senses in S.W.

Bal, *adv.*=*Mal*, *fal*, *fel.*—*Gwent.*

Bala (*ā*), -on, *sm.* an outlet or efflux.

Bala llyn, the outlet or efflux of a lake. Hence it is the name of several places at the outlets of lakes; as, *Bala*, in Merionethshire, situate at the issue of the Dyfrdwy from Llyn Tegid; *Bala Deulyn*, in Carnarvonshire; *Bryn y Bala*, near the outlet of the river Seiont out of Llyn Peris, Carnarvonshire; another between Aberystwyth and Aberdyfi; and *Pont y Bala*, between the two lakes of Llanberis.

'*Bala* is the exit of a river out of a lake.'
E. Lhwyd (Baxter Glossarium, 264).

Bala, -on, *sm.* a bud, shoot, or sprout; a blossom.

Bala coed, the budding or blossom of trees.

A lluman a ddaw a garw ddisgynn
A mal *balaon* Saesson syrthyn
Cymry cynyrcheid cyfun ddullyn.
Golyddan: M.A. i. 157.

Bala, -od, -on, *sm.* a wolf; 'a wolf's cub.'—*P.*

Peis Dinogat e vreith vreith
O grwyn *balaot* ban wreith.—*Aneurin:* Gododin, 854.

Ac am gewin iraeluid boid *balawon*
A mineich in vynich in varchogion.
A.B. ii. 7 (cf. M.A. i. 578).

Yr awran gwelir yr ŵyn gwaelion,
Ar eu cynnydd y rywiawg hinon,
Yn llamsach, rai bach arab-wychion,
Heb erioed weled dybryd alon,
Nac i'w difa *falaon*, na gauaf,
Un gwyw chwerwaf, na'i guchiau oerion.
Rhisiart Powel: Tym. 11.

¶ *Balaod* in the preceding passage from the 'Gododin' may be intended for *belaod*, or martins, whose skin is spotted ('*braith*'), and not for wolves, to which the epithet cannot properly be applied.

Balaen, **Balain,** **Balen,** **Belan,** *sm.* [=malaen, malen, melan: from the town of *Milan* in Italy, celebrated in medieval times for its steel blades] steel; a steel blade.

Dreigiau'n chwarterau o'r tân,
Dyrnfolau'r drin o *felan.*—*L. G. Cothi*, v. i. 53.

Ban wisgawdd, rudd gymmlawdd ri,
Balain uch Llethr-dir Beli.—*Iolo Goch.*

Balain pedwar meib Elis.—*Tudur Aled.*

Aeth dur wial ar *falain*,
A thair rhod ar wartha'r rhai'n.—*Gutyn Owain.*

Asgell rhyfel o *felan.*—*Gutyn Owain.*

¶ Pughe makes *balain* the pl. of *balaen;* but the names of materials, metals, and the like, seldom have a pl. form. See *Belan.*

Balai, eiod, *sm.* the tongue of a buckle.—*P.*

Balalwyf (*sg.* -en, *f.*), *s.pl.* and *cl.* [cf. *balwydd*, *balwyf*, *palalwyf*] palm-trees, palms; palm-wood; the palm. Also written *palalwyf.*

Mal y *balalwyf* efe a lwydda er gormeiliad, ac fal eryr yn wybren nefoedd ymgoda efe yn uchel, ac edrycha ar ogoniannau yr haul.—*W. O. Pughe:* E.D. i. 4.

Balannol, *a.* budding; putting forth or producing buds; germinant.

Balannu, *v.* to bud; to spring forth; to germinate, sprout, or shoot.

Tri pheth a wynfydant galon llafurwr: ymddyfiad gwawn; cân y gog; ac yn (onwydd) yn *balannu.*
Trioedd y Llafurwr.

Diweddaf coed yn hardd a gwnynt, ac
Oddi wrth eu brig ar daen toreithiawg ffrwyth
Dibynai, neu yn gain *balennynt* wull.
W. O. Pughe: C.G. vii. 374.

Balant, annau, *sm.* a budding; a springing or shooting out; a sprouting; germination; foliation.

Am bren, dyfaler ei dwf teg, ei faint, ei frig, a tharddiad ei flagur, a'i *falant*, a'i flodau, a'i ffrwyth.
Cyfrinach y Beirdd, 23 (cf. 17).

Ddyffrynoedd byd! er cymmaint eich ardduniant,
Eich godidawgrwydd, a'ch blodeuog *falant*,
Mae Dyffryn Clwyd yn llawnach o dlysineb,
Yn meddu mwy rhagorion ar ei wyneb
Na'r oll a roddwyd i chwi o dirioni;
Pa ryfedd i Hyfrydwch ei goroni?
O. W. Jones: Myrddin Wyllt, xiv.

Balasar, *sm.* [by+llasar?] azure, sky-colour. Sometimes spelled *ballasarn:* see Davies, s.v.; and Lhwyd, *Arch. Brit.* 214.

Balasarn, -au, *sm.* [by+llasarn (sarn)? but the form suggests connection with Eng. *ballast;* a word of doubtful origin, though 'now found in most of the European languages'] ballast.

Ni ellid cael un man i daflu y *balasarn* o'r llongau a ddychwelent yno. Yr oedd y claddfeydd yn llawnion; cofiwyd y gallai y *balasarn* fod o ddefnydd; felly huliwyd yr hen feddau ag ef, yn ddigon tew i dori beddau newyddion ynddo.—*Cylchgrawn*, ii. 193.

Balasarnol, *a.* having ballast; in ballast.

Balasarnu, *v.* to ballast; to put in ballast.

Balaw, -on, *sm.* [bâl+aw] efflux of water.—*P.*

Balc, -iau, *sm.* [Teutonic: O.E. *balc*, *balca*, *balke*, *baulke*, *baulcke*, *baulk;* Mod. E. *balk;* Ir. *balc;* Ga. *bailc*] 1. a balk, a break in a furrow. In Davies and subsequent dictionaries. *Malc* is another form.

Gwnawn weithredoedd tiroedd taerion,
Yn llawn o *falciau*, 'n dyllau deillion.
Lewis Morys: Didd. Teul. 111.

Croesir yr holl gae glo gan agenau dyfnion, neu gan ryw ddefnyddiau ereill heb law glo. Gelwir hwynt *malciau* ym Mhowys.—*Cylchgrawn*, i. 250.

2. a fault; a miss or slip; a balk.

Da chwi, gyrwch y ganiad i'r Llew i'r Allt Fadog . . . a dymunwch arno chwilio *balciau* yn yr Gymraeg fanylaf y bo modd.—*Gronwy Owain*, 372.

Balcawd, odau, *sm.* [balc] a balcony.—*Gwyddoniadur Cymreig*, viii. 193.

Balciad, -au, *sm.* a balking; a breaking in furrows.

Balcio, *v.* to make balks (in ploughing); to plough up in ridges; to balk.

Balciog, *a.* having balks in furrows; full of balks.

Balciwr, wyr, *sm.* one who makes balks in ploughing.

Balch, *pl.* beilchion, beilch, *a.* [Br. *balc'h;* Ir. *balc, bailc*] 1. proud; haughty; arrogant; towering. Often used approvingly in M.W., being regarded as 'the honest pride of conscious virtue.'

Oedd *balch* gwalch golchiad ei lain
Oedd *beilch* gweilch gweled ei werin.
Dafydd Benfras: M.A. i. 308.

Ac yna y dywawt gwr *balch* telediw.—*Mabinogion*, ii. 379.

Dwg hyn yn *falch*, fwyalch fau,
Yn gariad i'r dyn gorau.—*D. ab Gwilym*, cclix. 53.

Balch fydd ei geraint uwch ben,
A pharant dair offeren.—*Sion Cent.*

Y beilchion, the proud, proud persons.

Tâl eu gwobr i'r *beilchion.*—*Salm.* xciv. 2.

Cerddediad balch, a proud gait; an erect airy walk.

Y mae yn falch genyf hyny, } I am proud of
Yr ydwyf yn falch am hyny, } that.

2. towering, lofty; stately; grand; superior, fine; superb; fine-grown. Generally applied to inanimate objects. Cf. *M.A.* i. 244.

Gwenith balch, fine-grown wheat.

Tyfu yn falch, to grow up fine and lofty.

Balch fre, a high or towering hill.

Ac er bod a'm deu feirch o du *balch fre* Freidyn.
Gwalchmai: M.A. i. 194.

Balchaidd, *a.* proudish, somewhat proud.

Balchäu, *v.* to be, grow, or become proud; to make proud; to pride (one's self).

Am y tegwch hwnnw mi a *velcheeis* yn vwy noc y dylyasswn.—*St. Greal,* § 27 (cf. 29).

Nid *balchäu* a orug mewn llawenydd dyniol.
Sion Trefor: Buchedd Marthin.

Balchder, -au, } *sm.* pride; haughtiness; hau-
Balchedd, -au, } teur; arrogance; loftiness;
Balchineb, } pomp.

Mynet aoruc e Saeson i'r dinas hwnnw i mewn. ac o dremyc *balchder* a difrawt ar Uthyr ae lu. adaw pyrth e dinas yn agoret.—*Brut Gr. ab Arthur:* M.A. ii. 296.

Purwyn arglwyd yw. ac ny cherda gyt ac un aniueil o ryuic a *balchder* rac y urenhineidet.—*Mabinogion*, ii. 7.

Balchder a'i gydymaith a gafas gwymp ar unwaith.
Diareb. (M.A. iii. 149.)

Tri pheth a wna wraig yn anniwair: tegwch yn ei hwyneb; ffolineb yn ei phen; a *balchedd* yn ei chalon.
Trioedd Moes: M.A. iii. 191.

Mae'r gwr call yn dywedyd mai *balchedd* oedd dechreuad ein mynediad ni oddi wrth Dduw. O herwydd trwy *falchedd* y troed calon dyn oddi wrth Dduw ei wneuthurwr. *Balchedd*, medd ef, yw dechreuad pob pechod. . . Ac megys trwy *falchedd* a phechod yr ydym ni yn myned oddi wrth Dduw, felly y mae Duw a phob daioni yn myned oddi wrthym ninnau.
Ed. Iames: Hom. i. 101 (cf. Eccl. x. 13, 14).

Balchderau 'r byd ni wedd i'r sant,
Na thrachwant na digllonder.
Iolo Morganwg: Salmau, ii. cxxii. 3.

Nis anghofia gwr ei wraig briod, oni edrycho ef ar degwch arall o ferch; na gwraig ei gwr priod, onis edrych ar gyfoeth ac anrhydedd o rodres arglwyddïaidd, a gwychder *balchineb.*—*Iolo Mss.* 179 (cf. 254).

Balchder Llundain, London pride (*Saxifraga umbrosa*).

Balcheiriog, *a.* proud speaking; that speaks proudly.—*W.*

Balchïaidd, *a.* rather proud; arrogant; conceited.

Pa ham y darfu i'r Pab Paschalis ysgrifenu mor *falchïaidd* o hono ei hun?—*Morus Cyffin:* Diff. vi. 4.

Balchïo, 1. *vn.* to become proud, high-minded, or haughty.

Gwyddost i'r rhai hyn *falchïo* yn eu herbyn hwynt.
Neh. ix. 10 (cf. 16, 29).

O herwydd *balchïo* o ferched Sïon.—*Esa.* iii. 16.

2. *va.* to make proud; to pride.

Am hyny dy galon a'th *falchïodd.*—2 *Bren.* xiv. 10.

Balchu, *v.* to make proud.

Aerwalch balch *balchu* fy ngwely.
Dafydd Benfras: M.A. i. 309.

Balchwr, wyr, *sm.* a proud or haughty person; an exalted person.

Ae balchlann rug y balchneint
Ae balchvur ae *balchwyr* testeint.
Cynddelw: M.A. i. 244.

Baldar, *sm.* [from *Baldar* or *Baldur* (O.N. *Baldr*), the Scandinavian deity: cf. O.E. *baldar, baldare, baldur,* and *Balder's brae* or *brow*] the herb satyrion (*Satyrium*).—*H. Davies:* Welsh Bot. 82, 156.

Baldardd blodeuwyrdd, frog satyrion (*Satyrium viride*).—*H. Davies:* Welsh Bot. 82, 156.

Baldardd, -ion, -au, *sm.* [bâl+tardd] a budding; a breaking out of the buds; a shooting or sprouting.

Baldardd, } *v.* to bud; to shoot, sprout, or
Baldarddu, } germinate.

Baldardd, -au, *sm.* = *Baldordd.*

Baldarddol, } *a.* budding; sprouting, germi-
Baldarddus, } nating, shooting.

Baldarddu, *v.* = *Baldorddi, Baldorfi.*

Baldog, -ion, *sm.* a short punch; a squab.

Oes *baldog* o Sais boldyn?—*Gwilym Tew.*

Baldog, -au, *sm.* some article of dress.

Gwerthu'r tabar ar bara
A gwerthu'r *baltog* du da.—*M. Dwygraig:* M.A. i. 489.

Baldordd, } -au, *sm.* babble, babblement, prat-
Baldardd, } tle, idle or senseless talk; nonsense; balderdash.

Baldardd y bol bras, a rumbling noise in the stomach.

Baldordd, } *v.* to babble, prattle, prate, or
Baldorddi, } tattle; to talk foolishly.

Baldorddus, } *a.* babbling, prattling, tattling;
Baldarddus, } loquacious.

Baldorddwr, } wyr, *sm.* a babbler, prattler, or
Baldarddwr, } tattler.

Baldorfi, *v.* [=baldorddi, *f* and *dd* being in several cases commutable] = *Baldorddi.*

Balddu, *a.* [bal + du] black-browed, dark-visaged, black-faced; gloomy.

Edrych yn falddu, to look black or gloomy.—*Dyfed.*

Baldduo, *v.* to become black, dark, or gloomy.—*Dyfed.*

Balennyn, *sm.* [balant] a bud; a sprout or shoot.

Braich uwch *balennyn* llennyrch;
Brych-waith ei braich a'i thyrch.—*Rhys Tren*, i Fwcled.

Balgur, -on, *s.cl.* [=blagur] a bud, sprout, shoot, or germ; buds; bloom.

Balhau, *v.* [bâl] to spring out; to drive out.—*P.*

Bali, *sm.* [bal] whiteness in the forehead of a horse; white-blaze, white-face.

Ceffyl â bali, a white-faced horse.—*S. W.*

Balm, *sm.* [L. *balsamum;* O.E. *bawlme, baulme, balme, bawm, baum;* Ir. *balma;* Ga. *balma, ballan*] balm.

Dygwch yn anrheg i'r gwr, ychydig *falm*, ac ychydig fêl, llysiau, a myrr, cnau, ac almonau.
Gen. xliii. 11 (cf. xxxvii. 25).

Dywedir y bydd marw y cantharus yn gyttrym ag y gosodir ef mewn *balm;* nid anllai, er bod *balm* o honaw ei hun yn enaint aroglber iawn.—*Morus Cyffin:* Diff. iv. 26.

Ai efe heïbio eu
Pabellion cain, adawa bellach idd
Y blyslawn faes, trwy lwyni per, a bryw
Flodeuawl oglau, cassia, nard, a *balm.*
W. O. Pughe: C.G. v. 312.

Balm cryf i'm clwyfau o bob rhyw.
Dafydd Jones: Hymnau Watts, ii. 86.

Balm o Gilead,
Balm Gilead, } balm of Gilead.

Pwy ddyry im' *falm o Gilead,*
Maddeuant pur a hedd!—*W. Williams:* Hymn. 340.

Gwed am rinwedd *balm Gilëad.—Blodau Ieuainc,* 104.

Balmwydd (*sg.* -en), *s.pl.* [balm+gwŷdd] trees yielding balm or balsam; balsam, balm, balsamum.

Balsamwm, *balmwydden.—Meddygon Myddfai,* 282.

Y falmwydden, the balsam, the balsam-tree.

Balog (*ă*), -au, *sf.* 1. a pinnacle, a turret. 2. the tongue of a buckle; a fibula.

Gwregys y cledyf o gordwal Ewyrdonic du. a throstreu goreureit arnaw. a gwaec o asgwrn elifant arnaw. a *balawc* purdu ar y waec. . . A gwregis ohydgen newydgoch a throstreu eur amyl arnaw. a gwaec o asgwrn moruil arnaw. a *balawc.* a *balawc* purdu arnaw.
Mabinogion, ii. 386, 387 (cf. 189).

Balawg fechni, surety that resembles the tongue of a buckle (fast at one end and loose at the other); that is, an imperfect or defective surety; where one party, out of the three necessary to constitute a lawful suretiship, is wanting: the three being the creditor, debtor, and surety.

Rhaid yw dyfod tair llaw yng nghyd wrth roddi dyn yn fach: llaw y mach; a llaw y neb a'i rhotho yn fach; a llaw y neb a'i cymmero; ac ymffyddiaw o law i law. O bydd un llaw eisieu o hyny, yn ymffyddiaw, *balawg fechni* y gelwir honno. . . Ansawdd *balawg* yw bod y naill ben iddaw yn rhwym a'r llall yn rhydd.
Leges Wallicae, II. iv. 53.

Cyd boed mach y gan y neb a'i rhoddes o fyned y llaw yn eu gilydd iddynt hwy, nid mach i'r neb nis cymmerth, a'r llaw yn eu gilydd: wrth hyny y mae *balawg fechni* honno.—*Leges Wallicae,* IV. xxviii. 1 (cf. 2).

3. a flap, a valve; an apron; the flap of a pocket; a pocket.

A'i ddwylaw yn ei falog, with his hands in his pockets.—*Dyfed.*

4. *pl.* -ion, *sm.* [Br. *belek,* †*baelec*] a priest.

Ac ual yd yttoed yn kerdet y dyffrynn. ef awelei varchawc yn dyuot yny erbyn. ac arwyd *balawc* arnaw. ac erchi y vendyth awnaeth. Och a truan heb ef ny dylyy gaffel bendyth. ac ny phrwytha itt. am wisgaw arueu dyd kyuuch ar dyd hediw. . . Duw gwener y croclith yw hediw. . . A pharth ar gaer y doeth. ac ar borth y gaer y kyuaruu ac ef y *balawc* a gyuaruuassei ac ef kynno hyny. ac erchi ei vendyth aoruc. . . Ar pedwyryd dyd arofun awnaeth Peredur y ymdeith. ac adolwyn yr *balawc* dywedut kyfarwydyt ywrth gaer yr enryuedodeu.—*Mabinogion,* i. 287.

Balog (*a*), *sf.* corr. of *Melog,* q.v.

Balogaeth, -au, *sf.* presidency.—*P.*

Balon, *a.* [llon?] willing; contented; at ease.—*H. Salesbury.*

Balwg, *s.cl.* [bâl] the tufts of flax.—*Gwent.*

Balwydd (*sg.* -en, *f.*), *s.pl.* and *cl.* [the form seems to have originated in a confusion of *balm* (balsamum) and *palm* (palma); hence *balmwydd* for *palmwydd* (sg. *palmwydden, y balmwydden*); and as W. *palf* represents L. *palma, balmwydd* (for *palmwydd*) may have become *balfwydd,* and for euphony *balwydd.* But both *balwydd* and *balwyf,* as well as *balalwyf,* may be modified forms of *palalwyf,* from L. *pala,* the plantain-tree (*Musa paradisiaca,* Linn.), mentioned by Pliny, which Dr. Davies (s.v. *Pala*) describes as 'pren yn yr India'] palm-trees, palms; the palm; palmwood.

Can, aml, dywedir, chwyfa awel nos
Is *balwydd* Cedron delynori rhin,
Ac, mad fal gwlithion Hermon i lonhau,
Ar glust y crwydryn mera alaw maws.
W. O. Pughe: Pal. 5.

Balwydden, a palm-tree, a palm.

Balwyf (*sg.* -en, *f.*), *s.pl.* and *cl.* [=*balwydd.* With *balwyf* and *balwydd* cf. *llawryf* and *llawrwydd,* and other instances of the interchange of *dd* and *f:* but an assumed connection with *llwyf* (*llwyfen*) may have influenced the form]=*Balwydd, Palmwydd.*

A chrydr ar belydr *balwyf,*
A cherdd o'th fiaen o raen rwyf.
Iolo Goch, i R. Mortimer.

Pughe uses it as fem. sing. (=*balwyfen*) in the subjoined quotation, and treats *balalwyf* in the same way; but in the glossary of 'Geiriau Cyfystyr' (*Pal.* 74) he gives *balwydd* and *palmwydd* as the equivalents of *balwyf.*

Nis tyrfai bwyall ar y gwaith,
Nac amgen ddur; yr adail dawel fal
Pe *balwyf* dal a darddai.—*W. O. Pughe:* Pal. 20.

¶ Other forms are *balalwyf* and *palalwyf,* q.v. Pughe explains *balalwyf* (sf.) by 'palm-tree,' and *balwyf* (sg. *balwyfen*) by 'palm-wood;' but *palalwyf* (sf.) by 'lime-tree; also called *gwaglwyf.*' Davies (s.v. *Palma*) has: 'pren palalwyf, *palwyf,* palmwydden, palmidwydden, y pren gwrthbwys.' Lhwyd (*Arch. Brit.* 214) gives '*balalwy*' (=balalwyf), 'a palm-tree,' from the vocabulary of Henry Salesbury.

Ball, -au, *sf.* [cf. *mall:* C. *bal* (C.V.); Ir. *ball,* a spot, *ballach,* spotted, freckled; E. *bale*] 1. plague, pestilence, pest.

Ball a newyn, plague and famine.

Ac nit edewit ena en enys Prydein erwng *ball* a newyn namyn a allws kyrchu difeith vynydoed ac emporth o hely. Ac un vlyned ar dec e paraws y *vall* hono en enys Prydein.
Brut Gr. ab Arthur: M.A. ii. 385.

Ni adewid yn ynys Brydain rhwng newyn a *ball* ond yr hai athoedd yr diffaith y gaissio byw ar gic hely.
Brut Tysilio: M.A. ii. 385.

Cad mal bad a *ball.—Gwalchmai:* M.A. i. 197.

Ball ar lyw am lanneu Hafren.—*Cynddelw:* M.A. i. 222.

Ball, sef echryshaint, neu blag; ac o wenwyn yn myned yn y corff y daw.—*Meddygon Myddfai,* 295.

Ac yn y dydyeu hynny . . . y distrywir kyureith a gwirioned. ac y kryn y daear yn ymrauaelon leod. ac ynyssed. a dinessyd. â brenhinaetheu a ossodir o uoduaeu. ac y byd tymhestloed a *ball* ar y dynyon.
Prophwydoliaeth Sibli, § 12.

Y fall felen (=y fad felen), the yellow plague or pestilence.

A gwedi dengmlynedd yn heddwch y daeth y clefyd mawr a elwir y *fall felen* ar holl ynys Prydain; a hyny a ddechreues pan oedd oed Crist yn 674. Ac achaws y *fall* honno ydd aeth Cadwaladr a llawer o bob goreuwyr y Brytaniaid i Lydaw. . . A'r newyn a'r *fall* a barhëis unmlynedd ar ddeg.—*Brut Aberpergwm:* M.A. ii. 468.

2. eruption; protuberance.—*P.*

Ballasarn, *sm.* [=balasar, q.v.] azure, sky-colour.—*D.*

Ballasarn o bwyll isod.—*Gr. Hiraethog*, am Gleddyf.

Ballasg, -au, *sm.* 1. the prickly or rough shells of fruit; husk.

Ballasg cnau, the same as *masgl cnau*, the husk of nuts.

Pond *ballasg* tew sy i'r cnewyll,
Pefr benglymau cangau cyll?
Dafydd ab Gwilym, xlii. 45.

2. (*pl.* -od) a porcupine.

Yr arfau nad oes gan y draenog ond yr eiliw o honynt, a welir yn y *ballasg* mewn cyflwr mwy perffaith.
Y Ddaiar a'r Creaduriaid, i. 425.

Ym mhlith y gweddill, gellir nodi y *ballasgod*, draenogod, ysgyfarnogod, cwningod, llygod mân a mawr.
Gwyddoniadur Cymreig, viii. 54.

[We adduce the word chiefly for the sake of pointing out a remarkable connexion between one set of words denoting sharp and thorny objects, and a second signifying fishes or reptiles, which runs through several languages . . . Gaelic, *asc*, a serpent; *easg*, an eel; *iasg*, a fish; Welsh, *ball-asg*, a porcupine; *ballawg*, a hedgehog.—*Garnett:* Essays, 64].

Ballasgog, *a.* covered or set with prickles (as rough shells of fruit); prickly.

Maen perl a dyf mewn crogeni rhyw bysgod *bellesgog* ym Môr yr India; yn yr un modd ag y gwelwn ni y maen glain yn tyfu yn y pysgod gyda ni, ac ym mhenau nadroedd.—*Llanover Ms.* 1. 162.

Ballasgol, *a.* tending to be prickly or rough.—*P.*

Ballasgu, *v.* to form into a husk; to shoot out prickles.—*P.*

Ballaw, *v.* to bawl, to shout out, cry, or scream.

Ballaweg, -au, *sf.* a casting net.

Ballawec deudec keinnawc [atal].
Cyfreithiau Cymru, i. 584.

Gaflaweg viii Ceinawg [al. *ballaweg* deudeg ceinawg].
Leges Wallicae, iii. vii. 146.

Balleg, -au, *sf.* 1. a purse; a bag.

Araith annheg aeth yn *falleg*.
Madog Dwygraig: M.A. i. 488.

Y gwr dall mawr ei *falleg*,
Yn nhref Aber dyner deg.—*R. ab Dafydd Llwyd.*

Bod moelron i'm dwyfron deg,
Neu ellyll yn y *falleg*.—*Guto'r Glyn.*

2. a bow-net or weel.

Balleglys, -oedd, *sm.* hanaper court.—*Gwyddoniadur Cymreig.*

Ballegrwyd, -au, *sf.* a bow-net, a wear-net.

Ballegrwyt pedeir keinawc kyfreith.
Cyfreithiau Cymru, i. 724 (cf. 584).

Casglant hwynt yn eu rhwyd, a chynnullant hwynt yn eu *ballegrwyd*. . . Am hyny yr aberthant i'w rhwyd, ac y llosgant arogldarth i'w *ballegrwyd*.—*Hab.* i. 15, 16.

¶ What precise kind of net is intended here, or in the Welsh Laws, is not quite clear. The Eng. A.V. has *drag* in the text and *flue net* (=A.S. *fleoge-net*=fly-net) in the margin.

Ballog, -ion, -od, *sm.* a hedgehog, an urchin.

Bâm, *sm.* [=balm: Br. *bam*] balm, baulm, balm-mint, balm gentle (*Melissa*).

Megis safwyrusion neiddiau sinam a *bâm* y rhoddais aroglau; ac megis myrr etholedig y rhoddais hygar safwyr.
D. Ddu Hiraddug: M.A. i. 572.

Bân, *a.* [Ir. *bán;* Ga. *bàn;* Gr. φανός] white; whitish; pale; wan.—*Penfro* (*Lhwyd*).

Ceffyl bân (*f.* caseg fân), a white or grey horse.

Gwenith bân (=gwenith gwyn), white wheat.

Ban, -au, *sf.* [C. *ban;* Ir. *beann, benn;* Ga. *beinn;* Mx. *beinn*] 1. a height; a high place; an eminence; what rises above its surroundings; a summit or top; a peak; a hill or mountain. 'It is the appellative of several mountains;' as, *Banau Brycheiniog* (sometimes called the Brecknock or Breconshire Beacons), and *Ban uch Deni* or *Ban Arthur*, in Brecknockshire; *Y Fan*, in Carmarthenshire; *Y Banau Duon*, in Cardiganshire: *Tal y Fan, Pen y Fan, Bwlch y Fan, Cefn y Fan*, are other instances of the use of the word in place-names.

Diwedd-barth y llyfr hyn a fyfyriwyd dan berthi, a dail gleision, mewn gronyn o fangre i mi fy hunan a elwir y Clun Hir, ym mlaen Cwm y Llwch, a than odreuon mynydd *Ban wch Deni*. Rhai a eilw y mynydd hyn *Ban Arthur;* ereill Moel Arthur. . . A llawer o enrhyfeddodau ereill . . . a ydys yn eu hadrodd gan gyffredin y wlad honno; ac yn enwedig gan y sawl a arferynt o ymgyrchu i'r moelydd a'r *Banau* hyny er mwyn bugeila.
Dr. I. D. Rhys: Gram., Rhag. 8.

Pwy is y *Banau*'n hapusion hwyntau?
Pwy uwch y *Banau*, ond selau Sion?
L. G. Cothi, i. xxxviii. 19.

Nid ynt hyn nid ynt iau
No mi yn eu *banau*.—*Taliesin:* M.A. i. 30 (cf. 19, 67, 448).

Fal hyn y telir sarhâd brenin: Can mu yng nghyfair pob cantref o'i arglwyddiaeth, a gwialen ariant cyhyd ag o'r llawr hyd yng ngeneu y brenin pan eisteddo yn ei gadair, a chyn frased a'i hirfys; a thri *ban* y erni, a thri y deni, cyn frased a'r wialen.—*Leges Wallicae*, i. vi. 2.

O Ionathan, syrthiaist ar *fanau* dy wlad!
Gwladgarwr, v. 72 (cf. 186).

Ban caer, the summit of a wall or rampart.

Gwenhwyvar ae morynnyon yar *vann y gaer* yn edrych arnadunt.—*St. Greal*, § 5.

Tutuulch cyuulch a oreu vulch
Ar *van caereu* gan vynydauc.
Taliesin: M.A. i. 21 (cf. 19).

2. (*sm.*) a horn (of an animal).

Ban hydd, a hart's horn or antler.

Tawl bort o *van hyd* pedeir arhugeint [atal].—Tawl bort o *van* eidon deudec keinnawc.
Cyfreithiau Cymru, i. 580 (cf. 296; L.W. 267).

Kymryt y wenenllys vân, ar kyngaf mân, ar ganywein, a roec. ar diwythyl, ar uabcoll, a lludw *bann hyd* a ladher ae gyrn ar y benn, ac eu berwi trwy wîn coch yn oreu ac y galler.—*Meddygon Myddfai*, i. 21.

Ban eidion, the horn of an ox.

b. a drinking horn, cup, or bowl.

Bum *ban* bum banhwch
Bum gawr yn rhythwch.—*Taliesin:* M.A. i. 44.

Gwelais hael yn heiliaw *ban* llawn
Yn meddu medged i oru eirchiawn.
Gwalchmai: M.A. i. 202 (cf. 580).

In this sense the word is also written *pan* (q.v.).

Ef am rhoddes medd a gwin o wydrin *ban*.
Taliesin: M.A. i. 67.

Gwirawd adygyr a digawn atan
Gwin o *bann* ran radlawn.
Cynddelw: M.A. i. 234 (cf. 266).

c. a horn (for sounding); a trumpet.

Canaf can caraf cau wyf gwaethylfan
Canu cerd am borth am byrth cloduan
Cyfodwch cenwch cenyf o'm *ban*
A mi feird imewn a chwi allan.
Cynddelw: M.A. i. 211 (cf. 256).

Pymhed welygort pymhedran om kert
Keritor [kenitor?] yn eu *bann*.
Cynddelw: M.A. i. 256.

3. what is conspicuous, prominent, or characteristical; top; a point; a characteristic; an article.

Argluyd Duw erglyw eurglaer *vannyeu*
Arglwyd llanw a threi rei on reidyeu.
Gr. ab Meredydd: M.A. i. 470.

Koffav Yessu yssy bwyllad ym *bann*
A moli Caduan gan y gannyad.
Llywelyn Fardd: M.A. i. 361.

Torrais ogredeu *bannau* beunydd.
Llywelyn Goch: M.A. i. 534.

Banau ffydd, articles of faith or belief.

Adrodd i mi *fanau* dy ffydd.—*Ll. G. Gyffredin.* (Cat.)

Banau llyfr, the contents of a book; prominent points or divisions of a book.

Banau y llyfr hwn.—*Llyfr Gweddi Gyffredin.*

Pedwar ban y byd, the four quarters of the world; the four cardinal points.

Ai rhyfedd yw rhoi hefyd
O Forgan bedwar *ban byd?*—*L. G. Cothi*, III. xii. 63.

Sain Haleliwia fo 'm mhob man
Trwy bedwar *ban y byd.*—*Emyn.*

Banau y lleuad, the quarters or quadratures of the moon; the syzygies of the moon. Cf. s.v. *Adfan.*—*Iolo Mss.* 52.

Banau haul, the solar quarters=the equinoxes and solstices.

Tri pheth anhebgor y sydd ar ddefod cadair a gorsedd, sef eu bod . . . ar *fanau haul* a lleuad o barth amser y ffwyddyn.—*Barddas*, ii. 50 (cf. 48, 54, 94).

Ar bedwar amser arbenigion yn y ffwyddyn y mae cadw a chynnal gorsedd a chair wrth [fraint] a defod beirdd Ynys Prydain, nac ym mraint unrhyw gadair ardal ba bynnag; sef yw'r amseroedd hyny, pedwar *ban haul.*
Iolo Mss. 52.

Ban pennill, a line, part, or division of a stanza; a strain.—*Cyfrinach y Beirdd*, 48–171.

Ban cyrch (=cyhydedd gyrch), a kind of peculiar Welsh metre.

A hwy ganasant ar y naw gorchan, sef yw hyny, y naw cyssefin golofn cerdd dafod, ac ar y *ban cyrch*, a hupynt, a thriban milwr.—*Cyfrinach y Beirdd*, 8 (cf. 49).

Colofn Prydain y geilw Einion Offeiriad, ac ereill, y *ban cyrch.*—*Iolo Morganwg* (Cyfr. y Beirdd, 49).

Banau prydyddiaeth, the characteristics of poetry.

Prif amcan Gruffydd ab Nicolas, pan drefnodd eisteddfod fawr Caerfyrddin, oedd chwilio allan *banau prydyddiaeth*, parth synwyr-bwyll a chelfyddyd ar iaith, a threfn, a mydryddiaeth.—*Cyfrinach y Beirdd*, Rhagdd. 14.

Ban cywydd, a distich of a poem.

Ban ymadrodd, a clause or sentence.

Brawddegau, *banau* heb wall,
Da eiriau hawdd ei deall.—*Tegid:* Gwaith, 133.

Ban cyngeni (=man cyn geni, man cynenid), a congenital or birth mark, a mother's mark, a mole.

Banau doethineb, the cardinal or principal points of wisdom; the maxims of wisdom.

A phan wypo'r awenydd y maint a fo gofyn o'r gelfyddyd wrth gerdd dafawd, a'r tri chof, a'r breiniau, a'r defodau, a chyfrinach barddas, a *banau doethineb*, a medru ar gerdd dafawd o'i waith ei hun yn ddifai ddiwall ym marn pencerdd, sef yw hyny, bardd gorseddog, cled yng nghyfarch gorsedd.—*Iolo Mss.* 60 (cf. 53).

Trydydd yw, dosparthu ar gyfarwyddyd a gwybodau barddoniaidd, sef *banau doethineb* yr hen Gymry.
Barddas, ii. 102.

Ar fan ac amlwg, prominently and conspicuously; openly and manifestly.

Am dri achos y dylai'r beirdd gynnal cadair a gorsedd a llafar a dadgan, *ar fan ac amlwg*, ac yng ngolwg a chlyw gwlad ac arlwydd.—*Barddas*, ii. 50.

4. (=man) a place; a spot, a mark.

Ny byt angloduan y *bann* y bo.
Llygad Gwr: M.A. i. 343.

Ban, *a.* 1. high; lofty; elevated; conspicuous, prominent.

Ban giur pan ddisglair
Bannach pan lefair.—*Taliesin:* M.A. i. 65.

Oedd *ban* gawr am ben garthan.
Elidir Sais: M.A. i. 346.

Mynydd ban, a high mountain.

Pan llewych huan ar *vann vynyd*
Llywy vun wy hvn aeth oe hedryd.
Ior. Fychan: M.A. i. 415.

O gelloedd wybren y disgyna'n chwyrn
Y curwlaw nerthus ar y *mynydd ban.*—*Daniel Ddu*, 31.

Lloer fan, the high moon.

Kalan hyturef tymp dyt yn edwi
Calaf gan *lloer uann* llwrw uenegi.
Llyw. ab Llywelyn: M.A. i. 281.

Adar ban, mountain birds.

Addfwyn gaer y sydd ai gwna cyman
Meddut a molut ac *adar ban.*—*Taliesin:* M.A. i. 67.

Lliw ban, a high, vivid, or glaring colour?

Nawdd Ieuan *liw bann* ben diwydion
A fendigawdd Christ croes arwyddion.
Gr. Ynad Coch: M.A. i. 399.

Teulu ban, a high family.

Mal *teulu bann* Benlli Gawr.—*Cynddelw:* M.A. i. 213.

Gras ban, sovereign grace.

Efangel uchel iechyd
Duw a'i *ras ban* dros y byd.—*Nicander:* St. Paul, ii.

2. loud, high, high-sounding.

Eryr Eli *ban* ei lev.—*Llywarch Hen:* M.A. i. 109.

Holion angerddolion Hu,
Er bâr yn *ban* daranu.—*W. O. Pughe:* H.G. 16.

Cog fan, the loud cuckoo.

Calan gaeaf kein gyureu adar
Byr dydd *ban* cogeu.—*Llywarch Hen:* M.A. i. 124.

Uchenaid fan (*pl.* ucheneidiau ban), a deep sigh.

Gwaedd fan, } a loud cry, an outcry, a great
Diaspad fan, } shout.

Tair gosteg gyffredin y sydd: cyrch golychwyd; maes arglwydd; a gorsedd beirdd; ac ynddynt cynnal pob rhybudd, a phob *gwaedd fan*, a phob gwad, a phob gair a gwrthair, hyd ym mhen undydd a blwyddyn.
Barddas, ii. 54 (cf. 48).

Bâr ban, high or violent rage or passion.

Dychymriw tonn amliw am lan
Dychymer uvelyar *bar bann.*—*Casnodyn:* M.A. i. 431.

Taron ban, a loud or high-sounding cymbal.

Deffröid y delyn yna, *taron ban*
A dyfn-lais udgorn llefynt.—*W. O. Pughe:* Pal. 20.

Ban, *adv.* [modf. of *pan*] when; at which time. See *Pan.*

Ef lledi bysc yng corwc
Mal *ban* llad llew llywywc [*al.* llyuiuc, llywiog].
Aneurin: Gododin, 862 (cf. 651).

Ban ddisgynnwys Owein rhag biw ei dad.
Taliesin: M.A. i. 38 (cf. 74).

Syrthiais, llewygais i'r llawr,
Ban welais ben ei elawr.
Tudur Aled: G.B.C. 234 (cf. 252).

Banad (*ā*), *s.pl.* and *cl.* [=banadl]=*Banadl.*

Banadl, } (*sg.* -en, *f.*), *s.pl.* and *cl.* [C. *banathel*
Banal, } (C.V.), *banal;* Br. *banal*, and by metath. *balan:* cf. Fr. *balai;* Ga. *bealaidh*] broom (*Spartium; Genista*).

Banadl aur (*sg.* banadlen aur), dyer's broom; dyer's greenweed (*Genista tinctoria*).

Banadl pigog (*sg.* banadlen bigog), butcher's broom (*Ruscus aculeatus*). — *Hugh Davies:* Welsh Bot. 68, 156.

Ar hit i claud dir pant inihit iniaun digueli *banadil* guailaut iluin ar Ocmur.—*Liber Landavenis*, 204.

Melynach oed y phenn no blodeu y *banadyl*.
Mabinogion, ii. 218 (cf. 375, 376).

Ac ymywn gard y gwelynt gwr prud yn kynnullaw *banadyl* oe bwyta.—*St. Greal*, § 36.

Cymmer dafell fawr o barn neu faen crasu, a thwyma yny bo coch tanllyd, a dod *fanal* irion ar y dafell; amser y bônt yn eu llawn had sydd oreu.
Meddygon Myddfai, ii. 514 (cf. 308, 438, 530).

A'r *banal* ar dal ir dwyn
Yn lwys-fodd ac yn las-fwyn.—*Meurig Dafydd.*

Teg fydd, pob dydd, dedwydd dal,
Cnawd bun dan y cnwd *banal*.—*Dafydd Nanmor.*

Briwodd fi'n awr berfedd nos
Banadlen aur bun hoew-dlos.
D. ab Edmwnt: G.B.C. 116 (cf. 123, 158).

Cymmer geingen *banadlen*, a chraf y rhisgl, a gwna bel o hano.—*Meddygon Myddfai*, ii. 396.

Banadl Yspaen, Spanish broom.

Banadl Ffrainc, the laburnum: also called *meillionen Yspaen.*

Banadlawr, *a.* of or relating to broom; abounding with broom.

Gwerth yspeil Taliessin . . .
Un yw hyddgre hydd yn divant
Un yw blaidd *banhadlawr* anchwant.
Taliesin: M.A. i. 58.

Banadlog, *a.* abounding with broom; broomy.

Tir *banadlog*, ei agor yn ddwfn, ac yn ddwfn ei rychau, a rhoi cwymp iddynt fal y rheto'r dwr i bant.
Rhisiart Sion Huw.

Banadlog, -au, *sf.* a place where broom grows, a broom grove.

Banadlos, *s.pl.* dyer's weed, dyer's greenweed, woodwaxen: also called *banadl aur*, *eurfanadl*, *corfanadl*, *llysiau melynion*, *melynog y waen*, and *llysiau penfelyn.*—*H. Davies:* Welsh Bot. 68, 156.

Banadlwyn, -i, *sm.* a broom grove or bush.

Banal (*sg.* -en, *f.*), *s.pl.* and *cl.*=*Banadl.*

¶ Hugh Davies (*Welsh Bot.* 68, 156) gives *banallen* or *banhallen* as a S.W. form; but I have never heard it so pronounced in that part of the Principality, the usual pronunciation being *banalen* or *manalen* (pl. *manal*).

Banan, *sm.* [ban?] alarm; an alarming report (according to Pughe); fear (according to Davies, who follows W. Lleyn's Vocabulary). Pughe makes the penultima short (*bànan*) in accordance with his derivation from *ban;* but Davies's orthography (*banan*=*bānan*) implies that he considered it long. Cf. '*Catvannan*' (*God.* 38), which is probably a man's name.

Banawd, *sm.* [ban?] prominence, conspicuity?

Tair blwydd oedran yn *fannawd*
Yw pawl gwern, medd epil gwawd.
Sion Cent: Iolo Mss. 286.

Banawg, *a.* [ban]=*Banog.*

Banc, -au, bencydd, *sm.* [cf. *ban*, *bant:* cognate with E. *bank*, which in the North of England is, or was, used in the same sense] 1. high ground, upland; a height, a gentle-rising hill.

Yn iach, frenin yr hinon!
Yn iach, ein llywiawdr a'n ion!
Yn iach, y cogau ieuanc!
Yn iach, hin Fehefin *fanc!*—*D. ab Gwilym*, clxii. 43.

Mor hyderus oeddent i ennill y maes . . . yn gymmaint a bod miloedd a miloedd yn gynnifer pentwr yma ac acw ar benau'r *bencydd*, ac ereill mewn meni a cherbydau, wedi dyfod yng nghyd i weled dyfetha'r Rhufeiniaid.
Theo. Evans: D.P.O. i. 2 (52).

Ceiliogod, cwn hirion, a ffydd yn y porthmon,
Na ad i'w gym'dogion na chynffon na chorn,
A yrodd rai gwledydd â'r dwr ar eu deurudd,
A'u meusydd a'u *bencydd* heb un-corn.
Edw. Richard: Bugeilgerdd, ii. 28.

Ar y *banc*, mewn rhedyn tewon,
Rhwng y defaid a'r da duon,
Syrthiais gyntaf ar fy neulin.
D. Davis: Telyn Dewi, 104.

Tra *Banc* Pen y Banau yn dal uwch y dolau,
A ffrydiau mewn tonnau'n myn'd tani.
Edw. Richard: Cân y Bont, 2.

Ar y bancau, } on the hills, uplands, or
Ar y bencydd, } heights.—*C.S.*

[The early history of the word [E. *bank*] is obscure; the A.S. *banc* (Somner) is a probable form, but not supported. Still we have *boncke* in Layamon, 25185, and *bankes* in Ormulum, 9210. . . The word is, in fact, a doublet of *bench*. The oldest sense seems to have been 'ridge;' whence *bank*, a ridge of earth, a shelf of earth; and *bench*, a shelf of wood, used either as a table or a seat.
Skeat: Etym. Dict. s.v. *Bank.*]

2. a bank or a shelving elevation in the sea.

Gwthier ef, a'i gwthr afanc,
Dros y bwrdd ar draws y *banc.*—*D. ab Gwilym*, xcix. 32.

Banc, -iau, *sm.* [cf. *bainc*, *mainc*] a table (*H. Salesbury*); a platform (*P.*); a bench, form, or seat?

Banc, -au (S.W.), -iau (N.W.), *sm.* [probably direct from E. *bank*, but in early use; now, assumed to be an Eng. word, it is generally superseded by *ariandy*, a comparative recent compound. This and the two preceding articles appear to be really the same word. Cf. the Eng. uses of *bank*] a bank = a place for depositing money.

Deunaw-osgl Pulstwn ieuanc
A ro'i i bawb aur y *banc.*
L. G. Cothi, VII. viii. 57 (cf. VII. iv. 57; VIII. iii. 39).

Fy aur budd a fu o'r *banc*,
Fy mywyd tra fûm ieuanc.—*Gutyn Owain:* G.B.C. 221.

Llai yw bath ger llaw y *banc*
Nag a rifwn o'i grafanc.—*Huw Cae Llwyd.*

Traul fawr at rol a fwriwyd,
Aur y *banc* ai ar y bwyd.—*Gutyn Owain:* G.B.C. 195.

Lle bu'n nechreu yn ieuanc,
Lle bydd aur beunydd o'r *banc.*—*Guto'r Glyn.*

Y maent hwy wedi cymryd anrhaith y bywyd hwn, a'u cyfoethogi eu hunain â'u llafur mewn amser, a chwedi cludo'r cyfoeth hwnw gyda hwynt megys ysgrifenadau cyfnewid i'r *banc* nefol.
Dr. J. Davies: Llyfr y Res. II. v. 13.

Bancaw, -iau, *sm.* [ban+caw] a tie at the top or end; a tuft.

Tyf iddi, o etifeddiaeth, gyrs aur,
Mal *bancaw* ar saeth.—*D. ab Edmwnt*, i Wallt Merch.

Bancawiad, -au, *sm.* a forming into a tuft; a binding or tying.

Bancawio, *v.* to bind or tie about; to whip about or round; to fasten to; to whip or tie; to plat or lay the upper rows of rods (in hedging).

Bancawio bach, to whip a hook to the end of a line.

Bancawiog, *a.* tied or whipped about.

Bancewydd, -ion, *sm.* one who binds or ties together; one who consolidates.

Tri *bancewyddion* teyrnedd ynys Prydain: Prydain ab Aedd Mawr; Dyfnwal Moel Mud; a Bran ab Llyr Lledieith.—*Trioedd:* M.A. ii. 63.

Bancorfan, -au, *sm.* a fender or screen.

Aelwyd-fan, ag arni danllwyth o billwydd on, difwg, diwreichion, bereidd-sawr, ger fy mron, a diboen i weision ei gynnu; a *bancorfan* teg yn ogyfuwch a'm deulin rhag mannu o'r graid ar fy nghroen.
Araith Gwgan (Y Taliesin, ii. 111).

Bancr, -au, *sm.* a basket made with rods or rushes; a dorser.—*H. Salesbury.*

2. a fender, screen, or guard.

Ar gyntedd y neuadd hon tanllwyth o dân o billwydd on, difwg, diwreichion . . . a *bancr* gogyfuwch a'm deulin rhag manu o'r tân ar fy nghnawd.—*Araith Gwgan.* (Ms.)

Bancwr, wyr, *sm.* a banker.

Ariannydd, ariannwr, arian-feistr, cyfnewidiwr arian, *bancwr*, ceidwad y banc.—*Walters.*

Band, *adv.* [contr. of *ba ond*, for *pa ond* or *pand*] what but; is it not?

Da i wr ydyw arian;
Band wyth gwell bendith y gwan?
Wiliam Lleyn: G.B.C. 286.

Baner (*ā*), -au, } *sf.* [C. *baner;* Br. *bannier.*
Baniar, ieri (*ē*), } Those who, with Dr. Davies, consider it a Celtic word, derive it from *ban* (q.v.); but the quantity of the first vowel weakens that theory, and the termination of *baner* (the later of the two forms) points in the same way. Cf. O.E. *baner*, *banere*, *bannor*, *bannar;* O.Fr. *baniere* (mod. *bannière*); Sp. *bandera;* It. *bandiera:* from L.L. *bandum* or *bannum.* It is, however, found in Welsh considerably earlier than any recorded instance of it in English] a banner, standard, or flag; colours.

A bu terfysg taer i haer holi . . .
Ac am dal Moelfre mil *fanieri.*—*Gwalchmai:* M.A. i. 197.

Neud gordiwet gwr gwrd y *uannyar*
Gwr ny oet hygawt a oet hygar.
Cynddelw: M.A. i. 230 (cf. 228, 260).

Dreigieu rwyc arueu yn ragori
Dragon ddieitil uil *uanyeri.*
Bleddyn Fardd: M.A. i. 364 (cf. 303, 434).

Ry lloues rwyf tres tros *vannyar* y ueirt.
Llyw. ab Llywelyn: M.A. i. 298 (cf. 329).

A Gwres uab Reget. y gwr aarwed y *uaner* yndyd kat ac ymlad.—*Mabinogion*, ii. 389.

Eurlliw ei *faner* o ieirll fonedd.
Gr. ab Meredydd: M.A. i. 454 (cf. 420).

Pan ddêl hael o hil Llywelyn,
A'i *faner* o goch ac o felyn,
A'i fryd ar ddifa a goresgyn,
Efo piau'n wir dir terfynau Cynfyn.—*Gronwy Ddu.*

Mae mwy na phum rhan o'r ddaiar tan fy *maner* i er's talm.—*Elis Wynn:* Bardd Cwsg, 86.

Diwrnod y cad iawn-rad yw
Ym *maniar* Dewi Mynyw.—*Gronwy Owain*, 71.

Gwr baner, one who carries a banner, a standard-bearer, a bannerman.

Rybarn pawb y *gwr banher.*
Taliesin: M.A. i. 58 (cf. 13).

Dyrchafu baner, to display a banner; to set up a banner.

Dyrchafwn faner yn enw ein Duw.—*Salm.* xx. 5 (cf. lx. 4).

Marchog y faniar, a knight banneret.

Marchiog y faniar; sef, marchog a wneir felly drwy doriad ymaith gwr ei faniar, gan y brenin ei hun â'i gleddyf, yn y maes lle y dyrchefir lluman y brenin.—*Walters.*

Banerog } (*ē*), *a.* furnished with a banner or
Banierog } banners; bannered.

Teg ydwyt ti, fy anwylyd, megys Tirsah, gweddus megys Ierusalem, ofnadwy megys llu *banerog.*
Can. Sal. vi. 4 (cf. 10).

Efe a wnai aros yn *fanerog.*—*L. G. Cothi*, i. xv. 38.

Baneru, } *v.* to furnish with a banner; to dec-
Banieru, } orate with banners; to banner.

Rhoddaist faner, er hyn i gyd,
I bawb o'r byd a'th ofnant,
I *faneru*, drwy dy air gwir,
Dros lu eu tir lle trigant.—*Edm. Prys:* Salm. lx. 4.

Banerwr, wyr, } *sm.* a standard-bearer, a ban-
Banierydd, -ion, } nerman, one who carries a banner.

Gogoniant ei goed hefyd, a'i ddoldir, a ysa efe, enaid a chorff: a byddant megys pan lesmeirio *banerwr.*
Esa. x. 18.

Banffagl, -au, *sf.* [ban+ffagl] a bonfire; a blaze. Sometimes written *bonffagl*, and the verb *bonffaglu.*

Coelcerth yw yr enw a roddir ar y *banffaglau* tân a gynneuir ar uchelfanau amlwg yng Ngwynedd.—*Y Greal*, 123.

Banffagliad, -au, *sm.* a making a bonfire.

Banffaglu, *v.* to make a bonfire (of); to blaze.

Bangeibr, -au, *sf.* [ban+ceibr] 'high rafters, or high roof. It was an appellative for a principal or collegiate church; as, *Bangeibr Henllan, Bangeibr Tudoch'* (*P.*). Apparently a church connected with a monastery or religious house.

O Fangor *fangeibr* oleuad
Hyd orwyd Meirionyd meidriad.
Gwalchmai: M.A. i. 202.

Aryf toruoet teruysc Eigyl yg kydoch
O Vangor hyd *vangeibyr* Dydoch.—*Cynddelw:* M.A. i. 222.

A Bangor esgor a *bangeibyr* Henllann
Yssyt yr cloduan yr clyd ywyt.
Gwynfardd Brycheiniog: M.A. i. 271.

Na cham leueryt ar lid Echdor
Ny chablwyd ysgwyd ar ysgwyt yor
Ny chablaf uy naf yny achor uaran
Bangeibyr gadw Gaduan uegys Bangor.
Llywelyn Fardd: M.A. i. 361.

Bangor (*n-g*), -au, *sf.* [ban+côr] 1. the upper row of rods, thicker than the rest, in a wattle fence, that strengthens, binds, or locks the inner parts together; and in high fences it was common to have two or three of such plattings.

O galan gauaf allan cauer yr ysguboriau fal y dylyir. Sef fal y dylyir, yn gyn gadarned ag y bo tair *bangor* ar y llogail, a phlaid ar y drws, a thri rhwym ar y blaid, dau ar ei gwegil, ac un o'r tu rhagddi. . . Gwedy Gwyl yr Hollsaint, oni bydd *bangor* yn nhri lle ar y cant, a'r drysau yng nghaead, ni thelir y llwgr.
Leges Wallicae, III. x. 17 (cf. 18).

Tri anhebgor bwd havodwr: nenbren; a nenffyrch; a *bangor:* a rhydd iddo eu tori yn nghoed gwyllt a vyno.
Cyfreithiau Cymru, ii. 562.

b. [=bangoren] a coping; a battlement.

I sylwi ar hamdden y nwyfreawl nef
Ar led yn eang, o annilys gylch
Ai crwn ai ochrawg, o fflamfaen dyrau a
Bangorau glasfaen bywiawl.—*W. O. Pughe:* C.G. ii. 2006.

2. (*sm.*) defence, security.

Od enwir *bangor* ar yr hawl ynn gedernyd y harchwiro megis briduw neu vechniaeth neu wybydyeid neu amodwyr ae kyffelybyon y rei hynny oll drwy reith ossodedic y gwedir pob vn o honynt: a hynny herwyd breint y *bangor* a ossotter y archwiro yr hawl ac nyd oherwyd maint y dylyed y gwedir ynny lle hwnnw.
Cyfreithiau Cymru, ii. 446 (cf. L.W. 398).

Llugirn deudor. lleuoet agor gur *bangor* breint.
Myv. Arch. i. 579.

3. (*sf.*) a name given to several of the most noted religious houses in early medieval times; as, Bangor Deinioel, in Carnarvonshire, otherwise called Bangor Fawr yn Arfon, a bishop's see; Bangor Dunod, also called Bangor Fawr ym Maelor, on the Dee in Flintshire; Bangor Illtud and Bangor Catwg, in Glamorgan;

Bangor Enlli, in the isle of Bardsey; Bangor Wydrin, at Glastonbury; and several others. There is a church of this name on the Teifi in Cardiganshire, and near the Rheidol in the same county are Capel Bangor, Maes Bangor, and Cefn Bangor. The name also occurs in Ireland and on the coast of Brittany.

Cyntaf gwelygordd Caw o Brydyn, arglwydd Cwm Cawlwyd, a yrwyd o'i wlad gan y Gwyddyl Ffichti, ac a ddaeth i Gymru; a chydag ef ei feibion; ac Arthur ã Maelgwn Gwynedd a roddes diroedd iddynt: a mwyaf o'r meibion a'r merched a aethant yn seinniau yn y *Bangorau* ag oeddynt yr amseroedd hyny; nid amgen nag un Illtud, ac un Catwg, ac un Dunawd, ac un Deinioel, ac un Badarn, ac un Gadfan yn Enlli.—*Iolo Mss.* 109 (cf. 102–153).

Tair prif gyfangor ynys Prydain: *Bangor* Illtud Farchawg yng Nghaer Worgorn; Cor Emrys yng Nghaer Caradawg; a *Bangor* Wydrin yn Ynys Afallen: ac ym mhob un o'r tair *Bangor* hynny ydd oedd pedwar cant ar hugain o saint.—*Trioedd:* M.A. ii. 70 (cf. 15, 17).

Bangor seems to be sometimes used synonymously with *côr;* and the institutions so designated appear to have combined the functions of a religious house with those of a college. When the more regular monasteries were founded, these earlier establishments ceased, or became merged in those foundations.

A'r *bangorau* a fuant cyn cael y monachlogydd, a gwedi hyny fe ddarfu am danynt, namyn y rhai o honynt a aethant yn fonachlogydd.—*Iolo Mss.* 114.

4. (*sm.*) a college (in the modern sense).

Am oesoedd wedi hyn, bu y Cymry yn amddifad o un ysgol gadeiriol hyd nes agorwyd *Bangor* Dewi yn Llanbedr, Wyl Ddewi diweddaf [1827].—*Lleuad yr Oes*, i. 239.

Bangoren, *sf.* the top row joined or wattled together; a wattling-rod; a coping.

Bangori, *v.* [bangor 1) to wattle the top or binding row of a fence; to cope or bind together; to cope.

Banhau, *v.* [ban] to make prominent or conspicuous; to raise.

Banhwch, hychod, *sf.* [banw+hwch?] probably a female swine, a sow [=*banwes*). Pughe, deriving it from *ban+hwch*, renders it 'a wild sow.' The exact meaning cannot be gathered from the curious and only passage in which it occurs.

Bum swch bum bwch
Bum syw bum swch
Bum ban bum *banhwch*
Bum gawr yn rhythwch.—*Taliesin:* M.A. i. 44.

Baniar, ieri (*ē*), *sf.* See *Baner*, &c.

Banig, -ion, *sm.* [ban] a semibreve.

Wrth y daflen hon, fe welir fod un *banig* yn cynnwys dau adfanig, un adfanig yn cynnwys dau gorfanig. . . Dylid dal ar y *banig* uchod gymmaint a thri adfanig.
John Mills: Gram. Cerdd. 4.

Banig hir, a breve.

Banllaw, -iau, *sf.* [ban+llaw] a lifting up of hands; an election.—*Llywelyn Sion.*

Myned ar fanllaw, to offer one as a candidate; to become a candidate.

Rhoddi ar fanllaw, to put to the vote.

Cyhoeddi banllaw, to proclaim an election.

Gwr banllaw, a man elect.

Banllawio, **Banllofi,** *v.* to lift up the hands; to elect or choose by show of hands.—*Llanover Ms.* (Y Taliesin, i. 288).

Banllawr, lloriau, *sm.* [ban+llawr] a raised floor; a platform; a dais.

Maent yn gwneuthur eu pulpudau yn *fonlloriau* etholiadol.—*Tywysogaeth*, Meh. 23, 1881.

Banllef, -au, *sf.* [ban+llef] an outcry; a loud shout, cry, or voice. Also written less accurately *bonllef*, q.v.

Neb ny oruc Duw wrhyd Benlli Gawr
Bannllef beirt yth uoli.—*Gwilym Ryfel:* M.A. i. 274.

Yr arab wr,
Wrth wedd ac ystum hwn y chwarddai torf
Yn y chwareudy, gyda *banllef* groch.
Iago Trichrug: Bedd.

Banllefain, *v.* to set up an outcry; to shout, to cry loudly, to bawl.

Banllefol, *a.* shouting; high-sounding; loud.

Gan dori 'n aml a llwyr
Ostegion dwfn trwy y *banllefawl* sain.
Th. Lloyd Jones: Ceinion Awen, 176.

Banllefwr, wyr, *sm.* one that makes an outcry; a screamer, a bawler.

Bannas, -au, *sm.* [?] a mat; matting; a mattress; a palliasse.

Hin dawel a thes melyn,
A *bannas* glas ar y glyn.—*Gronwy Wiliam*, i'r Mai.

Bannas, gwisg mainc neu wely, neu gadair; brwyn ar lawr neuadd, mal yr arferai 'r hen wŷr da gynt.
Robert Vaughan.

Bannas gwely, a bed mattress, made of bulrushes woven together in large plaits.—*Gwent.* 2. a kind of straw hangings to cover walls.—*Mon.*

Bannod, -au, *sm-f.* [ban+nod] 1. a clause; a part of a sentence.

Ail rhithogaeth sydd yn unrhyw air mewn edryd yn y *bannodau.*
H. Perri: Egl. Ffr. xxvi. 2 (cf. xxvii. 2; xxviii. 3).

Gwelwch fod y gair llawenychwch yn nechreu y *bannod*, a'r un gair eilchwyl yn diweddu y *bannod.*
H. Perri: Egl. Ffr. xxviii. (cf. xxix. 1.

2. an article (in grammar).

Bannod sydd ran ymadrodd a arferir i bennodi neu ddangos pethau neillduol oddi wrth bethau cyffredin, neu derfynol oddi wrth annherfynol.
Robert Davies: Ieith. Cymr. II. v.

Bannod terfynol, the definite article.

Bannod annherfynol, the indefinite article.

Dau *fannod* sydd yn y Gymraeg o herwydd sain, ond a wasanaethant i'r un ystyr, sef y ac yr; ac a elwir *bannodau terfynol.—Isaac Jones:* Gram. Cymr. III. viii.

Y mae dau *fannod*—y *bannod terfynol* . . . y *bannod annherfynol.—D. E. Jones:* Ieith. Seis. 15.

Bannodawl, *a.* relating to a clause; divided into clauses; clausular; articular.

Gwelwch fod y sain lon yn y gair cyntaf yn unwedd â hon sydd yn diweddu y *bannodawl* ymadrawdd.
H. Perri: Egl. Ffr. xxviii. 1.

Bannodi, *v.* to divide into clauses; to make a clause; to prefix the article.

Bannodiad, -au, *sm.* a division into clauses; the forming of a clause or principal part.

Bannog, *a.* [bant, ban]=*Banog.*

Bannogan, *sm.* campion (*Lychnis*).—*Meddygon Myddfai*, 288, 294.

Banog, **Bannog** } *a.* [ban, bant: cf. Ir. and Ga. *beannach*, horned] 1. high, lofty; prominent, conspicuous.

Aur yw ei fonwes o'r gaer *fanog.—L. G. Cothi*, i. xv. 31.

Nod banog (*pl.* nodau banog, nodau banogion), an article (in grammar).

Nodau banog y gelwir, o achos eu bod (megys banau neu foelydd rhwng mynyddau) yn cymmanu ac yn cymmalu rhwng parthau yr ymadroddion.
Dafydd Ddu (Dr. I. D. Rhys, 45).

Dau *nod banawg* y sydd o herwydd sain, ond un o herwydd ystyr.—*W. O. Pughe:* Cad. Iaith Gym. II. iv. 1.

Ychain Bannog, 'the large-horned oxen, were some kind of animals formerly in Britain; probably either the moose, the elk, or bison, most probably the latter. These gave rise to many stories, which are current over all Wales; and there is hardly a lake but is asserted in the neighbourhood to be the one out of which the *ychain bànawg* drew the *afanc;* another terrible animal, the crocodile. At Llan Dewi Brefi they shewed, till lately, some very large horns, which they asserted were those of the *ychain bànawg*.'—*P.* Cf. *Afanc* and *Addanc*.

According to the Mabinogi of Culhwch and Olwen, these oxen were originally human beings, named *Niniaw* and *Peibiaw*, apparently the two insane kings in the tale of Rhitta Gawr (*Iolo Mss.* 193), who were metamorphosed into oxen on account of their sins.

Deu *ychen bannawc* y lleill yssyd or parth hwnt yr mynyd bannawc. ar llall or parth yma. ac eudwyn y gyt adan yr un aradyr. Sef yw y rei hynny. Nynnyaw a Pheibaw arithwys Duw yn ychen am y pechawt.—*Mabinogion*, ii. 222.

Sef ennynu hyny awg
O boen yr *Ychain Banawg*,
Peibiaw a Niniaw—pybyr
Mai eu gnif ger llifer llyr.—*W. O. Pughe:* H.G. 12.

The same Mabinogi gives them the names of *Melyn* (yellow), and *Brych* (brindled), seemingly in reference to their supposed colour.

Y *melyn* gwannwyn. ar ych *brych* yn deu gyt breinawc auynnaf.—*Mabinogion*, ii. 222.

Y gler hwnt a'n galwai'r hawg . . .
Och finnau! 'r ddau *ych fannawg:*
Y *Melyn* caid ym mlaen côr;
Aeth y *Brych* fyth heb rychor;
Am ei hunan i'm hen-nyth
Uwch ei ben yn ochi byth.
Lewys Mon: Md. Tudur Aled.

The connection of these wonderful oxen with Llanddewi Brefi, Cardiganshire, is recorded in a well-known popular rhyme:

Llanddewi y Brefi braith,
Lle brefodd yr ych naw gwaith,
Nes hollti Craig y Foelallt.

The remaining fragment of the horn, or rather horn core (*mabgorn*), once exhibited at that place, now preserved (since 1823) at Glan Rheidol, in upper Cardiganshire, is pronounced by Prof. Boyd Dawkins to have belonged to 'the great Urus (*Bos primigenius*), that Charlemagne hunted in the forests of Achen, and the monks of St. Galle ate on their feast-days.' Cf. *Arch. Camb.* 3 S. xiv. 85.

In the same district, and near the Teifi, is a dyke known as *Cwys yr Ychain Bannog*, the furrow of the *Ychain Bannog*, which is a singular bank of earth, extending several miles in an east and west direction.

Cainc yr Ychain Bannog, a strange piece of music, imitating the lowing of the oxen and the rattling of their chains in drawing the *afanc* out of the lake.

Mae cainc ar dannau (yr hon na fedr pob gwr wrth gerdd m'oni), a'i henw *Cainc Ychain Mannog*. Mae hi i'w chlywed yn dosturus iawn, ac mor alarus ag a oedd griddfanau yr ychain yma tan bwys yr afanc, yn enwedig pan gollodd un ei lygad.
Papyrau Ed. Lhwyd (Brython, iii. 385).

Llyn Dau Ychain, the Lake of the two Oxen, on Hiraethog in Denbighshire.

Tra fûm i yn ymdroi ar yr ol, ac yn siarad am hyn, yr oedd yr ychain wedi myned yn bell iawn, ac ni chefais i ddim o'u hol nhw yn dyfod trwy gyrau plwyf Dolydd-Elan (Lueddog), nes i mi ddyfod i fwlch a elwir wedi hyny Bwlch Rhiw yr Ychain, yr hwn sydd rhwng blaenau Dolydd-Elan a blaen Nanhwynain: ac wrth ddyfod tros hwn fe gollodd un o'r ychain ei lygad ar le teg a elwir o'r achos hwnw Gwaun Lygad Ych. Mae'r fan lle y cwympodd y llygad wedi myned yn bwll, ac a elwir Pwll Llygad Ych, yr hwn a fydd bob amser heb fod yn sych, ac nid oes dim dwfr yn codi ynddo, na dim yn dyfod iddo (ond ar wlaw), na dim yn myned allan o hono ar sychder; ond mae fo bob amser o'r un ddyfndwr, sef agos cyfuwch a glin dyn, medd y sawl sy'n dal sylw ar hyny er's twysgen o flynyddoedd.
Papyrau Ed. Lhwyd (Brython, iii. 385).

Y mae '*Llyn Dau Ychain*' ar fynydd Hiraethawg; ac yn agaws ato ol troed un o honynt mewn carreg, man y gorphwysai ar chwiliaw am ei gymhar, medd chwedl y wlad.
W. O. Pughe: H.G. 13.

Fel dau ych bannog, like the two *ychain bannog;* i.e., equal and inseparable companions.—*Dyfed.*

Adyn ar ei hol ydwyf,
Uwch ben gwen, *ych bannog* wyf.
Dafydd Nanmor: Md. Merch.

¶ The meaning of the epithet *bannog* as applied to these mythic oxen is not quite certain; it has been rendered 'large-horned,' 'high-horned,' 'horned,' 'hunched,' 'prominent,' 'high,' 'great;' but probably, like the Irish *beannach*, it signifies no more than *horned;* and the usual spelling (*bannog*) had better be retained. *Ychain bannog* is also written *Ychain mannog*, and, according to Pughe, *manodd* and *manwedd*, which he renders 'spotted oxen;' but it is evident that *bannog* and *mannog*, as characterising these oxen, must have the same signification.

Amen yr *ychen mannog.—Dafydd ab Edmwnt.*

Nis gwn pam yr oeddid yn eu galw nhw *ychain mannog* ne ychain bannog.—*Papyrau Ed. Lhwyd* (Brython, iii. 385).

Mynydd Bannawg ('montem Bannauc'), a mountain in Scotland, mentioned in the Life of S. Cadog.—*C. B. Saints*, 57, 69.

2. prominent; characteristic; notable, remarkable, distinguished.

Gwr banog, a person of exalted state; a man of note or celebrity.

Gorug Beli Mawr mynawg
Ab Mynogan, *wr bannawg*,
Wŷr meirch a threfnau marchawg.—*Iolo Mss.* 263.

Banog, -ion, *sf.* 1. that which is prominent or characteristic; a prominent or marked feature.

Banogion, characteristics; prominent qualities, attributes, or features.

Tri *banogion* gwladoliaeth: bardd yn addysg; fferyllt yn amddiffyn; a llafurwr yn ymborth.
Barddas, ii. 76 (cf. i. 186, 242, 310).

Tri *banogion* barddoniaeth: cof; addysg; a thangnef.
Barddas, ii. 160 (cf. 144).

Tri *banogion* dedwyddyd: ufudd-dawd; diweirdeb; a dirwest.—*Trioedd Doethineb:* M.A. iii. 262.

Banogion Duw, those attributes which especially distinguish God from all others; the characteristics of God.

Tri *banogion Duw:* bywyd cyfoll; gwybodaeth cyfoll; a chadernyd cyfoll.—*Barddas*, i. 170.

2. an article (in grammar).

Ansawdd a swydd y *banogion*.
W. O. Pughe: Cad. Iaith Gym. II. iv. 1.

Banogaeth, -au, *sf.* prominence; distinction; peculiar character; particularity.

Tri pheth a roddwys Duw ar bob byw: sef cyflawnder ei ryw; gwahander pen ei hun; a *banogaeth* awen gyssefin rhag arall: ac yna hunan cyfoll ar bob un gwrtharall.
Barddas, i. 176 (cf. 190).

Banogyn, *pl.* banogion, *sm.* an article (in grammar).

Y *banogyn*, neu nod banawg, sydd o ansawdd dangosiadawl, neu gyfeiriadawl; hyny yw, ei orchwyl yw i ddangaws rhagor, neu i wahaniaethu rhwng enw dosparthiadawl, mewn amryw ddull o gystrawiad, ac un arall y sydd annosparthiadawl, pa un sy bob amser heb y *banogyn*.
W. O. Pughe: Cad. Iaith Gym. II. iv. 1 (cf. 2).

Banon, -au, *sf.* [the usual derivation from *ban*, meaning 'one that is exalted,' can hardly be sustained, the quantity of the first vowel (*ā*) being opposed to it; more probably it is a modf. of *manon*, q.v.] a queen; a paragon.

Gwery *uanon* vanwl gwar uetwl veith
Gorne gwawr vore ar vor diffeith.
Cynddelw: M.A. i. 217 (cf. 419).

Boch eich dau ffynadwy
Ar gynnydd fwyfwy,
Mal Arthur gledd llachar
A'i *fanon* Gwenhwyfar.
W. Wynn, i'r Tywysog Ffrederig.

Dy blant dan raib, ym mhlith gelynion ti
Amddifad, wyla, *fanon* weddw, wael.
W. O. Pughe: Pal. 3.

Bant, *pl.* bentydd, baint, *sm.* [cf. *ban*, *baint*, *banc*] a height, high ground, a down; a high place.

Medrasai bellach huddawl ffain y nos
Hyd hanner *bant* y cau isloerawl uthr.
W. O. Pughe: C.G. iv. 847.

Yn y canol, ar fan *fant*,
Safa lun nefolaidd lon
O hil y Cymry haelion.—*W. O. Pughe:* Bardd, iii. 2.

Bant, *a.* high, lofty, elevated; prominent, conspicuous.

Tir bant, elevated ground, high land, upland.

Ac o'r tu deheu, gyferbyn â'r castell, yr oedd cefnen o *dir bant*, heb na choed na chauad arno; ac yno ni allai neb ymddirgelu nac ymguddio, gan amlyced y lle.
Marchog y Tŵr.

Tir bant a thir morfa, upland and lowland. —*Gwent.*

Banu, *v.* [ban] to raise up; to render prominent or conspicuous; to erect.

A gwaetlenn am venn a *vannet*
A gwaetlan a grann yn greulet.
Hywel ab Owain Gwynedd: M.A. i. 276.

A Christ ymrhen crog er creulonder
Yn y boen y bu dduw Gwener
Ar pumffrwd pumffrwyth nid ofer
Ai *bannai* am ben y nifer.—*Gr. Ynad Coch:* M.A. i. 398.

Banw (*ā*), -od, *sm.* [C. *baneu;* Br. *banô*, *banv;* Ir. *banabh*, *banbh*, †*banb;* Ga. *bainbh;* Mx. *bainniu*] a young pig, a barrow pig; a store pig; a pig.

Ac o hyny allan, yny el y moch i'r coed, *banw* fydd, a phedair ceiniawg ei werth.—*Leges Wallicae*, III. v. 3 (3).

Gnawd i *vanw* vagu hôr
Gnawd i foch turiaw cylor.—*Llywarch Hen:* M.A. i. 129.

Dygwydaw awnaethpwyt yna agwyr a chwn arnaw . . . ac yna y llas *banw* oe uoch ef.—*Mabinogion*, ii. 244.

Arthur, a Marchell, a Chai, a Bedwyr, a fuant eill pedwar ar ymgais a chyrch, ac nis gallasant gael cymmaint ac un *banw*, nag o rôdd, nag o brŷn, nag o dwyll, nag o drais, nag o ledrad.—*Trioedd:* M.A. ii. 73.

Ac eich byd byth ar ddiwraidd
Mal y bydd *beinw* wedi baidd.
Llywelyn Fardd: M.A. i. 355.

Balch yw Llawdden eleni,
Banw mawr, medd pob un i mi.—*Hywel Swrdwal.*

¶ *Banw*, the name of a Montgomeryshire river, is probably identical with this word, and does not signify *Ban-wy*, or highland water, as it is sometimes explained. Cf. *Twrch* (in the same district and elsewhere), *Hwch*, *Iwrch*, *Iyrchell*, *Elain* or *Elan*, and similar river-names.

Banwel, -au, *sm.* [ban+gwel] the upward look; the sky; zenith.—*Gwent.*

Un o'i llongau, yn null angel,
O nef enwau, yn ei *fanwel.*—*D. ab Edmwnt.*

Banwes, -od, *sf.* [f. of *banw*] 1. a female swine; a sow; a young sow.—*C.S.* 2. a fish called gilt-head.—*H. Salesbury.*

Banyn, -au, *sm.* a particle (in grammar).

Y *banynau* ac y goreiriau a arferir i luniaw y moddau, ammodadwy, damunadwy, a galluadwy, hefyd ammodau, gofyniadau, a nacaon, y perwyddiaid gweithredol a dioddefol, ydynt y rhai canlynawl . . . y *banynau* ac y goreiriau uchod a ddosperthir i drefnau mal y canlyn.
W. O. Pughe: Cad. Iaith Gym. III. i. 4.

Banyn dyluniol, a formative particle.

Rhai goreiriau ereill a ragflaenant yn ddigyfrwng, ac ereill a gymmerant enw, neu ragenw, neu *fanyn dyluniawl*, neu arddodiad i gyfryngu.
W. O. Pughe: Cad. Iaith Gym. III. i. 8.

Banyw (*ā*), -aid, -od, *sf.*=*Benyw*, the more accurate as well as the more usual form.

Banyw, *a.*=*Benyw.*

Bapa, -od, *sm.* [baban] a babe or baby; a silly fellow.

Yr hen fapa, the old baby; the old dotard.

Bâr, *pl.* baroedd, *sm.* [Ir. *bara*] 1. fury, rage, indignation, ire.

Dyro vadeueynt yth vrawt a gorffowys y gan y dechreuedyc yrlloned y syt kennyt. kanys ny dyley bot un *bar* kenhyt yn y yrbyn.—*Brut Gr. ab Arthur:* M.A. ii. 149.

Dy *far* feinwar Fyfanwy
Ar a'th gar ni bu *far* fwy.
Hywel ab Einion Lygliw: M.A. i. 512.

Gan annog yn gyflawnaf dy ddigofaint a'th *fâr* i'n herbyn.
Ll. G. Gyfredin (1567—1840).

2. rapacity; voracity; greediness.

Glothineb yw rhyw *fâr*, rhaib, neu ormod awydd i fwyd a diod; a'r pechod hyn sy'n sefyll ar fwyta neu yfed mwy nag a fo cymhwys.—*Rosier Smith:* Eglurhâd, 333.

Am hyn y drwg ni saif mewn barn
O flaen y cadarn uniawn;
Na'r pechaduriaid mawr eu *bâr*
Yng nghynnulleidfa'r cyfiawn.—*Edm. Prys:* Salm. i. 5.

Gorddyar, *bâr*, a berw-ias,
Yn ebyr, ym myr, ym mas.—*Gro. Owain*, 90.

Llid a bâr, wrath and indignation.

Ac odyna trwy *lyt a bar* brysyaw a oruc Kaswallawn y anreythyaw kyvoeth Avarwy.
Brut Gr. ab Arthur: M.A. ii. 180 (cf. 150).

Na dala *lit* na *bar* wrthym yr y geiryau drycanyan a dywetpwyt gynneu.—*Yst. de Carolo Magno*, col. 470.

3. affliction, trouble.

Rhan o'th faeth, a rhan o'th *fâr*,
A ddwg fun ddiwyg feinwar;
Cyffredin cyff o radau
Yw eich da rhyngoch eich dau.—*Sion Phylip*, am Briodas.

Bâr, *pl.* barau, beri, *sm.* [=par: Ir. *bear*] a spear; a lance; a shaft or arrow.

Ar lad lad lachar ar bar *beri.*
Gwalchmai: M.A. i. 197 (cf. 227, 231).

Arueu o dêheu bareu *beri.*
Llywelyn Fardd: M.A. i. 362 (cf. 357).

Ys dir oe *uareu* ddifuryau pob tur.
Llygad Gwr: M.A. i. 341 (cf. 539).

Gwr gwraf gorsaf gwersyll Afarwy
Ei *fareu* am erchyll.
Elidir Sais: M.A. i. 346 (cf. 400).

Syr Dafydd, *bâr* onwydd brau,
Uchod wyth-oes fych dithau.—*L. G. Cothi*, II. vi. 59.

Ydoedd llachar eu *beri* fal ser ar y lli
Yn y nos pan fo tonnawg dwfn Fôr Galili.
Tegid: Gwaith, 182.

Bar, -au, *sm.* [O.Fr. *barre*, of Celtic origin, according to Skeat; Br. *bar*, *barr*, *barren*; C. *bara* (vb.); Ir. and Ga. *barra*; O.E. *barre*. Diez (s.v. *Barra*) prefers the Celtic to the Teutonic origin] 1. a bar; a bolt; a rail; a lever; the shaft of a spear.

Byssed brych briwant *barr.*—*Aneurin:* Gododin, 492.

Gosod hefyd aur dros yr ystyllod, a gwna eu modrwyau o aur, i osod y *barau* trwyddynt: gwisg y *barau* hefyd ag aur.—*Ecs.* xxvi. 29 (cf. 26, 27, 28).

Bar haiarn, a bar of iron; an iron crowbar.

Bar o sebon, a bar of soap.

Taflu bar, to pitch the bar.

Bar drws, the bar or bolt of a door.

Rhoi bar ar y drws, to bar or bolt the door.

2. a bar, stop, stoppage, or hindrance.

Nid adwaenant Graig yr oesoedd,
Gweithiwr dinewidiad bydoedd;
Mae *bar* rhyngddynt a Pharadwys,
Cnawdol ydynt, ac anghymhwys.
Morgan Llwyd: Gwyddor Uchod, 144.

3. bar (in a court of justice).

Mesur cwyn Madawg ab Llewelyn . . . rhag Catrin verch Ieuan ab Llewelyn ab Madawg uchelwr or dywededig gymwd yr hwn sydd gynnrychiawl ar y *bar*.
Cyfreithiau Cymru, ii. 468 (cf. 470, 474).

Dyma glamp o ddiawl ysgwyddgam yn gosod cefnllwyth o garcharorion newyddion o flaen y *bar*.
Elis Wynn: Bardd Cwsg, 91 (cf. 92).

Ar y bar, *Wrth y bar*, at the bar (in a law court).

Gorchymmynwyd iddi godi ei llaw at y bar, she was ordered to hold up her hand at the bar.

Yn nesaf . . . peri iddynt godi eu dwylo at y *bar*.
Elis Wynn: Bardd Cwsg, 62.

Pan ymddangosais gyntaf wrth y bar, when I first appeared at the bar.

Sefyll wrth y bar, *Sefyll o flaen y bar*, to stand before the bar (as a criminal).

4. a bar or shoal (at the mouth of a river or harbour).

Bar Aberteifi, Cardigan bar.

Bar aber neu borthladd, sef, cefnen o dywod neu'r cyffelyb mewn aber neu yng ngeneu porthladd.—*Walters.*

[*Bar*, in all its acceptations, may be safely translated by the undoubtedly British word *bar*.—*Walters.*]

Bar, *sm.* [C. *bar*; Br. *bâr*; Ir. and Ga. *barr*] the top or summit; an excrescence; a bunch or tuft; a branch. It enters into the names of some mountains in Wales; as *Bryn Barlwm*, the bare-topped hill, in Glamorgan; *Twyn* (or *Twm*) *Barlwm*, in Monmouthshire; *Mynydd Berwyn*, the white-topped mountain, in Merioneth; *Bryn y Bar*, in Carnarvonshire, and another in Anglesey.

Godde gwrych dymbi hir ei hadain
Dychyrch *bar* carreg creg ei hadnein.
Taliesin: M.A. i. 68.

Bara, *sm.* [C. *bara*; Br. *bara* (pl. *baraou*); Ir. *aran*, †*bairgen*; Ga. *aran*; L. *far*] 1. bread.

Bara amyd: see *Amyd*.

Bara barlys, barley bread.

Bara brith, plum-bread, plum-cake.

Bara brwd, hot bread.—1 *Sam.* xxi. 6.

Bara can [C. *bara can*], white bread; wheaten bread.

Bara canryg, bread made of wheat and rye mixed; brown bread.

Bara ceirch, oaten bread.

Bara coch, brown bread.

Bara coesed, manchet bread; white bread.

Bara cri, *Bara crai*, *Bara croew*, unleavened or unfermented bread.

Bara cystudd, bread of affliction.—*Deut.* xvi. 3; 2 *Cron.* xviii. 26.

Bara chwiog, bread in the form of cakes; cakes.

Bara dangos (=bara gosod), showbread.

A dod ar y bwrdd y *bara dangos* ger bron fy wyneb yn wastadol.—*Ecs.* xxv. 30 (cf. xxxv. 13; xxxix. 36).

Bara gosod (=bara dangos), showbread.

Nid oedd yno fara, ond y *bara gosod*.—1 *Sam.* xxi. 6.

Bara gradell, *Bara greidell*, *Bara llech*, bread baked on a griddle (not in an oven); household cake-bread.

Bara gwenith trwyddo, brown or household bread.

Bara gwenith, wheaten bread.

Bara gwersyll, ammunition bread.

Bara gwyn, white bread; wheat bread.

Bara gwyn manbaill, white bread of fine flour.

Bara haidd, barley bread.

Pobi aoruc y wreic. adwyn y bwyt udunt. *bara heid* achaws aglastwfyr llefrith.—*Mabinogion*, ii. 373.

Bara henbob, stale bread.

Bara lawr, *Bara llafan*, *Bara llawfan*, laver-bread, black butter; 'a sort of food made in Glamorgan and in parts of Pembrokeshire of a sea-plant, the laver' (*Ulva latissima*).—*Th. Richards*, s.v.

Bara lefain, *Bara lefeinllyd*, leavened or fermented bread.

Saith niwrnod y bwytëwch fara croew . . . pwy bynnag a fwytao *fara lefeinllyd* o'r dydd cyntaf hyd y seithfed dydd, yr enaid hwnw a dorir ymaith oddi wrth Israel.
Ecs. xii. 15.

Bara llech, *Bara llechfaen*, *Bara planc*, bread baked on a griddle or bakestone.

Bara llechwen, unfermented bread.—*P.* Rather a corr. of *bara llechfaen*, q.v.

Bara llwyd, *Bara mws*, mouldy bread.

Bara mangan, *Bara mangant*, bread made of fine flour.

Bara miod, fritters, pancakes.

Bara offeren, *Bara efferen*, eucharist bread; bread used in the eucharist.

Ac ys ef y lle y rhoddir y rhaith honno, yn y llan y bo ei ddwfr swyn a'i *fara efferen*. A sef amser y cymmer y rhaith honno, y rhwng y Benedicamus a rhoddi y *bara efferen*.—*Leges Wallicae*, ii. iv. 4 (cf. xxx. 19).

Bara peillied, bread made of fine flour; wheat bread.

Bara plymryd, muffins, and the like sort of bread.—*Gwent.*

Bara surdoes, leavened bread.

Bara surgeirch, bread made of oatmeal mixed with milk and water, and kept till it becomes sour.—*Arfon.*

Bara sych, dry bread.

Bara tylwyth, household bread; brown bread.

Bara trwy'r dwr, unleavened bread.

Rhoi (tynu) bara trwy'r drybedd i un, to give one bread through the trevet or gridiron; i.e., to influence a superior by indirect means; to flatter one; to tamper with a person.

Gwr mwyn, hael, boneddig, yw yr hen lew i'r sawl a fedro dynu'r *bara drwy'r drybedd* iddo.—*Gro. Owain*, 226.

Bwyta bara iach, to eat the bread of health; to enjoy health.—*S. W.*

Ni *fwytaodd* Syr Robert *fara iach* byth, a bu farw o wallgof a chynddaredd.—*Iolo Mss.* 16.

Bara ei hunan, bread alone; dry bread (without anything eaten with it).

Bara ac ymenyn, bread and butter.

Tafell o fara, a slice of bread.

2. *pl.* loaves of bread; loaves.

Deg o fara, ten loaves of bread.

A chymmer yn dy law *ddeg o fara*, a theisenau, a chostrelaid o fêl.—1 *Bren.* xiv. 3 (cf. 1 Sam. xxv. 18).

Pa fodd yr aeth efe i dŷ Dduw . . . ac y bwytaodd y *bara* gosod, y rhai nid cyfreithlawn eu bwyta, ond i'r offeiriaid yn unig.—*Marc* ii. 26.

Bara gwynion, loaves of white bread.

3. (in botany).

Bara can y defaid, sea plantain (*Plantago maritima*).—*H. Davies:* Welsh Bot. 156.

Bara can y gwcw, } [Br. *bara koukou*] cuckoo's
Bara can y gog, } bread, wood-sorrel (*Oxalis acetosella*).—*H. Davies:* Welsh Bot. 156.

Cais wŷdd yr hafan cochon, dail dyrysi per, a *bara can y gwcw*, a brag, a'i wneuthur yn ddiod, a'i hyfed deirgwaith neu bedair yn y dydd lwnc syched.
Meddygon Myddfai, ii. 95.

Bara can a llaeth, greater stitchwort (*Stellaria holostea*).—*H. Davies:* Welsh Bot. 156.

Bara'r cythraul, devil's bit scabious (*Scabiosa succisa*).—*H. Davies:* Welsh Bot. 156.

Bara'r hwch [Br. *bara ann houc'h*] sowbread (*Cyclamen Europæum*).—*H. Davies:* Welsh Bot. 134, 156.

Bara'r moch=Bara'r hwch.—*Meddygon Myddfai*, 288.

Baran (*ā*), *sm.* [bâr] 1. front; countenance; presence; furious countenance.

Ny wnaethpwyt neuad mor dianaf
Lew mor hael *baran* llew llwybyr mwyaf.
Aneurin: God. 550 (cf. 651).

Rac *baran* Kynan tan tarddawd.
Taliesin: M.A. i. 64 (cf. 21, 36, 76).

Baran baed oed Bleidic mab Eli.
Taliesin: M.A. i. 85 (cf. 89, 103).

Gwrdd Cynan *faran* o lan Teifi.
Myrddin: M.A. i. 137 (cf. 580).

Gnawd ym ri rutueirt o *uaran*
A roti rut wisc am danan.
Cynddelw: M.A. i. 261 (cf. 361).

Ac yma byddinhëynt
Yn hywel, *baran* hyll ofnadwy hyd
A llachar arfau, o rith drudion gynt
Ac hywain waew ac aes.—*W. O. Pughe:* C.G. i. 587.

Sef Ior oedd yn dangaws ei *faran*,
A'i ryfedd fawredd o'r nef eirian.—*Tegid:* Gwaith, 44.

2. [cf. Ir. *barann*, anger] fury, rage, wrath, ire.

Pan wnel Duw dangos y *varan*
Dydwyre dy daerat arnan
Dychryn twryf torvoed yn eban
Dychyrch hynt dychre gwynt gwaetvan
Dychymriw tonn amliw am lan
Dychymer uvelyar bar bann
Dychrys gwrys gwres tande allan.
Casnodyn: M.A. i. 431 (cf. 578).

Abrwysgyl ei *faran* ar gàn y glas.
Gwalchmai: M.A. i. 196 (cf. 417).

Balch eryr *baran* Llyr Lledyeith.
Cynddelw: M.A. i. 215 (216, 222, 208).

Blaidd ym maran, a wolf in fury.—*Gododin*, 39.

Baran môr, the rage of the sea.

Baran môr y goryf guyt
Y am gatpul yn man bran ygcynnuyt.
Taliesin: M.A. i. 21.

Baran gwynt hydref, the fury of autumn wind.

But barawd *baran gwynt hydref*.
Cynddelw: M.A. i. 227 (cf. 223, 375).

Baran, *a.* furious; angry; wrathful, wroth.

Aerwyr gawr aruod vawr *varan*.
Cynddelw: M.A. i. 256 (cf. 225).

Dygoch llawr dwygad uawr *varan* . . .
Ac yn traws gadgun treis *uaran* ual gwr
Yn goruod ym pob uann.
Llyw. ab Llywelyn: M.A. i. 298 (cf. 375).

Baran, -od, *sm.* a wren.—*P.*

Barannedd, *sm.* [barant, baran] 'presence; appearance (*P.*);' a mansion?

Ugein punt oe uot eam rodes yn rot
Oe *varanet* nym didoles.
Cynddelw: M.A. i. 219 (cf. 29, 243).

Lle cyvanned llu rhianed
Gwawr *varanned* gwyry vorynnyon.
Gruffydd ab Meredydd: M.A. i. 471.

Barannu, *v.* [baran, barant] to appear; to come in view; to front; to present.—*P.*

Barannwg, *sm.* [barant]=*Barannedd.*

Y fort yd gertwyf gwrt yd gre branhes
Gwr yssy o *varanhwc* yny haryfle
Llawer vcheneid ym reid dy re.
Llywarch ab Llywelyn: M.A. i. 292.

Baranres, -au, -i, *sf.* [baran+rhes] 1. a line; a line, rank, or file (of soldiers).

Baranres (*gl.* linea).—*Oxf. Gloss.* i. 3 (Zeuss, G.C. 1052).

Rwy ceissud cystudd rybudd rageu
Rag ei *faranrhes* oi fawr feddeu.
Taliesin: M.A. i. 31 (cf. 169).

Cadarn gryngres ei *faranres* ni bu werthfor.
Taliesin: M.A. i. 71.

Seithenin saw di allan ag edrych
Uirde *varanres* mor maes Gwitneu rhytoes.
Gwyddno: M.A. i. 165 (cf. A.B. 59).

Hoffi digoni a digones llew
Ar llu tew trylew trwy *faranres*.
Cynddelw: M.A. i. 219 (cf. 222).

Yn dyrlid molyant mal yt es
Yn moli milwr *uaranres*.
Llyw. ab Llywelyn: M.A. i. 284.

Ar dalm mewn manau ereill oedd un fath
Orchestion gwiw o gof, lle brwydrai grym
Gabrïel, a chan ffrawdd arwyddion dwfn
Faranres Moloch frenin dywal a
Drywanai.—*W. O. Pughe:* C.G. vi. 389.

2. [cf. Ir. *barann*, a step] a flight of stairs, a staircase.

Yr oedd Llywelyn Bren yng Nghastell Syr Wiliam Fflemmin yn nawdd a chyttwng ammodau heddweh a chydfod; ac fal ag oedd Llywelyn Bren yn esgyn y *faranres* tua phen y castell, Syr Wiliam Fflemmin . . . a loches mewn cilgell yn ystlys y *faranres*, ac a'i tarewis ar ei ben â ffon gatai.—*Llanover Ms.* 73. 361.

Barant, annau, *sm.*=*Baran.*

Ciwdawd ffawd ffyniant *farant* dioferedd.
Gr. ab Meredydd: M.A. i. 446 (cf. 446*b*).

Dirdrai foliant Duw da *farant* fawredd.
Gruff. ab Meredydd: M.A. i. 461 (cf. 471).

Am diliwaw ym Duw lywydd
Mae dy warant mawr dy *farant*
Mewynfeilch garant maenfylch geurydd.
Iorwerth ab y Cyriog: M.A. i. 505.

Barbaraidd (*ā*), *a.* [L. *barbarus;* Gr. *βάρβαρος*] barbarian; barbarous; savage, uncivilised.

Y rhai a wyddom ni yn hyspys na ddarfuasai iddynt amryfuso, ac na buasai erioed ganddynt offerenau neilldual, na gweddïau mewn estroniaith *farbaraidd* . . . na dim o'r fath ofregedd.—*Morus Cyffin:* Diff. vi. 16.

Mae llu dirif ar duedd eich cyffinion,
Yn gwarchae Clusium, gwŷr *barbaraidd* gwylltion.
Nicander: Brennus, ii.

Dyn barbaraidd, a barbarous person, a barbarian.

Barbareidd-dra, } *sm.* barbarity, barbarous-
Barbareiddrwydd, } ness.

Barbareiddio, *v.* to barbarize.

Barbariad, iaid, *sm.* a barbarian.

Myfi a fyddaf *farbariad* i'r hwn sydd yn llefaru, a'r hwn sydd yn llefaru a fydd i mi yn *farbariad*.
1 *Cor.* xiv. 11 (cf. Rhuf. i. 14; Col. iii. 11).

A'r *barbariaid* a ddangosasant i ni fwyneidd-dra nid bychan.—*Act.* xxviii. 2 (cf. 4).

Am y gair *barbariaid*, a'r cyffelyb, mae i ni gystal hawl arnynt a'r goreu: nid yw *barbariaid* ddim gair yn y byd o'r dechreuad; ond rhai o gymmydogion y Groegiaid (y Phrygiaid neu'r Troiaid, mae'n debyg) oedd â chanddynt air go anhebgor, megys *bar, bar;* a'r Groegiaid yn ddig fod neb yn siarad heb iddynt hwy eu deall, a'u galwasant *barbariaid*.—*Gronwy Owain*, 306.

Barbariaeth, *sf.* barbarism; barbarousness, barbarity.

Barcer, -iaid, *sm.* [from E. *barker*] a tanner.—*N.W.*

A bu iddo aros yn Ioppa lawer o ddyddiau gyd ag un Simon, *barcer*.—*Act.* ix. 43 (cf. x. 6, 32).

Barclod, -iau, *sm.* [E. *barmcloth* (from *barm* (=bosom, lap) + *cloth*); A.S. *bearmclath*] an apron.—*N.W.*

Barclodaid, eidiau, *sm.* an apronful; a lapful.

Barclodaid y Gawres, the Giantess' Apronful= the name of chambered tumulus of large size, on the seacoast near Aberffraw, Anglesey, now in a dilapidated state.—*Arch. Camb.* 3 S. xv. 403.

Barcud, } cutod, cutiaid, *sm.* [C. *barges, bargos;*
Barcut, } Br. *barced, barged.* With *cud* (found also in *cudyll*) cf. E. *kite, †kitë, kytë;* A.S. *cyta.* The first syllable (*bar*) may refer to the rapacity of the bird: cf. *beri, bery, bury*] a kite, a puttock, a glede.

Haws gwneuthur hebog o *farcut* no marchawg o daiawg.
Diareb. (M.A. iii. 162.)

Tri pheth ni fydd da eu damwain: cath yn uffern; cyw colomen lle bo cyrch *barcutod;* a Chymro yng nghyfeillach Sais.—*Trioedd Doethineb:* M.A. iii. 255.

Y mae llwybr nid adnabu aderyn, ac ni chanfu llygad *barcud*.—*Iob* xxviii. 7 (cf. Lef. xi. 14; Deut. xiv. 13).

Yng ngherdded y dydd fe aeth y llanc i ben pren mawr ar fin afon i dynu nyth *barcut;* ac wrth wân ei law i'r nyth, efe a'i rhwygwyd gan neidr a ddygwyd yno gan y *barcut* idd ei hadar.—*Iolo Mss.* 202.

Er mwyn dyn, a gaed fyth afael ar yr hen *farcutiaid* y soniasoch am danynt gynt?—*Gronwy Owain*, 275 (cf. 270).

Barcud y môr, the sea-eagle (*Pandion haliaetus*).

Darlunia y cerfiad uchod ddau ryw o'r genedl hon: yr uchaf ydyw yr eryr moel, neu yr eryr penwyn . . . a'r isaf ydyw eryr neu *farcud y môr*. . . Gŵyr, wrth gamedd ei asgell, ac wrth ei ddull, mai *barcud y môr* ydyw, yn ymsefydlu uwch ben rhyw ysglyfaeth yn y dyfnder.
Cylchgrawn, i. 45.

Barcud mynydd, mountain kite.

Cyw barcud, a young kite.—*W.*

Troed y barcud, common meadow-rue, fen-rue (*Thalictrum flavum*).—*H. Davies:* Welsh Bot. 54, 240.

Barcutan, -od, -iaid, *sm.* [dim. in form, but not in meaning]=*Barcud.*

Haws yw gwneuthur hebawc o *varcutan* no gwneuthur bylein en dyskedyc en dyssevyt.
Brut Gr. ab Arthur: M.A. ii. 229.

Ef a balla cribdeil y *barcutaneit*, a danhed y bleidieu a bylant.—*Brut Gr. ab Arthur* (B): M.A. i. 262.

Mae brân a *barcutanod*.—*L. G. Cothi*, ii. v. 27.

Byd a fai, pe da ei fod,
Cyttûn â'r *barcutanod*.—*Llawdden.*

Mi a glywais hen chwedl, eb un arall, i'r colomenod gynt ammodi â'r *barcutanod* ar eu cadw rhag rhuthr y brain.
Theo. Evans: D.P.O. i. 4 (97; cf. 85).

Barcutan papyr, a paper kite; a kite or toy for flying in the air.—*S.W.*

Barch, *pl.* beirch, barchau, *sf.* a spear or lance.

Bu erchyll gwân â *barchau*
Brenin byd, Ior mwyn-bryd mau.
Dafydd Ddu Hiraddug (Ms.).

Barch hell yn briwo'i chylla,
A chlöen ddur yn ei chalon dda.—*Llanover Ms.*

Barchwyn, *a.* [barch+gwyn? cf. *parwyn*] having a white shaft or handle (as a lance)?

Gwŷr a meirch a beirch *barchwyn*.—*Llanover Ms.*

Bardys (*sg.* -en, *f.* -yn, *m.*), *s.pl.* shrimps.

Bardd, *pl.* beirdd, beirddion, *sm.* [C. *bardh, barth* (C.V.); Br. *barz;* Ir. and Ga. *bard;* Mx. *bardagh;* L. *bardus;* Gr. *βάρδος*] a bard, a poet.

Beird byt barnant wyr o gallon.—*Aneurin:* God. 258.

Beirddion bychain brain bro
Braidd nad ewch chwi ar ffo
Y *bardd* nim gostego
Gosteg ni's caffo.—*Taliesin:* M.A. i. 47 (cf. 33, 34).

Beirnaid am *beird* am ragor
Ath folant *feirdion* derwydon dor.
Cynddelw: M.A. i. 205.

Cymru a rif ei phrif-feirdd,
Rhifid ym Mon burion *beirdd*.
Gronwy Owain, 2 (cf. 116, 124).

Bardd teulu (*pl.* beirdd teulu), bard of the household, domestic bard. He was the eighth officer in the king's household.

Huethuet eu y *bard teulu*.—*Cyfreithiau Cymru*, i. 32 (cf. 4).

Ef adele kerth ykan e *bard teulu* pan uenno.
Cyfreithiau Cymru, i. 14 (cf. 4, 26, 32, 388, 390).

Achos hyny nis caid na beirdd cadeiriog na *beirdd teulu*, drwy wybod i'r brenin a'i gymhlaid.
Cyfrinach y Beirdd, 239.

Bardd cadeiriog (*pl.* beirdd cadeiriog), 1. a chaired bard.

Pan uenher canu kerd e *bard kadeyryauc* a decreu; ar canu kyntaf o Duhu ar eyl or brenyn byeufo ellys; neu onybyt ydau ef akaner, kanet ourenyn arall. Guedy e *bart kadeyryauc* e bard teulu byeu kanu trikanu okerd amgen.
Cyfreithiau Cymru, i. 32 (cf. 10).

2. a poet that has won a chair (at a modern eisteddfod); a chaired poet or bard.

Arferir y gair *bardd cadeiriawg* eto am un fyddo wedi ennill y prif destun mewn eisteddfod daleithiawl.
Caledfryn: Drych Barddonol, 136.

Bardd gorseddog, a presiding bard, a bard qualified to preside at a bardic gorsedd or convention.

O chaiff brydydd o drwyddedog nawdd, gadair mewn tair gwlad yn yr un flwyddyn, a dangos o hyny yng ngorsedd beirdd Ynys Prydain gynted ag y myno; bernir y prydydd hwnw yn *fardd gorseddog* o brifardd cyssefin.—Trwydded *bardd gorseddog* yw hyn.—*Iolo Mss.* 58 (cf. 53).

Tri chyntefigion *beirdd gorseddawg* Ynys Prydain: Plennydd; Alawn; a Gwron.—*Barddas*, ii. 40 (cf. 12—26).

A hwnw a vydd o *vardd gorseddog*, graddedig a gwarantedig o ddoethineb a gwybodau.—*Cyfreithiau Cymru*, ii. 510.

Bardd telyn, a performer on the harp, a harper. Cf. Corn. *barth hirgorn* (*gl.* tubicen), a trumpeter.—*C. V.* (Zeuss, G.C. 1070).

Mi a fum *fardd telyn* i Lleon [*al.* Theon] Llychlyn.
Taliesin: M.A. i. 20.

Bardd caw, a graduated bard, or one that wears the band or badge of his order.

Tri *bardd caw* y sydd: cyntaf, prifardd neu brydydd, a'i swydd a'i gelfyddyd yw prydu. . . Ail yw arwyddfardd, a'i swydd a'i gelfyddyd yw cof ac addysg a chyfarwyddyd. . . . Trydydd yw posfardd, a'i gelfyddyd yw dychymmygfawr addysg a chelfyddyd gynnil-gamp y beirdd diweddar.
Barddas, ii. 94.

Breichrwy bardd a wisgir ar yr ysgwydd is law'r cymmal, sef y cnuch, ac yng Ngwynedd *caw* a'i gelwid yn yr hen amseroedd . . . am hyny y gelwid bardd wedi y caffai radd pencerdd, yn *fardd caw;* a thri *bardd caw* y cyfrifid y prifardd, yr ofydd, a'r derwyddfardd.—*Iolo Mss.* 217.

Bardd graddol, a graduated bard.

Tri *bardd graddol* y sydd: prifardd; derwyddfardd; ac ofyddfardd.—*Barddas*, ii. 92.

Bardd braint, a bard of rights; a bard according to the rights of his order.

Llyma'r nodd y greddir beirdd ym mraint gorsedd: prifardd pendant neu brydydd, a elwir hefyd *bardd braint* a thrwyddedog braint, a radder yn brif-ddefodawl o drofedigaeth; sef ymrodd yn awenydd dan athraw o fardd gorseddawg.—*Iolo Mss.* 53.

Bardd wrth fraint a defod beirdd Ynys Prydain, a bard according to the rights and institutes of the bards of the Island of Britain.

Am dri achos y gelwir beirdd yn *Feirdd wrth fraint a defod beirdd Ynys Prydain:* un achaws, mai yn Ynys Prydain y cafad ddeall gyntaf ar farddoniaeth; ail, am na chafwys un arall (amgen) o wlad yn y byd ddeall cyfiawn erioed ar farddoniaeth ddosparthus; trydydd, am nas gellir cynnal barddoniaeth gyfiawn ond ym mraint defodau a dosparthau a llafar gorsedd beirdd Ynys Prydain; sef achaws hyny, o ba wlad bynnag y bônt, Beirdd wrth fraint a defod beirdd Ynys Prydain a'u gelwir.
Barddas, ii. 24 (cf. 40).

Bardd llys (*pl.* beirdd llys), court bard, court poet.

Beirdd Beli, bards of Beli; irregular bards. See *Bargodfardd*.

Tri rhyw beirdd Ynys Prydain: Prif-feirdd cyn Cred; gwedi hyny, *beirdd Beli;* a'r oferfeirdd; sef ydynt, y prydyddion na fônt wrth hen freiniau a defodau beirdd Ynys Prydain.—*Barddas*, ii. 24.

Bardd blawd, 1. a mendicant bard; a minstrel who goes about to beg meal (hence the name), corn, and other articles of food, and those of clothing.

Bardd blawd, gwr wrth gerdd yw, yn yta, blota, ac yn gwlana, ac yn cymhortha, amcan a gaffo.—*Barddas* (Ms.).

Tri pheth mwy cas no'r cyfan:
Offeiriad balch ei anian;
Prydydd pwl yn *fardd y blawd;*
A chlerwr tlawd ei driban.—*Gwilym Hir* (M.A. iii. 257).

2. one that borrows another's productions, and passes them for his own.

Bardd blawd, sef a gymmero mal yn echwyn bennillion, neu fanau, a synwyr, a dychymmyg arall.—*Barddas* (Ms.).

Bardd gorwlad, a bard of a foreign country; a foreign poet.

Ny dyly bard erchi dim heb y gannyat ef hyt y bo yn y swyd onnyt *bard gorwlat* vyd kannys ryd vyd hwnnw.
Cyfreithiau Cymru, i. 388 (cf. 678).

Beirdd yspyddaid, refugee bards (*P.*); smell-feast poets (*W.*).

¶ *Bardd* and *prydydd* are synonymous terms; and the M.W. poets are called indifferently the one or the other; as, Cynddelw *Brydydd* Mawr, Llywarch *Brydydd* y Moch, Phylip *Brydydd*, Trahaiarn *Brydydd* Mawr; Bleddyn *Fardd*, Llywelyn *Fardd*, Heinin *Fardd*, *Gwynfardd* Brycheiniog. The expression *beirdd a phrydyddion* seems to be a hendiadys; though occasionally it may perhaps denote different grades of the same order.

Yna y kynhalyawd yr arglwyd Rys wled arbennic yn castell Aber Teiui, ac y gossodes deu ryw amrysson vn rwg y *beird ar prydydyon*, ar llall rwg telynoryon a chrythoryon a phibydyon ac amryuaelon gerd arwest.
Brut y Tywysogion, 228.

Sef ar *feirdd a phrydyddion* yng nghadair a gorsedd nis dylid na hawl nac arynaig.—*Iolo Mss.* 213.

Hyd yn hyny o amser, y *beirdd a'r prydyddion* yn unig a ddysgaint wybodau llythyr ac awgrym rhif i'r Cymry.
Cyfrinach y Beirdd, 239.

Barddaeth, -au, *sf.* bardism; the system and maxims of the bards; poesy.

Ac nid ä o gnwd awen
Barddaeth bwyll heb ordd i'th ben.—*Edm. Prys.*

Barddaidd, *a.* bardish.

Barddair, eiriau, *sm.* a bard's word, dictum, or motto; bardic praise or panegyric.

Yssit ym argluyd argledyr anau beird
Am *bardeir* yn eidyau.
Cynddelw: M.A. i. 241 (cf. 210, 226, 232, 284).

Mae i'm byw be byddwn dewin
Ym *marddair* mawrddawn gyssefin.
D. Benfras: M.A. i. 308.

Llathraid fy *marddair* wedi Merddin.
Elidir Sais: M.A. i. 350 (cf. 336, 449).

Fy *marddair*, y gair a'm gwedd,
Yw gair anwyl Gwirionedd.
Iolo Morganwg: Salmau, II. 224.

Barddas, *sf-m.* 1. bardic lore, bardism; the system, doctrine, philosophy, or principles of the bards.

Trydydd yw derwydd . . . ac ef a ddysg gyfrinach *barddas*, a dwyfoldeb, a doethineb, a moesau daionus.
Iolo Mss. 55 (cf. 57).

Coronog faban, medd y *barddas*,
A eilw yn galonog o'r galanas.
Iolo Mss. 275 (cf. 266, 267, 279).

Llyma Lyfr y *Barddas*, sef derwyddoniaeth beirdd Ynys Prydain.—*Barddas*, i. 224.

Medd y *barddas* urddasawl,
Byd bach yw dyn iach dan wawl.—*Iorwerth Fynglwyd.*

Byr ddeunydd mewn barddoniaeth;
Barddas wir heb urddas aeth.—*Edm. Prys.*

Achwyn boen, a chnoi beunydd,
Barddas wael y beirdd y sydd.—*W. Cynwal.*

2. (=barddoniaeth) poetry, poesy.

Diliau *Barddas;* sef gwaith barddonawl; yn cynnwys odlau, cywyddau, englynion, carolau, a dyrïau ar wahanol destunau.—*Robert Davies:* Diliau Barddas (Enw).

Barddawd, odau, *sm.* the system or science of the bards.

Cyfiawn cathl fawrddawn *farddawd* diletpai.
Sefnyn: M.A. i. 504.

¶ Henry Salesbury, as quoted by Lhwyd (*Arch. Brit.* 214), unaccountably explains *barddawd* by *bardocucullus*.

Barddawr, orion, *sm.*=*Barddor*.

Barddes, -au, -i. *sf.* a female bard, a bardess or poetess.

Tair rhieinferch a fuant *farddesau* gorseddawg: un Gwenfedon ferch Tudwal Tudglud; ail, Eilliau ferch Wygyr Drwm; a Thegau Eurfron. Ac yng Nghaerlleon ar Wysg y tair.—*Trioedd y Beirdd.*

A chyd y gelwir Tydain Tad Awen, a Rhuawn Hen, a Madawg ab Alchnoe, a Chadawg Gwr Gwerin, ac Erddyled Leuferawg, ac Arianrod ferch Mynwar, yn feirdd a *barddesi* wrth fraint a defawd yr hen Gymry, nid iawn eu galw wrth fraint a defawd beirdd Ynys Prydain.—*Barddas*, ii. 132.

Barddes erioed mewn coedydd yw'r eos,
Un rywiog a chelfydd.—*Iolo Morganwg.*

Barddgan, -au, *sf.* bardic song or lay; poesy.

Gwr a ellid ei garu,
Darogan drwy *farddgan* a fu.—*Iolo Goch:* G.B.C. 85.

Barddgar, } *a.* fond of bards; loving or pa-
Beirddgar, } tronising bards.

Oed *beirdgar* bardglwm dilediaith.
Cynddelw: M.A. i. 213.

Barddged, -au, *sf.* a gift, donation, bounty, or largess bestowed on a bard or bards.

Om gwawd rann om bann om *bartged*
O walch ualch o feilchyawn [*al.* weilchyawn] giwed.
Cynddelw: M.A. i. 256.

Barddgwcwll, gycyllau, *sm.* 'the bard's cowl, or *bardocuccullus* [bardocucullus]; the principal part of the bard's unicoloured dress of distinction, of sky-blue; its form was [that of] the Roman toga, with a hood. The bard also appeared in this dress, in his public character; it served to distinguish him in battle as a herald, or bearer of a flag of truce, where he was always listened to, for both parties recognised him as the emblem of peace, and of truth—Bardd a adwaenir wrth ei wisg unlliw, canys unlliw yw gwirionedd.'—*P.*

Barddgwcwll is the assumed Welsh form of the Lat. *bardocucullus*, which was 'a Gallic overcoat (cloak) with a hood or cowl, made of woollen stuff, Mart. 14, 128; 1, 54, 5' (Lewis and Short's Latin Dict. s.v.). The composition (bardd+cwcwll) is unexceptionable, assuming that the first element of the term represents *bardus*, and not the *Bardaei* of Illyria; but the word is not found in any Welsh writer previous to the appearance of Pughe's Dictionary (1793—1803), nor is it known to occur afterwards, except perhaps historically. For the functions attributed by Dr. Pughe and Iolo Morganwg to the wearers of the *barddgwcwll* we are apparently indebted to bardic imagination; and the peaceful disposition here attributed to the Welsh bards is strangely at variance with the warlike spirit of their poetry.

Barddlef, -au, *sf.* the voice of the bard or poet; a bardic or poetic lay.

Fy *mardlef* is nef nid anghyfan.
Cynddelw: M.A. i. 210 (cf. 227).

Enwi ei *farddlef* Ion nef a wnaf.
Gr. ab Meredydd: M.A. i. 461 (cf. 462).

Barddles, *sm.* the benefit, advantage, or interest of the bard.

Costes kun *barddles* beirdlith
Ieuan ran rwyd dy diueth.—*Hillyn:* M.A. i. 414.

Barddlith, } *a.* alluring the bard; that at-
Beirddlith, } tracts bards or poets.—*M.A.* i. 414.

Barddlyfr, -au, *sm.* a book of the bards; a bardic composition.

Ar saul a gigleu vy *mardlyfreu*
Ry bryn huynt wlat nef adef goreu.
Taliesin: M.A. i. 34.

Deallu *barddlyfr* da a ellynt.
Llywelyn Goch: M.A. i. 515.

Barddodi, *v.* [barddawd] to talk flightily or fancifully; properly, to talk poetically.—*Gwent.*

Barddol, *a.* relating to bards; bardic, poetical.

Or *bardaul* leteinepp (*gl.* epica pagina).
Capella Glosses, 1.

Barddonaidd, *a.* poetic, bardic.

Barddoneg, -au, *sf.* poetry, poesy; poetics.

Diben cywreindeb mesur a chynghanedd oedd cynnal y Gymraeg, a'i *barddoneg*, rhag ei cholli.
Meurig Dafydd (Y Greal, 209).

A thi, *Farddoneg* fwyn, ber wiw-ddoeth fun,
I ffoi rhag pleser glwth y flaenaf un.
Th. Lloyd Jones: Cein. Awen, 171.

Barddones, -au, *sf.* [=barddes] a female bard, a bardess, a poetess.

Barddoni, *sm.* 1. poetry; bardic lore or science; bardism.

Teyr keluydyt ny dely mab tayauc eu descu heb kanyat yargluyd aked asdesko ef adely y duyn trakeuen onyt escoleyc guedy e kemerho urtheu sef eu henny escolectaut a gouanaet a *bardhony.—Cyfreithiau Cymru*, i. 78.

Cyuarchaf ym Ren cyuarchuawr awen
Cyureu Kyrridwen rwyf *bardoni*
Yn dull Talyesin yn dillwg Elfin
Yn dyllest bartrin beirt uannyeri.
Llyw. ab Llywelyn: M.A. i. 303 (cf. 281).

Ymsag toryf am goryf am gert westi
Amsathyr kyrt a byrt a *bartoni.*
Cynddelw: M.A. i. 219 (cf. 270, 275, 362).

Odid hafal, hyfwyn osteg, i ti,
Blaenawr *barddoni*, bri Brythoneg.—*Gronwy Owain*, 28.

2. *s.pl.* (=barddorion, beirdd), poets, bards.

Gwasgarawdd alaf braint uchaf bri
Gwasgawd cyrdd i fyrdd o *farddoni.*
Gr. ab Meredydd: M.A. i. 448.

Coronog faban, medd *barddoni*,
A ddaw i Brydain dros gefn gweilgi.—*Iolo Mss.* 277.

Pwy fal doethion *farddoni*,
Neu pa faint na wypwyf fi?—*Gronwy Owain*, 104.

Barddoni, *v.* to poetize; to compose verse; to cultivate poetry.

Er nad oeddynt yn meddu ar dalentau i *farddoni*, eto dywedir eu bod yn hoffi prydyddiaeth yn fawr.
Gr. Edwards: Gwaith Prydyddawl, 116 (cf. 128).

Y dull nesaf o *farddoni* y sylwn arno yw y dull arwrol.
Caledfryn: Drych Barddonol, 12.

Barddoniaeth, *sf.* 1. poetry, poesy; verse; the art of poetry.

Tair celvyddyd vreiniawl y sydd . . . sev ydynt, *barddoniaeth;* feryllтaeth; a llenoriaeth, neu lyvryddiaeth.
Cyfreithiau Cymru, ii. 506 (cf. 508, 510).

Tair cangen addysg beirdd Ynys Prydain: *barddoniaeth* neu brydyddiaeth; ac ar hyn y mae prydu, a chynnal cof wrth gân a llafar, a defod gorsedd, a chynnal a gwelläu celfyddyd y brydyddiaeth.—*Barddas*, ii. 42 (cf. 100).

Dygwyddodd i'r *farddoniaeth* Gymraeg yn gyflwyr y peth a ddygwydd i bob dysg o'r byd, unwaith y coller cyfiawn bwyll a sylw arno.—*Edward Dafydd:* Cyfr. y Beirdd, 5.

Barddoniaeth yw celfyddyd o ganu cerdd dafod yn dda; sef yw hyny, plethu ac eiliaw caniadau Cymreig yn gerddgar bencerddiaidd.—*W. Midleton:* Barddoniaeth, 59.

Tair ansodd *barddoniaeth:* athrylith awen; barn wrth ddysg; a gwynfyd meddwl.—*Cyfrinach y Beirdd*, 46.

Ni wedd i hyny fraint yn y byd, namyn ei ddydd anghen, hyd yn y gwelir, yn y modd y gwespwyd, hawl ac arddel iddo, rhag llygru *barddoniaeth* a barddas, a breiniau a defodau beirdd Ynys Prydain.—*Barddas*, ii. 50.

2. (=barddas, barddaeth), bardism; bardic lore, literature, or philosophy.

Barddoniaeth yw cyflawn wybodaeth dyn o ran ymadrodd, buchedd, a naturiaeth, yr hwn yw gwreiddyn pob dysg wybodawl.—*Dosparth y Saith Gelfyddyd.*

Tair cainc *barddoniaeth:* prydyddiaeth; ofyddiaeth; a derwyddoniaeth; sef cydfraint a chyfunbwys y bernir y tair cainc hyn.—*Barddas*, ii. 56 (cf. 88).

Barddoniaeth, -au, *sf.*=*Barddoniaeth.*

Enwogi a noddi wnaeth
Yn eang *farddoniaeth.—Gutyn Peris.*

Barddoniaethol, *a.* relating to poetry or poetics; pertaining to bardism.

Barddoniaethu, *v.* to follow the art of poetry; to poetize; to compose verse or poetry.

Ac o gyffelyb gelfydd a chyfiawn ganu a *barddoniaethu*, y ceir y dyrifau ym mhlith y goreuon o'r mesurau.
Cyfrinach y Beirdd, 170.

Barddonïaidd, *a.* [barddoni] poetic, bardic.

Byrdd-win eu neuadd *barddonïaidd*.
Dafydd y Coed: M.A. i. 494.

Ni chel i Hywel loew garuaidd lwybr
O bur ddawn ewybr *barddonïaidd*.
D. ab Gwilym, ccxxviii. 15.

Llyma Lafar Gorsedd Beirdd Ynys Prydain, lle gellir gweled breiniau a defodau beirdd Ynys Prydain, fal y maent o gyssefin arfer a chadarnhâd; a chyda hyn y mae trioedd y beirdd Cadair Morganwg, a phethau ereill er addysg *barddonïaidd*.—*Barddas*, ii. 10 (cf. 97, 102, 142).

A'r trofedigion a ddygant bob un ei frysyll o'r trilliw *barddonïaidd* yn frith-gymmysg, yn nod ac arwydd trofedigaeth.—*Iolo Mss.* 62.

Barddonol, *a.* poetical, poetic.

Mae yn debygol bod awdlau ac emynau ym mysg y cyfansoddiadau *barddonol* blaenaf. . . Yn y modd yma yr ydym yn canfod croniclau a hanesion y rhan fwyaf o genedloedd y byd wedi eu hysgrifenu ar ddull *barddonol* yn y dechreu.
Gr. Edwards: Gwaith Prydyddawl, 114.

Y mae llyfrau *barddonawl* yn parhäus ddylifo i'n cenedl.
Caledfryn: Drych Barddonol, 131.

Barddor, -ion, *sm.* 1. a bard or poet.

Ac felly y *barddorion* a'r gwŷr wrth gerdd a aethant ar ymdaith i glera o dŷ Iestyn i dŷ Rhys fab Tudur Fawr; a Rhys a fu hael wrthynt, ac a'u hanrhegodd ag aur ac arian am ganu ei glod; ac yno hwy a ganmolasant wraig Iestyn yn fawr, ac a adroddasant ei champau canmoladwy. . . Yno Rhys, pan y gwelodd ef degwch Nest a'i glân ymddiddan a'i champau gwybodus hi, fel na allai fe ateb mo'i thegwch a'i doethineb; yno efe a ennynodd o'i chwant hi; canys mwy rhagorol oedd hi nag y clywsai fe son am dani gan y *barddorion*.—*Hanes Dyfodiad y Normaniaid* (1721).

I ti mae'th wlad yn plethu'r lawryf goron,
A'th glod a genir gan *farddorion* Eifion.
Nicander: Brennus, iii.

2. the muse; poetry. Cf. *awenydd*=*awen*.

Haeduys deifnauc ri devnyd vym *bardaur*
Lluru llavnaur llaur llauryd.—*Cynddelw:* M.A. i. 239.

Barddrin, -iau, *sf.* bardic lore; bardic mystery.

Ar het ar dyhet ar deheu ri
Yr yueis y win o ualch uuelin
Ae wisgoet eurin ae uynogi
Yn llys Aberfraw yn llochi *bartrin*
Yg Kaer uawr Vyrtin vyrtyoet beri.
Llyw. ab Llywelyn: M.A. i. 303 (cf. 278).

O benn Talyessin *bartrin* beirtrig
Barteir om kyueir ny byt kyuig.
Cynddelw: M.A. i. 232 (cf. 255, 258).

Ac o'u gosod a'u cyssylltu, herwydd y bo cyfrin, y gwneir y geiriau a'r ymadroddion; ac o'u ffasgellu yn eiriau herwydd cyfrinach y gwneir llythyr anfon ag wynt, a llyfrau cyfrin, nas gwypo neb eu gofeg, namyn a fônt gyfrin; ac nid iawn herwydd defawd a briduw eu datrin; a rhiniau beirdd a'u gelwir, *barddrin*.—*Barddas*, i. 154.

Barddu, *v.* to poetize; to versify.

Pe gallwn, *barddwn* yn ber
Ganau o fawl i'm gwiw-Ner.—*Iago Trichrug.*

Barddwaith, weithiau, *sm.* poetic work or achievement.

O *farddwaith* od wyf urddawl,
Poed i wau emynau mawl.—*Gronwy Owain*, 11.

Heb *farddwaith* hybleth o ganmoliaeth dawn.
Th. Lloyd Jones: Ceinion Awen, 181.

Barddwawd, -iau, *sm.* bardic panegyric, praise, or encomium.

Gnawd canaf y volyant ual Auan Vertic
Neu *uartwawd* Aronan.—*Cynddelw:* M.A. i. 262 (346).

Traethws fy nhafawd trwy nerth y Drindawd
Traethawd om *barddwawd* mor ddibarha.
D. Benfras: M.A. i. 317 (cf. 476).

Barddwawd fel y gwnai beirddion
Defnyddfawr o wlad fawr Fon.—*Gronwy Owain*, 2.

Baren, -au, *sf.* [bar] a branch.

Barf, -au, *sf.* [† baryf, baraf: C. *barf*, *bar*; Br. *barv*, *barô*; L. *barba*: cf. Ir. *bearbh*, *v.*] 1. a beard.

Llyma yr oed y dylyir gwneuthur dyn yn yngnad, yn ei bum mlwydd ar hugaint. Sef achaws yw, wrth na bydd cyflawn ei synwyr a'i ddysg hyd yna; ac na bydd *barf* arnaw hyd yna; ac na bydd gwr nebun hyd pan ddêl *barf* arnaw; ac nad teg gweled gwas ieuanc yn barnu ar wr oediawg.—*Leges Wallicae*, i. xvi. 40.

Baryf ar *uaryf* ac aryf yn greuled.
Cynddelw: M.A. i. 224.

Ac eillaw y *uaraf* aoruc asychu y benn ae vynwgyl ar twel.—*Mabinogion*, i. 18.

Mefl ar dy *farf* yn Arfon,
Ac ar dy wefl mefl ym Mon!—*Dafydd ab Gwilym*, cxxv. 3.

Mab cyn barf, *Llanc cyn barf*, a youth before growth of beard; a beardless youth.

Tri chyswynbwyll y sydd dros gwared llys ac ynad ar gosp gadarn: mam yn gwared ei phlant; *mab cyn barv*; ac estron anghyfiaith, a wnelo yn erbyn cyfraith a brodoriaeth.—*Cyfreithiau Cymru*, ii. 486.

A Nefydd ab Rhun ei fab, yn *lanc cyn barf*, a ymwroles o weled lladd ei dad, a galw gwŷr ataw, a gyru ffo ar ei elynion.—*Iolo Mss.* 121.

Barf dwfr, foam or froth?

Deuliw *barf dwfr* llafarfas,
Delw glaer ar len dyli glas!—*D. ab Gwilym*, xviii. 9.

2. beard (of plants); filaments, fibres, or small roots.

Cais chwart o winegr coch, a phwy ddyrnaid o gennin drwy'u *barfau* a'u dail, a berw werth ceiniog o fara rhyg sur am ei ben.—*Meddygon Myddfau*, ii. 275 (cf. 513).

3. (in botany).

Barf yr afr, goat's beard (*Tragopogon*).—*H. Davies:* Welsh Bot. 73, 156.

Barf yr afr felen, yellow goat's beard (*Tragopogon pratensis*).—*H. Davies:* Welsh Bot. 73.

Barf y bwch (=erwaint) meadow-sweet, queen of the mead (*Spiraea*).—*H. Davies:* Welsh Bot. 156.

Barf y gath, cat's beard, a kind of grass.—*Llanover Ms.*

Barf y gwr, beard-grass (*Andropogon*).

Barf y gwr hen, *Barf yr hen wr*, traveller's joy (*Clematis*).—*H. Davies:* Welsh Bot. 134, 156.

Barf yr hen, ragged mallow.—*Iolo Glossary.*

Barfau'r derw, tree lichen or moss (*Lichen plicatus*).—*H. Davies:* Welsh Bot. 156.

Barfan, **Barfen,** -au, *sf.* [barf] a little beard.

A'th *farfan*, fechan foch-waedd,
Yn grych o beth fal gwrych baedd.—*Thomas Prys.*

Ac ysgwydd, erwcanrwydd ci,
Trwy'i ŵn, och o'r trueni!
A *barfen* o gloren gwlaw,
Abwy hyll, heb ei heilliaw.—*Ieuan Du'r Bilwg.*

Barfdeg, *a.* having a fair or handsome beard.

A Dawns *Varyfdec* ae harwedawd parth ac at Chyarlys.
Yst. de Carolo Magno, col. 424.

Barfdew, *a.* having a thick beard, thick-bearded.

Barfdrwch, *a.* having the beard cut or clipped.

Barmb truch .i. truncate barbe.—*M. W. Gloss.*

Hence a cognomen of Gwrgant ab Beli, a reputed king of Britain in the 4th century B.C.

Ac wedy marw Beli y dayth Gwrgant *Varf-drwch* y vab ynte yn vrenin.—*Brut Tysilio:* M.A. ii. 156.

Gwrgant *Farfdrwch* ab Beli ab Dyfnwal a fu frenin ar holl Ynys Prydain.—*Hen Ysgrif* (Y Greal, 5).

Ac ym mysg ereill, gwr a elwid Gwrgant *Farfdrwch* a areithiodd yn y wedd hon.—*Theo. Evans:* D.P.O. i. 2 (54).

Barfdy, dai, *sm.* a barber's shop.—*W.*

Barfgoch, *a.* having a red beard.

Barfiad, -au, *sm.* a growing of beard.

Barflaes, *a.* having a long beard.

I'r rheidus *barflaes*, llesg, ar bwys ei ffon,
Amgeledd rhoddai, a chroesawiad llon.
Blodau Ieuainc, 53.

Barflas, leision, *a.* having a blue beard.

Barfle, -oedd, -au, *sm.* [barf+lle, in reference to its covering the beard and face] the beaver of a helmet.

Nychaf Gwrlas iarll Kernyw ae vydin yn dyvot attynt ac yn gwascaru y Saesson. Sef a oruc Eidal yna y hyder hynny kymryd Heyngyst erbyn *barfle* y benffestyn ai dwyn ym plith y vydin. a dywedyt o hyt y lef. kywarsengwch y Saesson.—*Brut Gr. ab Arthur:* M.A. i. 272 (cf. B).

Barflwyd, *a.* having a grey beard, grey-bearded.

A phan gymerth hi dir ny welei ef yndi. namyn gwr prud *baryflwyt* yr hwnn aoed yn daly llyw.
St. Greal, § 153.

Bydd lawen, Lundain, Duw lwyd a'th ddysgodd,
Trwy ddoeth esgob *barflwyd.*—*Rhisiart Huws.*

Gwasdad vydd haf araf llyn
Barflwyd rhew glew i erchwyn.
Engl. Eiry Mynydd: M.A. i. 551.

Barflwyd, -ion, *sm.* [adj. used substantively] a grey-beard; an old man.

Barfog, *a.* 1. bearded, having beard; having much beard; hirsute.

Tri buelydd gosgordd Ynys Prydain. . . Trydydd, Llawfrodedd *Farfawc* a fuelis wartheg Nudd Hael fab Senyllt.
Trioedd: M.A. ii. 70.

2. barbed, bearded.

Picell farfog, a barbed javelin.—*W.*

Barfog, -ion, -iaid, *sm.* the lesser butcher-bird or wood-chat: also called *y cigydd bach.*

2. the barbel; a fish. Pughe says, the finfish, which is a species of slender whale.

Barfogyn, *sm.* [dim. of *barfog*] the barbel.

Barfol, *a.* relating to the beard; bearded.

Barfrwog, *a.* having a thick strong beard.

Iestyn Farfrwog, Iestyn with the thick beard.

Barfrwyn (*sg.* -en, *f.*), *s.pl.* [bar+brwyn] great sharp sea-rushes (*Juncus acutus*).—*H. Davies:* Welsh Bot. 156.

Barfu, *v.* to grow beard; to grow into a beard.

Barfwr, wyr, *sm.* a barber.

Yn ddifrif rhown ddiofryd
Holl hifwyr a *barfwyr* byd.—*Gronwy Owain*, 22.

Barfwyn, *m.* } *a.* having a white beard, white-
Barfwen, *f.* } bearded.

Odid, filyn *barfwyn* bach,
Y gellid cael ei gallach.—*Gronwy Owain*, 22.

Aethant oll ymaith, oddi eithr ef ei hun a rhyw hen wr *barfwyn.*—*Cylchgrawn*, i. 307.

Eu tad a elwid Cynyr *Farfwyn.*—*Y Greal*, 288.

Bargad, -au, *sf.* an imminent attack.—*P.*

Tair clud *vargad* y sydd: cyrch gelyn gorwlad; llev, neu gorn, murn a chynllwyn; a threv ar dân; sev y dylit gynnorthwy gan bawb.—*Cyfreithiau Cymru*, ii. 476.

Bargadfardd, feirdd, *sm.*=*Bargodfardd.*

Ath gyfarchaf *vargat vard.*
Taliesin: A.B. ii. 136 (cf. M.A. i. 36).

A thri bardd caw y cyfrifid y prifardd, yr ofydd, a'r derwyddfardd; neu o fodd arall, prifardd, neu fardd glas; arwyddfardd, neu wynfardd; a *bargadfardd* a chylfardd.
Iolo Mss. 217.

Bargan, *sf.* apparently the same as *Margan* (q.v.), said to be a goddess of the lower regions; but in the following quotation she is represented as the demon of satire and frivolity.

Bargan, cythreules y canu sen a maswedd.—*Llanover Ms.*

Bargaw, *a.* ready, at hand.—*P.*

Bargawd, *sm.*=*Bargod.*

Bargeinio (*N.W.*), } *v.* to bargain; to make a
Bargena (*S.W.*), } bargain or contract; to cheapen, chaffer, or haggle.

Trist yw cofio'r awr adgasa',
Pan am dana'i'r oedd *bargena.*—*Daniel Ddu*, 325.

Bargeiniwr(*N.W.*), } wyr, *sm.* a bargainer; a
Bargenwr (*S.W.*), } cheapener, chafferer, or haggler.

Bargenwr caled ydyw, he is hard to bargain with; he is a hard chafferer.—*C.S.*

Bargen, -ion, } *sf.* [from E. *bargain:* O.Fr.
Bargain, geinion, } *bargaine, bargaigne;* It. *bargagno*] a bargain; an agreement or contract. Also written *margen* (cf. Ir. *margadh*).

Y mae'r *fargen* wedi ei chloi.—*Gro. Owain*, 209.

Yr hwn a arfero wirionedd a chyfiawnder yn ei ymddiddan a'i *fargenon*, nid rhaid iddo trwy ofer dyngu wneuthur i'w gymmydogion i gredu.—*Ed. Iames:* Hom. i. 94.

Pa *fargen* ennillfawr fyddai i un brynu teyrnas am welltyn?—*Gruffydd Wynn:* Ystyr. ii. 5 (164).

Bargen dda, a good bargain.

Rhag ofn a fyddai i gurad, druan . . . gael *bargen* ry *dda* ar ei law ef.—*Gronwy Owain*, 165.

Bargen ddrud, a dear bargain.

Bargen ddrud a'i chyrchu o bell.—*Diareb.*

Yn y fargen, into the bargain; besides.

Bargen ddrwg, a bad bargain.

Rhai am godi'r farnad . . . ereill am *ddrwg fargenion.*
Elis Wynn: Bardd Cwsg, 95.

Taro'r fargen, to strike the bargain.

Cafodd fargen arno, he had a bargain of it.

Bargeniad, } -au, *sm.* a bargaining; a chaffer-
Bargeiniad, } ing or haggling.

Bargod, -ion, *sm.* [kindred with L. *margo?*] 1. the eaves (of a house).

Diaingc tros fawrgaingc *fargawd* grudd prydydd.
Sefnyn: M.A. i. 503 (cf. 522, 558).

Bwgwth mae'r gloewon bigau
O'r *bargawd* y mein-gnawd mau.
Dafydd ab Gwilym, cxciv. 31.

Fal y daw gwlaw drwy'r gwlydd i'r *bargod*,
Fal y gwelid ôd, fal goleu dydd.—*L. G. Cothi*, III. i. 61.

Gochwiban gwynt i uch *bargawd.*
Engl. Eiry Mynydd: M.A. i. 550.

Troednoeth a phennoeth, â'i ffon
A'i gydau dan *fargodion.*—*Dewi Wyn:* Blod. Arf. 82.

Bargod to, the eaves or edge of a roof.

Bargod tŷ, the eaves of a house.

2. a border, a margin; a skirt.

Pan ddêl y gath fraith i lan Ieithon;
Pan fo'r Gwyddelod ym *margod* Mon;
Pan fo ymguro am goron wrawl;
Pan fo iso hawl, penaf yw Sion.
L. G. Cothi, I. xxxviii. 21.

3. the lower edge or border of something that resembles the eaves of a house.

4. *bargodion*, borderers; the inhabitants of the marches.

Bargod, -au, *sm.* [=bragod; bragodi, bragu] a ferment; fermentation; commotion, insurrection; self-motion. Cf. *Bargodfardd.*

Rhyfel bargod, intesture war, civil commotion; insurrection.

Wedi *rhyfel bargod* Owain Glyn Dwr, gwaharddodd y brenin adael i bapur a phlagod gael eu dwyn i Gymru.
Iolo Mss. 206.

Bardd Bargod=*Bargodfardd.*

Bargodfardd, } feirdd, *sm.* [bargod=bragod] a
Bargadfardd, } self-instructed bard; a poet that has not received regular training in his art.

Bardd bargod, a *bargadfardd,* un ag a fo wedi cyrhaedd gwybodau barddoniaidd drwy ymgais diwyd a deallus ei awen alluog ei hunan, neu o leiaf heb addysg rheolaidd athraw; a gwedi holi a chwilio ei wybodau nerth awen, rhoddir iddo radd ofyddfardd; yr hwn, herwydd dosparth y Ford Gron, a elwir *bardd bargod* a *bargodfardd* (*bargadfardd*) gan mai o fargodiad ei awen a'i bwyll ei hunan y medrodd ar wybodau; ac er diffygion yn ei wybodau, ni ludd hyny ei radd iddo, eithr derbynir ef dan adduned, a dodir addysg a weler achos arno wedi hyny.—Pam y gwedir mai'r *bargodfardd* yw'r cyssefinfardd, ac mai o'r *bargodfeirdd* yr henyw y graddau ereill? Am mai o ymgais awen a deall cymhen-bwyll y cafwyd *bargodfardd,* ac nid o drofedigaeth athraw cadeiriog; am hyny rhaid bod athraw cyn macwy neu drofedig . . . am hyny *bargodfardd* oedd yr athraw cyntaf. . . Gwybodau bargod oeddent y rhai cyntaf; am hyn athraw bargod oedd yr athraw cyntaf, a *bardd bargod* oedd y bardd cyntaf.—*Llanover Ms.* 34.

Bargodfeirdd y gelwir beirdd Gwynedd, achos mai o *fargodiain* y maent, ac nid o'r prifeirdd.—*Llanover Ms.* 54.

Bargodi, *v.* 1. to jut out or overhang (like eaves); to form eaves.

2. to border; to skirt; to confine or bound.

O Glynnog lon i'r Penmaen Mawr ystyfnig
Mae'r gwastad dir yn ffrwythlon, ac arbenig
Am fangoed deiliawg yn *bargodi* 'r caeau,
A llawrlen frith wrth draed yr uchel gribau.
O. Wynn Jones: Myrddin Wyllt, xxiv.

Un o siroedd arforol y gogledd; *bargodir* hi ar y gogledd gan Fôr Iwerddon.—*Parthsyllydd,* i. 618.

Bargodi, *v.* [=bragodi] to ferment; to heave; to spring up; to work.—*Gwent.*

A'r trafod fal hyny a bair iddo *fragodi,* a chynnull blawn. . . Lle bo gofyn clai, dwg ef yn domeni bychain ar hyd dy dir brynar, a gwedi *bargodi* o hano yn y tes a'r gwlaw, arddu arno.—*Cato Cymraeg* (Y Greal, 202).

A phan ddêl y gwlaw, *bargodi* a wna'r tir, a chynnull blawn wybren.—*Cato Cymraeg* (Y Greal, 204).

Mae'r toes yn bargodi, the dough heaves.—*Gwent.*

Bargodiad, -au, *sm.* an overhanging; a jutting; a bordering.

Bargodiad, *sm.* [=bragodiad] fermentation; a heaving; a rising; commotion; insurrection.

Bargodiain, *s.pl.* [bargod] borderers; people dwelling on the marches of a country; marchers.

Ys *bargodyein* ni bisswys
Ny byd nes y baradwys
Nyt gwaeth urd odynn noc urd eglwys . . .
Pwy wledych wedy *bargotyein?*
Cyfoesi Myrddin: A.B. ii. 223 (cf. M.A. i. 141).

Swydd marchog yw marchogaeth, a dwyn arfau marchog yn erbyn rhuthr ac ymgyrch, yn erbyn alltudion anrheithgar, ac yn erbyn *bargodiain* annosparthus gwlad a chenedl, ac yn erbyn pob bradgyfarfod, ac yn erbyn pob bradgynghyd.—*Llanover Ms.* 30.

Bargodiain, *sm.* [bargod=bragod] an extraordinary session, court, or tribunal.

Sef yw *bargodiain,* rhaith gwlad a chenedl neu arglwydd a chyfoeth, er trefnu a fo achos a gerystyr; ac yn amser Beli ab Benlli Gawr y bu'r *bargodiain* a'r dygynnull gwlad a chyfoeth a'i doethion, er trefnu beirdd yng Ngwynedd, lle ydd oeddynt ar goll achos gormes y Gwyddelod dan Don, brenin Llychlyn a Dulyn.—*Llanover Ms.* 54.

Bargodiaint, *sm.* insurrection, commotion.

A gwedi difant *bargodiaint* Owain Glyn Dwr doded Monachlog Pen Rhys i lawr, a gwerthu'r cyfoeth, gan y Brenin Harri'r Bummed.—*Cyfrinach y Beirdd,* 213.

Bargodog, *a.* having eaves.

Bargodol, *a.* belonging to eaves; prominent.

Barhau, *v.* to be angry; to rage.

Ac wrth henny llidiaw a *barhau* aoruc e brenhin wrthaw. ac erchi idaw ymchwelu yr llys i gwneuthur iawn yr brenhin.—*Brut Gr. ab Arthur:* M.A. i. 290.

Bariaeth, -au, *sf.* [bâr] 1. mischievousness; viciousness; mischief; vice.

Oferwr, llawn o *fariaeth,*
I Sion wyf; rosyn y iaith!—*L. G. Cothi,* iv. xxiii. 31.

Ti dyni 'r mawr elyniaeth a *bariaeth* am dy ben;
A goflin fyd ac aflwydd o ddilyn swydd y sen.
Dafydd Ifan Sion (Cyfr. y Beirdd, 164).

Ni thynai ef y cleddeu
O'r wain, heb gywir eisieu,
I gospi *bariaeth.*—*Daniel Ddu,* 328.

2. greed; rapacity, voraciousness.

Gewai, nid annhebyg o ddull a maint i gi ydyw: y mae yn hynod am ei *fariaeth.*—*R. Roberts:* Daearyddiaeth, 9.

Baril, -au, *sf.* [Ir. and Ga. *bairille;* Mx. *barrel;* L.L. *barile, barillus, baurilis;* E. *barrel, †barayl, barele, barell, baryll, barrell, beryll;* Fr. *baril:* said to be of unknown origin; the Celtic words are probably adopted from the English] a barrel, a cask; a cylinder resembling a barrel.

Baryl damtug.—*Cyfreithiau Cymru,* i. 302.

A gwedy eu bot ynn crwyttraw yn hir amdanaw y cawssant ae tynnu or diwuyr ae dodi ymywn *baril* prenn ae dwyn odyno y le y bei weledigaeth gann Duw y lehau.
Llyfr Gwyn Rhydderch, 69.

Diodydd ynn rhydd ein rhi Rhydderch-naws
O *faril* gyngaws rhydraws Rhodri.
Llywelyn Goch: M.A. i. 514.

Dwy *faril* fal da Ferwyn,
Heb lai liw no Gweble lyn;
Nid prenau *farilau* 'r iaith,
Barilau a bawr eilwaith.
L. G. Cothi, i. xxxix. 32 (cf. xxx. 26).

Mae'i gwrw fo o'r goreu i'w gael yn y gwyliau;
Gwnawn dyllau'n o foreu'n ei *faril.*
Edw. Richard: Bugeilgerdd, i. 21.

Baril dryll, the barrel of a gun.

Barilaid, eidiau, *sf.* a barrelful.

Barilan, -au, *sf.* a small barrel or cask; an anker.

Barilo, *v.* to barrel; to put in a barrel or cask.

Bario, *v.* [bar] to bar, to bolt; to fasten by a bar or bars.

Bario drws, to bar or bolt a door.

Bariog, *a.* barred; checkered; barry.

Mae rhai yn dwyn aruæ *barrioc* o amrauaelion liwiau yn drostiæ ar draws y darian. Ac val hynn y discrir, mae yn dwyn yn *varrioc* arian a sabyl.—*Cyfraith Arfau.*

Barlad, } -iaid, *sm.* [from E. *mallard*] a drake.
Barlat, }

Yr oedd gantho bedair dafad;
A *barlad* a dwy hwyad;
Hen geiliagwydd a gŵydd lwyd,
Yn gwaeddi am fwyd yn wastad.
L. Morys: Didd. Teul. 163.

Barlen, -au, *sf.* [Br. *barlen:* cf. *barclod*] the lap. Probably a Breton word transferred.

Barlin, *sm.* supremacy; distinction; aristocracy?

Tair clud *varlin* y sydd: cenedl gysevin yn ngorsedd gwlad a rhiaint; ynad a'i bleidorion, yn myned gan varn a chyfraith; a thywysawg, a'i osgordd, yn myned yn rhyfel gorwlad; sev yw *barlin,* rhiaint a phencenedloedd, neu beneiviaid cenedl a chynghaws.
Cyfreithiau Cymru, ii. 476.

Barlys, -au, *sm.* and *s.cl.* [cf. *bara:* C. *barlys:* O.E. *bærlic, barlic, barlich, berley, berlick*] barley.

Cymmer *farlys* lonaid dy ddwylaw, a briwa yn fân mewn mortyr, a chymmer ddyrnaid o'r bitain . . . a briw yn fân wrthynt eu hunain gymmaint a hanner y *barlys* o honynt.
Meddygon Myddfai, ii. 527.

Barlysau, barleys; different kinds of barley; barley crops.

Y mae barlysau da eleni, there are good crops of barley this year.—*C.S.*

Barlys moel, naked or awnless barley.

¶ *Barlys* is the common term for the grain in S.W. and *haidd* in N.W., the latter name being generally restricted in the south to the square-eared or winter barley. Both names occur also in Cornish.

Barlysa, *v.* to gather or collect barley; to go about begging for barley.

Melus iawn yw pob chwedl a newydd perffaith ddisail ac anwireddus a adroddir gan Sian, Magws, a Madlen, wrth *farlysa* ym Mawrth, hol maidd ym Mai, a lloffa ym Medi!
Ios. Harris: Seren Gomer, vii. Rhag.

Barlysyn, *m.* } *s.* a barleycorn, a grain of
Barlysen, *f.* } barley.

Barllyd, *a.* [bâr] full of rage, furious, irate.

Nycha uwch ben wr aflawen
Hen Eiddig du dan wargrymu,
Wyneb tomlyd, golwg *barllyd*,
A barf lwydgoch, cyfliw gwrych moch.
Rh. Goch ab Rhicert: Iolo Mss. 248.

Barn, -au, *sf.* [Br. *barn:* cf. C. *barner*=barnwr; O.Ir. *barn* (*gl.* rechtaire), lawgiver] 1. judgment (in its different acceptations).

Tair colofn *barn:* eon amcan; mynych arfer; a mynych gamsynied.—*Cyfrinach y Beirdd*, 46.

Mae gwr fyth am gywir *farn*,
Maith ofydd ym Mathafarn.—*W. Lleyn.*

Barn dremyg, void or nugatory judgment.

Tri ryw *varnn tremyc* yssyd vn yw barnn arother yn erbyn dyn nys clywho pan datkaner yn gyntaf y mywn y llys.
Cyfreithiau Cymru, i. 478.

Dydd barn, judgment day, doomsday.

Goddeu f' armerth, o'm nerthyd,
Yw *dydd barn* a diwedd byd.—*Gronwy Owain*, 87.

Dydd y farn, the day of judgment.

Eithr *dydd y farn* a fydd diwedd yr amser hwn.
2 *Esd.* vii. 43.

Esmwythach fydd i Tyrus a Sidon yn *nydd y farn*, nag i chwi.—*Matt.* xi. 22 (cf. 24).

Llys barn, a court of judicature, a court of justice.

Barn a darfelydd, judgment and imagination.

2. opinion; notion; judgment.

A hyn yw *barn* athrawon diweddar.
Cyfrinach y Beirdd, 100.

Barn y wlad, the opinion of the country; public opinion.

Barn y wasg, the opinion or opinions of the press.

Fy marn yw, } it is my opinion; I am of
Barn yw genyf, } opinion; my opinion is.

Ai *barn* yw genyt, y bydd i bob byw gyrchu cylch y gwynfyd o'r diwedd? *Barn* yw genyf hyny, can nas gellir llai na hyn o gariad anfeidrol Duw.—*Barddas*, i. 230.

¶ The pl. *beirn* is rare and found only in poetry.

Ond os ei blant ef (trwy afrôl)
Nid ânt yn ol fy nghyfraith,
Os hwy ni rodiant, gan barhau,
I'm *beirn* a'm llwybrau perffaith.
Edm. Prys: Salm. lxxxix. 30.

Barnad, } -au, *sf.* [corr. of *marwnad*] an elegy
Barnod, } or monody, a dirge.—*C.S.*

Cerdd farwnad, & cywydd neu awdl *barnad*, neu alargerdd.—*Dr. I. D. Rhys:* Gram. 146.

Barnadwy, *a.* judicable; judicious; condemnable, culpable, blamable.

Nyt *barnadwy* yn uolyant namyn yn agkyghorus ꝺrudannaeth heb y pagan ymrodi yn wastad y lauuryeu a pherigleu heb orffwys.—*Yst. de Carolo Magno*, col. 467.

Barnais, eisiau, *sf.* [L.L. *vernix;* E. *varnish;* Sp. *barnoz:* cf. *bernais*] varnish.

Barnawd, odau, *sm.* a judging; judgment; adjudication.

Barnedig, *a.* judged, adjudged; ratified or established by law (so as not to be annulled or repealed); good in law; decided.

Os gwŷl yn deilwng, yntau biau ei ellwng ef ar yr arglwydd, a'r arglwydd biau ystynu iddaw yntau yngneidiaeth; ac yn *farnedig* y frawd a farno yntau o hyny allan.
Leges Wallicae, 186.

Deddf farnedig, established law or statute.

A bydded hyn i feibion Israel yn *ddeddf farnedig*.
Num. xxvii. 11.

Barnedigaeth, -au, *sf.* judgment.

Hwy a ddangosant i ti reol y *farnedigaeth*.—*Deut.* xvii. 9.

Clodforaf di ag uniondeb calon, pan ddysgwyf *farnedigaethau* dy gyfiawnder.—*Salm.* cxix. 7.

Barnedigaethau Duw, the judgments of God.

Barnedigol, *a.* judicial.

Neu ni ufuddhao a chadw rhybudd *barnedigol* a chyfreithlon y barnwr dywededig.—*Canonau Eglwysig*, 134.

Dallineb barnedigol, judicial blindness.

Ni a allwn, medd ein hawdwr, ddal sylw, mor hynod yr estynasai yr Hollalluog ei law yn erbyn yr Iuddewon; oni buasai eu bod tan *farnedigol* galedrwydd calon, yn ddiau buasai'r gwastadol arwyddion yma o ddigofaint yr Arglwydd yn peri iddynt wneuthur adgofiad arnynt eu hunain.—*W. Lewes:* Dwy Daith, Rhag. 1.

Barneisio, *v.* [barnais] to varnish.

Barniad, } -au, *sm.* a judging; a judgment; a
Barnad, } condemning or casting by judgment; adjudication.

Barniawdr, iodron, *sm.* a judge; a critic.

Beirniad byd ein Tad cofiad cyfa
Barniawdr ammerawdr meirw obeithfa.
Iorwerth ab y Cyriog: M.A. i. 535.

Barnodydd, -ion, *sm.* a judge; one who passes a sentence; an adjudicator.

Ambi *barnodydd* o anhyngres dieu.—*Taliesin:* M.A. i. 75.

Barnog, *a.* judged, adjudged.

Beru ymdivant *barnauc* or cant.
Nys ryuelyd.—*Taliesin:* M.A. i. 51.

Barnol, *a.* judicial; judiciary, judicatory.

Llu heb farn a fydd arnynt,
A llu *barnol*, heinniol hynt.—*Gr. ab I. ab Llew. Fychan.*

Y weithred ddiweddar a'r erthyliad eu gau Fessïah a'u gwnaeth hwynt yn llwyr ddibris trwy'r byd, fal nad oes dim ond cyndynrwydd dyngedfenol, ac amlwg a *barnol* felltith o'r nef a allai eu sefydlu hwynt yn y rhyfeddol ddallineb.—*W. Lewes:* Dwy Daith, 160.

Barnor, -ion, *sm.* a judge; an adjudicator.

Bydd rhaid wrthyf fi fod yn un odd y *barnorion* ar gywyddau y beirdd.—*W. O. Pughe* (Seren Gomer, xx. 294).

Barnu, *v.* 1. to judge; to adjudge; to adjudicate (upon); to award; to decide or determine; to cast or condemn.

Os byw vyd gwnaet iawn mal y *barno* goreu gwyr y llys.
Mabinogion, ii. 25.

Na *fernwch*, fel na'ch *barner:* canys â pha farn y *barnoch*, y'ch *bernir*.—*Matt.* vii. 1, 2.

Ti a *fernaist* yn gyfiawn: ond pa ham na *ferni* dy hun hefyd?—2 *Esd.* iv. 20.

Ni eill *farnu* ni wrandawo.—*Diareb.* (M.A. iii. 167.)

A wnel dyn Duv ae *barn*.
Englynion y Clywed: M.A. i. 172 (cf. iii. 148).

2. to judge; to be of opinion; to deem or think; to consider (as the general opinion).

Nis gwelir achos, herwydd pwyll ac ansawdd o'r byd, y dylid *barnu* hyn yn afrywiog ar ganu; ffordd yw a fu ar arfer gan yr hen feirdd, ac a *farnwyd* yn gyfiawn yng Ngorsedd Llwydarth, a gynneilwyd yno gan Antoni Pywel.
Cyfrinach y Beirdd, 103.

Barnus, *a.* addicted to judge or censure; censorious.

Arfer awdur pob llyfr yw ei gyflwyno ef i ryw wr urddasol, tan nodded yr hwn y caffo, wrth fyned allan i'r byd *barnus*, trafferthus hwn, achles a diogelwch.
Rondl Davies: Profiad yr Ysprydion, 1.

Barnwr, wyr, } *sm.* [C. *barner;* Br. *barner,*
Barnydd, -ion, } *barnour*] a judge; an adjudicator.

Rhag un amser i'th wrthwynebwr dy roddi di yn llaw y *barnwr*, ac i'r *barnwr* dy roddi at y swyddog.—*Matt.* v. 25.

Pe byddit ti yn *farnwr* rhwng y ddau hyn, pa un a gyfiawnhëit?—2 *Esd.* iv. 18.

Oni wna *Barnydd* yr holl ddaiar farn?—*Gen.* xviii. 25.

Barnydd yr holl bethau hyn yw duwiol a Christionogawl fywyd.—*Ed. Iames:* Hom. i. 53.

Llyfr y Barnwyr, the Book of Judges.

Barnwriaeth, -au, *sf.* judgment; judicature; judgeship.

Yny vlwydyn honno y bu uarw Robert escob Henford gwr a oed herwyd yn *barnwryaeth* ni grefydys a chyflawn o weithredoed cardodeu a hegar borthwr y tlodyon.
Brut y Tywysogion, 176.

Barofydd, -ion, *sm.* [bar+ofydd] a barrister.

Barog, *a.* [bâr] full of wrath.—*P.*

Baron, -iaid, *sm.*=*Barwn.*

Aeth Lewys brenin Freinc ac amherawdyr yr Almaen a ieirll a *baroniet* lluossogrwyd y Garusalem.
Brut y Saeson: M.A. ii. 562.

Barones, -au, *sf.*=*Barwnes.*

Baroniaeth, -au, *sf.*=*Barwniaeth.*

Barrog, -au, *sf.* [bar: cf. Ir. *barrog*] a spur.—*D.* (citing W. Lleyn.)

Barrug, *sm.* 1. hoarfrost, white frost, rime.

Blodau gorau a garwn,
Barrug haf ydyw brig hwn.
D. ab Gwilym, xlvii. 40 (cf. lv. 22).

Bwrw barrug, to rain and freeze (at the same time); to pour down in rain which freezes as soon as it falls; to sleet; to snow or hail with a mixture of rain.

2. dew.—*N.E.W.*

Barrugiad, -au, *sm.* a riming.

Barruglyd, *a.* rimy; abounding with hoarfrost.

Barrugo, *v.* to rime; to cast a hoarfrost.

Ar nosweithiau yn y gauaf, yn enwedig os byddai hi yn *barrugo*, yr oedd yn oernadu yn ofnadwy iawn.
Brython, iv. 309.

Barrugog, *a.* abounding with rime or hoarfrost, rimy.

Barrugol, *a.* casting a hoarfrost; inclined to be rimy.

Barth, -au, *sm.* the ground; a floor; the ground floor. Sometimes written *parth*.

Nid oes gantho'r iâr i grafu'r *barth*.
Diareb. (M.A. iii. 171.)

Achos i'r bysen fod ar y *barth*.—*Diareb.* (M.A. iii. 145.)

Diogach bellach i'r *barth*
Y daw gweiniaid i Genarth . . .
Mi a gawn im' o Genarth
Arian ar bob rhan o'r *barth*.
L. G. Cothi, v. xi. 9 (cf. vii. iii. 19).

Y byd, ei gaer, a'i gyrau i gyd,
O do'r ser cannaid hyd *farth*, ysgrubliaid,
Pysg, ac ymlusgiaid, a'r hediaid fwy na rhi',
A roed, O ddyn, yn ddeiliaid,
Er teyrnged fach i ti.
Elis Wynn: Bardd Cwsg, 48 (cf. 49).

Barth y tylwyth teg, fairy ground; a ring or circle of greener grass frequently found in pasture-lands.

Barth tylwyth teg, y cylch glas a welir ar y tir glas, ar dir haiarn-bridd.—*Ed. Lhwyd.*

Ar y barth, on the ground; on the floor.

Barthlys, *sm.* [barth+llys] pellitory of the wall (*Parietaria officinalis*).—*H. Davies:* Welsh Bot. 17, 157.

Barug (*ă*), *sm.* See *Barrug*, &c.

Barus, *a.* [bâr] 1. mischievous; naughty; vicious; refractory, froward.

Anifail barus, a vicious animal.

Fe wnaeth Duw bob peth yn drefnus;
Rhoes gorn byr i'r eidion *barus*,
A byr allu i'r byr ei wyllys.—*Diareb.*

Bachgen barus, a mischievous boy.

2. greedy; rapacious, voracious.

Ymruthrant i lawr gyda buander digyffelyb, gan guro eu hadenydd mawrion, i syfrdanu eu hysglyfaeth; llanwant eu cydau, a dychwelant i'r lan i ddigoni eu gwanc *barus*.
Cylchgrawn, i. 262.

Barwn, -iaid, *sm.* [L.L. *baron-em;* O.E. *barun, barune, baroun, barown, baroone, barroun, barroun, barne, barron;* O.Fr. *barun, baron;* Br. *baron, baroun;* Ir. *barún*] 1. a baron.

Yno y gelwys Emrys attaw y holl ierll ae *varwnyeit* ar archescob i Gaer Efrawc.
Brut Gr. ab Arthur: M.A. ii. 274.

Ac yny vlwydyn honno yd ymchoelawd brenhin Lloegyr o Iwerdon, gan adaw yno *uarwneit* a marchogyn urddolyon drostaw.—*Brut y Tywysogion*, 216 (cf. 172, 184).

A phan welas y brenhin hynny a *barwnyeit* y llys, ny bu hoff ganthunt.—*St. Greal*, § 1 (cf. 2, 5, 142).

Ar da hwnnw arannei Owein y *varwnyeit* ae uarchogyn.
Mabinogion, i. 21 (cf. 277; ii. 5).

Barwn, mi a wn ei ach,
Ni bu *barwn* bybyrach.—*Iolo Goch*, i Owain Glyndwr.

Hwn, mab i *farwn* yw fo,
A *barwn* yw hwn heno.—*L. G. Cothi*, v. xiii. 41.

Dy ewythr yw, daw i'th raid,
O freiniau'r hen *farwniaid*.—*Gutyn Owain.*

Os ber fu oes y *barwn*,
Oes hir i arglwyddes hwn.—*Tudur Aled.*

2. a baron or peer (one of the lowest grade of nobility).

Barwnes, -au, *sf.* a baroness.

Barwnes, er bwrw anhun,
Bryd glwys o liw brodiog hun.
Dafydd ab Edmwnt: G.B.C. 115.

Fu'r un oes *farwnesau*,
I lawr hyd fil o'r rhodfäu?—*Dewi Wyn:* Blod. Arf. 207.

Barwniaeth, -au, *sf.* baronage; baronry; barony.

Da ydyw yt', nid wyd waeth,
I dair brân droi *barwniaeth*.—*L. G. Cothi*, II. iii. 65.

Barwnig, -ion, *sm.* [barwn] a baronet.

Y trydydd *barwnig* o'r enw, a thad y *barwnig* presennol.
Gwaith G. Mechain, i. 285.

Barwnigaeth, -au, *sm.* baronetcy; baronetage.

Baryflen, Barywlen,) -au, *sf.* the apex or upper part (of a shield).

A dodi swch vyntaryan. ar penn vy march ae vwng. adodi y *baryflen* ar vympenn vy hun. ac velly porthi y gawat.
Mabinogion, i. 9.

Swch y darian a *barywlen* y darian.—*Hanes Arthur.*

Baryn, *sm.* [bar] a small bar; a baston or batoon.

Barr a vydh lhydan ac yn estyn yn union ar draws y darian. *Barryn* a vydh yr un modh onit y vot yn veinach nor barr.—*Cyfraith Arfau.*

Byrllysg (*baryn*) mewn arf-bais, yn cyrhaedd o fewn ychydig, o gornel bwygilydd i'r cwnsallt.—*Walters.*

Baryw, *a.* topmost, uppermost; superior.—*P.* A doubtful word.

Oer gwely piscawd ygkisscawd iaen
Cul hyd cawn *baryw* haud [*al.* barywhaud]
Birr diwedit gwit gwyrhaud.
Llywarch Hen: M.A. i. 130 (cf. A.B. ii. 47).

Bas, *a.* [C. *bas;* Br. *baz;* L.L. *bassus;* Fr. *bas;* It. *basso*] 1. shallow, not deep.

Dwfr bas, shallow water.

Archaf i dref Gaer, a'i maer, a'i mach,
Oerchwedl i'r dinas mewn *dwr bas* bach.
L. G. Cothi, v. vi. 29.

Basaf dwfr man yd lefair=the water is shallowest when it makes the loudest noise; empty vessels have the greatest sound.—*Diareb.* (cf. M.A. i. 551; iii. 149.)

Nid oedd *fas* ei gywyddeid.
Taliesin: M.A. i. 59 (cf. 37, 196).

Lle bas, a shallow place (in a river); a shallow.

2. (fig.) shallow; superficial; low.

Cludnawd wawd wir cenir nid cas
Nid cas *fas* fodd fudd ardduniant.—*Y Proth:* M.A. i. 492

Ni ddylai fardd fyfyrio ar unpeth gwael o'r byd; sef yr hyn a fo *bas* ac aflwys.—*Cyfrinach y Beirdd*, 20.

Maro a orug mawr-waith,
Bas y gwŷl Bawas y gwaith.—*Gronwy Owain*, 26.

Bas ei ben (ei synwyr, ei ddeall), shallow-witted, shallow-brained.

Bas, *pl.* beisiau, bais, *sm.* a shallow; a shoal; a shelf; a flat.

Arduyreaue vn . . . a unaeth Maurth a Llun a mascul a bun. ac nat kyuorun *bas* ac anotun.—*Myv. Arch.* i. 575.

Y mae pryf atcas oi kaer Satanas
A oresgynas rhwng dwfn a *bas*.—*Taliesin:* M.A. i. 20.

Gorddyar, bâr, a berw-ias
Yn ebyr, ym myr, ym *mas*.—*Gro. Owain*, 90.

Rhydio wnai rhai y *bas*, ac ereill nofient
Y dwfn, a phawb ei gyfaill cynnorthwyent.
Nicander: Brennus, iii.

Bas, -au, *sf.* [=mas: Ir. *bas*, death], 1. a swoon, a fainting fit, a qualm, a syncope.

I ostwng *basau* a fydd yn codi i'r pen.
Meddygon Myddfai, ii. 236.

Rhag y *basau*, a'r clefyd bendigaid, cymmer . . . a gwna 'n llwch, a dyro i'r claf.—*Llanover Ms.*

2. cessation of life, death.

Sain' Niclas, wedi 'r *fas* fau,
A fo'n dwyn f' enaid innau.—*L. G. Cothi.*

Bas, -au, *sm.* [L. *basis;* Gr. βάσις; Ir. *basa*] a base or basis; a pedestal.

Y ddiscwylva honn a gynnhelir o un post. ag ar hwnnw y bydd *bas*. sef yw hynny ryw weith maen a elwir velle. ag ar y *bas* hwnnw dwy colofon. sef yw y rei hynny breicheu. ag ar y rei hynny *bas*. ag ar honno pedeir colofon. ag elchwyl *bas* ag ar honno un vreich ar bymtheg. ac velle y kerddir ar y gweith yn y dhelher y ryvedi pedeir colofon a thrugeint. ag oddyna y lleiheir rif y *basseu*. ar colofneu hyt pann ddelher ar un. . . Y colofneu hagen ar *baseu* o un ryw genedyl vaen gwerthvawr ynt.
Yst. Gwlad Ieuan Fendigaid, § 13, 14.

¶ Never adopted into the language, and probably found only in this curious tractate.

Basâd, *sm.* a making or becoming shallow.

Basaidd, *a.* rather shallow.

Basarn, -au, *sm.* [=masarn: E. *maser*] a maple bowl or drinking cup; a bowl, a basin.

Naw arian gwpan lle gwedd gwin cadarn,
Naw-wyr â *basarn* ar eu bysedd.—*L. G. Cothi*, i. xxv. 47.

Ffyniant yt' fu'r moliant mau,
Phylip *fasarn* ffiolau.—*Llawdden.*

Aur oedd ei bwnc herwydd barn,
Eurai fiwsig ar *fasarn*.—*Sim. Fychan:* Md. Ifan Delynior.

[Gwin mewn arian, a medd mewn corn, a'r cwrw mewn *masarn*, a'r llaeth mewn ffiol bren, a'r dwr mewn ffiol bridd.
Ymdd. Merddin a Gwenddydd].

[*Maser-tree*, the maple, from the bowls or drinking cups, called *masers*, being made from the knotty parts of its wood, called in O.H.G. *masar*, whence M. Latin *scyphi maserini*. . . Bowls made of silver and gold were called by the same name. . . 'Pecys of syluyr, *masers* of golde.'
Prior: Popular Names of British Plants, 147].

Basäu, *v.* to make shallow; to become shallow.

Basdardd, *sm.* See *Bastardd*, &c.

Basder, Basedd, -au,) *sm.* shallowness; want of depth; superficialness; vulgarity.

Bai yw gormodd o'r gwaelder a'r *basder* sathredig ar y Gymraeg, herwydd arfer gwladaidd yr annysgedigion, a siarad y cyffrediniaid.—*Cyfrinach y Beirdd*, 12.

Tri pheth a anhoffant gerdd: *basder* ystyr; sathredig ddychymmyg; ac anurddas y prydydd.
Trioedd Doethineb: M.A. iii. 136.

Basel, -au, *sm.* [prob. a contr. of Eng. *baselard:* cf. *Baslart, Basil*] a spatula (in shape resembling a baselard)?

Cymmer fêl un amcan, a dwr ffynnon bedair amcan, a dod mewn crochan pres glân i ferwi; a phan ddelo'r cwyr a'r eliw i'r wyneb, cymmer ymaith â *bassel* hyd oni dderffo i'r berw grawenu; yna berw ar dân canolig oni phanno'r dwr yn lân, ac ydd erys y mêl yn gras yn y crochan.
Meddygon Myddfai, ii. 114.

Baselu, *v.* to remove with a spatula? to skim.

Cymmer faenelyf [printed faenclyf] gwyn, a briw'n fân, a berw mewn dwr ffynnon dair ias arno; ac o cyfyd saem arno, *bassela* 'n fanol oni ddarffo hyny.
Meddygon Myddfai, ii. 118.

Basfor, -oedd, *sm.* a shallow sea; a sound.

Basg, -au, *sf.* [=*masg*] a netting, plaiting, or interweaving of splinters, rods, or wires; lattice; net-work; wicker-work; platting.—*Iolo Glossary.*

Basg, window-wires, window lattices.—*Gwent.*

Nid ai bysgod o'i *basgau*—*Gwilym Tew*, i Rwyd.

Bardd ni chyll y brithyll braisg
O berfedd caeth ei byr-*faisg*.—*Gwilym Tew.*

Basgau rhwyd, the meshes of a net.

Basgawd, odau, *sf.* [basg: cf. L. *bascauda*, mentioned as a British word by Martial (xiv. 99):

Barbara de pictis venit *bascauda* Britannis,
Sed me jam mavult dicere Roma suam.

Cf. Juvenal, xii. 46; Du Cange, s.v. *Bascaudæ;* Dr. Davies, s.v. *Basgawd*. As a modern word the form may have been suggested by *bascauda*. Whether the article named by the Roman satirists was exactly the same as our *basket*, can hardly affect the question] a basket.

Basged, -au, -i, *sf-m.* [C. *basced;* Ir. *basceid; bascaod;* Ga. *bascaid;* Mx. *baskaid:* cf. E. *basket*, of which the latest etymologists say: 'Origin not ascertained: not in Teutonic or Romanic; found in Eng. since 13th century;' but no example is given earlier than about 1300] a basket.

Basged ddelw bysgod ddilyn
Meredydd ab Rhys, i'r Cwrwgl.

Gan loffa y lloffant weddill Israel fel gwinwydden: tro dy law yn ei hol, megys casglydd grawnwin i'r *basgedau*.
Ier. vi. 9.

Bysgodwyr! llenwch eich *basgedau*.—*Tegid:* Gwaith, 77.

Ac wedi llenwi y *basgedi* â grawnwin, hwy a'u taflant hwynt i lawr i'r gwragedd—. *Cylchgrawn*, i. 266.

Basged cleddyf, the basket or guard of a sword.

Basged fara, a bread basket.

Basged ferhelyg, an osier-, twig-, or wicker-basket.

Basged gyrs, a reed basket.

Basged pysgotwr, fisherman's basket, calceolaria.—*S. W.*

Basgedaid, eidiau, *sf.* a basketful; as much as fills a basket.

A hwynt oll a fwytasant . . . ac a godasant o'r briwfwyd oedd yng ngweddill, ddeuddeg *basgedaid* yn llawn.
Matt. xiv. 20 (cf. xv. 37; xvi. 9).

Mor ynfyd fyddai ef, yr hwn a fyddai gantho *fasgedaid* o asglodion, ni roai un o honynt am gan pwys o aur!
Gr. Wynn: Ystyr. 164.

Basgedan, -au, *sf.* a little or small basket.

Basgedog, *a.* having a basket; basketted.

Basgedol, *a.* pertaining to a basket or basket-work; bascaudal.

Basgedu, *v.* to basket; to put in a basket.

Basgedwr, wyr, **Basgedydd**, -ion, } *sm.* a basket-maker.

Wedi adgael gwybodaeth ar y coelbreni . . . mynai bawb agos, gwryw a benyw, eu dysgu a'u gwneuthur; ac o hyny myned yn waith crefft gan wegryddion a *basgedyddion*.
Iolo Mss. 208.

Basgedwr, eiliwr y wialen, wyf,
Heb ofal nac anghen;
Im', ei gwas gwych, megys gwên
Haul agos yw'r helygen.—*Harri Lleision.*

Basgedwraig, wragedd, *sf.* a basket-woman.

Basgell, -au, *sf.* a wicker-basket.—*Gwent.*

Basiad, -au, *sm.* [basu] a rendering shallow.

Basil, *sm.* [apparently the same as *basel*, contracted from E. *baselard:* see *Baslart*, *Basel*] a kind of sword, a baselard?

Bwa yw oesawg, a llafn *Basil*,
A byw yw Risiart fal coed Brasil.
L. G. Cothi, I. xxx. 41.

Thomas a'i waew a'i *fasil*
Anturiai faes hwnt ar fil.—*D. Llwyd ab Gr. ab Einion.*

Dur y sydd newydd, bob naw,
Deg wythwaith wedi 'i gweithiaw;
Drwy'r bais, a'r dur o'r *Basil*.
Ugain myrdd a chweugain mil.—*L. G. Cothi*, II. viii. 57.

Baslart, -au, *sm.* [O.E. *baselarde*, *baslarde*, *baslaerd*, *basiliard*, *baselard;* O.Fr. *basalart;* L.L. *bassilardus:* from *Basil* or *Basel* in Switzerland? Cf. *melan* or *belan* from *Milan;* and E. *bayonet* from *Bayonne*, *bilbo* from *Bilboa*, &c.] a baselard, 'a species of dagger or hanger, usually worn at the girdle.'

Na bleiddiau deau, neu ystiwart, Gwyddyl,
Nac Iddew, neu Lwmbart,
Na byw osler, na *baslart*,
Na maen o dŵr, na min dart.
Dafydd Nanmor? (Iolo Mss. 313).

Basle, -oedd, *sm.* a shallow place (in a river, &c.).

Basrwydd, *sm.* shallowness.

Basryd, -au, -iau, *sf.* a shallow ford.

Rhoi yn rhwym irdderw lliw berw *basryd*.
Gr. ab Meredydd: M.A. i. 455.

Bastardd, -iaid, *sm.* [C. *bastardh;* Br. *bastard;* Ir. and Ga. *basdard* or *bastard*] a bastard, an illegitimate child.

Ar Heralt hwnnw auuassei iarll yn gyntaf . . . a ennillawd yn andylyedus uchelder teyrnas Loeger, a hwnnw a yspeilwyd oe teyrnas ae wywyt ygan Wilim *bastard* tywyssawc Normandi.—*Brut y Tywysogion*, 44 (cf. 50, 52, 182, 184).

Gwahardd di *fastardd* dy fost!
D. ab Gwilym, cxxv. 14.

A'r drydydd haint y chwys drewllyd achos llygru yr yd gan wlybaniaeth yn amser gormes y Normeinwyr, y gan Wiliam y *Bastardd*.—*Trioedd:* M.A. ii. 59.

Bastardd mul, a mule.—*N. W.*

¶ The derivation proposed by Davies [*bas*+*tardd*, *tarddu*), and adopted by others, is plausible, and would be satisfactory, were it not that the word is found in French and some other continental languages, which cannot well be supposed to have borrowed it from the Celtic. The O.Fr. *bastard*, now *bâtard*, is generally derived from *bast* (O.E. *bast*), a packsaddle, and the term. *-ard* (as in *cow-ard*, *drunk-ard*); but this can hardly be considered conclusive. The older form is *bastardd*, not *bastard* as found in the Welsh Bible (*Heb.* xii. 8; cf. *Deut.* xxiii. 2), in which it appears to have been adopted direct from the English. It was probably introduced soon after the Norman Conquest, and the first recorded instance of it occurs as the cognomen of the Conqueror. It is significant that it is not found in the Welsh Laws, in which we might naturally expect it, if then known in the language. The fact that it is capable of yielding the required meaning as a Welsh word may have facilitated its adoption. The earliest recorded use of it in English dates from about the beginning of the 14th century.

Bastarddaidd, *a.* bastard; illegitimate; spurious; of base origin.

Bastarddes, -au, *sf.* a female bastard.

Bastarddiad, -au, *sm.* bastardization.

Bastarddiaeth, -au, *sf.* bastardy; illegitimacy; baseness of origin.

Bastarddio, **Bastarddu**, } *v.* to bastardize; to debase; to deteriorate.

Bastarddol, *a.* of base origin; bastard; illegitimate.

Basterddyn, *sm.* a little bastard; a bastard.

[Na ddeued *basterdyn* i gynnulleidfa yr Arglwydd.
Deut. xxiii. 2].

Bastwn, ynau (*ȳ*), *sm.* [O.Fr. *baston* (mod. *bâton*), of unknown origin, according to Brachet; O.E. *baston;* Br. *baz*, a stick; Ir. *bat*, *bata*, a stick] a stick, staff, club, or cudgel; a rude walking-stick. Also written *pastwn;* and the irregular pl. *bastwyni* and the verb *bastwyno* is frequently heard in S.W.

Cyfraith y bastwn, law of the cudgel, club-law, lynch-law.

Chwareu y bastwn dwybig, to play fast and loose; to prevaricate.

Cyn gostwng bastwn, without delay; with all possible speed; in the twinkling of an eye.

Dywed Carnhuanawc mai poethder brwydr y ffyn yn y Mwnt [ger Aberteifi] yw dechreuad y ddiareb, '*Cyn gostwng bastwn*.'—*Gwyniony dd:* Briallen, 32.

Bastyniad, -au, *sm.* a cudgelling; a lynching.

Bastyno, **Bastynu,** **Bastynio,** *v.* to beat with a cudgel or staff; to cudgel; to truncheon; to lynch.

Bastynwr, **Bastyniwr,** wyr, *sm.* one who beats with a cudgel or stick; a cudgeller.

Llawenaf, breiniolaf bryd
Yw'r *bastyniwr*, bost annwyd.—*D. ab Gwilym*, xcii. 41.

Basu, *v.* [bas] to render shallow; to lower; to become shallow.

Batail, eiliau, **Batel,** -au, oedd, *sf.* [O.E. *bataille, bataile;* Fr. *bataille;* L. *batalia;* Ir. *batail*] a battle, a combat.

Agwedy hynny wynt adoethant yr neuad. a llawer o varchogyon urdolyon ac ysgwieryeit ygyt ac wynt y rei abarassei y wreic udunt dyuot y edrych ar y *uateil*. Ac yna ef aerchis y wreicda y Vwrt vynet y vwyta. Ac ynteu adywawt na mynnei vwyt yny darffei y *vateil*. . . Ac yno wynt awelynt lawer o dylwyth yn aros Bwrt. ar unbennes yd oed y *vateil* arnei.—*St. Greal*, § 39 (cf. 26).

Mae *batelau* 'm mhob talwrn,
Mae Owain aeth mewn i wrn.—*Rhisiart ab Rh. Brydydd.*

Dir yw y gwnai, darogan oedd,
Fyd teilwng o *fateloedd*.—*Iolo Goch*, i O. Glyndwr.

Coronog faban a gyfyd ddydd Gwener
Yn erbyn Gog a Magog a'u hanifer,
Ac a rydd *fatel* dan ei faner;
Gwae'r Sarasiniaid pan ddêl ei anifer.
Iolo Mss. 281 (cf. 284).

Batelu (*ē*), **Batelio,** *v.* to battle, to fight, to combat.

Yno gwae'r Sarsin a fo'n ei amser,
A gwae *batelu* dan ei faner.—*Iolo Mss.* 268 (cf. 271, 277).

Batelus (*ē*), *a.* battling, fighting; quarrelsome. —*P.*

Bating, -au, *sm.* [see *Beting*] paring and burning of the surface of land for manuring it; paring and burning; sod-burning. Also called *beting* (q.v.) and sometimes *bïeting*.

Llosgi bating, to burn thin slices of turf after being pared off the surface and dried; to practice sod-burning.

Batingen, *pl.* batingod, *sf.* 1. a thin sod of surface soil sliced off for burning: also called *maten*.—*Dyfed.*

2. a sheaf of corn having the grain or ears thrashed out, but not converted into loose straw.

Batingen, ysgub wedi ei brig-ddyrnu.—*B. M. Ms.* 15059.

3. a defloured woman.—*Rhisiart Morys.*

Batingo, **Batio,** *v.* 1. to pare and burn the surface of land; to pare the ground.

Batingo tir, to pare and burn the surface of the soil.

2. to thrash; to beat.

Ond gan nad oedd y deyrnas yn ffrwyth cyfatebol i'r llafur, a'r had, a'r cafodydd nefol yr oedd Duw yn ei ganiatäu iddi, gadawodd i'r Papistiaid eu *batingo* hi eilwaith, a llosgi'r Protestaniaid yn aml.
Ch. Edwards: Hanes y Ffydd, 144.

Batty, tai, tyau, *sm.* [contr. of *abatty*, q.v.] an abbey.

Ae hwynt yn essgyb ae hwynt yn abadeu ae hwynt yn eglwyssic dynyon ereill yr ychaf y vreint o anadynt bieu tervynu ar y llall, or bydant kygwarchadw gogyfywch ac ony bydant yr hyn a vo y kygwarchadw gantaw ae *batty* ae esgotty bieu tervynu.—*Cyfreithiau Cymru*, ii. 400.

Bath, -au, *sm-f.* [C. *bat* (C.V.), *bath;* L.L. *batto* (=L. *battuo*); Fr. *battre:* cf. Du Cange, s.v. *Battere;* Arch. Camb. 4 S. iv. 267] 1. stamp, impression; money stamped; a coin.

Pedwar peth a ganalod y brenhin yny law ehun: vn yw, gwneuthur *bath;* eil yw gwneuthur kyfreith; trydyd yw kynal breint bagylogyon y deyrnas.
Cyfreithiau Cymru. ii. 364.

Hwn a dderbyniesai yr un, aeth ac ei claddodd yn y ddaiar, ac a guddiodd *fath* [*arian, fwnai] ei arglwydd.
W. Salesbury: Matt. xxv. 18 (cf. 27).

Mab gwreng yn caru merch Iarll y Clar; hi nis mynai am nad oedd oludog; myned i ben y ffordd fawr a gwylied ysgogyn arlwydd y cyfoeth yn dychwel o gynnull arian ei arlwydd tua'r castell, a'i ladd, a chymmeryd ei arian, dangos y *fath*, a'r rhiain yn ei briodi.—*Iolo Mss.* 194.

Aur bath. Cf. s.v. *Aur.*

Y mae Rhoser fal seren,
Amliw ar weilch Maelawr wen;
A'i *aur bath* o bedwar bys,
Yn oleuni'r Fêl-Ynys.—*L. G. Cothi*, vii. ix. 21.

Arian bath: cf. s.v. *Arian.*

Da bath, monetary property; specie; coin; money.

Heb arian wedi'r blaned,
Heb *dda bath* y bydd y byd.
L. G. Cothi, iii. xxviii. 23 (cf. iii. vii. 15).

Ym mhlith gweddillion cynoesol y Brytaniaid, gellir rhestru y *bathau* o aur ac arian o'u heiddo. . . Arferant *fathau* o efydd, ac aur; a modrwyau haiarn, wedi eu cywirio at bwysau neillduol, yn lle *bathau*.
Carnhuanawc: Han. Cym. 40.

Be *bath* o aur, ba beth yw?
Ai oriadur aur ydyw?—*Dewi Wyn:* Blod. Arf. 202.

Am ba ham, y mae ar naill wyneb yr arian a fathwyd dan ei lywodraeth ef, ddwy fraich estynedig yn siglo dwylaw. Ac y mae y *fath* hon heb fyned ar goll eto.
Theo. Evans: D.P.O. i. 2 (62).

Y byd ffals a'r bywyd ffol,
Beth wyd, megys *bath* hudol?
Sion Tudur: Md. Sion Wynn.

2. likeness; sort, kind; the like or equal.

Nyd *bath* llath yn llaw ysgereint
Ny byt byth bydawl y gymeint.
Llyw. ab Llywelyn: M.A. i. 286.

Tynu gwr tan y gweryd,
Ni thynir *bath* hwn o'r byd.—*Tudur Aled:* G.B.C. 237.

Amryw bwnc ymwnc ammhwyll,
Ai hwn yw'r bwth twn, *bath* twyll!
D. ab Gwilym, cxl. 39.

Bu riddfan am bereidd-fath,
Bod bun yn y byd o'i *bath*.—*D. ab Edmwnt*, G.B.C. 115.

Brau a hael, ddianhael ddyn,
Bath Ifor, pawb a'th ofyn.—*T. Prys.*

Bath o beth oeddynt y llyfrau cyntaf a gafad ar wybod i genedl y Cymry gyntaf?—*Barddas*, i. 57 (cf. ii. 138).

Ni ellir gosawd ar ymadrawdd pob sylfon cadarn yn lle y ddarymsawdd; neu ynte bob *bath* ar ddarymsawdd dros ei sylfon.—*H. Perri:* Egl. Ffr. vi. 5.

A welsoch chwi fath y rhai hyn erioed? did you ever see the like of these? did you ever see such as these?

Y maent o'r un fath, they are of the same stamp; they are of the same sort or kind; they are alike.

Bath a welwch (=y fath a welwch), such as you see.

Gwraig o'i bath hi, a woman of her sort or stamp; a woman like her.

Nid oes ei *bath* yn bod.
Gruffydd Morys (Cyfr. y Beirdd, 168).

Gwedi hyny y gwnaeth efe a'i wlad yn gyntaf a'r a wnaethpwyd erioed o'i *bath*, drefn a deddf wrth gyfiawnder a phwyll rhwng brenin a brenin.—*Iolo Mss.* 194.

Bath ar (=math ar), a kind, sort, or species of.

Mae pob *bath ar* ddyn yn casglu ac yn tynu ato.
Esg. R. Davies: Epistol.

¶ The expression *bath ar* is now more usually written *math ar;* for which some recent writers have introduced *math o*, apparently in imitation of the English idiom, and in ignorance of the force of *bath* or *math*.

Allan o fath, out of measure; beyond measure; without limits; outrageously.

Rhai yn ceisio torri'r drych; a chwedi'r holl boen yn ymliwio ac yn ymfritho, wrth weled eu hwynebau yn wrthunach na'r cythreuliaid, a rwygent â'u hewinedd a'u dannedd yr holl wrid gosod, a'r ysmotiau, a'r crwyn, a'r cig tan un, ac a oerleisient *allan o fath*.—*Elis Wynn:* Bardd Cwsg, 80.

¶ *Bath* and *math* (the latter a mutation of the former) are in most cases used synonymously, and in some connections the one cannot be distinguished from the other; but in some expressions they are, in recent use, generally differentiated; as:

Pob math (rather than *bath*) *ar ddynion*, all sorts of men.

Ni welais ei bath erioed, I never saw her like.

A ffy gwr o'm *bath* i?—*Neh.* vi. 11.

Beth ydyw dy was di, pan edrychit ar gi marw o'm *bath* i?—2 *Sam.* ix. 8.

Gwyn eich byd chwi, ac ereill o'ch *bath*, sydd yn cael eich gwala o ddysg a llyfrau da.—*Gro. Owain*, 171.

Bath, *a.* such; like.

Y fath ddyn (*pl.* y fath ddynion), such a man (*pl.* such men).

Y fath wraig (*pl.* y fath wragedd) such a woman (*pl.* such women).

Pa ryw *fath* ddynion a ddylech chwi fod mewn sanctaidd ymarweddiad a duwioldeb!—2 *Pedr* iii. 11.

Nid oedd anwiw *fath* em eiliw fyth ei moli.
Gr. ab Meredydd: M.A. i. 456.

Pob *bath* ystori, pob peth ystyriwch.
W. Lleyn: G.B.C. 268.

Yr wyf yn cofio mai meddwl am farw a wnaeth i mi ddewis y *fath* destun.—*Gronwy Owain*, 170.

Y fath gybydd yw, he is such a miser.

¶ Strictly considered, *bath* does not appear to be an adjective at all, though it may be convenient to treat it as such. Such expressions as *y fath beth* (pl. *y fath bethau*), *y fath weithred* (pl. *y fath weithredoedd*) seem to stand for, y fath *ar* beth, y fath *ar* weithred, and the like.

Bath used adjectivally is generally softened after the article: *y fath* lyfr, *y fath* lyfrau; *y fath* ferch, *y fath* ferched.

Bathadwy, *a.* that may be coined or stamped; that may be made like.

Bathain, *a.* giving or producing semblances. —*P.*

Batharn, -au, *sm.* a medal.

Bathawd, odion, *sm.* [L.L. *battatus*] a coining; coinage.

Bathdy, dai, *sm.* a coining house, a mint.

Os awn ym mhellach i'r tir, byddwn mewn perygl oddi wrth y tai adfeiliedig; ond o'r diwedd penderfynais fyned i'r *bathdy* . . . yr hwn nid oedd wedi ei niweidio nemawr. . . Nid oes un ammheuaeth nad trwy ddewrder y gwron ieuanc hwn y cadwyd rhag yspeilwyr y *bathdy*.—*Cylchgrawn*, i. 167.

Yn 1796 efe [Iarll Llynlleifiad] a bennodwyd yn Feistr y *Bathdy*.—*Seren Gomer*, xii. 27.

Batheiniau, *s.pl.* 1. medals; medallions.

2. hieroglyphics.

Ond eto, treulia gan niweidi nef,
Gan flwyddi rhwygai, rhychai gan hir oed,
Y golofn riniawl, llawn *batheiniau* hen,
Yn serth a gwynp.—*Iago Trichrug:* Bedd.

Batheinio, *v.* to make medals; to write hieroglyphically.

Batheiniol, *a.* medallic; hieroglyphic.

Batheinydd, -ion, *sm.* a medallist.

Bathell, -au, *sf.* a coin; a halfpenny.

Batheuad, aid, *sm.*=*Bytheuad.*

Bathfa, fëydd, faoedd, *sf.* a mint.—*W.*

Bathgod, -au, *sf.* a money-bag, a purse.

Tri anhebgor trafaelwr: march da; *bathgod* lawn; a chyfaill cywir.—*Trioedd Doethineb:* M.A. iii. 260.

Bathiad, -au, *sm.* a coining; coinage.

Bathodyn, *pl.* bathodau, *sm.* a coin; a medal.

Goreu cyfaill *bathodyn* [cf. Goreu cydymaith ceiniog]. *Diareb.*

Bathodyn aur (*pl.* bathodau aur), a gold medal.

Bathodyn arian (*pl.* bathodau arian), a silver medal.

Y *bathodyn* cadeiriol, neu y gwobrwy mwyaf, a roddir am yr Awdl oreu ar Raglywiaeth ein grasusaf Frenin Sior IV. *Seren Gomer*, v. 25.

Bathofydd, -ion, *sm.* [bath+ofydd] a numismatist.

Bathofyddiaeth, -au, *sf.* numismatics, numismatology.

Bathofyddol, *a.* numismatic.

Bathog, *a.* abounding with coin; moneyed; rich.

Bathol, *a.* relating to coin, coinage, or mintage; coined.

Da bathol, monetary property; specie; coin; money.

O Dduw! beth o *dda bathawl*
A wna i ddyn ymroi i ddiawl?
L. G. Cothi, VIII. viii. 47 (cf. III. xiii. 25).

Yna y cyfododd Raguel i fyny, ac a roddes Sara ei wraig iddo, a hanner ei dda, sef gweision, ac anifeiliaid, a *da bathol*.—*Tobit* ix. 10.

Arian bathol, coined silver; coined or current money; coin; money.

A oes neb a all fy nghyfeirio am hanes *arian bathol* yr hen Frytanaid? A oedd ganddynt *arian bathol?*
Th. Charles, s.v. *Swllt.*

Bathor, -ion, *sm.* [cf. *pathew*] a dormouse.

Bathor, -ion, -iaid, **Bathwr,** wyr, **Bathydd,** -ion, *sm.* [C. *bathor*] one who coins or mints; a coiner, a minter.

Bathwr arian, a coiner of money.

Bathoriaeth, Bathwriaeth, Bathyddiaeth, -au, *sf.* the art of coining money; coinage, mintage; a mint.

Dylytu Teliau cyfnofut ha *bathoriayth* ynn Lanntaf.
Liber Landavensis, 113.

[Dylid i Teilo gyfnewid a *bathwriaeth* yn Llandaf.
Lib. Land. 358 *n.*]

Bathu, *v.* 1. to coin; to mint; to stamp.

Bathu arian, to coin money.

Gorthrechwyr ydynt yn *bathu* eu *harian* ar grwyn eu cymmydogion.—*Robert Llwyd:* Llwybr Hyff. 215.

Bathwyd arian yn Llundain er anrhydedd iddo.
Theo. Evans: D.P.O. i. 2 (63).

Ond dy swydd hyd y flwyddyn
Yw troi o gylch y Tŵr Gwyn,
A thori, *bathu arian*,
Sylltau a dimeiau mân.—*Gro. Owain*, 60.

Bathu gair newydd, to coin a new word.

Y plant oedd yn gwawdio, ac yn chwerthin am eu penau, gan *fathu gair newydd* yn Smyrna yn eu herbyn.
W. Lewes: Dwy Daith, 147.

2. to stamp, to impress.

Nid heb achos yr ydys yn *bathu* 'r ail nod hwn yn yr enaid.—*Rosier Smith:* Eglurhâd, 237.

Bau, *pl.* beuon, *sm.* the hoof of any beast.

Bauad, -au, *sm.* a bearer of a saw-pit.—*Rhisiart Morys.*

Bauol, -ion, *sm.*=*Baeol.*

Baw, *sm.* [cf. Fr. *boue*, said to be of unknown origin] dirt; mire; excrement; filth.

O deruyd y wreic dywedut geir gwythlawn wrth y gwr val unaw mefyl ar y varyf neu *uaw* yny danned, neu y alw yn gostawc; hi adyly talu idaw teirbu camlwrw.
Cyfreithiau Cymru, ii. 94.

Cyn falched a *baw* ar ben pren.—*Diareb.*

Baw 'n fyw, *baw* 'n farw, *baw* 'n oferedd i'th law,
Lle'th welant yn gorwedd;
Baw ym mhob man trwy'th annedd,
A *baw* wedi'r elych i'r bedd.
Iolo Goch, i Ithel ab Dafydd.

Bawaidd fu hyn o'm bywyd;
Ond am a ddaw, *baw* i'r byd.—*Gronwy Owain*, 30.

Baw diawl, devil's dung, asafœtida (cf. Germ. *teufelsdreck*).—*Meddygon Myddfai*, 282.

Baw mwci, burdock, clotbur (*Arctium lappa*).—*H. Davies:* Welsh Bot. 75, 157.

Baw, *a.* dirty; filthy; vile, mean.

Gwr a'i rhoes gwyddiad foes *fawaf.*
Madog Dwygraig: M.A. i. 486 (cf. 557).

Truanet gennyf vot dynyon *kyvawhet* a hynn yngwarchaw yr ynys honn.—*Mabinogion*, ii. 377.

I mi nid oes, myn Croes Cred,
Acw yn fyw gâr cyn *fawed.*—*Ieuan Tew.*

A thawed, gan *fawed* fu,
Heb synwyr i'm habsenu.—*Bedo Hafesp.*

O bydd neb ar ol, bid y *bawaf.*—*Diareb.* (M.A. iii. 173.)

Perchi gwr er ei *fawed.*—*Diareb.* (M.A. iii. 175.)

Bawa, *v.* to void or evacuate ordure.

Bawach, *s.pl.* dirty wretches; worthless things; trash.

Bawai, beion, *sc.* a dirty fellow; a sorry or sordid wretch.

Bywyd oer fo i'r *bawai!*—*D. ab Gwilym*, xciv. 22.

Bywyd drwg a fo i'r *bawai!*—*Bedo Phylip Bach.*

Am y *bawai* gan Ddouglas gyrrith, draen yn ei gap a hoel helyg.—*Gro. Owain*, 227.

Bawaidd, *a.* 1. dirty; nasty; vile; mean, sordid; scurvy.

Bonedd heddyw ni wedda;
Bawaidd yw dyn ni bydd da.—*Iorwerth Fynglwyd.*

Dynion *bawaidd* aruthr yw dynion y môr.
Gro. Owain, 333 (cf. 64).

Tro bawaidd, a dirty or base trick.

2. poorly, indisposed, unwell, ill.—*N.E.W.*

Bawbeth, -au, *sm.* a dirty thing; a vile or worthless thing.

A'i bregeth, *bawbeth*, o'r bibl,
Taiog anserchog sur-chwibl.
Iolo Goch, i'r Brawd Llwyd.

Bawci, cwn, *sm.* a dirty dog; a base fellow.—*S.W.*

Bawcoed, *s.pl.* decayed branches or dead wood, fallen under trees, especially after a storm and in wet weather.—*S.W.*

Bawcyn, *sm.* [baw+dim. term. -cyn] a dirty, mean, or vile fellow.—*S.W.*

Bawd, *pl.* bodiau, *sf-m.* [Br. *meùd, meùt, med, met*] 1. a thumb.

Ni wn na wŷs na *bawd* na bys,
Na dyn i Rys a dyno'r iau.—*L. G. Cothi*, III. xix. 93.

Gollwng waed ar gefn y droed ym mron y *bawd.*
Meddygon Myddfai, ii. 154.

Bawd llaw (*pl.* bodiau dwylaw), the thumb.

Hwy a erlidiasant ar ei ol ef, ac a'i daliasant ef, ac a dorasant *fodiau* ei ddwylaw ef a'i draed.—*Barn.* i. 6 (cf. 7).

Bawd troed (*pl.* bodiau traed), the great toe.

Bawd y melinydd, the bullhead or miller's thumb (*cottus gobio*).

Bawd car, a piece under a drag or sledge.

Wrth fawd un, at one's finger; at one's hand or disposal; at leisure.

Eto mi gaf weithiau ystlys odfa i weu rhywfaint wrth fy *mawd*, yn enwedig pan el y nos yn beth hwy.
Gronwy Owain, 228.

Rhwng bys a bawd, between finger and thumb.

Coedyn bach o rwym ceudawd,
Crefft yspys rhwng *bys a bawd.*—*D. ab Gwilym*, xliii. 15.

2. the great or big toe.

Heb fod uwch bawd na sawdl, without any progress or advancement; just in the same place, level, or position (do what one will).—*N.W.*

Cynt y rhown goel ar y brut sy'n addaw dyfodiad Owain Lawgoch a'i orfodawg-lu, nag y disgwyliwn weled byth Gymro *uwch bawd na sawdl* mewn unrhyw ragorbarch gwledig nac eglwysig.—*Gronwy Owain*, 218.

Bawdfedi, *v.* [bawd+medi] to reap by the hand: the same as *dwrnfedi*, which is a mode of reaping performed by the reaper grasping a wisp of corn between the fingers and thumb of his left hand, and cutting the handful with a hook, under the hand and close to the ground. The process is sometimes called hand-reaping; the other modes are *seldremio* and *llawdaro.*

Bawdfilwr, wyr, *sm.* a thumb-warrior; one who fights with his bare hands or fists.

Eirchion ab Owain . . . a laddodd lawer o honynt heb un arf ond ei law noeth; ac am hyny y gelwid ef Eirchion *Fawdfilwr.*—*Iolo Mss.* 8 (cf. 118).

Bawdfys, -edd, *sm.* the thumb.

Ef a dorysai hirfys pob un o'r herwyr; a llaw, a gên, a barf Carwed Feudwy; a *bawdfys* y llaw ddeheu ei wraig ef.—*Y Greal*, 104.

Gwych a fyddai fod *bawdfys* rhyw hanner cant o'r bryntеion dyhiraf o naddynt ym mhwll y chwil.
Gronwy Owain, 242.

Bawdle, -oedd, *sm.* a thumb-stall; a sewed piece of leather for a sore thumb.

Bawdlws, dlysau, *sm.* a worthless toy or trinket; a bauble.

Madws i'r *bawdlws* bodlon ni byddaf.
Iustus Llwyd: M.A. i. 558.

Bawdro, -ion, *sm.* a dirty or mean trick.

A gwilio *fawdro* ef oedd fwdran.
Trahaiarn: M.A. i. 500.

Bawdy, dai, *sm.* a necessary house, a privy.

Ond yr oedd rhan o'r *bawdy* o tan y diawliaid gwaelaf.
Elis Wynn: Bardd Cwsg, 94.

Bawdd, *sm.* [C. *bedhy, budhy;* Br. *beuzi;* Ir. *bathaim, baidheadh, bathaig* (cf. *bádud*); Ga. *bath;* Mx. *baih*] a drowning; demersion; inundation.

Cyntaf, torriad Llynn Llion a myned *bawdd* ar hyd wyneb yr holl diroedd yny foddes yr holl ddynion namyn Dwyfan a Dwyfach.—*Trioedd:* M.A. ii. 59 (cf. 64).

Ar fawdd, on the point of drowning; just drowning.

Yna y gwelas Hu Gadarn y niueroed *ar vawd.* ac ar nawf yn y tonneu.—*Campau Charlymaen*, § 17.

A fwyr fwyr fyrfgawd *ar fawd* fodi.
Gwalchmai: M.A. i. 197.

O'r dyfnder daethym fel *ar fawdd*
A'r ffrwd a lifawdd uchod.—*Edm. Prys:* Salm. lxix. 2.

Bawddyn, -ion, *sm.* a dirty, base, or mean fellow; a scoundrel; a wretch; a knave; a scurvy fellow.

Bawddyn oedd na'm rhybuddiai.
Gr. Gryg (D. ab Gwilym, cxxii. 54).

O eisieu gwrda y dodir *bawddyn* ar y bwrdd.
Diareb. (M.A. iii. 174.)

Na feddwl fyth am *fawddyn.*—*Bedo Aerddren.*

Pawb a'i cenfydd, o bydd bai,
A *bawddyn*, er na byddai—*Gronwy Owain*, 27.

Bawddyn wrth ei grybwyll.—*Diareb.* (M.A. iii. 180.)

Bydd *bawddyn* yn *fawddyn* lle bynnag y byddo;
Bydd *bawddyn* yn *fawddyn*, beth bynnag wneir iddo;
Bydd *bawddyn* yn *fawddyn* nes caffo fe'i amcan;
A *bawddyn* fydd *bawddyn* ar ol cael y cyfan.
Iolo Morganwg.

Bawedi, *sm.* dirtiness; filthiness; nastiness.

Glythni, *bawedi*, heb wedd,
Ni ddaw heb ddrwg i'w ddiwedd.—*R. ab Dafydd Llwyd.*

Bawedd, *sm.* dirtiness; nastiness; a paltry thing.

Rhyfedd i'r *bawedd* na bydd bywiawg.
Madog Dwygraig: M.A. i. 486.

Baweidd-dra, } *sm.* dirtiness; filthiness, nas-
Baweiddrwydd, } tiness; foulness; meanness, baseness.

Rhyfedd na bai ar felltith ei fam ofn cael dyri iddo ei hun, o blegid fe all feddwl yr haeddai yn dda gael tafod na lyfai gi mo hono, am ei *faweidd-dra.*—*Gronwy Owain*, 317.

Nid yw ei dystiolaeth ond pentwr o ddigywilydd-dra a *baweidd-dra.*—*Dr. L. Edwards:* Traeth. Llen. 416.

Baweiddiad, -au, *sm.* a becoming dirty or foul; to make dirty.

Baweiddio, *v.* to become dirty; to become mean or base; to render foul.

Baweiddiol, *a.* apt to become dirty or mean; tending to dirty or soil.

Baweiddlyd, *a.* that is dirty, foul, or nasty; tending to soil or foul.

Bawlyd, *a.* dirty, filthy, foul, nasty; vile, mean, base.

Canaf dyfalaf du *fawlyd* gidwm.
Madog Dwygraig: M.A. i. 490.

A'r enwir ceuir ei ddwy ên
Ar ei genfigen *fawlyd.*—*Edm. Prys:* Salm. cvii. 42.

Dwfr bawlyd, dirty water.

Bawlydrwydd, *sm.* dirtiness, foulness, filthiness; meanness, shabbiness.

Bawydd, -ion, *sm.* a dirty or base fellow; a mean wretch.

Y ddau borthor a ddewis
Ym' oed dydd, am *fawydd* fis.—*Dafydd Benwyn.*

Bawyn, *sm.* a dirty fellow; a vile or mean wretch.

Ffod anglod englyn *bawyn* Buellt.
Dafydd y Coed: M.A. i. 496.

Be, *con.* [mut. of *pe*] if. See *Pe, Ped, Pes.*

Mi i'm byw *be* byddwn dewin.
Dafydd Benfras: M.A. i. 308.

Be naw torth o'r ymborth hwn,
Harri, iddo y rhoddwn.
Gwilym ab Ieuan Hen: G.B.C. 145.

Y byd oll, *be* deallwn,
A'r y sydd, a erys hwn.—*Wiliam Lleyn:* G.B.C. 294.

Rhodder (a chler a'i haeddant)
Bwyd a gwin, *be* deuai gant.—*Gro. Owain*, 43.

Hence *bettai* (for *pettai, be bai, pe byddai*, &c.).

Byd diboen *bettai* obaith.—*D. ab Edmwnt:* G.B.C. 117.

Nid ai Rhys gan wttreswyr
Dros gof, *bettai* deir-oes gŵyr.
Deio ab Ieuan Du: G.B.C. 185.

Bean, *v.* [im.: cf. *ba;* Br. *be:* Norm. Fr. *bai*] to bleat, to baa; to cry as a sheep or lamb.

Mae y ddafad yn bean, the sheep is bleating or baaing.—*Gwent.*

†**Becel,** *s.* by some read *betel*, occurs in the Oxford Glosses on Eutychius (Zeuss, G.C. 1052), glossed *bulla*, and has been compared with Welsh *bogel* or *bogail* (=navel), C. *begel*, and Br. *begel*, †*beguel*. In Welsh *boglyn* (=*bogelyn*, dim. of *bogel*) signifies a bubble (=L. *bulla*), as well as a boss or knob: but while the reading remains uncertain, the meaning can be only a matter of conjecture. Cf. Loth, *Vocabulaire Vieux-Breton*, s.v. *Betel.*

Bechan, *pl.* bychain, *af.* [f. of *bychan*, q.v.] 1. little; small; diminutive.

A thebyc yw heuyt y dhyn y rhodher ydhaw dhiawt *vechan* o vel.—*Lucidar*, § 62.

Addaw mawr a rhodd *fechan.*—*Diareb.* (M.A. iii. 146.)

Wele, yn awr, y ddinas hon yn agos i ffoi iddi, a *bechan* yw.—*Gen.* xix. 20.

Dynan fechan fach, a very little woman, a very small female.

2. younger, junior; lesser.

Pan oedd Elen *Fechan* a'i brawd Emri ar y fordwy, pedair llong o Gaer Odor a'u cymmerasant, ac a'u hanfonasant at Iorwerth frenin Lloegr.
Gwallter Mechain: Gwaith, i. 6 (cf. 13).

Bechanig, *a.* [=bychanig] little, small diminutive; very little.

Bechanigen, *sf.* a very small or diminutive female; a term of endearment.

Wrth gamu brwynen breit na dygwyt
Bechannigen wenn wann y gogwyt.
Hywel ab O. Gwynedd: M.A. i. 278.

Bechgyn, *s.* pl. of *Bachgen*, q.v.

Bechgynach, *s.pl.* boys, lads, youngsters.

Bechgynos, *s.pl.* little boys or youngsters; boys, youngsters, lads. Somewhat more respectful than *bechgynach.*

Nid oedd galon yng ngwŷr Rhufain sefyll yn wyneb y brodyr enwog hyn, eithr yn cilio idd eu llochesau, fel y gwelwch chwi lu o *fechgynos* yn ffoi oddi wrth darw gwyllt a fai'n cornio.—*Theo. Evans:* D.P.O. i. 1 (9).

Bechyn, *sm.* [bach] a small hook or grapple; a hook, a crook.

Bed, *prep.* [=med: C. *bet, bes, bys;* Br. *bet, bede*] as far as; even to; up to; to, unto; until.—*Gwent.*

Bet circhinn irguolleuni.—*Codex Juvencus*, 84.

Ar hit ir claud *bet* blain nant Merthir, id est, amir, oi blain dir pant diuinid *bet* blain nant Lechou maliduc Lechou dirguairet *bet* genou pant ar parth dehou ar hit ir pant diuinid *bet* i blain dir claud.
Liber Landavensis, 216 (cf. 150, 204, 218, 231, and fq.).

Bed pan (=hyd pan), till, until; to the time when.

Ar hit i nant du dirguairet *bet pann* discin inidair cin circhu Taf.—*Liber Landavensis*, 247 (cf. 127).

Bed pen y flwyddyn, to the year's end.

¶ The particle is generally found in the soft sound (*fed*), and in that case it may represent either *bed* or *med.* Cf. *Med.*

Cymmer y cwrw goreu ag a ellych ei gael, gwart a hanner o hono, a berw yn dda hyd oni threulo *fed* llonaid llwy.
Meddygon Myddfai, ii. 468.

Bediw, -iau, *sm.* [=abediw or ebediw, by aphæresis] a heriot.

Onid ydys wrth godi *bediw* yn cystuddio'r weddw a'r amddifad?—*Gemau Doethineb*, 134 (cf. 135, 136).

Bedlam, -au, *sf.* [from E. *bedlam*, a corruption of *Bethlehem* (O.E. *bedlem*). '*Bethlehem* hospital [in London], so called from having been originally the hospital of St. Mary of Bethlehem, a royal foundation for the reception of lunatics, incorporated by Henry VIII. in 1547'] a hospital for lunatics, a lunatic asylum, a mad-house.

'Atolygaf henw'r ddinas fawr wallgofus hon,' ebr fi; 'os oes arni well henw na *Bedlam* fawr.'
Elis Wynn: Bardd Cwsg, 22.

¶ *Bedlem* (for Bethlehem or Bethlem) is also a Welsh as well as O.E. form:

Meudwy i *Fedlem* ydwyf,
A chroen ar fy mraich yr wyf.
Llawdden, am Groen Hydd.

Bedlem, -od, *sm.* [=bedlam or bedlem, meaning transferred from the place to the inmate, and then extended to such as deserve to be confined in a bedlam] a vagabond, stroller, or vagrant; a tramp; an impudent beggar; a scamp.

Ni wasanaetha i ti roi mo'th elusen i *fedlemod* cryfion, neu westeiwyr digywilydd, y rhai ydynt yn byw mewn ewyllyslawn seguryd ac aflendid, eithr i'r tlodion crefyddol, onest.—*R. Vaughan:* Ym. Duwioldeb, 267.

Bedlemaidd, *a.* vagabond, strolling, vagrant; gipsy-like.

Bedlemes, -au, -i, *sf.* a female vagrant or stroller; a gipsy.

Bedlemiaeth, *sf.* vagabondage, vagrancy; gipsyism.

Bedlemydd, -ion, *sm.* a vagabond, a stroller; a male gipsy.

Bedlwyn, -i, *sm.* [=bedwlwyn, llwyn bedw] a birch grove.

Bedrod, -au, *sm.* [for *beddrod*] a grave or sepulchre.

Ei *fedrod* ef a'i adref
Ydyw y gŵn; aed ag ef.—*Deio ab Ieuan Du:* G.B.C. 185.

Bedw (*sg.* -en, *f.*), *s.pl.* and *cl.* [Br. *bézô* (sg. *bezven*); C. *bezo, bedho;* Ir. *beithe, bethe;* Ga. *beithe;* L. *betula*] 1. the birch, birch-trees.

Bedw er ei fawr fryd bu hwyr gwisgyssid
Nid er ei lyfrder namyn er ei fawredd.
Taliesin: M.A. i. 29 (cf. 30).

Marchwiail *bedw* briclas
A dyn vyn troed o wanas.
Llywarch Hen: M.A. i. 129 (cf. 124).

A deil o dwr *bedw* nyt arbeder.
Gr. ab Meredydd: M.A. i. 475.

Cae bedw, a birchen wreath or chaplet.

Barnu Dafydd ab Gwilym yn oreu, a'i wisgo â'r *cae bedw*. . . . Madog, y trydydd brawd, a gafas gadair a *chae bedw* am rieingerdd.—*Iolo Mss.* 97.

Caeog wyf o frig gwiail, Fy *nghae bedw*, da y cedwir,
Caeau y dehau a dail; O'r coed ni wnai'r hoed yn hir.
D. ab Gwilym, xliii. 19 (cf. cxlvii).

Coed bedw (*sg.* coeden fedw, pren bedw), birch-trees; birch-wood.

Bwyd o frig *coed bedw* y fron,
Bwyd ieir mewn *bedw* irion.—*D. ab Gwilym*, cx. 23.

Gwialen fedw (*pl.* gwiail bedw), a birch rod.

Y llwyn bedw (*pl.* y llwyni bedw), the birch grove.

Y llwyn bedw diannedwydd,
Lle da i aros lliw dydd.—*D. ab Gwilym*, lxxviii. 1.

Dail bedw! } an exclamation of harmless
Dail y bedw! } threatening and of surprise. —*P.*

¶ It would appear from Pliny, *H.N.* xvi. 18, that *betula* or *betulla* was looked upon as a Gallic word.

2. (*sf.*) a birch grove; a place where birch grows. In this sense it occurs very often in place-names; as, *Y Fedw, Y Fedw Deg, Ty'n y Fedw, y Fedw Arian.*

Duw a'th geidw, y *fedw* fân,
Gwag remwth, rhag ei gryman!—*D. ab Gwilym*, lxxxv. 7.

Bedwen, *pl.* bedw, bedweni, *sf.* 1. a birch, a birch tree.

Y *fedwen* las ynfyd-wallt,
Hir yr wyd ar herw o'r allt!—*Dafydd ab Gwilym*, clx. 1.

I *fedwen* hardd y Coetty 'dd wy'n meddwl clymu clod.
Gruffydd Morys (Cyfr. y Beirdd, 168).

Bedwen gyffredin, the common birch (*Betula alba*).—*H. Davies:* Welsh Bot. 89, 157.

Bedwen chwerw (=byddon chwerw), hemp-agrimony (*Eupatorium cannibinum*).—*Hugh Davies:* Welsh Bot. 76, 157.

2. a maypole; 'because it was always made of birch. It was customary to have games of various sorts round the *Bedwen;* but the chief aim, and on which the fame of the village depended, was, to preserve it from being stolen away; as parties from other places were continually on the watch for an opportunity; who, if successful, had their feats recorded in songs, on the occasion.'—*P.*

Nid ä, fy *medwen*, genyf
Dy lathlud, na'th dud na'th dyf.—*D. ab Gwilym*, clx. 23.

Aed *fedwen* yn adfydig,
Heb obaith bronfraith i'w brig.—*D. ab Hywel.*

Bedwen Fai, a maypole.

Bedweni (*ĕ*), *s.pl.* birch trees, birch; a birch grove.

Teilwng seren *bedweni*,
Talm mawr, ef a'i tâl i mi.—*D. ab Gwilym*, cxlvii. 43.

Gwieil-dwf newydd, neuadd imi,
Gwâl dan frig cyngherth berth *bedweni.*
Rh. Goch ab Rhicert: Iolo Mss. 241.

Bedwerw, -i, *sf.* [bedw+erw] a place abounding with birch; a birch grove.

Gorwyn blaen derw oer-verw dwvyr
Cyrchyd bwy blaen *beduerw*
Gwnelid aeth saeth y syberw.
Llywarch Hen: M.A. i. 123.

Bedwin, *a.* [bedw] birchen.

Bedwlwyn, -i, *sm.* a birch grove or copse.

Digrif fu'r hin in' ennyd,
Dwyn dan un *bedwlwyn* ein byd.
D. ab Gwilym, cxcv. 25 (cf. cxiv. 10; ccx. 51).

Boddlon wyf i'r ganiadaeth,
Bedwlwyn o'r coed mwyn a'i maeth.
D. ab Gwilym, xlv. 33 (cf. cxvii. 52).

Bedwog, *a.* abounding with or full of birch.
Tyddyn Bedwog, a place-name.

Bedydd, -iau, *sm.* [Gr. βάπτισμα, βαπτισμός (vb. βαπτίζω); L.L. *baptisma, baptismus, baptismum* (vb. *baptizo;* L.L. *batisare, batiare*): cf. *batisterium* for *baptisterium*, in Du Cange, s.v.; Revue Celtique, iii. 286: Br. *badez;* Ir. *baisdeadh;* Ga. *baisteadh*] baptism. The pl. is generally *bedyddiadau* (from the verbal *bedyddiad*).

Betid hicouid canlon.—*Codex Juvencus*, 2.

Gwnawn y rofi a Duw yn llawen. a chymryt *bedyd* o honawch.—*Mabinogion*, i. 265.

O rat y *bedyd* trwy law Turpin archescob. or a uynnwys *bedyd* ar ny vedydyssit eiroet.
Yst. de Carolo Magno, col. 383.

Vryen yr echwyd haelaf dyn *bedyd.*
Taliesin: A.B. ii. 184 (cf. M.A. i. 51).

Un Arglwydd, un ffydd, un *bedydd.*—*Eph.* iv. 5.

Yr henw hwn, *Bedydd*, sy'n goferu o air Groeg yn arwyddo golchiad; a'r Lân Eglwys a welodd yn dda arfer o'r gair hwn, am fod yr enw a'r gair Golchiad yn rhy sathredig, gan fod yn ei arfer beunydd i arwyddo pethau o'r gwaelaf: ac am hyny, er mwyn cael o'r sagrafen hon henw priodol, a'i hadnabod yn well a'i pherchi, hi a alwed *Bedydd*.—*Rosier Smith:* Eglurhâd, 228.

Gweinidogion i gadw cofiyfr *Bedyddiau*, Priodasau, a Chladdedigaethau.—*Canonau Eglwysig*, 70.

Ar ol sefydlu cyfreithiau i gofrestru *bedyddiau*, &c., nid oedd achos wrth wasanaeth yr arwyddfeirdd yn y dosparth hwnw.—*Carnhuanawc:* Han. Cym. 52.

Bedydd esgob, confirmation.

Eil rinwed yw *bedyd esgob*. a hwnnw a rodir y dyn yr cattarnnhau yny ffyd. ac yn e gristonogaeth. ac or rinwed y bedyd hwnnw haws vyd y dyn wrthlad y kythreul. ac ymgadw rac pechodeu.—*Saith Pechawd Marwawl*, ¶ 6 (cf. 5).

Hefyd wrth fedyddio, a rhoi'r *bedydd esgob*, annoger a chynghorer nhwy pan wnelont arwydd y grog, ei wneuthur ef yn hybarchus.—*Morys Clynog:* Athraw. Grist. 10 (cf. 51).

D. Ni a draethasom ddigon o fedydd; dywedwch i mi yn awr beth yw Crysma, neu *fedydd esgob*, yr hon yw'r ail sagrafen? A. Henw'r ail sagrafen yn Lladin yw Confirmatio; sef Cadarnhâd.—*Rosier Smith:* Eglurhâd, 335.

Yr ail sagrafen yw'r *bedydd esgob* a elwir Crysfad.
Dr. Gr. Roberts: Gram. 342.

Hen arfer arbenig a chanmoladwy yn Eglwys Dduw . . . oedd, bod i bob esgob ddodi ei ddwylaw ar blant, wedi eu bedyddio, a'u dysgu yn egwyddorion y Grefydd Gristionogol, gan weddïo drostynt, a'u bendithio, yr hyn a alwn ni'n gyffredin *Bedydd Esgob*, neu Gonffirmasiwn.
Canonau Eglwysig, 60.

Bedydd cyhoedd, public baptism.

Gweinyddiad *bedydd cyhoedd* plant bychain, i'w arfer yn yr eglwys.—*Ll. G. Gyffredin.*

Yr wyf yn gobeithio . . . y deil i fyned i'r eglwys i gael *bedydd cyhoedd*, yr hyn a gaiff, os bydd byw, ddydd gwyl Domas.—*Gro. Owain*, 281.

Bedydd neillduol, private baptism.

Gweinyddiad *bedydd neillduol* plant mewn tai gartref.
Ll. G. Gyffredin.

Bedydd offeiriad, baptism administered by a priest or clergyman; that is, baptism (in its proper sense) as distinguished from *bedydd esgob* or confirmation.

Er meddyginiaethu enaid o'r saith pechawd marwawl y rhoddes Duw saith rinwedd yn yr Eglwys: nid amgen, bedydd esgob, a *bedydd offeirad* yn gyntaf oll o honynt.
Hengwrt Ms. 115. 350.

Bedydd yr Yspryd Glân, baptism of the Holy Ghost.

Ni allwn ddal sylw fod yr Ysgrythyrau yn mynych son am *fedydd yr Yspryd Glân*.—*Geo. Lewis:* Drych Ysgr. 510.

Bardd bedydd (*pl.* beirdd bedydd), a baptismal bard; a Christian bard or poet.

Llawen *beird bedyd* na vo dy uuchyd.
Taliesin: A.B. 184.

Tri phrif-*feirdd bedydd* cenedl y Cymry: Madog ab Morfryn o Gaerllion ar Wysg; a Thaliesin ab Enwg Sant o Gaerllion ar Wysg; a Merddin Emrys o Faes Aleg. . . A'r naw hyn a elwir Cyff Cyffro *Beirdd Bedydd* Ynys Prydain.—*Iolo Mss.* 79.

Brenin bedydd, a baptismal king; a baptized king; a Christian king.

Y brenin bedydd cyntaf, the first Christian king.

Gwedi rhol fe ddychymmygwyd y llyfrau y sydd yn awr ar arfer, yn amser Lles ab Coel, *y brenin bedydd cyntaf* yn Ynys Prydain.—*Barddas*, i. 128.

Cadair fedydd (*pl.* cadeiriau bedydd), a baptismal chair; a bardic chair of Christian bards.

Ac achos hyny y gelwir Taliesin yn Daliesin Ben Beirdd y Gorllewin; a'r naw gorddodogion, y *Gadair fedydd*.
Iolo Ms. 79.

Enw bedydd (*pl.* enwau bedydd), baptismal name; Christian name.

Bid i Gadwaladr, o bydd,
Y byd wrth ei *enw bedydd*.—*L. G. Cothi*, VI. i. 53.

Ioan oedd ei *enw bedydd* ei.
Gw. Mechain: Eglur Olygiad, Rhag. 13.

Cred a bedydd, belief and baptism, faith and baptism; the Christian faith, Christianity.

Ny weled o *gred a betyt* etwa
Y gynna gystetlyt.
Daniel ab Llosgwrn Mew: M.A. i. 268 (cf. 271, 272).

Yn amser Cystaint y bu Teilaw Sant yn Benesgob Ynys Prydain, ac a ddug lawer o'r paganiaid i'r ffydd yng Nghrist, ac a ddug gan nawdd a dawn y brenin ddau esgob duwiol i'r ynys hon, nid amgen na Garmon a Bleiddan, i welläu ac adnewyddu *cred a bedydd*, a gwybodau dwyfolion.—*Iolo Mss.* 39 (cf. 28, 40, 85, 132).

Os mynir *cred a bedydd*,
Mae'n rhaid offeiriaid y ffydd.
Iolo Goch, i'r Brawd Llwyd.

Sometimes *bedydd* alone is used in the same sense:

Ofned anghred a *bedydd*
Mor gadarn y farn a fydd.—*Dafydd Trefor.*

Gwlad cred a bedydd, a Christian country; Christendom.

Cylch oed Crist 420, yr oedd Ynys Prydain, fal heb na phen na pherchen, yn egored i bob gormes gelyn ac alltud, a holl arfogion yr ynys draw i'r môr yn ymladd â'r ormes ddu ag oeddynt yn diffeithio pob *gwlad cred a bedydd*.
Iolo Mss. 69.

Cymmeryd cred a bedydd, to embrace the faith and be baptized.

Ninneu a awn i wrhau y Arthur. ac y gymryt *cred a bedyd*.
Mabinogion, i. 266.

Bedydd a chred=*Cred a bedydd.*

Mor ab Morien a ddug *fedydd a chred*, ac ni ddygai fedydd ar dir Gwynedd.—*Iolo Mss.* 146.

Myn y bedydd! by holy baptism! by the Christian faith!

E'm rhoddes liw tes lw teg,
Ni chawn gan un ferch chwaneg,
Llw a chred, *myn y bedydd!*
Imi dan gangeni gwŷdd.—*D. ab Gwilym*, lxx. 45.

Wrth fedydd, in baptism; at the font.

Chyarlys ae delys *wrth vedyd*.
Ystoria de Carolo Magno, col. 424.

Goreu gwaith diwrnod, dal dyn *wrth fedydd*.
Diareb. (M.A. iii. 157.)

Adenedigaeth ym medydd, regeneration in baptism, baptismal regeneration.

Bedyddfa, -oedd, fäu, *sf.* a baptistery.

Urdduniant yr Iorddonen
Fo'u deddf hwy, *fedyddfa* hen.
Dewi Wyn: Blod. Arf. 102.

Bedyddfaen, feini, fain, *sm.* a stone font; a font.

Na fedyddied y gweinidog ar gyhoedd ond yn yr unrhyw *fedyyddfaen* yn unig.—*Canonau Eglwysig*, 81.

Golch y dafadenau â dwr o'r *bedyddfaen* lle y bedyddiwyd y seithfed fab i yr un gwr a gwraig o briod.
Meddygon Myddfai, ii. 813.

Er anghraifft o'r yspryd a hanfodai, dywedai i *fedyddfaen* Llanfihangel Bryn Pabuan gael ei ddwyn ymaith i dŷ ym mharthau uchaf y plwyf . . . a'i wneuthur yn gafn moch.
Carnhuanawc: Han. Cym. 790.

Nis gall fod dim yn eglurach na'r cyfeiriad at y *bedyddfaen* yn y geiriau gwreiddiol.
Athrawiaeth yr Eglwys, III. ii. 10.

¶ W. Salesbury (s.v.) renders it literally and accurately 'fontstone.'

Bedyddfan, -au, *sm-f.* the place in which baptism is administered; a baptistery; a font.

Bydded y tadau bedydd a'r mamau bedydd, a'r bobl, gyd â'r plant, yn barod wrth y *bedyddfan*. . . A'r offeiriad yn dyfod at y *bedyddfan* (yr hwn a lenwir yr amser hwnw a dwfr glân), ac yn sefyll yno, a ddywed.
Ll. G. Gyffredin (Rhuddell Bedydd).

Bedyddfan maen, a stone font.

Yn ol hen osodedigaeth, rhy ddiystyr yn amryw leoedd, yr ŷm yn gorchymmyn fod *bedyddfan maen* ym mhob eglwys a chapel, lle'r arferir bedyddio.—*Canonau Eglwysig*, 81.

Maen bedydd, a stone-font; a baptismal font.

Ni weled o'r *maen bedydd*
Henw sy well no'r hwn sydd.—*L. G. Cothi*, II. ii. 31.

Bedyddiad, -au, *sm.* [Br. *badezyant*] a baptizing; baptizement; a christening.

Yr oedd ei *fedyddiad* yn rhan o'i gyfiawnder, sef ei berffeithrwydd cymdeithasol.—*Deon Edwards:* Esp. 43.

Bedyddiadau, baptisms.

I athrawiaeth *bedyddiadau*, ac arddodiad dwylaw.
Heb. vi. 2.

Yr oedd *bedyddiadau* yn bod er ys oesoedd ym mhlith yr Iuddewon.—*Deon Edwards:* Esp. 32.

Bedyddiadwy, *a.* baptizable.

Bedyddiaeth, *sf.* a baptizing; baptism.

Diddawn fu'r llan-*fedyddiaeth*
Am 'y nyn â mi a wnaeth.—*Hywel Dafydd ab Ieuan.*

Bedyddiedig, *a.* baptized; christened.

Ei ddiben yw dangos y rhwymau sydd ar y *bedyddiedig* i gydymffurfio â Christ.—*Geo. Lewis:* Drych Ysgr. 509.

Bedyddiedigion, the baptized.

Y cenedloedd ni buont *fedyddedigion.*
Breuddwyd Pawl. (*P.*)

Bedyddiedydd, -ion, *sm.* a baptizer.

Bedyddio, *v.* 1. to baptize; to christen.

A hynny hyt yny *uedydyer;* allyna yr achaus pob dyn aholer y alanas a dylyir y enwy erbyn y henw na gur uo na gwreyc ac na ellyr enwy nep erbyn y henw yny *uedydyer* ac urth hynny y mae dyr y uot ynteu ar ureynt gur yny *uedydyer.*—*Cyfreithiau Cymru*, i. 200.

A *bedydyaw* y mab a wnaethpwt. a gyrru Kulhwch arnaw.—*Mabinogion*, ii. 198 (cf. i. 198).

A pharth ardinas y deuthant wrth *vedydyaw* Otuel. . . Mawr hagen oed y niueroed o iceirll a barwneit a marchogyon. ar ymsang gantunt yn edrych ar. *vedydyaw* Otuel. . . Ac odyna gwedy ymwrthot o honaw ac agret adaruot y *vedydyaw* y deuth Belisent yn degach no blodeu y ros.
Yst. de Carolo Magno, col. 424.

Tra vu Iudas y gyt ar ebystyl. ef a brecethawdh ac a *vatydhiawdh.* ac a wnaeth wrthae.—*Lucidar*, § 50.

Duw sul rhad iaith fad ith *fedyddiwyd.*
Gr. ab Meredydd: M.A. i. 459.

A hwy a *fedyddiwyd* ganddo ef yn yr Iorddonen.
Matt. iii. 6 (cf. 11, 13, 14, 16).

Bedyddio cyn geni, to christen before birth= to reckon one's chickens before they are hatched.—*Diareb.*

2. to give a name to (properly in baptism), to baptize, to name.—*C.S.*

Bedyddiol, *a.* baptismal; pertaining to or connected with baptism; baptized.

Llehaa fi gan llu *bedyddiawl*
Nam llea yn lle engiriawl.
Elidir Sais: M.A. i. 349 (cf. 281, 354, 372).

Ac er nad oedd ef wedi ei fedyddio, ef a wnai weithredoedd da fal dyn *bedyddiol.*
Sion Trefor: Buchedd Marthin.

Sacrament Swper yr Arglwydd yw cadarnhâd hynod o'n cyfammod *bedyddiol.*—*Cydymaith i'r Allor* (1777), 5.

Y mawr-rad grysfad grasawl, iawn wyrthiawg,
A nertha'r *bedyddiawl.*—*Gramadeg Gr. Roberts*, 342.

Pob dyn byw bedyddiol, every Christian man living.—*C.S.*

Bedyddiwr, wyr, *sm.* [Br. *badezour*] a baptist; a baptizer.

Ioan Fedyddiwr, *Ieuan Fedyddiwr*, *Sion Fedyddiwr*, } John the Baptist.—*Matt.* iii. 1; xi. 12; xvi. 14.

Trwy *Ieuan* galan goleu y gyvlwr
Vedydywr y gwr an gwyr ninneu.
Gr. ab Meredydd: M.A. i. 472.

Deall a gawn, dull y gwr,
Dudded *Ieuan Fedyddiwr.*—*Llawdden*, am Groen Hydd.

Yr Epistol a ddywedir wrth ystlys asw'r allawr, sy'n arwyddo pregethiad *Sion Fedyddiwr.*
Rosier Smith: Eglurhâd, 252 (cf. 215).

Bedyddwyr, Baptists=the religious denomination so called.

Cyfododd dau fath o *Fedyddwyr* gyda y diwygiad yn Germani.—*D. Peter:* Hanes Crefydd, 469.

Bedyddwyr Neillduol, *Bedyddwyr Caeth*, } Particular Baptists.

Bedyddwyr Cyffredinol, *Bedyddwyr Rhydd*, } General Baptists.

Bedyddwyr plant, *Bedyddwyr babanod*, } pædobaptists.

Bedyddlestr, -i, *sm.* a baptismal vessel or basin; a font.

Pawed anwyl nei y bedydut ef. canys pei delynt holl wyr y dinas y gyt. ny ellynt hwy y dyrchauel ef or *bedydlestyr*. . . Ny ellit y dodi ef yn y *bedydlestyr* rac y veint.
Bown o Hamtwn, § 34, 35.

Bedyssawd, *sm-f.* the universe; the macrocosm.

Truy di agheu di ath groc y caffut ti medyant yr holl *vedyssaut.*—*Llyfr Gwyn Rhydderch*, 63.

Mi a fum dysgawd ir holl *fydysawd.*
Taliesin: M.A. i. 20 (cf. 25, 147).

Or croc crevled y deuth guared ir *vedissyaud.*
Myv. Arch. i. 576 (cf. 577).

Un o dwywolder yn llywiaw tair bann y *vedyssawt* nef a daear ac uffern.—*Ymborth yr Enaid*, § 26.

Cretti y daw rac llaw yn llwrw ansawd
Vn dyt a Douyt. ynni ae dywawd
Y cosbir enwir y cosbawd aer gyd
Ar genedyl *uedyssyawd.*
Einion ab Gwalchmai: M.A. i. 332.

Uchaf Geli tri wyd trindawd Arglwydd
Erglyw feirdd *bydyssawd.*
Gr. ab Meredydd: M.A. i. 449 (cf. 226).

Gwae nifer glewder gloywddefawd pobloedd
Draws fywyd oesoedd dros *fedyssawd.*
Sefnyn: M.A. i. 504 (cf. 226).

Santes eglwyswawd drwy'r holl *fedyssawd*
Dyro hael ddefawd o'th lin Ddafydd.
Daf. Ddu Hiraddug: M.A. i. 562.

Ni a allwn ddisgwyl effeithiau hynotach eto, pan yw y ddau achos a grybwyllwyd yn cydgerdded ac yn cyssylltu eu hamrywiol rinweddau, ac yn eu dodi yn un; sef, pan yw tân o'r nefoedd ac o'r ddaiar hefyd yn amgylchynu y *bedysawd* neu'r crynfyd hwn, ac yn ei dreiddio trwyddo a thrwyddo eilwaith.—*Ier. Owen*, 44.

¶ Also written *bydyssawd* or *bydysawd*, at present the more usual orthography, as if derived from *byd* (Br. *béd*, †*bet*), which is probably correct. The second element may possibly be *gwys* (as in Lloegrwys, Monwys): cf. Br. *bedis* (*gl.* homines)=mundi habitatores. (Stokes, *Orleans Glosses*, 218). In the earlier use the word seems to have been employed in a more restricted sense than at present; as in 'cenedyl *uedyssyawd*'=the human race, mankind.

Bedyssyawd, *sm.*=*Bedyssawd.*

Bedd, -au, -i, *sm.* [†bet: C. *bedh*; Br. *bez*] a grave, sepulchre, or tomb.

Gwedy gouwyaw *bed* Iago ebostol y daeth hyt y mor.
Yst. de Carolo Magno, col. 383.

Betev ae gulich y glav
Gvir ny ortywnassint vy dignav
Kerwid a Chivrid a Chav.—*A.B.* ii. 28 (cf. 29—35 fq.).

Nid ä rhinwedd i'r *bedd* byth.—*Diareb.* (M.A. iii. 186.)

Y *bedd* sydd imi ar bar,
A diwedd oes, a daiar.—*D. ab Gwilym*, cclxii. 29.

Gwell aros o alltudedd nog aros o *fedd.*
Diareb. (M.A. iii. 159).

Gwelir mai'r *bedd* yw lletty'r doeth,
Y ffol a'r annoeth unwedd.
Edm. Prys: Salm. xlix. 10.

Trwy fyrddiwn o gysgodion ac ymlusgiaid, a *beddi*, a monwentau, a beddrodau, ni aethom ym mlaen i weled y wlad yn ddirwystr.—*Elis Wynn:* Bardd Cwsg, 55.

Carreg fedd) (*pl.* cerryg beddau), a grave-
Carreg bedd) stone, a tombstone.

Diolch i'r *garreg fedd* a'm cysgododd.
Elis Wynn: Bardd Cwsg, 55.

Maen bedd (*pl.* meini beddau), a gravestone, a tombstone.

Nesâ, O deithydd, darllen *faen* ei *fedd*.
Th. Ll. Jones: Ceinion Awen, 183.

Ysgrifen fedd (*pl.* ysgrifau beddau), an epitaph.

Tyred yma, gwn y medri,
Darllen im' ei '*sgrifen fedd*.—*D. Davis:* Telyn Dewi, 37.

Beddadail, eiliau, *sf.*) a sepulchral monu-
Beddadeilad, -au, *sm-f.*) ment or structure.

Oddi wrth rai ymadroddion yn yr englynion hyn, y mae amryw yn dadleu fod y cromlechau yn *feddadeiladau*, ac nid yn allorau, a bod y meini hirion yn gwasanaethu i'r un diben. . . Nid oes un prawf na chyfodwyd rhai cromlechau uwch ben beddau y milwyr; a rhai o'r gorsafweithiau a gyfrifir yn allorau ebyrth, ysgatfydd nad oeddynt namyn *beddadeiladau*.—*Carnhuanawc:* Han. Cym. 39.

Beddaid, eidiau, *sm.* a graveful, the fill of a grave.

Bod Rhys, oedd flaenor y doctoriaid,
Barwn yn fyw oedd, obry'n *feddaid*.
L. G. Cothi, III. xxii. 59.

Beddargraff, -ion, ergreiff, ergryff, *sm.* an epitaph. The pl. is generally borrowed from *beddargraffiad*.

Ni wyddwn pan wnaethym ddefnydd o'r englyn yma ar yr achos hwn, fod Cyndeithas y Gwyneddigion, yn Llundain, wedi ei ddewis yn *feddargraff* Thomas Edwards (Twm o'r Nant), i'r hwn achos y cyfansoddais ef ar cyntaf.
Daniel Ddu, 167.

Beddargraffiad, -au, *sm.* an inscription on a tomb or monument.

Beddargraffiadau, epitaphs.

Pwy bynnag a ddarlleno yn fynych *feddargraffiadau*, a gyll ei gof.—*Seren Gomer*, xv. 272.

Beddargraffiadol, *a.* epitaphian.

Beddfa, -oedd, fëydd, *sf.* a place of burial or interment; a sepulchre; a grave.

Hwnw [adamas] yw maen y llongwyr, a'i rinwedd yw troi y ffordd y try'r gwynt; ac wrth hyny y gwybydd llongwr y ffordd y dylai osod ei hwyl fal yr elo yn iawn, ac nad elo ar gyfeiliorn; ac o thorir *beddfa* nodwydd ddur yn y maen hwn, a rhoi'r nodwydd yndo, a chladdu'r nodwydd yn hyny o le, a gosod darn arall o'r maen ar y nodwydd, a gosod y cyfan fal ar ben mynydd naw-nos gauaf a rhew, ef ä'r holl rinwedd o'r maen i'r nodwydd; ac o ddwyn y nodwydd mewn llong, ef a wna gystal a'r maen, ac a dry at y man y bo oeraf o bedwar ban byd.—*Llanover Ms.* 1.

Ac felly y mae yno i gyd 42 o *feddfaoedd* tan y ddaiar.
W. Lewes: Dwy Daith, 41.

Beddfaen, feini, fain, *sm.* a gravestone, a tombstone, a sepulchral stone; a tomb.

Ychydig tu hwnt i fedd Ieremïah, ni ddaethom at *feddfeini* y breninoedd. . . Yno yr oedd saith o *feddfeini* wedi eu tori o'r graig: yn yr ail ystafell yr oedd wyth o *feddfeini*.—*W. Lewes:* Dwy Daith, 41 (cf. 21, 44).

Mae *beddfaen* newydd yn y llan!
Th. Lloyd Jones: Ceinion Awen, 192.

Beddgell, -oedd, -au, *sf.* a sepulchral cell or chamber; a vault.

Cladwyd ef mewn *beddgell*, dan yr areithfa, yn Hawen, yng ngŵydd tyrfa fawr o bobl.—*Seren Gomer*, v. 227.

Nid hawdd yw bellach amgyffred y nifer aruthrol o gyrff y saint a rodded i orphwys yn y *beddgelloedd* hyn.
Haul, C.C. xxiii. 164 (cf. 162, 163, 165).

Beddgerdd, -i, -au, *sf.* an elegy, a monody.

Beddgor, -au, *sm.* a mausoleum, a sepulchral monument.

Gogyuarch pob diara
Pieu yr *wedgor* yssy yma
Bet Einiyawn ab Cunedda.
Engl. Beddau Milwyr: A.B. ii. 35 (cf. M.A. i. 55).

Beddgorawl, *a.* mausolean.

Beddlawr, *sm.* sepulchral earth or sod.

Ar gwayw ar gwyar llithredic
Ar galon glaervron eglur vric
Ar *bedlawr* wyt gwawr gwyrennic.
Gr. ab Meredydd: M.A. i. 472.

Beddle,-oedd, *sm.* 1. a place of sepulture; a burying place; a grave or sepulchre.

Y lleoedd a ymwelsom oeddynt y rhai hyn. (1) Y lle y ganwyd ein Iachawdwr; (2) Beddrod St. Ioseph, yr hwn a ddyweddïwyd i Fair Forwyn; (3) Beddau y Gwirioniaid; (4) Lle a anneddodd St. Ierom ynddo pan y cyfieithiodd ef yr Ysgrythyr Lân i'r Llading; (5) *Beddle* St. Ierom; (6) Beddfaen St. Ierom; (7) Beddfaen St. Paul.
W. Lewes: Dwy Daith, 43.

Yn ol y ddull hon y dywedwn am y byd; sef, ei fod yn *feddle* i'r meirw; yn garchar i'r byw; yn weithdy gwyddoedd.—*H. Perri:* Egl. Ffr. xii.

2. the grave; hades.

Os esgynaf i'r nefoedd, yno yr ydwyd; pei gwnawn fy ngwely yn y *beddle*, syna cynnrychiawl wyd.
H. Perri: Egl. Ffr. xxxviii.

Beddlech, -au, -i, *sf.* a sepulchral stone, a gravestone or tombstone.

Beddlith, -iau, *sm.* a sepulchral inscription, an epitaph.

Gan mor dryfrith ydynt, nid oes genyf ond annog y Cymry i agor ein hen awduron, yn enwedig y beirdd, ac yna, yn ol *beddlith* Syr Christopher Wren, 'Edrychent o amgylch.'—*Taliesin ab Iolo:* Coelbren y Beirdd, 12.

Beddogof, -au, *sf.* a cave or grotto for burial; a catacomb.

O hyny hyd y dydd heddyw y mae y *beddogofau* tanddaiarol hyn wedi rhoddi gwaith i chwilfrydedd hynafiaethwyr y byd.—*Haul*, C.C. xxiii. 162 (cf. 164).

Beddol, *a.* pertaining to the grave; sepulchral.

Beddon, *sf.* [L. *betonica;* Fr. *bétoine*]=*Byddon.*

Beddrod, -au, *sm.* a tomb; a sepulchre or grave.

A dyuynu a oruc attaw hyt yno holl seiri mein a phren o holl ynys Prydein i darparu gwneuthur yno adurn parhaus tragywydawl tec anrydedus y uwch ben y *vedrawt* honno o dylyedogyon a ladyssit yno.
Brut Gr. ab Arthur: M.A. ii. 275.

Betrawd an daerawd pob deurut prydus
Pryderwn yn achlut
Daear vn kyuar an cut
Deon derw maredu Maredut.
Llyw. ab Llywelyn: M.A. i. 297 (cf. 189, 202).

Rhoddwch i mi feddiant *beddrod* gyd â chwi.
Gen. xxiii. 4 (cf. 9, 20).

Y ferch a wyla'n ofer ar ol ei chariad cu;
Ni ŵyr ei llef alarus y ffordd i'r *beddrawd* du.
Tegid: Gwaith, 177.

Beddrodawl, *a.* relating to a tomb; sepulchral.

Y casgliad mwyaf nodedig o grugiau *beddrodawl* sydd ar wastadedd Caer Caradawc.—*Carnhuanawc:* Han. Cym. 32.

Begegyr,) -on, *sm.* [cf. Ir. *beachog* (Lhwyd,
Bechegyr,) Arch. Brit. 214), *beach*] a drone, a non-working bee; a drone or idler; a hummer.

Mab Gwgan, mae *begegr*
Gyda chwi, o gedwch, wŷr,
Yn elyn dianwylyd
I fardd bun, ac i feirdd byd!—*D. ab Gwilym*, xcix. 11.

Brwnt yw'r *begegyr* sy'n bwyta'r mêl a gasgloddy gwenyn!—*Peter Williams:* Ios. xvii.

Bei, *con.* [=pei, pe, ped] if; provided.

Nac ef heb y Manawydan *bei* ymladem ni ac wyntwy clot drwc avydei arnam.—*Mabinogion*, iii. 148.

†**Bei,** *v.* [bod]=*Bai, Byddai.*

Duu a collei *bei* nasprinhei diuei devaud.—*M.A.* i. 576.

Beiad, -au, *sm.* [bai, beio] a blaming or censuring.

Os i'm sylwiad *beiad* bydd,
Agored wyf i gerydd.
Gwallter Mechain: Gwaith, ii. 544.

Beiadwy, *a.* blamable, blameworthy; culpable.

Beibl, } **-au,** *sm.* [Gr. βιβλία (pl. of βιβλίον,
Bibl, } dim. of βίβλος); L. *biblia;* Ir. *biobla;* Ga. *bioball;* Br. *bibl;* O.E. *bible, byble;* Fr. *bible*] the Bible.

Dug o gaeth alaeth faeth alon ofid
I bobl eu rhyddid *beibl* a rhoddion.
Gruffydd ab Meredydd: M.A. i. 461.

Saith brifwyd pechawd yw pechodau 'r bobl
Mae yn y *Bibl* eu henwau.
Gruffydd Ynad Coch: M.A. i. 400.

I gyfryw benrhaith *Bibl*-iaith Beblig.
Gronwy Gyriog: M.A. i. 526.

A'i bregeth, bawbeth, o'r *bibl,*
Taiog anserchog, sur-chwibl.
Iolo Goch, i'r Brawd Llwyd.

Enaid y bairdd onid bod
Gorau *baibl* gair heb wybod.
Rhys Goch Eryri: Iolo Mss. 309.

Yr un a gredo fod pob peth a adroddir am Dduw yn y *beibl* yn wir . . . eto ni ellir dywedyd yn iawn ei fod ef yn credu yn Nuw.—*Edw. Iames:* Hom. i. 41 (cf. 170).

Heb law'r *Bibl,* brenin y llyfrau, daeth atat amryw lyfrau da ereill megys yn swyddogion tan hwnw.
Elis Wynn: Rh. B. S., Rhag. 1.

¶ The orthography varies between *beibl* and *bibl.* In the first edition of the Welsh Bible (1588) the word is *beibl* ('Y *Beibl* Cyssegr-lan'), which represents the general pronunciation; but Bp. Parry's revision (1620) has *bibl,* which has been followed by most, if not all, subsequent authorized editions. It does not seem to occur, in either form, earlier than the 13th century. Cf. *meitr* or *mitr, teitl* or *titl.* The initial is sometimes, but rarely, hardened into *p,* as in the case of a few other words.

Pob llafar gwestiwn, pob llyfr a gostiwch,
Pob cronigl hyfedr a da y medrwch;
Peibl hen o Foesen a feisiwch drosti,
Pob bath ystori, pob peth ystyriwch.
W. Lleyn: G.B.C. 268 (cf. D. ab Gwilym, ccxvii. 4, 24).

Beiblaidd, *a.* biblical; agreeable to Scripture.

Beiblig, *a.* biblical.

Beichad, *v.*=*Beichio, Boechain.*

Yr wy'n ei glywed yntau'n llefain,
Ac yn *beichad,* ac yn ochain.
Rhys Prichard: C. y C. cxxxv. 58.

Beichiad, **-au,** *sm.* [baich=boech] a lowing, a bellowing.

Beth, ynte, yw brefiad y defaid hyn yn fy nghlustiau, a *beichiad* y gwartheg yr hwn yr ydwyf yn ei glywed?
1 *Sam.* xv. 14.

Beichiad, **-au,** *sm.* [baich] a burdening.

Beichiau, *s.* pl. of *baich,* q.v.

Beichio, *v.* 1. to low or bellow.

Griddfana ocha fal uch [ych] yn *beichiaw.*
Madog ab Gwallter: M.A. i. 405.

2. to bawl; to scream.

Udai, a *beichiai* heb wedd,
Udaw am fyn'd i adwedd.
Th. Prys, i Gadwaladr y Clustiau.

Bram uchel, ac ni chelaf,
Erthwch fal yr hwch yr haf,
A *beichiaw,* a'm bwbachai,
Ac annog ci heriog, hai!—*Gro. Owain,* 8.

Beichio, *v.* [baich] to burden; to load; to lay on.

Beichiog, *a.* [baich] 1. laden, loaded; burdened; heavy with produce; fertile, fruitful.

Dy *feichiog* ddeiliog ddolydd
Ffrwythlon, megys Saron sydd;
A phrenau dy ddyffrynoedd,
Crwm lwyth, megys Carmel oedd.—*Gronwy Owain,* 16.

2. pregnant; being with child; gravid; big.

Mi adodaf teir diaspat ar drws y porth hwnn. hyt nabo angheuach ympenn Pengwaed yngkernyw. ac yggwaelawt Dinsol yny gogled . . . ac yssyd o wreic *ueichiauc* yny llys honn methawd eu beichogi. ac ar nyt *beichawc* o nadunt ymchoelawd eu kallonnev yn wrthrwm heint arnadunt mal na bont *ueichawc* byth o hediw allan.—*Mabinogion,* ii. 202.

En e lle e gwelhei Saesnes en *veichiawc.* ai gledyf ed ellyngei i beichiogi yr llawr.
Brut Gr. ab Arthur: M.A. ii. 379.

Gwragedd beichiogion (*sg.* gwraig feichiog), pregnant women.

Eu plant a ddryllir, a'u *gwragedd beichiogion* a rwygir.
Hos. xiii. 16 (cf. 2 Bren. viii. 12; Esa. xxvi. 17).

Rhai beichiogion, pregnant women, women with child.—*Matt.* xxiv. 19 (cf. Luc xxi. 23).

3. pregnant; fertile, fruitful.

Mi ddewiswn yn hytrach o lawer y cyfryw un i fod yn weithiwr yn y winllan, nag un o ddysgeidiaeth helaeth, ac heb ond ychydig neu ddim gras ynddo, yr hwn a dyn i lawr â'r naill law yr hyn a adeilado â'r llall; a'r hwn, â'i holl ddoniau *beichiog* ganddo, a ddwg oganair a dianrhydedd ar ei alwedigaeth.—*Ier. Owen,* 76.

Beichiogi, 1. *vn.* to conceive; to become pregnant.

Ti a *feichiogi,* ac a esgori ar fab.—*Barn.* xiii. 3 (cf. 5, 7).

Beichiogi ar, to be conceived of; to conceive.

Hi a feichiogodd ar fab, she conceived a son.

2. *va.* to impregnate; to make pregnant; to get with child.

Erchi a oruc ev oe dewinion dywedyd idaw pwy a *vaichogassai* y vorwyn.—*Brut Tysilio:* M.A. ii. 83 (cf. 84).

Arch i arall, ferch irwen,
A'th *feichioges,* walches wen.—*Tudur Aled?*

Beichiogi, *pl.* beichiogiau, *sm.* conception; a fœtus or embryo.—*Gen.* iii. 16; *Ecs.* xxi. 22.

Rey y syd arpetrus am *ueychuogy* gwreyc o llygryr pa beth a dylyir amdanaw.—*Cyfreithiau Cymru,* i. 200.

E gwraged a gollynt eu *beychyogy.* ar meybyon ar merchet a gollynt eu synwyr.
Brut Gr. ab Arthur: M.A. ii. 167 (cf. 293, 379).

A honno aaei trwy gallonneu ydynyon. ac ae hofnockaei yngymeint ac y collei ygwyr enlliw ac eunerth. ar gwraged eu *beichogyeu.*—*Mabinogion,* iii. 299 (cf. ii. 202).

Beichiogiad, **-au,** *sm.* a conceiving, conception; impregnation; pregnancy.

Beichiogod, *s.pl.* pregnant women.

Myfi a welwn y pummed breuddwyd; nid amgen, myfi a debygwn fy mod i yn sefyll yng nghanol mynwent ragorol o faint, yr hon a welwn i yn llawn o ferched neu enethod iefainc o'u hoedran; y rhai'n oll a welwn i yn *feichiogod,* ac wrth fron eu tymp.—*Ymdd. Merddin a Gwenddydd.*

Beichiogol, *a.* causing conception; impregnating.

Beichiogrwydd, *sm.* pregnancy; conception.

Beichiogwr, wyr, *sm.* one that impregnates.

Beichiogwr buwch ewigaidd.—*Ieuan Tew,* i Darw.

Beichiol, *a.* 1. burdensome; grievous to be borne.

2. (=beichiog), pregnant.

Ar gwraged *beichawl* a udant yn eu trallodeu a doluryeu. ac a dywedant. a debygy di a esgorwn ni?
Prophwydoliaeth Sibli, § 7.

Beichus, *a.* burdensome; heavy.

Prophwydoliaeth neu hyspysiad *beichus* a thrwm sydd yng ngair yr Arglwydd wrth ac yn erbyn gwlad Hadrac.
John Davies: Prophwydi Byrion, 174.

Beichusrwydd, } *sm.* burdensomeness; oppres-
Beichioldeb, } siveness.

Beidiog, *a.* lively; vigorous.—*P.*

Beidiog, Bydiog, ⟩ *sf.* an evergreen: the name of several plants.

Beidiog las, Bydiog las, ⟩ ground-ivy, gill, alehoof (*Glechoma*).—*H. Davies:* Welsh Bot. 57, 157, 162.

Arall yw kymryt y *ueidyawc lâs*. ae dodi y mywn tauolen dan y deint.—*Meddygon Myddfai*, i. 42.

Beidiog lwyd, Bydiog lwyd, ⟩ mugwort (*Artemisia vulgaris*). —*H. Davies:* Welsh Bot. 77, 157, 162.

Rac y dannoed: kymryt y *ueidawc lwyt*. ae dodi dan y ben; y mywn lliein crei.—*Meddygon Myddfai*, i. 42.

Beidiog rudd, Bydiog rudd, Beidiog goch, Bydiog goch, ⟩ amphibious persicaria or knotgrass, peachwort, red-shanks (*Polygonum amphibium*).—*H. Davies:* Welsh Bot. 38, 157.

Beiddawd, *sm.* a daring or challenging; a challenge.

Tervyn tec ym terwyn *beidaut*.—*Cynddelw:* M.A. i. 246.

Beiddgar, *a.* daring; audacious; venturous; presumptuous.

Beiddgarwch, *sm.* daringness; audacity; presumptuousness; defiance.

Beiddiad, -au, *sm.* a daring; presumption; defiance.

Beiddiad, iaid, *sm.* one who dares or defies; a darer, defier, or challenger.

Bit vleid *beidyat* a dwyllo.—*Llefoed:* A.B. ii. 305.

Gwrt uytin *veityeit* yn tewdor
Gwyr Weirnyawn gwrhyd diachor.
Cynddelw: M.A. i. 256 (cf. 219, 221).

Eryr Caer Vyrddin vyddin *veiddyat*.
Bleddyn Fardd: M.A. i. 368 (cf. 204, 358).

Pwyll uudd Ruffydd bydd *beiddiad* yn heiyrn
Pen teyrn cedyrn ced wallofiad.
Gwilym Ddu Arfon: M.A. i. 410.

Beiddio, *v.* [baidd] 1. to dare; to venture; to challenge; to defy; to presume.

Eryr Eli a glywav heno
Creulyd yw ni's *beiddiaf*.—*Llywarch Hen:* M.A. i. 109.

Gan ryuedu paham mor amdiredus y *beidynt* kyrchu y bont.—*Brut y Tywysogion*, 132 (cf. 190, 226).

Ni *feiddiaf*, rhag anfoddion,
Drych yr haf, edrych ar hon.—*D. ab Gwilym*, cxciii. 15.

A'r pethau hyny y rhai o blegid ein hannheilyngdod ni *feiddiwn*, ac o blegid ein dallineb ni fedrwn eu gofyn.
Ll. G. Gyffredin.

Canys, os hyn a fyn fo,
Lew-ddyn, pwy *faidd* ei luddio?—*Gro. Owain*, 76.

2. [=baeddu, q.v.] to beat; to maltreat.

Yna'r eryr a dyngwys os yr ystlum a'r dylluan a ymddangosai byth liw dydd ar ol hyny, y byddai i holl adar y byd eu *beiddiaw* a'u hammherchi.—*Iolo Mss.* 173.

Beiddiog, *a.* daring; venturous; intrepid, bold; presumptuous.

Llas Goronwy hael hwyl *ueidyauc* yn yg.
Cynddelw: M.A. i. 225 (cf. 190).

Uwch awduron a chadeiriawg,
Bur iaith rywiawg, ber athrawon;
A chelfyddon uchel *feiddiawg*,
A'r beirdd enwawg, eirber ddynion.—*Gronwy Owain*, 123.

Beiddiol, *a.* daring; defying; challenging; bold.

Beiddiwr, wyr, *sm.* a darer; a defier; a challenger.

Beigri, *sm.* a great misfortune.—*P.*

Bar o waed Robert ydwyd,
Bwa croes rhag *beigri* wyd.—*Lewys Mon.*

Beigribiog, *a.* [bai+cribo=cribinio] captious, cavillous; fault-finding.

Ymochelwch ei arfer ym mhlith rhai annysgedig, neu ddynion rhodresgar, *beigribiawg*.—*H. Perri:* Egl. Ffr. xiv. 4.

Bavius, gofardd cenfigenllyd, drygnaws, *beigribiog*, yn oes Augustus.—*Gwaith I. B. Hir*, 66.

Beili, ïau, *sm.* [bâl] a mound, a tumulus, an eminence. Several mounds bear this appellation; as, *Eglwys y Beili*, a ruined church near Aberffraw, Anglesey; *Bryn y Beili*, near Mold (Gwyddgrug); *Beili, Pen y Beili*, and *Pen y Beili Bedw*, in Cardiganshire; *Beili Glas*, in Glamorgan; and several others.

Eu *beilïau* a ganfyddir mewn llawer man yng Ngogledd Amerig. . . Y *beilïau* yn gyffredin ydynt yng nghymmydogaeth yr afonydd mawrion rhwng glanau Llyn Erie a Morgilfach Mecsico.—*Cylchgrawn*, ii. 90.

Beili, ïau, *sm.* [L.L. *ballium*] 1. the bailey, ballium, or outer court of a castle.

Duw Sadwrn wedy hynny, gwedy dala duw Gwener y dyd kyn no hynny y gwyr aoed yn kadw y *baeli*, a throstunt wynteu drannoeth y rodet y kastell.
Brut y Tywysogion, 222.

A gwedi byddinaw o honaw a dyrchafael ei arwyddion yr anrheithiodd y *baili* ag i llosces.
Buchedd Gr. ab Cynan: M.A. ii. 589.

2. a court before a house, a court-yard, a yard, an enclosure.

Tri ammharch ac anurddas tŷwr gan syberwyd ac addwynder, o'u gweled liw dydd a'i ffunon yn mygu: ei cyfarthgar yn y *beili;* drain ar ei gymmad, neu borth yng nghaead; ac anateb cyfarch drws.
Trioedd Doethineb: M.A. iii. 282.

Dod dy ddefaid i mewn tŷ o wyl Martin hyd y Pasc, oni bydd tir sych a chorlanau a *beilïau* clydion, a hin dda.
Cato Cymraeg (Y Greal, 206; cf. 201).

Dacw'r tŷ, a dacw'r 'sgubor,
Dacw glwyd y *beili*'n agor.—*Cân Hob y Deridando.*

Beiliad, -au, *sm.* [bâl] a projecting out.—*P.*

Beilifaeth, -au, *sf.* [L.L. *ballivus, bajulivus:* O.E. *bailive, bayllive, balyf*] bailliage; jurisdiction; administration.

Amherawdyr dyledawc. heb yr barwnneit ae niueroed. ni diodefwn ni yn dragywydawl caffel o Sarassinyeit Ffreinc yn eu *baeliuaeth*. namyn par dyuynnu dy gyuoeth ygkyt.
Campau Charlymaen, § 59.

Beilïo, *v.* [beili] to enclose; to form into a court or yard.

Beilïo tir, to enclose land.—*Gwent.*

Beilio, *v.* [bâl] to burst forth, to shoot up.—*P.*

Beiliog, *a.* bursting or shooting out.—*P.*

Beio, *v.* [bai] to blame; to find fault (with); to censure.

Bid bai *beiawr;* nid ar genedl y Cymry na'u breninoedd y saif y bai.—*Iolo Mss.* 186.

Er Dofydd, pwy'n wr difai
A fu 'rioed na *feiai* rai? . . .
A diau, boed gau, bid gwir,
Buan ar fardd y *beiir*.—*Gro. Owain*, 27.

Beio ar, to blame; to find fault with.

Ymadrodd iachus, yr hwn ni aller *beio arno*.—*Tit.* ii. 8.

Ond pa ham i mi *feio ar* yr awen?—*Gronwy Owain*, 245.

Beiol, *a.* blaming; censuring; finding fault.

Beiri, ïon, *sm.* [=beri, bery, buri: cf. *bar*-cud] a kite, a glede.

Beirniad, iaid, *sm.* [barn] 1. a judge; an adjudicator.

Bedaf y barnaf wyf *beirnyat* kyvyawn.
Barn ae trossa dawn Bernet drwssyat.
Casnodyn: M.A. i. 422 (cf. 227, 228).

Ni wadaf barnaf can wyf *beirniad*.
Trahaiarn: M.A. i. 499 (cf. 446, 535).

A byrnos oedd y *beirniad*
A gâr gwen heb un gair gwad.—*D. ab Gwilym*, lix. 5.

Gocheled roi gormod cennad; rhag bod tueddfryd neu anwybyddiaeth yn y *beirniaid*.—*H. Perri:* Egl. Ffr. xliii. 2.

Gwaith y *beirniaid* yw barnu eu teilyngdod cymharol.
W. Jones: Barn a Darfelydd, 52.

2. a critic; a literary judge.

Sef yr awduron, a'r athrawon, a'r *beirniaid*, a gadarnhasant yr athrawiaeth a'r ddosparth hon oeddynt y derwyddon.—*Cyfrinach y Beirdd*, 8.

Peth arall a ddymunwn sylwi arno . . . ydyw, fy rhesymau am beidio dyfynu fawr o Roeg, na sylwadau *beirniaid*.
Dr. Th. Phillips: Espon. T.N., Rhag. 4.

Beirniadaeth, -au, *sf.* 1. jurisdiction.

Y sel hon a gynnwys ditl y *feirniadaeth* honno y bo pob un o'r dywededig farnwyr, neu eu rhaglawiaid, yn ei thrin.
Canonau Eglwysig, 124 (cf. 36).

2. judgment; adjudication.

3. criticism; critical adjudication.

Pwnc o *feirniadaeth* yw y cyntaf; a phwnc o hanesiaeth yw yr ail.—*J. Mills:* Hyfforddwr, 189.

Beirniadaeth y Rheswm pur.
Dr. L. Edwards: Traeth. Llen. 240.

Beirniadaeth ysgrythyrol, Biblical criticism.

Mae yn wirionedd addefedig fod Prydain er ys llawer blwyddyn wedi colli y flaenoriaeth mewn *beirniadaeth ysgrythyrol*.—*Dr. Lewis Edwards:* Traeth. Duwin. 398.

Beirniadol, *a.* critical; relating to criticism.

Sylwadau beirniadol, critical observations or remarks.

Beirniadoldeb, *sm.* criticalness.

Beirniadu, *v.* to criticise; to adjudicate.

I edrych, i wrando, ac i *feirniadu*, ond nid i gael cyfnewidiad meddwl.—*Deon Edwards:* Esp. 37.

Beirniadu ar, to adjudicate on; to criticise.

Y mae . . . y meibion a'r merched yn chwilio am ddifyrwch, yr hen yn *beirniadu ar* eu llywodraethwyr, a'r cardotyn yn dyfod ym mlaen i ofyn elusen.
Dr. L. Edwards: Traeth. Llen. 225.

Beirniadwr, wyr, } *sm.* one who criticises, a
Beirniedydd, -ion, } critic, a literary judge.

Beirniawn, *s.*=*Beirniaid?*

Trahaiarn o'm barn em *beirniawn* cerddraid
Oedd blaid pencerddiaid ceimiaid cammawn.
Gwilym Ddu Arfon: M.A. i. 411.

Beisdon, -au, *sf.* [bais+ton] the beach; the strand; the sea shore.

Morfydd, merch Fadawg Lawgam,
Myn y Pab! mi wn pa ham
Y'm gedaist ar y *feiston*,
Yn wddw hyll, yn y wedd hon.—*D. ab Gwilym*, lxxiv. 5.

'Nis gwn i,' ebr finnau, 'beth a allai eich meddwl fod, onid allai'r fad felen a ddyfethodd Faelgwn Gwynedd, eich lladd chwithau ar y *feisdon*, a'ch rhanu rhwng y brain a'r pysgod.'
Elis Wynn: Bardd Cwsg, 56.

Yr oedd rhai cyrff yn treiglo yn y *feisdon* yn ol ac ym mlaen.—*Cawrdaf:* Meudwy, 23.

Beisdonell, *sf.* [beisdon] shoreweed, shore-grass (*Littorella*).

Beisdonell merllyn, plaintain shoreweed (*Littorella lacustris*).—*H. Davies:* Welsh Bot. 89, 157.

Beisfa, -oedd, -on, fëydd, } *sf.* [bais] a shallow
Beisfan, -au, } place; a shallow, a shoal; shoal water.

Beisfaog, } *a.* full of shoals or shallow places;
Beisfanog, } shoaly.

Beisfaogrwydd, *sm.* shoaliness; shallowness.

Beisfaol, *a.* shoaly; shallow.

Beisfor, -oedd, *sm.* a shallow sea; a sound.

Beisgawn, gonau, *sf.* [=meisgawn: cf. *gweisgon*, *ysafn:* allied perhaps to *gwasgu*. See *Rev. Celt.* iii. 87] a stack; a heap of corn-sheaves, hay, straw, and the like, trodden and pressed down.

Ef ae trawei affust hayarn hyt na bei well yr rethri ar trostreu. ar dulatheu. noc yr mangeirch yng ngwaelawt yr yscubawr yny *ueiscawn*.—*Mabinogion*, ii. 210.

Beisgawn haidd, a barley mow; a stack of barley.

Beisgawniad, -au, *sm.* a stacking; a shocking.

Beisgawnu, } *v.* to stack; to shock; to pile;
Beisgoni, } to tread down close (as hay or in a corn rick).

Beisgiad, -au, *sm.* a drawing; a draught, a haul.

Ydd oedd ef wedy brawychu arnaw, ac ar oll oedd y gyd ag ef, gan y tyn [**feisgiad*, traill] o bysgawd a ddaliesent.
W. Salesbury: Luc v. 9.

Beisgo, *v.* [basg] to draw or haul a net; to trawl; to dredge.

Gwthia i'r dwfn, a bwriwch eich rhwydau i wneuthur tyn [**feisgo*, hela, dreillo].—*W. Salesbury:* Luc v. 4.

Beisiad, -au, *sm.* [beisio, bais] a making shallow; a becoming shallow or shoaly.

Beisio, *v.* [bais] 1. to make shallow; to render shoaly.

2. to wade or ford; to feel the bottom; to probe.

Peibl hen o Foesen a *feisiwch* drosti,
Pob bath ystori, pob peth ystyriwch.
W. Lleyn: G.B.C. 268.

Beisiog, *a.* abounding with shallows or shoals; shelvy, shoaly.

Beisiogrwydd, *sm.* shoaliness, shallowness.

Beisiol, *a.* relating to shoals or shallows; becoming shallow.

Beisle, -oedd, *sm.* a shallow place; a shoal.

Beisleog, *a.* abounding with shallows; full of shoals; shelfy.

Beius, *a.* [bai] faulty; blamable; censurable, culpable, reprehensible.

Drwg fydd lleferydd *beius*.
Englynion Eiry Mynydd: M.A. i. 544.

Yn awr y ceir hwy yn *feius*.—*Hos.* x. 2.

Beiusder, } *sm.* faultiness; blamableness,
Beiusrwydd, } culpableness.

Beiwr, wyr, } *sm.* a fault-finder; a blamer, a
Beiydd, -ion, } censurer.

Bel (*ĕ*), -au, *sm.* [cf. Br. *bel:* L. *bellum*] war; tumult; havoc.

Gwirionedd oedd; gwae rai a wnaeth
Y *bel* yn ei fabolaeth.—*Hywel Swrdwal.*

Tân trwy *fel*, taena trwy fwnt,
Ymwrdd gwroniaeth Emwnt.
Dafydd Llwyd ab Ll. ab Gruffydd.

Bid oreu i bawb, o daw'r *bel*,
Os dichon, geisiaw d'ochel.—*Edm. Prys.*

Gelwch bawb, gwiliwch y *bel*,
I gyd ewch â'ch gwaed uchel.—*Sion Fychan.*

Fe gwsg! awr marwol boen, a balchder *bel*,
Un wedd ynt drosodd iddo ef; ei ruddiau nan
A wywant yn y terfysg gwyllt a ffrom.
Ieuan Ddu (Lleuad yr Oes, i. 239).

Er oes y craff Amraphel,
Llanw byd fu Ellyllon *Bel*.
Gwallter Mechain: Gwaith, 23.

¶ On this word Pughe has the following note: 'From Roman-British altars, dedicated to *Mars*, we find he was called *Bel;* for on one

that was found in the north of England occurs the epithet BEL Y DUW CADR, or, *Mars the puissant god.*' The actual inscription, which was found in Cumberland, is: BELATVCADRO. In another British inscription the word is in the nominative: BELATVCADROS. *Belatv-* occurs as the first part of a name in several other inscriptions. See *Rev. Celt.* iii. 159; Gwallter Mechain, *Gwaith*, iii. 514.

Bela, *v.* [bel: Br. *bela*] to war, battle, or fight; to wrangle.

Bela, -on, -od, *sm.* [cf. *bala*] a wolf.

Bela, -od, *sm.*=*Bele* (q.v.), of which it is the colloquial pronunciation of North Wales (cf. Pennant, *Brit. Zoology*, i. 79) 1. a marten or martin.

Y *bela* sydd fath o fronwen, o liw gwyn yn y gauaf, a llwyd yn yr haf. . . Carlwm, creadur go debyg o ddull a maintioli i'r *bela*.—*R. Roberts:* Daearyddiaeth, 9.

2. the sable (*mustela zibellina*).

Llyna orsedd Tryblith rhag
Ei olwg, ac ei babell orn ar daen
Yn eang uwch y dwfn; yng nghyd ag ef
Gorsedda Nos, cyntefig ar bob peth,
Yng ngwisg y *bela*, hi oedd gydwedd ei
Deyrnasiad.—*W. O. Pughe:* C.G. ii. 1013.

Bela, *sm.* henbane (*Hyoscyamus*).—*H. Davies:* Welsh Bot. 23, 157.

Belach, *sm.* trouble, molestation.—*P.*

Belan, *sm.* [=Malen] one of the names of the evil one; the fiend or demon of war?

Belan yw yn helbulu
Pob gwâr ar y ddaiar ddu.
Cywydd Enwau y Fall (Llanover Ms. 32).

Belan, } *sm.* [=balaen, melan] steel; a steel
Belain, } blade; a sword.

Belan a dyr, blin ei daith,
Drwy'r lluoedd o'r draill hywaith.
Rhisiart Iorwerth, i Gleddyf.

Af i'r ryfel â'r *belan*
Yn ffleimiaw dig yn fflam dân.—*Ieuan Gethin.*

Gwn fy nghwyn, ac yn fy nghân
Ymbiliaw am y *belan*.—*Deio ab Ieuan Du.*

Belan o dân blaen y dur,
Brwd alaeth briwiau dolur.—*D. Llwyd Gorlech.*

Dyn heb alw yn dwyn *belain*
Drosod draw, ac i'm llaw'r llain.
Rhys ab Harri, i Ofyn Cledd.

Belan, -au, *sf.* [dim. of *bâl*, q.v.) an eminence; a hillock; a knoll; a mound. It forms several place-names; as, *Belan Deg*, *Belan Ddu*, *Belan Argae*, *Belan Las*, *Belan Wŷdd.*—Cf. Lhwyd, *Arch. Brit.* 33; Gwallter Mechain, *Gwaith*, iii. 514.

Bele, -od, *sm.* a marten.

Ar eu hol, pedwar helynt,
Derw ar ros dwr awyr ynt;
Beleod, pysgod bob par,
Ceirw oediawg, a rhyw adar.—*L. G. Cothi*, III. viii. 35.

Cyn chwannoced a'r *bele* i'r mêl.—*Diareb.*

Na *bele* i fêl na gwraig i selsig.—*Diareb.* (M.A. iii. 165.)

Bele y graig, the rock marten, the stone marten.

Bele y coed, wood marten, pine marten, the yellow-breasted marten.

¶ Pennant (on the authority of Richard Morris) calls these mustelae *bela graig* and *bela goed* (*British Zoology*, i. 79).

Belennydd, *a.* intolerable?

Tri pheth sy'n drewi'n *felennydd* ym mhob man: clod coegyn tringar; mawl cybydd goludfalch; ac enw meddwyn.
Trioedd Doethineb: M.A. iii. 250.

Beleuod, *s.pl.*=*Balaon.*

Pan fo'r ysgewull yn ysgoewan,
A blaenau *beleuod* allan,
A'r eog yn y myncog mân,
Nac aed merch i Goed Marchan.—*Llanover Ms.*

Belgordd, -au, *sm.* [bel+cordd] a devastating host or horde, a ravaging multitude.

Gwn taw dewisach a fyddai gan y taiog iseldrem ffoi ymaith ar esgeiriau garanod na chael gorwedd yn ddiwaed ddienaid ar oerlas oerlwm daiarlawr, a chadell o frain a *belgordd* barcutod, a phob ysgig adar rheipus-gyrch, yn ymborthi ar ei lygaid a'i galon.
Llythyr Serch (Y Taliesin, i. 77).

Beli, *sm.* [bel] havoc, devastation; war.—*P.*

Wyre llu llaes ysgwydawr
Ysgwyt vriw rac biw *Beli* bloedvawr.—*Aneurin:* God. 384.

Bwla ac ych, *beli* ac on,
Banw a'i gyr heb un goron.
Daf. Llwyd ab Ll. ab Gruffydd.

Fal gwaith drwy *feli* ac on,
Harri â'r gwaewyr hirion.
D. Llwyd Mathew, i Harri VII.

¶ It often occurs as a personal name; as, for instance, *Beli ab Dyfnwal*, a mythic British king in the 4th century B.C.; *Beli Mawr ab Manogan*, the father of Caswallawn, who opposed Cæsar's landing in Britain; and *Beli ab Benlli Gawr*, a chieftain who is said to have lived in the 4th century A.D. It has also been used for the god of war, or war personified (=Mars, or Bellona). In Breton *béli* signifies power, authority, dignity.

Nid llai darsteinid chwaith ei glust gan groch
Niweidiawl drwst (o syniaw mawrion wrth
Y bach) no phan y rhuthra *Beli* ag
Ei flif-ermigion oll er difrawd rhyw
Gaer gref.—*W. O. Pughe:* C.G. ii. 975.

Beliaid, *s.pl.* warriors, soldiers.—*W. O. Pughe:* C.G. 367.

Belog, *a.* apt to be ravaging; overrunning.—*P.*

Belu, *v.* to wage war; to bicker; to commit an outrage.

Val pan *vel* medel ar vreithin.
E gwnaei Varchlew waetlin.—*Aneurin:* God. 283.

Belydd, -od, *sm.* the gadfly or oxfly.—*Gwent.*

Belydda, } *v.* to run wildly about, as cattle
Belyddied, } when tormented by gadflies.

Y mae y da yn *belydda*.—*Gwent.*

Y mae y da yn *belyddied*.—*Dyfed.*

Belys, *s.pl.* straw made into bundles, with the shorter ones shaken off, for thatching; bundles of thatch.—*Gwent.*

Belysdöedig, *a.* [belys+töedig, toi] craven, cowardly, spiritless (q.d. covered or thatched with straw, and not, as a brave knight, clad in steel armour?).

Belysdöedig, digalon, llwrf, hwyrfrydig i ymladd.
Iolo Glossary.

Marchwyr *belysdöedig* oedd un o gasbethau gwŷr Rhufain.—*Llanover Ms.*

Belysen, *sf.* a bundle of straw for thatching: also called *cloigen* (pl. *cloig*).

Bell, *a.* [L. *bellus?*] compact, firm, close.—*P.*

Bellach, *adv.* [mut. of *pellach*, q.v.] at length; now at length; now at last; now; at or by this time; now then.

Bellach, *bellach*, fal chwedl y barcud.
Diareb. (M.A. iii. 149.)

Bellach pob brenin am geilw Taliesin.
Taliesin: M.A. i. 19.

Bellach f'yspryd a ballawdd,
Mi 'th archaf i Naf a'i nawdd.
Gronwy Owain, 17 (cf. 64, 266).

Bellach neu byth, now or never.

Bellach bellach, further and further.

Ben (ĕ), -i, *sf.* [=men] a cart, a wain.

Llwyth ben (*pl.* llwythi ben), a cartload.

Tŷ ben (*pl.* tai benau), *Tŷ y fen* (*pl.* tai y benau), } a carthouse, a wainhouse.

[*Benna* lingua Gallica genus vehiculi appellatur; unde vocantur *combennones* in eadem benna sedentes.—*Festus*. 'A waggon of wicker- or basket-work is still called *banne* in Belgium, and *benne* in Switzerland.']

Benaid, eidiau, *sf.* [=menaid] a cartload.

Efe [y porthawr] a ddyly o bob pwn cynnud a ddêl trwy y porth ysgyren a dyno yn ddilestair i'r march â'i law ar y porth; a phren hefyd o bob *benaid;* nid amgen, pren a allo ei dynu â'i unllaw heb lestair ar gerdded y meirch a'r ychen.—*Leges Wallicae*, I. xl. 5.

A barnu yn ddigon o dail, pydredig a chloddiedigion, pedair *benaid* ar hugain, ac ugain mwysel yn y *fenaid*.
Cato Cymraeg (Y Greal, 201).

Ys gwn enw hwn, wr honnaid i'r llu,
Nid er lles cywiriaid;
Un â'i ben wrth y *fenaid*,
Ac wrth y llawr carthu llaid.—*Ieuan Deulwyn*.

Benaig, *sf.* [see *benyw:* for the term. cf. *gwraig:* Ga. *beanag*, a dim.] a woman, a female.

Na morwyn fwyn o *fenaig*,
Na merch fach, na gwrach, na gwraig.
D. ab Gwilym, cxxxvi. 5 (cf. cxiv. 33).

Galw bob un eu gilydd,
Im' gael i gyd da fyd fydd;
Fi a'r fun, fy aur *fenaig*,
Yn gwasgod maen graen y graig.
Dafydd ab Gwilym, cxiii. 19.

Bendig, *a.* [L. *benedicus, benedico*] blessed.

Da yw bendith bardd, a Duw *bendig*,
Ar y maendy a'r plas, man heb blyg.
Iolo Goch, i'r Deon Cyffin.

Duw *fendig*, hyd fy undydd,
I'r wlad hael a erlid hydd.—*L. G. Cothi*, IV. xx. 1.

Urddasol dad *bendica*'
A ddoeth o honod, Adda.—*Cyfymgerdd y Croeshoeliad*.

Bendigad, -au, *sm.* [bendigo] benediction.

Treded dofn doethur i fendigaw Arthur
Arthur *fendigad* ar gerdd gyfaenad.
Taliesin: M.A. i. 65.

Bendigaid, eidion, *a.* [L. *benedicus* (cf. *benedice*), *benedictus;* C. *beneges, bynyges*] blessed, blest; holy.

Maur defnyd bedyd *bendigeit* rieu
Ruyf eneityeu rat volyeit.—*Cynddelw:* M.A. i. 251.

Pader a buyeid a *bendiceid* creto.—*M.A.* i. 579.

Yr awr honn y mynnwn i. yti atnabot pale oed y gweleisti y poenneu yndaw. a phywiat yw y wlat *vendigeit* honn.
Purdan Padrig, § 25.

Bendigaid wyt ti ym mhlith gwragedd.—*Luc* i. 28.

Y Tir Bendigaid, the Holy Land (=Palestine).

Wedy hynny y ryfelodd Sawden o Babilon ar kristynogion yn ffest. ac ydd enillodd *y tir bendigaid*.
Yr Olew Bendigaid, § 5.

Yn ol i ni weled y cwbl o'r lleoedd yn *y Tir Bendigaid* . . . darparasom ein hunain i ddychwelyd.
W. Lewes: Dwy Daith, 55 (cf. 32, 101).

Y Wlad Fendigaid, the Holy Land.

Y Wlad Fendigaid a gyflewyd rhwng dau fôr ac afon yr Iorddonen. . . Y mynyddoedd penaf yn y *Wlad Fendigaid* yw mynydd Hermon, sy'n sefyll yn y dwyrain, a mynydd Tabor yn y gorllewin.—*W. Lewes:* Dwy Daith, 101.

Y Bedd Bendigaid, the Holy Sepulchre (at Jerusalem).

Ac yno, gan esgyn o honom ar y dechreu trwy ffordd dywyll, a'n harwain â llinyn, ni gyrhaeddasom le uchel ger llaw Sepulchra Sancta, neu'r *Bedd Bendigaid*.
W. Lewes: Dwy Daith, 17.

Y Cymmun Bendigaid, Holy Communion.

Trefn Gweinyddiad Swper yr Arglwydd, neu y *Cymmun Bendigaid*.—*Llyfr Gweddi Gyffredin*.

Gan nad ŷm yn ammheu, nad oes ym mhob Eglwys yn nheyrnas Loegr, fwrdd cymhwys a gweddus wedi ei ddarparu a'i osod i wasanaethu'r *Cymmun Bendigaid*.
Canonau Eglwysig, 82.

Y Forwyn Fendigaid, *Y Fendigaid Forwyn*, } the Blessed Virgin.

Dwfr bendigaid, holy water.

Da yw o agos *dwr bendigaid*.—*L. G. Cothi*, I. xxvi. 33.

[Gweddi] wrth gymmeryd *dwfr bendigaid*.
Allwydd Paradwys, 38.

Y Groes Fendigaid, *Y Grog Fendigaid*, } Holy Cross, Holy Rood.

Tebig i'r *groes fendigaid*
Yw fy yw rhudd pan fo rhaid.—*L. G. Cothi*, v. ii. 49.

Ffon fendigaid, a staff carried by a holy man; a pilgrim's staff.

Gwnaf, ebe efe, ac a aeth yng nghyd â'r gwaith â'i ffon wen yn ei law, ar wedd gwr yn dwyn *ffon fendigaid*.
Iolo Mss. 178.

Brân Fendigaid (=Bendigeidfran, Bendigeidran), Brân the Blessed; Brân of blessed memory.

Tri menwedigion teyrnedd Ynys Prydain: Bran *Fendigaid* ab Llyr Llediaith. . . Ail, Lleurwg ab Coel ab Cyllin Sant. . . Trydydd, Cadwaladr *Fendigaid* a roddes nawdd o'i diroedd a'i holl ddäoedd ei hun i'r ffyddloniaid.
Trioedd: M.A. ii. 63.

Bendigeidion, blessed or holy ones; saints.

Ac ym plith y *bendigeidyon* verthyri y diodefwys seint Alba o Varolan.—*Brut Gr. ab Arthur* (B): M.A. ii. 206.

Bendigedig, *a.* [bendigo: L. *benedictus*] blessed, blest; holy; happy.

Bendicetic [*al.* benedegetic] hac ef hay plant ay enrydedocao y breint hunn, hac ay cattuo.
Liber Landavensis, 114.

Welydi yma yti bwyth yr ireit *bendigedic*.
Mabinogion, i. 30.

Bendigedic uab ny uaeth keryt . . .
Bendigedic uro ureint gynnhewyt.
Llywelyn Fardd: M.A. i. 360.

Ei drwydded *bendigedig*
A'i dra myfyrdawd a drig.
Meirig ab Iorwerth: M.A. i. 507 (cf. 559).

Bendigedig wyt ti, O Dduw ein tadau, a bendigaid yw dy enw sanctaidd gogoneddus yn dragywyddol: bendiged y nefoedd a'th greaduriaid oll dydi.—*Tobit* viii. 5.

Y Forwyn Fendigedig, *Y Fendigedig Forwyn*, } the Blessed Virgin.

Cyflwyniad Crist yn y Deml; yr hyn a elwir yn gyffredinol, Puredigaeth y *Fendigedig* Fair *Forwyn*.
Llyfr Gweddi Gyffredin.

Cyffesaf i Dduw Hollalluog, i *fendigedig Fair Forwyn* bob amser, i fendigedig Fihangel archangel, i fendigedig Ioan Fedyddiwr.—*Allwydd Paradwys*, 221.

Dyma foliant arall ragorawl i'r *Fendigedig Forwyn*.
Rosier Smith: Eglurhâd, 126.

Y Cymmun Bendigedig, Holy Communion.

Cynnifer ag a fyddo yn amcanu bod yn gyfranogion o'r *Cymmun bendigedig*, a hyspysant eu henwau i'r curad ryw amser y diwrnod o'r blaen o'r lleiaf.—*Ll. G. Gyffredin*.

Y bwrdd bendigedig, the holy table.

Yr archesgob yn eistedd yn ei gadair ger llaw y *bwrdd bendigedig*.—*Ll. G. Gyffredin*.

Bendigedigion, blessed ones; the blessed.

Deuwch, chwi *fendigedigion* fy Nhad, etifeddwch y deyrnas.—*Matt.* xxv. 34.

Bendigedigrwydd, *sm.* blessedness, beatitude; felicity.

Bendigedigrwydd yw'r perffaith a'r anfesurol fwyniant a'r llawenydd a gogoniant, yr hwn sydd gan Dduw ynddo ei hun yn dragywydd.
Rowland Vaughan: Ymarf. Duwiol. 24 (cf. 27).

Bendigedd, *sm.* [bendig] blessedness; felicity.

Bendigeidlys, *sm.* common avens, herb Bennet (*Geum urbanum*).—*H. Davies:* Welsh Bot. 51, 157.

Bendigeidlys glan y dwr, water avens (*Geum rivale*).

Bendigo, *v.* [L. *benedico;* C. *benigia;* Br. *beniga;* Ir. *beannaigh;* Ga. *beannaich*] to bless; to felicitate; to consecrate.

Ef adely *bendycau* adel ouuyt allyn yr estauel.
Cyfreithiau Cymru, i. 52.

Gogonedauc Argluit hanpich guell
Ath *uendicco* de egluis achagell.
Llyfr Du: A.B. ii. 12 fq.

O cheueis i rat gar dy vron di. eisted ychydyc yn temyl i. a *bendicca* dy was di.—*Buchedd Mair,* § 3.

Bendith Duw gennwch gynureinyon
Gnawd y vart *vendigaw* haelon.—*Cynddelw:* M.A. i. 256.

Ti a *fendigwn* ti a addolwn.
D. Ddu Hiraddug: M.A. i. 563.

A Duw a *fendigodd* y seithfed dydd, ac a'i sancteiddiodd ef.—*Gen.* ii. 3 (cf. i. 22, 28).

Bendigol, *a.* blessed; beatified.

Rhoi arwydd dirfawl y grog *fendigawl.*
M. Clynog: Athr. Grist. 2.

Y sawl ni welsant, ac a gredant,
Gwir *fendigol,* fuddiol fyddant,
Medd Crist, mewn braint a bri.
W. Wynn: Blodeugerdd, 327.

Bendigwr, wyr, } *sm.* a blesser; a bestower
Bendigydd, -ion, } of a blessing.

Bendith, -ion, *sf.* [L. *benedictio;* C. *benneth, banneth, bednath, benes;* Br. *bennoz, bennaz, bennoc'h;* Ir. *beannachadh;* Ga. *beannachd, buannachd*] a blessing; benediction.

Bendith y wenwas ir dec diyrnas.
Llyfr Du: A.B. ii. 46 (M.A. i. 580).

Ac erchi y *vendyth* awnaeth. Och a truan heb ef ny dylyy gaffel *bendyth.*—*Mabinogion,* i. 287 (cf. 247).

Tri *bendith* a ddygant *fendith* Duw ar a'u caffo: *bendith* tad a mam; *bendith* y tlawd; a *bendith* bardd llinolingerdd.
Trioedd Doethineb: M.A. iii. 206.

Yr hwn a'th fendithia â *bendithion* y nefoedd oddi uchod, a *bendithion* y dyfnder yn gorwedd isod, â *bendithion* y bronau a'r groth. Rhagorodd *bendithion* dy dad ar *fendithion* fy rhieni.—*Gen.* xlix. 25, 26.

Digon yw digon o *fendith* ei fam.—*Diareb.*

Bendith eu mamau, } (lit. their mothers' bless-
Bendith y mamau, } ing), fairies.

Ni chydunant hwy mwy na *bendith eu mamau.*
Blaenau Gwent.

Yn gyffredinol galwent [y Llydawiaid] y cromlechau a'r cistfeini wrth enwau y sawl a arwyddocânt Tai y *bendith y mamau.*—*Carnhuanawc:* Han. Cym. 30.

Fforddbendith eu mamau, the way or ways of the fairies; unknown, questionable, or suspicious ways.—*Gwent.*

Bendithfawr, *a.* of great blessing; full of blessings; conferring blessings.

Dywedir hefyd fod mwy na dwy fil o lyfrau wedi cael eu hargraffu yn yr iaith Gymraeg er pan gafwyd allan y gelfyddyd *fendithfawr* o argraffu.—*Gwyliedydd,* ix. 48.

Bendithiad, -au, *sm.* the act or action of blessing; a blessing, benediction.

Bendithiad gwragedd priod yw planta; ac ni bu ar y Fendigedig Forwyn ddiffyg am hyny.
Rosier Smith: Eglurhâd, 128 (cf. 129).

Bendithio, *v.* to bless; to consecrate.

Gan *fendithio* y'th *fendithiaf.* . . Ac yn dy had di y *bendithir* holl genedloedd y ddaiar.—*Gen.* xxii. 17, 18.

Bendithiol, *a.* benedictory; giving a blessing; conferring blessings; blessing.

Bendithiwr, wyr, } *sm.* a blesser; one who
Bendithydd, -ion, } bestows or pronounces a blessing.

Bendithiaf hefyd dy *fendithwyr,* a'th felltithwyr a felltigaf.—*Gen.* xii. 3 (cf. Num. xxiv. 9).

Benddiged, *sf.* [mut. of *penddiged* (pen+dig), q.v.] a whitlow or felon.—*N. W.*

Bened, *sm.* [L.L.(herba) *benedicta*=blessed herb] herb Bennet, avens (*Geum*). Also called *bendigeidlys, benediglys, llysiau bened, mabgoll,* and *llysiau fy anwylyd.*

Cais frig y gwinwydd gwynion, a gwraidd y ffunel cochon, a'r *bened,* a berw yng nghyd mewn padell hyd onid el y llysiau i'r gwaelod.—*Meddygon Myddfai,* ii. 532.

Benedig, *sf.* a message, an embassy.—*W. Lleyn's Glossary.*

Benedig, *a.* [L. *benedictus*] blessed, blest.

Rhown i'r Mab a roddwyd yn',
Mab un Duw gwyn *benedig,*
Fawl o galon yn llawn serch,
Er annerch dyw Nadolig.
Syr Huw Dafydd o Gelli Gaer.

Benediglys, *sm.* [Sancti *Benedicti* herba, or herba *benedicta*]=*Bened, Bendigeidlys.*—*Meddygon Myddfai,* 289.

Benediw, *a.* [=menediw: L. *benedico, benedictus*] blessed; happy.

Beneidio, *v.* [benaid] to fill a cart or wain.

Y mae y gwair yn beneidio yn dda, the hay fills the wain well (i.e., it does not shrink).—*Gwent.*

Benffyg, -ion, *sm.* [L. *beneficium*] a loan; what is lent or borrowed.

Binfic (*gl.* beneficium).
Oxford Gloss. v. 43 (Zeuss, G.C. 1062)).

Mab eillt agyneil tarw affallu o honaw oe *venfyc* y gymodawc camluryus vyd or kwynir racdaw.
Cyfreithiau Cymru, i. 606 (cf. ii. 670, 672).

Ef adaw yny diwed y gyuanned y kaffwyf y arueu. ae eu *benffic* ae ar wystyl. ual y kaffwyf ymbraw ar marchawc.
Mabinogion, ii. 11.

Kyfreith *benfic* yw ydyuot mal yrother.—Y neb arotho *benffic* adyly kymryt tyston neu wystyl ary *benffic.*
Cyfreithiau Cymru, i. 728 (cf. 248, 258, 598).

Un yw gwrys gwr llawr a gorwydd
Un yw breyr *benffyg* y arglwydd.
Taliesin: M.A. i. 58 (cf. 38).

Colofn clwyf nid oedd clod *fenffig.*
Seisyll Bryffwrch: M.A. i. 338 (cf. 165, 519).

Benffygio, }
Benffycio, } *v.* to borrow; to lend or loan.

A gwedi hyny dawed at y neb a'i *benfyciawdd* iddo. . . Pwybynag a *venfycio* enivel, na dim arall, y dyly ddawed adrev heb hawl.—*Trioedd Cyfraith:* M.A. iii. 350.

Benffygiol, }
Benffyciol, } *a.* borrowed; lent; borrowing.

Yn bedwerydd, er mwyn cynnorthwyaw yr ofaeg, neu i ddal yn sicrach yr ymadrawdd *benffygiawl,* ar araeth dröedig gyffelybus.—*Henri Perri:* Egl. Ffr. xii.

Benffygiwr, } wyr, *sm.* a borrower, one that
Benffyciwr, } borrows; a lender.

Ceisiaw ganto ddawed i warantu y march iddo, neu dalu y da i'r *benfygiwr* a daliesai i'r neb a holysai y march iddo, ni ddyly y neb a roes y march i venthyg vyned i warantu iddo, na thalu neb rhyw dda i'r *benfygiwr,* am luniaeth na masnach a wnelai *benfygiwr* yn absen y neb a roddasai y march ym menthyg.—*Trioedd Cyfraith:* M.A. iii. 350.

Benthyca, }
Benthycio, } *v.* [benthyg] 1. to borrow.

Or damweiniai i ddyn *fenthycio* march, neu beth arall, gan ddyn.—*Trioedd Cyfraith:* M.A. iii. 350.

Ond yw yn erbyn rheswm ini feddwl fod yr enaid, pengwreiddyn pob pleser . . . yn *benthyca* ei holl ddedwyddwch oddi wrth ei gyfaill tlawd y corff?
Th. Williams: Ymadr. Buch. 50.

Ei hunig hagredd ydyw ei bod yn gorfod *benthycio* allan o'r egwyddor Rufeinig ddwy lythyren i fynegu un sain.
G. Mechain: Gwaith, ii. 542.

Benthyca gan, to borrow of or from.

Pob gwraig a *fenthycia gan* ei chymmydoges.
Ecs. iii. 22 (cf. xii. 35; xxii. 14).

Benthycio oddi ar, to borrow from or of.

2. to lend, to loan.

Benthyca i, to lend to.

Yr Arglwydd dy Dduw a'th fendithia . . . fel y *benthyciech i* genedloedd lawer, ac na *fenthyciech* di ganddynt.
Deut. xv. 6 (cf. 8).

Y benthyg a fenthyciaist i mi, the loan which thou hast lent me.

Benthyciad, -au, *sm.* a borrowing.

Benthyciol, *a.* borrowed; borrowing.

Nid tlysau *benthyciawl* na dychymmygawl yw addurn y Gymraeg.—*Sam. Roberts:* Gweith. 595.

Enw benthyciol, a borrowed or assumed name.

Moesen, neu Moses, *enw benthyciol* yr awdwr wrth ei gywydd 'Dymchweliad yr Aiphtiaid yn y Môr Coch.'
Pedr Fardd: Mêl Awen, 70 (cf. 78).

Benthyciwr, } wyr, *sm.* one who borrows, a
Benthygiwr, } borrower; a lender.

Cyfodi hawl o arall ar y march yn llaw *benthyciwr*.
Trioedd Cyfraith: M.A. iii. 350.

Benthyg, -ion, *sm.* [originally a corr. of *benffyg* (q.v.), which it has superseded] a loan; what is lent or borrowed; a thing lent.

Gwedy darffo kweiro y pleidiev y dyly messuro hawl o gwataf ef hyny ymae y mi digon o dystyon roddi ohonnof vi y da y *menthic* atat ti.
Cyfreithiau Cymru, ii. 238 (cf. 240).

Nid doeth gwerthu nefoedd er *benthyg* elfydden.
Doethineb y Cymry: M.A. iii. 6 (cf. 163).

Duw gan roes einioes 'n ei *fenthig*
Ai gad oi ganiad gan Nadolig.
Gronwy Gyriog: M.A. i. 526.

Ond fe'm nacaodd y cadnaw o *fenthyg* chweugain wrth fy anghen.—*Gro. Owain*, 190.

Gwas fydd yr hwn a gaffo *fenthyg* i'r gwr a roddo *fenthyg*.
Diar. xxii. 7.

Gair benthyg, a borrowed word, a loan-word.

Arian benthyg, borrowed money.

Bwyell fenthyg, a borrowed axe.

Benthyg oedd, it was a loan; it was borrowed.—2 *Bren.* vi. 5.

Enw benthyg, a borrowed or assumed name; a sobriquet.

Plu benthyg, borrowed plumes or feathers.

Maent yn gosod allan eu cyrff drwy eu hamwisgo hwynt mewn dillad gwychion, a'r fath gyrff hefyd, dyna'r gwaethaf, na ddichon dim mo'u harddu; ac yna eu holl fost fydd eu *plu benthyg*.—*Th. Williams:* Ymadr. Buch. 56.

Ceisio ym menthyg, to ask as a loan; to borrow.

Rhoddi benthyg, } to give or grant as a
Rhoddi ym menthyg, } loan; to lend.—*Salm.* xxxvii. 26.

Benthygiad, -au, *sm.* a borrowing; a lending.

Benthygio, *v.* [=benthycio] 1. to borrow.

Ni ddylai fod arnom ninnau mo'r cywilydd wrth *fenthygio* helaethu'r iaith.—*Dr. Gr. Roberts:* Gram. 196.

Benthygio gan un i dalu arall, to borrow of one to pay another; to rob Peter to pay Paul.

2. to lend or loan.

Benthygiwr, wyr, *sm.*=*Benthyciwr*.

Benthygu, *v.*=*Benthygio*, *Benthyca*.

Yma y gwelwch *fenthygu* neu ysmudaw gair o'i briodoldeb ei hunan, i'r gyffelybrwydd cyfnesaf.
Henri Perri: Egl. Ffr. xii.

Benwedig, } *a.* [=menwedig, menwydig, q.v.]
Benwydig, } blessed; felicitous; blissful.

Benwedigion, blessed ones; blessings.

Benwedigaeth, -au, *sf.* beatitude, felicity; beatification.

Ac o ganlyn y tri chynghorion hyn y cyrhaedder y tair *benwedigaeth* arbenigion; sef ydynt y tair *benwedigaeth*.
Barddas, i. 302.

Benwig, -od, *sf.* [banw] a young sow or swine.

Ac yna y llas arall oe voch. Gwys oed y enw. Ac odyna ydaeth hyt yn dyffrynn Amanw, ac yno y llas banw a *bennwic*.—*Mabinogion*, ii. 244.

Benwryw, *a.* [benyw+gwryw] gynandrian, gynandrous.—*H. Davies:* Welsh Bot. 81.

Y benwryw, gynandria.

Benwyd, *sm.* [=menwyd] blessedness; happiness, felicity; a blessing.

Benyn (*ĕ*), *sm.* [dim. of *ben*] a wain or cart.—*P.*

Tri benyn bynau, three cart-loads.—*P.*

In the Mabinogi of Culhwch and Olwen (*Mab.* ii. 211, 227), *Tri benyn byn* and *Tri benyn byneu* occur as the name of the three swords of Bwlch, Cyfwlch, and Sefwlch.

Benyw, -aid, -iaid, -od, *sf.* [C. *benaw*, *benow*, *benen*, *ben*; Ir. *bean*, *ban*, *ben* (=W. *bun*); Ga. *bean*: cf. L. *Venus*; Gr. γυνή, Boeot. βανά. For the term. -*yw* cf. *gwryw*] 1. a woman or female (opposed to *gwryw*, as *gwraig* is to *gwr*).

Tri dyn cyfredin ni bydd noeth arv yn eu herbyn: gwr di arf; gwr cyn barv; a *benyw*.—*Cyfreithiau Cymru*, ii. 492.

A phob plentyn o'r *benywaid* . . . cedwch yn fyw i chwi.
Num. xxxi. 18 (cf. 35).

A phob plentyn o'r *benwyaid* . . . cedwch yn fyw i chwi.
Esgn. Morgan a Parry: Num. xxxi. 18.

A phob enaid byw, o *fenywod*, y rhai ni buasai iddynt a wnaethent â gwr, oeddynt ddeuddeng mil enaid ar hugain.
Esg. Morgan: Num. xxxi. 35.

Tri thâl a fydd i feddwyn am ei feddwdawd: ei gasäu gan bob doeth a deddfol; ei ofni gan blant a *benywod;* ac am hyny cael curo ei ben yn ddiogel.
Trioedd Doethineb: M.A. iii. 250.

Mor ffyrnig oedd y Rhufeiniaid y tro hwn, fel nad arbedasant nac hen nac iefainc, nac hyd yn oed y *benywiaid* yn eu griddfan.—*Theo. Evans:* D.P.O. i. 2 (52).

I'r gwŷr rhoes bwyll rhagorol;
Ond plaid *benywiaid* bu'n ol.—*Gronwy Owain*, 18 (cf. 57).

Gwryw a benyw, male and female; man and woman.

Yn *wryw* ac yn *fenyw* y creodd efe hwynt.
Gen. i. 27 (cf. v. 2).

Oni ddarllenasoch, i'r hwn a'u gwnaeth o'r dechreu eu gwneuthur hwy yn *wryw a benyw?*
Matt. xix. 4 (cf. Marc x. 6).

Enwau a chyfenwau yr holl blwyfolion, yn *wrywod* ac yn *fenywod*.—*Canonau Eglwysig*, 112.

Hen fenyw (*pl.* hen fenywod), an old woman; a beldam (much less respectful than *hen wraig*).

Rhyw benyw, the female sex; womankind.

2. the female (of the lower animals).

O bob anifail glân y cymmeri gyd â thi bob yn saith, y gwryw a'i *fenyw;* a dau o'r anifeiliaid y rhai nid ydynt lân, y gwryw a'i *fenyw:* o ehediaid y nefoedd hefyd, bob yn saith, yn wryw ac yn *fenyw*.—*Gen.* vii. 2, 3 (cf. 9, 16).

Gwerthaf y gwrywod o'r ŵyn hefyd, am bris ni ry neb ond anghenus; y *benywaid* mi a'u cadwaf yn ddefaid mamogion.—*Iolo Mss.* 181.

Benyw, *a.* female, feminine; she-.

Tair cenedl henw y sydd: gwryw, a *benyw*, a chyffredin. . . . *Benyw* yw yr hyn a berthyno ar wraig.
Edeyrn: Dosparth, 22.

Eryr benyw, a female or hen eagle, an eagless.

Colomen fenyw, a female dove, a hen-pigeon.

Pysgodyn benyw (*pl.* pysgod benyw), a female fish.

Benywaidd, *a.* female; feminine; womanly, womanish; effeminate.

Y rhyw fenywaidd, 1. the female sex; womankind. 2. the feminine gender.

Cenedl enw sydd yn amlygu gwahanol rywogaeth rhwng gwrywaidd a *benywaidd*, ac a gyfrifir i'r Gymraeg yn bum cenedl; sef, gwrywaidd, *benywaidd*, canolryw, cyffredin, ac anwybod.—*Robert Davies:* Ieith. Cymr. II. i.

Benyweiddrwydd, *sm.* feminity; effeminacy.

Benywen, -od, *sf.* [dim. of *benyw*] a little woman or female.

Benyweta, *v.* to wench.—*W. Williams.*

Benywetach, *s.pl.* [benywaid] ignoble women, giggling females.

Benywetwr, wyr, *sm.* a wencher.

Benywiaeth, *sf.* effemination; effeminacy.

Tri brodyr *benywiaeth:* trwsiadgar; cellweirgar; a gwenieithgar.—*Trioedd y Brodyr:* M.A. iii. 275.

Benywlyd, *a.* effeminate, womanish.—*W.*

Benywol, **Benywiol,** *a.* feminine; female.

Cenedl yn ol ei nodwedd ymadroddawl sydd yn peru aml gyfnewidiad ar ddull yr enw; ac hefyd ar ddull yr ansawdd damweiniawl a fyddo yn gyfymlyn ag efo; naill ai i ddangaws ei briodolder gwrywiawl, ai y *benywiawl*, ai y cyffredin.—Enwau o genedl gyffredin, er hyny, trwy arfer ymadrawdd, ac wrth ryw berthynasau tebygawl a welir ynddynt i fywolion, a droir yn amlaf naill ai yn wrywolion neu yn *fenywolion*. . . I eiriau o genedl gyffredin, ond y rhai a arferir yn *fenywolion*, y mae y terfyniadau hyn.
W. O. Pughe: Cad. Iaith Gymr. II. i. 4.

Benywolion, feminines.

Benywota, *v.* to follow after women; to wench.

Benywotach, *s.pl.* [benywod] ignoble females; women (with the subaudition of some disparagement).

Benywotty, tai, *sm.* a women's house; a harem or seraglio.

Pa wedd, ebai Rasselas, y gall yr Arabiad, yr hwn a ddarluniasoch fel dyn o gyrhaeddiadau mwy na chyffredin, gymmeryd dim hyfrydwch yn ei *fenywotty*, pan y llenwir ef gan wragedd o fath y rhai hyn yn unig?
Rasselas, xxxix.

Bu amser pan oedd ein teulu breninol ym mhell yn ol mewn moesoldeb, ac yr oedd rhagor nag un pendefig yn cadw *benywotty*.—*Haul*, C.C. xi. 235.

Benywotwr, wyr, *sm.* a wencher.

Benywyn, *sm.* a cotquean; an effeminate man.

Bêr, *pl.* berau, beri, *sf-m.* [C. *ber;* Br. *bêr;* Ir. *bear*, *bior*, †*bir;* Mx. *bher;* L. *veru*] 1. a spear, lance, or pike.

Ef avynhei rynghu bod y Chnout. ac a rodes rodeon llawer y vn o wassanaethwyr Edmund yr y vrathu a *ber* haearn ar y hyd y vyny pan elei yr geudy gyntaf.
Brut y Saeson: M.A. ii. 503.

Iwch ni bydd maddau fy ngwan a *bereu*.
Taliesin: M.A. i. 91.

Achos pumoes byd y bu iddaw
Uchelwr mirain *bêr* drain drwyddaw.
D. Benfras: M.A. i. 310 (cf. 309, 383).

Kymen varwn doeth kamawn *vereu*.
Rhiserdyn: M.A. i. 435 (cf. 428).

2. a spit (for roasting meat); a skewer.

Mynet aoruc Kei yr gegin. ac yr vedgell adyuot ac ysteneit o ved gantaw . . . ac alloneit ydwrn o *vereu*. a golwython arnadunt.—*Mabinogion*, i. 2.

Aruer aoruc o geluydyt nyr clywsei eirioet nyt amgen no thrychu dryll o gehyr y vodwyt ae dodi ar *ver*.
Brut Gr. ab Arthur (B): M.A. ii. 373 (cf. 372).

Cur yna floneg y carn-fileinwyr,
Fal *berau* cogau, fal briwo cegyr.—*L. G. Cothi*, I. viii. 37.

Gyru peth i ben y bêr, to drive or carry a thing to the extreme or utmost point; to investigate a thing to the fountain-head.—*S. W.*

Ci bêr, a turnspit dog, a turnspit.—*W.*

3. the double dagger (‡) in printing.

Y bidag (†), y bêr (‡), y llinellau dyblyg (‖), llythyrenau yr egwyddor, yng nghyd â rhifnodau, a arferir fel cyfeiriadau at ymyl neu waelod y tudalen.
Isaac Jones: Gram. Cymr. 135.

Ber, *pl.* berrau, *sf.* a shank, a leg.

Berrau byrion, short legs or shanks.

Ber, *pl.* byrion; *cp.* byred, -ach, -af, *af.* [*f.* of *byr*, q.v.: C. *ber;* Br. *berr*] short; brief.

Osla Gyllelluawr. aymdygei bronllauyn *verr* llydan.
Mabinogion, ii. 209.

Nos *fer* sydd yn Ynys Fon,
A nos hir yn Is-Aeron.—*L. G. Cothi*, III. xvi. 21.

Lle'r bo'r gamfa *feraf* fach,
Llymsi fyddaf yn llamsach.—*Ieuan Brydydd Hir, hf.*

Cyhydedd fer, *Ber gyhydedd,* short metricity; a metre consisting of four syllables in a line. Cf. *Cyhydedd.*

Anghen y *gyhydedd fer* yw bod y fraich yn bedrysill, sef hyd y ban; ac o bedwar ban i wyth yn y pennill.
Cyfrinach y Beirdd, 80.

Y *fer gyhydedd;* a'i mesur yw pedair silltaf.
Pum Llyfr Cerddwriaeth, 73.

Bera, -on, *sm.* [ber] a pyramidical heap; a stack of corn or hay (in the form of a pyramid); a stack; a pyramid.

Tybia rhai fod cenedloedd y cynoesoedd yn arfer cyfodi golygdai, a meddyliwyd fod *beraon* yr Aipht gwedi eu hadeiladu i'r diben hwn.—*Cylchgrawn*, i. 301 (cf. ii. 114).

Y *bera* blaenfain, balchedd hen yr Aipht,
A syndawd byd.—*Iago Trichrug.*

Bera o yd, a stack or rick of corn.

Berad, -au, *sm.* [=merad, from *beru* or *meru*] a dropping, a drizzling; a running of water.

Beraden, *sf.* [dim. of *berad*] a single drop; a drop.

Beraes, -au, *sf.* [ber+aes] a short shield, a buckler.

Berai, eion, *sm.* [bêr] a turnspit.

Beraid, eidiau, *sf.* [bêr] as much (meat) as a spit can hold; a spitful.

Yr oedd yno yn berwi o bob peiriau
Saith ganmil *beraid* o enaidiau.
Gruffydd Ynad Coch: M.A. i. 517.

A phan deuthant parth a phen y mynyd wynt awelynt yr aghyguil kawr a *bereideu* [*al.* beroeidieu=berweidiau] o gig moch coet ganthaw yn eu pobi. ac ny hysu yn lletamrwt.
Brut Gr. ab Arthur (B): M.A. i. 336.

Beran, -au, *sf.* [dim. of bêr] a little spit; a broach; a skewer.

Beraol, *a.* pyramidal, pyramidical.

Berasgell, *a.* short-winged.

Berasgell, -od, byresgyll, *sf.* a short-wing bird; the penguin; the great auk.—*Gwyliedydd*, ix. 237.

Berdas, *s.pl.* shrimps, prawns.

Berdroell, -au, *sf.* a jack-wheel.

Berdysyn, *m.* } *pl.* berdys, berdas, *s.* a shrimp
Berdysen, *f.* } =a crustaceous animal.

Yn lle y morfeirch mawrion hyny, y mae ein llenyddiaeth boblogaidd yn awr yn debycach i draethell o rython a *berdys*.—*Traethodydd*, xxx. 246.

Ychydig ffrwythau mewn hen fasged, llestr pridd, a nifer o *fardys*, ydynt yr hyn oll sydd gan yr herlod at ei bryd bwyd.—*Cylchgrawn*, ii. 90.

Berddig, *a.* [bardd] bardic; poetical.

Berem, *sm.* [=berm, berman, burym: E. *barm*, †*berme*; A.S. *beorma*] 1. barm, yeast; ferment.—*S. W.*

Y newydd chwerw, trwm a sur,
Trywanodd fi fel cleddeu dur;
A *berem* gwyllt sy'n berwi'm gwaed
Yn eithaf trist o'm pen i'm traed.—*Daniel Ddu*, 131.

2. foam, froth, spume.

Berem y dwr, foam on water.—*S. W.*

Berf, -au, *sf.* [L. *verbum*; Br. *verb*; Ir. *fearb*] a verb.

Llefain yw *berf* oferfardd;
Llwyr wae! ni chwarae, ni chwardd!
D. ab Gwilym, ccxxxiii. 15.

Tri ammherthynas cerdd: moliant a gogan yng nghyd; rhwy ac eisieu yng nghyd; ac eisieu *berf*.
Trioedd Doethineb: M.A. iii. 135.

Dwy ran ymadrawdd y sydd; nid amgen na henw a pheirwyddiad, sef *berf*.—*Edeyrn:* Dosparth, 20 (cf. 22, 23).

Mo. Beth yw *berf?* Gr. Rhan o ymadrodd yn arwyddhau bod, gwneuthur, ne ddioddef.
Dr. Gr. Roberts: Gram. 133 (cf. 134—174).

Berf sylweddol, substantive verb.

Yn gyntaf peth rhaid yw gwybod nad oes un ferf yn y Gymraeg, oddi eithr y *ferf sylweddawl* . . . â'i holl amserau genthi.—*Dr. Gr. Roberts:* Gram. 142.

Berfa, fäu, *sf.* [E. *barrow*, †*barewe*, *barwe*] a barrow.

Peth echryslawn oedd gweled y meirw, heb arch o'u cylch, yn cael eu cludo mewn *berfäu*, ac ar gefnau asynod.
Cylchgrawn, i. 31.

Berfa ddwylaw (*pl.* berfäu dwylaw), a hand-barrow.

Berfa olwyn (*pl.* berfäu olwyn), } a wheel-
Berfa olwynog (*pl.* berfäu olwynog), } barrow.

Argraffydd oedd . . . er iddo yn ei ieuenctid, ac yn nechreuad ei oruchwyliaeth, drolio *berfa olwyn* o'i flaen yn llawn o lyfrau bychain er addysg a difyrwch i blant ac ereill.—*Th. Roberts:* Ffordd i Gyfoeth, 4.

Berfa drol (*pl.* berfäu trol), a wheel-barrow.

¶ *Ber-* (=L. *fero*; Gr. φέρω; A.S. *beran*; E. *bear*, †*bere*, *beren*), the root of *berfa*, does not seem to occur uncompoundedly; but it is found in *adfer*, *cymmeryd*, *dadferu*, *gwrthferu*, &c.

Berfäaid, fäeidiau, *sf.* a barrowful.

Berfaen, *sm.* [L. *verbena*; E. *vervain*] vervain (*Verbena*).—*W.*

Berfain, feinion, *a.* [ber+main] slender-legged, thin-shanked.

Berfain yw'r afr a barfog.—*N.*

Berfain, *sm.* [ber+main] Turkey-pod, wall cress (*Arabis*).—*H. Davies:* Welsh. Bot. 64.

Berfain cyffredin, common Turkey-pod or wall cress (*Arabis thaliana*).

Berfäwr, wyr, *sm.* [berfa+gwr] a barrow-man; a barrow-maker.—*W.*

Berfëydd, -ion, *sm.* [berfa] a driver of a barrow, a barrow-man.

Berfëyddes, -au, *sf.* a barrow-woman.

Berfogi, *v.* to verbalise.

A'r rheol honno yr adnabydder beth yw sillaf betrus, ai un sillaf ai dwy, fal y mae bygwl: lluosoger a dyweter bygylau, neu *berfocer* ef a dyweder bygylu; a chanys trisillafawg yw hwnw, wrth hyny deusillafawg yw'r llall.
Edeyrn: Dosparth, 34.

Berfol, *a.* verbal; derived from or relating to a verb.

E fydd yn y fan yma raghenw i ddangos pa berson a pha rif fytho derbyniol y weithred; a hwnw a roir rhwng yr arddodiad a'r cyff *berfawl*.
Dr. Gr. Roberts: Gram. 172 (cf. 154).

Enw berfol, a verbal noun, a verbal.

Ac yn fynychaf o'r ferf Ladin e ffurfhëir yr *henw berfawl* Cymreig.—*Dr. Gr. Roberts:* Gram. 194.

Berfolion, verbals, verbal nouns.

Berfoli, *v.* to verbalise; to convert into a verb.

Berfoliad, -au, *sm.* verbalisation.

Bergam, geimion, *a.* [ber+cam] bow-legged, bandy-legged; crook-kneed.

Gwas *bergam* a gais byr-goed,
Gwr llawen, capten y coed.—*Thomas Prys.*

Berglasar, *sm.* devil's bit scabious (*Scabiosa succisa*).

Cymmer y meddygyn menyw, a llysiau llwydon, a'r gaswenwyn, yr hwn a elwir dail y *berglasar*, a'r erllyriad, yr hwn a elwir llydan y ffordd.—*Meddygon Myddfai*, ii. 177.

Berhoedl, -au, *sf.* a short life.

Och hir dir diffwys rhac pwys penyd
O'i dyfrys *ferhoedl* ai diofryd.
Gruffydd ab Meredydd: M.A. i. 455.

Beri, ïon, } *sm.* [cf. *beiri*, *bury*, *barcud*] a kite;
Bery, -on, } a bird of prey.

Keffid eu keinllith kwn kunllwyd
Keffynt *veryon* voreuwyd.
Cynddelw: M.A. i. 261 (cf. 199, 307).

Heb wyr llad gan llyw camawn
Llith *berion* lluydion llawn.
Cynddelw: M.A. i. 212 (cf. 206).

Beriach, } -au, *sf.* [ber (byr)+iach, ach] a short
Berach, } lineage or pedigree; a recent genealogical stock.

Tair *beriach* Gwynedd: Cantelli Wyddel; Amabon Goch; ac Osbern Wyddel.—*Hengwrt Ms.* 135. fo. 42.

Beriau, } ieuau, *sf.* [ber (byr)+iau, *f.*] a short
Byriau, } yoke; a yoke with two oxen abreast. Cf. *Iau*.

Pedair troedfedd yn hyd y *feriau*.
Leges Wallicae, II. xii. 3 (cf. C.C. i. 166, 186).

Beril, } *sm.* [L. *beryllus*, *berillus*, *berullus*; Gr.
Beryl, } βήρυλλος] beryl, a precious stone.

Caer wen y barwn â'r cyrn *beril*,
Y sy gaer unfaint â llys Greinfil.
L. G. Cothi, I. xxx. 21 (cf. 5; III. xxxii. 34).

Ni bu'r *beril* na'r lili,
Nith haul, yn decach na thi.—*Llanover Ms.* 34.

Maen beril, beryl stone.

Maen beril a dyn dân o'r haul, gan wresoced ei natur; ac wrth ei wresogrwydd y toddant fferyllt iaid yr aur o'r garreg yng ngwlad Gaersalem.—*Llanover Ms.*

A'i gorff oedd fel *maen beryl*, a'i wyneb fel gweledigaeth mellten.—*Dan.* x. 6 (cf. Ecs. xxviii. 20; xxxix. 13).

Beriog, *a.* [ber, *sf.*] having legs or shanks; legged, shanked; having large shanks.

Crych fyr yw, y crach *feriog*,
Cryd gwern, nid cariad y gog!—*D. ab Gwilym*, xc. 13.

Berllys, *sf.* and *cl.* [corr. of *merllys*] sperage (*Asparagus*).

Barba Jovis, llysiau pen tai, y *ferllys*, *berllys*.
Meddygon Myddfai, 282.

Cais o'r *ferllys* ddau ddyrnaid, a phwya'n dda, a'u berwi drwy ymenyn.—*Meddygon Myddfai*, ii. 339.

Berllysg, -au, *sf.* [ber (byr)+llysg] a truncheon; a baton; a rod of office. Also written *byrllysg*.

Efe [y drysawr] a ddyly rwyddhau ffordd i'r brenin â'i *ferllysg*; a pha ddyn bynnag a d'rawo i ar y ffordd o hyd ei fraich â'i *ferllysg*, cyd gofyno iawn iddaw, ni ddyly ei gaffael.—*Leges Wallicae*, I. xxv. 14 (cf. C.C. i. 46).

Berllysg, *sf.* and *cl.*=*Berllys*, *Merllys*.

Cais lefrith buwch unlliw os cei, a blawd ceirch, ac ychydig o wer llwdn dafad, a dyrnaid o'r *ferllysg*, a'u pwyo'n dda, a'u berwi yng nghyd yn dda.

Meddygon Myddfai, ii. 225 (cf. 248).

Berm, *sm.* [E. *barm*, †*berm*, *berme*, *berrme*; A.S. *beorma*; Ger. *bärme*] barm, yeast; ferment.

Yna cymmer chwech galwyn o gwrw cadarn ffres, rhwng ei *ferm* a'i waddod, a dod ef mewn cerwynen lân, a chau arnaw yn dda.—*Meddygon Myddfai*, ii. 325.

Berman, *sm.* [berm] barm, yeast; ferment.

A gwell fu'r cwrw hyny nag un cwrw a fu erioed o'i flaen ef; ac o hyny i maes y daeth arfer dodi *berman* mewn cwrw.—*Iolo Mss.* 6.

Na chymmer yn fwyd amgen na bara gwenith da drwy *ferman* a llaeth geifr.

Meddygon Myddfai, ii. 412 (cf. 537, 575).

Bermanaid (*ā*), *a.* yeasty, barmy; frothy; fermented.

Cymmer fara can gwenith tecaf a ellir ei gael o fara *bermanaid*, a berw mewn llaeth dafad.

Meddygon Myddfai, ii. 332.

Bermandod, *sm.* frothiness, spumescence.

Bermanllyd, *a.* full of froth; foamy, frothy, spumous.—*Iolo Glossary*.

Bermanu (*ā*), *v.* to ferment; to foam, froth, or spume.

Wedi berwi y breci, a berwi ynddo flodau'r maes a mêl, fe ddaeth baedd, ac a yfodd o'r cwrw, a bwrw ei ewyn a wnaeth y baedd ynddo, yr hyn a wnaeth i'r cwrw *fermanu* a gweithio.—*Iolo Mss.* 6.

Pa mor fynych y gorfu arnoch chwi lyncu afiechyd, yfed parlys marw, a'r clwyf dygwydd sy'n peri i'r geneu *fermanu*?—*Ios. Tomas:* Buch. Grist. 259.

Bermu, *v.* to work like barm or yeast; to foam or froth.

Bern, -au, -on, *sm.* [cf. E. *burn*, *bourn*] a stream?

Glas fydd gwern yn ael *bernau*,
Glas fydd pob moelas i'r mau.—*Huw Cae Llwyd.*

Glas yw gwern yn ael *bernon*.—*Llanover Ms.* 4. 269.

Bernagl, -au, *sf.* [E. *vernicle*, from St. *Veronica*, whose napkin is traditionally reported to have an impression of Christ's face on it, produced by his wiping his face with it, as he was carrying his cross] a vernicle or veronica.

Troi natur eos yn nydd, ac yn nos,
Yn agos i glos *Fernagl* a ŵyr.—*L. G. Cothi*, I. xxxvi. 25.

Du yw nos haf dan y sŷr,
Du yw'r *fernagl* dan farnwyr.—*L. G. Cothi*, III. xxxii. 35.

Barn ustus bwriai 'n wastad,
A'r *fernagl* oedd ar farn gwlad.

Gutyn Owain: G.B.C. 217.

Ei *fernagl* ef a farn gwlad,
Ef ar Wynedd fu'r ynad.—*Guto'r Glyn.*

Bernais, eisiau, *sf.* [L.L. *vernix* (from *vitrinus*, *vitrum*); E. *varnish*; Fr. *vernis*] varnish.

Delw o bren gwern dan *fernais*,
Grin ddiffaith, o saerwaith Sais.

Dafydd ab Gwilym, lxxvi. 25.

Ei dafawd yw'r bragawd brau
I roi *fernais* ar farnau.—*L. G. Cothi*, III. xxxiv. 25.

Berneisio, *v.* to varnish.

Bernos, -au, *sf.* a short night.

Llais eos ym *mernos* Mai,
Llais Ifan, felly safai.—*Sim. Fychan:* Md. Ifan Delynior.

Beroes, -au, *sf.* [ber (byr)+oes] a short age; a short life. More correctly written *byroes*, q.v.

Gwr rybu diveuyl blegyt
Gwrawl y *verroes* einyoes ennhyt.

Bleddyn Fardd: M.A. i. 369 (cf. 481).

Berrwy, -on, -au, *sf.* [ber (*sf.*)+rhwy] a leg-fetter; a fetter.

Berrwyog, *a.* wearing a fetter or fetters; fettered.

Berrwyog, -ion, *sc.* a fettered one, a slave.

Berth, *a.* fair, beautiful; fine; handsome; pleasant; rich, wealthy, opulent.

Ac y dywedassant wrthaw. *Berth* ydwyt heussawr. Ny bo *berthach* byth y boch chwi no ninneu.

Mabinogion, ii. 215.

Yn synwyr yn llwyr yn llunedig
Yn faith *ferth* yn gerth yn goethedig.

Gwalchmai: M.A. i. 200 (cf. 68, 166).

Berth y mae Meivod ae rhandir
Berth eluyd rac elved enuir
Berth y lloc wrth lleu [*al.* llen] babir
Berth y chlas ae chyrn glas gloyuhir
Berth radeu rieu rygredir.

Cynddelw: M.A. i. 245 (cf. 207, 244, 266).

Ar orwydawd *berth* yd ymborthaf.

Llywelyn Fardd: M.A. i. 359 (cf. 371).

Y gweisgi lanc clodforer am ei nerth;
Am degwch pryd mawlhäer yr eneth *ferth*.

Blodau Ieuainc, 85.

Berth, -on, -au, *sm.* that which is fair, beautiful, or pleasant; beauty; riches.

Mab teyrnon bu gnawd *berthon* o'i gyweithydd
Iago feibion a fu *ferthon* ar eu helfydd.

Taliesin: M.A. i. 43 (cf. 38, 296).

Ban beisg berion a bwystgunion coed
Cadr bonhed bud a *berthon*.

Gwalchmai: M.A. i. 199 (cf. 220, 361).

Berthaidd, *a.* pleasing, pleasant; fair; well-favoured.

Berthdud, -au, *sm.* a fair region, a fine country; fair land.

Dy vyd wrth dy vryd vranhes oborthyant
Wyd *berthdud* oddiwes.—*Gwilym Ryfel:* M.A. i. 274.

Berthedd, *sm.* beauty; elegance; splendour; riches, wealth.

Or deheu yrdanc haelonet
Ardal hart y uart am *uerthet*
Por eissor vn eissyeu nym gwet
Pen ęlyf pan elwyf Wynet.

Llyw. ab Llywelyn: M.A. i. 293 (cf. 207, 426).

Cael ym grym grair rhad oi borthair rheidiau *berthedd*.

Gr. ab Meredydd: M.A. i. 460 (cf. 394, 481, 521).

Ac yn y holl amseroed ef kymmeynt a wu o amylder a ryodres yr ynys o *verthed* a golut ac nat oed nep un or ynyssed yn y chylch a gyffelypyd ydy.

Brut Gr. ab Arthur: M.A. ii. 160.

Berthfa, -oedd, fäu, *sf.* a fair, beautiful, or pleasant spot.

Berthfalch, feilchion, feilch, *a.* elegantly proud.

Cann dreic Prydein a brydir
O bryder *berthfalch* yt berchir.—*Cynddelw:* M.A. i. 244.

Berthfan, -au, *sf.* a beautiful, fair, or rich spot; a beauty-spot.

Rhai difai yn difa galon
Rhan *berthfan* a borthyn greon.

Dafydd Benfras; M.A. i. 315.

Berthiad, -au, *sm.* a beautifying; an endowing.

Berthid, **Berthyd**, -au, *sm.* beauty; a jewel; riches, wealth.

Ban ddaw o ddechreu mawr ei fretheiriau,
Pan ddel or dehau mawr ei *ferthidau*.

Taliesin: M.A. i. 22.

Ny chronnes rotes radeu wallofyad
Ruteur a dillad uad *uerthideu*.

Gwynfardd Brycheiniog: M.A. i. 272.

Berthig, *a.* beautiful, elegant; rich.

Yd weleis Wenddoleu ym *merthic* rhiau
Yn cynnull preiddiau o bob eithaf.
Myrddin: M.A. i. 135.

Berthineb, *sm.* beauty; elegance; handsomeness.

Gan nad oes harddach yn bod no chariad rhwng gwr a gwraig, ac ymgynnal rhyngddynt mewn *berthineb* a doethineb.—*Cato Cymraeg* (Y Greal, 195).

Berthog, *a.* rich, opulent, wealthy; endowed.

Yr rey bonedyc ar dyledawc a lavuryey ef eu hystwng ar rey anvonedyc anyledawc a urdey. ac a dyrchafey er rey *berthawc* a chyvoethawc ef ae anreythyey.
Brut Gr. ab Arthur: M.A. ii. 161.

Yn y dinas ydoed neb un wr a elwit Iosep. a *berthawc* oed.—*Buchedd Mair*, ¶ 36.

A phan oed prynhaon hwyr y doeth neb un wr *berthawc* o Arymathia. y enw Iosep oed.—*Y Groglith*, ¶ 12.

Mal marchawg *berthawg* yd ymborthi.
Gronwy Owain, 129.

Tri anghyfartal byd: *berthawg;* a charu; ac angeu.
Trioedd Doethineb: M.A. iii. 258.

Hywel urddedig hael-walch,
Ys Madog, ior *berthog* balch.—*Iolo Goch.*

Ei *berthawg* rwysg adalwai yna Hedd,
Allorau yna mygynt, eto oedd
I Tsïon wen.—*W. O. Pughe:* Pal. 29.

Berthogi, *v.* to enrich; to endow.

Efe a *ferthoges* eglwys i'r grog.—*Hanesion.*

Berthogiad, -au, *sm.* endowment.

Berthogrwydd, *sm.* wealthiness, richness; opulence, wealth; affluence.

Berthol, *a.* tending to enrich; endowing; beauteous.

Goreu yw Meir glandat bortheir gleindyt *berthawl.*
Gr. ab Meredydd: M.A. i. 466.

Berthrwydd, *sm.* elegance, beauty; richness.

Neb kynnoc ef ny darchawd
Myued bed *berthrwydd* or adwyndawt.
Taliesin: A.B. ii. 177 (cf. M.A. i. 68).

Berthu, *v.* to enrich; to endow; to beautify.

Berthus, *a.* tending to enrich or endow; beautiful, elegant.

Y gyntaf, i addysgu . . . yr ail i amliwiaw ymadrawdd yn *ferthus.—H. Perri:* Egl. Ffr., Rhag. 4.

Berthwr, wyr, } *sm.* one who enriches or en-
Berthydd, -ion, } dows; a rich or wealthy man.

Gwerin byd yn wir byddawnt lawen
Meddhawnt ar peiron *berthwyr* echen.
Taliesin: M.A. i. 32 (A.B. ii. 213).

Peunyd pwyll *berthyd* pell borthaf yt honn.
Gruffydd ab Meredydd: M.A. i. 464.

Berthyll, *a.* elegant, splendid; enriched, endowed.

Eurem yn euryll mi hydwyf *berthyll*
Ac ydwyf drythyll o ormes fferyll.—*Taliesin:* M.A. i. 31.

Beru, *v.* [bêr] to stab or pierce with a spear; to spear; to spit; to skewer.

Ni chilyei o gamhawn eny *verei*
Waet mal brwyn gomynei gwyr nyt echei.
Aneurin: Gododin, 25.

Beru, *v.* [=meru, dyferu] to drop; to drizzle; to ooze.

Berw, -on, *sm.* [Br. *berô, berv;* L. *ferveo*] 1. a boiling, ebullition; a boiling state; infusion; decoction; a bubbling; foam, spume.

Einiawn ap Gwalchmai
A ganai ffynnai fal *berw* ffynnawn.
Gwilym Ddu Arfon: M.A. i. 411.

Odyna dodi y llynn hwnnw y mywn padell ar y tan, ac odyna kymryt y *berwon* tra gaffer yn wyn, ae gadw gennyt hyt y mynnych.—*Meddygon Myddfai*, i. 17.

Da yw eu *berw* ar les y giau; os yfer eu *berw* gyda mêl, da yw ar les y cylla.—*Meddygon Myddfai*, ii. 785.

Yna y dechreuodd hi ferwi y pair yr hwn wedi y dechreuid ei ferwi, nid ellid torri y *berw* dan ben undydd a blwyddyn.—*Mabinogion*, iii. 322.

Wb o'r nad! am wedd *berw* nant!
Dafydd ab Gwilym, lxxi. 40.

Tori ar y berw, to cease to boil.

Berw y cylla, concoction or digestion in the stomach.

Myned dan y berw, to boil away.

2. ferment, commotion, bustle, turmoil; jabber.

Ac yna son a *berw* agyuodes ar hyt y neuad gan y marchogyon urdolyon.—*St. Greal*, ¶ 189 (cf. 182).

Trachwerw *ferw* fawrdorf lorf corf coethlu.
Gr. ab Meredydd: M.A. i. 444.

Yna efe a glywai *ferw* serch anfeidrol yn ei galon.
Iolo Mss. 176.

Mae rhyw ferw rhyfedd yn ei ben, there are some odd whims in his head.

3. a waterfall, cataract, or cascade (from the bubbling and foaming of the water); as, *Berw Taf, Berw Rhondda, Berw Melin y Cwrt*, in Glamorgan.

Berw Caswennan, the foam or spray of Caswennan (=the sound between Bardsey and the mainland of Carnarvonshire).

Gwnn beunydd herwydd herw amcan ddilyd
Ddelw *berw* Caswennan.
Hywel ab Einion Lygliw: M.A. i. 512.

4. *Berw* (in botany)=*Berwr, Berwy.*

Berw, *a.* boiling; bubbling; ebullient; boiled.

Dwfr berw, boiling water.

Casgl y llysewyn yn nyddiau y Nadolig pan fo'r gwyfon, sef ei facwyon, neu'r ffrwyth, yn eu llawn addfedrwydd; a chasgl y gwyfon oddi ar y brig, a bwrw *ddwr berw* arnynt.
Meddygon Myddfai, ii. 796.

Llysiau berw, boiled herbs.

Gwedi hyny cymmer y *llysiau berw* a fo raid o honynt.
Meddygon Myddfai, ii. 745 (cf. 337).

Golch dy holl gorff bob bore; a chymmysg y garlleg *berw*, a'r marchalan *berw*, ag ymenyn heb halen.
Meddygon Myddfai, ii. 784 (cf. 332).

Cig berw, boiled flesh or meat.—1 *Sam.* ii. 15.

Berw nant, } a bubbling brook; a foaming
Nant berw, } brook.

Mam llifeiriaint *berw*-naint bas,
Morgymmlawdd amrygamlas.—*L. G. Cothi*, iii. v. 45.

Mae y dwfr yn ferw, the water has reached the boiling point; the water is boiling.

Yn frwd ferw, boiling hot.

Ffynnon ferw (*pl.* ffynnonau berw), a boiling or bubbling spring.

Berwad, -au, *sm.* a boiling; ebullition; decoction.

Cymmer ddau ddyrnaid o lysiau'r tanc, a'u pwyo mewn mortyr yn fâl, yna eu berwi mewn dwr ffynnon *ferwad* cig eidion. . . Cymmer gig myharen, a berw ef mewn dwr ffynnon *ferwad* mawr.—*Meddygon Myddfai*, ii. 171.

Berwadwy, *a.* that may be boiled; decoctible; bubbling.

Berwed, -ion, *sm.*=*Berwedd.*

Rhai a hawdd ferwawdd *ferwed* ysletban.
Madog Dwygraig: M.A. i. 487.

Berwedig, *a.* boiled; decocted; boiling; bubbling.

Cymmer ddewis o'r praidd, a chynneu yr esgyrn dano, a berw ef yn *ferwedig;* ïe, berwed ei esgyrn o'i fewn.
Esec. xxiv. 5.

Y mae amryw ddegau o ffynnonau *berwedig* o fewn cylch bychan o dir.—*Cylchgrawn*, i. 121.

Dwfr berwedig, boiling water.

Crochan berwedig, a boiling pot.

Mi a welaf *grochan berwedig*.—*Ier.* i. 13 (cf. Iob xli. 20).

Berwedydd, -ion, *sm.* a boiler.

Berwedd, *sm.* ebullition, a boiling; a brewing.

Berwedd-dy, dai, *sm.* a brewhouse.

Berweddlys, *sm.* juniper (*Juniperus*).—*Meddygon Myddfai*, 287.

Berweddu, *v.* to brew; to decoct.

Hir yn *berweddu*, hir yn diweddu.—*Diareb.*

Berweddu—felly y gelwir darllaw ym Morganwg, a darllaw a ddywedant am weithio neu wneuthur un peth a fo dan ofyn.—*Llanover Ms.*

Dwr berweddu, brewing water.—*Gwent.*

Berweddwr, wyr, *sm.* a brewer; a boiler.

Berwaid, eidiau, *sm.* [cf. s.v. *Beraid*] the fill of a boiler, a caldron-ful.

Berwi, *v.* to boil; to bubble; to effervesce; to brew.

Deu gefynderw oetynt ny *verwynt* urad
Caduan y gadw llan ef a Lleudad.
Llywelyn Fardd: M.A. i. 361.

Berwa fustl y ddaiar mewn dwr glân gloew.
Meddygon Myddfai, ii. 457.

Berwi wna'r mawrion beiriau
Yn nyfn-lyn ei gerwyn gau.—*D. Ionawr:* Gwaith, 162.

Beirw=berwa, berw.

Dyma y fan lle y *beirw* yr offeiriaid yr aberth dros gamwedd.—*Esec.* xlvi. 20 (cf. 24).

Berwog, *a.* boiling, ebullient; bubbling.

Mal *berwawg* derfysgawg fôr.
D. Ionawr: Gwaith, 165 (cf. 164, 177, 178).

Berwol, *a.* boiling; bubbling; fermentative.

Berwr, **Berw**, **Berwy**, *s.cl.* and *pl.* [C. *beler;* Br. *béler;* Ir. *biolar*, †*biror*, *bioror;* Ga. *biolar*, *biorar*] cress; cresses (*Lepidium*). 'In North Wales they use *berw;* and in South Wales *berwy*.'—*P.*

Gorwyn blaen *berwr*.—*Llywarch Hen:* M.A. i. 124.

Er Duw paid â'r bara a'r dwr,
A bwrw ar gas y *berwr*.—*D. ab Gwilym*, x. 11.

Bara o'r haidd a *berwr* rhif
A dwfr fu ymborth difrif.
Ieuan ab Rhydderch ab I. Llwyd: Iolo Mss. 298.

Berwr Caersalem, London rocket (*Sisymbrium irio*).

Berwr chwerw, bitter ladies' smock (*Cardamine amara*).

Berwr y cerryg, *Berwy y fagwyr*, wall cress, Turkey-pod (*Arabis*).

Cais *ferw'r cerryg*, a llysiau'r corff, a'r geidwad, a chymmaint a gwi a suwgr, a dod mewn llestr gwydr hyd ei hanner.—*Meddygon Myddfai*, ii. 561.

Berwr y dwr, *Berwy y dwfr*, water cress (*Sisymbrium nasturtium*).

Llanw y cocwy â'r llysieuoedd da hyn; nid amgen na dau ddyrnaid o'r geidwad ddof, dau ddyrnaid o'r ysgaw bendigaid . . . ac un dyrnaid o *ferw'r dwr*.
Meddygon Myddfai, ii. 513.

Berwr y fam, *Berwy y famog*, flixweed (*Sisymbrium sophia*).

Berwr Ffrengig, *Berwy Ffreinig*, *Berw Ffrainc*, garden cress, town cress (*Lepidium sativum*)=*Berw yr ardd.*

Berwr y ffynnonau, *Berw ffynnonau*, *Berwy y ffynnon*, water cress (*Sisymbrium nasturtium*) = *Berwr y dwfr.*

Cymmer sudd gwlydd y perthi, a sudd *berw ffynnonau*, a sudd suran y waen, a sudd yr ysgaw, yr un faint o bob un.
Meddygon Myddfai, ii. 105 (cf. 249, 336).

Arfer o fwyd ir . . . a chawl trwy *ferw'r ffynnon*, a dwr ffynnon.—*Meddygon Myddfai*, ii. 342 (cf. 132).

Berwr yr ardd, *Berwr y gerddi*, garden cress=*Berwr Ffrengig.*

Berwr y gauaf, bitter winter cress, yellow rocket (*Erysimum barbarea*).

Berwr y glinwst, sciatica cress (*Iberis*).

Berwr gwyllt, broad-leaved pepperwort, penny cress (*Lepidium latifolium*).

Berwr yr iâr, *Berwy yr ieir*, knotgrass (*Polygonum aviculare*).

Berwr melyn blynyddol y dwr, annual water rocket (*Sisymbrium terrestre*).

Berwr melyn mwyaf y dwr=*Berwr y torlenydd.*

Berwr y meusydd, hairy ladies' smock, lamb's cress (*Cardamine hirsuta*).

Berwr y moch, swine's cress, wart cress (*Coronopus Ruellii*).

Berwr Mon a Manaw, dwarf sea rocket (*Sisymbrium Monense*).

Berwr Taliesin, orpine, livelong (*Sedum telephium*).

Berwr teulu, *Berwr March-ferwr*, pot-herbs: 'Olus, cawl, *marchferwr*, *berwr teulu*.'—*Meddygon Myddfai*, 289.

Berwr y torlenydd, *Berwy y torlanau*, great water rocket (*Sisymbrium amphibium*).

Berwr tir sych=*Berwr yr ardd*, *Berwr Ffreinig.*

¶ The three forms (*berwr*, *berwy*, *berw*) are used indifferently; but *berwr* appears to be the oldest. Cf. Hugh Davies, *Welsh Botanology*, 63, 64, 157, 158.

Berwr, wyr, *sm.* one that boils, a boiler.

Berwy, *s.cl.* and *pl.*=*Berwr*, *Berw.*

Berwyd, -au, *sm.* ebullition; a brewing.

Berwyd brad anvad ober.—*Llywarch Hen:* M.A. i. 128.

Berwydydd, -ion, *sm.* a boiler; a brewer.

Neu pren purawr fydd ffrwythlon ei gynnydd
Rei [roi ?] ias *berwidydd* oedd uch pair pumwydd.
Taliesin: M.A. i. 38.

Berwydd, -ion, *sm.* a boiler; a brewer.

Berwydda, *v.* to brew; to concoct.

Mae ef yn berwydda diod dda, he brews good drink or ale.

Berwyddfa, fëydd, faoedd, *sf.* a brewery, a brewhouse.

Berwyn, *pl.* berwon, *sm.* [berw] infusion; decoction.

Berwyn, bwrw dwr, neu arall o lyn, yn ferw ar y llysiau, neu'r amgen a fo'r achos neu raid wrtho.
Meddygon Myddfai, 296.

Cymmer y llysiau trwy'r dail, a gwna *ferwyn* o honynt, ac yf hwnw dair wythnos; yna gwna *ferwyn* trwy flodau, ac yf dair wythnos; ac yna gwna *ferwyn* trwy had, ac yf dair wythnos; ac fel hyn ydd ei di yn nhrefn Duw, a chyfarpar natur, ac anian a syrth y flwyddyn.—Y modd y gwneir *berwyn* o'r llysiau yw hyn.
Meddygon Myddfai, ii. 795 (cf. 332, 784, 785).

Bery, *pl.* beryon, beryfon, berywon [cf. *beri*] a kite or glede; a bird of prey.

Dewr dragon *berywon* borthi
Dreic arueu pebylleu pali.—*Hywel Foel:* M.A. i. 393.

Gwnaethost yn aer catgun eurfaer coetgwn irfwyd
Llithiaist ath ron aer *feryfon* ar forefwyd.
Gruffydd ab Meredydd: M.A. i. 445.

Beryn, *sm.* candy-tuft (*Iberis*).

Beryn chwerw, bitter candy-tuft (*Iberis amara*).

Beryn coesnoeth, naked-stalked candy-tuft (*Iberis nudicaulis*).—*H. Davies:* Welsh Botanology, 63, 158.

Beryren (*ȳ*), *sf.* [berwr] a cress, a single cress.

Un bwyd a aeth yn ei ben,
Bara oer a *beryren*.—*Iolo Goch*, i Ddewi Sant.

Beryryn, *sm.* cress rocket (*Vella*).—*H. Davies:* Welsh Bot. 136, 158.

Berysgrifen,) -au, *sf.* a short writing; bra-
Byrysgrifen,) chygraphy, short hand.

Beryw (*sg.* berywen, *f.*), *sm.* and *cl.* [=meryw] the juniper (*Juniperus*).—*H. Davies:* Welsh Bot. 95, 158.

Pren beryw (*pl.* coed beryw), juniper tree.

Berywydd, *pl.* and *cl.* juniper trees; juniper wood; the juniper.

Bes, *con.* (mut. of *pes*)=*Pes*, *Pe*, *Ped*.

Fe fynai wneuthur chwaneg o ddrwg *bes* gallai.
Morgan Llwyd.

Besant, annau, *sf.*=*Bysant*.

Bestfil, -od, *sm.*=*Bwystfil*.—*Huet:* Dad. xiii. 1; xvi. 13; xvii. 3.

Bet, *sf.* a grudge, dislike, hatred.

Dal bet, to be angry; to bear a grudge.—*H. Salesbury.*

Nid oes dim ond y fet rhyngddynt, there is no love lost between them; they bear each other a grudge.—*S. W.*

Betain,)
Bitain,)
Bitan,) *sm.* [L. *betonica* (O.E. *betan*, *betayne*, *betone*, *betain*, *bytone*): cited by Latin authors as a word of Gaulish origin. For the loss of the two atonic syllables, cf. Fr. *bétoine*] betony (*Betonica*). The more usual names are, *dannogen*, *cribau Sant Ffraid*, *y feddyges lwyd*, and *llysiau dwyfog*.
Biton,)

Cais y *betain*, sef cribau Sanffrêd, a mortyra'n ffest.
Meddygon Myddfai, ii. 492.

Cymmer dom gwyddau a fônt yn pori allan, a'r carllys, a llygaid y dydd, a'r *betain*, ac ymenyn Mai heb halen, a'u pwyo yng nghyd.—*Meddygon Myddfai*, ii. 494 (cf. 492, 527).

Cymmer ddyrnaid o'r *bitan*, a elwir cribau Sanffrêd, a phwy nhwy'n dda, a chymmysg â dwr ffynnon.
Meddygon Myddfai, ii. 461 (cf. 462).

Cymmer ddyrnaid o gribau Sanffrêd, sef y *biton*, a phwya'n fân.—*Meddygon Myddfai*, ii. 289 (cf. 277, 290).

Yr wrnerth, y wiolydd, y glesyn, y llwynhidydd, y *bitain*, y diwythl fedi, isob, cymmaint o bob un a'u gilydd, a'u mortyru yng nghyd.—*Meddygon Myddfai*, ii. 728.

Beting, *sm.* [E. *beat*, *bate*, *bait*. The process of paring and burning the surface of poor land for manure was formerly called *beating* in Cornwall and Devonshire, and *betting* in Herefordshire. The origin, according to some, is O.E. *beten* (A.S. *bétan*), to kindle or mend the fire: whence Eng. *peat* (by the unusual change of *b* into *p*). Apparently both the name and the operation were borrowed from England; but the practice was formerly very common in Wales. It is also a North-Country word. Cf. Wedgwood, *Dict. of Eng. Etym.* s.v. *Peat;* Skeat, *Etym. Dict.* s.v. *Peat; Dict. Phil. Soc.* s.v. *Beat;* and Ray, *North-Country Words* (E.D.S.), 32]=*Bating*.

Tynu beting, to pare off the surface of land for burning and manuring; to beat.

Dywedai i offeiriad ei blwyf ef, Llanfihangel Bryn Pabuan, ym Muallt, gael ei droi allan o'i eglwys a'i dŷ, a gorfod cilio i anneddfa wael, yn Llanafan Fawr, lle y gorfu gynnal ei hun dros rai blynyddau; a'i fod yn *tynu beting* ar Benlan Dwpa pan ddaeth cennadwraeth ato idd ei adferyd idd ei fywioliaeth.—*Carnhuanawc:* Han. Cym. 790.

Llosgi beting: cf. s.v. *Bating*.

Crug beting, beating-hill, beating-borough.

Cae beting, a beat-field.

Betingen, *pl.* betingod, *sf.*=*Batingen* 1.

Betingo, *v.* to pare and burn the sward, and dress the land with the ashes; to beat-burn; 'to Denshire land.'

Bettws, ysau, *sm.* 1. the name of upwards of twenty churches in the Principality, about two-thirds of which are in South Wales. They are, for the most part, if not all, subordinate churches, and consequently of comparatively late foundation. Sometimes the word is followed by the name of the founder or the patron-saint; as, *Bettws Garmon*, *Bettws Bledrws*, *Bettws Ifan;* sometimes by the name of the district in which the church is situated; as, *Bettws Cedewain*, *Bettws yn Rhos* or *Bettws Abergeleu*, *Bettws Tir Iarll;* and sometimes by some qualifying epithet, as, *Bettws y Coed* (also called *Bettws Wyrion Iddon*), *Bettws y Grog*, *Bettws Newydd*. Flintshire and Pembrokeshire are the only counties in which the name does not occur. It is also found as an ordinary place-name in different parts of the country, apparently without any reference to a church or *Bettws;* as, *Bettws Fawr*, *Nant y Bettws*, *Bryn y Bettws*, *Pant y Bettws*, *Llawr y Bettws*, *Bettws Gwenrhiw*, *Bettws Bwlchydw*. These and others may, however, originally have belonged to some *Bettws* or religious house; just as we find many places bearing the name of *Mynachdy*, which formerly appertained to monasteries (*mynachdai*); and at some of them a religious house may at one time have existed.

The origin and meaning remain uncertain. The derivation from *bede-house* or *bead-house* (A.S. *bédhús*), a house of prayer, suggested upwards of a century ago (cf. L. Morris, *Celtic Remains*, 34; Pennant, *Tours* (ed. 1810), ii. 300; Rees, *Welsh Saints*, 20, 21), and of late put forward as final, is not altogether satisfactory.

If the name *Bettws*, as generally supposed, is to be derived from an English or Latin word, how are we to account for the fact that it is exclusively used in Wales, while there is not a single instance of it in the whole of England? There were no religious houses peculiar to Wales; and if there had been such, it appears extremely strange that an English or even a Latin name should have been coined for them. When a thing is imported, we often take the name with the thing; but we never borrow the name, if the thing is peculiarly and exclusively our own.—*Bye-Gones*, i. 185 (cf. 174).

It is noteworthy that the name *Bettws* is not found in the earlier literature, and it is nowhere mentioned in the *Liber Landavensis*,

compiled about the year 1132, in which the names of so many churches are recorded; but it occurs in reference to several places in the *Taxatio* of Pope Nicholas IV. (1288—1292). We may therefore conclude that the churches so called, as well as the name, originated between the early part of the 12th and the latter part of the 13th centuries. (Cf. *Arch. Camb.* i. 291; 2 S. ii. 26; 3 S. vii. 77).

Other proposed derivations are L. *beatus* and *abbatis* (abbas). See quotations (3).

2. the church (as opposed to the world).

Y byd a'r bettws (=y byd a'r eglwys), the world and the church.—*C.S.*

Nid oes yn y byd na'r *bettws* chwaith,
Mewn pur-iaith, waith mwy parod.—*N.*

3. a low, sheltered place; a dale.

O fryn i fettws, from hill to dale.—*C.S.*

Bettws, lle canolig rhwng dyffryn ac uwch mynydd. Felly y y dywaid rhai, Ni a ddaethom yr owan [yr awran] i *Fettws;* hyny yw, lle cynhes tymmoraidd. Y mae hyn yn fwy tebygol fyth wrth osodiad ac agwedd y llanau sy mewn amryw fanau yng Nghymru yn dwyn yr enw hwnw.
Dr. J. Davies (Arch. Brit. 214).

Ereill a ddywedant y perthynai pob *Bettws* i ryw fanachlog, ac mai oddi wrth y gair Llading *abbatis* y daeth.
Edw. Lhwyd: Arch. Brit. 214.

Dyfrig, arbenig wr, bu,
Sel fwynaidd, i'w sylfaenu;
A Rhodri, nid yn rhy-draws,
A allai 'n hir wella 'n haws;
Abatty hardd mewn *bettws*,
Ar fin môr ymogor mws.—*Ieuan Lleyn:* Caniadau, 82.

4. In N.E.W. a place, especially a steep slope or bank, the sides of a ravine, covered with brushwood, birch, hazel, thorn, and similar small trees, is called *bettws:* hence it has been suggested that a church built in a place of this description would be called *Bettws* (supposed to be thus derived from *bedw*, birch); but the name is much too general over the country to admit of this explanation. Comparatively few churches derive their name from the physical character of the locality in which they are situated; as, *Celynog* (Clynog), *Cegidog*, *Cegidfa*, *Banadlog*, *Cemmaes*, *Mallwyd;* and these are not repeated all over the country, as is the case with *Bettws*. In this case, assuming its possibility, the last syllable would probably be *gwas* or *gwes*, an abode, mansion, or station.

Yn tragywyd ygkynted yn *gwas* nef nym gomed.
Taliesin: A.B. ii. 110 (M.A. i. 170).

Mae y tir yn un bettws, the ground is all overrun with underwood and small trees.—*N.E.W.*

¶ *Bettws* has also been by some equated with the Ir. *biatach* or *biadhtach;* but the institution over which a *biatach* presided corresponded rather with our *Yspytty* or *Hospitium* (as in *Yspytty Ifan*, *Yspytty Cynfyn*, *Yspytty Ystwyth*) than with *Bettws*.

Notwithstanding the difficulties attending it, *bede-house* (N. Eng. *beadus*) is the most probable derivation hitherto proposed, Sense 4 may have been elicited from the first meaning by a process similar to that by which *cabidwl*, properly a chapter (of a cathedral) or consistory, has been made to signify chaos, confusion; and sense 3 would arise from the preference that would naturally be given to a quiet, sheltered spot as the site for a house of prayer and religious meditation.

The term. *-ws* is rare, but it occurs in a few words; as, *cwtws*, *minws*, *mwnws*, *pigws*, *swtrws*, *tewdws;* but in the word under notice it may well represent the Eng. *-house*, as it often does in the colloquial language.

Betys (*sg.* -en, *f.*), *s.pl.* and *cl.* [L. *beta*, *betis;* A.S. *bete;* E. *beet*] the beet (*Beta*). Its native names are *melged* and *chweglys* or *chweclys*.

Betys arfor (*sg.* betysen arfor), sea beet (*Beta maritima*).—*H. Davies:* Welsh Bot. 26, 158.

Beth, *pron. int.* [mut. of *peth*, for *pa beth*] what; what?

Beth a vynnit ti heb y Kei ac Arthur?—*Mabinogion*, i. 241.

A dechreu amouyn agwyrda ywlat *beth* uuasei y arglwydiaeth ef arnadunt hwy y vlwydyn honno.
Mabinogion, iii. 15.

Os gwir hyny, *beth* amgenach na brenin a thywysog ydyw y pab y pryd hyn? *Beth* ydyw y cardinaliaid? . . . *Beth* yw'r padrieirch, a'r archesgobion fynychaf, a'r esgobion, a'r abadau? *Beth* ydynt hwy i gyd ym mreniniaeth y pab y pryd hyn onid tywysogion bydol?—*Morus Cyffin:* Diff. vi. 8.

Beth a wna'n deg yr egin?
Bod y gwraidd heb edeu grin:
Beth oreu oll byth ar wr?
Byw'n uniawn, na bo'n anwr.—*W. Lleyn.*

Beth a dâl ond dialedd,
Da'r byd, wrth fyned i'r bedd?—*Meredydd ab Rhys.*

Beth sydd arnoch? what is the matter with you? what ails you?

Beth yw hwn? what is this?

Beudag, -au, *sf.* [beu=bu (as in *beudy?*] the larynx, the upper part of the trachea or windpipe.

Beudag buwch, bidog heb wain.—*N.*

Beudail, *sm.* [beu (=bu)+tail] cow-dung; manure from the cow-house.

Beudy, dai, dyau, *sm.* [*beu* for *bu:* cf. *teulu* for *tylu*] a cow-house; a house for cattle.

Boutig (*gl.* stabulum).
Oxford Gloss. i. 6 (Zeuss. G.C. 1053).

Ymelltith Mab Duw diawg y dyry
I'w dy a'i *feudy* o dai Fadawg.
Madog Dwygraig: M.A. i. 486 (cf. 39).

Eiry mynydd llawn *beudy*
Clydwr dafad yw ei chnu.
Englynion Eiry Mynydd: M.A. i. 548.

Torir ymaith y praidd o'r gorlan, ac ni bydd eidion yn eu *beudai*.—*Hab.* iii. 17.

Beudywr, dywyr, *sm.* one who attends to a cow-house.

Beugilydd, *adv.* [=bwygilydd, bwy gilydd, bygilydd, pygilydd] one another; one to the other.

Un a fuasai, nid yn hir cyn hyny, ar dreigl clera ar hyd y wlad; hyny yw, yn canu cerdd ac yn chwareu ar y crwth, wrth ganu o dŷ *beugilydd*, ac ar ben ffair a marchnad.
Myv. Arch. iii. 256.

O'r môr beugilydd, from one sea to the other; from sea to sea.

Gwedi ynnill o Aeddon holl Gymru o'r môr *beugilydd*, efe a beris drefnu llywodraeth a chyfreithiau.
Brut Aberpergwm: M.A. ii. 501.

Beunoeth, *adv.* [mut. of *peunoeth*, q.v.] every night; night after night; nightly.

Ygkylch y wely *beunoeth* y bydei chweugeinwyr gwastat yn aruawc yn y warchadw.—*Campau Charlymaen*, § 53.

Anregyonn teir gweith *beunoeth* aenvyn y brenhin idaw yn llaw y was.—*Cyfreithiau Cymru*, i. 366.

Elin im' ar wely noeth
A rydd baner wen *beunoeth*.—*L. G. Cothi*, VII. ii. 53.

Beunydd a beunoeth, } every day and every
Beunydd a pheunoeth, } night; day by day and
Beunydd beunoeth, } night by night; daily and nightly; continually.

Ac efe *beunydd beunoeth* yn gweddïo Duw er cael ar olwg a chlyw gantho a ddiriai arno ddal ar gred.—*Iolo Mss.* 148.

A wnelynt *beunyd* o weith a lynkau y dayar ac a syrthiau *beunnoyth*.—*Brut Gr. ab Arthur:* M.A. ii. 257.

A gwaeth waeth bob dydd, ac ym mhydoldeb angeu *beunydd a pheunoeth*.—*Dafydd Fychan:* Efengyl Nic. v.

Beunoeth, *a.* nightly, nocturnal.

Beunos, *adv.* [mut. of *peunos*] every night; night after night; nightly.

O'r dydd hwnw allan dihoenodd yntau beunydd a *pheunos* o alar am ei hen gyfeilles.—*Ystên Sioned*, 92.

Beunydd beunos, night and day; every day and every night; day by day and night by night; daily and nightly; day and night; continually.—*C.S.*

Beunos beunydd, night and day; every night and every day; night and day without intermission.—*C.S.*

Beunos, *a.* nightly; nocturnal; every night.

Beunosol, *a.* being or happening every night; nightly; nocturnal.

Beunydd, *adv.* [mut. of *peunydd*] daily, every day; day by day.

A mil o yrdd arnei a diefuyl ae try unweith *beunydd*. ag ar bob gweith y llosgit mil o eneidieu.
Breuddwyd Pawl, ¶ 1.

Y gur nim guelas *beunit*
Y tebic y gur deduit.—*Taliesin:* A.B. ii. 56 (M.A. i. 47).

A dedwydd *beunydd* y boch.—*Gro. Owain*, 93.

Beunydd a byth, every day for ever; daily and eternally.

Beunydd ac fyth y clodforwn dydi.
Llyfr Gweddi Gyffredin (Te Deum).

Beunydd, *a.* daily; being every day.

Beunyddiol, *a.* daily; quotidian.

Bara beunyddiol, daily bread.—*Matt.* vi. 11 (cf. Luc xi. 2).

Yn feunyddiol, daily; day by day; every day.

Beunyddol, *a.*=*Beunyddiol.*

A Iosïas . . . a gyfleodd yr offeiriaid yn eu *beunyddawl* oruchwyliaethau.—*Esd.* i. 2.

¶ Such is the reading, here and elsewhere in the O.T., of all the editions prior to the present century; but it has since been changed into *beunyddiol* (cf. 2 *Bren.* xxv. 30; *Dan.* viii. 12); which also is the reading of some of the earlier editions in the N.T.

Beuparth, *adv.* and *prep.* [mut. of *peuparth*] on all sides; all around; around, about.

Cymmer elyf mâl, a chwrw, a chymmysg, a gwlych bilyn lliain ynddo, a thro *beuparth* y wialen.
Meddygon Myddfai, ii. 439 (cf. 445).

Beutu, *prep.* and *adv.* [peutu] on each side; on both sides; about, around.

Bewyd, *sm.* [baw] dirtiness, filthiness.

Bi, *vn.* [Ir. *bia*] 3rd pers. sing. fut. of *bod;* will or shall be; there will or shall be (*erit*): the same as *bydd*, which is the form now in general use.

Ni fu ni *fi* ynghemelrhi ei gyfeissor.—*Taliesin:* M.A. i. 70.

Ny *bi* ef a *vi* cas e rof a thi.—*Aneurin:* God. 8.

Gwraged a *ui* ffraeth. eillon a *ui* kaeth.
Taliesin: A.B. ii. 148 (M.A. i. 62).

Bi Asia ac Affrig, bwysig gyffro,
Yn cynneu'r Coran acw yn nhir Cairo.
Dewi Wyn: Blod. Arf. 158.

Ni'th fi, it will not be to thee.

Nac eruyn dy hedduch *nyth vi*.—*Taliesin:* M.A. i. 34.

Cf. the compounds *dybi* or *dyfi* (=dybydd or dyfydd), *derfi* (=derfydd), *adfi* (=adfydd), *dydderbi* (=dydderfydd).

Biach, -od, *sm.* according to Davies, a corr. of *giach*, a snipe; but more probably a variant of *buach*, a clown or rustic.

Bibi, *sm.* [mut. of *pibi ?*] frivolity?

Ac arall, hydr ei guras,
A'i bibau cod, *bibi* cas!—*Sion Mawddwy.*

Bibl, -au, *sm.* See *Beibl.*

Biblaidd, *a.* [=beiblaidd] biblical.

Bic, -iau, *sm.* a gentle or playful poke (as with the finger); a gentle thrust.—*C.S.*

Rhoi bic i blentyn, to poke a child playfully or ticklingly.

Bicar, } -iaid, *sm.* [L. *vicarius;* E. *vicar*] a
Bicer, } vicar. Also written *micar*, and of late more commonly *ficer* or *ficar*.

Gadel yr eglwysseu yn noeth y mewn ac allan. ar *vicarieit* heb na bwyt na dillat.—*Brut y Saeson:* M.A. ii. 490.

A llyma ninneu y *vickari* ef yn awch gellwg och holl bechodeu.—*Yst. de Carolo Magno*, col. 478.

Bicar da ei Gymräeg.—*H. D. ab Ieuan.*

Y mae yn ddrwg gan fy nghalon i Mr. Wiliam Llwyd . . . gymmeryd cymmaint o boen i'm dwyn i'r fath anfad le, ac at y fath Pharisead annhrugarog a'r *bicar* yno.
I. B. Hir: Gwaith, 219.

Felly am bersoniaid a *biceriaid* yr eglwys drwy Simonaidd usuriaeth yn bucheddocäu yn annheilwng.—*Y Greal*, 368.

Bicardy, } dai, *sm.* a vicarage, a vicarage
Bicerdy, } house.

Bicariaeth, } -au, *sf.* a vicarage, the benefice
Biceriaeth, } of a vicar; vicarship.

Bicas, *sm.* [=micas] bread and milk (or similar food) for children.—*Iolo Glossary.*

Bician, *v.* to poke gently or playfully (as with the finger); to thrust.—*C.S.*

Bicre, } *v.* [bic+rhe (rhed): E. *bicker*, †*bikre*,
Bicra, } *biker*, *bikere*, said by most Eng. etymologists to be from the Welsh; others consider the etymology unknown] to bicker or skirmish; to fight.

Yna ydanuones y castellwyr megys y mae moes gan y Ffreinc gwneuthur pob peth drwy ystryw; gyrru saethydyon hyt y bont y *vicre* ac wynt.—*Brut y Tywysogion*, 132.

Bwäu hirion hwynt bioedd,
Bwäu crwys yn *bicra* oedd.—*L. G. Cothi*, II. xi. 27.

Bwa croes yn *bicra* oedd.—*Lewys Mon.*

Na chais *ficre* â'th gystal.—*Myv. Arch.* iii. 32.

Bicre, -on, } *sm.* a bicker, bickering, or skirmish;
Bicra, äu, } a quarrel or contention.

Tor dy filan ym *micre*.—*N.*

Nid brwydr heb wewyr, nid *bicre* heb fwa, nid ymladd heb ddagyr.—*Myv. Arch.* iii. 18.

Bicht, -au, *sm.* [Ir. *beacht;* Ga. *beachd:* cf. E. *bight*] an irregular enclosure or paddock convenient for watering cattle and similar purposes.

Bid, -iau, -au, *sm.* 1. a quickset; a quickset hedge; a hedge-row; a bush.

Bidiau, quicksets; plashed hedges.

A mân *fidau*'n ddisperod,
Gwae fi byth gofiaw eu bod!—*Gr. Gryg*, i'r Llwyn Eithin.

Os rhyw yspryd arall rith
O amcan felly a dros-lamodd y
Daierin *fidiau* hyn, ti gwyddost prin
Y lluddia grym defnyddiawl yspryd tèr.
W. O. Pughe: C.G. iv. 641.

Plygu bid, to plash or trim a hedge.—*S. W.*

2. a fence, screen, guard, or defence?

Ys mau *bid* wrth Sais am fy nhreisiaw
Ys mau rhag angau angen gwynaw.
Gr. Ynad Coch: M.A. i. 396.

Bid, *v.* [=boed (poed), bydded] 3rd pers. sing. imper. of *bod:* be (he, she, or it); let (him, her, or it) be.

A *bit* y keryd ar y distein ony byd parawt pawb auory.
Mabinogion, ii. 7 (cf. 375).

Ym na *uid* ouid yggwenwynder.
Cynddelw: M.A. i. 229 (cf. 367).

Bid lyfn dy baderau, *bid* rydlyd dy arfau.
Diareb. (M.A. iii. 149).

A hwythau yn gorfod cymmeryd (*bid* mynu, *bid* peidio) ar ymddiried yr hyn y mae'r gwŷr yma wedi ei roddi iddynt yn eu cyfieithad.—*Ier. Owen*, 95.

Trwy droiau'r byd, a'i wên a'i wg,
Bid da, *bid* drwg, y tybier.—*Gro. Owain*, 113.

Bid sicr, be it sure or certain; to be sure; surely, certainly; of course.

Bid sicr i ti mai dy ffydd a'th gadwodd.
Marchog Crwydrad, ii. 6.

b. pl. *bînt=boent, byddent.*

A phan rannwyf uynda y ospeit aphellennigyon. *bint* yth law pan y dechreuwyf yny llys honn.—*Mabinogion*, ii. 204.

Bint dy glystiau yn ystyredigion
Wrth lef fy ngweddi a gwawdd fy nghalon.
D. Ddu Hiraddug: M.A. i. 571.

Boent allan gerddwyr, a *bînt* williaid;
Bid waethwaeth y gerdd i bob doethiaid.
L. G. Cothi, III. xxii. 57.

Bid, -iau, *sm.* [from the vb. *bid* (=boed), like *fiat* in English] what is enunciated imperatively; a fiat.

Bidiau Llywarch Hen (each stanza of which begins with the imperative *bid*).—*Myv. Arch.* i. 125.

Bidag, -au, *sf.* [form of *bidog*] the obelisk or dagger (†) in printing.

Nodau cyfeiriol; sef dosparthnod (⁑), y seren (*), y *bidag* (†), y bêr (‡), y rheol ddyblyg (‖).
Robert Davies: Ieith. Cymr. 89.

Bidan, *sc.* 1. a twig or slender branch.

2. a weakling; a weakly or sorry wretch.

Oes haedda moes a heddwch
I'r *bidan* truan, fab trwch.—*Thomas Prys.*

Bidawglys, *sm.=Bidoglys.*

Biden, -au, *sf.* [corr. of *bidwaen?* C. *bidhen;* Ga. *miadan*] an enclosed meadow.—*Iolo Glossary.*

Bidio, *v.* to make a quickset hedge; to plash; to prune; to dress.

Bidio perth, to plash or trim a hedge.

Bidio coed afalau, to prune apple-trees.

Bidiog, *a.* enclosed with a quickset or plashed hedge; plashed; encircled.

Y bedw mae yn dra *bidiog*,
Briwo y gwŷdd a'u bwrw i'r gog.—*D. ab Gwilym*, c. 19.

Bidog, -au, *sf-m.* 1. a hanger or short sword; a dagger or poniard; a bayonet.

Mewn math o wregys yr oedd tri *bidog;* a charn un o honynt mewn dull yn gyffelyb i ben tarw.
Brutus: Ninefeh, 48.

2. the dagger (†) in typography.

Y mae nodau ereill a arferir gan awdwyr; sef, nodau cyfeiriol, y rhai a elwir y seren, y *bidog*, y bêr, y rheol ddwybig, a'r dosparthnod.—*Caledfryn:* Gram. Cymr. 52.

Bidogan, *sf.* } a small dagger, a poniard.
Bidogyn, *sm.* }

Bidogi, *v.* to poniard; to bayonet; to stab.

Bidoglys, } *sm.* [bidog+llys] lobelia (*Lobelia*
Bidawglys, } *Dormanna*).—*H. Davies:* Welsh Bot. 22, 158.

Bidogwr, wyr, *sm.* one who uses a dagger or bayonet; a cut-throat.—*P.*

Bidw, *a.=Bitw, Pitw.—Gwent.*

Bidwaen, } weunydd, *sf.* an enclosed meadow
Bidwaun, } or low land.

Bidwal, -au, *sm.* 'an encampment; also a proper name.'—*P.*

Bidwen, -od, *sf.* [bidw] a little girl; a little female (of any animal).

Bidwoseb, }
Bidoseb, } *sm.* attendance; ready service.

March bidwoseb, march bidoseb, or *march yn oseb*, a horse in attendance; a horse, provided by the king, which was to be always ready at the command of certain officers of the court entitled to the privilege. The corresponding term in the Venedotian Code is *march preswyl, march breswyl*, or *march yn breswyl*, a horse of habitation.

A *march bitwosseb* ageiff y gan y brenhin.
Cyfreithiau Cymru, i. 638.

Y tir ageiff yn ryd. A *march bitosseb.* ageiff y gan y brenhin.—*Cyfreithiau Cymru*, i. 650.

Effeirat y urenhines ageiff *march* byth *yn osseb* y gan y urenhines.—*Cyfreithiau Cymru*, i. 638.

March byth *yn osseb* ageiff y gan y brenhin.
Cyfreithiau Cymru, i. 636 (cf. 636—668).

Bidwyn, -od, *sm.* [bidw] a little one; a little boy. —*Gwent.*

Bïeting, -au, *sm.=Beting, Bating.*

Bïetingo, *v.=Betingo.*

Bigwrn, yrnau, *sm.* [mut. of *pigwrn*] the ankle; the ankle-bone; a knuckle.

Bigyrnog, *a.* having large or prominent ankles.

Bing, -au, *sm.* [E. *bin* (as in fodder-*bin*), *bing?*] the alley or open passage along the heads of the stalls or booses in a cowhouse, from which fodder is supplied to the cattle; the forestall.

Bilain, einiaid, *sm.* [L. *villanus;* E. *villain*, †*vilein;* C. *bylen, belen*] 1. a villain (under the feudal system); a plebeian, a peasant, a rustic; a serf, a slave.

Kylch a geiff y pennkynyd ar *vilaeineit* y brenhin ar kynnydion ganthaw.
Cyfreithiau Cymru, i. 378 (cf. 364, 366, 380, 393).

Dyfynwal Moelmut . . . a rodes yr unryw vreynt hwnnw i erydyr y *byleynyeyt* ar tyr dywyllodryon.
Brut Gr. ab Arthur: M.A. ii. 140 [cf. 228, 229, 230).

A thitheu am gwrthodeisti vegys *bilein* profadwy.
Bown o Hamtwn, § 12 (cf. 35).

Ac fe gollodd [Cresus] y deyrnas, ac a arweiniwyd ymaith mewn caethiwed, i droelo cwbl o'i oes megys *bilain.*
Marchog Crwydrad, i. 14.

2. a villain; a scoundrel; a brutal wretch.

Yscymun *filain* cog brain breision.
Iorwerth Beli: M.A. i. 476.

Gwaew 'n ei fola, garn *filain!*
D. ab Gwilym, xciv. 45 (cf. ccliii. 27; cclxi. 1).

Bilain, *a.* [cf. *milain*] villainous.

Beth a vynny di fugeil *bilein*?—*Bown o Hamtwn*, § 35.

Dyn bilain, a villainous person, a villain.

Bilan, -au, *sf.* [=pilan: cf. L. *pilum*] a spear, lance, or pike.

Tor dy *filan* ym micre,
Bagwy gyr ym malch asgre.—*N.*

Bileindir, -oedd, *sm.* land held in villainage: also called *mileindir.*

Eu breynt huenteu dyeythyr hyn oderuyd udunt kafael *myleyn dyr* breynt etyr a dercheyf eny uo tyr ryt.
Cyfreithiau Cymru, i. 10.

Bileindref, -i, -ydd, *sf.* a manor or township occupied by tenants in villainage; a villain township. Four out of the twelve manors in each commot were villain townships: also called *mileindref* and *taiogdref*, q.v.

Ac velly ytelir ynny gayaf o *vileintref.*
Cyfreithiau Cymru, i. 534 (cf. L.W. i. ix. 14).

Ef adely [e brenyn] o pob *myleyntref* dyn amarch abuyall yr lluydeu ygueneuthur lluesteu.—*Cyfreithiau Cymru*, i. 78.

Bileinllu, -oedd, *sm.* and *cl.* a villain host; a rabble or mob.

Kyrchu a ẃnaethant e teyras ed hep giwdawdwyr ae hamdyffynney e dan lad y *byleynllu* hep orvot en eu herbyn.
Brut Gr. ab Arthur: M.A. ii. 224 (cf. 230).

Trannoeth y kyuodes Gruffud uab Rys a Ryderch uab Tewdwr . . . yn ansynwyrus oc eu pebyll heb gyweiraw eu bydin, a heb osod arwydon oc eu blaen namyn *bileinllu*, megys cyweithas o giwdawt bobyl digygor heb lywyawdyr arnunt y kymerassant eu hynt parth a chastell Aber Ystwyth.—*Brut y Tywysogion*, 130—132.

Bili, *sm.* Pughe (s.v. *Gwrachen*) gives *adar y bili* as one of the names of the small fish bull-head or miller's thumb. Why should any fish be called *adar* does not appear.

Bilwg, ygau, *sm.* [E. *bill-hook?* but apparently in much earlier use in Welsh than in English] a bill-hook, a hedging-bill.

Bilwc dimei atal.—*Cyfreithiau Cymru*, i. 722.

Yr offeiriad a ddringai, ac a dorai y llysieuyn â *bilwg* aur.
Theo. Evans: D.P.O. i. 4 (152; cf. 90).

Bilwg cau, a hedging-bill.

Bir, -oedd, *sm.* [O.E. *bere, ber;* A.S. *beòr;* Germ. *bier;* †*bior;* C. *bior* (=water: cf. W. *ber-u*); Br. *biorc'h, bier, bèr;* Ir. *beoir, bior;* Ga. *beoir:* apparently a borrowed word in Celtic: cf. Diez, s.v. *Birra*] beer, ale.

Dy *fir* i'w yfed fal dwr afon.—*Bedo Aeddren.*

Beth a delit tithau, Mammon, heb Falchder i'w wastraffu ar dai teg, dillad gwychion, cyfreithiau afraid, gerddi, a meirch, perthynasau drudfawr, dysglau aml, *bir* a chwrw yn genllif?—*Elis Wynn:* Bardd Cwsg, 108.

Bara a chaws, *bir* a chig,
Pysg, adar, pob pasgedig.—*Gronwy Owain*, 16.

Goreu *bir*, a goreu bwyd
A ranwyd i Feirionydd.—*L. Morys:* Didd. Teul. 183.

A chwrw, a *biroedd*, gwinoedd gwynion.
Rhys Jones: Gwaith, 115.

Biswail, *sm.* [in S.W. the drainage of the cow-house, or liquid manure, is called *piswail* (pis +gwâl), which appears to be the original form, and of which *biswail* seems a modification] cow-dung; the droppings of cattle.

Abreid yglynei dyn arnaw rac llyfnet y llawr gan *visswail* gwarthec ae trwnc.—*Mabinogion*, ii. 373.

Cig y bustach, a'i groen, a'i *fiswail*, a losgi mewn tân.
Ecs. xxix. 14.

Mal rhaw ym *miswail.*—*Diareb.* (M.A. iii. 164.)

Cleddyf biswail, the milt or spleen: also called *cleddyf Bleddyn* and *cleddyf y ddwyais.*

Efe a gaiff *gleddyf biswail* a rhefr y gwartheg a lather yn y gegin.—*Leges Wallicae*, i. xl. 8 (cf. C.C. i. 682).

Maer biswail, } bailiff of the cow-dung; land
Maer y biswail, } bailiff or steward=the person who received the cattle purveyed for the king or the lord, and superintended the demesne lands.

Maer bissweil ageiff crwynn yr ychen ar gwarthec aladher or llys os ketwis ef wynt teir nos. . . Kyt sarhao y gwas-sannaethwyr y *maer bissweil* wrth dwyn bwyt allyn or gegin ac o'r vedgell parth arneuad ny diwygir dim idaw am hynny.—*Cyfreithiau Cymru*, i. 392 (cf. 194, 684).

Ef adely triugeyn ykan pob *maer e bysgueyl* pan doter en uaer.—*Cyfreithiau Cymru*, i. 34 (cf. 46, 60).

Plant y Biswail (=Plant Alis y Biswail, q.v. s.v. *Alis*), a name of reproach sometimes in former days given to the English people.

Bisweiliad, -au, *sm.* a dropping of dung.

Bisweilio, *v.* to drop dung (as cattle); to dung.

Bisweiliog, *a.* abounding with cow-dung.

Bisweilyn, *sm.* [dim. of *biswail*] cow-dung (especially in lumps or small masses as in the fields).

Lletaf fydd y *bisweilyn* o'i sathru.—*Diareb.* (M.A. iii. 163.)

Beth sydd ar ben Tudur Penllyn?
Ai saled ai *bisweilyn?*
Beth sydd ar ben Tudur Aled?
Ai *bisweilyn* ai saled?—*Llanover Ms.* 29.

Bitail, } *sm.* [Br. *bitaill* (Catholicon); O.E. *vitaille;* O.Fr. *vitaille;* L. *victualis*]
Bital, }
Bitel, } victuals, food, provisions, sustenance.

Dy *fitail* ar gam yw defeita.
Rhys Goch Eryri: G.B.C. 96.

Haeraist, a gyraist heb gel,
Im' fwyta talm o *fitel.*—*Phylip Emlyn.*

Gellwng y dyrfa ymaith, i fyned i'r dinasoedd i brynu iddynt fwydydd (**fitel*).—*W. Salesbury:* Matt. xiv. 15.

Er ei *fitel*, a'i wely,
A'i dân, a'i amgeledd, a'i dŷ,
Bu farw'r gelach crachlyd;
Fyth na bo'i fath yn y byd!—*Sion Pywel.*

Bitain, }
Bitan, } *sm.*=*Betain.*

Bitelu, *v.* to victual; to supply with provisions.

Dywedyd a orug Achel nad oedd lai ei nerth o anfon gwin a gwenith i *fitelu* gwŷr Groeg, no phei delai ef ei hun parth â Throea.—*Ystori Dared*, § 59.

Biton, *sm.*=*Betain, Bitain, Bitan.*

Bitres, -i, -au, *sf.* [bid+rhes] a hedgerow.

Fy nrych llewych mewn lliw-aur,
Fy rhan yw, fy rhiain aur;
Fy swllt dan *fitres* elltydd,
Fy serch ar hon fwyfwy sydd.—*D. ab Gwilym*, xxxi. 7.

Cefais o'i ben cyflais awen,
Cerdd o *fitres* a'm boddlones.
Rhys Goch ab Rhicert: Iolo Mss. 238.

Bittolws, *sm.* [bu or biw+tolo, q.d. bovine roarer?] a bull.—*D.*

Bitw, *a.* [mut. of *pitw*, q.v.] very little, small, or minute; petty.

Biw, *s.pl.* and *cl.* [Ir. *bó, beo;* Ga. *bó;* L. *bov-em;* Gr. βοῦς: cf. *bu*] cows, kine; horned cattle; cattle.

Wyth ugein unlliw o loi a *biw*
Biw blith ac ychen a phob cein amgen.
Taliesin: M.A. i. 56 (cf. 71, 123, 578).

Ysgwyt vriw rac *biw* Beli bloeddfawr.
Aneurin: Gododin, 385.

A chymrevan *biv* am rid Vochnvy.—*Llyfr Du:* A.B. ii. 17.

Delid meirch amliw a *biw* elfyt.—*Meilir:* M.A. i. 191.

Ban bref *biw* yn riw rac Edeon.—*Gwalchmai:* M.A. i. 199.

Am rodes rwydles rwyf nifer
O'i alaf amliw *biw* breufer.
Cynddelw: M.A. i. 209 (cf. 227, 269).

Bid gwrm *biw*, bid llwyd blaidd.—*Diareb.* (M.A. iii. 180.)

Biwbo, } *sm.* [im. from the sound] a Jew's
Biwbaw, } harp or trump.

Un â thabwrdd, o dwrdd dig,
A gân wan gainc wenwynig;
Un â *buwbaw*, wên bwbach,
Yn nannedd y budredd bach.—*Sion Mawddwy.*

Y mae aml ganu penrimpan ar y man-golofnau, ar ddull traethodyn . . . eithr gwaelbethau ydynt, fal canu *biwbo;* neu lef y gwcwg; ond nid agos cystal.—*Cyfrinach y Beirdd*, 83.

Biwlith, *sm.* [biw+llith] cow-wheat, black corn (*Melampyrum*). Also called *bulith* and *glinogai.*

Biwlith melyn, } common yellow cow-wheat
Bulith melyn, } (*Melampyrum pratense*).—*H. Davies:* Welsh Bot. 60, 158.

Biwlith cribog, crested cow-wheat.

Biwlith y coed, wood cow-wheat.

Blaen, -au, -ion, *sm.* [C. *blyn;* Br. *blin*] 1. a point; the apex or tip (of anything); the extremity; the end; the fore, former, or foremost part; the fore end; front; the van; priority; precedence; lead; advance.

Beth a yr *blaen* byth ar blaid?—*Tudur Aled.*

Blaen cleddyf, the point of a sword.

Blaen cyllell, the point of a knife.

Blaen ac ol, front and rear; before and after; fore and aft; both sides (of a question); the antecedent and sequence.

Haua dy had gwanwyn yn nechreu Mawrth, wythnos *blaen ac ol* y llawn.—*Rhisiart Sion Huw.*

Ymadrodd blaen ac ol, the parts (of a discourse) preceding and following the sentence or passage quoted; the context.

Y blaen a'r ol, the van and rear; the front and rear; the fore and hind part.

Blaen a bon, top and bottom; apex and base.

A wddosti pwy gwell ai ei *fon* ai ei *flaen.*
Taliesin: M.A. i. 24.

Achub y blaen: cf. s.v. *Achub.*

Blaenau afonydd (*sg.* blaen afon), the sources of rivers; the upper courses of rivers.

O aper Gungleis in Taf maliduc ær hit diuinid bet i *blain,* o'i *blain* trusso di *blain* Nant Du.—*Liber Landavensis,* 247.

Onid ydym ni hyd y dydd hwn yn anghydnabyddus â *blaenau* neu godiad y pedair prif afonydd?
W. Lewes: Dwy Daith, 95.

Blaen Marchdeg ei wartheg oedd
Yn eu lliwiaw yn lluoedd.—*L. G. Cothi,* iv. xxi. 15.

Boterus sy'n mynegu fod dwy genedl alluog yn trigo yn agos i *flaen* yr afon Nilus.—*W. Lewes:* Dwy Daith, 94.

Blaenau gwlad (*sg.* blaen gwlad), the upper parts of a country; the extremities, borders, or confines of a country; uplands.

Blaenau Lloegr, the marches of England.

Blaenau Ceredigion, the upper parts of Cardiganshire.

b. the parts where valleys terminate, or are interrupted by mountains; as, *Blaenau Gwent,* in Monmouthshire.

Blaen byddin, the van or front of an army.

Anysgoget vaen. *blaen bedin* arall.
Gorchan Maelderw: A.B. ii. 101 (cf. M.A. i. 85, 86).

Blaen y gad, the front of battle.

Blaen lloer, } the new moon; the early stage
Blaen lleuad, } of the moon's increase.

Nid all fod diffyg ar yr haul ond ar *flaen lloer;* ond y pryd hwnw yr oedd hi yn llawn llonaid.
Theo. Evans: D.P.O. ii. 1 (177).

A phan fo *blaen y lleuad,* plan ac impia goed, a'r lleuad yn y Tarw, neu ynte yn y Dyfrhëwr.—*Rhisiart Sion Huw.*

Dwyn y blaen ar, to get foremost; to go or get before; to secure priority of; to get first; to precede; to anticipate; to take the lead of.

Gan fod yn raid i'r cyffredin, fal y dywedwyd eiswys, *ddwyn y blaen ar* yr unig a'r neillduol.
Cyfrinach y Beirdd, 16 (cf. 23).

Cael y blaen ar, to get priority or precedence of; to get the start of; to anticipate.

Cael y blaen ar beryglon, to anticipate or obviate dangers.

Rhoi y blaen i un, to give one the precedence.

Cymmeryd y blaen ar, to take the lead of; to take precedence of; to precede.

Yn yr ymladdfa yno y *cymmerth* Iorwerth ab Owain ab Caradawc *y blaen ar* Iarll y Clâr.
Brut Aberpergwm: M.A. ii. 559.

Blaenion, the chief or best (of anything); the fore or topmost parts; what is at the top or surface.

Y bobl a gymmerth o'r yspail, defaid a gwartheg, *blaenion* y ddifrodaeth, i aberthu i'r Arglwydd dy Dduw yn Gilgal.—1 *Sam.* xv. 21.

Tarawodd hefyd bob cyntafanedig yn yr Aipht; sef *blaenion* eu nerth hwynt.—*Salm.* lxxviii. 51.

A *blaenion* ein toes, a'u hoffrymau, a ffrwyth pob pren, gwin ac olew, a ddygem at yr offeiriad.—*Neh.* x. 37.

Blaenion llaeth, the first milk (drawn in the process of milking); the thinnest and poorest milk.

Blaenion blawd, the coarser part of meal.

2. with preps. (forming compound preps. and adverbial phrases.)

a. Ar flaen, on the point or tip of.

Ar flaen gair, on the mere or bare mention; at the very word.

Chwi a gewch y rhai sydd genyf fi, *ar flaen gair,* fal y maent.—*I. B. Hir:* Gwaith, 164.

b. O flaen, before (in position); in front of; in presence of; in sight of.

Rhoi y car *o flaen* y march.—*Diareb.* (M.A. iii. 176.)

O flaen y ddinas, before the city; in front of the city.

O flaen Duw, before God; in the presence of God.

c. before (in time); preceding; prior to, previous to; beforehand.

O flaen y dyddiau hyn cyfododd Theudas i fyny.
Act. v. 36.

d. before; in preference to.

Ac efe a osododd Ephraim *o flaen* Manasseh.
Gen. xlviii. 20.

Dewiswn gadw drws yn nhŷ fy Nuw, *o flaen* trigo ym mhebyll annuwioldeb.—*Salm.* lxxxiv. 10.

e. with the poss. pronouns: before; in front of; in presence of; in preference to; prior to.

O'm blaen, } (*o'th flaen, o dy flaen; o'i flaen*
O fy mlaen, } (f. *o'i blaen*): pl. *o'n blaen; o'ch blaen; o'u blaen*), before me, before thee, &c.

Arall a ddisgyn *o'm blaen* i.—*Ioan* v. 7.

Ar fy ol i y mae gwr yn dyfod, yr hwn a aeth *o'm blaen* i: canys yr oedd efe *o'm blaen* i.—*Ioan* i. 30 (cf. 27).

Rhoi Herbart *o'n blaen* fal Siarlmaen Sant.
L. G. Cothi, i. xxii. 20.

Dywed wrth y llanc am fyned *o'n blaen* ni.—1 *Sam.* ix. 27.

f. with the article (forming an adv. phr.): before.

O'r blaen, before; formerly; previously; in advance.

A gellwng y mackwy *or blaen* aoruc.—*Mabinogion,* ii. 7.

Ni wrthododd Duw ei bobl yr hwn a adnabu efe *o'r blaen.*—*Rhuf.* xi. 2.

Myfi a duthiais o Gaer Fyrddin i Lan Egwad, i weled Cymro cywraint y clywswn lawer o son am dano es cryn ddeng mlynedd *o'r blaen.*—*I. B. Hir:* Gwaith, 206.

Y nos o'r blaen, the previous or preceding night; the other night.

g. Ym mlaen, } before; in front; in the presence
Yn y blaen, } of; forward; onward; on; previously, antecedently; beforehand; in preference to.

Ymgadarnhau aoruc pawb onadunt y ar eir yr archesgob a diodef agheu *ymblaen* ffo.
Ystoria de Carolo Magno, col. 483.

Farchogion! *ym mlaen!* mae y gelyn ger llaw,
Farchogion! *ym mlaen!* mae yn ymyl ymosawd;
Nac ofnwch ei ddychryn, ni wyddoch ddim braw,
Ym mlaen, fy marchogion! yn ol yr hen ddefawd.
Tegid (C.Q.M. iv. 456).

Ym mlaen Duw, before God; in the presence or sight of God.

Felly y mae gweithredoedd yr holl anffyddloniaid *ym mlaen Duw*. . . Er bod y fath weithredoedd yn ymddangos ger bron dynion yn ganmoladwy, eto nid ydynt *ym mlaen Duw* onid ofer ac anghymmeradwy.
Edw. Iames: Hom. i. 59.

Ym mlaen Crist, before Christ; in the presence of Christ.

Pa esgus wrth hyny a wnawn ni (ar y dydd diwethaf *ym mlaen Christ*), y rhai a osodwn ein ewyllys ar ddarllen dychymmygion.—*Edw. Iames*: Hom. i. 7.

Duw yn y blaen, } God preceding; God permitting or granting; by God's help or guidance; God willing.
A Duw yn y blaen, }

Ni ddylwn gadw yn briodol im' fy hun y peth a ddylai fod yn gyffredin i laweroedd, o herwydd y mawrlles a'r buddiant, *Duw yn y blaen*, a ddaw ac a dyf o honaw.
Dr. Th. Williams (Y Greal, 62).

Os syrthio a wnawn, ein cwymp a fydd mawr iawn; ni bydd hoff genych, *Duw yn y blaen*, mo'i weled.
Ier. Owen, 92 (cf. 95).

Y mae i'm bryd, *a Duw yn y blaen*, fyned yno yn y gwyliau.—*Ieuan Brydydd Hir:* Gwaith, 166 (cf. 176, 219, 227).

Ym mlaen llaw: cf. s.v. *Blaenllaw, a.*

Talu ym mlaen, to pay beforehand; to pay in advance; to prepay.

Ac felly yn y blaen, and so on, et cetera (etc., &c.).

Myned ym mlaen, to go on; to go forward; to move onward; to proceed.

Yn ol ac ym mlaen, backwards and forwards; to and fro.

h. with the poss. pronouns: *yn fy mlaen; yn dy flaen; yn ei flaen* (f. *yn ei blaen*): pl. *yn ein blaen; yn eich blaen; yn eu blaen*), before me; in front of me, &c.

Kanys ympob reit ydeuant *yny vlaen* ac yny ol.
Mabinogion, ii. 378.

Yn ei flaen ef, before him; in front of him.

Mab y wreic wedw yr hwnn ae hennillawd *yn y vlaen ef.* am gyrrawd i oe geissyaw ef.—*St. Greal*, § 208.

Dos yn dy flaen, go in the direction of thy face; go on, go forward; proceed.

¶ In M.W. the prep. *o* or *yn* is sometimes omitted, and *blaen* has the force of a prep. denoting *before, in front of, in presence of.*

E gat *blaen* bragat briwei.—*Aneurin:* God. 210 (cf. 575).

Diuwg blwng *blaen* uuel drwy uar.
Llyw. ab Llywelyn: M.A. i. 298 (cf. 214, 225, 513).

3. (in botany.)

Blaen y conyn ar y mêl, common agrimony (*Agrimonia eupatoria*).

Blaen y gwaew, spearwort (*Ranunculus*).

Blaen y gwaew lleiaf, lesser spearwort (*Ranunculus flammula*).

Blaen y gwaew mwyaf, greater spearwort (*Ranunculus lingua*).

Blaen yr iwrch, perennial mercury, dog's mercury (*Mercurialis perennis*).—*H. Davies:* Welsh Bot. 55, 95, 158.

Blaen, *cp.* -af, *a.* fore; foremost; first.

Y gad flaen, the front of battle; the van.

I'r *gad flaen* y Siarlmaen sant,
Ar ei ail ydd ai Rolant.—*L. G. Cothi*, VIII. vii. 32.

Y fyddin flaen, the van, vanguard, or front of an army; the advanced part of an army.

A phan welas y Ffreinc o benn ymynyd y rei hynny yn ffo kyrchu y doryf *vlaen* awnaethant.
Brut y Tywysogion, 134.

Y pen blaen, the fore end or part; the front.

Y ceffyl blaen (*pl.* ceffylau blaen), the fore horse.

Y dannedd blaen (*sg.* dant blaen), the front teeth; the cutting or incising teeth, the incisors.

Blaenaf (*pl.* blaeneifion), first (as to position); first (in time); foremost; most advanced.

Duwllun yn gyntaf ddeddf *blaenaf* ddydd.
Myv. Arch. i. 540.

Y rhai olaf fyddant yn *flaenaf*, a'r rhai *blaenaf* yn olaf.
Matt. xx. 16.

Y penaf a'r blaenaf, the first and foremost.

Yn flaenaf, } first; in the first place; firstly.
Ym mlaenaf, }

Ym mlaenaf dim, } first of all; in the very first
Ym mlaenaf oll, } place; first and foremost.

Blaenafiaeth, -au, *sf.* priority; precedence; supremacy, primacy.

Blaenanedig, *a.* first-born; eldest.

Y blaenanedig (*pl.* blaenanedigion), the first-born; the firstling.

'R hwn a d'rawodd yr Aipht i'w ddig,
A'r *blaenanedig* ynddi.—*Edm. Prys:* Salm. cxxxvi. 10.

Blaenar, -au, *sm.* [blaen + âr] the first ploughing.

Blaenaru, *v.* to plough for the first time (as opposed to second or subsequent ploughing).

Tywarch crawlosg, tor ar gil y lleuad; *blaenaru* tir hendon hefyd ar y cil, fal y bo marw gwraidd a llysiau.
Rhisiart Sion Huw.

Planu [yn Hydref] cnau o bob rhyw, a mes, ac ysglofenod llwyf ac elwyf, hau gwenith a rhyg, *blaenaru* tir haidd a phys.—*Llanover Ms.*

Blaenbost, byst, *sm.* a fore-post, a head-post.

Blaenbost llidiart, the perpendicular post or timber, to which the lighter upright bar of a gate is fastened when closed, opposite to the *cilbost*, in which are fixed the iron pins on which it hangs.—*N. W.*

Blaenbrawf, brofion, *sm.* a foretaste.

Nyni a gawn weled ein bod ni mewn nefoedd ar y ddaiar, ac fe fydd pob gweithred rinweddol yn *flaenbrawf* o lawenydd y cyflwr nefol.—*Iosua Tomas:* Buch. Grist. 270.

Mwynhâd o'i ras maddeuol, mawr,
Blaenbrawf o'r nef yw yma'n awr.
R. ab Gwilym Ddu: Gardd Eifion, 36.

Blaenbren, -au, *sm.* 1. a head tree; the principal or head timber. 2. a great treat, a main privilege.

Ac ar y parth arall ygwelynt croen dinawet melyn ar y parth. a *blaenbren* oed gan un o nadunt agaffei vynet ar y croen hwnnw.—*Mabinogion*, ii. 373.

Blaenbrofi, *v.* to foretaste; to anticipate.

Mae y gerdd sanctaidd o ddiolchgarwch yn ei dysgrifio fel yn *blaenbrofi* . . . buddugoliaeth ei mab.
Myfyrdodau Hervey, 125.

Blaendardd, -ion, -au, *sm.* the first springing, budding, or germination; a germ, a bud, a gem; a sprout.

Blaendarddiad, -au, *sm.* a budding; germination; a sprouting.

Amser profiadol iawn ydyw; ac amser ag y mae y diafol yn ddyfal iawn i ysgythru y blodeuyn, megys pe byddai, ar ei *flaendarddiad*, fel na thyfo ffrwyth arno byth.
Ieremi Owen, 86.

Blaendarddol, *a.* budding, sprouting, germinant.

Blaendarddu, *v.* to bud, to sprout, to germinate; to spring out.

Yn y winwydden yr oedd tair cainc: ac yr oedd hi megys yn *blaendarddu*.—*Gen.* xl. 10.

Mynegu'r ydwyf fi bethau newydd, traethaf hwynt i chwi cyn eu *blaendarddu*.—*Esg. Morgan:* Esa. xlii. 9.

Blaendociad, -au, *sm.* a cutting or clipping of the top, end, or extremity.

Blaendocio, *v.* to clip or cut the top; to cut off the ends; to lop, to clip, to crop.

Blaendor, -ion, *sm.* aphaeresis.

Blaendori, *v.* to cut off the top, apex, end, or extreme part; to lop.

Blaendor dy blanigion ieuainc o fis Medi hyd Fawrth.
Rhisiart Sion Huw.

Blaendoriad, -au, *sm.* 1. a cutting off the end, top, or point. 2. aphaeresis.

Blaendrwch, drychion, *sm.* a cutting off the beginning or top; aphaeresis.—*Dr. Davies.*

Blaendrwyth, -au, *sm.* 1. a pure solvent; the first active germ (*P.*); the first water.

Bwriwyd eryr llwyd i'r llan
Blaendrwyth breninllwyth Henllan.—*Tudur Aled.*

Wyr Ririd lwyd, euraid lwyth,
Flaidd, ddifilein-draidd *flaendrwyth*.
Iolo Goch, i Dudur ab Gronwy.

2. the first water or suds used in washing. (A laundry term.) Cf. *Attrwyth.*

Blaendrychu, *v.* to clip the top, end, or extreme part; to cut off; to clip, to crop.

Blaenddawd, } ddodion, ddodiaid, *sm.* [blaen+
Blaenddod, } dodi] a prefix.

Nid mynych yr arferir all ac al yn *flaenddodiaid*.
D. S. Evans: Llythyraeth, § 96.

Blaenddodawl, *a.* that is prefixed; prepositive.

Blaenddodi, *v.* to prefix; to place before.

Blaenddodiad, -au, *sm.* a prefixing.

Blaenddodiad, iaid, iadau, *sm.* a prefix.

Perthyna y *blaenddodiaid* gan mwyaf i fwy nag un rhan ymadrodd.—*D. Rowlands:* Gram. Cymr. § 135.

Blaeneudir, -oedd, *sm.* the hilly or upland part of a country or district; upland; bordering land; marches.

A dewis a wnaeth ef y frodir bras iddo ei hun a'i wŷr, a'r tiroedd a gafas Einion a Chedrych a'u gwŷr oeddent y rhan fwyaf yn *flaeneudir*.—*Iolo Mss.* 15.

Ac Einion Fradwr oedd yr enw a rowd arno ym *mlaeneudir* Morganwg o'r pryd hyny i maes.—*Edw. Gamais.*

Blaenfain, feinion, *a.* sharp-pointed; fine-pointed; pointed; acuminate.

Melus yw yn malu sain,
Megys bol enfys *blaenfain*.—*Guto'r Glyn*, i Gorn Huadwr.

Blaenfed, *a.* antecedent, foregoing, preceding; primary.

Blaenfed, *sm.* [cf. *blaenwedd*] = *Blaenwedd.*

Ac ar awrhon edym eu kafael e trydyd er hwn ed ydes en adaw *blaynfet* neu blaynwed Ruveiniawl enryded.
Brut Gr. ab Arthur: M.A. ii. 329.

Blaenfediad, -au, *sm.* the first reaping.

Blaenfeiniad, -au, *sm.* a tapering; acumination.

Blaenfeinio, *v.* to make sharp-pointed or acuminate; to rise or taper to a point.

Blaenfiniog, *a.* sharp-pointed; acuminate.

Tair iaith a gafwyd ac a fuant o'r dechreuad o waith Duw: un y cafas Addaf ym mharadwys, ac ef a'i colles . . . ac a yrwyd o baradwys i drin y tir â'i bal, sef â phawl *flaenfiniog*.—*Cyfrinach y Beirdd*, 39.

Blaenfrig, -au, *sm.* and *cl.* top-boughs; the higher branches of a tree; sprigs.

Bei ysgwypwn ar wn
Mor amluc gwynt y *flaenfric* gwydd ffalwn
Ar a wneuthum byth nis gwnawn.
Myrddin: M.A. i. 132.

Blaenffrwyth, -au, *sm.* first fruit, first fruits; annates.

A hwy a ddygasant . . . ddillad yr offeiriaid, a'r *blaenffrwythau*, a'r degymau.—1 *Macc.* iii. 49.

Blaengad (*n-g*), -au, *sf.* the front of battle; the van of an army.

Ni chyrch drin na byddinoedd,
Ni châr nad *blaengad* a bloedd.—*Gro. Owain*, 1.

Blaengar (*n-g*), *a.* disposed to be foremost or forward; daring, bold; presumptuous.

Chwech eryr ketwyr kadyr eu darpar
Llewelyn ay blant *blayngar* vrodoryon
Ay haylyon wyryon oer eu galar.
Bleddyn Fardd: M.A. i. 365 (cf. 334, 409, 425).

Yn rith bleit *blaengar* vu Ywein.
Cynddelw: M.A. i. 223 (cf. 215, 222, 449).

Blaengar ymadrawdd pob ffol.—*Diareb.* (M.A. iii. 149.)

Blaengawr (*n-g*), *sf.* [blaen+gawr] a shout or shouting in the van.

Bleit *blaengawr* bar dyrawr dur
Beirt auael hart aeardur.—*Cynddelw:* M.A. i. 225.

Blaengeiniad (*n-g*), iaid, *sm.* a precentor; the leader of a choir or band.

I'r *blaengeiniad* tros yr offer tannau.
Dr. Th. Briscoe: Llyfr y Salmau, vi. (cf. iv. viii. ix.)

Blaengis (*n-g*), -ion, -iau, *sm.* the first blow; the first assault or attack (in battle); the onset.

Blaengnaif (*n-g*), gneifiau, *sm.* the clipping or bearding of wool.

Blaengneifio, *v.* to clip wool; to clip the fore part.

Blaengnwd (*n-g*), gnydau, *sm.* the first or earliest crop; annates, first-fruits.

Blaengroen (*n-g*), grwyn, *sm.* the foreskin or prepuce.—1 *Sam.* xviii. 25, 27; 2 *Sam.* iii. 14; *Hab.* ii. 16.

Blaenhaid, heidiau, *sf.* the first or virgin swarm (of bees).—*Penllyn.*

Blaenhidl, *sm.* [blaen+hidl, hidlo] the first shot (in brewing); sweet wort.

Cwrw a gai, is Crug Ieuan,
Ddoe bawb, a medd o bob man:
Blaenidl wrth blaned loew oedd,
Bragawd lyn brig ydlanoedd.—*L. G. Cothi*, iv. i. 11.

Blaenhogi, *v.* to sharpen or whet the point.

Blaenhogiad, -au, *sm.* a whetting or sharpening of the point; acumination.

Blaeniad, -au, *sm.* a forming into a point; acumination; a getting foremost; a preceding or leading.

Blaeniad, } iaid, *sm.* a foremost man; a leader,
Bleiniad, } a conductor; a guide.

Bu dygn bid ogylch dolur
Am *fleiniad* gwengad gwingar.
Gr. ab Meredydd: M.A. i. 449.

Hil glân, a ŵyr heiliaw gwledd,
Blaeniaid ar holl bobl Wynedd.—*Gro. Owain*, 46.

Bleiniaid awch y fwyall ac
Y rethren fraisg, gweithfuddug Iorwerth, clyw!
W. O. Pughe: Pal. 33 (cf. 8).

Blaeniadol, *a.* leading, conducting; preceding.

Yn canlyn y pump Breninllwyth *blaeniadol* y mae Dosparth teyrnedd yn cael ei roddi eilwaith; ond gydag ychwanegiadau.—*Iolo Mss.* 32*n*.

Blaenio, *v.* 1. to lead or conduct; to take the lead of; to head; to precede.

Pa wrol ior, pur ei wledd,
Piau *blaenio* pobl Wynedd?—*Llawdden.*

Yn farwn y bo f'eryr,
Flina' gwaith, i *flaenio* gwŷr.—*Rhys Jones:* Gwaith, 164.

2. to make or give a point to; to form into a point; to sharpen.

Da gwyddost, fawr-fost fyrfwch,
Blaeniaw hwn â blewyn hwch.
Syr Lewys o Langyndeyrn, i Hityn Grydd.

Blaenllaeth, *sm.* the first milk.

Blaenllaw, *a.* beforehand; antecedent, previous; forward, advanced; fore.

A chwedi i ni unwaith ddyfod â'n meddyliau i'r dymmer hon o ufudd-dod, yr ydym mewn parotoad *blaenllaw* tu â'r nefoedd.—*Ios. Tomas:* Buch. Grist. 108.

Ym mlaenllaw,
Ym mlaen llaw,
O flaen llaw,
Yn flaenllaw,
} beforehand; antecedently; previously; in advance; before.

Pan fo yr areithiwr yn gweled *o flaen llaw*, beth a ellid ei fwrw yn ei erbyn.—*H. Perri:* Egl. Ffr. xlii. 1.

Blaenllin, *sm.* [blaen+llin=L. *linum*] coarse linen fabric.—*Dyfed.*

Blaenllin, -au, *sf.* [blaen+llin=llinach] the chief line, lineage, or pedigree; chief of the race.

Pwy ddysg im', pa dduwies gain,
Wir araith i arwyrain,
Gwraf edlin brenin-wawr,
Blaenllin Cymru fyddin fawr?—*Gro. Owain*, 35.

Blaenllym, *m.* } llymion, *a.* sharp-pointed; acu-
Blaenllem, *f.* } minated, acuated; sharp, pointed; stinging.

Ef a gwnaeth idaw bagyl o haiarn. a hono en *vlaenllym* iawn.—*Brut Gr. ab Arthur:* M.A. ii. 376.

Uncorn yssyd yn y dal. kyhyt a phaladyr gwaew. a chyn *vlaenllymet* yw ar dim *blaenllymhaf*.
Mabinogion, i. 293 (cf. 238).

Yr oedd yn llaw ddeheu un o'r gwragedd wialen haiarn *flaenllem* a elwid Cnoad Cydwybod.
Marchog Crwydrad, ii. 4.

Saethau y cyfoethogion *blaenllymion*
Ynt i gyd a marwar diffaethion.
D. Ddu Hiraddug: M.A. i. 568.

Dylai [yr iaith Gymraeg] fod yn uniawn gyfansodd, a chyfnaws, a chyfliw, a chyflun, â'r sylfon a ganer iddo; sef seinfawr i fawrwaith, seinber i serch, galarus mewn galargan, *blaenllym* yn achos dysg a doethineb.
Cyfrinach y Beirdd, 15.

Y mae efe . . . yn saethu ei *flaenllymion* saethau.
Ier. Owen, 118.

Blaenllymder, }
Blaenllymdra, } *sm.* sharpness of point; keenness of edge; sharp-
Blaenllymedd, } ness, poignancy, pointedness, pungency.

A tybygy ti aallant hwy diffryt Gwrtheyrn racgoffi megys na chaffwyf gudyaw *blaenllymder* vyg cledyf yndaw?
Brut Gr. ab Arthur (B): M.A. ii. 269.

Blaenllymiad, -au, *sm.* a sharpening to a point; a sharpening; acumination, acuation.

Blaenllymu, *v.* to sharpen to a point; to sharpen, to acuminate.

Blaenllythyr, } -au, *sm.* and *cl.* the initial letter
Blaenlythyr, } or letters of a word.

Nis gellir ei hebgor, neu ei deol o'i lle, pan y byddo yn *flaenlythyr* y gair.—*Gwallter Mechain:* Gwaith, ii. 177.

Blaenllythyren, } -au, *sf.* the initial or first
Blaenlythyren, } letter of a word; an initial.

Blaenol, *a.* going before or foremost; preceding; primary; leading.

Blaenor, -iaid, -ion, *sm.* 1. a leader; a leading man; a ruler; a principal.

Beth a yr blaen byth ar blaid?
Blaenor â byw ei lonaid.—*Tudur Aled.*

Gwna i ti farnwyr a *blaenorion* yn dy holl byrth.
Deut. xvi. 18.

Meddyliwch am eich *blaenoriaid*.—*Heb.* xiii. 7 (cf. 17, 24).

Y deddfol a gaiff le ym mhlith *blaenorion*.
Myv. Arch. iii. 10.

Blaenor y deml, the captain of the temple.—*Act.* iv. 1.

Un o'r blaenoriaid, one of the leaders; a leading man.

2. a leading layman, generally called a deacon, who attends to the secular affairs of the congregation, among the Welsh Nonconformist bodies, especially the Calvinistic Methodists.

Blaenori, *v.* to lead; to take the chief or leading part; to precede; to prefer.

Dysged yr eiddom ninnau *flaenori* mewn gweithredoedd da.—*Titus* iii. 14 (cf. Rhuf. xii. 10; Col. i. 18).

Blaenori ar, to take the lead of; to excel; to be superior to.

Y mae hi'n rhagori ac yn *blaenori ar* bob iaith arall dan haul ac wybren.—*Cyfrinach y Beirdd*, 14 (cf. 70).

Blaenoriad, -au, *sm.* a leading; a preceding; a preferring.

Blaenoriaeth, -au, *sf.* 1. precedence; preference; lead, leading; the first place; antecedence; priority.

O dywedir fod ar y fer gynghanedd fonedd o *flaenoriaeth* rhif sillau, ar gyhydedd a fo hwy na hi; dywedir yn ateb i hyny mai o ddamwain a dygwydd y cafwyd banau yn cyfodli.—*Cyfrinach y Beirdd*, 70.

2. prevention or anticipation (in rhetoric).

Tansangiad, neu *flaenoriaeth*, yw ffugr unweddawl, pan fo yr areithiwr yn gweled o flaen llaw, beth a ellid ei fwrw yn ei erbyn i'w friwaw.—*H. Perri:* Egl. Ffr. xlii. 1.

Blaenorog, *a.* preceding, previous, antecedent.

Dull arall ar genateuad sydd, pan oddefo yr areithiwr fwrw rhyw beth yn ei erbyn, gan ddwyn i mewn ryw beth arall, i gydoddef â'r bwriad *blaenorawg*, fal hyn.
H. Perri: Egl. Ffr. xliii. 2.

Blaenorol, *a.* leading; preceding, previous, foregoing, antecedent; former.

Ym mhob goror mae'n *flaenorawl*
Ar y coedydd amryw cedawl.
Hopcin Llewelyn, i'r Afallen.

Y mae penaeth ar yr holl dderwyddon, yr hwn sydd yn meddianu awdurdod *blaenorol* yn eu plith.
Carnhuanawc: Han. Cym. 16.

Y sylwadau blaenorol, the foregoing or preceding observations.

Y dydd blaenorol, the previous day.

Blaenorwr, wyr, *sm.* a leader; one who bears rule.

Y rhai a lywodraethasant ar eu teyrnasoedd . . . *blaenorwyr* y bobl.—*Eccl.* xliv. 4.

Blaenred, -ion, *sm.* a precursor, a forerunner; one who runs or goes foremost; a leader.

Blaenred wrth [*al.* i] fyned oedd fo,
Ac olaf pan fai gilio.—*Ieuan Deulwyn:* G.B.C. 141.

Yma y rhoed ef mewn mawrhydi
Yn *flaenred* i'w rhifedi, megidydd,
Neu areilydd i'w hiawn reoli.
Dewi Wyn: Blod. Arfon, 44.

Blaenred, } *a.* precursory, forerunning, going
Blaenredol, } before; antecedent, preceding; prevenient.

Blaenredu, *v.* to forerun; to precede, to antecede.

Blaenredwr, wyr, } a forerunner, precursor,
Blaenredydd, -ion, } or harbinger.

Ar ein dyfodiad, yr oeddym yn fynych yn cael ein *blaenredwr* mewn rhyw amryson anhyfryd neu gilydd.
Cylchgrawn, i. 81.

Blaenrudd, *a.* having a ruddy point.

Rhyfedd yw yn fyw feirdd ni'n dyhudd
Ei fod reiniad clod cledren *flaenrhudd*.
Gwilym Ddu Arfon: M.A. i. 409.

Blaenu, *v.* 1. to go or advance before; to precede; to get foremost; to outgo, outrun, or outstrip; to outdo; to excel or surpass.

Gwelais ferched hardd eu pryd,
Wrth rodio'r byd o beutu;
Ond ar ferched llys a llan
Yr wyt ti, lliw'r can, yn *blaenu*.
Lewys Wiliam (ca. 1670).

2. to act as a head or leader; to lead; to head.

Oed Crist 1172, aeth llawer o bendefigion y Ffrancod a wledychynt Forganwg, a Gŵyr, a Dyfed, a Cheredigiawn, i'r Werddon, ac yn *blaenu* arnynt ydd oedd Richart Iarll Ystrigyl.—*Brut Aberpergwm:* M.A. ii. 573.

3. to form into a point; to sharpen, to point.

Blaenwedd, -au, *sm.* the summit or highest point; a height; a point or end; a top.

Or dywed ev a deuey ar *vlaenwet* gorwchaf anrydet.
Brut Gr. ab Arthur: M.A. ii. 85 (cf. 329, 330).

Ny phedrussafi ysgrivennu awch brodoryaeth chwi yn diffleis diamheu *blaynwedeu* ac ystlysseu y amryvedodyon weithredoed ef.—*Campau Charlymaen*, § 21.

O Gynan y kerda baed ymladgar yr hwn alymhaa *blaenwed* y danhed.—*Brut Gr. ab Arthur* (B): M.A. ii. 263.

Kymeint vyd rat hwnnw yny wironed. a phan vo yn kerdet y fford ac y gostygyant y gwyd eu *blaenwed* yny erbyn.—*Prophwydoliaeth Sibli*, § 9.

Blaenwel, -ion, *sm.* the furthest point of vision; a prospect; the horizon.

Nys llat bleit vch *blaenwel* gwituit
Nys dwc lleidyr uy llawrgert o did
Neud llei dy ouod neud dy ouid ked
Cadwgawn ry delid.
Llyw. ab Llywelyn: M.A. i. 287 (cf. 299).

Blaenwel, *a.* that is seen or conspicuous before or in front; conspicuous, manifest.

Bydd fy ngoleuni *blaenwel*
Tra fwyf ym maes y rhyfel;
Dwg fi'n fuddugol â'th law gref
I deyrnas nef yn dawel.—*Thomas Llewelyn o Lancarfan.*

Blaenwydd, *sm.*=*Blaenwedd?*

Mae *blaenwyd* bedin dinas [*al.* dinus]
Aergi gwyth gwarth vre.—*Aneurin:* Gododin, 727.

Blaenwydd, *s.pl.* the principal or finest trees; topmost branches.

Blaenwedd o goed *blaenwydd* gwin,
Blodau wyd ar blaid Edwin.—*Sion Tudur.*

Blaenymadrodd, -ion, *sm.* a preface.

Y *blaenymadrodd*, at y darllenydd.
Morgan Llwyd: Ymroddiad.

Blagur, -on, *s.cl.* and *pl.* [=balgur, bragur] the budding of a tree or herb; buds, germs, gems, sprouts; blossoms; young sprigs or twigs; tender branches.

Gwialen Aaron dros dŷ Lefi a flagurasai, ac a fwriasai *flagur*, ac a flodeuasai flodau.—*Num.* xvii. 8.

Fal dwr gwyra neu groew, neu dwf *blagur* a bywull, fal tardd dail a glaswellt, a balant blodau.
Cyfrinach y Beirdd, 17.

Cymhwys gan hyny y cyffelybir balchder i'r *blagur* surion a darddant allan o foncyff y pren afalau pereiddiaf.
Robert Llwyd: Llwybr Hyff. 40.

Torir digon o bolion o'r *blaguron* . . . a chan lleied ag a wasanaethant o weddill y *blaguron* a blygir ar i fyny . . . ac o herwydd nad oes eisieu i'r rhai hyn gryf hau a pharhau, eithr tra thyfo y *blagur* ieuanc, maent yn cael eu herwyddu, er eu diogelu rhag i anifeiliaid eu codi, a phori y *blagur* ieuanc.—*Aneurin Owen:* Amaethyddiaeth, 11.

Blaguriad, -au, *sm.* a budding, sprouting, or blossoming; germination.

Blagurlawn, *a.* full of buds, germs, or blossoms; blooming.

Coedfron *blagurlawn*, dawn dadeni,
Caeadfrig addien, gwyrdd llen llwyni.
Rhys Goch ab Rhicert: Iolo Mss. 241.

Blaguro, *v.* to bud, blossom, sprout, or germinate; to bloom, to flourish; to spring; to branch out, to ramify.

Y mae gobaith o bren, er ei dori, y *blagura* efe eto, ac na phaid ei flagur ef à thyfu. . . Efe a *flagura* oddi wrth arogl dyfroedd.—*Iob* xiv. 7, 9.

Am eu bod yn benau i fagad o bechodau ereill, sy'n *blaguro* allan o honynt.—*Rosier Smith:* Eglurhâd, 324.

Blagurog, *a.* full of buds or blossoms; budding; blooming, bloomy; flowery; flourishing; thriving; palmy.

Mor wychion ydynt, yn y marchnadoedd,
Blagurog a dewr fywiog dyrfaoedd.
Dewi Wyn: Blod. Arf. 7.

Blagurol, *a.* budding, blossoming, blowing, blooming.

Blaguryn, *pl.* blagur, blaguron, *sm.* a bud; a young twig or sprig; a branch.

Efe a dyf o'i flaen ef fel *blaguryn*, ac fel gwreiddyn o dir sych.—*Esa.* liii. 2 (cf. iv. 2; xi. 1; lx. 21).

Yn yr amser hwnw, y paraf i *Flaguryn* cyfiawnder flaguro i Ddafydd.—*Ier.* xxxiii. 15 (cf. xxiii. 5).

Blai, *pl.* bleion, *sm.* [Br. *blei*] a depredator; a wolf.—*P.*

The passage in Llywarch Hen (*M.A.* i. 107), quoted by Pughe, has *blaidd* in the text and *blai* as a variant; the former is probably the correct reading. Elsewhere Pughe uses *blai* for the tiger.

Dylama yna fal o dori rhwym,
Yn rhonta yr ysgytia ei grych fwng,
Y *blai*, y cidwm, y gath balug, mal
Y wadd yn codi, chwalent yn eu cylch
Yn friwion dyrrau pridd.
W. O. Pughe: C.G. vii. 542 (cf. 446).

Y llew a lamai, a dylofai yn
Ei balf y myn; cidymiaid, *bleion*, eirth,
A ymdesôtent yn eu gŵydd.—*W. O. Pughe:* C.G. iv. 381.

Blaidd, *pl.* bleiddiaid, bleiddiau, *sm.* [C. *bleit* (C.V.); Br. *bleiz*, *bled*; Ir. *bled*] 1. a wolf.

Bit gwrm [*al.* grwm] biw. a bit lwyt *bleid*.
Llywarch Hen: A.B. ii. 246 (cf. M.A. i. 125).

Megys wyn y gan y *bleydyeu* evelly y dystrywyt. e cwynvannus popyl truan y gan eu gelynyon.
Brut Gr. ab Arthur: M.A. ii. 230.

Llawn eirth, a *bleiddiau* ac efeinc, ac ychain bannog ydoedd.—*Trioedd:* M.A. ii. 57.

Ef a dhamweinia weithau y *vleidhiau* yssu dyn. a throssi y gic yn gic yr *blaidh*. ac yssu o arth y *blaidh*.
Lucidar, § 114.

Oddi mewn *bleiddiaid* rheibus ydynt hwy.
Matt. vii. 15 (cf. x. 16).

A'u meirch sydd fuanach na'r llewpardiaid, a llymach ydynt na *bleiddiau* yr hwyr.—*Hab.* i. 8 (cf. Seph. iii. 3).

Cyfaill *blaidd*, bugail diog.—*Iolo Mss.* 260 (A.B. ii. 246).

Ceneu blaidd, } (*pl.* cenawon blaidd), a wolf's
Cenaw blaidd, } cub or whelp; a young wolf.

Oddyna y cerddes hyt Riw Gyferthwch yn Eryri, ac yna dotwes ar *geneu bleidd* ac ar cyw eryr.—*Trioedd:* M.A. ii. 6.

Dal blaidd gerfydd ei glust, to hold a wolf by the ears.—*W.*

Blaidd y dwr, the pike; more usually called *penhwyad.*

Sef yw hwnnw, penhwyat wedy tyf yn anueitrawl o faint: ac ef a elwir heuyt *blaidh y dwr.—Cyfraith Arfau.*

Blaidd y môr, the sea-wolf or wolf-fish.

2. Often in M.W., and occasionally later, applied complimentally to heroes; and sometimes used as a cognomen; as, *Rhirid Flaidd, y Blaidd Rhudd, Bled*, brenin Cernyw (*M.A.* ii. 16, 22). Cf. the use of E. *wolf* (A.S. *wulf*) in proper names.

Gawr aml a llafnawr ar flawr *flaidd.*
Gwalchmai: M.A. i. 196 (cf. 204, 211).

O gerteu *bleityeu* blaen gwryaf.
Cynddelw: M.A. i. 257 (cf. 215, 216, 219, 220).

Gyrai ddoe, agwrdd ddial,
Gwaew 'n fil o ddellt gan *flaidd* Ial.
Tudur Aled: Md. Tudur Llwyd.

Blaidd, *pl.* bleiddiau, *sm.* [cf. Ga. *blàith*] the look, visage, or aspect; the part of the face that is without hair, or bare.—*P.*

Teneu fy llen i mi nid llonydd
Llwyd yw fy *mlaidd* ni'm traidd Gwenddydd.
Myrddin: M.A. i. 136 (cf. A.B. ii. 25).

Blanc, *pl.* blainc, *sm.* a young horse, a colt: also spelled *planc.*

Gwn y caf blaen-rwyddaf *blanc*
Gan Owain, eur-gnyw ieuanc,
March ar ol ei bedoli,
Mawr ei naid, yn fy marn i.—*Llawdden*, i Farch.

Blas, *pl.* blasau, bleision, *sm.* [Br. *blaz;* Ir. and Ga. *blas*] the sense of taste; taste; tasting; relish; flavour; gust.

Bu truan dynghetven anghen gywir
A dyngwt y Dutvwlch a Chyvwlch Hir
Ket yvein ved gloyw wrth leu [*al.* liw] babir
Ket vei da e *vlas* y gas bu hir.—*Aneurin:* God. 136.

Dial *blas* aval blys Eva.
Cynddelw: M.A. i. 250 (cf. 213, 471).

A'i *flas* ydoedd fel *blas* olew ir.—*Num.* xi. 8.

Clywed blas, to perceive a taste; to taste; to relish.

Cael blas ar, to relish; to have a taste of; to like the taste of; to get fond of.

Gwrgi Garwlwyd, ac efe wedi *cael blas ar* gig dynion.
Trioedd: M.A. ii. 65.

Nid oes arno flas yn y byd, it has no taste whatever.

Y mae blas y faril arno, it tastes of the barrel.

Blasaidd, *a.* having some relish, taste, or flavour.

Blasäu, *v.*=*Blasio, Blasu.*

Os colles teyrn ei deyrnedd,
Geill yn glau *flasäu* y wledd.
W. O. Pughe: Bardd, ii. 3 (cf. C.G. v. 9).

Blasber, *a.* having a sweet, agreeable, or relishing taste; sweet-flavoured; relishable; savoury; sweet; delicious.

Brywlais ab Ceraint a fu frenin da, a bardd peraidd, a chantor *blasber.—Iolo Mss.* 6.

A *blasber* ganiadaeth y byddant felly.
Cyfrinach y Beirdd, 71.

Blaseiddio, *v.* to give a taste or relish to; to relish.

Hyn a fydd yn y gerdd ar gyffelybiaeth halen gyda bwyd; sef a'i gwna 'n flasus a diddan: fal pei dyfalu'r gwanwyn, dyger yn y gerdd son a myfyrdod am serch a serchogrwydd; neu am ryw beth arall diddan i'r galon; a hyn a bair awchlymu'r gerdd, a'i *blaseiddio.*
Cyfrinach y Beirdd, 39.

Blasiad, -au, *sm.* a tasting; a relishing.

Blasio, } *v.* to taste; to relish; to like the
Blasu, } taste of.

A phedwar a *flasaf* a phump a welaf.
Taliesin: M.A. i. 25.

Y grasusau nefol ydyw'r archwaeth trwy ba un y mae'r enaid yn profi ac yn *blasio* ei nefoedd, yr offerynau bendigaid a'r synwyrau trwy ba rai y mae hi yn teimlo ac yn amgyffred llawenydd y byd a ddaw, ac heb ba rai nis gall mo'u *blasio* na'u mwynhau hwynt.
Ios. Tomas: Buch. Grist. 269.

Nid hawdd fyddai ynnill ar Gymry 'r oes hon i *flasu* 'r ffordd honno ag a fu yn oesoedd Taliesin.
Dafydd Nicolas (Y Taliesin, i. 93).

Ac yna y dechreuem deimlo a *blasu* eu hyfrydwch hwynt.
Ios. Tomas: Buch. Grist. 159.

Fel y darfu i'r Creawdwr ein cynnysgaeddu ni â llygaid a chlustiau i weled a chlywed; felly hefyd â gallu i archwaethu a *blasu* bwyd a diod.—*D. Lewys:* Golwg, iv. 68.

Nid oedd yn blasio ar hyny, he did not relish or like that.

Blaslyn, -au, -oedd, *sm.* a seasoning liquid, a sauce.

Trethi ar bob peth sydd yn myned i'r geneu . . . trethi ar y *blaslyn* sydd yn mwythuso chwant dyn, a'r cyfferi sydd yn ei edfryd i iechyd.—*Robert Owen:* Gweith. 301.

Blasus, *a.* 1. well-tasted, tasteful, relishing, relishable; savoury; agreeable to the taste.

Mi a'u gwnaf hwynt yn fwyd *blasus* i'th dad.
Gen. xxvii. 9 (cf. 14, 31; Iob xxxiii. 20).

Lle cânt ddiod genyt, Ion,
O *flasus* afon hyfryd.—*Edm. Prys:* Salm. xxxvi. 8.

2. (fig.) tasteful, relishing.

A dylid *blasus* ddyfalu wrth hyn o fawl.
Cyfrinach y Beirdd, 37.

Blasusber, *a.* relishable and savoury.

A phob miodfwyd *blasusber*, a phob ffrwythau coed.
Iolo Mss. 160.

Blasusfwyd, -au, -ydd, *sm.* savoury or relishing food.—*Gen.* xxvii. 4, 7.

Blasuso, *v.* to make tasteful, relishable, or savoury; to give a relish to.

Blasusrwydd, *sm.* tastefulness, savouriness.

Blattys, *s.* blades, arms?

Ar hynny nachaf ysgwier yn dyuot. a *blattys* ganthaw. ac yn govyn yr marchawc pa delw ydoed.—*St. Greal*, § 17.

Blaw, -on, *sm.* effusion; a cry; the flooding of the sea.

Mor gain ddi gwyn y gwena bore ffraw,
Ac awel dawel *flaw* a flodda.
W. O. Pughe: Bardd, ii. 2.

Blawd, *pl.* blodion, *sm.* [C. *blot;* Br. *bleud, bled;* Ga. *bleith*, vb.; O.F. *bled*, now *blé;* L.L. *bladum*] meal; grist.

Beth yssyd yny boly hwnn heb ef wrth un or Gwydyl. *blawt* eneit heb ef.—*Mabinogion*, iii. 96.

Blawd mân yw'r pân ar bob pill,
Blawd wybr fal blodau Ebrill.—*D. ab Gwilym*, ccv. 19.

A fo â *blawd* a gaiff *flawd.—Iolo Mss.* 258.

Blawd haidd, } barley-meal.
Blawd barlys, }

Bwrw *blawd haidd* yn wyneb y berw.
Meddygon Myddfai, ii. 171.

Blawd ceirch, oat-meal.

Blawd llif, saw-dust.

Blawd durlif, particles rubbed off with a file, filings.

Gwnewch does o frwmstan, a haiarn yn *flawd durlif*, a dyferwch ddwfr oer arno, ac ym mhen oriau ef a dwyma, ac o'r diwedd a ennyn.—*Dafydd Lewys:* Golwg, xviii. 7.

Gwedyd fel un â blawd yn ei eneu, to speak like a person with meal in his mouth; to speak indistinctly or gutturally.

Blawd, *pl.* blodion, *sm.* and *cl.* [Ga. *blàth, blàith;* Germ. *blat*] 1. the bloom or blossom (of trees); blossoms.

Yn nen hoen blodeu *blawd* ysbaddad.
Hywel ab Einion Lygliw: M.A. i. 513 (cf. 194).

Dieu oed gantaw na welsei dremeint kyndecket a hi eiryoet ar arall. a henwisc o bali rwyllawc ymdanei a vuasei da gynt. yny welir y chnawt trwydaw. a gwynnach oed no *blawt* y krissant. y gwallt hitheu ae dwy ael duach oedynt nor muchud.—*Mabinogion*, i. 250.

Harddach buu fain na chyflen gain
Blawd o gylchon ar ddrain gwynion.
Rh. Goch ab Rhicert: Iolo Mss. 244 (cf. 241).

Blawd gwŷdd, the bloom or blossom of trees. Cf. *Afallflawd.*

O friallu blodeu bre o *flawd gwydd* a goddeu.
Taliesin: M.A. i. 30 (cf. 200).

2. (fig.) flower; the prime; the essence.

Blodeu kampeu kwymp Lloegrwaed
Blawd galar am gar gwreid.—*Casnodyn:* M.A. i. 425.

Blawda, *vn.*=*Blawta.*

Blawdach, *s.cl.* meal of an inferior sort; meal in small quantities.

I gael bwyd o'r 'Breuddwyd' brau,
A *blawdach* o'r baledau.—*Daniel Ddu*, 404.

Blawdaidd, *a.* mealy; dry and friable.

Blawdio, **Blawdo,** **Blawdu,** *v.* 1. to meal; to sprinkle with meal; to yield meal. 2. (fig.) to come in abundance.

Mae hi yn blawdo, it brings grist to the mill; fortune smiles.—*Gwent.*

Blawdiwr, **Blawdwr,** wyr, *sm.* a mealman; one that deals in meal.

Blawdlyd, *a.* mealy; dusty.

Blawdog, **Blawdiog,** *a.* mealy, farinaceous; mellow.

Blawdwraig, wragedd, *sf.* a woman who deals in meal.

Blawdd, *pl.* bloddion, *sm.* commotion, tumult, agitation; activity.

Ef *vlawt* kyfrieu ef vleityad yn dygyn
Ef kynnygyn kymynad.
Llyw. ab Llywelyn: M.A. i. 279 (cf. 291).

Blaidd blaengar *blawdd* trydar trais.
Einion Wan: M.A. i. 334 (cf. 433, 434).

Gwelynt *flawdd* yr helynt flin
O ffrawd mor anghyffredin.
W. O. Pughe: H.G. 62 (cf. 12).

Mewn cib tan gilfach serth wrth angor ar
Ol *blawdd* yr hin.—*W. O. Pughe:* C.G. ii. 292 (cf. i. 191).

Blawdd, *a.* active; swift; nimble; quick; ready; fleet; speedy; full of agitation or commotion; tumultuous. Cf. *aerflawdd, cadflawdd, cynflawdd, gorflawdd, hirflawdd, trablawdd.*

Tarw trin an vydin *blawdd*
Arbennic llu llid anhawdd.
Gwyddno: M.A. i. 166 (cf. 282, 433).

Llathr ben cun y dymuniant
A llath *blawdd* holl lwyth Bleddynt.
Dafydd y Coed: M.A. i. 493 (cf. 224).

Rhuthr blawdd, a quick onset or assault.

Ac Eolus a giliawdd,
Ar ethryb lwyr a'i *ruthr blawdd.*
Rhisiart Powel: Tymm. 6.

Blawmon, -iaid, *sm.*=*Blewmon, Blowmon.*

Blawn, *sm.* the fat or oily principle; unctious matter; fat; fatness; richness (as of soil).

A pha hwyaf a'i gadewir i fagu *blawn* dan do a thrafodaeth, goreu i gyd y bydd; a than goedydd a brig y bydd goreu y lle i wneuthur hyn, fal nas diffrwyther y *blawn* gan y tes; canys yn yr haf yr wybren a sugna y *blawn* o'r tail, ac yn y gauaf y tail a'r pridd a'i sugna o'r wybren; ac o gynnal cysgod â tho rhag y tes y ceir *blawn* yn yr haf, mal y gellir gweled o ddisgwyl ar y llwydni a geir yn yr haf dan y rhyw doi ag yw yr un a ddywedais; canys *blawn* yr wybren yw y llwydni hyny.
Cato Cymraeg (Y Greal, 203; cf. 202).

Efe a fwyhâ faeth llysiau, o herwydd y cymmaint o *flawn* sydd ynddo.—*Aneurin Owen:* Amaethyddiaeth, 35 (cf. 22).

Blawr, *sm.* [cf. Ga. *blàr*] 1. nitre; salts.

Y peth wyf yn feddwl yw, arfer rhy gyffredin pob triniwr tir o osodi tyrrau o galch ar ei faes, ac yno eu gadel hyd oni byddo y *blawr* i gyd wedi dianc.
W. O. Pughe: C.P. 4 (cf. 25).

Ewyn o ufeliar ac o *flawr* a geffynt.
W. O. Pughe: C.G. vi. 564 (cf. ii. 941; iv. 874).

2. grey colour, grey; an iron grey; hoar.

Blawr, *a.* grey; iron-grey; hoary, hoar.

Gawr aml a llafnawr ar *flawr* flaid.
Gwalchmai: M.A. i. 196 (cf. 212).

Yn nrws rhyd gwelais i wyr lledruddion
Eirf dillwng rhag *blawr* gofedon.
Taliesin: M.A. i. 52 (cf. 102).

A hebrwng eddestr blwng *blawr*,
Cain, addfwyn, teg, cynnyddfawr.—*Iolo Goch*, i Farch.

Mae i Niclas, dan ei blas *blawr*,
Wŷdd a phorthfa dda ffrwythfawr.
L. G. Cothi, iv. xviii. 17.

Gorwydd blawr, a grey steed.

Llawer *gorwyd blawr* yn Llanfawr llogawd
Llemenyc yn Ionawr.—*Cynddelw:* M.A. i. 212.

Blawrgoch, *a.* red with a tinge of grey; roan; red or bay intermixed with white or grey; russet.

Blawrio, *v.* to become grey; to grow hoary; to generate nitre.

Gwyddai y deuai dydd ar ol nos; ei bod hi eisoes yn dechreu *blawrio.*—*Cymru Fu*, 342.

Blawrwyn, *a.* of a whitish or light grey colour; greyish; hoary.

Yfwr, tablerwr *blawrwyn*,
Bwngler ar dabler yw'r dyn.—*Sion Phylip.*

Gwallt blawrwyn, hoary hair; grey hairs.

Blawrwyn, *sm.* whitish grey.

Blawta, *vn.* [blawd] to go about begging for meal; to collect meal.

Blawta a blonega, to ask for charities in meal and lard (a custom formerly observed in some parts of Wales on Shrove Tuesday).

Ble, -oedd, -on, *sm.* [Ir. *bla*] a plain, an open field; a field. Cf. *Aerfle*, a field of battle.

Eto hwynt, gan herwa dros y creulyd *fle*,
A sathru gan wên flong laddedig dras.
W. O. Pughe: Pal. 25.

Dilynent, gyrent i'w gŵydd,
Ac Israel mewn agosrwydd;
Yng nghroth Pi'hairoth, pau hon,
Ble is affwys Baalsephon.—*Pedr Fardd:* Mêl Awen, 161.

Enciliai ar naill law
Yn chwai man trymaf oedd y drin y dorf
Engylaidd, gan adawu helaeth *fle*,
Nad nawdd o wynt y cynhwrf hwn.
W. O. Pughe: C.G. vi. 338.

Ble, *adv.* [=*ba le* for *pa le;* generally written *b'le;* but the apostrophe may be conveniently omitted: cf. C. *ple*] where; where? in what place?

A dywedy di ymi y peth aovynnaf itt yr Duw. *ble* mae plant y gwr am llathrudawd yggordwy.
Mabinogion, ii. 199.

Bardd a ŵyr *ble* bwrai ddig,
Ble mae les bol melusig.—*Rhisiart ab Rhys Brydydd.*

Gwr ydych goreu adwaen;
Och! *ble* y ceir un o'ch blaen?—*Gro. Owain*, 45.

Mae'n dangos imi ffyrdd dy wir,
Drwy niwl dyffryndir angeu;
O ddilyn hwn, *ble* benna'r af,
Pob man a gaf yn oleu.
Iolo Morganwg: Salmau, I. xxiii. 2.

Bledd, *a.* [Ir. and Ga. *blàith*] 1. open, plain; exposed.—*P.* 2. smooth, plain.—*Llanover Ms.*

Bledd, -au, *sm.* ravage, spoil; devastation.

A phur goeth i'w phregethu
Gan engyl efengyl fu,
I fugeiliaid fai'n gwylio
Rhag *bledd*, ond rhyfedd y tro?
Pedr Fardd: Mêl Awen, 100.

I'r *bledd*, wrth drywedd drewawl
Dwyr bleiddiau hwyr heb ludd hawl.
Robert Owen: Gweith. 296.

Bleddwch, *sm.* [cf. *blaidd*] 1. what is open or exposed.—*P.*

2. smoothness, plainness.

Bleddwch, llyfnedd.—*Llanover Ms.*

Bleddychfa, -on, *sf.* the face, countenance, or visage.

Bleg, *s.* babble, murmur?

Alathr gynneddfau serch, a *bleg* arian-ddwr yn afonig eirian-ddol.—*Llanover Ms.*

Bleiddadwy, *a.* that can overrun; apt to depredate.—*P.*

Bletynt *bleitadwy* yn adwy yd las
Y dessid [lletessid] a vei hwy,
Mabolaeth uetuaeth uaccwy
Mab o oed ae hoed yn hwy.—*Cynddelw:* M.A. i. 255.

Bleiddaidd, *a.* wolfish; like a wolf.

Bleiddan, *sm.*=*Bleidd-dag.*—*Meddygon Myddfai*, 282.

Bleiddan, *sm.*=*Bleiddian, Bleiddyn.*

Bleiddast, eist, *sf.*=*Bleiddiast.*

Bleidd-dag, *sm.* wolf's bane (*Aconitum napellus*). Also called *llysiau y blaidd, bleiddlys,* and *bleiddan.*—*H. Davies:* Llysieuaeth Gymreig, 158, 210.

Bleidd-drem, *sm.* bugloss (*Lycopsis*).

Bleidd-drem culddail, small bugloss (*Lycopsis arvensis*).—*H. Davies:* Welsh Bot. 20, 158.

Bleiddes, **Bleiddies,** -au, *sf.* a she-wolf, a wolf-bitch.

Gwnaethpwyd y niwaid hwn iddo gan *fleiddes* hynodfawr. . . . Byddai yr helwyr yn gyffredin yn lladd y cenawon, eithr yr oedd hen *fleiddes* yn rhy gyfrwys i ddyfod o fewn cyrhaedd.—*Gwyliedydd*, ii. 329 (cf. 330).

Bleiddfar, *a.* ferocious as a wolf; wolf-like in ferocity.

Bleit glyw glewyd diwahart
Blaengar *bleituar* Bletynt Fardd.—*Cynddelw:* M.A. i. 255.

Bleiddfil, -od, **Bleiddarth,** eirth, arthod, *sm.* the wolverine.

Cerddediad y *bleiddfil* sydd araf iawn.
Gwyliedydd, ii. 358.

Bleiddgi, gwn, *sm.* a wolf-dog.

Is law hyn ronyn, prin y gwelsom ryw garchar-bwll arall tra thywyll; ac yno yr oedd pethau a fuasai yn ddynion, â wynebau fel penau *bleiddgwn*, hyd eu cegau mewn siglen.
Elis Wynn: Bardd Cwsg, 77.

Pan yrid rhai o'r *bleiddgwn* i'w flino, efe a'u tarfai yn ol gyda grymial digofus.—*Cylchgrawn*, i. 8 (cf. 10).

Bleiddgrwydr, -au, *sm.* the prowling of the wolf.

Bu gelyn Bryneich branes gyvuyrein
Bard goelvein beird gyvles
Bleidgruydyr bruydyr brydeu aches
Bryt yn arvot a dodes.—*Cynddelw:* M.A. i. 239.

Bleiddiad, iaid, *sm.* one that is like a wolf; a wolf.

Ac unmab Madawc enwawc Dudur hael
Hawl *bleitiad* lleitiad lluch ar ysgyr.
Owain Cyfeiliog: M.A. i. 265 (cf. 21, 87, 279, 449).

Bleiddian, **Bleiddan,** -od, *sm.* a young wolf; a wolf. Also a man's name, the equivalent of the Lat. *Lupus* (especially that of the Bishop of Troyes, who accompanied Garmon or Germanus from France to Britain in the 5th century).

Diwytaf i *fleiddan* ei gennad ei hunan.
Diareb. (M.A. iii. 154.)

Gwrgai fab Gwrien yn y Gogledd, a Chadafael fab Cynfedw yng Ngwynedd, a Hyfaidd Hir fab *Bleiddan* Sant ym Morganwg.—*Trioedd:* M.A. ii. 62.

Bleiddiast, ieist, **Bleiddast,** eist, *sf.* a wolf-bitch, a she-wolf.

Py rith y mae hi. yn rith *bleidast* heb ynteu.
Mabinogion, ii. 235.

Gan y blaidd a fo blasus, gan y *fleiddiast* fydd melus.
Selyf a Marcholff.

Bleiddiast Ffrainc, gan ainc dy fâr
A rwygi yn annhrugar
Drwch goludd dy gywely!—*W. O. Pughe:* Bardd, ii. 1.

Bleiddiawr, *a.* like a wolf; wolfish.

Pan arurwydyr arurys arlwy blys *bleityawr*
A gwaewawr uch gwregys.
Cynddelw: M.A. i. 259 (cf. 18).

Bleiddig, *a.* 1. having the nature or disposition of a wolf; wolf-like, wolfish; depredatory.

Na fydd *fleiddig* i'th dŷ a'th ymogor.—*Myv. Arch.* iii. 9.

Mae llu dirif ar duedd eich cyffinion . . .
Dinystriol, ar ein gwarthaf; corffol gewri
Cethin o bryd, ac o *fleiddicaf* ynni.
Nicander: Brennus, ii.

2. a man's name.—*M.A.* i. 85; ii. 17.

Bleiddigrwydd, *sm.* wolfishness.

Bleiddiost, *sf.* [corr. or local pronunciation of *bleiddiast*]=*Bleiddiast.*

O gwŷl hon di, gwilia di'n dost,
Hi floeddia fal y *fleiddiost.*—*Thomas Prys.*

Bleiddlys, *sm.* wolf's bane.—*Meddygon Myddfai*, 282.

Bleiddychfa, -on, *sf.* the face or countenance.

Bleiddyn, -od, *sm.* a wolf's cub, a young wolf.

Ffoes yn iyrchwyn ffoes yn *fleiddyn.*
Taliesin: M.A. i. 18.

Bleiddynedd, *sm.* a cadaverous aspect.—*P.*

Bleiniad, iaid, *sm.* [blaen] 1.=*Blaeniad.* 2. An ear of corn.

Bleinied, *v.* [=blaenu] to go before; to precede; to lead.

Bleision, *s.pl.* [blas] spices, odoriferous herbs.—*Meddygon Myddfai*, 289.

Blerwm, ymiaid, *sm.* 1. a jocularly rude person; a rude person of a jocular disposition; a blatterer.—*Gwent.*

Twm Sion Twm, y cidwm cas,
Twm Sion Twm, *blerwm* heb les.—*Gronwy Owain*, 127.

2. the noise produced by pressing down the lower lip with the finger, and then letting it suddenly regain its position.

Y rhain a ddoeth heb law y man yr ydoedd Daliesin yn erwiciaw mewn cornel, yr hwn a estynodd ei wefl yn eu ol wynt ac ai fys y chwarei *blerwm blerwm* ar ei wefl, ar y neb ni ddaliassant wy fawr sulw wrth fyned heibio . . . heb ddywedyd un gair ou pennau onid estyn eu gweflau a mingammu y brenin drwy chware *blerwm blerwm* a'u byssedd ar eu gweflau.—*Mabinogion*, iii. 337 (cf. 340).

Bleurwg, *sm.* apparently a corr. of *Lleurwg*, a man's name (*M.A.* ii. 63, 68); for the plant named *llysiau y Bleurwg* in some works is in others called *llysiau Lleurwg.*

Llysiau y Bleurwg, common centaury (*Chironia centaurium*).—*H. Davies:* Welsh Bot. 210.

Cais sudd ystol Fair, rhai a'i galwant *llysiau Lleurwg*, a sudd llysiau'r wennol; a berw yng nghyd, ac ira dy lygaid.—*Meddygon Myddfai*, ii. 542.

The more usual names of the plant are: *ysgol* or *ystol Fair*, *ysgol Crist*, *canrif* or *canri goch*, and *bustl y ddaiar*. *Lleurwg* is formed from *lleuer* (q.d. *Lleuerwg*), just as its Lat. equivalent *Lucius* comes from *lux*.

Blew, *sm.* and *pl.* [C. *bleu*, *blew;* Br. *bleô:* cf. Ir. *clumh;* Ga. *clùimh*] 1. hair (in general); hairs; fur. The hair of the human head is generally called *gwallt;* and the coarse long hair of tails and manes of certain animals is *rhawn* (sg. *rhawnyn*).

Ystarnde winev birr y *blev*
Ruit ygniw rygig otew.
Llyfr Du: A.B. ii. 43 (cf. M.A. i. 576).

A briwaw yndaw *blew* dwy vron ysgyuarnoc.
Meddygon Myddfai, i. 61.

Nys attebawd Chyarlys. namyn ymodi *blew* y uaryf lwyt oed arhyt y dwyuron.
Yst. de Carolo Magno, col. 462 (cf. 490).

Lle ymgreinio y march y gedy beth o'i *flew*.
Diareb. (M.A. iii. 163.)

Blew pen (=gwallt), the hair of the head.

Ellied y Nazaread wrth ddrws pabell y cyfarfod ben ei Nazareaeth; a chymmered *flew pen* ei Nazareaeth, a rhodded ar y tân.—*Num.* vi. 18.

Sachlen flew, sackcloth of hair; hair-cloth.—*Dad.* vi. 12.

Blew geifr, 1. goats' hair. 2. mare's tail (the clouds so called).—*N.W.*

Yng ngwrthwyneb y blew, against the hair; against the grain.

2. sometimes, but rarely, used of the prickles or spines of the hedgehog.

Beth wneir â lloc heb ddefaid?
Beth wneir â chath heb lygaid?
Beth wneir â phladur ar y rhew?
Beth wneir â *blew* draenogiaid?—*Llanover Ms.* 65.

Blewach (*S.W.*), **Blewiach** (*N.W.*), *s.pl.* small, soft, or tender hairs; down; thin hair.

Blewaidd, *a.* like or resembling hair; hairy.

Blewborthedig, *a.* [blew+porthi] bearing or having hair; haired; hairy.

Nom ir *bleuporthetic* (*gl.* lanigerae templa).
Oxford Gloss. ii. 38 (Zeuss, G.C. 1055).

Blewcen, -od, *sf.* [blew+-cen]=*Blewcyn*, *m.*—*S.W.*

Blewcyn, -od, *sm.* [blew+-cyn] a hairy little fellow; a small rough-haired person.—*S.W.*

Blewdyn, *sm.* [blawd] a grain or particle of meal.

Blewddu, -on, *a.* black- or dark-haired.

Blaidd o gi *blewddu* a gaf,
Bleiddiau â'r mab a laddaf.
Hywel ab Rheinallt: G.B.C. 166.

Blewgeirch (*sg.* -yn, *m.;* -en, *f.*), *sm.* and *pl.* bristle-pointed oat (*Avena strigosa*).—*H. Davies:* Welsh Bot. 12, 158.

Cerch byr a dyf yn oreu ar wyndwn; cerch hir, cerch melyn, a cherch gwyn cynnar, sydd addas i sofl; cerch ungrib mewn lle gwael, a *blewgeirch* ar leoedd uchel.
Aneurin Owen: Amaethyddiaeth, 25.

Blewgoch, -ion, *a.* having red hair; red-haired.—*C.S.*

Blewgrych, *a.* curly-haired.

Blewhadog, -ion, *sm.* comosperma.

Yr ail yw y *blewhadog*, planigyn had-flewog o Holand Newydd.—*Addysg Chambers*, i. 98.

Blewiach, *s.pl.*=*Blewach.*

Blewio, *v.* to grow to hair; to become hair.

Blewlys, *sm.*=*Blewog*, *sf.*

Gabsus, y flewog, *blewlys*, blewynog.
Meddygon Myddfai, 285.

Blewmon, Blowmon, Blawmon, Blowman, -iaid, *sm.* [from *Blemmyae*, *Blemyae*, *Blemyi*, or *Blemyes* (Βλέμυες), a people of Ethiopia, mentioned by classical writers; and hence, like *negro*, the name was extended to all black or dark-coloured races. O.E. *bleoman*, *bloaman*, *blamon*, *bloman*, *blooman;* later *blueman*. The Welsh forms may have been adopted direct from the English] an Ethiopian; a black man, a blackamoor, a negro.

A gwedy eu mynet heibyaw. arganuot aoruc un tebic y *vlawmon* yn eu kanlyn yn llibin.
Yst. de Carolo Magno, col. 495.

Un tebic y *vlewmon* yn eu canlyn yn llibin.
Campau Charlymaen, § 119.

A gwedy daruot idi eulenwi y vann honno or byt oe dewindabaetheu. odyno hy a aeth hyt yn Ethyopia gwlat y *blewmonyeit* [*al.* blomonyeit].—*Prophwydoliaeth Sibli*, § 1.

Cydwr fry coedieir y fron,
Cwbl o ammod, cyw *blowmon*.—*D. ab Gwilym*, cx. 5.

Euryches yn oer ochain,
Blowman du â'i blu mewn drain.
Dafydd ab Gwilym, lxxxiv. 54.

Yr hyn sydd er cywilydd i lawer o fingamiaid coegfalch yr oes hon, y rhai, ysywaeth, y sydd hoffach ganddynt *flewmon* o'r Ethiopa na'u cenedl a'u hiaith eu hunain.
Ystori y Llong Foel.

Blwydd a mwy yw bleiddiau Mon,
Blowmoniaid boliau meinion.—*Guto'r Glyn*, i Gwn.

Ebrwydd ânt y bore ddydd,
Flowmoniad, i fol mynydd.—*Sion Brwynog*, i Fytheuaid.

Brau oddaith hir, brath a hwrdd,
Blowmon mewn blew a ymwrdd.
Sion ab Hywel ab Llywelyn, i Darw.

Tân o'i garn tano a gaid,
Taflu main at *flowmoniaid*.—*Tudur Aled*, i Farch.

Y Siaspar hwn oedd Ethiopus, â lliw du, megys *blowman*.
Cydymaith Diddan, 12.

Yng nghylch tri ar gloch boreu dydd Sabbath diweddaf, cynnifer ag oedd yn y caban a ddychrynwyd yn erchyll gan floeddiadau'r *blewmoniaid*.
Trysorfa Gwybodaeth (1770), 37.

Blowmon, ar fedr prynu pysgodyn, a ymwelodd â man lle yr oedd amryw o honynt ar werth.—*Lleuad yr Oes*, ii. 63.

Y mae yr Iuddew, y Mahometan, y *Blowmon* anghred, yn dyfod tan gysgod ac achles rhyddid, gan gynted y sango dir Prydain.—*G. Mechain:* Gwaith, ii. 6.

Blewmones, Blowmones, -au, *sf.* a female black, a black woman, a negress.

Berw mae'n dew, bwrn a dywallt,
Bol, mae'n sarn, *blowmones* hallt.—*Iolo Goch*, i'r Llong.

Blewog, *a.* [blew] hairy; abounding with hair; haired; shaggy.

Wele Esau fy mrawd yn wr *blewog*, a minnau yn wr llyfn.—*Gen.* xxvii. 11 (cf. xxv. 25).

Blewog, *sf.* great mullein, high taper, white mullein (*Verbascum thapsus*).—*H. Davies:* Welsh Bot. 23, 158.

Blewogi, *v.* to become or grow hairy.

Blewogrwydd, *sm.* hairiness.

Blewtyn, *sm.* [blew+-tyn] a single hair, a hair.—*D.*

Blewyn, *pl.* blew, blewynau, *sm.* 1. a hair, a single hair.

Onys dialaf ynheu ef na chynnellwch vi o werth vn *blewyn*.—*Yst. de Carolo Magno*, col. 448.

Nid trymach y *blewyn* llwyd no'r gwyn.
Diareb. (M.A. iii. 171.)

O *flewyn* i *flewyn* ydd ä y pen yn foel.
Diareb. (M.A. iii. 157.)

Blewynau, hairs.

At drwch y blewyn, } to a hair-breadth; with
I drwch y blewyn, } great nicety.

I'r blewyn, } to a hair-breadth; very exactly.
At y blewyn, } —*Barn.* xx. 16.

2. a blade of grass, hay, or straw.

Ny chrymei vlaen *blewyn* ydanaw rac yscawnet tuth y gorwyd.—*Mabinogion*, ii. 201.

Yn ceisiaw y *blewyn* glas y boddodd y gaseg.
Diareb. (M.A. iii. 178.)

Ni waeth genyf flewyn (*o flewyn, un blewyn*), I care not a straw.

Nid wyf yn ei brisio i flewyn, } I would not
Ni phrisiaf flewyn am dano, } give a straw for him (or it).

Hollti'r blewyn yn bedwar ar ddeg, to split a straw into fourteen; to tell a lie.

Nid wyf yn malio blewyn am dani, I care not a straw for her.

Blewyn melyn main, a yellow thin hair.—*Lef.* xiii. 30.

Blewynau glaswellt, } blades of grass.
Blewynau o laswellt, }

Cynnifer mil o flynyddoedd ag yw rhifedi tywod y môr, neu'r *blewynau glaswellt* ar y ddaiar.
Dr. J. Davies: Llyfr y Res. i. ix. 19.

Blewyna, *v.* to pick up a blade (of grass) here and there; to pick up; to glean.

Yr oedd yng nglŷn â Nant y Dderwen saith ugain cyfair o ddaiar, rhwng y gwaelod lle y porai tair neu bedair o wartheg blithion, a'r ucheldir mwy eang, ar yr hwn y *blewynai* deadell o ddefaid.—*Traethodydd*, xxxii. 468.

Blewynog, *sf.* mouse-ear hawkweed (*Hieracium pilosella*).—*H. Davies:* Welsh Bot. 74, 158.

Blewynu, *v.* to spring up as a blade; to begin to grow as hair.

Mae ei ên yn dechreu blewynu, hair begins to appear on his chin.—*Gwent.*

Bliant, aint, *sm.* [O.E. *blihant, blehand, bleaunt, bleeaunt;* O.Fr. *bliaut, bliad, blialt;* L.L. *bliaudus, blialdus, blisaudus;* Sp. and Pg. *brial;* M.L.G. *bliant, blyant;* M.H.G. *blîalt, blîat.* Considered to be of uncertain origin; Du Cange refers it to the W. *bliand* [bliant]; others connect it with the W. *lliain;* but it is not likely to be from a Celtic source; though it occurs in Welsh upwards of a century earlier than any recorded example in English. Cf. Du Cange, s.v. *Bliaudus;* Diez, s.v. *Bliaut;* Mätzner, s.v. *Bliant; Dict. Phil. Soc.* s.v. *Bleaunt*] fine linen, as cambric or lawn.

A gwiw oed y Arthur dahet ygwely awnaeth y uorwyn idaw. o ysgarlat a gra a phali a syndal a *bliant*.
Mabinogion, i. 16.

O borfor o bryffwn *uliant*
O bai ac eur ac aryant.
Llyw. ab Llywelyn: M.A. i. 300 (cf. 303, 392).

Blaen neidr o'i blu yn edrych,
Bliant yn dwyn trichant drych.
Deio ab Ieuan Du: G.B.C. 187.

Cysgu ar blu neu *bliant*
A llenau cylchedau cant.—*Iolo Goch*, i Esgob Llanelwy.

A phan oero, bwrw ynddo'r arian byw, a chymmysg ef nes bo gyn wyned a'r *bliant*.—*Meddygon Myddfai*, ii. 331.

Pa ham y darperid gwisgoedd gwerthfawrocach na symmudliw, tlysach na *bliaint*, ac o decach disgleirdeb na melfed?—*Myfyrdodau Hervey*, 151 (cf. 124, 434).

Gwisg o fliant, a dress of fine linen.

A chyfrwy y mul aoed o asgwrn moruil. ae ffrwyn o eur. a gwisc o *vliant* ymdanei.—*St. Greal*, § 230 (cf. 166).

Lliain bwyd o fliant, a table-cloth of fine linen.

A dodi bwrd aryant goreureit rac y vronn. a *bliant* melyn yn lliein arnaw.—*Mabinogion*, i. 15 (cf. 5).

Tywel o fliant, a towel of fine linen.

A chymryt *twel o vliant* gwyn ae dodi am vynwgl Owein.
Mabinogion, i. 17.

A thynnu gobennydyeu amhyl a thudedeu or *bliant* coch udunt. . . Ac ar hynny nachaf gawgeu aryant a dwfyr y ymolchi yndunt a *thyweleu* o *vliant* gwyrd. arei gwynnyon.
Mabinogion, i. 4.

Pais fliant, } a coat or dress of fine linen.
Pais o fliant, }

Digawn vyd itt o arueu. *peis o vliant* teneu ymdanat.
Mabinogion, i. 259.

Bliennig, *a.* [bliant] made of fine linen; fine as lawn or cambric.

A brig *bliennig* blaenwyn.—*Cywydd i'r Draenllwyn.*

Blif, -iau, *sm.* a military engine formerly used for throwing stones or other projectiles; a catapult; a ballista.

A gwedy gossot peiryanneu o *vlivieu* a magneleu yngkylch y gaer. ymlad awnaethant yn wrawl ar kastell.
Amlyn ac Amig, col. 1114.

Ar seithuet mis wedy dyrchauel pyrryereu. a magneleu a *bliuieu*. ac amryw peiranneu ereill.
Ystoria de Carolo Magno, col. 389.

Ac ymlad a chastell Aber Hodni vis a wnaeth gyt a *blifieu* a magneleu.—*Brut y Tywysogion*, 320 (cf. 238, 252).

Curaist â *blif*, ddylif ddelw,
Cerrig Caer Ferwig fur-welw.—*Iolo Goch*, i Edward III.

Blif Gwenwys a'i balf genyd.—*Owain ab Llywelyn Moel.*

Hi a daflai o'i deu-flaen
Ergyd *blif* ar goed o'i blaen.—*Tudur Aled*, i Fwa.

Rhai palant wythi cudd . . .
O fwn a maen, y fferant o ba rai
Eu hoffer ac eu *blifion* o sarhâd
Ergydiawl.—*W. Owen Pughe:* C.G. vi. 568 (cf. ii. 978).

Maen blif, a stone or ball projected from a catapult.

Yn *faen blif* y'th gyfrifais,
Un o wns hen Einion Sais.—*Hywel Swrdwal.*

Blifai, eion, *sm.* a projectile.—*P.*

Blifaidd, } *a.* very fleet, swift, fast, or rapid.
Bliwaidd, }

Hil eryr hael eryrod,
Flifaidd, nid gwladaidd ei glod.—*Iolo Goch.*

Hobelu awel a gwynt *bliwaidd*.
Rhisiart Iorwerth, i'r Gauaf.

Mae hynt flifaidd arno yn awr, he is now on some hasty journey.—*Gwent.*

Blifant, aint, *sm.* a projectile.—*P.*

Blifio, *v.* to project from an engine; to hurl.

Blifiol, } *a.* having a projectile force; impelling
Blifol, } or impelled forward; projectile.

Blifolion, projectiles, missiles.

Blifiwr, wyr, }
Blifwr, wyr, } *sm.* one who works a catapult;
Blifydd, -ion, } an artillery-man.

Blifwrn, yrnau, *sm.* a projectile.

Blifwrn, peth a ffy yn fuan iawn, neu yn flifaidd.
Iolo Glossary.

Blifyn, -au, *sm.* a projectile, a missile; a ball.

Blifflys, *sm.* [=bliflys]=*Bliwlys ?*

O bydd pas arnat, cymmer fflwr marchalan mewn mêl, a da yw: cymmer hefyd y *blifflys:* cymmer hefyd ddwfr newydd godi o ffynnon.—*Llanover Ms.* 4.

Blig, *s.* [?]

Llwynïos . . . fflorion . . . bloteuaeth *blig*-faes Mai, a ffridd a gallt gellïos-dwf.—*Llanover Ms.* 4.

Bling, -ion, *sm.* a flaying; an excoriation.

Blingad, } -au, *sm.* a flaying, a skinning; ex-
Blingiad, } coriation.

Blingedydd, -ion, *sm.* a flayer.

Blingfa, -oedd, *sf.* a spunging-house.

Geoldy ceispwl, y *flingfa*, y bilfa.—*Walters.*

Blingo, *v.* to flay, to skin; to excoriate.

Ac erchi i Arthur ehun *blingiaw* i varyf.
Brut Gr. ab Arthur: M.A. ii. 337 (cf. 159).

Ac wrth *ulingaw* yr hyd. allithyaw y gwn ef auu yny wascawd ynos arnaw.—*Mabinogion*, iii. 207.

Mawrth a ladd, Ebrill a *fling.—Diareb.* (M.A. iii. 164.)

Mi a baraf dy *vlingaw* ath losgi. ony rody ym y mab.
Bown o Hamtwn, § 6.

A gath a fo da ei chroen a *flingir.*
Diareb. (M.A. iii. 178.)

Pe'm blingid, if I were flayed (alive); for my life.

Nis gwn, *pe'm blingid*, pa un waethaf ai gormod gofal, ai gormod diofalwch.—*Gro. Owain*, 182 (cf. 183).

Blingo'r garreg, to skin a flint.

Blingog, *a.* flaying, skinning; excoriated.

A'i ystlys gleisiog, a fflengyll *blingog*,
Erchyll agenog, gwân briwedig.—*I. B. Hir:* Gwaith, 27.

Blingol, *a.* flaying, excoriating.

Blingwr, wyr, } *sm.* a flayer, a skinner.
Blingydd, -ion, }

Blingwr y garreg, } a skinflint; a very nig-
Blingedydd y garreg, } gardly person.

Blin, *a.* [Br. *blin:* cf. *blin*, pl. *blinion*, in the Luxemburg Glosses: Zeuss, G.C. 1064] 1. weary, tired, fatigued.

Erchis Emreis gladu y gwyr lladedic a gwneuthur medeginyaeth wrth y rei brathedic. a gorffywys y rei *blin* ludedic.—*Brut Gr. ab Arthur* (B): M.A. ii. 272.

Ac yn ol llef y corn. llyma hyd *blin* yn mynet heibyaw.
Mabinogion, iii. 267.

Gwalchmei ae kymerth ac agerdawd racdaw yn *vlin* ac yn drauaelus.—*St. Greal*, § 106.

Blin gan y daith, weary of the journey.

2. tiresome, wearisome, wearying; vexatious; troublesome; molesting; turbulent; painful; afflictive; tedious.

Ygkyfrwg hynny y teruynawd y vlwydyn yn *vlin* ac yn atcas y gan bawp.—*Brut y Tywysogion*, 140.

Blaenawr yr holl rai *blinion.—Gro. Owain*, 75.

Dyn blin, a turbulent or vexatious man; a person of a bad, restless disposition or temper.

Dyddiau blin, } evil days; days of trouble
Dyddiau blinion, } or vexation.—*Preg.* xii. 1.

Nosweithiau blinion (*sg.* noswaith flin), wearisome nights.—*Iob* vii. 3.

Blincwra, *sm.* a pimple; a blister, a weal.

Blinder, -au, -on, -oedd, *sm.* 1. fatigue; weariness, tiredness, lassitude.

Ie heb yr Arthur ewch y ymdiarchenu. achymerwch ych bwyt. a byrrywch awch *blinder* y arnawch.
Mabinogion ii. 29 (cf. 41).

A thrwy dy nerth di . . . y diodefeis anneiryf o dyrnodeu. a bonclusteu. a chwympeu. a gwelioed. a chellweir. a gwaradwyd. a *blinder*. ac oeruel.—*Campau Charlymaen*, § 112.

2. trouble, vexation, tribulation, adversity, affliction, molestation.

Ny wydyat ef adel dros gof y *blinder* agafas yny gaffei y dial.—*St. Greal*, § 254.

Blin yw caru yma ac acw,
Blin bod heb y *blinder* hwnw;
Ond o'r *blinderau*, blinaf *blinder*,
Cur annifyr, caru'n ofer.—*Pennill.*

Yngan wrth hon, hoew-ne hinon,
Maint *blinderon* a briw calon.
Rhys Goch ab Rhicert: Iolo Mss. 247.

Dios yw gwell dewis hon
Na dyrys ffordd *blinderon.*
Iolo Morganwg: Salmau, 1. 226.

Ni ddylem ni farnu na meddwl o'r cyfryw *flinderoedd* yn ol meddwl ac ewyllys diawl.
Huw Lewys: Perl mewn Adfyd, 25.

Blinderog, *a.* wearied, tired, weary; afflicted; troubled, vexed; wearisome; tedious.

Deuwch ataf fi, bawb a'r y sydd yn *flinderog* ac yn llwythog.
Matt. xi. 28.

Blinderogrwydd, *sm.* tiredness; wearisomeness; troublesomeness.

Blinderol, *a.* causing trouble or affliction; wearisome.

Gwaith Atropos 'sgeler, gelynes pob mwynder,
A dorodd, er trymder *blinderol*,
Glân gywrain edafedd, mwyneidd-dra peuros-wedd,
Ac urddas a rhinwedd gwobrwyol.
Tomas Wiliam Hywel.

Blinderus, *a.* tired, weary; tiresome, troublesome; tedious.

Blinderusrwydd, *sm.* tiredness, wearisomeness.

Blinedd, *sm.* fatigue; weariness; trouble.

Mawr gofal dyn mewn *blinedd.*
Englynion Eiry Mynydd: M.A. i. 544.

Blinfyd, -au, *sm.* tribulation, trouble, adversity.

Y rhai yr ŷm ni yn eu gwneuthur ger dy fron yn ein holl drallod a'n *blinfyd.—Ll. G. Gyffredin* (Litani).

Ac yn ol y *blinfyd* hwn y cawn feddiannu didranc fendith.
Edw. James: Hom. i. 12.

Nid yw ddigon i ni wybod fod pob bath ar *flinfyd* yn dyfod drwy amynedd a dioddefiad Duw.
Huw Lewys: Perl m. Adfyd, 20.

Blinhau, *v.* to tire or weary; to trouble, to vex.

Drwy yr hwn y byd ydys yn ei drallodi, breiniaethau yn eu *blinhau*, tywysogion yn eu gorestwng.
Marchog Crwydrad, i. 2 (cf. ii. 2).

Trem wylaw trwm a welir
Trwy *flinhau* Tref Alun hir.
Sion Tudur: Md. Sion Trefor.

Blino, *va.* 1. to tire, weary, or fatigue; to trouble, vex, worry, or molest.

Ai bychan genych *flino* dynion, oni *flinoch* hefyd fy Nuw?
Esa. vii. 13.

2. *vn.* to tire; to become weary, fatigued, or tired.

Clot bychan hagen ac etmyc yw ytt oruot y marchawc ludedic gwedy *blinaw* yn ymlad.—*Mabinogion*, i. 259.

Blino ar, to be weary or tired of.

Blinais ar fy einioes, I am weary of my life.—*Gen.* xxvii. 46 (cf. Iob x. 1).

Blinais ar afonydd Babel.
W. Williams: Hymnau, ccxlviii. 3.

Ni *flinwn* i byth bythoedd *arno.—Gronwy Owain*, 258.

Blinaw o=*Blino ar.*

Gwedy darffo udunt *blynaw o* engyryawl a gyrat ymlad wynt a syrthyant.
Brut Gr. ab Arthur: M.A. ii. 169 (cf. 227).

Gwedy eu damgylchynu o Wrtheuyr ac eu *blinaw o* peunydyawl ymlad mal na ellynt ydiodef.
Brut Gr. ab Arthur (B): M.A. ii. 252.

Blinwr, wyr, } *sm.* one who wearies or
Blinydd, -ion, } tires; a vexer, a disturber,
Blinedydd, -ion, } a troubler, a molester.

Blisg, -au, *s.cl.* and *pl.* [=plisg] husks; shells; husk. More usually *plisg* (sg. *plisgyn*).

Blisgad, **Blisgiad**, -au, *sm.* a husking; a shelling; a taking off husk or shells.

Blisgo, *v.* to husk; to shell; to peel off.

Blisgyn, *pl.* blisg, *sm.* a husk; a shell; peel.

Kyn dewhet ac ewin amaeth a amaetho seith mlyned neu a *blisgyn* wy gwyd.—*Cyfreithiau Cymru*, i. 346.

Arwydd serch, gloew-serch o'r glyn,
Abl yw ysgwthr y *blisgyn*.—*Llawdden*, i Gneuen.

Blisgyn wy (*pl.* blisg wyau), an egg-shell.

Blisgyn cneuen (*pl.* blisg cnau), a nut-shell.

Blisgyn ar dafod, a ligature on the tongue; an impediment in speech.

Y mae blisgyn ar eich tafod, you are tongue-tied; you have an impediment of speech; you lisp.

Y mae *blisgyn* ar eich tafod. Ni thâl eich ateb welltyn.
Robert Llwyd: Llwybr Hyff. 285.

Blith, -ion, *sm.* [Ir. *bleachd*, *bliocht*; Ga. *bliochd*; Mx. *blicht*] 1. milk; milk (regarded as a produce); the dairy.

A'i *blith* a'i gwenith ar goedd,
Yn doraeth i'r pell diroedd.—*D. ab Gwilym*, cclx. 53.

A braint yw i feirdd drefnu ynddynt, ac ynddynt cael rhoddion o'r tair ced gyferddawn; sef yw y rhai hyny, yd, a *blith*, a mêl.—*Barddas*, ii. 84.

A buarth teg yn llawn gwartheg
Aml iawn eu *blith* ym mhob cyfrith . . .
Pob hanas *blith;* haidd a gwenith.
Rhys Goch ab Rhicert: Iolo Mss. 234.

Trin blith, to manage milk or the dairy.

Diod o flith anifeiliaid, drink of the milk of animals.

Llawer o flith, much milk; a large dairy.

2. (fig.) what brings profit; produce.

Blith, -ion, *a.* 1. milch, giving milk.

Anllad ruad i'w riain
A wna'n *flith* ei nith a'i nain.—*Ieuan Tew*, i Darw.

Gwartheg blithion, *Buchod blithion*, *Da blithion*, (*sg.* buwch flith), milch cows.

Yn y fuel honno ugain mil ac un yn *wartheg blithion*.
Trioedd: M.A. ii. 70.

Ac o heni y cafwyd *gwartheg blithion* i'r holl fyd.
Iolo Mss. 85.

Gwnewch fen newydd, a chymmerwch ddwy *fuwch flith*.
1 *Sam.* vi. 7 (cf. 10).

Pales.—Duwies meirioni, neu areiliad *da blithion*.
W. O. Pughe: C.G. ix. 375 *n.*

Camelod blithion, milch camels.—*Gen.* xxxii. 15.

2. yielding profit; productive; genial.

I Dduw Isräel boed yn *flith*
Y fendith (Ior Goruchaf)
Yn oes oesoedd.—*Edm. Prys:* Salm. xli. 13.

Ti nen, tywallta dy neithdaraidd wlith,
Mewn gosteg araf hidla gawod *flith!*
Blackwell: Ceinion Alun, 152 (cf. 181).

Blithan, *sm.* [L. *blitum*, *blitus*; Gr. βλῖτον] blite (*Blitum*); or, perhaps, goosefoot (*Chenopodium bonus Henricus*). Cf. Prov. E. *blithran* (=*Potentilla anserina*)—*Meddygon Myddfai*, 283.

Blithdir, -oedd, *sm.* pasture land; a dairy farm.

Blithfwyd, -au, -ydd, *sm.* milk-diet.

Blithged, -au, *sf.* milk contribution; contribution from the produce of the dairy.

Tair aberthged gyffredin bardd: un yw *blithged;* a'r alban hefin ei rhoddi.—*Barddas*, ii. 54 (cf. 84).

Blithog, *a.* abounding with milk; milch; milky.

Da blithog, milch cows.

Bliw, **Bliwlys**, **Bliwyn**, *sm.* [=E. *blae* (=of a livid or pale-bluish colour), in *blae-berry* or *blea-berry?*] spurge olive (*Daphne mezereon*).—*Hugh Davies:* Welsh Bot. 38, 159.

Bliwaidd, *a.* [blif] = *Blifaidd*.

Blochas, -au, *sf.* [cf. *blwch*] a box.

Blochta, *sm.* curd (on whey); cream.

Blodau (*sg.* blodeuyn, blodyn, *m.*), *s.pl.* [blawd: C. *blodon;* Ir. *bladh*, *blaidhin*, *blath;* Ga. *blath*, *blaithin*] 1. flowers; blossoms; bloom, blossom.

Melynach oed y phenn no *blodeu* y banadyl.
Mabinogion, ii. 218.

Kywynnet a *blodeu* yr alaw.
Ystoria de Carolo Magno, col. 418.

Gwedy . . . daruot y vedydyaw. y deuth Belisent yn tegach no *blodeu* y ros.—*Campau Charlymaen*, § 69.

Blodau'r haf ar belydr haul.—*Bedo Phylip Bach.*

Diffrwyth fân *flodau*'r dyffryn
A dawl wag orfoledd dyn.—*Gro. Owain*, 61.

Blodau cyn Mai, goreu na bai.—*Diareb.* (M.A. iii. 149.)

Blodau ammor: cf. s.v. *Ammor*.

Blodau yr eira, snowdrop (*Galanthus nivalis*).

Blodau y brenin, peony (*Paeonia officinalis*).

Blodau y dydd (=llygaid y dydd), the daisy; daisies (*Bellis perennis*).

Blodau'r dydd, pan fônt yn dryfrith
Ar y ddôl o dan y man-wlith;
Megys gemau teg fe'u gwelir
Yn addurno gwisg y glasdir.—*O. Wynn Jones.*

Blodau Essyllt, lily.—*Meddygon Myddfai*, 287.

Blodau Gwydion, starwort.

Buboniwm, y serlys, serenllys, dail y tenewyn, *blodau Gwydion*.—*Meddygon Myddfai*, 282.

Blodau y frân, meadow lychnis, ragged Robin (*Lychnis flos cuculi*).

Blodau y fan, wood sanicle (*Sanicula Europaea*).—*Meddygon Myddfai*, 281.

Blodau y gog, *Blodau y gwcw*, cuckoo flower, meadow lady's smock (*Cardamine pratensis*).

Blodau y gwyddau bach, daffodil, asphodel (*Asphodelus*).—*Gwent.*

Blodau y gwynt, anemone, wind-flower (*Anemone*, *Anemone nemorosa*).

Blodau yr haul, 1. marigold.—*Meddygon Myddfai*, 286. 2. sun-flower, heliotrope, turnsole.—*Llysieuaeth Feddygol*, 16.

Blodau y fawnog, *Blodau y gors*, meadow lady's smock (=*Blodau y gog*).—*Cyfeiliog.*

Blodau yr hedydd, lark's spur (*Delphinium consolida*).—*Meddygon Myddfai*, 291.

Blodau Lluned, 1. the great white convolvulus. 2. the great garden lily.—*Iolo Glossary.*

Blodau Mihangel, calathian violet, marsh gentian (*Gentiana pneumonanthe*).

Blodau Mawrth, *Blodau mis Mawrth*, March flowers, asphodel, daffodil.—*Dyfed.*

Blodau y Pasc, Pasque flower (*Anemone pulsatilla*).

Blodau yr ymenyn, butter-cups, bulbous crowfoot (*Ranunculus bulbosus*).

Sul y Blodau,
Dydd Sul y Blodau, } Palm Sunday.

Y vlwydyn rac wyneb y doeth Gwilim Varscal o Iwerdon, a lluossogrwyd o varchogyon a phedyt gantaw . . . yr tir amgylch *Sul y Blodeu.*—*Brut y Tywysogion*, 312.

Sant aelodau *Sul y Blodau*
Sydd aelodau swydd Elidir.—*L. G. Cothi*, II. i. 81.

Hwy a'm dygasant i'r lle y cymmerodd ein Iachawdwr yr asen a'i llwdn, pan y marchogai efe i Gaersalem ar *Ddydd Sul y Blodau.*—*W. Lewes:* Dwy Daith, 13.

Y geiriau hyn, Hosanna in excelsis, sy'n arwyddo'r modd gogoneddus yr aeth Crist i mewn i Gaer-Selem ar *Ddythwn y Blodau.*—*Rosier Smith:* Eglurhâd, 253.

Llun y Blodau, the Monday next after Palm Sunday; the Monday next before Easter.

Ar ba ddyddiau o'r mis, y ceidw Mammon ei ffeiriau ymddibynol ar y gwyliau symmudol y leni;—dydd Mawrth Ynyd, *Llun y Blodau*, Mercher o flaen y Pasc, &c.
Gwallter Mechain: Gwaith, ii. 369.

Mis y Blodau, the month of flowers; an old or poetic name for June (cf. *Floreal* of the French Republican Calendar).—*Barddas*, i. 412.

Blodau yr eigion, blossoms of the ocean, flowers of the deep; a name for the waves.

Tri enw addurn y tonnau: defaid Gwenhidwy; dreigiau'r heli; a *blodau'r eigion.*—*Iolo Mss.* 89.

Blodau y bedd, the blossoms or flowers of the grave; grey hairs.

Nac edrych lewych goleuwyn y gwallt,
Lle bu gwyllt fy nhremyn;
Llwyd heb gel lle bu felyn,
Blodau'r bedd, diwedd pob dyn.—*Iolo Mss.* 178.

Cewch brofi hyn os dewch at *flodau'r bedd.*
Iago Emlyn: Gweith. 174.

Y mae y coed yn eu blodau, the trees are in their bloom.

Blodau a gwull, flowers and blossoms.

Gardd flodau (*pl.* gerddi blodau), a flower-garden.

2. the flower; the prime; the best or finest part, &c. Unlike the English, the Welsh generally uses the plural in this sense, though the subject may be singular.

Arbennic milwyr a *blodeu* marchogyon. . . *Blodeu* y milwyr a channwyll y marchogyon.—*Mabinogion*, i. 241.

Bot yn well idaw treulaw *blodeu* y ieuenctit ae dewred ynkynnal yderuyneu ehun.—*Mabinogion*, ii. 29.

Felly dyn, pan ddêl ei *flodau*,
Ni erys ond ychydig ddyddiau.—*Gruffydd Peilyn.*

Blodau'r merched ydoedd Mari
Trwy'r holl wlad o amgylch iddi.—*Daniel Ddu*, 222.

Chwi, 'r ysgafnaf ar eich troed,
Yng ngrymus oed eich *blodau.*
Elis Wynn: Bardd Cwsg, 67.

Blodau oes, the flower of age; the prime of life.

Difwynaist *flodau* f' einioes,
Bellach pand yw fyrach f' oes!—*Gro. Owain*, 64.

Blodau y fyddin, the flower of the army.

Ar vn geir *blodeu* a hyder. a chovynt holl gret yn erbyn eu gelynyon [oed Rolant].—*Yst. de Carolo Magno*, col. 490.

Blodau ieuenctyd, the bloom of youth; the flower of youth.

Bun landeg yn ei blodau, a blooming beauty.

3. flowers, menses.—*Meddygon Myddfai*, i. 139; ii. 138.

Blodau gwynion, fluor albus.

¶ Occasionally the double pl. *blodeuoedd* and *blodeuon* occurs.

Wy a welynt. ac a dywanassant ar weirglawd diruawr y meint. a digrifwch edrych arnei o amryual *vlodeuoed.* a llysseuoed a gwascawdwyd.—*Campau Charlymaen*, § 5.

Ac ygyt ahyny amlaf kenueinoed or gwenyn oplith y *blodeuoed* yn kynnullaw mel.
Brut y Breninoedd: M.A. ii. 82 (cf. 267).

Ei wedd
Arferawl adnewyddai Nef, a chan
Flodeuon gwyrf y gwenynt fryn a phant.
W. O. Pughe: C.G. vi. 868.

Blodawg, *a.* full of flowers; flowery, florid.

Llawn bodd o hyd, fe bawr y *blodawg* fwyd,
A llyf y llaw i'w farwolaethu a gwyd.
Robert Owen: Gweith. 268.

Blodawl, *a.* pertaining to flowers; floral.

Dylona *flodawl* anian.—*Robert Owen:* Gweith. 285.

Bloden, -au, *sf.* 1. a floret, a floweret; a little or delicate flower.

Nid y maes mor gain
O Enna yn blodeua man yr oedd
Proserpin, tecach *bloden* hi ei hun
A dynai Dis ordduawg.—*W. O. Pughe:* C.G. iv. 300.

2. [blawd] a pudding.—*Iolo Glossary.*

Blodeua, *v.* to gather or cull flowers.

Os ha', *blodeua* mewn dail;
Os gauaf, ysu gwiail.—*Dafydd Trefor*, i Eifr.

Blodeuad, -au, *sm.* a flowering, a blossoming; florification.

Blodeuben, -au, *sm.* an anther.

Y blodau a'r *blodeuben* a arferir yn llwyddiannus rhag y clwyf dygwydd.—*Hugh Davies:* Llysieuaeth Gymreig, 159.

Blodeudardd, *a.* springing with flowers; floriferous; flowery.

Ac edrych ar wyneb y glasdon *blodeudardd* a wnai.
Iolo Mss. 165.

Blodeuddail (*sg.* ddeilen, ddalen, *f.*), *s.pl.* flower-leaves, petals.

[Mae] yr aelod, neu y rhan uwchaf o'r *blodeuddail*, yn gylchynog neu yn dafodog.—*Addysg Chambers*, i. 99.

Blodeuddwyn, *a.* producing flowers; floriferous.

Blodeueg, -au, *sf.* flora.

Blodeueg, enw a gymmer i mewn holl lysiau a phlanigion unrhyw wlad, megys *Blodeueg* Prydain.
Addysg Chambers, i. 808.

Blodeuen, *sf.* a little or delicate flower; a floret or floweret.

Hwynt a esmwyth gawiai hi
A myrt, ansyniawl odd ei hun y pryd
Er mai *blodeuen* decaf heb o blaid,
Oddi wrth ei goreu wanas ac mor bell,
A ffroch mor agaws.—*W. O. Pughe:* C.G. ix. 411.

Blodeufa, -oedd, *sf.* a flower-garden, a parterre.

Y mae efe yn gwridgochi'r *flodeufa* ag un o'r mentyll gwychaf a wisgodd anian erioed.
Myfyrdodau Hervey, 139 (cf. 131, 146, 168, 254).

Tasgellai o'r *flodeufa* dlos
Amliwion flodau'r wawr;
O flaen ei thegwch gwridai'r rhos
A'r crinllys peraidd sawr.—*Blodau Ieuainc*, 69.

Bodeufag, *a.* bearing or producing flowers; floriferous.

Blodeufag, -au, *sf.* a place where flowers are cultivated; a flower-garden.

Blodeugerdd, -au, -i, *sm.* a collection of the flowers of verse, an anthology.

Blodeugerdd Cymru, sef Casgliad o Ganiadau Cymreig gan amryw awdwyr.—*Enw Llyfr* (1759).

[Mi] a gynnullais beth o *Flodeugerdd* yr hynafiaid yn un pentwr.—*Dewi Fardd.*

Yr Awenydd; sef, *Blodeugerdd* newydd, yn cynnwys casgliad helaeth o brif ganiadau Gwynedd a Deheudir.
Enw Llyfr (ca. 1838).

Y Blodeugerdd Groeg, the Greek Anthology.

Rhydd y pennill Groeg hardd canlynol, a gymmerwyd o'r *Blodeugerdd Groeg*, eglurhâd gwych iawn ar y testun.
Isaac Jones: Esp. Matt. xxiii. 37.

Blodeuglwm, glymau, *sm.* a bunch of flowers; a nosegay, a bouquet.

Pwy nid yw yn trachwantu eu casglu yn yr ardd, neu eu gwisgo mewn *blodeuglwm?*—*Myfyrdodau Hervey*, 4.

Modrwyau ei gwallt o liw dellt aur
A chwyfai'r chwaon ter,
A dawnsiai pelydr heulwen glaer
Ar ei *blodeuglwm* per.—*Blodau Ieuainc*, 69.

Blodeugoed, *s.pl.* flowering trees.

Pwy mor lân a gân i goed,
Hoew-blaid agwedd *blodeugoed?*
Iorwerth Fynglwyd: Iolo Mss. 318.

Blodeuhau, *v.*=*Blodeuo.*

Gan ias o gariad caniad fyg; ond ti
Yn benaf, Sïon, ac yn *blodeuhau*
Y nentydd llafar a ddyl fant am
Dy draed edmygawl, nosawl yno doaf.
W. O. Pughe: C.G. iii. 32.

Blodeulawn, *a.* full of flowers or blossoms; flowery.

Blodeulawn bydd ei lwybrau ef,
A'i ymgyrch yng ngoleuni'r nef.
Iolo Morganwg: Salmau, II. lxxiv. 1 (cf. lv. 4).

Blodeule, -oedd, *sm.* a place of flowers, a parterre.

Cyfoda rhai eu penau â gwedd fawreddog, gan oruwchedrych mal breninoedd neu odidogion yr holl *flodeule.*
W. Jones: Barn a Darfelydd, 16.

Blodeulestr, -i, *sm.* a vessel to hold flowers; a flower-pot.—*W.*

Blodeulwyn, -i, *sm.* a flowering bush or grove.

Heddyw'n fir, yn lloni'r llwyn,
Bâl dilesg y *blodeulwyn.*—*Robert Owen*, Gweith. 120.

Blodeulyd, *a.* flowered; mothery.

Blodeuo, *v.* 1. to flower, to bloom, to blossom; to blow (as a flower); to bear flowers.

Mi anfonaf wiail beirddion i *flodeuaw.*
Heinyn: M.A. i. 553.

Y diffaethwch hefyd a orfoledda, ac a *flodeua* fel rhosyn. Gan *flodeuo* y *blodeua.*—*Esa.* xxxv. 1, 2.

2. to flourish; to thrive.

Byth, byth, o ogoniant a llwyddiant yn llawn,
Bo Coleg St. Dewi'n *blodeuo* mewn dawn.
Daniel Ddu, 28.

3. to flourish; to be in one's prime; to live.

Tyf gwr yn lân ei waneg,
A rhagddo *blodeuo*'n deg;
Ac yn ei fraint, deg iawn fri,
Ei daro i lawr a'i dori.—*Ieuan Llwyd Sieffrai.*

Blodeuai Taliesin yn y chweched ganrif.—*C.S.*

4. to flower; to froth or mantle.

Cais sugn yr eidral, a sugn gwraidd y ffunegl, a sugn y melynllys, sef llysiau'r wennol, a bloneg hwch, a mel, ac ychydig win egr, a gwaed llysywen, a bustl ceiliog, a dod mewn llestr yny *flodeuo.*—*Meddygon Myddfai*, ii. 586.

5. menstruare, pubescere. In Legibus Wallicis de puellis dicitur, quae viripotentes evaserint. —*Cyfreithiau Cymru*, i. 102 (cf. L.W. 91, 557).

Blodeuog, *a.* flowery; full of flowers or blossoms; florid; bloomy; flourishing; gay.

Yn Aber Cuawc yd ganant cogau
Ar gangau *blodeuawc.*—*Llywarch Hen:* M.A. i. 127.

A wnel velly *blodeuawc* vyd y leif dyd brawt. . . Mor detwyd a mor *vlodeuawc* vyd eneit budigawl yn teyrnas nef.
Campau Charlymaen, § 31.

Bríg bonedd bro Gwynedd gain,
Blodeuog o blaid Owain.—*Iolo Goch*, i I. ab Einion.

Tripheth *blodeuog* ar gerdd: ystyrbell iaith; goleuber synwyr; a chywrain gelfyddyd.—*Cyfrinach y Beirdd*, 45.

Croes flodeuog, a cross flory.

Wythuet amrauel yw *croes vlodeuawc.* A hei a elwir velhy achos vot pob bann ydhei wedy'r lunio ar lun blodeuyn.—*Cyfraith Arfau.*

Iaith flodeuog, flowery language; a florid style.

Dinas flodeuog, a flourishing or thriving city.

Tomen flodeuog, a slut in finery.

Blodeuogrwydd, *sm.* floweriness, floridness; a flourishing state or condition.

Blodeuol, *a.* floral; flowering; blooming.

Ai efe heibio eu
Pabellion cain, a dawa bellach idd
Y blyslawn faes, trwy lwyni per, a bryw
Flodeuawl oglau, cassia, nard, a balm.
W. O. Pughe: C.G. v. 310.

Mor dra annhebyg hyn i'w brodir hardd,
Y ffrwd ddolenawg, y *flodeuawl* ardd.
Th. Lloyd Jones: Ceinion Awen, 169.

Blodeuwaith, weithiau, *sm.* flower embellishment, fancy flower-work.

Blodeuwedd, *a.* having the appearance of flowers; flowered; damasked.

Gwisgasid y morwyr a'r milwyr oll â dillad gwychion o sidan; defnydd yr hwyliau oedd o liain caerog *blodeuwedd,* a'r brig-hwyliau oeddynt o frethyn euraidd.
Gwyliedydd, iii. 364.

Blodeuwedd, *sf.* flower-aspect; a name given to the owl. According to the legend, it was originally the name of a woman magically formed of different flowers, who, on account of her faithlessness, was transformed into an owl by Gwydion ab Don. *Blodeuwedd* occurs also as *Blodeuedd* (*Mab.* iii. 208, 214), originally perhaps a clerical error.

Ac yna y kymmerassant hwy blodeu y deri. a blodeu y banadyl. a blodeu yr erwein. ac or rei hynny asswynaw yr un uorwyn deckaf athelediwaf awelas dyn eiryoet. Ae bedydyaw or bedyd awneynt yna. adodi *Blodeuwed* arnei.
Mabinogion, iii. 206.

Sef awnaeth *Blodeued* clybot eu bot yn dyuot. . . Yna y godiwedawd Gwydyon hitheu. ac y dywawt wrthi. Ny ladafi di. mi awnaf yssyd waeth itt. Sef yw hynny dy ellwng yn rith ederyn. ac o achaws y kewilyd awnaethost di y Lew Llaw Gyffes. na beidych ditheu dangos dy wyneb liw dydd vyth. ahynny rac ouyn yr holl adar. abot yn anyan udunt dy uaedu. ath amherchi y lle yth gaffont. ac na chollych dy enw. namyn dy alw vyth *blodeuwed.* Sef yw *blodeuwed* tylluan or ieith yr awr honn. ac o achaws hynny y mae digassawc yr adar yr tylluan. ac ef a elwir ettwa y tylluan yn *vlodeuwed.*—*Mabinogion*, iii. 214 (cf. 208).

Bonedd gwell-wedd y'm gelwynt;
Blodeuwedd wrth gyfedd gynt . . .
Gwydion fab Don ar Gonwy,
Hudlath, ni bu o'i fath fwy,
A'm hudodd i o'm hoewder,
I'r poen a weli, nid per!—*D. ab Gwilym*, clxxxiii. 19.

Gwydion, mab Don, a wnaeth Gaer Gwydion; ac efe a gerddwys y bydoedd i ymofyn am *Flodeuwedd,* gwraig Huon, yr hon a dwyllasai ei gwr; a phan y cafas Gwydion hi, efe a'i troes yn Dylluan am ei thwyll, a hithau yn caru'r tywyll, ac nis carai oleuni.
Hen Ysgrif (Ystên Sioned, 62).

Llwyn Blodeuwedd, the Grove of Blodeuwedd; old name of a constellation.—*Barddas*, i. 404.

Blodeuwr, wyr, *sm.* a florist.

Blodeuwr, un cyfarwydd mewn blodau.—*Walters.*

Blodeuwydd, *s.pl.* flowering shrubs or trees.

Blodeuwyn, *m.* } *a.* having white flowers or
Blodeuwen, *f.* } blossoms.

Cymmer y dynaid *blodeuwyn,* a phwya'n dda.
Meddygon Myddfai, ii. 471.

Blodeuyn, *pl.* blodau, *sm.* a flower; a blossom. See *Blodau.*

Hafal *blodeuyn* hefyd
I'n hoen fer yn hyn o fyd;
Hyddestl *blodeuyn* heddyw,
Y fory oll yn farw wyw;
Diwedd sydd i *flodeuyn,*
Ac unwedd fydd diwedd dyn.—*Gronwy Owain*, 61.

Diau megys *blodeuyn,*
Marwaidd dwf, yw mawredd dyn.
Rhys Jones: Gwaith, 46 (cf. 27).

Blodeuyn y maes (*pl.* blodau y meusydd, blodau y maes), the flower of the field.—*Esa.* xl. 6; *Salm.* ciii. 15.

Blodeuyn y gwynt, wood anemone, wind-flower (*Anemone nemorosa*).—*Hugh Davies:* Welsh Bot. 55, 159.

Blodiad, -au, *sm.* [blawd, *sm.*] a making or converting into meal.

Blodiannaidd, *a.* flowery, florid; blooming.

Mae cnwd deigrau Mair ar y meusydd,
A mentyll y coedydd fal can;
Blodiannaidd yw'r lluniadd berllanau,
A gwyrddion yw'r garddau 'm mhob man.
Iolo Morganwg.

Blodiant, iannau, *sm.* [blawd, blodau] a flowering or blooming; florification.

Blodio, *v.* [blawd] to make into meal; to cover or sprinkle with meal.

Blodio, *v.* [blawd, blodau] 1. to flower, to bloom; to flourish; to froth or effervesce. 2.[=blodeuo 5] menstruare.—*Meddygon Myddfai*, i. 151.

Blodiog, *a.* [=blawdog] mealy, farinaceous.

Blodiog, *a.* [blawd, blodau] flowery, blossoming, bloomy.

Blodiog efeill hygar bryd,
Fe hoffai 'myd eu rhogled;
Gwâr yw y nentydd yn y ddôl,
A siriol yw eu gweled.—*Gwilym Tew?*

Blodion, *s.pl.* [blawd] flowerets, florets; blossoms, flowers.

Ail yw'r oes wael i rosyn,
Neu wull coed, glasgoed y glyn;
Ail i *flodion* mwynion Mai,
Neu foreu o nef ffrain.—*Iago Trichrug.*

Blodionyn, *m.* } *pl.* blodionos, *s.* a little or
Blodionen, *f.* } delicate flower; a floret, a floweret.

Ar flodau gan orbwysaw, ac o ir
Flodionos ymgoroni, bwytant hwy
Ac yfant, ac mewn ymadroddion mwyn
Traflyncant anfarwoldeb a gwir hoen.
W. O. Pughe: C.G. v. 692.

Yn wyryf gorweddaf yn isel fy ngwedd,
Mor bur a'r *blodionos* a huliant fy medd.
D. S. Evans (Haul, C.C. i. 395).

Blodios, *s.pl.* flowerets, florets; flowers, blossoms.

Edwa rhos, a *blodios* blydd,
Gwyrddion, a heia gwawrddydd.—*Iago Trichrug.*

Blodiwr, wyr, *sm.* a mealman.

Blodon, *sf.* [C. *blodon*] 1. a floweret; a flower or blossom.

2. Flora, the goddess of flowers.

Gan yna lais mor leddf, mal Hinon yn
Awelu *Blodon*, gan wâr ddal ei llaw,
Sisialai hyn.—*W. O. Pughe:* C.G. v. 15.

Blodon, *s.pl.* (=blodau) flowers; blossoms; flowerets.

Na hidler deigrion erot, gwâr
Flodeuyn hanfod! hwnt dy lun!
Nis taenwn onid *blodon* ar
Dy lwth, O ddedwydd un!
W. O. Pughe: Ceinion Awen, 136.

Blodwaith, *sm.* 1. meal-dust.—*P.* 2. fancy flower-work.

Blodwen, *sf.* the goddess of flowers; Flora.

Yna â llais mor fwyn ag anadl fwyth
Awelon Hinon leddf ar *Blodwen* gain,
Gan dyner deimlo ei llaw, sisialai hyn.
I. D. Ffraid: Coll Gwynfa, v. 17.

Blodwraig, wragedd, *sf.* a meal-woman.

Blodwy, *a.* [blawd] mealy, farinaceous; ripe, mellow; dry and friable.

Afal blodwy, a mealy apple.

Bwytatwys blodwy, mealy potatoes.

Tir blodwy, friable soil.

Blodwyad, -au, *sm.* a becoming mealy; a mellowing.

Blodwyedd, *sm.* mealiness; mellowness, ripeness.

Blodwyo, *v.* to grow mealy; to become mellow.

Blodwyol, *a.* becoming mealy; making mellow.

Blodyn, *pl.* blodau, *sm.* [blawd] a flower, a blossom; a floweret.

Y *blodyn* mwyth a giliai fyd,
Erioed nas teimla hin.
W. O. Pughe: Ceinion Awen, 136.

Lle y cai Proserpin gynt,
Wrth gynnull blodau teg, a hi ei hun
Yn decaf *blodyn*, gan y gorddu Dis
Ei chynnull.—*I. D. Ffraid:* Coll. Gwynfa, iv. 328.

Draw ger y berth, lle unwaith gwenai'r ardd,
Ac eto lle aml *flodyn* gwyllt a dardd,
Mewn tawel fan lle dercha'r briglas lwyn,
Gynt safai annedd yr offeiriad mwyn.
Blodau Ieuainc, 52.

Blodyn yr eira (*pl.* blodau yr eira), the snowdrop (*Galanthus nivalis*).

Blodyn siriol (*pl.* blodau siriol), wild English clary (*Salvia verbenaca*).—*Cyfeiliog.*

Bloddest, -au, *sf.* [bloedd? blawdd?] a shout of joy or approbation; acclamation; loud applause; a shout; shouting.

Mi a wnaf i'r gwin ddarfod o'r cafnau: ni sathr neb trwy *floddest;* eu *bloddest* ni bydd *bloddest.*
Ier. xlviii. 33 (cf. li. 14; 2 Sam. vi. 15).

Lle y mae trwst, a siarad, a *bloddest*, yn llenwi heolydd y dref.—*Morgan Llwyd:* Tri Ad. 67.

Bloddestgar, *a.* shouting for joy; shouting; acclamatory; joyous, rejoicing.

Bloddestwr, wyr, *sm.* a shouter.

Bloddi, *v.* [blawdd] to make a tumult; to be in commotion; to agitate; to stir.

Mor gain ddi gwyn y gwena bore ffraw,
Ac awel flaw a *flodda.*—*W. O. Pughe:* Bardd, ii. 2.

Bloddiad, -au, *sm.* agitation; a hastening.

Aer cret ty na thaer aer *vlodyat.*
Aneurin: God. 415 (cf. A.B. ii. 103; M.A. i. 86).

Bloedd, -au, -ion, *sf.* [Ir. *blaodh;* Ga. *blaodh*] a shout, an outcry; shouting; clamour; a cry.

Nid gweddaidd blaidd *bloedd* cigfran
Nid iaith o geiniaith a gan.
Trahaiarn: M.A. i. 500 (cf. 437).

Holl Israel a floeddiasant â *bloedd* fawr.
1 *Sam.* iv. 5 (cf. 6; xvii. 20).

Cyttunasant yn rhy dda ar yr amser hwn i waradwyddo Crist â'u celwyddau a'u *bloeddau.*
W. Lewes: Dwy Daith, 112.

Dyfyn a enfyn Dofydd,
Bloedd erchyll, rhingyll a'i rhydd.
Gro. Owain, 93 (cf. 72).

Codi bloedd, to set up a shout; to shout; to cry; to scream.

Bloeddain, } *v.* to vociferate; to shout; to cry,
Bloeddian, } to bawl, to squall; to cry often.

Ai digaloni a wnewch rhag dadwrdd a *bloeddian* y barbariaid acw?—*Theo. Evans:* D.P.O. i. 2 (51).

Bloeddfa, -oedd, *sf.* a shout, an outcry; a shouting.

Mae bryn Calfaria a'i swn uwch Sina,
Mi glywa'r *bloeddfa* blin lluddedig.
Ieuan Brydydd Hir: Gwaith, 26.

Bloeddfawr, *a.* shouting; vociferous; crying; noisy; loud.

Ysgwyt vriw rac biw Beli *bloedvawr.—Aneurin:* God. 385.

Corn Llywelyn llyw lluydfawr
Bon ehang blaen hang *bloedfawr.—Cynddelw:* M.A. i. 218.

Dinystr *bloeddfawr* ymdaenodd.
Dafydd Ionawr: Gwaith, 178.

Yr hanes, er mor *floeddfawr* yw,
Nid daiaroldeb dyn a'i clyw.
Iolo Morganwg: Salmau, 1. lvii. 4.

Bloeddgar, *a.* apt to vociferate or shout; shouting; noisy.

Da i ti golli un o'th aelodau, fel na theflir dy holl gorff i *floeddgar* ddyffryn y tân.—*Dr. John Jones:* Cyfammod Newydd (Matt. v. 29; cf. 22, 30).

Bloeddiad, -au, *sm.* a shouting; a shout or outcry.

Yn awr, gwych fiaenor y gad
O'r aflwyddiant roi *floeddiad.—Cawrdaf:* Gweith, 133.

Bloeddiast, ieist, } *sf.* 1. a yelping bitch.
Bloeddast, eist, }

Arw *floeddiast,* oerfel iddi
Am ysgar meinwar a mi!—*D. ab Gwilym,* xliv. 61.

2. a term of disrespect for a noisy or brawling woman.

Bloeddig, *a.* shouting; vociferous; noisy.

Ai cyflog sydd, was gafl-hir,
I ti, y drwg hudwg hir,
Am fy 'spïo, enfys bawaidd,
Gan Eiddig, oer *floeddig* flaidd?—*D. ab Gwilym,* clxxi. 25.

Bloeddio, *v.* to shout; to set up a shout or cry; to cry; to vociferate, to scream.

Bloeddied yr holl bobl â bloedd uchel.
Ios. vi. 5 (cf. 10, 16, 20).

Canu 'n llon, hoew-lon eu hawdl,
Gawr *floeddio* gorfoledd-awdl.—*Gro. Owain,* 79.

Bloeddiol, *a.* shouting; vociferous, screaming.

Bloeddiwr, wyr, *sm.* a shouter; a screamer.

Blöen, -au, *sf.* a floret; a blossom.

Gelwir yr oll yng nghyd yn flodeuyn . . . ond gelwir y rhanau gwahanol ag sydd yn cyfansoddi ei wep yn *flöenau.* . . . Nid yw y *blöenau,* pa fodd bynnag, bob amser yn berffaith ynddynt eu hunain . . . Mae i'r *blöenau* gwpan.
Addysg Chambers, i. 99.

Blöeniad, -au, *sm.* a blooming or blossoming.

Blöenol, *a.* bloomy, blossoming.

A'r Ion a blanodd o brenau *bloenawl*
Yn nwyrain Eden, ardd orhynodawl.
Dewi Wyn: Blod. Arf. 44.

Blöenu, *v.* to blossom, to bloom.

Bloesg, *a.* [cf. L. *blaesus*] speaking thick; having a thick utterance; thick; lisping; inarticulate.

Calon y rhai ehud hefyd a ddeall wybodaeth, a thafod y rhai *bloesg* a brysura lefaru yn eglur.—*Esa.* xxxii. 4.

Dywedyd yn floesg, to speak thick; to speak lispingly; to lisp.

Un bloesg, one who speaks thick; a lisper.

Bloesgedd, } *sm.* thickness of utterance or
Bloesgi, } speech; a lisp, a lisping; inar-
Bloesgni, } ticulation; a faltering in speech.

Canys â *bloesgni* gwefusau, ac â thafodiaith ddieithr, y llefara efe wrth y bobl hyn.—*Esa.* xxviii. 11.

Mae bloesgi arni, she speaks thick; she lisps.

Bloesgi, *v.* to speak thick or lispingly; to lisp; to falter.

Ni chwŷd hon mewn iechyd da
O lesgedd, ac ni *floesga.—Ieuan Gethin.*

Dan floesgi, with a lisp, lispingly.

Bloesgwr, wyr, *sm.* one who speaks thick.

Bloesgyn, *m.* } -od, *s.* one that lisps; a lisper.
Bloesgen, *f.* }

Bloffied, } *v.* to mingle, to intermix; to mix or
Bloffio, } mingle together; to jumble. Doubtful words.—*Arch. Brit.* 214.

Blong, *af.*=*Blwng, m.*

Blomon, -iaid, *sm.*=*Blewmon, Blowmon.*

Blonaidd, *a.* [blawn] unctious, fat, greasy, lardaceous; oily.

Ei grib
A gwna gobaith, llathra hoen; mal tân
Amwibiawl, ciw o *flonaidd* darth, gan nos
A ddwyser.—*W. O. Pughe:* C.G. ix. 610.

Bloneg, *sm.* [blawn: C. *blonec;* Br. *blonec;* Ir. *blonac, blunag;* Ga. *blonag;* Mx. *blennick*] 1. the fat of swine, and of most other animals except those of the ox, sheep, and goat kinds; lard, grease.

Ef ageiff amobreu merchet y bilaeineit . . . a gwer a *blonnec* yscrybyl y llys.—*Cyfreithiau Cymru,* i. 392.

Fal y llanwer fy enaid i o *floneg* a brasder.
Dafydd Ddu Hiraddug: M.A. i. 564.

Cyn frased a'r *bloneg* yw eu calon.—*Salm.* cxix. 70.

Gwedy y berwer bwrw ymmeith yr uchaf, a chymer y perued a chymysc hên *ulonec* ac ef.
Meddygon Myddfai, i. 95.

Cais *floneg* mochyn bychan, a elwir mewn manau byrhwch, a *bloneg* ceffyl, a *bloneg* baedd.
Meddygon Myddfai, ii. 560.

Bloneg dyn, the fat of the human body.

Bloneg cath, the fat of a cat.

A *bloneg cath* goed sy dda hefyd.
Meddygon Myddfai, ii. 279.

Cais geiliagwydd bras, a thyn y *bloneg* o hano, a chymmaint arall o *floneg cath* gwryw a chymmaint o *floneg cath* goed, a *bloneg* llwynog.—*Meddygon Myddfai,* ii. 724.

Bloneg mochyn, } the fat of swine; hog's lard
Bloneg moch, } or grease; lard.

Cymmer gan gwenith, *bloneg moch,* a menyn Mai.
Meddygon Myddfai, ii. 415 (cf. 651).

Bloneg arth, bear's grease.

Bloneg tawdd, melted swine's fat; lard.

2. (in botany) the sapwood or alburnum.

Bloneg pren, the sap or alburnum of a tree.

Bloneg y ddaiar, red-berried bryony (*Bryonia dioica*).—*H. Davies:* Welsh Bot. 159.

Cais y llysewyn a elwir *bloneg y ddaiar,* a gwna ef yn blaster a dod wrtho.—*Meddygon Myddfai,* ii. 764.

Bloneg y derw, oak-leather (*Zylostroma giganteum*).—*H. Davies:* Welsh Bot. 132, 159.

Blonega, *v.* to go about to beg for lard.

Blonegach, *s.cl.* bits of lard or grease; inferior lard or grease.

Blonegaidd, *a.* resembling swine's fat; lardaceous.

Blonegen, *sf.* the leaf of a swine and of some other animals; a leaf of fat.

Y flonegen, the leaf of fat.

Blonegen mochyn, the leaf of a swine's fat.

Blonegen gŵydd, the leaf of a goose.

Iro blonegen, to grease a leaf of fat=to carry coals to Newcastle.—*Diareb.* (M.A. iii. 162.)

Pa beth yw hyny ond *iro blonegen?—Gro. Owain,* 339.

Blonegog, *a.* containing fat; abounding in fat; fatty; greasy.

Blonegyn, *sm.* 1. a bit or lump of fat or lard. 2. (=blonegen) a leaf of fat.

Blorai, eion, *sm.* [blawr] nitrogen.

Cymmeradwyir cyhyrgig bob amser, am ei fod yn cynnwys *blorai;* ond anghymmeradwyir pob math o ymborth gwydn.—*Drych*, Ion. 5. 1871.

Y prif gyffyr ym mha un yw *blorai*. . . Pan ddiflanno yr ulwyn heb y *blorai* . . . mae'r dail yn dyfod yn felynion yn hydref.—*Addysg Chambers*, i. 88.

Bloran, } *sm.* [blawr?] given in *Meddygon*
Blorlys, } *Myddfai*, 290, as equivalents of *oricwm;* but what plant is thereby intended I am unable to ascertain.

Blorig, *a.* [blawr] nitric.

Sur blorig, nitric acid, aqua fortis.

Pe byddai i bwys o arian . . . ac un gronyn o aur, gael eu cyttoddi, gwasgerid yr aur mor gyfartal a chysson drwy yr arian oll, fel pe dadgyfansoddid cymmaint ag un gronyn o'r talp mewn hylif a elwir *sur blorig*, syrthiai yr aur i'r gwaelod.—*Elfenau Gallofyddiaeth*, ii.

Blorwyn, *a.* [blawr+gwyn] of a whitish or light grey colour; greyish; hoary; grey.

Blorwyna, *s.v.* to become grey or hoary.

Blorwynwallt, *a.* having grey hair; grey-haired, hoary.

Fe ddaeth Einion i'r tŷ, ac Angharad a'i gwelai ef yn hen gleiriach gwywllyd *blorwynwallt* yn crymu gan oedran.
Iolo Mss. 178.

Blota, *v.* [blawd] to collect meal; to go about meal-begging.

Tri ofer gerddor y sydd: bardd blawd; gwr wrth gerdd yw yn yta, ac yn *blota*, ac yn gwlana, ac yn cymhortha amcan a gaffo.—*Barddas* (Ms.).

Rhif annigrif eneu-grest,
Blota, gwlana, gwera, gwest;
Cawsa, cica, mincoceth,
Casa' pwnc, ceisio pob peth;
Llawer cydaid hen wenith,
Llawer baich ar ei braich brith;
Llawer dryll cig, selsig sail,
A chosyn dan ei chesail.—*Iolo Goch*, i Hersdin Hogl.

Blotai, eion, *sc.* 1. a meal-dealer, a person dealing in meal.

2. a beggar of meal.—*D. ab Gwilym*, ccxxx. 47.

Ffraeth y dug *blottai* gallai golled.
Madog Dwygraig: M.A. i. 487.

Bloteiaeth, -au, *sf.* [blotai] 1. a dealing in meal; a begging of meal. 2. fancy flower-work.—*P.* In this sense it should be written *bloteuaeth* (from *blodau*), q.v.

Blotëig, *a.* [blota] given to meal-begging.

Lle dine dynawl *flotteig*
Lle denawl dynion hirbrydig.
Hywel Ystoryn: M.A. i. 519.

Bloteuaeth, -au, *sf.* [blodau] 1. bloom, blossom; blossoms; flowering; inflorescence.

Tri anghudd pob llysewyn: ei flas; ei *floteuaeth;* a'i addon.—*Myv. Arch.* iii. 260.

Teg *floteuaeth* yw'r dur tau.—*D. ab Gwilym*, ccxviii. 10.

Bloteuaeth cariad sy'n beraidd iawn yn gwanwyno ar eich bronau.—*Llythyr Serch* (Y Taliesin, i. 78).

Nid llun y pryd allenig,
Na gwedd lliw *bloteuaeth* gwig,
Yw glwysedd a mawredd merch,
O bai fursen heb fawr-serch.—*Gwilym ab Sefnyn.*

Deffry *bloteuaeth* dyffryn,
A chyfyd glwys-bryd y glyn.—*Iolo Morganwg.*

2. flower fancy-work; embellishment with flowers.

Blotty, tai, *sm.* a meal-house.

Blotwaith, weithiau, *sm.* flower-work; fancy flower-work on dress, &c.

Hwyr, myn Derfel! dy weled,
Lwydo o hon flew dy hed;
Na dwst yno ni dystiwn
Na *blotwaith* ar blet o'th ŵn.—*Ieuan Tew.*

Blotwraig, wragedd, *sf.* a meal-woman.

Bloth, -au, *sf.* a puff, a blast; an inflation.

Blothach, -od, *sc.* a fat blubber-cheeked person; a thick fat person; a humpty, a squab.—*Gwent.*

Blothach, *a.* round-faced, chub-faced, chubby.—*Gwent.*

Blowmon, -iaid, *sm.*=*Blewmon.*

Blowmones, -au, *sf.*=*Blewmones.*

Blöyn, -au, *sm.* a blossom or flower; a floweret.

Blöyniad, -au, *sm.* a blooming, flowering, or blossoming.

Blöynol, *a.* blooming, blossoming; budding.

Blöynu, *v.* to bloom, blossom, or flower; to blow.

Blwch, *pl.* blychau, *sm.* [cf. L.L. *blocus*] a box, a trunk, a small chest.

Kedic a wel [*al.* awel] coed in i *blwch.*
Llywarch Hen: M.A. i. 130.

Gwraig yn y ddinas . . . a ddug *flwch* o enaint.
Luc vii. 37.

Wele *flwch* yn harddwch ei hun.—*G. Mechain*, i. 117.

A'i osod mewn *blwch* i gadw yn gaeedig.
Meddygon Myddfai, ii. 191.

Blwng, *m.* } *a.* 1. frowning, angry, crabbed,
Blong, *f.* } sullen, sour, ill-natured, cross, gloomy; sorry; displeased.

Kedernyd bleit aergryd *blwg.*
Cynddelw: M.A. i. 216 (cf. 214, 215, 220, 256).

Gwyr kyrchyad yg kad yg galedi *blwng.*
Bleddyn Fardd: M.A. i. 364 (cf. 385, 425).

Kanys *blwng* ac antheilwng oed kanthunt bod llywodraeth Ynys Prydeyn urth vedyant gwreyc.
Brut Gr. ab Arthur: M.A. ii. 135.

Gwaddawd gwythlonedd gair *blwng.*
Diareb. (M.A. iii. 158.)

Rhoes hwrdd i'm llong, rhoes *flong* floedd.
Gruffydd Gryg.

Bwla oedd flaidd â bloedd *flong.*
Sion ab Hywel ab Llywelyn.

Mynyddau â mynyddau gwelir draw
Yn hyll ymwrio yn eu gyrfa *flong*
O flaen y corwynt ag a'u gwthia hwynt
A nerth dychrynllyd ei chwythiadau gwrdd.
Daniel Ddu, 52.

Ugeiniau o'r Morganiaid,
Ddynion *blwng*, oedd yno'n blaid.
Blackwell: Ceinion Alun, 101.

2. sad, sorrowful, dismal, gloomy.

Gwaith *blwng* oedd echwng och Wenhwyfar deg
Dygn ynof dy alar.—*Gr. ab Meredydd:* M.A. i. 454.

Aruthr yw dy fleidd ruthr *flwng.*
Llywelyn Goch: M.A. i. 523.

Blwng, *pl.* blyngau, *sm.* a frown; an affront.

Eryr gwyr Gwyned gwn nad echwg
Ked ef ddigoner ny chymer *vlwg.*
Einion ab Madog Rhahawd: M.A. i. 391 (cf. 290).

Gwaew trwy *vlwg* trwy vwg truy uortuyd.
Cynddelw: M.A. i. 233 (cf. 298, 367).

Blwth, *pl.* blythau, blythion, *sm.* [=bloth, *f.*] a puff, a blast; an inflation; a stir.

Blwydd, -au, -i, *sf.* [C. *blodh;* Br. *bloaz, blizen, blizien;* Ir. *bliadh, bliaghain, bliaghan;* Ga. *bliadhna*] a year: used sometimes absolutely

(like *blwyddyn*), but especially with cardinal numerals to express age.

Meithryn y mab awnaethpwyt. yny llys yny oed *vlwyd*. achynn y *vlwyd* yd oed ynkerdet yn gryf.
Mabinogion, iii. 31.

Ni chwery cath dros ei *blwydd*.—*Diareb*. (M.A. i. 167.)

Chwechant a hanner o *flwyddi* gwedi dyfod y Cymry gyntaf i Ynys Prydain, sef hyny, mil o *flwyddi*, a deucant ac un ar bymtheg, cyn geni Crist.—*Barddas*, i. 406.

Adrodd pob *blwydd* o'm hoedran,
O ddiwyd rif, oedd dy ran.—*Gro. Owain*, 63.

Y Goruchaf Dduw, yn agos i ddwy fil o *flwyddau* cyn geni Crist, a ymddangosodd i Abram.
G. Mechain: Eglur Olygiad, 25.

Blwydd oed, a year old.

Mab wyth *mlwydd* oedd Iosïah pan ddechreuodd efe deyrnasu.—2 *Cron*. xxxiv. 1.

Anifail blwydd (*pl.* anifeiliaid blwydd, anifeiliaid blwyddiaid, anifeiliaid blwyddi), a yearling; a beast one year old (or in the second year of its age).

Anner flwydd (*pl.* anneirod blwydd, anneirod blwyddiaid, anneirod blwyddi), a yearling heifer, a year old heifer.

Deugain punt y flwydd (=deugain punt y flwyddyn), forty pounds a year; forty pounds per annum.

Cyfoethog iawn, yng nghanol blodau llwydd,
Ystyrid ef ar ddeugain punt y *flwydd*.
Blodau Ieuainc, 53.

Blwyddiad, iaid, *sm.* a yearling; one of a year old.

Oen blwyddiad (*pl.* ŵyn blwyddiaid, ŵyn blwyddi), a yearling lamb; a lamb of the first year.

Ac offrymwch gyd â'r saith oen *blwyddiaid*. . . Yna aberthwch un bwch geifr yn bechaberth, a dau oen *blwyddiaid* yn aberth hedd.—*Lef*. xxiii. 18, 19.

Blwyddiadur, -on, *sm.* a year-book; a calendar; an annual.

Gwneir pleidiaeth o gyhoeddiadau enwad, dyddiaduron, *blwyddiaduron*, colegau, cyfarfodydd chwarterol, cynnadleddau, cymmanfaoedd, a thrysorfäu.
Sam. Roberts: Croniel, rh. 410. 166.

Blwyddol, *a.* yearly, annual.

Blwyddolion, annuals; annals.

Hanesion blwyddol, yearly narratives; annals.

Blwyddyn (*ȳ*), -edd, -au, *sf.* [cf. *blwydd:* C. *blidhen, bledhen*] a year, a twelvemonth. The pl. is generally *blynyddoedd* or *blynyddau* (from the sing. *blynedd*). It is used absolutely, and after ordinal numerals, but seldom (except in the case of *un*) after cardinal numerals.

Bluiddynedd buddig rossedd rihidd reitheu.
Taliesin: M.A. i. 31.

Ac o dyna em pen er un *wlwydyn* ar dec eg Kaer Efrawc e darestyghws Constans y dylyet agheu. . . Ac en e lle gwedy arveru o honaw ef a llywodraeth e teyrnas kyn ychydyc o *wlydyned* ef a dangosses bot endaw dyrvawr clot a molyant a haylder.—*Brut Gr. ab Arthur:* M.A. ii. 207.

Nid heb ladd enaid fu'r *blwyddynedd*
Un da iawn hirddawn harddedd llawenydd.
Gr. ab Meredydd: M.A. i. 439.

Yscynnu ar *flwyddynedd* ieuenctid.
Buchedd Gr. ab Cynan: M.A. ii. 586.

Blwyddyn egfaenog, *blwyddyn* ariannog. *Blwyddyn* gneuog, *blwyddyn* leuog.—*Iolo Mss*. 226.

Wedi hyn y bu heddwch dros ryw ychydig o *flwyddynau*.
Iolo Mss. 21.

Y naill *flwyddyn* a fydd fam i ddyn, a'r llall ei elltrewyn.
Diareb. (M.A. iii. 178.)

Blwyddyn a blwyddynedd, a year and years; years and years: a hendiadys occurring in the Welsh Laws and elsewhere.

Velly y treulassant *blwydyn a blwydyned* yny doeth teruyn ar hoedyl Pwyll.—*Mabinogion*, iii. 36.

Blwyddyn a hanner, a year and a half.

Blwyddyn naid (*pl.* blynyddau naid, blynyddoedd naid), leap-year, bissextile.

Y flwyddyn naid, the leap-year.

Mewn *blwyddyn naid*, e fydd rhifedi y Suliau wedi'r Ystwyll yn gynnifer a phe buasai Dydd Pasc yn syrthio yn ddiweddarach o ddiwrnod nag yn wir y mae. Ac am yr un achos mae'n rhaid, ym mhob *blwyddyn naid*, roi un diwrnod at y dydd o'r mis sydd yn y daflen.
Ll. G. Gyffredin (Taflenau).

Undydd a blwyddyn, a year and a day: a common expression in the Welsh Laws and other documents.

Sef yw cylch amser cyfan, *undydd a blwyddyn*, a phedair wythnos ym mhob mis, a thrimis ar ddeg yn y *flwyddyn*.
Barddas, i. 410.

Un flwyddyn, one year.

Y flwyddyn newydd, the new year.

Wyneb y flwyddyn, spring-time; the spring.

Blwyddyngwaith (*n-g*), *sf.* a year's space; a certain year.

Am hynny y kynghorwn i idaw efo yr hedwch yr deyrnas. ac yr kynnal y gedymdeithyon yn y law gwrthlad Lawnslot oe lys *blwydyngweith* yny elei y chwedleu at vrenhin Claudas.—*St. Greal*, § 226.

Blwynedd, *pl.* blwynyddedd, *sf.* a year.

An byt ny *blwynydet* [*al.* bluitinet] a hir dieu.
Myrddin: M.A. i. 138 (cf. A.B. ii. 23).

Ny wydit py le yd ymgudyssynt yn yr ynys dalym o *vlwynyded*.—*Brut y Tywysogion*, 80 (cf. 32).

Dy *flwynyddedd* di a barhânt.
Ll. G. Gyffredin 1586 (Salm. cii. 25).

Blwys, -ion, *s.cl.* bloom; blossoms, flowers.—*Llanover Ms.*

Blwysgoed, -ydd, *s.cl.* blooming trees or shrubs.—*Llanover Ms.*

Blwysioni, *v.* to bloom, to blossom.

Blwysog, *a.* bloomy, blooming; full of blossoms; flowery.

A blysio'r gwigau *blwysog*.—*Llanover Ms.*

Blychaid, eidiau, *sm.* [blwch] a boxful.

Blychodi, *v.* to put in a box, case, or sheath?

Di eisieu llaw dwys iarll hen
Blychodi heb lucheden.—*Rhys Nanmor*, i'r Cledd.

Blychu, *v.* to put or inclose in a box or trunk.

Blychwr, wyr, *sm.* a box-maker; a dealer in boxes.

Blychyn, -au, *sm.* 1. a little box. 2. a large earthen vessel; an urn: also called *twmpyn*.—*Gwent*.

Blydd, *a.* soft, tender, delicate; sappy, juicy; lithe, flexible, limber.

Yn lle llysiau blodau *blydd*, goddifa,
Llewa eu gwala oll o'u gilydd.
Dewi Wyn: Blod. Arf. 47.

Yr elyffant mor amrosgo ceisiai eu
Dywenu, a dynyddai ei rynswch *blydd*.
W. O. Pughe: C.G. iv. 383 (cf. H.G. 18).

Blyddedd, *sm.* tenderness, softness; sappiness; lithesomeness, limberness.

Blyddedd, -au, *sf.* a year.—*P.*

Blyddyn, -edd, *sf.*=*Blwyddyn, Blynedd*.

Dy flynyddedd di a barhânt o genedlaeth i genedlaeth. . . . Tithau yr un ydwyt, a'th *flyddynedd* ni phallant.
Ll. G. Gyffredin 1567 (Salm. cii. 25, 27).

Blyngaidd, *a.* [blwng] somewhat sullen or angry; turbulent; passionate.

Blyngawd, *sm.* a becoming angry or sullen; a frowning.

Greid bleit *blyghaud*. gretyw detyw duraud. gnaud brauduriaeth.—*Cuhelyn:* A.B. ii. 6 (M.A. i. 164).

Blait bytin orthew yn derw *blynghawd*.
Meilir: M.A. i. 189.

Blyngder, -au, *sm.* sullenness, angriness; anger; ruffled temper; turbulence.

A chad fragad fraisg am waisg wychder
A chammawn yn llawn llid a *blyngder*.
Gr. ab Meredydd: M.A. i. 440 (cf. 437).

Y cathod, mewn ofn cethin,
Mewn cyfyngder, *blyngder* blin,
A lechant ar le uchod,
Fan rhydd, a da fydd ei fod.—*Daniel Ddu*, 277.

Blynghâd, *sm.* a becoming angry or sullen.

Blynghau, *v.* [blwng] to become angry or sullen; to frown; to become sad.

A *blyghau* aoruc y uorwyn.—*Mabinogion*, i. 18.

Ac gwedy gwelet o Kynan Meyryadawc Yarll Kernyw yn rody y kyghor hwnnw. *blyghau* a sorry a oruc. kanys e holl ynny ae holl lavur ef oed en keyssyaw e vrenhynyaeth ydaw ehun.—*Brut Gr. ab Arthur:* M.A. ii. 211 (cf. 307, 366).

Gwr nyth annerchwys di o dim. canys dylyei achaws y *vlyghau* o honot.—*Campau Charlymaen*, ¼57.

Blyngu, *v.* to rouse up the passions; to ruffle the temper; to make angry.

Blyngyn, *sm.* an angry, cross-grained, or sullen person; a turbulent one.

Blynedd, *pl.* blynyddoedd, blynyddau, *sf.* [cf. *blwydd*, *blwyddyn*] a year, a twelvemonth. Used absolutely, and with cardinal numerals.

Y pen y seith *mlinet*.—*Myv. Arch.* i. 580.

Seith *mlyned* yr awron ydetteleist di holl wyrda Ffreinc.
Yst. de Carolo Magno, col. 465.

Byrr *vlyned* en hed yd ynt endaw.—*Aneurin:* God. 59.

Neud nam dilyd llid lliaws *blynedd*.
Gwilym Ddu Arfon: M.A. i. 408.

Tu hwnt i bob cof i mi fy *mlynyddau* er yr awr y'm ganed.—*Iolo Mss.* 190.

Dy *flynyddoedd* di sydd yn oes oesoedd . . . a'th *flynyddoedd* ni ddarfyddant.—*Salm.* cii. 24, 27.

Mil o flynyddoedd, a thousand years.—*Salm.* xc. 4; *Dad.* xx. 2, 3.

Y mil blynyddoedd, the thousand years; the millenium.—*Dad.* xx. 5, 7.

Dwy flynedd, two years.

Tair blynedd ol yn ol, three years successively; three successive years.

Y blynyddau hyn, these years.

¶ Zeuss (*G.C.* 283) erroneously treats *blynedd* as plural.

Blynyddol, *a.* annual, yearly; relating to the year.

A'r gwr Elcanah a aeth i fyny, a'i holl dylwyth, i offrymu i'r Arglwydd yr aberth *blynyddol*.
1 *Sam.* i. 21 (cf. ii. 19; xx. 6).

Cyfarfod blynyddol, an annual meeting.

Yn flynyddol, annually, yearly; once a year.

Un yw hwn ag Adonis, duw y Syriaid, a fyddai yn marw *yn flynyddawl*, yn ol y chwedl.—*W. O. Pughe:* C.G. i. 476 *n.*

Blynyddolion, annuals; annals.

Blys, -iau, -ion, *sm.* strong, ardent, longing, eager, or inordinate desire; a craving or longing (for); a strong inclination or disposition to gratify a passion; a hankering; desire; lust.

Dial blas aval *blys* Eva.
Cynddelw: M.A. i. 250 (cf. 165, 259, 471).

Ei chnwd clas o flas o *flys* merched.
Madog Dwygraig: M.A. i. 487.

Ac en e pedweryd dyd e deuth idaw *blys* kic hely.
Brut. Gr. ab Arthur: M.A. ii. 372.

Blys pob peth fydd ar wan.—*Diareb.* (M.A. iii. 149.)

Beddau y Blys, the Graves of Lust (=Kibroth-Hattaavah).

O fewn Taberah hefyd, ac o fewn Massah, ac o fewn *Beddau y Blys*, yr oeddych yn digio yr Arglwydd.
Deut. ix. 22 (cf. Num. xi. 35).

Codi blys, to excite desire.

Edrych arno yntau yn yfed ei winoedd . . . ac yn sipian ei weflau diawl i *godi blys* arnom.—*Gro. Owain*, 333.

Blys gweled, a desire or wish to see.

Nid eisieu deall a wnaeth iddo adael allan o'i Eirlyfr gymmaint o eiriau; ond brys a *blys ei weled* wedi dyfod i ben cyn ei farw.—*Gro. Owain*, 261.

Blysäu, *v.*=*Blysio.*

Mal hyn ennillant hwy
Laweroedd o bob cenedl i *flysäu*
Newyddion Nef.—*W. O. Pughe:* C.G. xii. 558.

Blysgar, *a.* longing, hankering, or craving (for); having a vehement or inordinate desire.

Blysgarwch, *sm.* hankering; cravingness.

Blysiad, -au, *sm.* a longing, hankering, or craving.

Cyflwr pob dyn fydd gofiin
O'i *flysiad* mewn bloeddiad blin.
Edward Ifan: Melgafod, 38.

Blysig, *a.* having vehement desire to enjoy (especially what pleases the palate); pleasing the appetite; dainty; epicurean; voluptuous; lustful; craving.

Pan oedd *flysig* hon hyn a'm siomes.
Madog Dwygraig: M.A. i. 487.

A thrydar meibion, a thro cerddorion
A thrabludd gweision gosymdeithig;
A thrallod cegin, a thrulliaid trablin,
A thri lliw ar win i wan *blysig*.
Deio ab Ieuan Du: G.B.C. 171.

Gosod gyllell ar dy geg, os byddi ddyn *blysig*.
Diar. xxiii. 2.

Tafod blysig, a dainty tongue.

Lle difudd i *dafawd blysig*.—*Hywel Ystoryn:* M.A. i. 519.

Blysig fwythau (=mwythau y blysir am danynt), dainty luxuries.

[Y bleiddiaid] a ddewisant yr ŵyn goreu a'r gweddrod brasaf o'r holl gorfa, er cael y *blysig fwythau* a drachwantant.—*Iolo Mss.* 174.

Blysigrwydd, *sm.* fondness of or hankering after dainties or luxuries; epicureanism; voluptuousness.

Blysio, *v.* to desire eagerly; a hanker after; to desire; to long; to have a keen appetite for; to lust; to relish.

Eithr *blysiasant* yn ddirfawr yn yr anialwch.
Salm. cvi. 14 (cf. lxxxiv. 2).

Blysio am, to long for or after; to desire eagerly.

Blysiol, *a.* disposing to long or desire.

Blysion, *s.pl.* dainties, niceties, delicacies.

Prydyddion yn son y sydd, i'w blasau
Yn cael *blysion* beunydd;
Llenwi mae pob llawenydd,
Heb drai yn ei dai un dydd.
Gutyn Owain, i Ph. ab Madog.

Blyslawn, *a.* full of desire or longing; blissful.

Mal hyn yn siared lawlaw aent hwy at
Eu deildy *blyslawn*.
W. O. Pughe: C.G. iv. 754 (cf. v. 312).

Blythach, -od, *sm.* [blwth: cf. *blothach*] a bloated person.—*P.*

Blythai, eion, *sc.* a guzzler; a bloated one.

Ai nad culion ynt hwy neu *flytheion?*
W. O. Pughe: E.D. i. 8.

Blythar, eiriau, *sm.* [=brythar] an eructation, a belch.

Blytheiriad, -au, *sm.* a belching, eructation.

Blytheirio, *v.* to eructate, to belch.

Blytheiriwr, wyr, *sm.* a belcher.

Bo, *sm.* [im.: cf. *bw*] 1. a bugbear, a bogy, a bogle; an object of dread: hence, 2. one set to keep an eye on people; an overlooker; one who is considered a bugbear (by workmen).

Bo, *int.* [im. =bw: cf. L. *bo-are;* Gr. *βοά-ειν*] an exclamation intended to surprise, frighten, or scare; bo! boh!

Bo! ebe'r diawl wrth y mochyn mawr.—*Diareb.*

Bo, *v.* [=byddo] 3rd pers. sing. pres. subj. and sec. fut. indic. of *bod:* may be; he (she, or it) may be; will or shall have been.

Mal y bo, as it may be; that it may be.

Pedeir ar ugeynt o pob guled e *bo* med arney.
Cyfreithiau Cymru, i. 22.

Aet un heb ynteu ynyherbyn. ywybot pwy *vo.*
Mabinogion, iii. 16.

Hyueid Hir ermygir tra *vo* kerdawr.—*Aneurin:* God. 56.

Ond gnawd mawl bythawl lle *bo*,
Rhyddaf i'r gwr a'i haeddo.—*Gro. Owain*, 11.

Fel y *bo* heddwch a dedwyddwch . . . yn sefydlog yn ein plith.—*Ll. G. Gyffredin* (Gweddïau).

Bo, *adv.* =*Po*, q.v.

Bo amlaf y bleiddiaid, gwaethaf fydd i'r defaid.—*Bo* hynaf y dyn, gwaethaf fydd ei bwyll.
Diareb. (M.A. iii. 149).

Boba, *sf.* a fond or pet form of *modryb*, aunt; auntie.

Ba anair a gair o gân?
Nad yw *boba* ond baban;
O bab y beirdd, *boba* bach,
Ac o'u *boba* cyw bwbach.—*Dewi Wyn:* Blod. Arfon, 190.

Bocsach, -au, *sm.* [prob. a contracted word; but its elements are not obvious: cf. *bwg;* and E. *bog*, blustering] 1. boast, brag, vaunt, tall talk, vain-glorious speech; a boasting, vaunting, or bragging; swagger.

Arglwyd heb yr unbennes nyt reit ytt un *vocsach* yr dy vot yn nei idaw.—*St. Greal*, § 95.

Dywawt Gagius nei yr amherawdyr bot yn vwy *bocsach* ac orhofder y Brytanyeit noc eu gallu.
Brut Gr. ab Arthur (B): M.A. ii. 339.

Ymhen ychydic amser y dangoses rai oi gymdeithion ef gwbl *fogsach* Elphin.—*Mabinogion*, iii. 331.

Hyd yn llys Facsen nid llaes *focsach.*
Iustus Llwyd: M.A. i. 559.

2. ostentatious zeal; indignation.

Yno y cyfodes yr archoffeiriad, a'r oll rai oedd gyd ag ef (yr hwn ydoedd sect y Tsaducaid), ac ydd oeddynt yn llawn *bocsach* [° gwynfyd, soriant: Gr. *zêlos*], ac a ddodesont ddwylo ar yr apostolion.—*W. Salesbury:* Act. v. 17.

Bocsachu, *v.* to boast, to vaunt, to brag.

Ac wynteu yn gwneuthur diruawr lewenyd ac yn *bocsachu.*—*St. Greal*, § 76.

Bocsachu yw ymwneuthur o dhyn y vot yn eidhaw y peth nyt ydiyw.—*Ymborth yr Enaid*, § 5 (cf. 4).

A hwnnw a yspeilwyt oe teyrnas ae wywyt ygan Wilim bastard tywyssawc Normandi, kyt *bocsachei* or uudugolyaeth kynno hynny.—*Brut y Tywysogion*, 44.

Ac ar hynny nachaf sathan tywyssauc uffernn yn dyuot. ac yn dywedut wrth uffernn. Embarattoa y erbyn iessu yr hwn a *vocsacha* oe vot yn vab y duw.
Llyfr Gwyn Rhydderch.

Bocsachus, *a.* boastful, boasting, vaunting, bragging.

Dwyn ruthur idaw yn gyflym ac ef yndywedut y geir *bocsachus* ae wan a gwaew trwydaw.
Yst. de Carolo Magno, col. 479.

A gwedy dyuot y lluoed hyt yn Aber Gweili: y kyrchws Rein yr ymlad yn valch *bocsachus* gan annoc y wyr.
Brut y Saeson: M.A. ii. 504.

A dywedut geir *bocsachus* yn uchel.
Campau Charlymaen, § 65.

Am a welais, nid oedd Hector *focsachus* yntau, a blaenoriaid a phendefigion Troia fawr, ddim gwell.
Gronwy Owain, 294.

Bocsachwr, wyr, *sm.* a boaster, braggart, vaunter, or braggadocio; a swaggerer.

Bocsedd, *sm.* boastfulness, braggardism; boast.

Geiriau bocsedd, words of boasting, boasting words.

Cnawd yng Ngwynedd *focsedd eiriau.*—*Myv. Arch.* i. 541.

Bocys, *sm.* and *cl.* [L. *buxus;* Gr. *πύξος*: C. *box;* Br. *beuz;* Ir. *bucsa;* E. *box*] box; box-tree; box-wood (*Buxus sempervirens*). Also called *yspeinwydd* and *rheinwydd.*—*H. Davies:* Welsh Bot. 134, 159.

Os bydd dy wallt yn diwreiddio, golch dy ben ag wysgell rheinwydd, sef *bocys*, ac ni chwymp.—*Llanover Ms.* 4.

Gogoniant Libanus a ddaw atat, y ffynidwydd, ffawydd, a *bocys* yng nghyd.—*Esa.* lx. 13 (ed. 1752).

Pren bocys (*pl.* coed bocys), box-tree.

Gosodaf yn y diffaethwch ffynidwydd, ffawydd, a'r *pren bocys* yng nghyd.—*Esa.* xli. 19 (ed. 1746).

Dyffrynoedd tywodog, lle gynt bu drain dyrys,
Addurnir â sybwydd a lluniaidd *bren bocys.*
Blodau Ieuainc, 3.

O liw y bocys, of the colour of box; pale as box; boxen.

Ei gruddiau o liw'r bocys, her cheeks of boxen hue.—*W.*

Llwyn bocys, box grove or bush.

Bocys pigoglym, boxthorn; formerly called prickly box.

¶ Most editions of the Bible (*Esa.* xli. 19; lx. 13) have *box* or (in Welsh letters) *bocs* for *bocys.*

Bocysaidd, *a.* boxen; of or like box.

Bocysen, *sf.* box-tree.

Bocysog, *a.* full of box or box-wood.

Bocyswydd (*sg.* -en, *f.*), *s.pl.* and *cl.* box-trees; box-wood; the box.

Yma yr wyf yn canfod . . . yr ymyl-gylchoedd gweddus o *focyswydd*, y rhai, megys amweoedd syml, a gylchynant bob dosparth prydferth.—*Myfyrdodau Hervey*, 184.

Boch, -au, *sf.* [C. *boch;* Br. *bôc'h;* L. *bucca;* L.L. *bocca;* Fr. *bouche*] 1. a cheek; the cheek puffed or filled out in speaking, eating, or blowing), differing from and less elegant than *grudd*, which is the upper part of the cheek under the eyes (=L. *mala*).

Ef [y llew] a gymell ei vwyt i vyny oi voly tu ai *vochæ.*
Cyfraith Arfau.

Deu-wrid ei *boch*, rhosyn deu-goch.
Rh. Goch ab Rhicert: Iolo Mss. 244.

'Wel,' ebr Luciffer . . . 'yr wyf yn dy orchymmyn tros saith mlynedd i safn un o bregethwyr yr ysgubor, a ddywed y peth cyntaf a ddêl i'w *fochau.*'
Elis Wynn: Bardd Cwsg, 102.

Clywch gloch rhwng dwy *foch* fychain,
Rydd, heb rus, arswydus sain.—*Daniel Ddu*, 276.

Bochau cochion, red or ruddy cheeks.

2. a chop, chap, or jaw: generally in the plural.

Bochaid, eidiau, *sf.* a chopful; a mouthful.

Bochdew, *a.* full-cheeked; having fat cheeks.

Y bachgen bochdew, the full-cheeked boy.

Bochddant, ddaint, ddannedd, *sm.* a cheek-tooth, a jaw-tooth, a grinder.

Bochfoch, *adv.* cheek to cheek; cheek by jowl.

Oeddynt â'u cleddyfau finfin . . .
Eu ysgwydau *fochfoch.*—*Cynddelw.* (*P.*)

Bochgern, -au, *sf.* one of the sides of the face; a cheek; a jaw.

Gosodaf fachau yn dy *fochgernau.*
Esec. xxix. 4 (cf. xxxviii. 4).

Y rhai a godant yr iau ar eu *bochgernau* hwynt.
Hos. xi. 4.

Bochgernaid, eidiau, *sf.* a chopful.

Bochglug, *a.* full- or round-cheeked; blubber-cheeked.—*P.*

Ef gwnaeth yn erthyst byst *bochgluc*
A glyw briw branes dy orlluc.
Llywarch ab Llywelyn: M.A. i. 280.

Bochgoch, *a.* red- or ruddy-cheeked.

I'r Gwynn llawen, *fochgoch* fachgen,
Hardd ei ddichwen, arwydd iechyd.
Rhys Jones: Gwaith, 121.

Awen y bachgen *bochgoch,*
Euraid y cân, yn ei wrid coch.—*Cawrdaf:* Gweith. 142.

A welwch chwi y plentyn bach *bochgoch,* parablus, sionc, a llawen acw?—*Thomas Rowland:* Pregethau, 220.

Bochiad, -au, *sm.* a filling of the cheeks; a gobbling or munching.

Bochig, *sf.* a little cheek.—*W.*

Bochio, } *v.* to stuff the chops or mouth; to
Bochian, } chop up; to chop; to gobble; to munch; to devour eagerly.—*S. W.*

Sylwyd yn neillduol fod Tomos y diacon yn ei *bochian* hi, nes yr oedd y chwys yn ddyferynau mawrion yn syrthio dros ei gernau.—*Haul,* C.C. ix. 76.

Bochio bwyd, to gobble food.

Bochlaes, *a.* flabbly-cheeked; hollow-cheeked.

Bochlipa, *a.* hollow-cheeked, flabby-cheeked.

Bochlwyd, *a.* pale-cheeked; pale-faced.

Bochlwyth, -i, *sm.* a chopful; a large mouthful.

Bochlwytho, *v.* to stuff the mouth; to gobble; to eat greedily.

Bocho, *vn.* to swell out (as the cheeks in blowing), to bulge.

Bochodog, *a.* [C. *bochodoc*]=*Bychodog, Bychydig.*

Bochog, *a.* having cheeks; having great cheeks; full-cheeked; puffed.

Bod, *v.* [C. *bos;* Br. *bout;* Ir. *beith, bi;* Ga. *bi;* Mx. *be;* E. *be,* †*beon*] 1. to be; to exist.

Ku kyueillt Ewein
Kwl y *uot* a dan vrein.—*Aneurin:* Gododin, 17.

Ae menegi yr neb pennaf dy *uot* titheu yn drws y porth. Manac fy *mot* yma heb Peredur.—*Mabinogion,* i. 250.

Wrth awch bot awch *bod* yn llawen.
Cynddelw: M.A. i. 256.

Synier hyn, o'r amser yr ymddyger dyn yn y groth ym mlaen hyd tragywyddoldeb, na phaid ef byth â *bod.*
Elis Wynn: Rh. B. S. ii. 6 (129).

Bydd wych hyd y bych yn *bod.*
Rhys Jones: Gwaith, 129.

Gwedi bod, having been; having existed.

Yr wyf wedi bod, I have been.

Yn bod, being; existing; in existence.

Ynddo ef yr ydym ni yn byw, yn symmud, ac *yn bod.*
Act. xvii. 28.

Ar fod, on the point of being; about to be.

Ar fedr bod, with or having the intention of being; intending to be; about to be.

Gadëwch i hyny fod, let that be; be it so.

Bod gan, to be with; to have; to have intercourse with.

Bod gan wraig, rem cum femina habere.

Am syrhaet brenhin yw hynn. . . Trydyd yw kamaruerv oe wreic sef yw hynny *bot genthi.*—*Cyfreithiau Cymru,* i. 346.

Byw a bod, to live and exist.

In the beginning, and especially in the objective clause, of the sentence, *bod* has often the force of *that is* (*are*), *that was* (*were*), &c.

Bod yr Ysgrythyr Lân yn ddigonol i iachawdwriaeth, that the Holy Scripture is sufficient for salvation.—*Ll. G. Gyffredin* (Erth. 6).

Bod i'r hwn sydd yn caru Duw, garu ei frawd hefyd.
1 *Ioan* iv. 21.

Cofia'm mhob cel *bod* Duw a'th wel.—*Iolo Mss.* 226.

O debygu y *vot* yn wrda y vuched.—*St. Greal,* ¶ 76.

Pei dywedid *bod* llygad neu wallt gan ferch; neu am bren, ei *fod* yn tyfu; neu am aderyn, *bod* iddo bluf.
Cyfrinach y Beirdd, 23.

Deallais ei fod cf yno, I understood that he was there.

Pand teg lle mae anrheg ym',
Bod elw y byd i Wilym;
Bod teml Ieuan ab Tomas,
Bod ei air oll, *bod* ei ras.—*L. G. Cothi,* VIII. vii. 7.

Pan welodd Iacob *fod* yd yn yr Aipht. . . Dywedodd hefyd, Wele, clywais *fod* yd yn yr Aipht.—*Gen.* xlii. 1, 2.

Rhaid i'r neb sydd yn dyfod at Dduw, gredu ei *fod* ef, a'i *fod* yn obrwywr i'r rhai sydd yn ei geisio ef.—*Heb.* xi. 6.

2. to be; to come to pass; to occur, take place, or happen: a frequent meaning, especially in the preterite and future.

A bu, and it came to pass; and it happened or occurred.

A bu, ac efe mewn rhyw fan yn gweddïo, pan beidiodd, ddywedyd o un o'i ddisgyblion wrtho.—*Luc* xi. 1.

Beth sy'n bod? what is there? what is it? what happens? what is the matter?

¶ *Bod,* the substantive verb, is, in Welsh as in most other languages, irregular and defective, the full conjugation being effected by a union of distinct verbs, as, *oedd, yw, mae, oes, sydd.* Cf. Davies, *Rudimenta* (ed. 1809), 112; Zeuss, *G.C.* 545; Rowland, *Welsh Grammar* (4th ed.), §§ 273—280; Spurrell, *Grammar of the Welsh Language* (3rd ed.), 87.

Bod, -au, *sm.* being, existence; essence.

Can y daw ym bot om *bod* yn de.
Llywarch ab Llywelyn: M.A. i. 292.

Megys ag mai o hono ef y mae gwyddor ein *bod* ni wedi dyfod, o hono ef hefyd y mae parhâd y *bod* yma.
Ier. Owen. 49.

Sylfaen crefydd yw *bod* Duw.
Geo. Lewis: Drych Ysgr. 1.

Mewn bod, in being; in existence; existing, extant.

Ymwelläu ac ymdderchafael yn nhreigl yr abred y mae dyn drwg pan fo marw, a myned ei enaid ef i'r pryfyn gwaelaf *mewn bod.*—*Barddas,* i. 242.

Y bod o Dduw (=bodoldeb Duw), the being or existence of God.

Bod ac anfod, existence and non-existence; being and non-entity.

Efe a ddeall y peth a fo da, a'r peth a fo drwg . . . a phob dechreu a phob diwedd, a phob ymmod a phob gorphwys, a phob *bod,* a phob *anfod,* a phob adfod.—*Iolo Mss.* 195.

Bod a gorfod, being and impulse; existence and necessity.

Ni ellir parch nac ammharch, na bonedd nac anfonedd, o *fod a gorfod;* eithr o dda neu ddrwg ymddwyn herwydd *bod a gorfod.—Traith Bonedd ac Arfau.* (*P.*)

Bod a hanfod, being and existence.

Amlder sylwedd a selwedd, ac amlder seldrem ar *fod a hanfod.—Cyfrinach y Beirdd*, 13.

Nid oes onid un iawn o'r cyfan wrth *fod a hanfod.*
Barddas, i. 296.

Bod a bywyd, existence and life.

Hanesgerdd yw cân neu gerdd dafod yn son . . . am gampau enwog, ac ardderchog, a daionus, er hyfrydwch a lles i'r byd, ar wr neu wraig yn eu hamrafael raddau o *fod a bywyd.—Cyfrinach y Beirdd*, 37.

Tŵr gwir gadernid wyd i ni;
Mae'n *bod a'n bywyd* ynot ti.
Iolo Morganwg: Salmau, II. cxlix. 2 (cf. lxxi. 1).

Bod, -au, *sm.* a being; that which exists, or is conceived as existing.

Pe na byddai un Duw, o ba le y mae fod gan bob un egwyddor ynddo ei hun, ag sydd yn ei fynych rybuddio fod yn rhaid iddo ymddangos ger bron *Bod* anweledig mewn barn?—*Geo. Lewis:* Drych Ysgrythyrol, 2.

Y Bod Goruchaf, the Supreme Being.

Pob byw a bod, everything living and existing; every living being.

Rhaid yn gyfiawn ystyried a deall ei briodolderau; sef ei fodoldeb dihanfod er tragywyddoldeb, a hyd yn eithaf tragywyddoldeb; a'i anfeidrol ddaioni tuag at bob *byw a bod.—Cyfrinach y Beirdd*, 34.

Bod, -au, *sf.* [prob. the same word as *bod*= existence: cf. E. *abode*] an abode, a dwelling-, or abiding-place; a dwelling; a residence; a station.

Gwell mefl *fod* no mefl gerdded.—*Diareb.* (M.A. iii. 160.)

Bod, in this sense is mostly found in compounds; as, *llefod* (lle+bod), *preswylfod*, *trigfod*, *hafod* (haf+bod), *gauafod* (gauaf+bod). It is also of common occurrence in place-names, both of parishes and mansions, especially in North Wales; as, *Bod Edern*, *Bod Organ*, *Bod Fuan*, *Bod Ferin*, *Bod Idris*, *Bod Ysgallen*, *Bod Elwyddan*, *Bod Afon:* now generally but less accurately written in one word: *Bodedern* or *Bodedeyrn*, *Bodorgan*, *Bodfuan*, &c. Cf. *Celtic Remains*, s.v. *Bod.* It is very rare in South Wales, where, especially in Pembrokeshire, it seems to be represented by *tref*, though the latter is also common in North Wales, notably in the Isle of Anglesey, in which *bod* is likewise proportionally more frequent than in any of the other counties.

Bod, -od, *sm.* [cf. C. *bid* in *bid*nethein (Zeuss. G.C. 1074; Stokes, Corn. Gloss. 11); L. *buteo*] a kite; the mountain kite (*P.*); the buzzard.

Dyma y rhai ni fwytëwch o honynt: yr eryr, a'r wyddwalch, a'r forwennol, a'r *bod*, a'r barcud.—*Deut.* xiv. 12, 13.

A gurwyd di gan gorwynt,
Neu ryw beth, o'r cywir bwynt?
Neu a fu barcud neu *fod*,
Yn d' yrfa, bron â d' orfod?
Gwallter Mechain: Gwaith, i. 153.

Bod y gwerni, the moor buzzard.

Bod y gwerni. Hyd, cylch 22 fodfedd; lled yr iâr, pedair troedfedd a phum modfedd a hanner.—*Gwyliedydd*, ix. 338.

Bod y mêl, the honey buzzard.

Bod y mêl sy gylch dwy droedfedd o hyd, ac ymledir yr adenydd i gylch pedair.—*Gwyliedydd*, ix. 338.

Bod teircall, the common buzzard.

Bod tinwyn (*f.* iâr dinwen), the henharrier; the bald buzzard.

¶ In some localities the vowel in this word is pronounced short, and is so marked by Dr. Davies (*bòd*): but final *d*, with hardly an exception, makes the preceding vowel long. Cf. *Llythyraeth y Gymraeg*, § 39.

The name seems to be applied in some places to the kite, and in others to the buzzard; just as in some counties of England the kite is called the *puttock*, while in others that name is bestowed on the common buzzard.

Boda, -od, *sm.* [bod: cf. L. *buteo*] a kite or glede.

Mi a glywais hen chwedl, eb un arall, i'r colomenod gynt ammodi â'r barcutanod ar eu cadw rhag rhuthr y brain: y *bodaod* yn ddilys ddigon a erlidiasant y brain ymaith; ond beth er hyny? Nid hwyrach ag y byddai chwant saig felus ar y *bodaod*, nid dim arall a wasanaethai eu tro ond colomen at giniaw a phrydnawnfwyd.
Theo. Evans: D.P.O. i. 4 (97).

A hwswi am guddfa, rhag cardod i'r gwrda,
A frysia, wawr *boda*, i'r beudy.—*Daniel Ddu*, 271.

Boda chwiw, the kite: so called from its cry (*chwiwian*).—*Ystrad Tywi.*

Boda, *sf.* a fond, pet, or familiar name for *modryb*, aunt; auntie.

Bodadwy, *a.* that may be or exist; future.

Amser bodadwy, future tense.

Bodedigaeth, -au, *sf.* being, existence; essence.

A hwn a elwir Duw; yr hwn sydd unig-un, am nas geill fod ychwaneg nag un gwir Dduwdod, sef un unig naturiaeth, sydd, neu *fodedigaeth*, o allu, doethineb, a daioni, &c., diderfyn ac anfesurawl. Eto er hyny, y Duwdod hyn a geir mewn tri Pherson, a elwir y Tad, y Mab, a'r Yspryd Glân; a'r tri Pherson hyn ydynt un unig Dduw; am fod ganthynt yr un Duwdod, sydd, neu *fodedigaeth* . . . ond *bodedigaeth* Duw sydd annherfynawl.
Rosier Smith: Eglurhâd, 6 (cf. 7, 8).

A'r cyfryw bethau a ddangosant, nid y cadarn yn ei *fodedigaeth*, eithr yn ei ryw, a'i anian, a'i liw, a'i lun, a'i ragor.
Edeyrn: Dosparth, 21.

Bodeg, -au, *sf.* the science of being, ontology.

Dyma y gofyniad yr ymdrecha *bodeg* ei ateb—pa beth sydd yn bod mewn gwirionedd.
Traethodydd, xxv. 46 (cf. 42, 43, 45, 46).

Bodfa, -oedd, fëydd, *sf.* existence in relation of place; existence, being.

I'th enw, Ior, gogoniant boed,
Fal bu erioed hyd yma,
Fal y mae'n awr, ac y bydd byth,
Tra byddo chwyth a *bodfa.—Dafydd Benwyn.*

Bodfedda, *v.* [modfedd]=*Modfedda.—Lleyn.*

Bodfys, -edd, *sm.* [=bawdfys, bawd] the thumb. —*S.W.*

Bodiad, -au, *sm.* a being existent; constitution.

Bodiadol, *a.* 1. pertaining to being or existence; existent, existing; real.

Ac o'r dim diarfod y tardd; sef gan felused a phereidded Duw yn dadgan ei enw hyd onid egryn bywyd drwy'r holl fodoldeb a thrwy bob defnyddoldeb *bodiadol;* a'r gwynfydig yn y nef a'i clywant hyd fyth tragywydd.
Barddas, i. 38.

2. existing, present.

Tri amser peirwyddiad neu werf: buedig.; *bodiadol;* a bodadwy.—*Llanover Ms.*

Bodiau, *s.* pl. of *Bawd.*

Bodio, *v.* [bawd] to use the thumb; to feel with the thumb; to thumb; to finger; to fumble.

Gwr â phob llaw'n *bodiaw* bwyd,
Fal ceinc-wr ar fol can-cord;
Da y gŵyr, lle digarwyd,
Cynnifiwr bwrdd, cneifio'r bwyd.—*Lewys Meudwy.*

Bodiog, *a.* [bawd] thumbed; big-thumbed; squabby.

A rhoi'r adfwl, brebwl brau,
Was *bodiog*, wrth sibedau.—*Rhys Jones:* Gwaith, 285.

Bodlawn, *a.*=*Bodlon, Boddlawn.*

Cyd bo da, doeth noddfa dawn,
Tref Idloes, tra fwyf *fodlawn.—D. ab Gwilym*, clx. 21.

Bodlon, *a.* [bod+llon]=*Boddlawn.*

Bodlonach y porthasaint eu gwartheg blithion a'u defaid gwlanog na'u meirch cad a rhyfel.—*Iolo Mss.* 186.

Pwy sy yma yn *fodlon* i'w hystâd?
Elis Wynn: Bardd Cwsg, 40.

Y câr, bydd *fodlon;* ni wnaethym ddirgam â thi.
H. Perri: Egl. Ffr. x.

Bydd *fodlon* i gael dy gyfrif yn ddiddym.
Huw Owen: Dilyniad, I. ii. 3.

¶ To many of the writers of the 17th and 18th centuries, and occasionally to others, this word seemed a compound of *bod* and *llon* (not of *bodd* and *llawn*); but inconsistently with this assumed derivation they treated the second vowel as long (*ō*), which, if the second element were *llon*, would not be the case. *Bodlon* is undoubtedly a by-form of *boddlawn* or *boddlon* (q.v.), and seems to have arisen from a corrupt pronunciation.

Bodlondeb, Bodlonrwydd, *sm.*= *Boddlondeb. Boddlonrwydd.*

Mae *bodlonrwydd* ym mhob dygwyddiadau yn dwyn heddwch mawr i'r enaid.—*Elis Wynn:* Rh. B. S. ii. 6 (105).

Yr oedd ei geraint a'i gydnabodau yn ei wrthod ac yn ei adael; a'r cwbl trwy amynedd a *bodlondeb.*
Huw Owen: Dilyniad, II. i. 5 (cf. III. xvi. 1).

Bodlongar (*n-g*), *a.*=*Boddlongar.*

A oes, ynte, achos amgenach, fel na ddylai Gristianogion ddioddef yn *fodlongar* eu holl groes?
Th. Williams: Ymadr. Buch. 15.

Bodloni (*ō*), *v.*=*Boddloni.*

O blegid na ddichon iddynt byth *fodloni* am hyny, rhaid iddynt ddioddef yn dragywydd. Ond y mae gwaed Christ yn *bodloni.—Baddy:* Pasc y Cristion, 96.

Mi a wn na orphwys fy enaid byth, ac na *fodlonir* mo'no â holl drysor a doniau'r byd, ïe, na *fodlonir* mo'no â dim onid â thydi.—*Huw Owen:* Dilyniad, III. xxi. 2.

Onid yw yr hyn ydym neu'r hyn a feddwn yn ein *bodloni*, ni allwn anfodloni i bob peth arall yn y byd.
Elis Wynn: Rh. B. S. ii. 6 (104).

Beth a wnaf i *fodloni* Duw, ac i achub fy enaid truan?
Morgan Llwyd: Gwaedd, 19.

Bodlonus, *a.* contented, content; satisfied; pleased.

Nid oes neb yn ddedwydd ond yr hwn a ddioddefo bob croes ddygwyddiad yn wrol ac yn *fodlonus*, er mwyn Duw a chydwybod dda.—*Huw Owen:* Dilyniad, I. xxii. 1.

Bodo, *sf.* a pet, fond, or familiar name for *modryb*, aunt; auntie.

Bodofydd, -ion, *sm.* an ontologist.

Bodofyddiaeth, -au, *sf.* ontology.

Bodofyddol, *a.* ontological.

Bodol, *a.* [bod] relating to being or existence; being; existent, existing; essential; real.

Priodoliaethau *bodol* [*sylweddol] Duw, nid oes ragoriaeth rhyngddynt a'i hanfod.
Row. Vaughan: Ymarf. Duw. 25 (cf. 9).

Tri chyflwr y sydd ar ansawdd *bodol* a bywydol: gwneuthurawl, fal y mae Duw a'i alluoedd; gwneuthuredig, fal y mae bywydolion meidrol a *bodolion* cymmysg; a'r diwneuthur, sef nas gwnaed ac nas gwna.
Barddas, i. 342 (cf. 276).

Bodolion, beings; essences.

Duw! ynod mae'r holl fydoedd,
Bodolion o bob rhyw,
Yn drefnus yn eu lleoedd,
Yn symmud, bod, a byw.
Iolo Morganwg: Salmau, I. clvii. 3.

Yr oedd coffadwriaeth am y *bodolion* hyn yng nghadw ym mhlith y Cymry hyd yn ddiweddar yn y canol oesoedd.
Carnhuanawc: Han. Cym. 25.

Bodolaeth, Bodoliaeth, -au, *sf.* existence; the state of being.

Yn natur y Iehofah nid oes dim ag y sydd yn wrthwynebol i *fodoliaeth.—Sam. Bowen:* Athr. yr Iawn, 48.

Tydi, dechreuad a chynnaliaeth *bodoliaeth* gyffredinol.
Myfyrdodau Hervey, 407 (cf. 142).

Arferiaeth a bodolaeth, custom and existence.

Taflen bodoliaeth, the scale of being.

Bodoliaeth Duw (=bodoldeb Duw), the existence of God.

Bodoldeb, *sm.* existence; being.

Rhaid yn gyfiawn ystyried a deall ei briodolderau; sef ei *fodoldeb* dihanfod er tragywyddoldeb.
Cyfrinach y Beirdd, 34.

Tri theithi *bodoldeb:* amser; lle; a gweithred.—Tri chadernyd *bodoldeb:* anian; gwahanred; a pharhâd.—Tri gwahanred *bodoldeb:* maintioli; ffurfoldeb; a gweithredoldeb.—*Barddas*, i. 198 (cf. 38).

Trwy y caddug dudew ym mha un y mae dygwyddiadau cynoesoedd *bodoldeb* is haul yn orchguddiedig.
Taliesin ab Iolo: Coelbren y Beirdd, 5.

Bodoldeb Duw, the existence of God.

Peth ofer iawn yw ceisio dadgan
Dyfnderoedd maith *bodoldeb Duw.*
Iolo Morganwg: Salmau, I. iv. 1 (cf. 4).

Drwy oll yn oll gweledig yw
Bodoldeb un anfeidrol Dduw.
Iolo Morganwg: Salmau, I. cliii. 2.

Bodoli, 1. *va.* to give being or existence to; to cause to be or exist; to realise.

Pa farn ar waith Duw yn *bodoli* 'r byd o nef a daiar, ac y sydd ynddynt ac o henynt?—*Barddas*, i. 252.

Tri angheneddyl gwirionedd, ac wrthynt ei adnabod: gwell na dim arall a ellir ei ddirnad a'i ddeall at yr un achos; haws na dim a ellir ddeall a'i ddirnad at yr un diben; a hardd na dim a ellir ei ddeall a'i *fodoli* er yr un lle, ac achos, ac amser.—*Barddas*, i. 340.

2. *vn.* [=bod] to be; to exist. This neuter sense of the verb, now not uncommon, belongs to the present century; and is precisely synonymous with *bod.*

O foreuddydd einioes y byd yr oedd disgwyliad am ddyddiau gwell yn *bodoli* ym mhlith meibion dynion.
Deon Edwards: Esp. 20.

Y dyn anwybodus sydd farw, hyd y nod tra fyddo yn rhodio y ddaiar: efe a gyfrifir gyda'r bywiolion, ond eto nid yw yn *bodoli.—Cylchgrawn*, ii. 36.

Yr oedd gweithrediadau diolchgarwch yn *bodoli* ym mharadwys, pan nad oedd un bai i gwyno o'i blegid.
Myfyrdodau Hervey, 7.

Y mae bodeg yn ymgymmeryd â phrofi pa un a ydynt yn *bodoli* felly mewn gwirionedd ai peidio.
Traethodydd, xxv. 46.

Bodoliaeth, -au, *sf.*=*Bodolaeth.*

Bodor, -ion, *sm.* [bod] one who abides or dwells in a place; an abider, inhabitant, or dweller.

Dyfod o'r diwedd i lyn coediog . . . ac yn y coed aml eos gerddoliad ganiadgar, a'i goslef warynllais yn awenu *bodorion* tawel-dai'r glyn-gwm.—*Araith Gwgan.*

Bodron, *sm.*=*Bwdran, Mwdran.—H. Salesbury* (Arch. Brit. 214).

Bodrwy, -au, *sf.* [=modrwy: bawd+rhwy] a ring; a finger-ring.

Bodrwyaidd, *a.* like or resembling a ring; ring-shaped; circular.

Bodrwyo, *v.* to put on a ring; to make into a ring; to form ringlets or curls; to curl.

Bodrwyog, *a.* having or wearing a ring; being in ringlets or curls; curled.

Bodrwyol, *a.* being in a ring; curling; circular.

Bodrwywr, wyr, *sm.* a ring-maker; one who puts on a ring.

Bodrydaf, -au, *sm.* [=modrydaf] 1. a place of resort or gathering together; a rallying point; a beehive. 2. (fig.) a leader or commander of an army (considering him as the nucleus of it). (*P.*)

Bodd, -ion, *sm.* [C. *both*] good pleasure; pleasure; good will; the will; content, consent; satisfaction; leave.

O *vot* bryd a bronn o brydest chwec.
Gwynfardd Brycheiniog: M.A. i. 272.

Eryuaf dy ved dy *uod* a wnaf.'
Llywelyn Fardd: M.A. i. 359.

Bodd Duw pa ddelw ir haeddaf?
Ymdd. Arthur ac Eliwlod: M.A. i. 176.

Trwy drefniad neu *fodd* esgob yr esgobaeth.
Canonau Eglwysig, 125.

Nid oes rhodd namyn o *fodd*.—*Diareb.* (M.A. iii. 171.)

Bucheddwch, fenwydolion, ymfwynhëwch,
Nes doaf yn ol, y *boddion* byr, er hir
Ofidion i ganlynu yna ynt.
W. O. Pughe: C.G. iv. 590 (cf. E.D. i. 8).

Gwell *bodd* pawb no'i anfodd.—*Diareb.* (M.A. iii. 159.)

Rhyngu bodd: cf. s.v. *Rhyngu*.

O'i fodd (*o'm bodd, o'th fodd;* pl. *o'n bodd, o'ch bodd, o'u bodd*), of his own pleasure or will; of his free will; of his own accord; with his consent; of himself; spontaneously, willingly, voluntarily, freely.

O dri modd y gwahenir a dyn y dda: un yw *oi fodd* yn gyfreithiawl; eil o anfodd yn gyfreithiawl . . . trydydd oi anfodd yn anghyfreithiawl.—*Cyfreithiau Cymru*, ii. 588.

Diweirach gennyf diuetha vy meibon a gafas o'm hanuod. no rodi uy merch idaw *om bod.*—*Mabinogion*, i. 34.

Nid wyf dra hen am deni,
Ni bydd hŷn *o'i bodd* hi.—*Bedo Brwynllys.*

Wrth fy modd (*wrth dy fodd, wrth ei fodd* &c.) to my pleasure; to my liking, content, or satisfaction; at my will; pleasing me well; acceptable to me.

Cymmer hi i mi; canys y mae hi *wrth fy modd.*
Barn. xiv. 3.

Trwy yr hwn y gwasanaethom Dduw *wrth ei fodd.*
Heb. xii. 28.

Nid yw wrth ei fodd, he is not pleased or satisfied with it; it is not acceptable to him.

Rhwng bodd ac anfodd, partly willing and partly unwilling; neither willing nor unwilling.

Y mae wrth ei fodd, he is highly pleased or satisfied; he is in a happy mood; he is in his element.

O fodd a rhodd, of good will and free of charge; willingly and gratuitously; spontaneously and freely.

Dwyn ar fodd, to induce or persuade; to prevail on or with.

Bodd buchedd, pleasures of life.

A'r hwn a syrthiawdd ym mhlith drain, hwy yw'r rhai a glywsant ac a aethant ymaith, a chan ofalon a golud, a *bodd buchedd*, a dagwyd.—*W. Salesbury:* Luc viii. 14.

Bodd a chaniad, } consent and permission.
Bodd a chennad, }

Ar y gyfraith y dodaf fi am y da a gychwynwyd gan dy *fodd* di a'th *ganiad* [*al.* gannad, gennad].
Leges Wallicae, v. i. 68.

Bodda, -od, *sm.* the bird redshank: also called *troedgoch* and *coesgoch*.

Bodd-dêr, -au, *sm.*=*Boddineb.*

Gwnaeth eilun gynllun o'i god
Yn *fodd-der* anufudd-dod.—*Robert Davies.*

Boddedig, *pt.* [boddi] drowned; submerged, immersed.

Boddfa, -oedd, fëydd, *sf.* [bawdd, boddi] a place of drowning; a place in which anything may be drowned; a flood or inundation; the state of being drowned or overwhelmed.

Diffygiais gan fy ochain; bob nos yr ydwyf yn gwneuthur fy ngwely yn *foddfa.*—*Salm.* vi. 6.

Un flwyddyn fad i derfyn ddaeth,
Ac i'r dragwyddawl *foddfa* aeth.—*Lleuad yr Oes*, iii. 47.

Boddfa o ddagrau, a flood of tears.

Boddfa o chwys, a bath of perspiration or sweat.

[Yr oedd] gwres tanbaid yr haul yn tywynu arnom mor unionsyth . . . nes oeddym bron yn *foddfa o chwys.*
Cawrdaf: Meudwy, 210.

Boddgar, *a.* easily pleased, contented, or satisfied; contented, pleased, satisfied; pleasing, pleasant, agreeable.

Hon a'ch diddana mewn adfyd, a'ch addurna mewn gwynfyd, yn ieuenctid sy hyfawl, yn henaint sy *foddgar*, ar dranc sy hyglod.—*H. Perri:* Egl. Ffr., Rhag. 7.

E fydd y gwŷr ifainc yn *foddgar* o'u meddu.
Daniel Ddu, 279.

Boddgarwch, *sm.* contentedness; pleasantness; easiness of being pleased.

Boddhâd, *sm.* a pleasing, gratifying, or satisfying; satisfaction; gratification.

Boddhäed, *sm.* pleasure; satisfaction.

Dywallaw di venestyr gan *vothaed*
Y korn yn llaw Rhys yn llys llyw ced.
Owain Cyfeiliog: M.A. i. 265.

Boddhaog, *a.* satisfied; pleased; pleasing.

Gofid gwelw, a Phoen *boddhäawg*
A chwareant donau llopawg.
Iago Trichrug: Bardd. iii. 3.

Boddhaol, *a.* tending to please or satisfy; pleasing; satisfactory, gratifying.

Pan oeddym ein tri yn dychwelyd tua'r tŷ, cyfarfu y meddyg â ni, a hyspysodd fod arwyddion *boddhaol* ar y claf o ymadawiad ei ddolur.—*Cawrdaf:* Meudwy, 69.

Y fath liwiau bywiog . . . nid yn unig a gyfarchant y teimladrwydd yn *foddhaol;* eithr cyffyrddant, gyda melusder rhyfedd, â mudiadau hyfrytaf y meddwl.
Myfyrdodau Hervey, 127.

Boddhau, *v.* to please; to gratify; to satisfy; to be contented or satisfied.

Yna daethant y Ffrancod a'r Saeson i Ynys Fon, a dodi Owain ab Edwin yn rhith tywysawg yno er *boddhau* 'r Cymry.—*Brut Aberpergwm:* M.A. ii. 531.

Rhaid yw edrych ar ei bod yn fympwyawl i *foddhau.*
H. Perri: Egl. Ffr. xxxvii. 2.

Boddhäed pob un o honom ei gymmydog yn yr hyn sy dda iddo. . . Canys Crist nis *boddhaodd* ef ei hun.
Rhuf. xv. 2, 3 (cf. Marc vi. 22).

Boddhäus, *a.* pleasing; gratifying; agreeable; satisfactory; pleased.

Rhith arall ar watwargerdd y sydd, yn llarieiddiaw, ac fegys yn tynu ymaith y cas a'r dig o'r ymadrawdd â geiriau *boddhäus.*—*H. Perri:* Egl. Ffr. xi.

Ond hwynt etholion engyl yn *foddhäus*
O glod y Nef, ni synient hwy am fawl
Dyniadon.—*W. O. Pughe:* C.G. vi. 413.

Boddhäwr, hawyr, *sm.* a pleaser; one who gratifies or satisfies.

Boddi, *v.* [bawdd: C. *bedhy, budhy;* Br. *beuzi;* Ir. *baidheadh, bathaig* (cf. *bàdud*); Ga. *bàth:* cf. Gr. βαθύς, βυθίζω] 1. to drown; to inundate.

Ni *fotes* mawret en merweryt.—*Meilir:* M.A. i. 191.

Gwaeth agaffat ynkeissaw diffryt y deuwr rac eu *bodi*. *Mabinogion*, ii. 246.

Llad rei o nadunt, a llosgi ereill, a thrychu traet meirch ereill, a dwyn ereill ygkeithiwet a *bodi* y ran vwyaf megys ynfydyon yn yr avon.—*Brut y Tywysogion*, 160.

Ni wna y môr waeth no *boddi*.—*Diareb.* (M.A. iii. 169.)

Chwerthin a wna ynfyd [*al.* ffwl, ffol] yn *boddi* [*al.* wrth *foddi*]=Chwardd pan y bawdd yr ynfyd=The fool will laugh when drowning. *Diareb*, (M.A. iii. 152; Iolo Mss. 252.)

Llun y Llong, a'i ddeonglyd,
Arch No, a'i nawdd tra *bawdd* byd.—*Gronwy Owain*, 38.

Boddi y melinydd, to drown the miller=to use too much water in kneading dough.—*Myv. Arch.* iii. 180.

Yr haul yn boddi, the sun appearing dimly through a thick haze or a rainy cloud, especially when near setting.—*C.S.*

2. to submerge, to immerse, to inundate.

Yn amser y Gwrgan hwnw y bu rhyferthwy aruthrawl ym moroedd Ynys Prydain, ac y *boddes* lawer o Gantre'r Gwaelod.—*Iolo Mss.* 37.

Boddi tir, to submerge or inundate land.

Gwedi *boddi tiroedd* Gwyddno gan y môr, gwahodded Taliesin gan yr Amherawdr Arthur idd ei lys yng Nghaerlleon ar Wysg.—*Iolo Mss.* 72.

Boddiad, -au, *sm.* [boddio]=*Boddhâd.*

Yn ol y gair anwylaf
Ar hy adaw Gwlad yr Haf,
Y byddai er eu *boddiad*
Iddynt gael o hael lwyddhâd.—*W. O. Paghe:* H.G. 59.

Ychydig mae'r diogyn yn feddwl, y fath wledd foethus, y mae efe yn ymwrthod â hi, er mwyn y gwaelaf o'r holl *foddiadau* anifeilaidd.—*Myfyrdodau Hervey*, 90 (cf. 141).

Boddiad, -au, *sm.* [boddi] a drowning; submersion.

Boddiaeth, -au, *sf.* [bodd] that which pleases or satisfies; pleasure; satisfaction; gratification.

Nid oes dim wnaiff *foddiaeth* iddi. *Ioan Siencyn:* Blodau Dyfed, 380.

Bydd hyny yn foddiaeth ganddi, that will please her; that will be a source of pleasure or gratification to her.

Boddiant, *sm.* [boddio] pleasure; satisfaction.

Kyt gwnelwyf ar ddyn vrdd o uolyant
Nym gwna poen rwydyant *bodyant* pa dras.
Hywel ab Owain Gwynedd: M.A. i. 276.

A wnaeth *boddiant* aelaw ariant i laweredd. *Mab Clochyddyn:* M.A. i. 511.

Nynheu a ddylyhem haeddu y *voddyant* ef. val y caffem buchedd tragywydawl.—*Breuddwyd Pawl*, § 10.

Ond doniawg o falch *foddiant*, chwi mwynhëwch
Heddychawl seibiant drwy orchwyliad llon. *W. O. Pughe:* Pal. 9.

Boddiant, *sm.* [boddi] submersion, immersion; a drowning.

Boddiedig, *a.* [boddio] pleased; satisfied, gratified; contented; pacified.

Boddineb, *sm.* contentment; satisfaction; gratification; willingness; pleasure.

Gyda hi y preswylia Tangnef, gyda hi y preswylia Diogelwch a *Boddineb*.—*W. O. Pughe:* E.D. ii. 2.

Ieuant a *Boddineb* mwyndeg,
Wrth y llyw, ac ar y ffllurreg. *Iago Trichrug:* Bardd, ii. 2.

Boddio, 1. *va.* to please; to satisfy; to gratify.

Tair prif amcan bardd herwydd pwyll a dyled: *boddio* Duw; llesäu dyn; a pharchu serchogrwydd. *Cyfrinach y Beirdd*, 46.

Ni bydd swydd, na *boddio* Sais.—*Gro. Owain*, 49 (cf. 175).

Mae'n ddigon hawdd ei *foddio*
Ar damaid heb ei dwymo.—*Elis Owen:* Cell Meudwy, 74.

2. *vn.* to give pleasure, satisfaction, or gratification; to please; to be pleased.

Os bydd y nodau hyny yn *boddio*, mi arlwyaf Fonedd yr Awen â'r un fath saig.—*Gronwy Owain*, 281.

Boddiol, *a.* pleasing; satisfactory; gratifying.

Teyrnas gyfaddas, gu, *foddiol*, a brwd,
Er bradwyr gormesol. *Ioan ab Hywel:* Blodau Dyfed, 136.

Boddiwr, wyr, *sm.* a pleaser; a gratifier; one who satisfies.

Boddlawn, *cp.* -loned, -lonach, -lonaf, *a.* [bodd +llawn: cf. *anbodlaun*, in Codex Juvencus, 35] contented; content; at ease; willing; pleased; satisfied; disposed.

Nyd gnawd yt Dauyt nad ei bryd am vut
Yn *votlawn* y gennhyd.—*Gwilym Ryfel:* M.A. i. 274.

Ot wyf anuodlawn *bodlawn* vydaf. *Llywelyn Fardd:* M.A. i. 359 (cf. 221).

Ac yny wed honno hedychu pawb ac eu gwneuthur yn *vodlawn*.—*Brut Gr. ab Arthur* (B): M.A. ii. 318.

Tri pheth a wnânt wr yn *foddlon* idd ei fyd. *Trioedd Doethineb:* M.A. iii. 235.

Cei aberth llosg, a *boddlon* fych,
Cei fustych ar dy allor.—*E. Prys:* Salm. li. 19.

Hanpwyf *foddlon* o honod,
Fur calch, ond wyf falch dy fod!—*Gro. Owain*, 55.

Boddlonadwy, *a.* capable of being pleased or satisfied.

Boddlonawl, *a.* tending to satisfy or please; satisfactory; giving satisfaction.

Dyma'r gwaed a roes *foddlonol*,
Byth ddigonol berffaith iawn.—*Emyn.*

Boddlondeb, **Boddlonder**, **Boddlonrwydd**, *sm.* contentment, contentedness, content; satisfaction; gratification; willingness.

Efe a ommeddes y deyrnged honno, a than rith *boddlondeb* i hynny o beth y tynnasant wyr Rhufain oreuon gwyr Ynys Prydain.—*Trioedd:* M.A. ii. 61.

Tri goreuon menwydoldeb: iechyd; *boddlondeb;* a heddwch.—*Trioedd Doethineb:* M.A. iii. 201 (cf. 274).

Tair colofn gwynfyd: goddef o *foddlonrwydd;* gobaith y y daw; a chred y bydd.—*Cyfrinach y Beirdd*, 46.

Cydwybod dda ei nod gan Dduw Ner o chaf,
A chyfiawn *foddlonder;*
Nid rhaid golud diriaid, gweler;
Iawn yw'r ymswyn unrhyw amser. *Samuel Jones:* Cyfr. y Beirdd, 144.

Od wyt gyff cler a bustl i'r byd,
Fe'th gyfyd i *foddlonrwydd*.—*Gro. Owain*, 113.

Boddlonedigol, *a.* satisfying; satisfactory.

Boddlonedd, *sm.* satisfaction; contentment.

Arglwyd Duw adiolcho ytt heb y Gwalchmei a digawn yw vy *modlonet* ytt.—*St. Greal*, § 100.

Boddlongar (*n-g*), *a.* disposed to be content or satisfied; contented; easily satisfied; satisfactory.

Boddlonhau, *v.* to please; to satisfy.

Y mae ufudd-dod yn *boddlonhau* Duw yn fwy no'r holl rinweddau ereill.—*Marchog Crwydrad*, i. 10.

Ymgallau a oruc ynteu ac nyt ymrodes y pedruster ymlad ar pobyl greulawn honno namyn agori y tryssor a rodi y pawb amylder o eur ac aryant a *bodlonhau* pawb or bonhedigyon.—*Brut Gr. ab Arthur* (B): M.A. ii. 178.

Boddloni, *v.* [boddlawn] to please; to satisfy; to gratify.

Os byddi yn dda i'r bobl yma, a'u *boddloni* hwynt . . . hwy a fyddant yn weision i ti byth.—2 *Cron.* x. 7.

O chwennych bardd ganu dyfalgerdd, edrych bod y peth a gano efe iddo . . . yn *boddloni* golwg, a meddwl, a deall.—*Cyfrinach y Beirdd*, 39.

Abl i bawb a'i *boddlono*.—*Diareb.* (M.A. iii. 145.)

Boddloni ar, to be or rest satisfied with.

Boddloniad, -au, *sm.* a pleasing; satisfaction, gratification.

Boddlonocäu, *v.* to be or become pleased; to please; to satisfy.

Cymmerai [cymmerodd?] Cain gynghorfynt ynddo wrth *foddlonocäu* o Dduw i offrwm ei frawd.—*Hanes Adda.* (*P.*)

Boddlonrwydd, *sm.*=*Boddlondeb.*

Boddlonus, *a.* contented, content; satisfied; pleased.

Dechreuai bellach nos ei chwyl, a thros
Y Nef yn denu gwyll, dyddygai baid
Boddlonus, gan ostegu trydar trin.
W. O. Pughe: C.G. vi. 446.

Ymostynga efe i ti yn *foddlonus*, o gynneddf cariad.
W. O. Pughe: E.D. v. 3.

Boddlonwr, wyr, *sm.* a pleaser; one who satisfies; one who gives contentment.

Nid â llygad-wasanaeth, fel *boddlonwyr* dynion.
Col. iii. 22 (cf. Eph. vi. 6).

Boddog, *a.* [bodd] contented; pleased; pleasant; having a disposition for.

Ystavell Cynddylan ys peithiawg heno
Gwedy cedwyr-*voddawg*
Elvan Cynddylan Caeawg.
Llywarch Hen: M.A. i. 108 (cf. 114, 159, 221).

. Wrth Ruffut Gwynet gwylet *fodawc*.—*Meilir:* M.A. i.

Am Vadawc bryt *vodawc* Bratwen.
Casnodyn: M.A. i. 426 (cf. 271, 367).

Tri brodyr cadernyd: gwladog; trasog; a *boddog*.
Trioedd y Brodyr.

Cathl-foddawg, solacing with songs.

Cethlydd *cathyl-voddawg* hiraethawg ei llev
Taith oddef tuth hebawg
Cog vreuer yn Aber Cuawg.
Llywarch Hen: M.A. i. 127 (cf. 195).

Boddol, *a.* contented, pleased, satisfied; pleasing; willing.

Cadno o ych mawr cydnerth,
Yn malu poer ym mol perth,
Foddol un, a'i feddwl oedd,
Breuddwydio mai'r bardd ydoedd.
Rhys Jones: Gwaith, 251 (cf. 283).

Boddoldeb, } *sm.* contentment; satisfaction;
Boddolder, } gratification.

Boddus, *a.* pleasing; pleasant, agreeable.

Boddia hon, baidd ei hannerch,
Bydd fedrus wrth *foddus* ferch.
Dafydd ab Gwilym, xxviii. 21.

Oes awen un heb hunaw,
Foddus, o'r soniarus naw?—*Rhys Jones:* Gwaith, 157.

Os bu trafod gwybodaeth
Ichwi'n flasus, *foddus* faeth.—*Daniel Ddu*, 41.

Yna'n hoenus, *foddus*, fad,
Gwiriai'r naill i'r llall gariad.—*Ioan Cunllo.*

Boddwr, wyr, *sm.* [boddi] a drowner.

Boech, -au, *sf.* [im.: cf. *baich*, *beichio*] a bellow or bellowing; a loud deep cry or roar; a sudden scream or cry.

Yn anffodus, dododd y Daeniad ei droed noeth ar ysgallen fwy pigog na chyffredin, ac yn y man gwnaeth *foech* gwynfanus gan y loes, yr hyn a ddadguddiodd y fradwriaeth i'r Albaniaid.—*Brython*, ii. 142.

Boechain, } *vn.* to bellow; to utter a sudden
Boechian, } and loud cry; to roar; to bawl or vociferate.—*S. W.*

Boechain fel buwch, to low or bellow like a cow.—*S. W.*

Boechwr, wyr, *sm.* a bellower; a bawler.

Boer, *v.* [bod]=*Bydder.*

Yng ngwydd y tri llu pan *foer* yn bârnu.
Taliesin: M.A. i. 20.

Tra *foer* yn darparu y clawdd,
Y fan y bawdd yr enwir.—*Edm. Prys:* Salm. xciv. 13.

Bogail, geiliaid, *sf.* [L. *vocalis*; Ir. *focal*] a vowel.

Saith *fogail* y sydd; nid amgen, a, e, i, o, u, w, y.
Edeyrn: Dosparth, 18 (cf. 20).

Yn gyntaf e'u rhenir nhwy yn *fogeiliaid* ac yn gysseiniaid. Mo. Pa beth yw *bogail* ne gyssain? Gr. *Bogail* yw llythyren a wna ar ei phen ei hun lafar perffaith. A chyssain yw pob un ni wna lafar perffaith yn y byd heb gymhorth *bogail.*—*Dr. Gr. Roberts:* Gram. 22.

Tair rhyw lythyren y sydd: *bogail*; llythyren fud; a llythyren dawdd.—*Trioedd Doethineb:* M.A. iii. 138.

Am hyny dylid, ym marn rhai, mewn proest osod yr odlau herwydd trefn arferol y *bogeiliaid*.
Cyfrinach y Beirdd, 109 (cf. 176).

Bogail, *pl.* bogeiliau, } *f.* (S.W.), *m.* (N.W.), *s.*
Bogel, *pl.* bogelau, } [C. *begel*; Br. *begel*, *beguel* (Catholicon): cf. L.L. *bucula*: 'Bucula, umbo scuti' (Isidore of Seville): cf. Brachet, s.v. *Boucle*] 1. the navel.

Y dyd y bei drist y gollyngei y lleill weuyl idaw y waeret hyt y *uogel*. ar llall a uydei yn pennguch ar y penn.
Llyfr Coch, 111.

Ny ellir uymbrathu i. heb y kawr namyn ym *bogel*.
Yst. de Carolo Magno, col. 400.

Yno y gwelas Pawl llawer o eneideu ympoen. rei o honunt hyt y glinnyeu. ereill hyt y *bogel*. ereill hyt y gwefussau.
Breuddwyd Pawl, § 2.

Boed yr hyd a'r lled o gesail i gesail, ac o uchder ysgwydd agos i'r *fogail.*—*Meddygon Myddfai*, ii. 121.

A thynnv pennev y goludeon ford y *vogel* allan.
Brut y Saeson: M.A. ii. 510.

A dodi y llysseu hwnnw ar y *uogel*.
Meddygon Myddfai, i. 127.

Ar y dydd y'th anwyd ni thorwyd dy *fogail*.
Esec. xvi. 4 (ed. 1620).

Llinyn bogail, navel-string, umbilical cord.

2. a boss; a knob; a convex projection.

Bogail tarian, the boss of a shield.

Y gwr aoed yn lle Arawn aossodes ar Hafgan ymperued *bogel* y *daryan* yny hyllt yn deu hanner.—*Mabinogion*, iii. 12.

Ymylyeu y *daryan* o eur ac assur. a chroes goch drwydi. a *bogel* o eur coeth idi.—*St. Greal*, § 87.

Ascanard a ymwanawd yn erbyn Rolant. ac ae gwant ydan *vogeil* y *daryan* yny holldes trwydi.
Yst. de Carolo Magno, col. 429 (cf. 443).

3. a nave (of a wheel).

Bogel olwyn, the nave of a wheel.

Pob rhod
A bêr a dry fry yn frau,
A'i golyn drwy'i *bogelau.*—*W. Lleyn*, i Fen.

4. (in botany).

Bogail y forwyn, } common navelwort (*Cotyledon umbilicus*).—*H. Davies:* Welsh Bot. 43, 159.
Bogel Gwener, }

¶ Both forms seem to be about equally old; but the majority of the derivatives points to *bogail*. Most of the editions of the Bible have both *bogail* and *bogel*. Cf. *Iob* xl. 16; *Diar.* iii. 8; *Can.* vii. 2.

Bogal, -iaid, *sf.* [=bogail: L. *vocalis*] a vowel.

O'r llythyrenau rhai yssydd *fogaliaid* . . . a'r lleill oll yssydd gydseiniaid, kydseiniaw â'r *bogaliaid* a wnânt.
Pum Llyfr Cerddwriaeth, 42.

Bogaliaid llythyr ynt llafargar o'u hanian eu hunain, yn unig ac heb ddim cymhorth gan lythyr ereill. Naturiaeth y *bogaliaid* yw rhwymo pob un o'r geiriau, a'u gwahanu yn sillafau neillduedig. . . Cydseiniaid llythyr ynt yn cydseiniaw â'r *bogaliaid* mywn ymadroddion a pharablau.
Dr. I. D. Rhys: Gram. 129.

Pob cymmeriad a fo'n dechreu ar *fogaliaid*, er na boant o unrhyw, a elwir Cymmeriad llythyrenol.
Cyfrinach y Beirdd, 186.

Bogalog, *a.* vowelled; consisting of vowels.

Sillafau *bogalog* a fydd pan gyfansodder sillafau o un neu ychwaneg o'r wyth bocal hyn. . . Sillaf *fogalog* ysgawn. . . . Sillaf *fogalog* drom. . . Sillaf *fogalog* dalgron. . . Sillaf *fogalog* leddf.—*Dr. I. D. Rhys:* Gram. 137 (cf. 138).

Proest cadwynodl *bogalog*, a math o watworgerdd yw ar yr hen englyn *bogalog*.—*Gronwy Owain*, 27.

Bogeilchwydd, -au, *sm.* a swelling of the navel.

Bogeilgen, *sm.* umbilicated liverwort (*Lichen umbilicatus*).—*H. Davies:* Welsh Bot. 114, 159.

Bogeilglwm, glymau, *sm.* the tie or boss of the navel; a boss.

Bogeilglwm tarian, the boss of a shield or buckler.

Bogeiliaidd, } *a.* resembling the navel; um-
Bogeilaidd, } bilical; umbilicate.

Bogeiliawl, } *a.* umbilical; pertaining to the
Bogeilig, } navel.

Bogeilio, *v.* to boss or swell out; to project; to boss or emboss.

Bogeiliog, *a.* [bogail, bogal] vowelled; consisting of vowels.

Bogeiliog, *a.* [bogail, bogel] umbilicate; umbonated; bossed, embossed.

Bogeil-lys, *sm.* navelwort (*Cotyledon*).—*H. Davies:* Welsh Bot. 43, 159.

Bogelog, *a.* full of fright or terror?

Bogelu, *v.* [either = by+celu, or = bygylu, probably the latter. Pughe gives both meanings, which appear contradictory] to frighten, affright, terrify, or intimidate?

Arthur nim *bogelaf*
Naw cant cad ai tyngeddaf
Om lleddir minneu a laddaf.
Trystan a Gwalchmai: M.A. i. 179.

Bogelyn, -au, *sm.* [bogel] a bubble; a bleb.

O byd ewyngant ar drwnc megys *bogelynneu* ar dwfyr: ac na synnyo ef yna dolur or byt. hynny a dengys cleuyt rac llaw. . . O byd saym arnaw. a *bogelyn* yn dyrchauel yndaw. arwyd drwc yw.—*Meddygon Myddfai*, i. 141.

Boglwm, glymau, *sm.* [bogel] 1. a boss; a knob.

Boglwm tarian, the boss of a shield or buckler.

2. a buckle.

Trwy ba gyssylltiad y mae efe [dyn] fel *boglwm* y ddau fyd, ym mha un y mae'r byd ysprydol a'r byd defnyddiol wedi eu clymu a'u huno yng nghyd.
Iosua Tomas: Buch. Grist. 46 (cf. 371).

3. a cluster, a bunch.

Boglymau gwin, bunches or clusters of grapes.

4. a bubble; a bleb.

Boglymu, *v.* [=byglymu] to cluster.

Boglyn, -au, *sm.* [bogel] 1. a boss; a knob; a stud.

Gwna hwynt â *boglynau* o aur o'u hamgylch.
Ecs. xxviii. 11 (cf. xxxix. 6, 13, 16, 18).

Cymmer flodau yr ysgawen, a phan nas gellir y blodau, y *boglynau*, neu'r dail, neu'r rhisg gwyrdd nesaf i'r pren, a surion y coed, a berw mewn maidd geifr neu wartheg.
Meddygon Myddfai, ii. 571.

Boglyn tarian, the boss of a shield.

2. a bubble; a bleb.

Beth yw'r dyn byth o'r dinas?
Boglyn ar y gloew-lyn glas.
Sion Tudur: Md. Sion Wynn.

Boglyniad, -au, *sm.* a bossing or embossing.

Boglynog, *a.* bossed, embossed; knobbed, knobby; studded.

Lle gwelir colofnau rhychog tra ysplennydd oddi wrth adlewyrchiad lampau o'r gleiniant, yn *foglynog* â chnapiau gleiniant, a lleni o amrywiol liwiau ardderchog.
Seren Gomer, iii. 36.

Boglynol, *a.* formed into a boss; embossing.

Boglynon, *sm.* eryngo (*Eryngium*).

Boglynon arfor, sea eryngo, sea holly (*Eryngium maritimum*).—*H. Davies:* Welsh Bot. 26, 159.

Boglynu, *v.* to boss or emboss; to form into knobs; to bubble.

Mae y dwfr yn boglynu, the water bubbles.

Boglynwaith, weithiau, *sm.* embossed work, boss-work; embossment.

Brodio boglynwaith, to emboss.—*W.*

Bogwn (*w̄*), ynau, *sm.* might; potency.—*P.*

Bogynog, *a.* strong, powerful; potent.—*P.*

Bol (*ŏ*), } *pl.* boliau, *sm.* [C. *bol;* Ir. *bolg*, †*bolc;*
Bola (*ō*), } Ga. *bolg;* Mx. *bolg;* Gaul. *bulga* (Fes-
Boly (*ō*), } tus); E. *belly*, †*bali*, *baly*, *bally*] 1. the belly, the abdomen, the paunch, the stomach (with its adjuncts); the rotundity (and sometimes the concavity) of a body.

Mi a fum nawmis hayach ym *mol* Gridwen wrach.
Taliesin: M.A. i. 19.

Mewn *boly* tywyll im tywalldwys.—*Taliesin:* M.A. i. 19.

A phawb ai golwg ar ei *boliau*.
Gruffydd Ynad Coch: M.A. i. 517.

Y gwr agadwawd Ionas ym *moly* y moruarch. ac a iachaawd Daniel yn ffos y seith llew. a vu wir daryan idaw ef.
St. Greal, § 25 (cf. 222).

Ydoed y dwylaw ae draet hagen yn ryd. ac ynteu yn rwym am y *uola* perued.—*Yst. de Carolo Magno*, col. 458.

Ti a ymlusgi ar dy *voly* o hynn allan.—*Ipotis*, § 11.

O bydd hwydd yn y *bola*, efe a'i estwng o'i ferwi gyda gwin a ffigys.—*Meddygon Myddfai*, ii. 788.

Gwaew'n ei *fola*, garn filain!—*D. ab Gwilym*, xciv. 45.

Ein enaid a ostyngwyd i'r llwch, ein *boly* a lŷn wrth y llawr.—*Ll. G. Gyffredin* 1586 (Salm. xliv. 25).

Tywyll *boly* hyd pan lefair.—*Diareb.* (M.A. iii. 177.)

Y bwydydd i'r *bol*, a'r *bol* i'r bwydydd.—1 *Cor.* vi. 13.

Onid ydych chwi yn deall eto, fod yr hyn oll sydd yn myned i mewn i'r geneu, yn cilio i'r *bola*?—*Matt.* xv. 17.

Byth ni lenwir *bola*'r glwth.
Edw. Iames: Hom. ii. 197 (cf. 202).

Y bol a'r cefn, the belly and the back; food and clothing.

Mae fo yn meddwl yn benaf am y *bol a'r cefn*, ac yn dwyn ysgrythyrau i guddio ei gybydd-dra.—*Morgan Llwyd.*

Y *bol* a bil y cefn.—*Diareb.* (M.A. iii. 178.)

Bol brawn, hard roe (of fish), spawn.

Bol meddal, }
Bol llaith, } soft roe, milt.

Llonaid bol (*bola* or *boly*), a bellyful.

Gwewyr bol, }
Gwaew bol, } belly-ache, stomach-ache.

Cymdeithion glythineb yw anhunedd, a bustl, a *gwewyr y bol*.—*Elis Wynn:* Rh. B. S. ii. 2 (61).

b. (transf.)

Cyfyd, fal yd o *fol* âr,
Gnwd tew egin-had daiar.—*Gronwy Owain*, 93.

Mal cerub ym *mol* corwynt
Ar olwynion gweigion gwynt.—*W. Wynn:* C. y Farn.

A llawer, yn nigter nwyd,
I *fol* âr a faluriwyd.—*Ioan ab Hywel:* Blodau Dyfed, 137.

2. stomach; liking; feeling.

Nid oes dim bola da rhyngddynt, there is no good feeling between them; they are no friends at heart.—*S. W.*

Mae hyny yn ei fola ef byth, that has always stuck in him; he has never forgotten that; he always broods over that.—*S. W.*

3. a swell, swelling, or protuberance; the bosom; the bilge or belly (of a cask, &c.).

Melus yw yn malu sain,
Megys *bol* enfys blaenfain.—*Guto'r Glyn*, i Gorn Huadwr.

Bol mynydd [=tor mynydd], the protuberant or swelling slope of a mountain; a mountain side.

Hwn o fab hoewan a fydd
Fal manus ar *fol mynydd*.—*W. Midleton:* Salm. i. 4.

Cest gawl garl *fol* Tombarlwm.
Dafydd y Coed: M.A. i. 496.

Bol gwaneg, } the swell of the wave; the bosom
Bol ton, } of the wave or billow.

Amrant du ar femrwn teg,
Fal gwennol ar *fol gwaneg*.—*D. ab Gwilym*, viii. 31.

Yr wylan deg ar *fol gwaneg*.
Rhys Goch ab Rhicert: Iolo Mss. 239.

Mae'r galon dan y fron frau
Fal tunnell ar *fol tonnau*.—*Bedo Brwynllys*.

Bol baril, the belly or bilge of a barrel or cask.

Bol clawdd, a hedge-side.

Prydydd bol clawdd, a hedge-poet; a hedge-side rhymester.

Nid oedd Cynwal, druan (ysgolhaig *bol clawdd*), ond megys yn ymladd â'r dyrnau moelion yn erbyn tarian a llurig.—*Gronwy Owain*, 276.

Yr hwn yr ydwyf yn ei gyfrif yn fwy na myrdd o'r mân glytwyr dyrïau naw ugain yn y cant, sydd hyd Gymru yn gwybeta, ac yn gwneuthur neu'n gwerthu ambell resynus garol, neu ddyri *fol clawdd*.—*Gronwy Owain*, 170.

Bargen fol clawdd, a hedge-side bargain; a hand to hand bargain.

Nid oedd yn eich amser chwi, syr, ond *bargeinion bol clawdd*, a lled llaw o ysgrifen am dyddyn can punt.
Elis Wynn: Bardd Cwsg, 57.

4. a bag, satchel, budget, or pouch.

Ys id yny *boly* hwn blawd.—*Myv. Arch.* i. 498.

Bol croen, } (*pl.* boliau crwyn), a leathern bag
Bola croen, } or satchel; a basket covered with
Boly croen, } leather or skin; a skin coracle; a coracle.

Dodi gwanas o bop parth y bop colouyn o cant coluyn aoed yny ty. adodi *boly croen* ar bop gwanas. . . Ac arganuot y *bolyeu crwyn* awnaeth ar hyd y pyst.
Mabinogion, iii. 95.

Ac wedi esgor o honi ni allai hi ar ei chalon ei ladd rhag mor deg oedd, namyn ei wisgo mewn *boly croen* ai fwrw ef yn ewyllys Dyw yn y mor. . . Wrth fyned i ffordd arganfod ar bawl y gored y *bol croen*.—*Mabinogion*, iii. 324.

Ac efe [Taliesin] ac Elffin ab Urien mewn *bol croen* ar y môr yn pysgota, llyma long morleidr o'r Werddon yn ei gymmeryd a'i *fol croen* hefyd. . . A phan oedd y lladron pen lawenaf yn eu diod, gwthies Daliesin y *bol* i'r môr, ac yn ei law tarian a gafas yn y llong, ac â honno rhwyfo'r *bol* ond oedd ar glais tir. . . Ac felly y bu; ac ym mhen amser bach glynwys y *bol* ar flaen pawl cored Wyddno.
Iolo Mss. 71 (cf. 73).

Bol croen ar lun bual crwn,
Blwch byr-flew, croendew, crin-dwn . . .
Llestr rhwth fal crwth *fola croen*.
Meredydd ab Rhys, i'r Cwrwgl.

Cenais, gofynais, gwae finnau, *foly croen*.
Meredydd ab Rhys.

Bol (*ŏ*), -iau, *sf.* [C. *bolla;* Ir. *bolla;* Ga. *bôl:* prob. all from E. *bowl*, †*bolla*, *boll*, *bolle*, *boul*, *boal:* cf. *bwl*] a bowl, a drinking vessel, a basin.—*S. W.*

Y llaw arall a arwedd
Bol mawr; a bual â medd.—*L. G. Cothi*, iv. xii. 26.

Bola, *pl.* boliau, *sm.*=*Bol*, *Boly*.

Bolaid, } *pl.* boleidiau, *sm.* [bol, boly] a belly-
Boliad, } ful.

Ymddyfalu meddw *folaid*,
Son yn ffraeth am gwrw San' Ffraid.
D. ab Gwilym, cxlvi. 31.

Tri pheth a geir gan feddwyn am *folaid* dda o gwrw: gwedyd y celwydd a fyner; dangos yr anfoes a fyner; a gwneuthur y gyflafan a fyner.
Trioedd Doethineb: M.A. iii. 249.

Chwi gaech ambell *foliad* o bastai colomenod ar droiau.
Gronwy Owain, 322.

A hoff gan Ddedwydd, gwyddir,
Gael yn rhad *foliad* o fir.—*Rhys Jones:* Gwaith, 191.

Bolaid, eidiau, *sf.* [bol, *f.*] a bowlful.—*C.S.*

Chwefror a leinw y cloddiau,
A Mawrth a'i hyf yn *foleidiau*.—*Iolo Mss.* 226.

Bolawd, odion, *sm.* rotundity; a ball.—*P.*

Bolch, *pl.* bylchau, *sf.* [f. of *bwlch*, q.v.] a gap; a notch.

Bolch, *af.* notched, jagged; broken; battered; having a gap or gaps.

Bolch y lauyn o lavur fossawd
Bwlch y glet balch y gletyuawd.
Cynddelw: M.A. i. 226 (cf. 221, 242, 262).

Gwr *bolch* y daryan dayr var yg kyni
Gwr balch yn holi seri sathar.
Bleddyn Fardd: M.A. i. 365 (cf. 380).

Aerwalch balch *bolch* y laslein
Eryr araf prif wyr Prydein.
Llyw. ab Llywelyn: M.A. i. 303 (cf. 369).

Ni chaf hun am fun em falch
Ni chair y fun oi chaer *folch*.
Gr. ab Meredydd: M.A. i. 457 (cf. 443).

Bolchog, *a.*=*Bylchog*.

Ny bu *bolchawc*
Dy gy [nny] bu *bolchawc* dy daryan.
Llyw. ab Llywelyn: M.A. i. 304.

Bolchwydd, -au, *sm.* [bol+chwydd] 1. a swelling of the belly or abdomen; tympany.

Balchach wyf gilio'r *bolchwydd*
O'r cylla rhwth, cawell rhwydd.—*Iolo Goch*.

2. pregnancy.

Cwd balch yn codi *bolchwydd*,
Clustfyr a syr yn ei swydd.—*Ieuan Tew*.

3. stomach; swagger, pompousness, bragging, bigness.

Balchder, a brywusder brad,
Bolchwydd, anlladrwydd, lledrad.—*Ieuan Tew*.

Uchder yw'r hyder y rhodia beilchion,
A'u *bolchwydd* mewn traha.—*Y Greal*, 259.

Bolchwydd, *a.* high-stomached; belly-proud; puffed up with pride; swaggering, vaunting, pompous, big.

Bradwyr, rhai gwaedwyllt, rhai *bolchwydd* [* bocsachus], rhai yn caru chwantach yn fwy nag yn caru Duw.
W. Salesbury: 2 Tim. iii. 4.

Bolchwyddo, *v.* to swell the belly; to belly; to swell or bulge out; to swagger; to brag.

Boldesu, *v.* to bask in the sunshine; to bask.

Boldeswr, wyr, *sm.* one who basks in the sunshine; a basker.

Boldew, *a.* fat-bellied; corpulent.

Boldwn, *a.* broken-bellied; ruptured; gor-bellied.

Boldyn, *a.* full-bellied, tight-bellied.

A'r cyfoethog yn rhy *foldyn*,
A'r tlawd yn marw o newyn.—*Sion Tudur*.

Boldyni, } *sm.* tightness or fullness of the
Boldynrwydd, } belly or stomach.

Boled, -au, *sf.* [corr. of *moled*] a kerchief; a muffler.

Pond creulon llinon a'r llenau drosod,
A'r llewod fal ôd o *foledau*?—*L. G. Cothi*, i. xiv. 33.

Boled Olwen, great bindweed (*Convolvulus sepium*).—*H. Davies:* Welsh Bot. 159.

Bolera, *v.* [bol; influenced as to form perhaps by *clera*] 1. to spunge on others; to guzzle; to stuff, to gorge, to glut.

A chwedi i bob un, o saig i saig, *folera* cymmaint o'r dainteithion ag a wnaethai wledd i ddyn cymmedrol tros wythnos, yna bytheirio oedd y gras bwyd; yna moeswch iechyd y brenin.—*Elis Wynn:* Bardd Cwsg, 30.

2. to play the parasite; to flatter and fawn with the view of being invited to the tables of others.—*Th. Richards*, s.v.

Bolerai, eion, *sc.* } a spunger, a guzzler; a
Bolerwr, wyr, *sm.* } trencher friend; a parasite.

Derbyniwch yr hwn sydd mor ddiragrith yn tystiolaethu beth fydd gobr eich da a'ch drwg; ac nid fel eich *bolerwyr* gwenieithus a anadlant wenwyn i'ch clustiau.
Ch. Edwards: Han. y Ffydd, 189.

Na chais chwaith fod yn llwdn y gloch mewn llu neillduol o *folerwyr*, i gael cynnal dy uchelfryd â'u gwag folach gwenieithus hwynt.—*Elis Wynn:* Rh. B. S. ii. 4 (87).

Bolfain, feinion, *a.* slender-bellied; slender around the belly or middle part.

Nid arch ebolfarch *bolfain*.—*Huw Cae Llwyd*.

Bolfawr, *a.* big- or great-bellied.

Llwdn *bolfawr* llydan balfais.—*Huw Cae Llwyd*, i Darw.

Y botel fawr ryglyddfawr glod;
Potel falch, *folfawr*, ar glawr gwlad.
Ed. Dafydd: Cyfr. y Beirdd, 113.

Bolfyr, *m.* } *a.* having a short belly; having
Bolfer, *f.* } the middle part short.

Cafn *bolfyr* cefn ebolfarch.—*Rhys Brydydd*, i Gyfrwy.

Bolgan, -au, *sf.* [=bwlgan: Ir. *bolgan*, *bolg*; L. *bulga*, said to be a Gaulish word: cf. s.v. *Bol*] 'a budget or mail of leather;' a bag or pouch.—*Th. Richards*, s.v.

Bolgar, *a.* gluttonous; voluptuous.

Mal hyn y gellir galw . . . gwrthdeyrn yn Nero; a dyn *bolgar*, rhumenbuch, yn Epicurus.
H. Perri: Egl. Ffr. xiv. 2.

Bolgarn, *sm.* [corr. of *ebolgarn*=*carn yr ebol*] colt's foot (*Tussilago*).

Perpensa, *bolgarn* yr ardd, y gwrthlys.
Meddygon Myddfai, 291.

Bolgarwch, *sm.* gluttony.

Bolgast, geist, } *sf.* [bol+gast: f. of *bolgi*] a fe-
Boliast, ieist, } male glutton or gormand.—*S.W.*

Bolgi, gwn, *sm.* [bol+ci] a belly-dog; a glutton, a gormandizer; a guzzler.

A oes rhyw synwyr i ddyn gospi ei hun, a pheidio yfed ychydig dablen o herwydd crug o *folgwn*.
Traethodydd, xxv. 73.

Folgwn! mae annwn ynoch
I grasu caws fel gwres coch.—*Iago Emlyn:* Gweith. 21.

Ni fu fawr o amser cyn dyfod yn ei hol, ac yn tywallt ail ffedogaid braf o ddanteithion drachefn ar y bwrdd, i foliau y *bolgwn*.—*Haul*, C.C. ix. 43.

Mae'r *bolgi* yn myned i aros yma trwy'r dydd.
Brutus: W. B. y Coed, 17.

Bolgïaidd, *a.* gluttonous.

Bolglwm, glymau, *sm.* [=boglwm] 1. a boss; a knob; a stud.

A'u llygaid hwynt-hwy wrth dewhau,
Doent yn *folglymau* drosodd.
Edm. Prys: Salm. lxxiii. 7.

Bolglwm tarian, the boss of a shield.

2. a buckle.

3. a bunch or cluster.

4. a bubble; a bleb.

Pair fry Gwenfrewi, rhag gwyn friwiau pobl,
Pybyr ddwfr *bolglymau*;
Per ffynnon rhag praff heinniau,
Pur hon, a'r berw yn parhau.
W. Cynwal, i Ffynnon Gwenfrewi.

Bolglymog, *a.* having a boss or bosses; knobbed.

Bolgodog, *a.* having a belly-pouch or -bag; marsupial.

Bolgodogion, marsupials, marsupialia.

Bolgwd, *sm.* rotundity of the belly.—*P.*

Bolheulo, *v.* to bask in the sunshine; to bask.

Mae Ciwpit lân, druan, draw,
Abl helynt, yn *bolheulaw*.—*Rhys Jones:* Gwaith, 303.

Bolheulad, -au, *sm.* a basking in the sunshine.

Boliad, -au, *sm.* 1. a gorging or guzzling. 2. =*Bolaid*, q.v.—*N.W.*

Bolio, *v.* 1. to fill the belly; to gorge, to glut, to gluttonize. 2. to belly; to bulge or swell out.

Boliog, *a.* 1. bellied, having a belly; abdominous; big- or great-bellied.

Nofiwr o groen anifail,
Noe serchog *foliog* o fail.—*Mer. ab Rhys*, i'r Cwrwgl.

Yr oedd rhai yn rhy *foliog* i le mor gyfyng.
Elis Wynn: Bardd Cwsg, 42.

2. big (with young), pregnant, enceinte.

Boloch, -au, *sm.* [=moloch] trouble; uproar, tumult; disquietude.

Oed re redeint dan uordwyt Gereint
Garhiryon grawn *uoloch*;
Rudyon ruthur eryron coch.
Llywarch Hen: A.B. ii. 276 (M.A. i. 102).

Boloch ofnawg fydd daw.—*Diareb.* (M.A. iii. 149.)

Chwerthin mawr
Oedd yn y Nef, o edrych ar y ffrwst
A *boloch* mawr.—*W. O. Pughe:* C.G. xii. 61.

Llawn *boloch*, arth groch grych-wedd, anian chwern,
Un na châr dangnefedd.—*Robert Owen*, Gweith. 82.

Bolog, *sf.* [apparently a corr. of *melog*, q.v.] honey-suckle (*Lonicera*).

Fistularia, *bolog* y waun, llysiau'r cwn.
Meddygon Myddfai, 285.

Bolol, -ion, *sm.* [im.] a bugbear, a goblin, a bogey. A word generally used to frighten children; often pronounced and sometimes written *bol lol* or *bo lol*.—*N.W.*

Dan goddiant Rodney, gwyddom,
Yw *Bol lol* Ffrainc, bual ffrom.
Rhys Jones: Gwaith, 154.

Bolrwth, *c.* }
Bolroth, *f.* } *a.* gluttonous; greedy; voracious.

Bolrwym, *a.* belly-bound, constipated, costive.

Bolrwymedd, *sm.* costiveness, constipation.

Bolrwymiad, -au, *sm.* a making costive; a becoming constipated; a becoming hide-bound.

Bolrwymo, *v.* to constipate; to make or to become costive.

Bolrwymyn, -au, *sm.* a belly-band; a belt for the middle.

Bolrythi, *sm.* gluttony; greediness; voracity of appetite.

Bolrythiad, -au, *sm.* a guzzling, a gorging.

Bolrythu, *v.* to gormandize; to guzzle; to gorge.

Bolrythwr, wyr, *sm.* a glutton; a gormandizer; a guzzler.

Bolwag, weigion, *a.* empty-bellied; belly-pinched; having an empty stomach.

Eutyn, y pentewyn tal,
Bry' du *bolwag*, brawd Belial.—*Rhys Jones:* Gwaith, 217.

Pa beth yw'r haid o greaduriaid *bolweigion* ereill yna sy'n dy ganlyn di?—*Cydymaith Diddan* (1824), 56.

Bolwest, -au, *sf.* [bol+gwest] a bellyful; a good feed.—*Dyfed.*

Bolwst, ystiau, *sf-m.* [bol+gwst] pain in the bowels; abdominal complaint or disorder; colic.

Da yw rac *bolwyst*, ac rac syrthiaw gwallt.
Meddygon Myddfai, i. 139.

O bydd *bolwst* arnat, yf wysgell had y dawg gwyllt, a iach fyddi.—*Llanover Ms.* 4.

Y neb a arfero yfed eu sudd, nid ä gwraidd tostedd arnaw; ac o'u berwi mewn gwin gwyn, a'i yfed yn ddiod, ef a iacheir y *folwst* a hwydd yn y bola.
Meddygon Myddfai, ii. 260.

Ac os ydym ni yn gweled yn fynych nas dichon ac nas meidr gwr duwiol da osod ei feddwl mor ddwys ac mor ddifrif ar bethau nefol, yr amser y bo gwyniau y *bolwst* neu ryw ddolur tost arall yn ei flino ef; pa fodd y gall gwr bydol yng ngloes angeu wneuthur hyny?
Dyhewyd y Cristion, II. v. 21.

Bolwst lyn, dropsy of the abdomen, ascites.

Bolwst goludd, inflammation of the bowels or the peritoneum, peritonitis.

Bolwst bellenau, abdominal tumour.

Bolwst wynt, flatulent distension of the abdomen, tympanitis.

Pedeir *bolwyst* yssyd: *bolwyst lynn*, a *bolwyst golud*, a *bolwyst belleneu*, a *bolwyst wynt*. *Bolwyst lynn* ny ellir gwaret idi; *bolwyst wynt* nyt oes waret racdi heuyt. nyt angheuawl yn ebrwyd. *bolwyst golud* o gyvot. a glasgyfleith a medyglyn y gwaredir. . . *Bolwyst bellenneu* o losceu a magleu, a chyuot, y gwaredir.—*Meddygon Myddfai*, i. 17 (cf. 90, 139).

Bolwyn, *m.* } *a.* white-bellied; having the un-
Bolwen, *f.* } derside white.

Bu imi lew-gyrch iawn olygon,
Yn belenau mawr *bolwynion*.—*L. Morys:* Didd. Teul. 110.

Llawer llymrïen *folwen* a falodd;
Lledau o'r eigion mewn llid a rwygodd.
Rhys Jones: Gwaith, 187.

Bolwynt, *sf.* flatulence; flatulent swelling of the abdomen.—*Dyfed.*

Boly (*ō*), *pl.* boliau, *sm.*=*Bol*, *Bola*.

Bolyn, *sm.* [dim. of *bol*] a little belly.

Y cnawd gwyn, a'r *bolyn* bach,
A'r bronau (ba rai wynach),
A gofleidiais.—*L. Morys:* Didd. Teul. 151.

Bolysothach, *sm.* [boly+sothach] amphigory (in rhetoric); 'a burlesque writing filled with nonsense;' mixed language, jargon.

Bolysothach, ai cymmysgiaith, a fydd, pan gymmysger â cherdd Gamberaeg, gair neu eiriau o ospiaith arall, neu ryw eiriau hen a newydd cymmesur ac anghymmesur.
Pum Llyfr Cerddwriaeth, 119.

The following is given as a specimen of *bolysothach*:

Vy mhwrs melved vy mhersson,
Vy nghoffr aur vy nghyff o Ron,
Vy mhwrs Gods mersi am hynn.—*Sion Cent.*

Bolystog, *a.* [bolwst] having pain or disorder in the abdomen.

Bolystyn, *sm.* [bolwst] pain in the bowels; distension of the abdomen?

Bollt, *pl.* byllt, bolltau, *sf.* [Ir. and Ga. *bolltadh:* cf. E. *bolt;* Ger. *bolz;* Dutch, *bout*] 1. bolt; a bar; a dart; an arrow; a projectile.

O thry i'th ogylch, iaith ddrud,
Treiglwr, chwibanwr traglud,
A *bollt* benfras a bwa;
A'th weled, wr, i'th wâl da.—*D. ab Gwilym*, lxxii. 21.

Olrheiniodd, chwiliodd yr uchelion,
Llwybrau'r taranau a'r terwynion
Fflamawg fellt llamawg *folltau* llymion,
Is awyr, gannaid a ser gwynion.—*Gronwy Owain*, 120.

Byllt trwy dân gwyllt yn gwau,
Mwg a niwl o'r magnelau.—*Blackwell:* Ceinion Alun, 95.

Bollt taran (*pl.* bolltau taranau, byllt taranau), a thunderbolt.

Terwyn *follt* pob taran fawr
Ennyna drwy'r ddu nenawr.
Dafydd Ionawr: Gwaith, 165.

O gu wyneb Gogoniant
Mal *bolltau taranau*'r ânt.—*Dafydd Ionawr:* Gwaith, 164.

Byllt y mellt, thunderbolts.

Byllt y mellt a ânt yn uniawn, ac a gyrchant at y nod.
Doeth. v. 21.

Bollt drws, the bolt or bar of a door.

Bollt clo, the bolt of a lock.

2. a fetter (formerly called a bolt).

Blinaf un carcharwr wyf
O gariad, glwyf hiraethus;
Gwedi'r ofydd aeth i'r *byllt*,
Neu Ferddin Wyllt 'madroddus.—*Gronwy Wiliam.*

Nid oes, ail Luned neb i'n clywed,
Nac un a golwg yno i'n gweled,
Tra bom ni mewn cuddfa *byllt*
Dan gangen wyllt o'r neilldu.—*Lewys Wiliam.*

Bolltaid, eidiau, *sf.* a bolt, a bundle (of flax, reeds, osiers, and the like).

Bollteidiau llin, bundles of flax; stalks of flax (in bundles).

Hi a barasai iddynt esgyn i nen y tŷ, ac a'u cuddiasai hwynt mewn *bollteidiau llin*, y rhai oedd ganddi wedi eu hysgafnu ar nen y tŷ.—*Ios.* ii. 6.

Bolltaidd, *a.* like a bolt or dart.

Caseg eiry a'm cas gurawdd,
Yn llwyr nis gwelid yn hawdd;
Tori fy nghrimp, cael chwimp chwith,
Yn *folltaidd*—llyna felltith!—*D. ab Gwilym*, ccliii. 19.

Bolltawd, odau, *sf.* the stroke of a bolt; the shooting of a bolt; a bolting or darting.

Bolltawd brath mab alltud brych,
A'i caffo ar abod ceffyl.—*D. ab Gwilym*, xcviii. 62.

Cynt yw hynt cennad Duw hen
Na'r *folltawd* a wna'r fellten;
Na dau olwg un dilys,
Na'i feddwl am nefoedd lys.—*L. G. Cothi*, i Fihangel.

Bollten, -au, *sf.* a little bolt or dart; a bolt, a bar.

Bolltiad, -au, *sm.* a bolting; a securing by a bolt; a darting.

Bolltio, *v.* to bolt; to fasten or secure with a bolt or bar.

Bolltio drws, to bolt or bar a door.

Bolltiog, *a.* having a bolt or dart; bolted, darted.

Bolltiol, *a.* bolting, darting.

Bon (*ô*), -au, -ion, *sm.* [Ir. *bonn, bun, bond;* Ga. *bonn*] a base; a stem; a stock; a trunk; a stump; a stalk; the butt or butt-end; the hinder or lower part; a bottom; a root; an end; a breech.

Ar trydyd coet yw hwnn. a minneu neut ydynt yn gynyon *boneu* vy esgyll.—*Mabinogion*, ii. 233.

Llef *bon* corn blaen cad ehorth.
Cynddelw: M.A. i. 254 (cf. 218).

Bon pren (*pl.* bonau prenau, bonau coed), the stem or trunk of a tree.

Cyffelyber cerdd a fo fal hyn i bren ffrwyth teg . . . yn llawn dail ac afalau; eithr â hanner tremiad y gwelir yn union eglur mai cangenau, a dail, a ffrwythau ydynt ar gorff a chyff un pren . . . ac mai nid i amrafael gyffon a *bonau* y perthynant.—*Cyfrinach y Beirdd*, 24.

Plyg berthi, ac ysgythra goed perthi, pan fo'r lleuad yn yr Hwrdd, neu'r Fantol, o'r newid i ben yr wythfed dydd o'i hoedran; a gwell ac ebrwyddach y tyf y *bonau* yn wyrddion a brigog.—*Rhisiart Sion Huw.*

Bon y gwynt, the point from which the wind blows.

Y mae hi yn goleuo ym *mon y gwynt*.—*C.S.*

Bon y tafod, the root or hinder part of the tongue.

A chan er ddygnawd dan *fon y tafawd*.
Taliesin: M.A. i. 29 (A.B. ii. 138).

Bonau llysiau, } the stalks of plants; the
Bonion llysiau, } stumps of herbs.

Ych bon, the hindmost ox in a plough or wain.

Ceffyl bon, the shaft- or thill-horse, the thiller.

Bon a blaen, bottom and top; base and apex; head and tail.

Bon y gler, the lowest class of poets or minstrels.

Cler y bon, low or obscure rhymesters.

Clauar yw bwyd *cler y bon*.—*Pedr Fardd:* Mêl Awen, 60.

Bon y Dom, the Dunghill Bottom; the Welsh name given to a castle said to have been built in Gwynedd by the Irish king Afloedd.

Yn yr hwn le i gwnaeth Afloedd gastell cadarn ae tom ae ffos ettwa yn amlwc, ag a elwit Castell Afloedd frenhin, yng Cymraeg hagen i gelwir *Bon y Dom*.
Buchedd Gr. ab Cynan: M.A. ii. 584.

Bonad, eidiau, *sm.* basement.

Bonaddurn, -au, *sm.* a tail-piece.—*W.*

Bonawdl, odlau, } *sf.* the fundamental or lead-
Bonodl, -au, } ing rhyme in some metres; one of the first rhyming lines in a stanza.

Arall o'r unrhyw agos parth gosodiad y banau, eithr yn amrafaelu ychydig parth trefn yr odlau cadwynog; sef nad ydynt yn unrhyw ar *fonodlau* cangenau'r ail hanner o'r pennill, ag odlau'r cyrch-gadwyn ar yr hanner cyntaf.
Cyfrinach y Beirdd, 135.

Bonbraff, breiffion, *a.* thick, broad, or large at the base; having a thick butt or stock.

Dial â grym dy law graff
Waith Banbri â'th waew *bonbraff*.—*Tudur Aled.*

Bonbraff blaenfain, } thick or broad at the
Bonbraff a blaenfain, } base and small at the top or apex; tapering, conical, pyramidical.

Pe suddai'r pilerau *bonbraff brigfeinion* hyny . . . oni byddai'r cyfnewidiad yn llawer o'r amgylchiadau hyn yn chwithig a gwrthun?—*Myfyrdodau Hervey*, 146.

Bonbren, -au, -i, *sm.* the bar or stretcher of a horse's draught gear.

Bonc, -iau, *sm.* [=banc (S.W.): O.E. *bonc*, *bonk*, *boncke*, *banke*, &c.] a hill; an eminence; a rising ground.—*N. W.*

Boncath, -au, *sm.* [=bwncath] a buzzard.

Boncath y wern, } the moor buzzard; also called
Bwncath y wern, } *bod y gwerni*.

Boncath, -au, *sm.* [corr. of *boncyff*] 1. a stump; the stub of a tree; a block.

2. a term of abuse (which may be either this or the preceding word).

A'r hen Wroth, dan drwyn-rythu,
Hen *foncath*, ei fath ni fu.
Edward Dafydd, i'r Pengryniaid.

Bonclust, -iau, *sm.* [bon+clust] a blow or box on the ear; a buffet.

A rodi *bonclust* idaw yny vyd yr llawr yny varw lewic.
Mabinogion, i. 241.

Myn Duw heb ef velly y dylyei dyn gyfnewidyaw. rodi dimmei yr keinawc. a dyrnawt mawr ynlle *bonclust*.
Yst. de Carolo Magno, col. 447.

Ac wynt a rodant idaw *bonclusteu* o ysgymynyon dwylaw.
Prophwydoliaeth Sibli, § 6.

Ac efe'n gweled Iorwerth wrtho ei hunan yn ymyl afon yn pysgota, fe aeth ataw, ac a roddes iddaw *fonclust*.
Brut Aberpergwm: M.A. ii. 559.

Bonclustiad, -au, *sm.* a boxing on the ear; a buffeting.

Bonclustio, *v.* to box the ear; to box or strike on the ear; to buffet.

Ydd ŷm ni yn newynu, ac yn sychedu, ac yn noethion, ac y'n *bonclustir*, ac heb wastadfa.
W. Salesbury: 1 Cor. iv. 11.

Bonclustiwr, wyr, *sm.* one who boxes the ear; a buffeter.

Boncyff, -ion, -iau, *sm.* [bon+cyff] the stock or stump of a tree; a stem; a stump, a stub.

Cyff berf yn y Gymraeg yw'r modd annherfynawl; canys o hwn y mae'r lleill i gyd yn egino ac bagluro allan, megys cangau o'r *boncyff*.—*Dr. Gr. Roberts:* Gram. 142.

Gadëwch *foncyff* ei wraidd ef yn y ddaiar.—*Dan.* iv. 15, 23.

Yn gorwedd yn gyffelyb i hen *foncyff* ar y ddaiar.
Cawrdaf: Meudwy, 23.

Boncyff o bren, the stock or stump of a tree.

A ymgrymaf i *foncyff o bren*?—*Esa.* xlv. 19.

Boncyn, -au, *sm.* [bonc] a hillock; a tump; an eminence.—*N. W.*

O foncyn i fanc, from hill to hill; up hill and down dale; over hill and dale.—*Cyfeiliog.*

Bond, *adv.* [=ba ond=pa ond]=*Pond.*

Bondew, *a.* thick at the base, root, or lower end; thick-legged; squabby.

Gwair bondew, hay growing thick at the root.

Bondid, -au, *sf.* [bon+tid] the chain or trace next the plough by which it is fastened to the yoke; the principal chain.

Aml draw y canai emyn,
Ymlid y *fondid* a fyn.—*Iolo Goch*, i'r Llafurwr.

Bual llid Beli a llew,
Bondid Ednowain Bendew.—*Dafydd ab Edmwnt.*

Bondigrybwyll, *adv.* [corr. or contr. of the phrase *na bo ond ei grybwyll*, which more commonly occurs uncontracted] may it only be (just) mentioned; may it be but barely mentioned; strange to say; forsooth.—*N. W.*

A rhaid i'r plant, *bondigrybwyll*, fel arferol, gael myned gyda'u rhieni i weled y môr a'r llong dân.
Gwallter Mechain: Gwaith, i. 496.

Y mae llawer yn y wlad, a'r rhei'ny gan mwyaf o lawer, *bondigrybwyll*, yn rhai ni fuont yn euog erioed o gyfranu ceiniog at ysgolion.—*Traethodydd*, xxv. 106.

Mae'r gair hwn yn cael ei ysgrifenu yn fynych iawn yn y rhyw fenywaidd, a hyny hyd yn nod gan y beirdd a'r Cymreigyddion (*na b'ond ei grybwyll*)!
I. G. Geirionydd: Geir. 394.

Ei gynghanedd y tro o'r blaen oedd y groes rywiog ddychweledig, i'w chanu wyneb a gwrthwyneb: *na bo ond ei grybwyll!*—*Gronwy Owain*, 320.

Bondo, *sm.* and *cl.* the thatch first laid on the eaves of a house or a rick; the eaves.

Bondo o frig perth bendew,
Byrion fydd blaenion y blew.—*Iolo Goch*, i'r Farf.

Bondos, *s.* a nursery word, the meaning of which, if it has any, is not apparent.

'Sgyrnygu, a chrynu ddechreunos, gwaith dig,
Bwgwth dwrn, a *bondos;*
Mingamu a nadu'r nos,
Beichio lle ni bo achos.—*Rhys Jones:* Gwaith, 202.

Bondres, -i, -au, *sf.* the breeching of a harness.

Bonddu, *a.* having a black base, stem, or bottom.

Coch a bonddu, an angler's favourite hackle fly on Welsh streams, made out of a red cock's neck-feather with a black base; sometimes called Marlow buzz.

Bonedd, *sm.* [bon: cf. Ir. *bunadh*] 1. origin; stock, stem; extraction, descent; pedigree, genealogy, lineage.

Pedeir teirthon yssyd ac a hanyw y *boned* or haf. . . Llyma y *boned* hi. o uagu gwlybwr gwydyn gormod yn y gylla.—*Meddygon Myddfai,* i. 12.

Bonedd y saint (=achau y saint, gwelygorddau y saint), the pedigree, genealogy, descent, or lineage of the saints.

Bonedd y Saint, neu Achau saint Ynys Prydain.—Y casgliad hwn a wnaed gan Lewis Morris, yn y vlwyddyn 1760, allan o amryw ysgrivlyvrau hen iawn, dan enw *Bonedd y Saint,* ac Achau y Saint, drwy eu cymharu gyd a'u gilydd. *Myv. Arch.* ii. 26.

Godinebus *fonedd* Moab ac Ammon.—*Gen.* xix. (cynn.).

Bonedd Mair, the genealogy or lineage of (the Virgin) Mary.—*D.*

Bonedd geiriau, the origin or derivation of words.

Gogyfurddolion ydynt y naw gorchan; sef cydgyfuwch o ran *bonedd* ydynt.—*Cyfrinach y Beirdd,* 70.

2. good extraction, gentility; dignity or nobleness of birth; nobility, nobleness; rank by birth; noble birth; distinguished or ancient descent; ancestry; the order and rank of gentlemen.

Hywel Dda . . . a ddodes ddeddf arnynt gadw a chynnal rhol achau yn ddosparthus, modd y gwneid yn Neheubarth a Morganwg a Gwent, mal y gwypid teilyngdod a *bonedd* pencenedloedd, ac o hyny braint iddynt a fai dyledus; ac fal hyn y dechreuwyd cof gwarantedig ar achau ac arfau *bonedd* yng Ngwynedd a Phywys, a Hywel Dda'n ei ddoethineb yn trefnu llyfr a elwid *Bonedd* Gwŷr y Gogledd; nid amgen na *bonedd* llwythi Gwynedd a Mon, a gwelygorddau Pywys.—*Iolo Mss.* 87.

Brân Galed brin y gelwynt
Bonedd Gwŷr y Gogledd gynt.—*Guto'r Glyn.*

Ni awdam y henw ae chystlwn ae *boned.*
Mabinogion, iii. 270.

Gan fod yn well ganddo farw yn wrol, na'i ddarostwng dan y rhai ysgeler hyny, a goddef traha anweddaidd i'w *fonedd.*—2 *Macc.* xiv. 42.

Ragor a dugynt rac eu kytemdeythyon en hollawl o pryt a meynt a gosged a thegwch a *bonhed.*
Brut Gr. ab Arthur: M.A. ii. 242.

Bonedd yw d' anrhydedd di,
Brodorion hirion Harri.—*Tudur Penllyn.*

Bonedd, mal etifedd maeth,
A fag y bendefigaeth.—*Dafydd Nanmor.*

Nid oes na dyfeisio, na golud, na gwylio,
All rwystro neb yno, na *bonedd.*
Edw. Richard: Bugeilgerdd, i. 9.

Dwyn ar fonedd, } to bring up in a gen-
Dwyn i fyny ar fonedd, } teel or gentlemanly way; to educate as a gentleman.

Dwyn plant ar fonedd, to give children a liberal education.

Trydydd ydoedd Brychan Brycheiniawg, a ddug ei blant a'i wyrion *ar* ddysg a *bonedd.*—*Trioedd:* M.A. ii. 61.

3. (*s.cl.*) gentry, nobility; persons of noble descent or gentle birth; the upper classes.

Unyawn bill hirdawn o ball harded
Enwawc valch vynawc o veilch *voned.*
Rhiserdyn: M.A. i. 433.

Eurllyw o haelion *fonedd*
Aerllew balch bolch ei gledd.
Gr. ab Meredydd: M.A. i. 443 (cf. 440).

Teilyngu o honot gynnysgaeddu arglwyddi'r cynghor, a'r holl *fonedd,* â gras, doethineb, a deall.
Ll. G. Gyffredin (Litani).

Rhad a erfyniwn i'r hydr-wiw *fonedd.*—*Gro. Owain,* 101.

Bonedd y wlad, the gentry of the country.

Mae *bonedd* lawer ynddi, a'i theiau'n wych dros ben,
A'i dynion oll mor foesdeg a neb o dan y nen.
Dafydd Thomas: Siroedd Cymru.

Bonedd a chyffredin, } gentry and commonalty;
Bonedd a gwreng, } the upper and lower orders.

Bonedd lledrywiog, } gentry of the meaner sort;
Crach fonedd, } half-gentry.

Bonedd y domen, dunghill-gentry; would-be gentlemen; snobs.

¶ Occasionally, with recent writers, the pl. *boneddion* (=*boneddigion*) is met with.

Boneddion, bawb, yn noddi
Ffrydiau per ei phurdeb hi.
Ioan Cunllo (Seren Gomer, vii. 508).

Boneddion gwladgarawl a dyrrant yng nghyd.
Th. Lloyd Jones (C.Q.M. iv. 542).

¶ The derivatives of *bonedd* are often spelt *bonhedd-.*

Boneddes, -au, *sf.* a gentlewoman, a lady.

Yr oeddwn wedi myned i lawr un prydnawn gyda boneddwr arall, a dwy neu dair o *foneddesau.* . . Yr oedd yn dda i ni nad ymddangosodd [y llew]; hwyrach fod ein nifer, neu ynte ddillad gwynion y *boneddesau* yn gleinio yng ngoleu y lloer, wedi peri arswyd arno.
Cylchgrawn, i. 9 (cf. 11, 26).

Boneddfawr, *a.* of high descent; of noble ancestry or lineage.

Hael *foneddfawr* Gymro
Gronwy gymheniaith gryno.—*Llywelyn Goch:* M.A. i. 521.

Boneddig, *a.* having a stem or origin; of good descent or extraction; of gentle or noble birth; noble, genteel; well-born; gentlemanly.

A thost yw gennyf welet arwas kyn *uonhedicket* athi. y dihenyd avyd arnat auory.—*Mabinogion,* i. 264.

Llif dragon vanon *vonhediccaf.*
Llyw. ab Llywelyn: M.A. i. 296.

Kaer eurglawr Arglwyd *bonhedic.*
Gr. ab Meredydd: M.A. i. 471.

Am hyn, *boneddicaf* ar yr holl fesurau ydynt y naw gorchan.—*Cyfrinach y Beirdd,* 70.

Gwr boneddig (*pl.* gwŷr boneddigion, gwŷr boneddig), a gentleman.

Gwr bonheddig oedd gynt ymhenllyn a elwid Tegid Voel.
Mabinogion, iii. 321.

Ni ddylid fyth ddarnodi *gwr boneddig* yn siarad yn wladeiddiaith.—*Cyfrinach y Beirdd,* 22.

A chyda hyny y *gwr boneddig,* yr hwn oedd ei feistr, a ymddangoses iddo. . . Ebe'r *gwr boneddig* wrth y gwr, 'Hyn oll y sydd iti.'—*Iolo Mss.* 160.

Gwraig foneddig (*pl.* gwragedd boneddigion, gwragedd boneddig), a gentlewoman, a lady.

Gwreic y gellir dywedut idi y bot yn deckaf or gwraged. ac yn diweiraf; ac yn haelaf. ac yn doethaf. ac yn *vonhedickaf.* vy arglwydes i yw honn racko.—*Mabinogion,* i. 17.

Merch foneddig (*pl.* merched boneddigion, merched boneddig), a young lady or gentlewoman; a lady.

Mab boneddig (*pl.* meibion boneddigion, meibion boneddig), a young gentleman; a young man of gentle birth; a gentleman.

2. noble; magnificent; fine.

Ac velly tair afon *vonheddic* y syd yndi nit amgen Temys a Hymer a Hafren.
Brut y Breninoedd: M.A. ii. 82 (cf. 319).

Ac ygyt a heny wynt a deuthant tywysogion or dinassoed *bonedic.—Brut Gr. ab Arthur:* M.A. ii. 320.

Ac emplith er rei heny en dinas Bangor et oed manachloc *vonedic* en er hon e dywedir bot e veint hon o kwveint.
Brut Gr. ab Arthur: M.A. ii. 364.

Ac yam hynny tywyssogyon y trefyd mawr *bonhedic.*
Brut Gr. ab Arthur (B): M.A. ii. 321.

Bwyd boneddig, dainty or delicate food.

Pann uo y korf yn vreisc, ac yn sych, *bwydeu bonhedic* a berthynant idaw.—*Meddygon Myddfai*, i. 179.

Boneddig, -ion, *sm.* a gentleman.

Boneddigion, gentlemen; gentry; gentlefolks.

Ac yno e doethoedynt e sawl *vonedigyon* a dyledogyon. ygyt ac eu gwraged ac eu merchet.
Brut Gr. ab Arthur: M.A. ii. 289.

Caridwen ei fam a feddylioedd nad oedd ef debyg i gael ei gynnwys ymplith *boneddigion* rhag ei hagcred oni bai arno ryw gampau neu wybodau urddasol.
Mabinogion, iii. 321.

Eithr, fy arglwyddi mawrbarch, a chwithau *foneddigion* clodfawr, a'r ethrylithgar dysgedig, o chaf eich porth a'ch cynnorthwy chwi, ni ddorwn ehud-farn nebun ysgentyn.
Dr. Th. Wiliams (Y Greal, 62).

A'r gwreng sydd yn ymgrymu, a'r *boneddig* yn ymostwng.—*Esa.* ii. 9 (cf. xxii. 5).

Boneddig cynnwynol, } a gentleman of pure
Boneddig gwlad, } Welsh descent, by father and mother; one of innate lineage or descent; a native or innate gentleman.

Bonhedyc canhuynaul yu dyn auo kyulaun o uonhet yg Kymry o uam ac o tat.
Cyfreithiau Cymru, i. 178 (cf. 508, 694).

Tri anhebgor *boneddig cynnwynawl:* brecan; telyn; a challawr.—*Cyfreithiau Cymru*, ii. 562 (cf. 14).

Rhaid yw bod y gwyliwr yn *foneddig gwlad;* canys iddaw ydd ymddiriedir o'r brenin.—*Leges Wallicae*, i. xli. 3.

Boneddigach, *s.pl.* gentry of the meaner sort.

Boneddigaeth, } -au, *sf.* gentility; no-
Boneddigiaeth, } blesse.

Boneddigaidd, *a.* 1. noble; genteel; gentlemanly, gentlemanlike; well-bred, refined; generous; courteous; gentle.

Ereill yn ymdidan a morynyon ieueinc *bonedigeid* o verchet teyrnet . . . ar brenin aoed arglwyd ar y niuer *bonedigeid* hwnnw.—*Campau Charlymaen*, § 5.

Ac or awelsei eiryoet wrth ymdidan a hi. disemylaf gwreic a *bonhedigeidaf* y hannwyt ae ymdidan oed.
Mabinogion, iii. 7.

A Hywel a roddes iddo *foneddigaidd* atebion.
Iolo Mss. 170 (cf. 176).

Y rhai hyn oedd *foneddigeiddiach* na'r rhai oedd yn Thessalonica.—*Act.* xvii. 11 (cf. Iago iv. 17).

Y wraig arall oedd dirion, llariaidd, a *boneddigaidd.*
Marchog Cwydrad, ii. 4.

2. fine; elegant; becoming a nobleman.

Gwedi hyny rhoi am dano'r gwychaf a'r costusaf o bob gwisgoedd *boneddigaidd.—Iolo Mss.* 160.

3. noble; fine; stately.

Afon foneddigaidd (*pl.* afonydd boneddigaidd), a noble river.

Ac eithyr yperuedduor ydeir drostaw yffreinc teir *auon boneddiceydd* ysydd ynddy.—*Brut y Breninoedd:* M.A. ii. 82.

Boneddigdod, *sm.* gentlemanliness; gentility, nobleness.

Boneddigeiddio, *v.* to make genteel or noble; to ennoble.

Boneddigeiddrwydd, *sm.* gentlemanliness; good breeding; gentility; courteousness.

Ar veint *vonedigeidrwyd* honno a ryuedawd Charlymaen yn vawr.—*Campau Charlymaen*, § 5.

Gan ei alw yn Gymro gwladaidd na wyddai *foneddigeiddrwydd.—Brut Aberpergwm:* M.A. ii. 559.

Mae gwir ffydd yn llawn *boneddigeiddrwydd* a difaleisrwydd calon.—*Elis Wynn:* Rh. B. S. iv. 1 (175).

Boneddiges, -au, *sf.* a gentlewoman, a lady; a noblewoman.

Y gwr boneddig gwych a darawsai fargen gydag ef, a draws-lamodd ymaith trwy ganol llu o *foneddigesau*, y rhai a fyddant arferol o'i ganmol.
Cylchgrawn Cymraeg (1793), 292.

Noddwyd y gydgerdd gan y llywydd, y cynghor, a thros 300 o *foneddigesau* a boneddi-ion; ac ni chafwyd y fath wledd beroriaethol, ysgatfydd, erioed o'r blaen yn y Dywysogaeth.—*Ios. Harris:* Gweith. 240.

Boneddiges uchelwaed, a lady of high blood; a lady of rank.

Boneddigesaidd, *a.* ladylike; of gentle manners.

Boneddigiaeth, *sf.*=*Boneddigaeth.*

Boneddigiaith, ieithoedd, *sf.* refined language; language becoming a person of good breeding.

Ni ddylid darnodi . . . gwladeiddwas yn siarad *boneddigiaith* ragorbwyll.—*Cyfrinach y Beirdd*, 22.

Boneddigion, *s.pl.* See *Boneddig, sm.*

Boneddigrwydd, *sm.*=*Boneddigeiddrwydd.*

Boneddigryw, *a.* of noble line or race.

Feinwedd eigr *foneddigryw*,
Fwyn a diwair, f' enaid yw!—*D. ab Gwilym*, clix. 7.

Boneddog, *a.* having a stem; original.—*P.*

Boneddogi, *v.* to found or establish.—*P.*

Boneddu, *v.* to ennoble; to dignify.

Gwell iddo a ddonier nog a *fonedder.*
Diareb. (M.A. iii. 160.)

Boneddus, *a.* forming a foundation.—*P.*

Boneddwr, wyr, *sm.* a gentleman.

Mor bell yn ol a'r flwyddyn 1802, bwriadodd nifer o *foneddwyr* anturgar agor ffordd dan yr afon Tafwys.
Cylchgrawn, i. 281.

Bonfain, feinion, *a.* small or slender at the base; resembling an inverted cone.

Bonfan, -au, *sm.* [bon+ban] one of the two or three rhyming lines in the metre called *Hupynt.*

Hupynt, neu lostodyn . . . a wneir fal hyn; sef y bydd y naill ai dwy fraich neu dair ar y gyhydedd a fyner o'r fer i'r hir, yn unodl; a'r rhai'n a elwir y boniaid, neu'r *bonfanau.—Cyfrinach y Beirdd*, 119 (cf. 120, 127).

Bonfras, freision, *a.* 1. thick or broad at the base.

Bonfras brigfain, } broad-based and sharp-
Bonfras a brigfain, } pointed; broad at the base and small at the top or apex; conical, tapering, pyramidical.

2. thick-legged; clumsy.

Bonffagl, -au, *sf.* [corr. of *banffagl*] a bonfire; a blaze.

Bonffaglu, *v.* to make a bonfire (of); to blaze.

Ffug-lyfr, rhaid ei *fonffaglu.—Sion Brwynog.*

Bonffaglwr, wyr, *sm.* a firebrand, an incendiary.

Bongam (*n-g*), geimion, *a.* 1. crooked, curved, or bent at the base.

Mae'n fingul, mae'n *fongam*, mae'n wargul, mae'n wyrgam,
Mae llwybr diadlam anhylam yn hon.
Edw. Richard: Cân y Bont, ii. 3.

2. crook-shanked, bandy-legged.

Pan fo gystal clustiau Deicyn *Fongam* Fyddar, o Fachynllaith, a chlustiau Clustfain ab Clustfeinydd.
Araith Iolo Goch.

Deicws *Fongam* ab Madog ab Llywelyn ab Iorwerth.
Achau.

Bongamu, *v.* to be bandy-legged; to waddle.

Bongamu yn goch, to stride at a fine pace.—*Gwent.*

Bongemi, *sm.* crookedness of shanks or legs.

Bonglwm (*n-g*), glymau, *sm.* a knot or knob at the end of a thing; a knot in a tree.

Bonhoncian, *v.* to waddle.

Boniad, iaid, *sm.* [bon] 1. one that is in the rear; the hindmost ox in a team (=*ych bon*).

Da *foniad* ydwyf finnau.—*Llewelyn Goch y Dant.*

2. a thill-horse or thiller (=*ceffyl bon*).

3. (=bonfan) one of the two or three rhyming lines in a *Hupynt*.

Hupynt . . . ef a wneir fal hyn; sef y bydd y naill ai dwy fraich neu dair ar y gyhydedd a fyner o'r fer i'r hir, yn unodl; a'r rhai'n a elwir y *Boniaid*, neu'r Bonfanau; ac ar ol y rhai'n y bydd ban arall yn amrafaelodl ar y *boniad*, ac yn arwain y brifodl, a hwn a elwir y Llost, neu'r Llostwrn. . . Bydd yn aml iawn, yn lle'r cyrch odl, y diweddaf o'r *boniaid* yn croesgynghaneddu â'r llost . . . a rhaid ban arall o'r fath hyn yn gymhar iddo, ac yn unodl ag ef parth y llost, ac nid o barth *boniaid* . . . weithiau bydd y *boniaid* yn gyfunhyd â'u gilydd eu banau, ac weithiau yn anghyfunhyd.—*Cyfrinach y Beirdd*, 119 (cf. 120—128).

Boniwaw [?]. It occurs but once, and is probably an erratum.

Mi a baraf i ddyn araf
Or a garaf ryw ogerydd
Am *foniwaw* wyf fron friwaw
A'm diliwaw ym Duw lywydd.
Iorwerth ab y Cyriog: M.A. i. 505.

Bonllawdr, llodrau, *sm.* a pair of breeches or trousers.

Swrcodan druan adrywedd noethi
A fu am Fenlli yn hen *fonllawdr*.
Iustus Llwyd: M.A. i. 558.

Bonllef, -au, *sf.* [corr. of *banllef*] a loud cry, an outcry, a scream.

Tri pheth anferth i glust Cymro: rhinc llif yn ei hogi; *bonllef* yspryd Mallt y Cwd; a chwaldodach Sais.
Trioedd Doethineb: M.A. iii. 254.

Dyma gawr o ddiawl ceghir, ar amnaid y brenin, yn rhoddi *bonllef* uwch na chan ergyd o ganon.
Elis Wynn: Bardd Cwsg, 85.

Yn ofer pob dawn tra mae *bonllef* a thrydar
Yr anghred a'i anrhaith yn llenwi dy ffyrdd.
Blackwell: Ceinion Alun, 186.

Bonllefain, *v.* to cry out or aloud; to set up an outcry; to bawl, to scream; to shout.

Mi a glywn o hirbell swn arall mwy na'r cwbl, o grochleisiau echrys, *bonllefain*, gwaeddi, ac ochain cryf, a thyngu, a rhegu, a chablu, oni roiswn i newid ar fy nghlustiau rhag gwrando.—*Elis Wynn:* Bardd Cwsg, 73.

Ac am y Messïah y darllenwn, y deuai ef i efangylu i'r tlodion, nad ymrysonai ef, ac na *fonllefai* yn yr heolydd.
Edw. Samuel: Grotius, v. 19.

Bonllefwr, wyr, *sm.* one who makes an outcry; a screamer, a bawler, a shouter.

'Gosteg, yn enw'r brenin!' ebr rhyw *fonllefwr* cythreulig.
Elis Wynn: Bardd Cwsg, 97.

Bonllost, -au, *sf.* [bon+llost] 1. the shaft of a spear or lance.

Bonllost, bon gwaewffon, rhethren neu drostan a arferid mewn rhyfel.—*Davies*, s.v. *Talea*.

2. a tail; the hinder part of a thing.

Bonllost fal ysgub unllath,
Rhy-lawn fodd, rholyn o fath.—*Huw Llwyd Cynfal.*

3. veretrum.—*Cyfreithiau Cymru*, i. 778.

Da yw *bonllost* o Benllyn;
Duw a'i maddeuo i'r dyn!—*Ieuan Brydydd Hir, hf.*

Bonog, *a.* [bon] having a stem or stalk; stalked; thick-shanked; squabby.

Gwalch â swydd yn rhwydd yr hawg
A gâr bennill, gwr *bonawg*.—*Thomas Prys.*

Bonsang, -au, *sf.* [bon+sang] 1. a foundation, a base or basis, a basement.

Yr oedd y pryd hyny ddynion yn rhoi iddynt eu hunain swm enfawr o flinder afreidiol, trwy siarad am duedd yr areithiau i ddiystyru dynion da . . . heb un amser gyffwrdd â'r *bonsang*.—*Traethodydd*, xxv. 72.

2. the lowest row of sheaves in a stack or rick.

Bonsangus, *a.* fundamental; basal.

Trawsenw y sylfon cadarn sydd, pan roddir ar ymadrawdd, neu araeth glodebus, enw priawd rhyw beth sylweddawl, neu *fonsangus*, i arwyddocäu rhyw beth darymsoddawl; neu pan roir y sylfon dros y ddarymsawdd.
H. Perri: Egl. Efr. v. 1 (cf. vi.).

Bonsyg, -au, *sf.* a plough-chain; the chain that reaches from the plough-beam to the yoke.

Bontin, -au, *sf.* 1. the buttock or buttocks; the rump. 2. the crupper (of a horse). 3. the breeching of a harness.—*Meirion.*

Bontinog, *a.* having large buttocks; squabby.

Bwriaf fardd, byr yw efo,
Bontinog, â'i ben tano.—*W. Lleyn.*

Cael tri o weision diawg,
A dwy forwyn *fontinawg*.—*Sion Tudur.*

Bonwm, ymau, *sm.* the stump of a tree; a stock to graft upon; a stump, stock, or block.

Tro flaen gwaew graen yn grwm,
Tu â'i fwnwgl, tew *fonwm*.—*Guto'r Glyn.*

Twm Sion Twm, *bonwm* a'i bar,
Twm Sion Twm, gidwm a'i gêr.—*Gronwy Owain*, 127.

Bonwn, ynau, *sm.*=*Bonwm*.—*P.*

Bonwyn, *m.* **Bonwen**, *f.* *a.* having a white stem; white at the base; having a white root.

Gwallt bonwyn, white-rooted hair.

Gwerth gwallt *bonwyn*, ceiniawg am bob bys o'r a el ynddaw i'w gnithiaw, a dwy geiniawg am ei fawd . . . a cheiniawg dros bob blewyn *bonwyn* a dyner o'i ben.
Leges Wallicae, III. viii. 21.

Derchaf a gosawd o'r rhagddywededig Hywel hwnw ar yr enwedig Ieuan â bonclust, a briw, a chlais, ac yssig, a chnith gwallt *bonwyn*, a gwarthruddiaeth.—*Y Greal*, 397.

Bonyn, -au, *sm.* a stump, stock, or stem; a stalk; the hind part; a handle.

Bor (*ō*), -au, *sm.* 'a focus of a circle.'—*P.* Probably a word invented as a root for *bore*. In the 'C.V.' (Zeuss, G.C. 1080; Norris, C.D. ii. 329) *bor* is glossed *pinguis*, fat; and *berri*, *pinguedo*, fatness; but these words are unknown to the Welsh and Breton.

Bord, -au, -ydd, *sf.* [C. *bord;* Br. *bourz;* Ir. and Ga. *bord;* E. *board*, †*bord*, *boorde*, *bourde;* A.S. *bord*] a table, a board.

Ar iarll adoeth yr neuad yn eu herbyn. ac a erchis kyweiryaw y *bordeu*.
Mabinogion, ii. 62 (cf. 33; ii. 60; iii. 21, 26).

Am disgyblon Crist y dywawd ef hynny. y rei a eistedassant ar y *vort*. . . Gwedy gwneuthur y *vort*. ef awnaethpwyd un arall yr kyffelybrwyd idi hitheu. nyt amgen nor *vort* y roet Seint Greal arnei. . . Ef [Iosep] a gymmerth y bara attaw ef ehun, ac adalawd y werth yr neb ae prynassei. ac yna ef aerchis y bawp vynet y eisted yngyffredin. a gossot *bort* yn eu plith. Ac ar benn y *vort* y roet Seint Greal. . . Ar y *vort* honno ynteu yd oed eistedua.
St. Greal, § 20.

Ac yna yd enwis y brenhin swmp o da. nyt amgen no chan meirch . . . a thrychant gwely o eur ac aryant. a chymeint arall o gylchedeu a chlustogeu. a phedwar cant o ffioleu ac eu cloryeu arnunt. a phum mil o lieineu *bordeu* o eur gwedy restru.—*Bown o Hamtwn*, ¶ 61.

Dy feibion ytt mal oliwydd
Ynghylch dy *ford* a phawb yn ddedwydd.
D. Ddu Hiraddug: M.A. i. 570.

Ifor y dref â'r *ford* rydd,
Nid Ifor un ond Dafydd.—*Guto'r Glyn* (Iolo Mss. 317).

Gwael fydd y bwrdd a'r gwely
A *bord* dal heb wr y tŷ.—*Huw Cae Llwyd.*

Yna gosod *bord* gostus-waith ag arni liain weithiedig ag addail ariannaid ac euraid a sidanaid.—*Iolo Mss.* 160.

Bord gron (=bwrdd crwn), a round table.

Y Ford Gron, the Round Table (of King Arthur).

Ac ygyt ac ef yd oedynt o vilwyr y *vort gronn* dec a deugeint a chant.—*St. Greal*, ¶ 1 (cf. 2, 5, 17, 20, 21, 38).

Efe [Gr. ab Cynan] a ddodes newyddion o foddion a defodau yn amgen a geffir ar yr hen ddosparthau gwlad Gymru a gwlad Lydaw; ac yn lle *Bord Gron*, neuadd y tywysog yn Aberffraw, a neuaddau pendefigion ereill.
Iolo Mss. 210.

Gwledd Taliesin yn Llys Elffin,
Gwledd y *Fort Gron* yng Nghaerllion.
Rhys Goch ab Rhicert: Iolo Mss. 247.

Dosparth y Ford Gron, *Trefn y Ford Gron*, *Gradd y Ford Gron*, the institution, system, or order of the Round Table.

A Phebin, amherawdr Ffrainc, a gadwai Ddosparth Benwyll, a *Dosparth y Ford Gron*, dan ei glustog y nos yn ei wely, gan faint y carai ef y dosparthau hyny.
Iolo Mss. 75.

Gwedi hyny yr Arlwydd Rhys ab Tewdwr, Tywysog Dinefwr a Dyfed a Cheredigion, wedi bod amser wrth ei achos yn Llydaw, a ddaeth yn ol i Gymru, ac a ddug gydag ef *Drefn y Ford Gron* i Gymru, lle'r oedd wedi myned ar goll ac anghof.—*Iolo Mss.* 215 (cf. 210, 216, 217).

Llyfr am enwog farchogion,
Llyfr teg *Radd* yr holl *Fort Gron.*
Guto'r Glyn (Iolo Mss. 326).

Marchogion y Ford Gron, Knights of the Round Table.

Y Benwyll hwn oedd arwyddfardd yn llys Arthur yng Nghaerllion ar Wysg, a *Marchog o'r Ford Gron.*
Iolo Mss. 75.

Cymdeithion y Ford Gron, *Cydymdeithion y Ford Gron*, Companions of the Round Table.

Ti a waetheeist heno ar vy llys i mwy noc a welleeist eiryoet. kanys tidi yssyd yn dwyn *kedymdeithyon y vort gronn* y wrthyfi.—*St. Greal*, ¶ 5.

Rhyfelwyr y Ford Gron, *Milwyr y Ford Gron*, the warriors or soldiers of the Round Table.

Pan gigleu *milwyr y vort gronn* y parabyl hwnnw y gan Walchmei. wynteu a gyfodassant y uyny.—*St. Greal*, ¶ 5.

Gwŷr y Ford Gron, the men or heroes of the Round Table.

Llew fu'n nhrefi Caer Llion
Ac ei *wŷr* ar y *Ford Gron.*—*L. G. Cothi*, iv. xxviii. 25.

Bord a lletty, board and lodging.

Yr oedd y ford oll yn un grechwen, the table was all in a roar.

Tir bord, *Tir y ford*, †bordland.—*W.*

¶ *Bord* is the same word as *bwrdd*, but less assimilated, and more limited in its application. In the Bible both forms indifferently occur (cf. *Salm.* xxiii. 5; cxxviii. 3; *Matt.* xxvi. 7). In the colloquial language *bord* is mostly used in S.W. and *bwrdd* in N.W.

Ni ellwch fod yn gyfranogion o *fwrdd* [Gr. *trapezês*] yr Arglwydd, a *bord* [Gr. *trapezês*] y cythreuliaid.
1 *Cor.* x. 21.

Bordaid, eidiau, *sf.* a tableful; a table.

Y fordaid wŷr (=y gwŷr wrth y ford), the persons sitting at table.

Bordan, -au, *sf.* [dim. of *bord*] a small table.—*W.*

Borddwyd, -ydd, *sf.* [mut. or corr. of *morddwyd*] the thigh.

Rhag cryd a mwyth y cymmalau; a rhag gwaew yn y *borddwydydd* neu yn ystlys y cefn wrth gerdded.
Meddygon Myddfai, ii. 331.

Bore, **Boreu**, -au, *sm.* [C. *bore, beûré;* Ir. *barach, buarach:* cf. *mory, afory, efory*, and E. *morrow*, †*morwe*] morning, morn.

Ac adan Gatvannan cochre
Veirch marchawc godrud e *more.*
Aneurin: Gododin, 598.

Ynaud eu or pan dechreuho guneythur ygueyth y *bore* eny darfo enos.—*Cyfreithiau Cymru*, i. 72.

Ar *bore* ymbronn ydyd drannoeth yd ymordiwedawd rei or gwyr ac ef.—*Mabinogion*, ii. 243.

A dywedut a wnaeth y gwnaei ef y *bore* yn vrenhin.
Bown o Hamtwn, ¶ 62.

Dy ryd y doryf dy re orwydawr
Hyd y llewych llawr gwawr gwymp *vore.*
Llyw. ab Llywelyn: M.A. i. 288 (cf. 292).

Aer veryon lith ar *vorëeu.*—*Rhiserdyn:* M.A. i. 435.

Myfyriaf am danat y *boreau.*
Dr. J. Davies: Llyfr y Res. i. ii. 5.

Ni pheidia'i chân trwy ddunos faith,
Nes gweled gobaith goleu
Yn tywynu, megys llygad aur,
Trwy bur amrantau'r *boreu.*
Blackwell: Ceinion Alun, 199.

Bore trannoeth, *Trannoeth y bore*, the following morning; the morning of the next day (after some specified point of time).

Ar *bore trannoeth* wynt aglywynt twryf anveitrawl y ueint.
Mabinogion, i. 34 (cf. 6).

A *thrannoeth y bore* ygwahanyssant.—*Mabinogion*, ii. 66.

A *thrannoeth y bore* wynt aaethant y warandaw offeren.
St. Greal, ¶ 7.

Mi a ddychwelais o Lan Egwad i Gaer Fyrddin, ac oddi yno y *bore drannoeth* i Gynwyl Elfed.
Ieuan Brydydd Hir: Gwaith, 206.

Bore afory, *Boreu efory*, to-morrow morning (regarded from the speaker's point of view).

Y bore afory, to-morrow morning, the morrow.

Ar *bore auory* ykychwynnwn ni odyma.—*Llyfr Coch*, 137.

Ac wrth hynny y gwnaf inneu ovunet yd af i *y bore avory* heb aros mwy o amser y geissyaw chwedyl y wrth Seint Greal.—*St. Greal*, ¶ 5.

Y bore glas, the grey morn; the early morning.

Hyfryd a fyddai genyf gael gwybod pam y toncir cloch yr Aue Maria deirgwaith yn y dydd; sef, *y bore glas*, yn y cyfnos, neu fin yr hwyr, a llygad hanner dydd.
R. Smith: Eglurhâd, 130.

Bore Dydd Sul, *Dydd Sul y bore*, Sunday morning.

Bore oes, the morning of life; early life.

Gwlith y bore, dew of the morning, morning dew.

Yn y bore bach, very early in the morning; with the dawn.

¶ The older and more correct form is *bore* (*boreu* in Guest's *Mabinogion*, ii. 242, being a misprint), but *boreu* has become common; and the poets, for the sake of rhyme, often write *borau*, which is very objectionable, as it has the appearance of a plural, and does not represent the pronunciation. Dafydd Ddu Hiraddug has the pl. *borëydd:*

Molwn dy gampus enw anrhydeddus
Byth yn barhäus y *borëydd.*—*M.A.* i. 563.

Bore, } *a.* morning; matutinal, matin; early.
Boreu, }

Kwsc yma heno heb ef. a chyuot yn *uore* y uynyd.
Mabinogion, i. 6.

Lle tesai *bore* haul ar dyno, lle
Dyfwydai gysgawd hefyd ddeildai nawn.
W. O. Pughe: C.G. iv. 276.

Gwawr fore, } the early dawn; morning light.
Bore wawr, }

Gorne *gwawr vore* ar vor diffeith.
Cynddelw: M.A. i. 217 (cf. 203).

Dwyre, *wawr fore*, erfai arwain
Dymmawr, dydd eurwawr da ei ddwyrain.
Gronwy Owain, 112.

Bydd myrdd o ryfeddodau
Ar doriad *bore wawr.—Emyn.*

Y wyliadwriaeth fore, the morning watch.—*Ecs.* xiv. 24.

Y seren fore (*pl.* y ser bore), } the morning
Seren y bore (*pl.* ser y bore), } star.

Myfi yw Gwreiddyn a Hiliogaeth Dafydd, a'r *Seren Fore* eglur.—*Dad.* xxii. 16 (cf. Iob xxxviii. 7).

Y seren a dybiais oedd *seren y boreu*,
Ar nawn ei disgleirdeb a syrthiodd i lawr.
Blackwell: Ceinion Alun, 185.

Yn fore, early; early in the morning; at an early hour; betimes.

Arch i'r ferch a annerchais,
Ni wn pa beth, rhag treth trais,
Ddyfod yfory'n *fore*,
Pwl wyf, ac ni wn pa le.—*Dafydd ab Gwilym*, clxxvi. 3.

Yn fore fore, very early in the morning.

Mae yn fore, it is early.

Borebryd, } -iau, *sm.* a morning meal, break-
Boreubryd, } fast.

Ebrwydd, y corn *boreubryd*
Alwai 'ng ngwrth y teulu 'ng nghyd.
Blackwell: Ceinion Alun, 107.

Borebrydio, } *v.* to breakfast; to eat the first
Boreubrydio, } meal in the day.

Boredwyg, }
Boreudwyg, } -au, *sm.* a morning dress.—*W.*

Boreddydd, } -iau, *sm.* the morning of the
Boreuddydd, } day; the morning; the break of day; a certain morning.

Ar *boredyd* kylchynu e dinas aoruc Medrawt.
Brut Gr. ab Arthur: M.A. ii. 354.

Ar *boredyd* y kyuodassei Chyarlys y dyd hwnnw megys peunyd.—*Yst. de Carolo Magno*, col. 474.

Ac yn hynny dhydhgwaith y *boreudydh* yn y varwhun, ef a glywai lef araſber garueidhlos yn dywedyd wrtho val hynn. . . Yna y *boreudhydh* y syrthyawdh marwhun ysprydawl ar y brawd.—*Ymborth yr Enaid*, ¶¶ 19, 20.

Ei hwyneb a'i lliw yn rhagori rhag pob coch a gwyn yng ngwawr *boreddydd* a manod mynydd.
Iolo Mss. 176 (cf. 261).

Na seithugiaeth beth ni bydd,
Na breuddwyd un *boreuddydd.—L. G. Cothi*, v. x. 59.

Breuddwyd gwrach y *boreuddydd*
Wrth ei bryd, ys da fyd fydd.—*Guto'r Glyn.*

Borefwyd, } -au, -ydd, *sm.* a morning meal,
Boreufwyd, } breakfast.

Pa ryw ginnyaw heb ynteu. *Bore vwyt* ydoed un yny anuon yr paladurwyr racco.—*Mabinogion*, ii. 43.

Brefai 'n pori *borefwyd*,
Brig llyseuwydd fydd ei fwyd.—*Th. Prys*, i Darw.

Llithiaist ath ron aer feryfon ar *forefwyd*.
Gr. ab Meredydd: M.A. i. 445 (cf. 261).

Cwynos o afalau, *boreufwyd* o gnau.—*Diareb.*

Rhwng y mynyddoedd hyn, ar esgyniad bryn, cawsom ffynnon; yno bwytasom ein *boreufwyd*.
W. Lewes: Dwy Daith, 33.

Aethym i rodfa unigol, a gysgodid â changenau irion a phlygedig y ffawydd a'r bedw, a dychwelais yn ol at *foreufwyd.—Cawrdaf:* Meudwy, 73 (cf. 188, 231).

Borefwyta, } to breakfast; to eat a morning
Boreufwyta, } meal.

Boregad, } -au, *sf.* a morning battle, action,
Boreugad, } or engagement.

Gwelais wyr gwychr yn lluydd
A gwedi *boregat* briwgig.—*Taliesin:* M.A. i. 52.

Boregant, } -au, *sm.* a morning orb; a ce-
Boreugant, } lestial orb as seen in the morning.

Boregant yr haul, the orb of the sun as seen in the morning.

Pan genfyddir, tros goedwig ucheldwf, *foregant* yr heulwen glaer-ddwyreog.—*Llythyr Serch* (Y Taliesin, i. 78).

Boregwaith, } *sm.* the morning time; a cer-
Boreugwaith, } tain morning; one morning.

Pan ddyfu y Mab rhad oedd raid wrthaw . . .
Yn un *boregwaith* iw hanrheithiaw.
D. Benfras: M.A. i. 310.

A *boregweith* yr haf ydoedynt yn eugwely ac ynteu wrth yr erchwyn.—*Mabinogion*, ii. 34.

Llwybr edifar i garu,
Llesg o daith *foregwaith* fu.
D. ab Gwilym, clxxiii. 9 (cf. cxcvii. 1).

Oer *foreugwaith* ar frigyn,
Cywir-ddoeth fydd cerdd o'th fin.
Burchinshaw, i'r Fronfraith.

Dyfod a wnaeth un *boregwaith* hyd yn ymyl Dol Gynon.
Iolo Mss. 174.

Daeth y *boregwaith* atat, preswylydd y tir. . . Y *boregwaith* a aeth allan.—*Esec.* vii. 7, 10.

Ar foregwaith, of a morning; on a certain morning; one morning.

Gan ddyfetha y dyfethir brenin Israel *ar foregwaith.*
Hos. x. 15.

Boregwest, -au, *sf.* [bore+gwest, with the *g* preserved as in *blaengawr*: formed in imitation of *breakfast*] a morning repast, breakfast.

Eistedd yr oeddynt wrth *foregwest* (diolch i Ab Ithel am y gair yna) drannoeth wedi eu priodas.—*Brython*, iv. 160.

Borehun, *sf.* morning sleep or slumber.

Carafi eos fai *forehun* lud
A golygon hwyr hirwyn ei grud.
Gwalchmai: M.A. i. 194 (cf. 136).

Boreol, } *a.* pertaining to the morning; matu-
Boreuol, } tinal, morning, matin; early.

Gwympaf a gloewaf o blant *boreuolion.*
W. O. Pughe: Cathl Ystwyll.

Meithrinaist lysiau ar y lle bu sail
Dinasoedd caerawg y *boreuol* fyd
Cyn llunio 'u muriau.—*Daniel Ddu*, 394.

Boreol weddi, }
Gweddi foreol, } morning prayer; matins.

Trefn y *Weddi Foreol*, bob dydd trwy'r flwyddyn.—Ar ddechreu'r *Foreol Weddi*, darllened y gweinidog, a llef uchel, ryw un neu ychwaneg o'r adnodau nyn o'r Ysgrythyr Lân y rhai sydd yn canlyn.—*Llyfr Gweddi Gyffredin.*

Gwasanaeth boreol, } morning service; morn-
Gwasanaeth y bore, } ing prayer.

Pan orphener y *gwasanaeth boreol*, yr archesgob . . . a ddechreu wasanaeth y cymmun.—*Llyfr Gweddi Gyffredin.*

Yr haul foreol (S.W.), }
Yr haul boreol (N.W), } the morning sun.

Ant oll yn ddim, fal tarth a draul
Dan wres yr *haul foreol.*
Iolo Morganwg: Salmau, i. lxii. 4.

Gwlith boreol, }
Gwlith boreuol, } morning dew, early dew.

Eich mwynder sydd yn ymado fel cwmwl y bore, ac fel *gwlith boreol.—Hos.* vi. 4.

Duwioldeb boreol, early piety.

Trwy ei *dduwioldeb boreuol* aeth Iosïah yn enwog mewn duwioldeb.—*Th. Rowland:* Pregethau, 93.

Boreu, -au, *sm.*=*Bore*.

Boreuad, -au, *sm.* a becoming morn.

Boreuder, **Boreuedd**, } *sm.* earliness; forwardness as to the time of day.

Tri pheth a ddengys doethineb gwraig: ei gweinyddesi yn aros yn hir yn ei gwasanaeth; ei gwr yn caru bod yng nghartref; a *boreuder* ei theulu.

Trioedd Doethineb: M.A. iii. 277.

Boreuo, *v.* to become morning; to become day; to dawn.

Boreuoldeb, **Boreuolder**, **Boreuolrwydd**, } *sm.* earliness; a state of advance or forwardness.

Borewisg, **Boreuwisg**, } -oedd, *sf.* a morning dress.

Acw, mae hi yn ymddangos yn ei *boreuwisg*, yn fawreddog, ond yn annhrefnus.—*Myfyrdodau Hervey*, 118.

Borëwr, ewyr, **Boreuwr**, wyr, } *sm.* one who employs the morning; an early riser.

Borëwr dail, brior dulwyd,
Byw obaith hir, ba beth wyd?—*W. Lleyn*, i'r Fwyalch.

Borewraig, wragedd, *s.* fem. of *Borëwr*, q.v.

Borleuan, -au, *sf.* [bor (=bore)+lleu- as in *lleu*-ad, *lleu*-er, *lleu*-fer] morning star.—*P.*

Bors, -au, *sf.* [E. *burst*] 1. a rupture, a hernia, a burst.

Addaf gwynn anaf gwenwynig ei bwrs
Bors-lyngawl adwythig.

Hywel Ystoryn: M.A. i. 519.

O gwlychawdd Griffri cri crin foel-*fors*
Uchlaw Trefycclawdd fawdd faethgennau.

Mab Cryg: M.A. i. 556.

A Rhonwen ferch yr hen Hors,
Y rhiain ferch yr hen *fors*.—*L. G. Cothi.* (*D.*)

A'th *bors* yn rhy drwm, a'th big,
A'th adar yn fethedig,
A'th lefain, a'th wylofedd,
A'th *fors*; gwae'r wraig a'th fedd!

D. ab Edmwnt, i Guto'r Glyn.

Pand da'i gwedd, pwynt y goddau,
Pwys y dors gyda'r *fors* fau.

Guto'r Glyn, i Dd. ab Edmwnt.

Llysiau y fors, rupture-wort (*Herniaria*).—*H. Davies:* Welsh Bot. 135, 211.

2. an unhealthy excrescence on the roots of cabbage-worts; anbury, club-root.—*S. W.*

Borsog, *a.* 1. having a hernia or rupture; ruptured. 2. infected with anbury.

Bort, -au, *sf.*=*Bord*, q.v.

Bob ddeg, ni rifid ddegwm
Bort y rhai'n, a'r bara trwm.—*L. G. Cothi*, i. xxv. 11.

Bosglymy, glymyau, *sm.* a wattled hut.—*P.*

Bost, -iau, *sf.* [C. *bost* (in 'Mount Calvary' and 'Resurrectio Domini'); E. *boast*, †*bost*, *boost* (found as early as the beginning of the 14th century); Ga. *bòsd*. Probably a borrowed word in Celtic; but the origin of the English appears to be unknown. Cf. Diez, s.v. *Bozza*] a boast, boasting, or bragging; brag.

Chwi agychwynnassawch ac aesgynnassawch ar gefyn deu varch vawr. nyt amgen oed y rei hynny no *bost* a balchder. y rei hynny yssyd veirch y diawl.—*St. Greal*, § 38.

Cnawd yngwent rent aroglau
Ac ymborth a thorth a thir or goreu
Bost am wragedd a maswedd a moesawl wybodau.

Myv. Arch. i. 542.

Can ni myn emennydd yssig
Ymadaw a'i ffrost ffennugl-*fost* ffig.

Hywel Ystoryn: M.A. i. 520.

Bendith Taliesin win-bost
A bery byth, heb air *bost*.

D. ab Gwilym, iv. 35 (cf. cxxv. 14).

Er maint dy *fost*, awr dost sy'n d'od
I'th orfod, gwn, i'th yrfa. -*Antoni Powel.*

Mi a ddanfonais y brodyr, fel na byddo ein *bost* ni am danoch chwi yn ofer yn y rhan hon . . . rhag, os y Macedoniaid a ddeuant gyd â mi, a'ch cael chwi yn ammharod, bod i ni (ni ddywedaf, chwi), gael cywilydd yn y *fost* hyderus yma.—2 *Cor.* ix. 3, 4 (cf. viii. 24).

Rhoent obaith ar weniaith wag
O byst aur, a'u *bost* orwag;
Llai eu rhodd, yn lle rhuddaur,
Bost oedd, ac ni chawn byst aur.—*Gro. Owain*, 32.

Bostfawr, *a.* boastful, vauntful, boasting.

Geiriau bostfawr, boastful words.

Bostiad, -au, *sm.* a boasting, bragging, or vaunting.

Bostio, *v.* to boast, brag, or vaunt; to glory.

Prynu y rhost er *bostiaw*,
A gwin drud i liw gwawn draw.—*D. ab. Gwilym*, cxlii. 11.

Pe *bostiwn* beth ychwaneg hefyd am ein hawdurdod . . . ni'm cywilyddid. . . Eithr ni *fostiwn* ni hyd at bethau allan o'n mesur.—2 *Cor.* x. 8, 13, 15.

Heb *fostio* na ffrostio am ein gweithredoedd da a'n haeddiant ein hunain.—*Ed. James:* Hom. i. 23.

Dra *bostio* hir drybestod
Mor rhyfedd rhinwedd y rhod.—*Gronwy Owain*, 38.

Bostiwr, wyr, *sm.* a boaster, vaunter, braggart, or braggadocio.

Y mae ryw vilwyr yma am goganeynt i. ac am gelwynt yn *vostywr* ot awn i yn eu blaen.—*St. Greal*, § 230.

Bostus, *a.* boasting, boastful.

Bot, -iau, *sf.* any round body.—*P.* Cf. *Both*.

Botas, -au, *sf.* [Br. *botez*; Ir. *butais*, *buta*; Ga. *bòtuin*; E. *boot*, †*bote*, *boote*, *but*, *bout*; L.L. *botta*, *bota*, 'of uncertain origin.' It occurs in Welsh about two centuries earlier than in English] 1. a boot; a buskin.

Botesseu kenhenlauc pedeyr keynnyauc kyfreith.

Cyfreithiau Cymru, i. 306.

Gwŷr yw y rhai hyny na fynant mo'u siomi, onid e ni wnânt lai na gwneuthur *botasau* o'm croen, fal y dywedai yr hen bobl gynt.—*Gronwy Owain*, 242.

Dullwisg yr arluniau hyn a gynnwysai *fotasau* uchel, yn troi i fyny ar flaenau bysedd y traed.—*Brutus:* Ninefeh, 86.

2. a piece of armour for the leg, a greave (formerly called a boot).

A *botasau* pres oedd am ei draed ef.—1 *Sam.* xvii. 6.

Botasen, *pl.* botasau, *sf.* a boot; a buskin.

Botasen y gog, *Botas y gog*, } wild hyacinth, harebell, squill (*Scilla nutans*).—*H. Davies:* Welsh Bot. 33, 159.

Botasog, *a.* booted, wearing boots.

Botaswr, wyr, *sm.* a bootmaker.

Bottref, -i, *sf.* [bod+tref] a dwelling-place, a habitation, a residence.—*Gwent.*

Botty, tai, *sm.* [bod+tŷ] a dwelling-house, an abode.—*Gwent.*

Botwm, ymau, **Botwn**, ynau, **Bwtwn**, *pl.* bytynau, } *sm.* [E. *button*, †*boton*; O.Fr. *boton*] a button; a knob, a boss.

Nid ananwyl dwyn annerch
O *fotymau* siamplau serch.—*D. ab Gwilym*, xlii. 47.

Ynteu a erchis udunt hwy dangos Charlymaen idaw. ac a venegis udunt y vot yn genat y vrenhin nis carei ef o werth un *bwttwn*.—*Campau Charlymaen*, § 56.

Botwm i'r byd, a fig for the world.

Twm Twm, a *botwm i'r byd*,
Twm freich-drwm, i Dwm dyd! dyd!

Gronwy Owain, 127.

Rhwyll botwm, } a button hole.
Twll botwm, }

Botwm mab ifanc, } bachelor's or bache-
Botwm gwr ifanc, } lors' button; a name
Botwm hen lanc (N.W.), } given to several flowers, usually from their round form or button-like appearance, especially to red campion (*Lychnis dioica*). Cf. Prior, *British Plants*, s.v.; Britten and Holland, *English Plant-Names*, s.v.

Botwn, ynau (*ȳ*), *sm.*=*Botwm*.

Botymiad, } -au, *sm.* a buttoning; a studding
Botyniad, } or bossing.

Botymog, } *a.* buttoned, having buttons; bo-
Botynog, } toné, botony; bossed, studded.

Ni cherais, iawn-gais angerdd,
Na'i chafn *botymog*, na'i cherdd.
Dafydd ab Gwilym, cxxxix. 37.

Croes fotymog, a cross botoné.

Nawuet amrauel yw *croes votymoc*, a hei a elwir velhy achos bot pob bann ydhei wedy'r lunio ar lun botymæ. . . Mae yn dwyn *croes votymoc* dhu mewn maes o arian. neu val hynn: mae yn dwyn arian *croes votymoc*.
Cyfraith Arfau.

Botymog, *sm.* common navelwort (*Cotyledon umbilicus*)=*Bogail y Forwyn*.

Umbilicus Veneris, bogail y forwyn, *botymog*.
Meddygon Myddfai, 294.

Botymu, } *v.* to button; to boss, to stud.
Botynu, }

Botymwr, wyr, } *sm.* a button-maker; a maker
Botynwr, wyr, } of studs.

Both, -au, *sf.* [L.L. *bottus*] 1. the nave of a wheel.

Both olwyn, the nave, hub, or hob of a wheel.

Yn olwyn y uenn y mae tripheth. *both*. a breichyeu. a chylch. ac eisoes un olwyn yw.
Yst. de Carolo Magno, col. 401.

Gwaith yr olwynion hefyd oedd fel gwaith olwynion men; eu hechelau, a'u *bothau*, a'u camegau, a'u hadenydd, oedd oll yn doddedig.—1 *Bren.* vii. 33.

2. a bottle; a vessel with a belly or protuberance.

Ny mynnaf y gwaet onyt yn dwym y keffych. nyt oes lestyr yn y byt a gattwo gwres y llyn a dotter yndaw. namyn *botheu* Gwidolwyn Gorr a gatwant gwres yndunt. . . Nyt aruaeth kaffel llefrith y bawp nes kaffel *botheu* Rinnon Rin Barnawt.—*Llyfr Coch*, 123.

3. the boss of a shield.

Both tarian, the boss of a shield or buckler.

Botha, } -od, *sm.* [both] a thick fat person
Bothach, } (generally with considerable self-importance); a squab.—*Dyfed*.

Mae llawer *botha* bach, prin iawn o honi,
Yn falch, yn draws, yn wawdus, bron ymhollti.
Gwyniongdd: Briallen, 7.

Bothell, -au, *sf.* [both: cf. Br. *bouzellen*, pl. *bouzellou*] 1. a rotundity; a round vessel; a bottle.

2. [=pothell] a blister or weal; a botch, an eruptive disease.

Y pechod hwn y sydd yn dwyn gydag ef y taliadau hyn yn y byd yma; nid amgen no . . . llosgfäu, *bothellau*, a'r frech fawr.—*Marchog Crwydrad*, i. 14.

Tarddu ar hyd y croen ef a gyfyd yn *fothellau* gwynion, ac fe red dwr gloew o honynt.—*Meddygon Myddfai*, ii. 308.

Y fothell, } a disease of cattle caused or at-
Y bothell, } tended by a blister or swelling under the tongue; hence also called *tafodwst*.

Bothog, *a.* having a rotundity; rotund; swelling or bulging; squabby.

Braban, -od, *sm.* [im.] a jabberer, a chatterbox, a gabbler.—*Gwent*.

Brabandod, *sm.* chatter, jabber, gabble, incessant talk.—*Gwent*.

Brabanu (*ā*), } *v.* to chatter, rattle, gabble, or
Brabandodi, } jabber.—*Gwent*.

Brac, *a.* [cf. *brag-io*: Br. *braga*; Ir. *bragaim*; Ga. *bragh*] open, free, frank, open-hearted; lavish; generous; prompt.

Y mae sain fry Moesen *frac*,
Gyda Debora a Barac.—*Edw. Samuel*.

Pa bynnag tystia Nef, Nef tystia di
Ar fyr, tra bwriom ni yn *frac* ein rhan.
W. O. Pughe: C.G. vi. 622.

Dyn brac, an open-hearted man (with some tendency to forwardness or ostentation).—*S.W.*

Arwisged beilchion blant y Sais,
Rai hoff o drais, y Rhosen;
Ysgotiad, yr Ysgallen; ac
Y Gwyddel *brac*, Feillionen;
Ond Cymro, sy mor hoff o gerdd,
A gâr y werdd Geninnen.—*Telynegion*, 16.

Dowch yn frac, come promptly or quickly.—*Powys*.

Siarad yn frac, to talk freely or frankly (and rather big or boastfully).

Dywed bun, diwyd beunes,
Yn *frac*, i wr llac, er lles.—*Rhys Jones:* Gwaith, 281.

Brac, -iau, *sm.* [E. *brake*] a brake for flax or hemp.—*H. Salesbury* (Arch. Brit. 214).

Bracso, *v.* [bragas] to wade; to walk or stride through water, mud, dirt, and the like.—*S.W.*

Byddem, rai dwseni o honom, yn *bracso* y dwfr, ac am ein bywyd yn dal am y mwyaf o bysgod.
Cymro, Rhag. 30, 1863.

Brad, -au, *sm-f.* [Br. *barad*; Ir. and Ga. *brath*] treachery; treason; perfidy; a plot; betrayal.

Anudon a *brad* gwlad veibionain.
Myrddin: M.A. i. 137 (cf. A.B. ii. 23, 26).

Gwae ef ae peris perygyl *vradeu*
Pan wanpwyd Yessu yn y asseu.
Einion ab Gwalchmai: M.A. i. 331.

Ti a ledeist vy arglwyd oth twyll ath *vrat*.
Mabinogion, i. 284.

Gwelais *frad* a chad a chamawn.
Gwalchmai: M.A. i. 202.

Cynllwyn a *bradau*, ffug yng ngorseddau.
Myv. Arch. iii. 11.

Gwneuthur brad un, to betray a person; to plot against one.

Ygkyfrwg hynny aruaethu a wnaeth Madawc *gwneuthur brat* Iorwoerth y ewythyr.—*Brut y Tywysogion*, 106 (cf. 108).

Madawg Min . . . a *wnaeth frad* y Tywysawg Llywelyn ab Seisyllt . . . a chwedy hyny yr un Madawg Min a *wnaeth frad* y Tywysawg Gruffudd ab Llywelyn ab Seisyllt, er gwerth tri chan pen gwartheg a gafas ef ar addaw am ei *frad* gan Harallt.—*Iolo Mss.* 198.

Brad y Cyllyll Hirion, the Plot of the Long Knives: a supposed treacherous massacre of British chieftains, perpetrated with long knives, by Hengist and the Saxon claimants in league with Gwrtheyrn, on the mountain of Caer Caradog, generally identified with Salisbury Plain; or, according to others, at a place called Y Maes Mawr in Wales. The story is

related by Nennius (48, 49), and in the Bruts ascribed to Tysilio and Gruffydd ab Arthur (*M.A.* ii. 255).

Tair bradgyfarfod Ynys Prydain. . . Ail, cyfarfod goreugwyr y Cymry ac arddelwyddiaid y Saeson ar Fynydd Caer Caradawc, lle bu *Frad y Cyllyll Hirion*, o frad Gwrtheyrn Gwrthenau, sef o'i gynghor ef yn gyfrin a'r Saeson y llas dyledogion y Cymry agos oll.—*Trioedd:* M.A. ii. 61.

Gan nad oedd deiliaid Gwrtheyrn yn ymfoddloni i hyn, Hengist a ddyfeisiodd eu dyfetha oll ar unwaith; yr hyn a gyflawnodd trwy *Frad y Cyllyll Hirion*, ac a gymmerodd Gwrtheyrn yn garcharor.
Carnhuanawc: Han. Cym. 239 (240, 241, 242).

Brad Caersallog (=*Brad y Cyllyll Hirion*), the Salisbury Plot.

Tri Gyrddion Ynys Prydain: Gwrnerth Ergydlym . . . a Gwgawn Lawgadarn . . . ac Eidiol Gadarn, a laddes o'r Saeson ym *mrad Caersallawg* chwechant a thrigain a chogail gerdin o fachlud haul yd yn nhywyll.
Trioedd: M.A. ii. 68.

Dydd Merchur y Brad, the Wednesday of Betrayal; tenebrae Wednesday; Wednesday next before Easter.—*S.*

Am ddiw *Merchyr y brad* dybu bryd Iudas
Bredychu ein yspryd.—*Elidir Sais:* M.A. i. 348.

Uchel frad, high treason.

Isel frad, petit treason.

Dirgel frad, privy conspiracy; secret treason.

Oddi wrth bob terfysg, *dirgel frad*, a gwrthryfel . . . gwared ni.—*Llyfr Gweddi Gyffredin* (Litani).

Bradbwll, byllau, *sm.* a pitfall.

O deruyd y anyueil dyn arall mynet y mywn annel, neu y mywn *bratbwll*, y dyn ae gwnaeth adyly dieissywaw y dyn or clwyf a gyuaruu ae anyueil.—O deruyd y dyn wneuthur *bratbwll*, ef adyly pan beiter ahely y gayw: onys caye talet yr eissywet adel ohonaw, am dynyon ac yscrybyl.—*Cyfreithiau Cymru*, ii. 104.

Claddiesont bydew [**bradbwll*, ffos] o'm blaen, a dygwyddesont yn ei genol.
Llyfr Gweddi Gyffredin 1567 (Salm. lvii. 6).

Brad-ddrws, ddrysau, *sm.* a trap-door.

Y mae tramwyfa yn y rhodfa arbenicaf, o gylch 300 o latheni o ddrws yr ogof, yn dra chyffelyb i *frad-ddrws*.
Seren Gomer, iii. 36.

Bradfas, *a.* treacherously mean.—*W. Salesbury.*

Bradfwriad, -au, *sm.* a treacherous intention; a conspiracy; a plot; sedition.

Bradfwriadol, **Bradfwriadus**, *a.* treacherously or seditiously conspiring; conspirant; seditious; plotting.

Bradfwriadrwydd, *sm.* seditiousness; conspiration.

Bradfwriadu, *v.* to conspire; to plot.

Dyma y rhai a *fradfwriadasant* yn ei erbyn ef.
2 *Cron.* xxiv. 26 (cf. xxx. 24, 25).

Bradfwriadu bradwriaeth, to hatch treason; to conspire.

Hwy a *fradfwriadasant fradwriaeth* yn ei erbyn ef yn Ierusalem.—2 *Cron.* xxv. 27 (cf. 2 Bren. xv. 15).

Bradgar, *a.* treacherously disposed; seditious; treacherous; conspiring, plotting.

A gwr gymmaint ei ystryw a'i ddichell oedd y Madawg hwnw, fal y daethpwyd i alw Madawg a madyn ar lwynawg; sef mwyaf ei ystryw o'r holl wyllt filod yw llwynog; a *bradgaraf* o'r holl fradwyr, Madawg Min.—*Iolo Mss.* 198.

Bradgariad, -au, -on, *sc.* a treacherous lover.

Gwreic nyd oet un *uradgaryad* genthi.
Einion ab Gwalchmai: M.A. i. 329.

Bradgarwch, *sm.* treacherousness; faithlessness, perfidiousness.

Bradgyfarfod, -au, -ydd, *sm.* 1. a treacherous or seditious meeting; a meeting of traitors or conspirators.

Tair gormes a ddaethant ar Ynys Prydain, ac a ddarfu am danynt. . . Y drydedd a fu yn amser Beli ab Manogan, a *bradgyfarfod* ydoedd, ac efe ai diffoddes.
Trioedd: M.A. ii. 59 (cf. 61).

2. a fever that continues one day only.

Pedeir teirthon yssyd ac a hanyw y boned or haf; nyt amgen, teirthon vût, a theirthon gryt a *bratgyvaruot*, a'r twymyn.—*Meddygon Myddfai*, i. 12.

Ac ar hyny, gan na chymmerent addysg, yr Arglwydd a anfonodd bla angeuol yn eu mysg a elwid *bradgyfarfod*, yr hwn a ysgubodd ymaith y fath liaws anfeidrol o bob gradd ac oedran, fel prin y gallodd y byw gladdu'r meirw.
Theo. Evans: D.P.O. i. 4 (93).

Bradiad, -au, *sm.* a betraying; a plotting; treachery.

Dygwyddes barn . . . o achaws trais, *bradiad*, ac anwiredd.—*Brut.*

Bradlawn, *a.* full of treachery.

Bradlofrudd, -ion, *sm.* an assassin.

Bradlofruddiaeth, -au, *sf.* assassination.

Bradlofruddio, *v.* to assassinate.

Carcharu, bradychu, yspeilio, a *bradlofruddio*, am ddaliadau gwladwriaethol, sydd dra ffynadwy yn y deyrnas resynol hon [Yspaen].—*Seren Gomer*, vii. 451.

Derbyniwyd newyddion yn Berlin y dydd o'r blaen yn hyspysu fod ymgais arall wedi ei wneyd i *fradlofruddio* Ymherawdwr Rwssia.—*Gwalia*, Ebr. 6, 1887.

Bradlofruddiog, *a.* disposed to assassinate, murderously inclined, assassinative.

Bradog, *a.* treacherous, traitorous; faithless, perfidious; false; insidious.

Afallen beren llen ar bren briglas
Bradawg teyrnedd medd yn ninas.
Myrddin: M.A. i. 153 (cf. 142, 161).

Nyd *bradawc* arglwyd yn yd wneler
Kynifwr kynnif nid diouer.
Cynddelw: M.A. i. 229 (cf. 208, 244, 245, 385).

A thwyllwr bradwr *bradawg* ddwylaw.
Gr. Ynad Coch: M.A. i. 398.

Brad awnaeth briw dan eithin,
Bradawg fu waith Madawg Min,
Yn derbyn Llywelyn llwyd
I Fuallt, pan ddifawyd.—*Llywelyn ab Gutyn.*

I'r euog, *bradog* eu bron,
Braw tostaf, ba raid tystion?—*Gronwy Owain*, 95.

Aeddan Fradog, Aeddan the Traitor.

Bradogion, treacherous ones; traitors.

Tri chlo ar eu bro rhag *bradogion*.
Dafydd Benfras: M.A. i. 315.

Ef . . . a kymyrth y vorwyn honno yn wreyc ydaw megys y dyskessynt y *bradogyon* twyllwyr anhyedwyr hynny ef.
Brut. Gr. ab Arthur: M.A. ii. 142.

Bradogrwydd, *sm.* treacherousness; treachery, perfidy; insidiousness.

Bradol, *a.* tending or apt to be treacherous; proditory; deceiving.

Troi 'n elynawl, *fradawl* fryd,
Wnai 'r oflyd Ney, wr aflan.
Ioan ab Hywel: Blodau Dyfed, 144.

Bradoldeb, *sm.* treacherousness; perfidiousness.

Bradongar (*n-g*), *a.* [bradlongar?] addicted to treason; treacherous; treasonable.

Ac nad ymarferont â rhiniau anneddfolion a *bradongar*.
Barddas, ii. 112.

Bradormes, -au, *sf.* treacherous oppression; treacherous invasion; oppression or invasion brought about by perfidy.

Tair *bradormes* Ynys Prydain: cyntaf y Gwyddyl Coch o'r Werddon, a ddaethant i'r Alban; ail y Llychlynwys; a thrydydd y Saeson.—*Trioedd:* M.A. ii. 59.

Bradrin, -iau, *sf.* a treacherous or treasonable secret.

Aryf lithaereu brwytreu *bratrin* kerdawr.
Rhiserdyn: M.A. i. 433.

Bradruthr, -au, *sm.* a treacherous attack or assault.

I ar *vratruthyr* y gwnaeth eirif vrwydreu.
Rhiserdyn: M.A. i. 435.

Bradu, *v.* to betray; to act or deal treacherously; to plot.

Ath *vradas* te. am tuyllas ynnev.—*Llyfr Du:* A.B. ii. 42.

Fy holl gaseion doent yng nghyd,
I *fradu* i gyd yn f' erbyn.—*Edm. Prys:* Salm. xli. 7.

Efe, yr hwn y sydd yn awr
Yn cenfigenu wrth dy gyfiwr mad,
Yn awr y sydd yn *bradu* o ba dwyll
O dy ostyngdawd iawn y dena efe
Dydi.—*W. O. Pughe:* C.G. vi. 1001.

Bradu, *v.* [corr. of *afradu?*] to waste.

Paid â bradu'r bara, do not waste the bread.—*Gwent.*

Bradus, *a.* treacherous; perfidious; false; deceptive.

Bradusrwydd, *sm.* treacherousness; perfidiousness; insidiousness.

Bradw, *a.* worn away, over-worn; wasted; diminished, diminishing; broken; fragile; fretting, wearing; worn; decayed; threadbare; breaking, bursting.

Brein borthyad achryuyad achref
Bradw ysgwyd bryd ysgein wrth lef.
Cynddelw: M.A. i. 227 (cf. 231, 245).

Ysgor gadw ysgwyd *fradw* friw.
Einion Wan: M.A. i. 333.

Teruysc Eingyl eghyrth pob glew
Teruyn gadw taryan *vradw* vriw—
Briw ragod ragor anvedyr
Bradw yscwyd hud blymnwyd hydyr.
Prydydd Bychan: M.A. i. 383 (cf. 467).

Hi ni châd trwy frâd mae'n *fradw* ei llun.
Iustus Llwyd: M.A. i. 559.

A'm calon *fradw* yn cadw cof,
A'r enaid yn ir ynof.
D. ab Gwilym, cxcviii. 27 (cf. xxii. 30).

Ymgilia am amgeledd,
Brwd ei fron, a *bradw* o wedd.—*W. O. Pughe:* H.G. 16.

Bradw newyn, fell famine.

Syched brwd a *bradw* newyn
Crechwenant arno wên wŷn.
W. O. Pughe: Bardd, ii. 3 (cf. 73).

Bradwch, *sm.* treachery; perfidiousness; betrayal.

Bradwen, -au, *sf.* [brad+gwên] 'the smile of treachery.'—*P.* I am not aware that the word occurs except as a personal name; and such, in the following passage, quoted by Pughe as an example of its appellative use, it probably is:

Trywyr yr bod bun *bratwen*
Deudec Gwenabwy vab Gwen.
Aneurin: Gododin, 404 (cf. 413).

Bradwen, the father of Ednowain, founder of one of the fifteen tribes of Gwynedd, lived in the early part of the 12th century, the ruins of whose castle or palace still remain, near Dolgellau, in Merionethshire; and it may be that it was to him that Cynddelw alludes in the following couplet:

Mor wyf dirrwyn urwyn am urwydyr a doden
Breisc uab Gorgeneu brydeu *Braduen.*—*Myv. Arch.* i. 230.

In the subjoined quotation Pughe's explanation is adopted:

Gwyddost ti nad wyf fi fardd,
Gan hyny digon anhardd
I'th awen o *fradwen* fryd,
Ing i'w gên, fy ngoganyd.—*Iago Trichrug.*

Bradwr, wyr, *sm.* a traitor; a betrayer.

Val hynn heb hi y gwneir y twyllwr *bratwr* aghywir yr mefyl ar dy uaryf.—*Mabinogion*, i. 26.

Na fydd anudonwr, na *bradwr*, na thyst anghywir yn erbyn dy gymmydog.—*Barddas*, i. 280.

Ar foregwaith, tra'r oedd y brenin yn rhodio yn ei ardd, y *bradwr* du a'i hanrhegodd â thusw o flodau briallu.
Theo. Evans: D.P.O. i. 4 (106).

Iudas Iscariot, yr hwn hefyd a aeth yn *fradwr*.
Luc vi. 16.

Ym mhob oes, er croes, er crain,
Bradwyr a friwent Brydain;
Y drwg nis gall arall wr
I Brydain, gallai *bradwr.*—*G. Mechain:* Gwaith, i. 33.

Aeddan Fradwr, Aeddan the Traitor.

Trydydd ydoedd *Aeddan Fradwr* o'r Gogledd, a ymroddes, efe a'i wŷr, dan derfyneu ei gyfoeth yn Saeson.
Trioedd: M.A. ii. 65.

Suddas fradwr, Judas the traitor or betrayer.

Rhag . . . i ddiafol fyned i mewn i chwi, megys yr aeth i *Suddas fradwr.*—*Ll. G. Gyffredin* (Cymmun).

Bradŵraidd (3 syll.), *a.* treacherous, traitorous; betraying, deceiving.

Bradwraig (2 syll.), wragedd, *sf.* a traitress.

Bradwriaeth, -au, *sf.* treason, treachery.

Ac eissoes gwedy clybot y *vratwryaeth* honno ym pop lle yn honneit. sef awnaeth gwyr yr ynyssoed ymdyunaw y gyt wrth ryuelu a Gwrtheyrn.
Brut Gr. ab Arthur (B): M.A. ii. 242 (cf. 241, 255).

Ac nyt y ran leihaf a ducpwyt y Wenwlyd yggobyr y *vradwryaeth.* deg meirch. ac eu dec llwyth arnunt.
Yst. de Carolo Magno, col. 473 (cf. 482).

Ac Athalïah a rwygodd ei dillad, ac a waeddodd, *Bradwriaeth, bradwriaeth!*—2 *Bren.* xi. 14 (cf. ix. 23; xii. 20).

Wele dirion wyliadwriaeth,
Penadwriaeth, paun hyderus;
Iawn gloi dewrion ein gwladwriaeth,
Rhag *bradwriaeth*, rhwyg bryderus.
D. Ddu Eryri: Corff y Gainc, 40.

Uchel fradwriaeth, high treason.

Isel fradwriaeth, petit treason.

Bradwriaethol, *a.* treasonable; traitorous.

Bradwriol, **Bradwrol**, *a.* traitorous, treacherous; perfidious.

A phan weles [wedes?] ei gyffes, yn *fradwriawl* neidiaw a orug i'r ceiliog, a'i ddaly a'i ysu.—*Y Greal*, 367.

Bradwrus, *a.* treacherous, traitorous.

Yr wyf yn credu . . . nad yw efe bob amser yn chwilio am gyfle i ymddwyn mor greulon a *bradwrus.*
Cylchgrawn, i. 221.

Bradwrusrwydd, *sm.* treacherousness, traitorousness; perfidiousness.

Bradwy, -on, *sm.* a fracture; a rupture; a breaking or bursting; a breach; diminution; decay; a fret; blemish.

Trefn-loes fy nad caradwy,
Tri awch saeth brawdfaeth *bradwy!*
D. ab Gwilym, xxii. 31.

Erioed ni chad na *bradwy*
Na thwn yn eu henwaith hwy.—*Ieuan Llwyd Brydydd.*

Bradwy i Afarwy fod
Yn euawg o fradawg fryd.—*G. Mechain:* Gwaith, i. 34.

Bradwy, *a.* [=bradw] diminished; decayed; wasted, worn; broken.

Mae'n friwedig, mae'n *fradwy*,
Nid esgyr o'i merthyr mwy.
Rhys Jones: Gwaith, 42 (cf. 41, 252, 295).

Afarwy, *fradwy* frodor,
Gwawdd Iwl, traws feddwl, tros fôr.
Dewi Wyn: Blod. Arfon, 19.

Bradwyad, -au, *sm.* a rupturing or breaking; a decaying; a fretting.

Bradwyo, *v.* to fall to decay; to cause to decay; to ruin; to crumble off; to fret; to impair.

Blin yw byd o bai lawn bâr,
Bradwyawdd wybr a daiar.—*Sion Tudur:* Md. S. Trefor.

Dydd y bu gyfrodedd bâr,
Dydd du, *bradwyodd* daiar.—*Simwnt Fychan.*

Cymhwys y gellid eu cyffelybu hwynt i'r gwyfyn, yr hwn a *fradwya* yn dyllau y brethyn y mager ef ynddo.
Robert Llwyd: Llwybr Hyff. 246.

Bradwyog, *a.* having a rupture, fracture, or breach; broken; torn; rent; decayed, wasted; fretted; rugged, rough.

Bradychaidd, *a.* [bradwch] tending to be treacherous; traitorous.

Bradychawd, *sm.*=*Bredychawd.*

Bradyches, -au, *sf.* a traitress, a female betrayer.

Bradychiad, -au, *sm.* a betraying, a betrayal.

Bradychol, **Bradychus,** *a.* treacherous; betraying; perfidious; false; deceiving.

Arglwydd rhydhaa pan el o'm cnawd
Rhag enwirion wefusau a *bradychus* dafawd.
Dafydd Ddu Hiraddug: M.A. i. 567.

Pwy sydd yn hyfhau gwaew'r brenin i anturio allan yn Chwefror, ac ymddiried ei aur blodeuog i'r wybrenau geirwon a *bradychus?*—*Myfyrdodau Hervey,* 142.

Bradychu, *v.* to betray; to prove false to; to deceive.

Tair brad ddirgel Ynys Prydain: cyntaf, *bradychu* Caradawc ap Bran y gan Aregwedd Föeddawg, ferch Afarwy ab Lludd, a'i roddi yn gaethglud i'r Rhufeiniaid; a *bradychu* Arthur gan Iddawc Corn Prydain a ddatrinwys ei rin ef; a *bradychu* y Tywysawg Llywelyn fab Gruffudd gan Fadawg Min.—*Trioedd:* M.A. ii. 62.

Yna y rhwystrir llawer, ac y *bradychant* eu gilydd.
Matt. xxiv. 10.

Gwiliwch, mae'n ffel y gelyn,
A'i dwyll yn *bradychu* dyn.—*I. B. Hir:* Gwaith, 39.

Bradychwr, wyr, *sm.* a betrayer; a traitor; a perfidious person.

Bradychwr yw'r byd ai gyd gywrych.
Madog ab Gwallter: M.A. i. 404.

Ac yna i cyrchws Tudur gwas o Fôn, pen *bradychwr* Gruffudd, gan ffrydiaw gleif.
Buchedd Gr. ab Cynan: M.A. ii. 590.

Bradychydd, -ion, *sm.*=*Bradychwr.*

Bradyn, -ion, *sm.* [cf. *bradu* 2] a prodigal, a spendthrift.

Bradyniaeth, -au, *sf.* prodigality; waste.

Afrad ar ddillad a ddaeth,
Afraid iawn o *fradyniaeth.*—*Ieuan Tew.*

Bradynus (*ȳ*), *a.* prodigal; lavish; extravagant, wasteful.

O y byd brwnt! O y ffalstwr celwyddog! O dwyllwr damnedig! arfog ym mhob halogrwydd, *bradynus* a melltigedig gynnildeb!—*Marchog Crwydrad,* i. 14.

Brae, *pl.* breion, *sm.* a breaking in pieces.—*P.*

Braen, *a.* [cf. †*bren* (*arcibrenou,* gl. *sepulti*), Oxf. Gloss. (Zeuss, G.C. 1057); Br. *brein;* Ir. *brean, breun, brenaim;* Ga. *breun*] putrid, rotten; corrupt; decayed, decomposed; mouldy.

A bydd lawen frain ar *fraen* weli.—*Gronwy Owain,* 129.

Dim yw'r byd hwn ond priddyn *braen,*
Lle saif o flaen doethineb
Ein Duw, 'n ei hedd, O'r hyfryd awr!
A lleufer gwawr ei wyneb.
Iolo Morganwg: Salmau, II. lxxviii. 3.

Braen, -ion, *sm.* rot; putridity, rottenness; corruption; decay.

Braenar, -au, *sm.* [branar, brynar: braen+âr] fallow; fallow land.

Brynar duy wlynet y dylyir y eredyc.
Cyfreithiau Cymru, i. 180.

Oedd gnodach y gwaed ar
Wyneb gwellt nog eredig *braenar.*
Llywarch Hen: M.A. i. 110.

Kyn plygu Rodri rwyd esgar y Mon
Mynwenhoet bu *branar.*
Llywarch ab Llywelyn: M.A. i. 298 (cf. 524).

Cain cynnwyre canwel brith,
Yd geisynt buain [brain] *braenar* ith:
Anffawd a gyrch ym mhob rhith.
Englynion Cain Cynnwyre: M.A. iii. 142.

Braenar haf, summer fallow.

Hyn a sychid ac a lanheid oddi wrth y gwenithwellt, gan *fraenarau haf,* a chnydiau o faip.
Aneurin Owen: Amaethyddiaeth, 14 (cf. 27).

Braenar Mihangel, Michaelmas fallow, autumn fallow.

Braenar gauaf, winter fallow.

Braenar gwanwyn, *Braenar gwyl Fair,* spring fallow: also called in some parts *braenar brwd,* hot fallow, from the quantity of lime bestowed upon it.

Braenar Ebrill, April fallow; late spring fallow.

Brynar Ebrill sydd dda o budd ffraeth y tir yn ol yr arddwr; eilchwyl ail *brynar* y Gwyl Ieuan, ac achub y gauafar yn amserawl; ac ar y *brynar* trydydd cwys lydan bedair ongl.—*Cato Cymraeg* (Y Greal, 199).

Braenar calch, limed fallow.

Braenar tom, *Braenar tail,* dunged or manured fallow.

Braenar marl, marled fallow: also called *braenar trwsiad,* from its being dressed with composts, and in some instances with virgin soil.

Braenar golosg, pared and burned fallow, charred fallow.

Braenar brith, a partially pared burnt fallow.

Braenar llosg a chalch, charred and limed fallow; fallow with lime added to the burnt sod.

Braenar tywod a gwymon, sea-sand and seaweed fallow.

Braenar haul a gwynt, sun and wind fallow; fallow without manure.

Braenar blwydd, one year fallow; land that has lain in fallow but one year.

Tir banadlog, *brynar blwydd,* a dodi tail, ac ar hyny dodi cnwd gwenith.—*Rhisiart Sion Huw.*

Braenar deuar, fallow of two tilths or ploughings; fallow twice ploughed.

Braenar triar, fallow of three tilths; fallow thrice ploughed.

Braenar tail, 1.=*Brynar tom.* 2.=*Braenardail, Braendail.*

Brynar teyl, pedeir blynet heuyt.
Cyfreithiau Cymru, i. 180.

Tir braenar (*pl.* tiroedd braenar), fallow ground.

Troi yn fraenar, to lay fallow.

Gorwedd yn fraenar, to lie fallow.

Rhoi i orwedd neu orphwys yn fraenar, to lay fallow.

Tori braenar, *Tori yn fraenar,* to fallow; to break up for fallow.

Lliw braenar, fallow colour.

Braenardail, *sm.* manured fallow; fallow land manured by turning in cattle.

Braenardir, -oedd, *sm.* fallow ground or land.

Braenariad, -au, *sm.* a fallowing.

Gellir sylwi . . . mai yr amserau addasaf at *fraenariad* pedwarplyg yw y gauaf, y gwanwyn, Mehefin, ac Awst.
Sam. Roberts: Gweith. 34.

Braenaru, *v.* 1. to fallow; to lay out in fallow; to break up fallow. *Adfraenaru,* to second-plough a fallow.

Da fydd iti yn dechreu aredig, a *brynaru,* a llyfnu, a medi, bod y meiri yn edrych ac yn dala arnynt hyd diwedd y dydd cyntaf.—*Cato Cymraeg* (Y Greal), 198.

A gwedi cynhauaf *brynaru* triar gyda marlu pridd a chalch. . . A phan gaffot y gwaith, dwg dail, a *brynaru* deuar, a dodi dy wenith, a gwedi hyny haidd yn ei amser, a gad wyrlodi.—*Rhisiart Sion Huw.*

Braenerwch i chwi fraenar.—*Ier.* iv. 3; *Hos.* x. 12.

Braenaru yr eigion, to plough the deep.

Miliast lefn ar y cefnfor, bron iraidd,
Yn *braenaru*'r glasfor;
Mwyn rwygiad, myni ragor,
Alarches, ym mynwes môr.—*Rhys Jones:* Gwaith, 173.

2. to harrow, tear, or lacerate.

Braenaru teimladau un, to harrow one's feelings.

Braenarwr, wyr, } *sm.* one who fallows land;
Braenerydd, -ion, } a fallowist.

Hoew *franarwr* brwydr Hafren oror!
Dafydd ab Gwilym, vi. 45.

O gwnaeth y Saeson, galon gwelw-wyr,
Y boreu'n irad â'u *braenarwyr.—L. G. Cothi,* I. viii. 31.

Braendail, *sm.* [braen+tail] lay land, where cattle are turned in to manure it.

Brandeyl guyr e uelly.—*Cyfreithiau Cymru,* i. 180.

Sef yw *braendail,* lle y gnotao ysgrubl orwedd heb fuarth.
Leges Wallicae, II. xvii. 18.

Braenedig, *pt. a.* putrified, rotted; corrupted; decayed; rotten.

Y diweddar Iolo Morganwg, diwydrwydd parod-bwyll pa un a'i hachubodd o drafiwnc coll ac anghof, drwy ad-ysgrifenu'r cyfan allan o hen ysgrifiyfrau mall a *braenedig.*
Tal. ab Iolo: Cyfr. y Beirdd, Rhag. 3.

Braenedigol, *a.* putrefactive.

Braenedd, *sm.* rottenness, putridity.

Braeniad, -au, *sm.* putrefaction; decomposition.

Calch sydd yn gweithredu trwy beri cyflymach dattodiad y banau cyssodol; hyny yw, *braeniad* y gwrtaith, neu y gwraidd, a llysiau, a fyddont yn y tir.
Aneurin Owen: Amaethyddiaeth, 23.

Braenllyd, *a.* putrescent; putrid, rotten; mouldy.

Yn bwyllus cofiwn bellach
Mai *braenllyd* yw'r bywyd bach.
Rhys Jones: Gwaith, 28 (cf. 212).

Braenllydedd, } *sm.* putridness, rottenness;
Braenllydrwydd, } mouldiness; decayedness.

Braenu, *v.* to rot; to putrefy; to corrupt; to mould; to decompose.

Bu bwyall bren bardd anghymhen
Yn naddu cân i Wenllian,
Yn *braenu* gwawd i ferch wen-gnawd.
Rhys Goch ab Rhicert: Iolo Mss. 244.

Os nad ydynt wedi eu hysu gan bryfed, neu wedi *braenu* gan leithder.—*Gwaith I. B. Hir,* Rhag. 1.

Braeor, -ion, *sm.* [?]

Mae rhuad i'r rhai a dystiaf
Mae *braeor* gyda hôr haf
Mae cloffi o'r cliffid bawaf.
Madog Dwygraig: M.A. i. 486.

Braf, *cp.* -ied, -iach, -iaf, *a.* [E. *brave,* from Fr. *brave,* adopted from It. *bravo,* the ulterior derivation of which is unknown. The Bret. *brav* or *braô* (not in the Catholicon, 1499) may have been borrowed from the French, just as the Welsh may be a loan from the English. Cf. Ga. *breagh.* See Diez, s.v. *Bravo;* Skeat, *Etym. Dict.* s.v. *Brave;* Wedgwood, *Dict. Eng. Etym.* s.v. *Brag; Dict. Phil. Soc.* s.v. *Brave*] fine; splendid; showy.

Y maent i gyd yn canu'n *fraf*
Yn amser haf a hinon.—*Morgan Pywel* (ca. 1580).

A'r gerdd yng nghaerau gwyrddion
Y tir, gan fwyeilch taerion,
Llawenydd pynciau llawnion
Y dôn hyfrydlon *fraf.*
Charles Dafydd Meredydd: Cyfr. y Beirdd, 123.

Tra pharo'r haf a'r adeg *fraf,* a llawen gwedd y llwyn.
Dafydd o'r Nant.

Un yw hon, fy nyn hynod,
Yn wych lawen i'w chlywed,
Pan dyr o'i difyr dafod
Awen *fraf* yn afrifed.
Morgan Gruffudd: Cyfr. y Beirdd, 115.

Gwel y blodau'n deg eu gwawr sy'n trwsio llawr ei feusydd,
A phob peth yn hardd a *braf* pan ddelo haf i ddolydd.
Hywel Llwyd.

Mae'r adar bach yn lleisio'n iach, a'r gwcw'n canu'n *fraf;*
A'r rhai'n i gyd yn cwrdd yng nghyd yn hyfryd roeso haf.
Dafydd o'r Nant.

Tywydd braf, fine weather.

Mae hi yn braf iawn heddyw, it is very fine to-day.

Bore braf, a fine morning.

A chaf gerdd falch mwyalchen
Ym *more* haf *braf* ar bren.—*Hywel Llwyd.*

Dacw y *boreu braf.* . . Canys bydd hwn yn *foreu braf,* ac yn foreu tragywyddol.—*Brutus:* Brutusiana, 165.

Plentyn braf, a fine child.

Newyddion braf (*sg.* newydd braf), good news.

Dewi'n awr â'r *newydd braf*
Fod dyddiau'r haf yn agos.—*Llanover Ms.*

Newyddion braf a ddaeth i'n bro.
W. Williams: Hymnau, cx. 1.

Dillad braf, fine clothes; showy dress.

Ffynnon fraf, a fine spring, a clear fountain.

Ti yw'r Meddyg mawr a'r Ffynnon *fraf*
I bechod ac aflendid.
W. Williams: Hymnau, xli. 6 (b).

Tân braf, a good fire, a brave fire.

Peth braf, a fine thing, a brave thing.

Un braf wyt ti! you are a fine one!

Peth braf yw gwybodaeth, 'knowledge is a brave thing.'

¶ *Braf,* though it occurs in literature at least before the end of the 16th century, is not found in dictionaries previous to the middle of the 19th. It is never used for *brave* in the sense of courageous. The fact that in N.W. the initial is not softened after fem. nouns (as *geneth braf,* for *geneth fraf*) does not necessarily imply that it is a borrowed or an unnaturalized word; as *bach,* for instance, which is undoubtedly Celtic, is treated precisely in the same way; as, *geneth bach,* for *geneth fach.*

Brafaidd, *a.* tending to be fine or elegant.

Cerais fun hafaidd, fwyn *brafaidd* o bryd.
Huw Morus: Eos Ceiriog, i. 169.

Brafiaeth, -au, *sf.* finery.

Mi wylais lawer noswaith, a llawer dyddgwaith, do,
Gan ddwyn am danad alaeth, lliw blodau *brafiaeth* bro.
Dafydd o'r Nant.

Brag, -au, *sm.* [C. *brag;* Br. (vb.) *bragezi* (= W. *bragodi*); Ir. and Ga. *braich;* Mx. *bragh;* L.L. *brace:* cf. L. *brace,* cited by Pliny as a

Gaulish word] 1. malt. The idea, as seen in the derivatives, seems to be that of sprouting or springing up, germination, fermentation.

Gyda brig yd a *bragau*.—*Gruffydd ab I. ab Ll. Fychan.*

Cais sudd yr hafan cochon, dail dyrysi per, a bara can y gwcw, a *brag*, a'i wneuthur yn ddiod, a'i hyfed deirgwaith neu bedair yn y dydd lwnc sychedd.

Meddygon Myddfai, ii. 95.

Araf dân a wna *frag* melus—*Diareb.* (M.A. iii. 148.)

Gwneuthur brag, to make malt, to malt.

Odyn frag (*pl.* odynau brag), a malt-kiln.

Melin frag (*pl.* melinau brag), a malt-mill.

Diod frag } (*pl.* diodydd brag), malt-liquor,
Cwrw brag } malt-drink.

Ceraint Feddw ab Berwyn a wnaeth *gwrw brag* gyntaf yn iawn fal y dylai.—*Iolo Mss.* 6.

Pryfyn y brag (*pl.* pryfed y brag), a malt-worm; a tippler.

Ym mysg llawer o eiriau dirmygus ereill, efe a'u galwodd hwynt *Pryfed y Brag.*—*Cydymaith Diddan*, 23.

Brag barlys, } barley malt.
Brag haidd, }

Cymmer ysgol Fair, ac ychydig o belydr y mynydd, a'u mortyru'n dda; yna eu gwasgu am ben breci du o *frag barlys.*—*Meddygon Myddfai*, ii. 183.

Bragad, -au, *s.cl.* [brag] 1. issue; offspring; progeny; race.

Henwyn, mi edwyn dy dad,
Un o *fragad* Gwrgeneu.—*D. Llwyd ab Ll. ab Gruffydd.*

2. *sf.* (=bargad?) the van or front of an army.

Pareu rynn rwygyat dygymmynei
E gat blaen *bragat* briwei.—*Aneurin:* Gododin, 208.

Bradawg waith gwyniaith gwynygai
Brys briwgad brig *bragad* briwai.
Cynddelw: M.A. i. 208 (cf. 206, 259, 434).

A llafyn coch yn llaw gynnifyad
A brwyscaw a briwaw *bragad.*
Llyw. ab Llywelyn: M.A. i. 279 (cf. 311, 343).

A chad *fragad* fraisg am waisg wychder.
Gr. ab Meredydd: M.A. i. 440 (cf. 432, 443).

O flaen
Y *fragad* orddu, ar fin gerwin brwydr
O gyn cyd, gan fraisg gamre yn drahäus
Yn orchawn delai Satan y mewn cellt
Ac aur yn arfawg.—*W. O. Pughe:* C.G. vi. 106.

Bragad, *v.* to brag; to vociferate.—*P.*

Bragaldian, } *v.* to babble; to gabble; to jab-
Bragaldio, } ber; to clack; to speak incoherently; to let the tongue run.

Ni wyddant y naill iaith y llall, ond *bragaldiaw* rhyw fath ar iaith.—*Th. Prys.*

Paid â bragaldian, leave off jabbering.

Bragaldiwr, wyr, *sm.* a jabberer, gabbler, or babbler.

Bragas, -iaid, *sm.* a long-legged fellow.—*S. W.*

Bragaso, *v.* to make long strides; to walk with long steps; to stride.—*S. W.*

Bragaswr, wyr, *sm.* a strider.

Bragawd, odau, odydd, *sm.*=*Bragod.*

Bragdy, dai, *sm.* a malt-house.

Bragio, *v.* [cf. *brag*, *brac*; Ga. *bragh*, *breagh*; Ir. *bragaim*; Br. *bragu*] 1. to brag, to boast.

A *bragio* gael brag ac yd.—*Sion Tudur.*

2. to swell out; to shoot up.—*P.*

Bragiwr, wyr, *sm.* a bragger, braggart, or boaster.

Gwr geirddu, *bragiwr* gyrddaidd,
Geirffraeth, hy, a gâr ffrwyth haidd.—*W. Cynwal.*

Bragiwr hoew brig yr heol.—*W. Cynwal.*

Braglen, -au, -i, *sf.* [brag+llen] a quagmire.—*Dyfed.*

Brago, *v.* to malt; to make into malt; to become malt.

Bragod, } odau, odydd, *sm.* [brag: C. *bregaud*
Bragawd, } (C.V.), *bragot*, *bracat*; Ir. *braccat*, *brocoit*] 'a sort of liquor in use among the Welsh, made of the wort of ale and mead mixed together and spiced, called in English bragget' (O.E. bragat, braget, bragot, braket).

Bracaut (*gl.* mulsum).
Oxf. Gloss. ii. 42 (Zeuss, G.C. 1061: cf. 1063).

Messur guyraut kefreythyaul eu lloneyt ellestri eguall-oyer endunt okuref, ac euhaner o *uragaut* ac eu trayan o ued.—*Cyfreithiau Cymru*, i. 44 (cf. 64, 198, 392, 534, 674).

Blaen gwirawt *vragawt* ef dybydei.—*Aneurin:* God. 144.

Ar gwyr racko a gaffant med a *bragawd* yn enrydedus.
Mabinogion, ii. 378.

Lleweis wirawd gwin a *bragawd.*
Taliesin: M.A. i. 70 (cf. 65).

Cyn myned mab Cynan y dan dywawd
Ceffid yn i gyntet met a *bragawd.*
Meilir: M.A. i. 189 (cf. 226, 557).

A dytwc o *vragawd* wirawd orgred
Ar llaw Wgan draws dros i weithred.
Owain Cyfeiliog: M.A. i. 265 (cf. 507).

Ei dafawd yw'r *bragawd* brau.
L. G. Cothi, III. xxxiv. 25 (cf. IV. i. 14).

Dwyn blaenffrwyth cwrw Amwythig,
Gwirodydd, *bragodydd* brig.—*Iolo Goch*, i O. Glyndwr.

Cred fi na rown welltyn crin
Er myrdd o eiriau Myrddin;
Mae ynod, *bragod* bregeth,
O gyfrinach Gwiawn Bach beth.
Mer. ab Rhys, i Lyfr Brud.

Dy aur a gawn, radlawn rydd,
Dy loew win, dy lawenydd,
Dy fedd glwys, difaddeu i gler,
Dy *fragod* du ei friger.—*D. ab Gwilym*, xiv. 11.

Tŷ'r brag iach, tŷ'r bara gwyn,
Tŷ'r *bragod*, a'r dwr brigwyn.
Guto'r Glyn, i Abad Llanegwestl.

Y mae yspysrwydd goleu y medrent ddarllaw cwrw a *bragod* gantoedd o flynyddoedd cyn i Iul Caisar droedio ym Mrydain.—*Theo. Evans:* D.P.O. i. 5 (159).

Y goreuon a'r mwythusaf o bob bwydydd a diodydd . . . a phob ffrwythau coed, a phob gwin a medd a chwrw a *bragod.*—*Iolo Mss.* 160.

Bragodgerdd, -i, -au, *sf.* a medley or rhapsodic poem; a rhapsody.

Divregwawd Taliesin; neu Ymddivregwawd; neu *Bragawdgerdd* Taliesin.—*Myv. Arch.* i. 95.

Bragodgywair, weiriau, *sm.* 'a key in music, so denominated, from its being a mixed or a secondary one, originating or springing from some other key.'—*P.*

Y mynagfys sydd yn cadw y gogywair a'r *bragodgywair*. . . . Pob bys sydd yn cadw arno y *bragodgywair*, o'r achaws y mae yn cael ei enw; o blegid fod peth o bob cywair yn ei fysg; ac o herwydd hyny y gelwir ef y *bragodgywair.*
Myv. Arch. iii. 438.

Bragodi, *v.* [cf. *bargodi*] to spring up; to be active; to stir; to ferment; to work; to supply with bragget.

Ac odyna kymryt y llynn hwnnw y ar y llysseu gynneu, a tharaw y rise hwnnw ar y llyn hwnnw rwng dwy dwylaw yn dengynn. ae dodi ar darwed y mywn llestyr y surho; ae *vragodi* a meid geiuyr; neu ueid gwarthec.
Meddygon Myddfai, i. 15.

Bragodi y wledd, to supply the feast with bragget.

Mel auo chwechach naw mod no mel kynteid. heb wychi ac heb wenyn yndaw a vynnaf i *vragodi y wled.*
Mabinogion, ii. 223.

Gadëwch i ni fragodi, let us be stirring or moving.—*Gwent.*

Bragodlyn, -au, *sm.* 1. bragget; ale-wort and honey fermented together; the same as *bragod.*

Gofyn *bragodlyn*, a'i gael,
Gefn nos, a gofyn wassael.—*L. G. Cothi*, I. xxiii. 19.

2. a drink made of different herbs mixed together, sweetened, and sometimes spiced; beverage.

Cymmer asglod derw newydd eu trychu, a dod mewn dwr rhedegog oni waedont eu gwnedd; yna tyn allan, a dod asglod ffres, a gad fal o'r blaen; gwna felly hyd ym mhen y naw dodiad; ac yna berw y llyn yny bo'n ei hanner; yna dod ynddo fêl, pwys punt at bob dau alwyn, a gwna ef yn *fragodlyn;* ac os bydd, dod ynddo beth gwysgon y gwysgonllys, guwch ag a fo o'r mêl, os bydd, neu yr hyn a fo; a lle nas bo, da iawn er hyny y llyn hwn; ac ef a elwir *bragodlyn* y derw.—*Meddygon Myddfai*, ii. 797 (cf. 325).

Bragodyn, *sm.* a sprout, a germ.

Bragu, *v.* [brag] 1. to malt; to make malt; to make into malt.

2. [cf. *bragodi, bargodi*] to ferment; to broil.

A *bragai* 'r poethlym haul y fro gylchynol,
Siglendir isel, oll yn dawch gwenwynol . . .
Tyst yw'r pla hwn sy'n anrhaith i'ch byddinoedd,
Yn *bragu* 'n dawch ar wyneb ei chorsleoedd.
Nicander: Brennus, v.

3. to crumble, to break, to shatter; to fall to decay.—*N. W. W.*

Bragu cwysau, to break clods or plits (in a stiff soil).—*Mon.*

Bragur, -on, *s.cl.* [brag] sprouts, germs, buds; young sprigs or twigs; blossoms.

Braguro, *v.* to bud, germinate, or sprout; to spring or sprout up; to bloom.

Rhag *braguro* [*blaguro] o ryw wreiddyn chwerwder i beri aflonyddwch iwch.—*Esg. R. Davies:* Heb. xii. 15.

Bragwair, weiriau, *cl.* and *sm.* 1. viviparous grasses (*Gramina vivipara*).

Yr wyf yn tybio i'n hynafiaid gynnwys tan yr enw hwn [*bragwair*] bob math o laswellt bywhiliog.
H. Davies: Llysieuaeth Gymreig, 160.

2. moorland hay.—*Gwent.*

Bragwellt, *s.cl.* 1. the coarser kinds of grasses; bents.—*Gwent.*

2. (=bragwair) moorland hay.—*Gwent.*

Bragwr, wyr, *sm.* a maltster.

Wiliam y *Bragwr* eilwaith
Y sydd bob dydd ar ei daith.—*Edward Dafydd.*

Y mae y ddeddf newydd yn darbod na bydd i neb gael trwydded i werthu cwrw yn ei dŷ heb ddangos tystiolaeth ysgrifenedig o'i ymddygiad da, gwedi ei lawnodi gan chwech o wŷr, yn talu treth yn y plwyf, ac heb fod yn *fragwyr*, darllawyr, na dynion a gaffent un elw yn y peth.
Cylchgrawn, ii. 58.

Bragydd, -ion, *sm.* a maltster.

Braich, *pl.* breichiau, *sf-m.* [C. *brech, bregh;* Br. *brec'h, breac'h;* Ir. and Ga. *brac;* L. *brachium, bracchium;* Gr. βραχίων] 1. the arm.

Penn a borthaf ar vym *breich*.
Llywarch Hen: A.B. ii. 268 (M.A. i. 104).

Caraf y morua y Meirionnyt
Men ym bu *vreich* wenn yn obennyt.
Hywel ab O. Gwynedd: M.A. i. 277 (cf. 272).

A Pheredur ae kymerth a gwaew y dan y dwy en. ac ae byrywys ergyt y wrthaw. yny dorres y *vreich* a gwaell y ysgwyd.—*Mabinogion*, i. 258 (cf. 259, 261).

Pony wely di heb ef delw y groc racko ae *breichyeu* ar llet. yn un ffunyt ahynny y mae Iessu Grist ae *vreichyeu* ar llet yn barawt y erbynnyeit pob pechadur or a vynno dyuot attaw.—*St. Greal*, § 19 (cf. 80).

Nerth braich, strength or force of arm; physical force.

Bu ran, rhwng Deifr a Brynaich,
Wrth waew a bron, a *nerth braich*.—*L. G. Cothi*, II. vii. 27.

Trwy fraich a chryfder, by arm and strength; by force and power.

Hwy a aethant i fyny ar frys i Ierusalem at yr Iuddewon, ac a wnaethant iddynt heidio *trwy fraich a chryfder* [*al.* chryfdwr].—*Esra* iv. 23.

O nerth braich ac ysgwydd, with might and main; by main force.

Mae hi eto heb ei llawn orphen yn Gymraeg; ond bellach ati hi *o nerth braich ac ysgwydd*.—*Gro. Owain*, 322.

Braich ym mraich, arm in arm.

Braich estyngedig, a stretched-out arm.—*Deut.* iv. 34; v. 15; vii. 19.

O hyd braich, at arm's length.

b. arm, prop, support, stay.

Buant *fraich* i blant Lot.—*Salm.* lxxxiii. 8.

Braich y wlad, the arm, support, or stay of a country.

Bron y dref ydyw efo,
Braich y wlad, a'i bar a'i chlo.—*L. G. Cothi*, VI. iii. 57.

c. the fore limb of an animal.

Lliw enryued aoed ar y uarch yn erchlas. ar *vreich* deheu idaw yn purgoch ac o penn y goesseu hyt ymynwes yewined y garn yn puruelyn idaw.—*Mabinogion*, ii. 386.

2. something that projects (like an arm); a spoke, a ray; a branch; a projecting handle.

Braich cadair (*pl.* breichiau cadair), the arm of a chair.

Cadair freichiau (*pl.* cadeiriau breichiau), an arm-chair.

Braich olwyn (*pl.* breichiau olwyn), the spoke or ray of a wheel.

Yn olwyn y uenn y mae tripheth. both. a *breichyeu*. a chylch. ac eisoes un olwyn yw.
Yst. de Carolo Magno, col. 401.

Breichiau rhod ddwr, the radii of a water-wheel.

Braich canwyllbren, the branch of a candlestick.

M. xxxv. y rodes Chnout y eglwys Caer Wynt tri hide o dir yn lle y gelwir Hillam. a gelor Seynt Berini escob. a channwillpren maur o aryant gorreureit a chwe *breich* maur ydaw yr hwnn yssyd yno ettwa.
Brut y Saeson: M.A. ii. 507.

Braich o fôr, an arm of the sea.

Braich tŷ, the gable of a house, or the roof over it.

b. (*sm.*) a spur or lateral offshoot (of a mountain). In this sense it forms many place-names; as, *Braich Coch, Braich Garw, Braich Melyn, Cefn y Braich, Ty'n y Braich, Braich y Pwll*, and many others.

3. a stave (in metre); a line.

Braich o bennill, a stave in a verse or stanza.

Chwi a welwch bob dau *fraich* yn unodl unsain, a saith sillaf ym mhob un, ac nad oes un *braich* heb un o'r pedair cynghanedd ynddo; ond merciwch yng nghylch y ddau fesur yma, na bydd cynghanedd lusg onid yn y *braich* cyntaf i'r pennill.—*Dr. Gr. Roberts:* Gram. 283.

Croes gadwyngyrch a fydd pan fo'r gair, neu'r sill, neu fwy nag un sill, ar ddiwedd *braich* yn bengoll herwydd prif gynghanedd y *fraich* honno, eithr yn croesgynghaneddu â'r un rhif sillau neu eiriau yn nechreu'r *fraich* nesaf; a hyn a bair ymgydiad rhwng un *braich* a'r llall yn gadwynog un yn y llall, ac un yn eu gilydd; ac o ganu'r gynghanedd hon ar bob ban o bennill, nis gellir gosod un *braich* o'i lle priodol.—*Cyfrinach y Beirdd*, 58.

¶ *Braich* was formerly (especially in N.W.) considered masc., but is now fem., except in sense 2 *b*, in which it still retains the masc.

gender. Cf. *Deut.* vii. 19; 2 *Cron.* xxxii. 8; *Iob* xxvi. 2; xxxviii. 15; *Ier.* xxi. 5; *Esec.* xxx. 21; *Dan.* xi. 6; *Eccl.* xxi. 2.

Llawenydd i'r *braich* a'r llinon caled;
Lladded; gosteged frith gostogion.—*Tudur Penllyn.*

Y ddaiar hithau, cyn llawned o bob math ar greaduriaid, ag nad yw dyn yn rhaid iddo wrth y ganfed ran o honynt, ond eu bod yn aros i ddangos llaw lawn, a *braich cadarn* y Creawdr.—*Dr. John Davies:* Llyfr y Res. i. x. 7.

Braidd, *adv.* scarcely, hardly; barely; nearly; just; almost; with difficulty.

A phwy bynac a vo yn seuyl yn agos idaw ae wyneb at.aw *breid* uyd idaw dianc heb y lyncu or llyn.
Brut Gr. ab Arthur (B): M.A. ii. 310.

A gwedy llad llawer oe wyr *breid* y diegis yr maestir.
Brut y Tywysogion 186 (cf. 98, 196).

Ac er dywedyd y pethau hyn, *braidd* yr attaliasant y bobl rhag aberthu iddynt.
Act. xiv. 18 (cf. xxvii. 16; Rhuf. v. 7).

Braidd na, scarcely not; almost not; well nigh.

Wrth gamu brwynen *breit na* dygwyt.
Hywel ab O. Gwynedd: M.A. i. 278 (cf. 312, 464).

Minnau, *braidd na* thripiodd fy nhraed.—*Salm.* lxxiii. 2.

Braidd nad aethai o'i gof, he had nearly gone out of his mind.

O fraidd,) scarcely, hardly; with difficulty;
O'r braidd,) barely; almost; narrowly.

A phan doeth y vydin hono y pylwys y Saesson ac y kilyassant. ac *o ureid* yd ymgynnullassant gwedy hynny.
Brut Gr. ab Arthur (B): M.A. ii. 271 (cf. 316).

Ac *o vreyd* y kafas Bran yna un llong.
Brut Gr. ab Arthur: M.A. ii. 144 (cf. 233).

A byw a bod *o fraidd* ydynt.—*Barddas*, i. 210.

Dyma fyd gwael arnaf, yn gorfod gweithio'n galed ar ymborth na'm ceidw ond *o fraidd* yn fyw.—*Iolo Mss.* 160.

Nes oeddym bron yn foddfa o chwys, ac *o'r braidd* yn methu anadlu.—*Cawrdaf:* Meudwy, 210.

Braidd, *a.* 1. near; being on the point of; almost; extreme.

Y gair i gyd a elwir gobendrwch, er nad yw'r trychni ond yn ei *fraidd* ben.—*Dr. Gr. Roberts:* Gram. 116.

Beth am yr henwau a ffurfhëir o'r cyfraniad yn dig, tan roddi awl wrth ei *fraidd* ben; mal, gweledigawl, a dywedigawl?—*Dr. Gr. Roberts:* Gram. 108.

Wedi imi gerdded o *fraidd* ben yr Hyspaen trwy Ffrainc, Fflandria, ac Alemania, a'r Eidal hyd yn eithaf Calabria, tan ymofyn ym mhob lle am gyflwr, braint, a helynt yr ieithoedd sydd tu draw i hyny, ni fedrais weled, na chwaith glywed, oddi wrth yr un, na bai yn cael gwneuthur yn fawr o honi ym mysg pawb sydd o naturiaeth yn ei doedyd.
Dr. Gr. Roberts: Gram., Rhag. 2.

2. slight, slender, weak; faint.

Ond adnewydda Awen bob *braidd* frisg
O rwysg difannawl ar drem Aspri syw.
W. O. Pughe: Pal. 6.

Braidd gyffwrdd, a slight touch or contact: a term in prosody.

Lle maent mor anghydbwys a lleddf, fal mai o *fraidd gyffwrdd* y ceir cynghanedd ernynt.—*Cyfrinach y Beirdd*, 74.

Braidd gof, a slight, faint, or indistinct recollection or remembrance.

Brail (*sg.* breilen, *f.*), *pl.* breilon, *s.cl.* roses; the rose.

Rosa, rhos, *brail*, breilwy, egroeswydd.
Meddygon Myddfai, 292.

Ir-fun a'i deurudd erfai,
Eiliw'r *brail* ym man-ddail Mai.
Deio ab Ieuan Du, i Ferch.

Brain, *s.* pl. of *Brân*, q.v.

Braint, *pl.* breiniau, breintiau, *sf.* 1. privilege; prerogative; dignity; rank; status; right; the freedom, franchise, or liberty of a corporation; liberty, freedom. In the Welsh Laws, 'this word is extensively used, applied to the particular tenures of land and degrees of personal liberty.' All the high officers of the court who were of the same dignity, were denominated *unfraint*, of equal rank or privilege. Cf. *Cyfreithiau Cymru*, ii. 1110; *Leges Wallicae*, 558.

Lymma y cymreith ha *bryeint* eccluys Teliau o Lanntaf. . . . Bendicedic hac ef hay plant ay enrydedocao y *breint* hunn.—*Liber Landavensis*, 113, 114.

Sef e dely ytalu urth *ureynt* etyr et henyu ohonau.
Cyfreithiau Cymru, ii. 14.

Kynnytws brenhinet *breinhyeu*.—*Cynddelw:* M.A. i. 257.

Gossot kywdawtwyr a oruc yndaw. ar rody kyvreythyeu a *breynhyeu* udunt.—*Brut Gr. ab Arthur:* M.A. ii. 115.

A'th wasanaeth sydd wir *fraint*.
Llyfr Gweddi Gyffredin (B.W.)

Ym mraint, by prerogative; by privilege; by or in virtue; in right; in regard (to); in respect (of); at the point (of); under the protection or patronage (of); by the authority; in consequence; in the position of.

Bydded hyspys . . . ein bod ni Rhobert, Iarll Caerloew yn Lloegr, a Thywysog Morganwg, yn hawl a *braint* cenedl y Cymry, ac arlwydd Gwlad Forgan yn hawl a *braint*, dawn a chywlad y rhagenwedig genedl, ac yn nawdd tattref ein hunanawd, yn deddfu yn hawl a *braint* y llythyr dangos ac edring yma, rhoddi *braint* a thrwydded dyledogion ym mrehyrdref Llanilltud Fawr yng Ngwlad Forgan . . . nid amgen na'u *braint* yn rhydd a'u tiroedd yn rhad . . . ac mal ag y rhoddasom yn gyflys â'r llythyr arddangos hwn i'r dyledogion a'n cywiriaid ym mhrehyrdref Cynffig heb amgenym arnynt ac erddynt na chadw golwg ar a wnelont, a gweled ei fod herwydd â chyfraith a dyledogaeth, ai *ym mraint* gwlad, ai *ym mraint* llys, ai *ym mraint* llan, ai *ym mraint* arf, ai *ym mraint* celfyddyd a gwybodau, ai *ym mraint* llongwriaeth, ai *ym mraint* marchogaeth, ai *ym mraint* ffeiriau, ai *ym mraint* marchnadoedd, ai *ym mraint* prynu, ai *ym mraint* gwerthu, ai *ym mraint* hawl, ai *ym mraint* gwrthhawl, y bo.—*Iolo Mss.* 223.

Ar nep a vei arnaw ai govut ai perigyl o wyr Ruvein oll eno e dygit *em breint* nodet ac amdifyn.
Brut Gr. ab Arthur: M.A. ii. 345.

Marchwiail . . . pan fu'r eisteddfod yno yn amser y Brenin Edward y Trydydd, ac *ym mraint* yr Arglwydd Mortimer.—*Iolo Mss.* 96 (cf. 217).

Tri chadarnhâd cyfiawnder: a geffir yn iawn o brawf, ymgais, a deall; a ddysger yn lle'r iawn o barth caffael, barn, a chydwybod i arall; ac a chwennycher *ym mraint* a gafwyd, a farnwyd, ac a ddysgwyd, gan arall; ac nis gellir hawl a *braint* ar a el yng ngwrth y cynfanogion yma.
Barddas, i. 296.

Ym mraint ei swydd, in virtue of his office; ex officio.

Ym mraint ei wraig, in right of his wife.

A gwedi hyny Robert, Iarll Caerloew . . . a briodes â Mabli, merch Robert ab Amwn, a chael cyfoeth Morganwg *ym mraint ei wraig*.—*Iolo Mss.* 216.

Llythyr braint, a letter or instrument conferring privilege; a charter.

Herwydd cof cyfraith i ninnau a'n hepil dros fyth, a'n gwarogaeth i ninnau, modd y bu ac y buasai pei nas rhoddid y *llythyr braint* a dangos hwn.—*Iolo Mss.* 224.

Braint eglwyswyr, privilege of clergy.

Braint a dylyed, rank and privilege.

Ac y gyt a hynny adaw eu *breint* ac eu *dylyet* y pawb or ae kollassei a rydit y a vei kaeth.
Brut Gr. ab Arthur (B): M.A. ii. 178.

Braint geni, birthright.

Braint geni y cedrwyddain fro noddhëwch!
W. O. Pughe: Pal. 9.

Breiniau dyn, rights of man.

Cwyd dy lef dros *freiniau dyn*.—*Amnon:* Crwth D.C. 167.

Derbyn braint (=derbyn wyneb), to accept or respect persons; to respect persons on account of some privilege or external advantage.

Can nad oes *derbyn braint* neb gar bron Duw.
W. Salesbury: Rhuf. ii. 11.

Edrych braint=*Derbyn braint.*

Ydd wyf yn deall nad ydyw Duw yn derbyn cyflwr [* *edrych braint*] neb.—*W. Salesbury:* Act. x. 34.

Braint mesur, the privilege of metre; certain liberty or choice allowed in the construction of some metres.

Braint y mesur yw dewis ar rifedi'r banau o bedwar i wyth, neu'r rhif a fyner.—*Cyfrinach y Beirdd*, 80.

Braint a defod, privilege and rite; right and custom. Cf. s.v. *Bardd.*

Ar fraint, 1. by privilege.

2. after the manner (of); in position (of).

Glewlwyt Gauaelawr oed yno hagen *ar ureint* porthawr.
Mabinogion, i. 1.

I Crist y canaf *ar fraint* canon
Ceinwawd om tafawd ar draethawd drwn.
Elidir Sais: M.A. i. 350 (cf. 352).

¶ In the older language *braint* generally occurs as masc., with pl. *breiniau;* but it is now fem., and *breintiau* is more common than *breiniau.*

Braintgymmeriad, -au, *sm.* respect of persons.

Gwybyddwch fod eich Arglwydd chwi ac wynt yn y nefoedd, ac nad oes *braintgymmeriad* gyd ag ef.
W. Salesbury: Eph. vi. 9 (cf. Col. iii. 25).

Braisg, *pl.* breisgion, *a.* 1. thick (in circumference), large, gross; stout; bulky.

Ti *ureiscaf* mab dyn o dir cred a wn
Ym prifgyrch pryffwn praff dylyed.
Llygad Gwr: M.A. i. 342.

Y dwy clun aoed yn llydan yscyrnic. ac yn vein oll o hynny y waeret. eithyr y thraet ae glinyeu a oedynt *vreisc.*
Mabinogion, i. 283.

Ae vreich *ureisc* ae vryn gwyn vchaf vchel peri.
Gwynfardd Brycheiniog: M.A. i. 272.

Nerth *braisg* Ercwlf, waisg wisgi borffor.
D. ab Gwilym, vi. 25.

Owain, *fraisg* ei waew'n ei frig,
A Gruffydd, hydd bonheddig.—*L. G. Cothi*, vi. v. 5.

Fy mys bach fydd *breisgach* na llwynau fy nhad.
1 *Bren.* xii. 10.

Edef fraisg, coarse, stout, thick, or large thread.

2. large; big; well-grown.

Sef kyfryw lydnot awelei. baed coet. a charnen coet. a chryn llwdyn da gyt ac wynt. a *breisc* oed yn yr oet oed arnaw.—*Mabinogion*, iii. 199.

Nid pleser dy faterion
I'r gwr *braisg* heb aur ger bron.—*Thomas Prys.*

3. (=bras), large; rank, luxuriant.

Ych, yr hwn a ymbawr ar dir mynyddig a soflydd geirwon, fydd galedach ei garnau a gwell i dynu ac i lafurio na'r hwn a borther mewn porfa *fraisg* ac adladd meddalaidd.
Huw Lewys: Perl mewn Adfyd, 109.

4. big (with child), pregnant, enceinte.

Braith, *pl.* brithion, *af.*=*Brith*, *m.*

Braith, *pl.* breithiau, *sm.*=*Praith.* (*P.*)

Bral (*ă*), -au, *sm.* a rag, a tatter, a clout.

Bralau, tatters, rags, shreds.

Brenin y bralau, king of tatters, a tatterdemalion.

Rhyw fral o ddyn, a hairbrained sort of man.—*Gwent.*

Maent bron bwyta eu bralau, they are ready to eat their rags (said of persons that greatly envy others).—*Dyfed.*

Bralgi, gwn, *sm.* a fellow that goes about in tatters, a ragged fellow, a ragamuffin.—*S. W.*

Bralog (*ă*), *a.* 1. ragged, tattered.—*Dyfed.*

Brilyn bralog, a tatterdemalion.

2. hairbrained, crackbrained, giddy.—*Gwent.*

Bram, -au, *sf.* [C. *bram;* Br. *bramm, bromm;* Ir. *bram;* Ga. *braim;* Mx. *breim*] crepitus ventris.

Yno clywn swrth drym-swrth dro,
Goffrom, rhwng cwsg ac effro,
Bram uchel, ac ni chelaf,
Erthwch, fal yr hwch yr haf.—*Gro. Owain*, 7 (cf. 129).

Bramiad, -au, *sm.* a breaking wind.

Bramu, *v.* to break wind, pedere.—*M. A.* iii. 151, 165.

Bramwr, wyr, *sm.* one who breaks wind.

Brân, *pl.* brain, *sf.* [C. *bran;* Br. *brân;* Ir. and Ga. *bran*] 1. a crow; a raven.

Teulu Madawc mur Prydein
Yn llwythawc yn llithyaw *brein.*
Cynddelw: M.A. i. 213 (cf. 204, 216).

Ae oth anuod di y mae mackwyeit yr amherawdyr. yn brathu dy *vrein.*—*Mabinogion*, ii. 384.

Nid cynnefin *brân* a chanu.—*Diareb.* (M.A. iii. 169.)

Mae *brân* i *frân*, a gwalch i walches,
A dylluan i'w chymhares—*Diareb.* (M.A. iii. 186.)

Nid hawdd o *frân* y gwneir eos.—*Iolo Mss.* 159.

Cyn ddued a'r frân, as black as the raven; raven-black.

Golchi'r frân yn wen, to wash the blackamoor white.

Brân dyddyn, *Brân tyddyn*, *Brân syddyn*, (*pl.* brain tyddyn, brain syddyn), the carrion crow: also called *brân fawr.*

Breiniawl oedd dy hynawl hŷn,
Y braint oedd dair *brân tyddyn.*—*L. G. Cothi*, II. iii. 61.

Y *brain tyddyn*, brwnt oeddynt,
Yn difa'r ŵyn, difraw ynt.—*Rhys Jones:* Gwaith, 233.

Brân dyfyn (corruptly for *brân dyddyn*)=*Brân dyddyn.*

Brân ludlyd, *Brân y lludw*, *Brân ludliw*, the Royston crow: also called *brân Iwerddon, brân y Werddon,* and *brân Gwerddon.*

Brân big goch, Cornish chough, red-legged crow.

Brân hedlyd, hooded crow=*Brân ludlyd.*—*Gwyliedydd*, ix. 235.

Brân nos, *Brân y nos*, night crow, night raven, night hawk.

A chyw yr estrys, a'r *frân nos*, a'r gog, a'r gwalch yn ei ryw.—*Lef.* xi. 16 (cf. Deut. xiv. 15).

2. the bridge of a stringed instrument of music.

3. the wrest or mould-board of a plough.

4. an upright piece of wood or iron with holes or notches, fixed in front of a cart-chest, to regulate the unloading; locally called a pin-bar or a ratchet-bar. It is probably the same word as *bréni* (*gl.* proram) in the Codex of Juvencus, 31. Cf. C. *brenniat* (*gl.* proreta); Ir. *braine;* Ga. *brain.*

5. the appellation of several of the smaller rivers in Wales, being probably a contraction of a form like *Brean* (from *bre*), and signifying a mountain stream. *Brennig* (for *Brēnig*) seems a diminutive of *Brân;* and a similar change in the quantity may be observed in *Arennig*, from *Aran* (*ā*). *Brenni* may be the same word, with the common river-name suffix *-i*, as in *Dyfi*, *Teifi*, *Cothi*. *Brân* occurs also as a river-name in the Highlands of Scotland (Ga. *Bran*).

6. (*sm.*) a personal name of men; as, *Brân ab Dyfnwal*, *Brân ab Llyr*, *Brân ab Llywarch*, *Brân Galed*. It occurs also as a personal name among the Irish.

Rud ongyr *Bran* fab Llyr Llediaith.
Cynddelw: M.A. i. 212 (cf. 248, 289).

Bran, *sm.* [Br. *brenn;* Ir. and Ga. *bran;* O.Fr. *bren*] bran; the outer coat of farinaceous grain, especially wheat.

Bran gwenith, wheat bran.

Cais gwrw main, a menyn heb halen, a *bran gwenith*, a berw yn dda.—*Meddygon Myddfai*, ii. 769 (cf. 483, 561).

[It is difficult to determine whether our [English] word was borrowed directly from the Welsh, or indirectly, through French, from the Breton. The latter is more likely, as *bren* is the more usual form in early writers.—*Skeat:* Etym. Dict. s.v. *Bran*.]

Branaidd, *a.* [brân] like a crow or a raven.

Branar, -au, *sm.* [corr. of *braenar*]=*Braenar*.

Ef a droes Alban yn dir *branar*,
Ef a dry'r Cymry at wr a'u câr.—*L. G. Cothi*, i. xviii. 49.

Branaru, *v.*=*Braenaru*.

Brandir,-oedd, *sm.* [braendir] a kind of blackish loam.—*Gwent*.

Brandir, or rather *braendir*, raven loam, hazel loam; grey or blackish loam; fine loam that works well and kindly.
Iolo Morganwg.

Tir gwenith a'th wasanaetho yn dda, cais *frandir* iachus pyw a dewaetho ych da, a dod bridd a chalch arno yn y gwanwyn.—*Rhisiart Sion Huw*.

Brandy, dai, *sm.* [=ebrandy (ebran+tŷ) by aphesis] a baiting-house; a name borne by many houses, usually on a roadside, which at one time were baiting-places.

Branel, -au, *sm.* [cf. *bran* 3: Br. *branel*] 1. the piece of timber which fastens the mould-board to the right handle of the old Welsh plough.—*S.W.* 2. (*pl.* -od), a big rustic fellow.—*S.W.*

Branes, *s.pl.* and *cl.* [brân] a flock of crows; crows, ravens.

Ardwyreaf hael o hil Iago . . .
A lithws llwytgun ar fun fo
A borthes *branhes* Brynaich gyffro.
Gwalchmai: M.A. i. 198 (cf. 75, 228, 288).

Marchogion Brynaich *branhes* Owain.
Cynddelw: M.A. i. 204 (cf. 206, 219, 222, 228, 239).

Y fort yd gertwyf gwrt yd gre *branhes*.
Llyw. ab Llywelyn: M.A. i. 292 (cf. 280, 284).

Yn llu yth weled yn llithyaw *branhes*.
A Bryneich yn cwydaw.
Prydydd Bychan: M.A. i. 381 (cf. 334, 379).

Llefain brain *branes* fediedig.
Hywel Ystoryn: M.A. i. 519 (cf. 274, 367).

Branllyd, *a.* [bran] branny; of the nature of bran; full of bran.

Branllydrwydd, *sm.* fullness of bran.

Brannog, *a.* [bran] full of bran; branny.

Branog, *a.* [brân] of the nature of a crow.—*P.*

Branos, *s.pl.* [dim. pl. of *brân*] young or little crows; crows, ravens.

Ti aglywy adyweit y mackwy os da genhyt gwahard wynt ywrth vy *mranos*.—*Mabinogion*, ii. 383.

Mastr Morgan, ef a'i *franos*,
A bair yn rhydd lwybrau'n Rhos.—*L. G. Cothi*, ii. v. 9.

Bras, *pl.* breision, *a.* [C. *bras;* Br. *bras;* Ir. and Ga. *breas*] 1. thick, large, big, bulky.

Marchauc a girch y dinas
Ae cun gwinion ae cirn *bras*.—*A.B.* ii. 56 (cf. M.A. i. 46).

A guyalen eur kehyt ac ef ehun akyn *urasset* ac y tys e becan.—*Cyfreithiau Cymru*, i. 6 (cf. 346).

A llenn o bali glas ymdanaw. a gwaell eur yn y llenn ar yr ysgwyd deheu idaw. kyn *vrasset* a garanvys milwr.
Mabinogion, ii. 384 (cf. 385).

Yn llaw y mackwy ydoed paladyr *bras* vrithuelyn.
Mabinogion, ii. 385 (cf. 388).

Caer *fras* ei dorau fal daear sych.
Madog ab Gwallter: M.A. i. 404.

Mwy yw brig ei lym-waew *bras*
No miliwn o waew Melwas.—*L. G. Cothi*, iii. viii. 57.

Mân a bras (=mân a mawr), small and great.

Eigyawn mwyn terrwyn tyrfa *man a bras*
Bu brys beirt kylch huan.
Llywarch ab Llywelyn: M.A. i. 289.

Siarad bras (=siarad mawr), tall talk.

Siarad yn fras, to talk big or boastfully.

¶ In this sense (except figuratively) *praff*, *mawr*, and *tew* are now mostly used.

2. large; coarse; not fine: generally used of things comparatively small.

Yd bras, large corn.

Pys breision, large pease.

Cerryg breision, large stones; the larger kind of small stones.

Grut bras, coarse-grained grit, coarse grit.

Fe a ddichon [y saer maen] . . . ei lunio a'i ffurfio, a gwneuthur delw brydferth o honaw, yr hyn ni ddichon byth ei wneuthur o'r *grut bras* a'r gwenithfaen.
Gro. Owain, 277.

Blawd bras, coarse meal.

Blawd mân a blawd bras, fine meal and coarse meal.

Pwythau breision, long or large stitches.

Breision gwenith, the larger grains of wheat; wheat gurgeons.

Cymmer hanner mesur o win gwyn, a gwer carw, a lle na bo hwnw, gwer llwdn dafad, a *breision gwenith*, nid y lleiaf ond y mwyaf.—*Meddygon Myddfai*, ii. 529.

Breision coch, the coarser kind of ground wheat; sharps.

Ffrwd fras (*pl.* ffrydiau breision), a large or copious stream.

Er tynu dwfr o'r garreg las,
Er llithro'n loew *fras ffrydau:*
Yn yr anialwch digient Dduw,
Chwanegent amryw feiau.
Edm. Prys: Salm. lxxviii. 16.

Gwlan bras (=gwlan garw), coarse wool.

3. fat; rich; fertile.

Myfi a farnaf rhwng milyn *bras* a milyn cul.
Esec. xxxiv. 20.

Mollt bras (*pl.* myllt breision), a fat weather.

Anifail bras (*pl.* anifeiliaid breision), a fat animal or beast; a fatling.

Y llo hefyd, a cheneu'r llew, a'r *anifail bras*, fyddant yng nghyd.—*Esa.* xi. 6.

Cig bras, fat meat; fat.

Ni phery *cig bras* yn wastad—*Diareb.* (M.A. iii. 168.)

Porfa fras (*pl.* porfëydd breision), rich pasture; fat pasture; rank or luxuriant grass.

Mi gaf orwedd mewn *porfa fras*
Ar lan dwfr gloew-las araf.—*Edm. Prys:* Salm. xxiii. 2.

Tir bras, rich land, fertile soil.

Bywiolaeth fras, a fat living or benefice.

Caws bras (*pl.* caws breision), rich cheese.

Ymgadw rhag ymenyn, a chig moch, yn enwedig yr hen, a *chaws breision*, a chig gŵydd, a chig hwyad.
Meddygon Myddfai, ii. 537.

Gwraig fras, a fat woman (with the subaudition of coarseness).

Diod gadarn tafarn-was,
Rhyw saig gan ei frwysg-*wraig fras*.—*Gro. Owain*, 56.

Hu Fras, Hugh the Fat.

Blwyddyn gwedy hynny y bu uarw *Hu Vras* Iarll Kaer Llion ar Wysc.—*Brut y Tywysogion*, 66.

4. (an epithet of persons) great; large, strong, stout, big; as, *Adda Fras*, *Cadwgawn Fras;* and in compounds, as *Breichfras*, *Penfras*. The Cornish and Breton use *bras* in the same sense, applying it to appellatives; but in modern Welsh it is generally replaced by *mawr*.

Ac y doeth Ronabwy a Chynnwric Vrychgoch gwr o Fawdwy. a Chadwgawn *Fras* gwr o Voelure.
Mabinogion, ii. 372.

Much in the same sense it seems to be used in the following instances:

Ac yn oet y vlwydyn hoff oed gantunt y *vreiscet* bei dwyulwyd. . . A hoff oed y uab wyth mlwyd uot yn gyn *ureiscet* ac ef.—*Mabinogion*, iii. 201 (cf. 199, 200).

5. (in ornithology).

Bras yr yd, *Bras y ddrutan*, } the bunting: also called *aderyn bras yr yd* (*pl.* adar bras yr yd) and *aderyn bras y ddrutan*.

Bras yr yd, the white-ear, white-tail, or fallow-finch (in Glamorgan).—*Iolo Glossary*.

Bras yr eira, the snow bunting.—*Faunula Grustensis*, 68.

Bras, *pl.* breision, *sm.* the thick or thickest part.

Bras yr esgair, the thick of the leg; the calf of the leg.

Ac nyt oed anydyfnach y gwaet udunt yn eu hymlit. noc y deuei yr budugolyon hyt ym *bras* eu *hesgeiryeu*.
Campau Charlymaen, § 40.

Bras, -au, *sm.* [cf. *albras*] a cross-bow, an arbalest.

Annelais rhwng fy nwylaw — Yru llem saeth o'r orallt,
Fwa yw drud, a fu draw, — Benddu, i waedu ei wallt;
Ar fedr, fal gwr arfodus, — Arf i redeg ar frodir,
Ar ael y rhiw, arial rhus, — I fwrw â saeth o *fras* hir.
D. ab Gwilym, clxxxii. 15 (2nd ed.: cf. G.B.C. 35).

Gnawd buan o *fras*.—*Diareb.* (M.A. iii. 156.)

Brasâd, *sm.* a making thick, gross, or fat; a thickening; a fattening.

Brasaidd, *a.* somewhat thick, gross, large, or fat; thickish; fattish.

Brasäu, *va.* 1. to make thick, gross, or fat; to thicken; to fatten.

Gair da a *frasâ* yr esgyrn.—*Diar.* xv. 30 (cf. xi. 25).

Brasâ galon y bobl hyn, a thrymhâ eu clustiau.
Esa. vi. 10 (cf. Matt. xiii. 15).

2. *vn.* to grow or become fat or thick; to thicken; to fatten.

A'r union a aeth yn fras, ac a wingodd: *braseaist*, tewychaist, pwyntiaist.—*Deut.* xxxii. 15.

Brasbwyo, *v.* to beat or pound roughly.

Cymmer ddail llysiau'r geiniog yn *frasbwyedig*, a hufen llaeth, a berw yng nghyd ar dân araf.
Meddygon Myddfai, ii. 579.

Brasbwyth, -au, *sm.* a long, coarse, or basting stitch.

Brasbwythiad, -au, *sm.* a sewing with large stitches; a basting.

Brasbwytho, *v.* to baste; to make long or large stitches.

Brasbwythog, *a.* consisting of long or large stitches; sewn loosely together; basted.

Brasbwythwr, wyr, **Brasbwythydd**, -ion, } *sm.* one who makes long stitches; a baster.

Brasder, -au, *sm.* fatness; fat; richness, fertility.

Abel yntau a ddug o flaenffrwyth ei ddefaid, ac o'u *brasder* hwynt.—*Gen.* iv. 4.

Cymmer *frasder* cig moch toddedig, a gad yr halen syrthio i'r gwaélod; ac yna cymmer y *brasder*, a chwyr morwynig, a phyg, a thus, a gwna eli o honynt.
Meddygon Myddfai, ii. 56 (cf. 581).

Brasder y ddaiar, the fatness, fat, or richness of the earth.

Rhodded Duw i ti o wlith y nefoedd, ac o *frasder y ddaiar*.—*Gen.* xxvii. 28 (cf. xlv. 18).

Brasderog, *a.* full of fat; fatty; greasy; rich.

Brasderogrwydd, *sm.* fattiness; greasiness.

Brasderus, *a.* fat; fatty; rich.

Ymgarthu, a gollwng gwaed, gochel bwyd rhy *frasderus*, anfynych yfed, mynych fwyta, digon o dân, a digon o ymlafuriaw daiar.—*Llanover Ms.* 63.

Brasdir, -oedd, *sm.* rich land, fertile soil.

Meusydd, mewn brestydd *brasdir*,
A bair bod bara a bir.—*Huw Morus:* Eos Ceiriog, i. 53.

A ddarfu i'w cyndeidiau hwy ddifuddio ein hen deidiau ni o *frasdir* Lloegr?—*Gwallter Mechain:* Gwaith, ii. 258.

Brasdwll, *m.* **Brasdoll**, *f.* } *a.* full of large holes, slits, or openings.

Breckan lwytkoch galetlom toll a dannwyt arnei. a llenlliein *vrastoll* trychwanawc ar uchaf y vreckan.
Mabinogion, ii. 374.

Brasgam, -au, *sm.* a stride, a long step.

Brasgamu, *v.* to stride; to walk with long steps.

F' ä'r march dihafarch, nid ofn,
I'r rhyfel yn rhy eofn . . .
Llamu, *brasgamu*, brwysg wedd,
Yn ddiried gan gynddaredd.
Ieuan Brydydd Hir: Gwaith, 64.

Mae efe yn myned dan frasgamu, he strides along; he moves with long strides.

Brasgamu dros, to stride across or over.

Brasgamwr, wyr, *sm.* one who strides.

Brasgawd, *sm.* [?]

Diffryderas y *vrascawt* [*al.* uascaud].
A.B. ii. 97 (cf. M.A. 61).

Brasgawn, *s.cl.* coarse or rank reeds.

Brasgawn, neu swp o brysgoed,
Picellau fal cangau coed.—*Gronwy Owain*, 21.

Brasgeirch, *s.cl.* and *pl.* the larger kind of oats; large oats.

Meith y ry yr hynn nym aduc
Meirch breischir vch *brasgeirch* hafluc.
Llyw. ab Llywelyn: M.A. i. 280.

Rhai mewn meirch *brasgeirch*, rhag eu brwysged.
W. Midleton: Salm. xx. 7.

Brasgig, -oedd, *sm.* fat flesh or meat.

Breisgon ynt ar eu *brasgig*,
Breisgon dinwygyddion dig.—*Sion Cent:* Iolo Mss. 305.

Brasio, *v.* to do rough work; to perform the rougher part of a work; to rough-work.

Brasliain, lieiniau, *sm.* coarse linen cloth; lockram.

Braslun, -iau, *sm.* a rough cast, a rough draught; an outline, a sketch.

Yn y fugeilgerdd sanctaidd honno, mae efe yn trefnu'r grëedigaeth ger ein bron, yn benthycia ei ffurfiau perffeithiaf, ac yn trwytho ei buntr yn ei lliwiau mwyaf dymunol, i osod o'n blaen *fraslun* o hawddgarwch ei berson.
Myfyrdodau Hervey, 130.

Brasluniad, -au, *sm.* a rough-casting, a rough-drawing; a sketching; adumbration.

Brasluniadau, rough outlines; sketchings; sketches.

Braslunio, *v.* to rough-cast, to rough-draw; to sketch, to outline; to adumbrate.

Brasluniwr, wyr, *sm.* one who rough-casts; a sketcher.

Brasnadd, -ion, *sm.* a rough-hewing; that which is rough-hewn.

Brasnaddiad, -au, *sm.* the act of rough-hewing.

Brasnaddol, *a.* rough-hewing; rough-hewn.

Brasnaddu, *v.* to rough-hew.

Diau yw nad oes genyf flas nac awch yn y byd i ganu; ond, i ufuddhau i'r Llywydd, mi *frasneddais* rywbeth, herwydd fy mod yn rhwymedig iddo.

Ieuan Brydydd Hir: Gwaith, 172.

Brasnaddwr, wyr, *sm.* a rough-hewer.

Brasrwyd, -au, *sf.* 1. a net with large meshes. 2. the part of a drawnet which has large meshes: also called *rhwyd fras.—Mawddwy.*

Brasu, *v.* to make rough or coarse work; to rough-work.

Braswaith, weithiau, *sm.* rough or coarse work; clumsy work.

Ni wnai anrhaith, *braswaith* brys,
Neu dychan, enaid iachus.

Huw Morus: Eos Ceiriog, i. 22.

Brasweithiad, -au, *sm.* a rough-working.

Brasweithio, *v.* to rough-work.

Brasweithiwr, wyr, *sm.* a rough-worker.

Brat, -iau, *sm.* [Ir. and Ga. *brat,* pallium] 1. a rag, a tatter; a piece; a clout.

Gwiscaw *bratteu* trymyon amdanaw a wnaeth Pwyll a lloppaneu mawr am y traet.—*Mabinogion,* iii. 23 (cf. 25).

Cymmer grawn yr yd, a halogrwydd ieir, a ffa duon, a garlleg, a halen, a chagl geifr, ac esgyrn march, a darnau o *fratiau* gleision, a dod mewn crochan pridd.

Meddygon Myddfai, ii. 628.

Profes a'i *fratt* farchnatta
Profi rhai'n y tai nid da.—*Madog Dwygraig:* M.A. i. 489.

Megys *bratiau* budron yw ein holl gyfiawnderau.

Esa. lxiv. 6.

Brenin y bratiau, a ragged fellow.—*W.*

2. (*pl.* -iau, -au), a pinafore.—*C.S.*

Brat plentyn, a child's pinafore.

Bratäu, *v.* [brad] to betray.

Tristyd anwogawn a oryw Erof greulawn
Brattau Iesu ag ef yn credu.—*Taliesin:* M.A. i. 69.

Hen Wrthëyrn Gwrthenau
Fu'n sir a'n tir i'n *bratäu.—L. G. Cothi,* II. vii. 15.

Bratiog, *a.* ragged, tattered, full of rags.

Eidiol a welai Eidwyll yn aflan ei wisg a *bratiog,* ac aflan ac afiach ei fwyd a'i lyn.—*Iolo Mss.* 161.

Bretyn bratiog, a ragamuffin.—*W.*

Bratiogrwydd, *sm.* raggedness.

Brath, -au, *sm.* [C. *brath*] 1. a stab; a thrust (with a pointed weapon); a sting; a bite; a cut; a wound.

Yno y bu yn gorffwys ychydic yn kymryt medeginyaeth oe glwyfeu ae *vratheu.—Campau Charlymaen,* § 117.

Y ulwydyn rac wyneb y brathwyt Howel Seis ab yr arglwyd Rys yg Kemeis drwy dwyll y gan wyr Maelgwn y vrawt, ac or *brath* hwnnw y bu uarw.

Brut y Tywysogion, 260.

Rhag gwres a gwaew mewn *brathau.* . . Cymmer liain, a dod yr eli arno, a dod beth o hono ar oreth yn dwym, a dod yn y *brath,* a'r liain eliad ar hyny, a dod gyda'r oreth elyf pyloraid ar y *brath.—Meddygon Myddfai,* ii. 110.

Brath cyllell, a knife-stab.

Ac yna y llas Rickert abat Clerynawt mywn manachlawc yn ymyl Reinys [*al.* Remys] y gan neb vn anfydlawn uynach o *vrath kyllell.—Brut y Tywysogion,* 226.

Brath cleddyf, a sword-cut; a thrust or stab by a sword.

Rhyw ddyn a ddywed eiriau fel *brath cleddyf.*

Diar. xii. 18.

Brath llif, the cut of a saw.

Brath neidr, the bite of a snake or adder.

Rac *brath neidyr.* yver sud yscaw yr hwnn a wascara yr holl wenwyn.—*Meddygon Myddfai,* i. 67 (cf. 139).

A marw fu'r march rhwydd-barch rhodd
O *frath neidr* fraith a'i nododd.—*W. Lleyn,* i'r Neidr.

2. a cut; a near passage.

Tynu brath, to make a (shorter) cut.

Tynu brath trwy ddilledyn, to run stitches through an article of dress (to shorten it).

Brathawd, } odau, *sm.* a thrusting; a cut or
Brathod, } cutting; a shortening.

Brathedig, *a.* stabbed, thrust; pierced; bitten; wounded; cut.

Ena y syrthynt y gwyr *brathedyc* ymplyth y bydynoed megys y ssyrthyey yt e kynhayaf pan vydynt y medelwyr da yn ymrysson.—*Brut Gr. ab Arthur:* M.A. ii. 144.

A phar uediginyaeth idaw, yn gystal ac y parut y mi pei bewn *urathedic.—Mabinogion,* ii. 25.

Gwedy bwrw saetheu o bop tu y dygwydawd Owein yn *vrathedic.—Brut y Tywysogion,* 138.

Brathedigion, wounded ones; the wounded.

Ac eyssyoes wedy damennyaw y vudugolyaeth i Beli a Bran y Ffreync yn *vrathedygyon* a ffoasant.

Brut Gr. ab Arthur: M.A. ii. 150.

Brathell, -au, *sf.* an instrument for stabbing or piercing; a dagger, a poniard.

Mae gwawr y goleu gwiw
Fel *brathell* i roi briw.—*Powysion,* ii. 194.

Brathgi, gwn, *sm.* [C. *brathky, gl.* molossus] a dog that is apt to bite; a snappish or biting dog.

Brathiad, -au, *sm.* a stabbing, biting, or stinging; a wounding or cutting; a piercing; a pricking.

Brathiadau cydwybod, prickings of conscience; prick or remorse of conscience.

Brathlyd, *a.* apt to stab, sting, or bite; snappish; stinging; biting.

Ci brathlyd, a snappish or biting dog.

Brathlydrwydd, *sm.* snappishness.

Brathlys, *sm.* pimpernel (*Anagallis*).—*Meddygon Myddfai,* 292.

Brathlys gwryw, red or scarlet pimpernel (*Anagallis arvensis*).

Brathlys benyw, blue pimpernal (*Anagallis arvensis*).

Brathlys y gors, bog pimpernel (*Anagallis tenella*).—*H. Davies:* Welsh Bot. 21, 160.

Brathog, *a.* disposed to stab, bite, or sting; snappish; biting.

Mae'n debyg mai ci *brathog* oedd y ci.

Gronwy Owain, 290.

Mae Seison, anunion wŷr,
A *brathawg* lu y Brithwyr.—*Blackwell:* Ceinion Alun, 113.

Brathu, *v.* 1. to stab, thrust, or pierce; to sting; to bite; to wound; to cut; to run through.

A chyrchu yr anffydlonyon. a *brathu* Corsabrin trwy y daryan ae luryc. ac escyrn y vronn.

Campau Charlymaen, § 104.

Ac ar hynny y duc Grandon dywyssawc bydinoed y paganyeit y ar uarch buan y Ereint ruthur. ae *urathu* ae gledyf trwydyaw.—*Yst. de Carolo Magno*, col. 484.

A gwedy ymsaethu or twr ac ef a *brathu* llawer oe wyr a saetheu, a llad ereill ydymchoelawd drachefyn.
Brut y Tywysogion, 122 (cf. 144, 260).

Ef a doeth dracheuyn dolur mawr yr byt achaws marchawc urdawl yr hwnn a lettyawd yn llys brenhin Peleur. ac yr ymdangosses Seint Greal idaw ar gwaew y *brathwyt* Iessu Grist ac ef.—*St. Greal*, § 79 (cf. 104).

Ae oth anuod di y mae y mackwyeit yr amherawdyr. yn *brathu* dy vrein?—*Mabinogion*, ii. 384.

Llyfid y ci y gwaew y *brather* ag ef.
Diareb. (M.A. iii. 163.)

A da'r feddyginiaeth hon i ddyn a *frathwyd* gan neidr.
Meddygon Myddfai, ii. 151.

Seirff tanllyd; a hwy a *frathasant* y bobl.
Num. xxi. 6 (cf. 8, 9).

Gwaeddai, Mam! yr wyf yn marw;
Brathwyd fi yn arw arw,
Gan ryw sarff hedegawg felen;
A'i henw, meddynt, yw Gwenynen.—*Tegid:* Gwaith, 194.

Brathu llythyren mewn gair, to thrust a letter in a word.

Mo. Beth yw gwrthdrychiad? Gr. Modd i *frathu llythyren* ne sillaf yng nghanol gair.
Dr. Gr. Roberts: Gram. 71.

Brathu â daint, to pierce with the teeth; to bite.

Brathu ag arf, to stab, thrust, or pierce with a weapon.

¶ In S.W. *brathu* is seldom applied to the action of the teeth, for which *cnoi* is generally used.

2. to spur, to prick; to goad: a common meaning in the literature of chivalry.

A phan gigleu Galaath y parabyl hwnw nyt arhoes ef haeach rac ovyn y adnabot namyn *brathu* y varch ac ymeith.—*St. Greal*, § 16 (cf. 24, 80).

Ac yna *brathu* eu meirch ac yspardunеu yn gadarn awnaethant.—*Yst. de Carolo Magno*, col. 419.

Sef a wnaeth Bradmwnd yna *brathu* y march. ac achub Bown. a thynnu y gledyf. ae daraw yny hyllt y darian.
Bown o Hamtwn, § 21 (cf. 68).

In the following quotation, both senses (1 and 2) occur in the same sentence:

Ac yna *brathu* ei varch aoruc Paredur tu ar nessaf attaw onadunt. ae *vrathu* trwydaw a gwaew yny vyd mwy no hyt hanher llath.—*St. Greal*, § 183.

3. to cut; to cut on; to penetrate, pass, or move through with rapidity; to thrust; to push on; to hasten; to make a short cut.

Yn *brathu* trwy y perthi tew
Mae'r carwr tua thref,
Yn ol hir aros gyda Gwen,
Lle'n ddifyr iawn bu ef.—*Daniel Ddu*, 155.

Brathu dros gae, to cut across a field.

Brathwr, wyr, *sm.* one who stabs, thrusts, or bites; a stabber, a thruster; a biter; a stinger.

Brathydd, -ion, *sm.* he who or that which stabs, thrusts, bites, or stings.

Brau, *pl.* breuon, *a.* [prob. connected with L. *frango* (*frag-*), *fragilis*, *fragor*; E. *break:* cf. Ga. *bragh*] 1. brittle; fragile, frail; frangible.

Haf ni bydd hinon bythawd *breu* breyron.
Taliesin: M.A. i. 75.

Breuach na bar o ewyn,
Yn ei ystâd, yw einioes dyn.—*L. G. Cothi.*

Rhyw anghelfydd brydydd *brau*
O Eifionydd wyf finnau.—*Pedr Fardd:* Mêl Awen, 79.

Cyn freued a gwydr, as brittle as glass.

Canys *breu mal guydyr* hydyr hudolyaeth.
Cynddelw: M.A. i. 248 (cf. 346, 557).

Teisen frau, a brittle cake; a cake made of flour, cream, and butter, to which currants are sometimes added.—*Gwent.*

2. prompt; ready; frank; quick.

Clwyf efnys dyfrys dyfryded ys mau
Braw gofiau *brau* gyfed.
Cynddelw: M.A. i. 208 (cf. 232).

Ac ymaith taflwn eu trom iau,
Ni chânt yn *frau* mo'n gorfod.
Edm. Prys: Salm. ii. 3 (cf. xlviii. 7).

O ewch i'w byrth â diolch *brau*,
Yn ei gynteddau molwch ef.—*Edm. Prys:* Salm. c. 4.

O gwelwch un â golwg
Isel drum, yn selu drwg,
A thafawd esmwyth ofeg,
I'r byd yn doedyd yn deg,
Ac aml wên ar ei enau,
Heb wad, fo wna frad yn *frau*.—*Thomas Prys.*

Am hyny, gwastatëwch yn *frau*, tan eich perygl o fwy poenau corfforol ac ysprydol.
Elis Wynn: Bardd Cwsg, 91.

Dywed yn *frau*, beth a atebi
I'r holl bethau hyn a glywi?—*Thomas Owain:* Helfa.

Braw, -iau, *sm.* terror; dread; fright; dismay.

Gwedy gwelet onadynt e brenhin en ryth Gwrleis en eiste ygyt a hi. erdang a *braw* a aeth arnadynt.
Brut Gr. ab Arthur: M.A. ii. 294.

Gnawd y ceir colled o *fraw*.—*Diareb.* (M.A. iii. 157.)

Cyfeiliornodd fy nghalon, *braw* a'm dychrynodd.
Esa. xxi. 4.

Brenin braw, king of terror; king of terrors.

Braw, *a.* affrighted; frightful, dreadful. Obsolete as an adj.

Handwyf dirrwyn urwyn oe *vraw* golled.
Cynddelw: M.A. i. 220 (cf. 208).

Pawb a daw ataw pobyl *uraw* yr vrawd.
Einion ab Gwalchmai: M.A. i. 332.

Hoet *vraw* damweiniaw dim waeth.
Bleddyn Fardd: M.A. i. 370.

Eur mal am bu dal dolur attrec *vraw*.
Casnodyn: M.A. i. 421.

Bräwch, *pl.* brawychion, *sm.* [braw + -wch] terror; fright; dismay.

Brawd, *pl.* brodyr, †broder, *sm.* [C. *braud;* Br. *breûr*, *brêr* (pl. *breûdeûr*, *breder*, *breuder*); Ir. *brathair*, *brathir;* Ga. *brathair;* Mx. *braar;* L. *frater;* Gr. φράτηρ] 1. a brother.

Y gwerth yw, na gwedw na gwryawc, hanner gwerth y *brawt*.—*Cyfreithiau Cymru*, i. 56.

Ac ef a welei uarchawc yn dyuot attaw. ac yn ei aruoll trwy lewenyd a charyat val bei *brawt* idaw.
Mabinogion, i. 37.

Brodyr (†*broder*), brothers; brethren.

Ewythred Arthur *vrodyr* y uam.—*Mabinogion*, ii. 245.

Ef a ganhadawd y deulu ac y deulu Maelgwyn y *vrawt* torri kastell Llan y Hadein ae distryw. A phan gigleu y Fflandrassyeit hynny kynnullaw a wnaethant yn dirybud yn erbyn y deu *uroder*, ae kyrchu.—*Brut y Tywysogion*, 238.

Dau *froder*, ryw amser, oedd
A wnaeth Rufain a'i threfoedd;
Llyma'r ddau *froder* ereill,
Ar yr un llun y bu'r lleill.—*L. G. Cothi*, VI. v. 51.

Iudas â'i gyfenw Barsabas, ac Silas, y rhai oedd wŷr penaf ym mhlith y *broder*. . . Yr Apostolion, a'r henafaid, a'r *broder*, at y *broder* y sydd o'r Cenedloedd yn Antiocheia, ac yn Syria, ac yn Cilicia.—*W. Salesbury:* Act. xv. 22, 23.

Brodyr o un bru ydym.—*Dewi Wyn:* Blod. Arf. 179.

Brawd undad, brother by the father's side.

Brawd unfam, brother by the mother's side, uterine brother.

Brawd undad unfam, brother by the father's and mother's side, brother-german.

Brawd calon, brother-german.

Brawd yng nghyfraith (*pl.* brodyr yng nghyfraith), brother in law.

Brawd yn y gyfraith (*pl.* brodyr yn y gyfraith), brother in law.

Brawd maeth (*pl.* brodyr maeth), foster-brother.

Yna y doeth cof idaw kynghoreu y dat. ac y dywawt wrth y deudeng *mrodyr maeth.* aoed yny ganlyn yn yr ansawd honno. Arglwydi *vrodyr* heb ef. enwired vy nghenedyl o chwant vy nghyuoeth i yssyd yn an pellau ni.
Amlyn ac Amig, 1089 (cf. 1093, 1091).

Brawd ffydd (*pl.* brodyr ffydd), a brother in the faith; a brother of a religious order; one of the same religious order, profession, or denomination.

Yno yd oed esgob a elwit Goeslan, a hwnnw a oed *vrawt fyd* y Dewi.—*Buchedd Dewi:* C. B. Saints, 105 (cf. 108).

Bleiddan Sant o Dir Gal a wnaeth Lanfleiddan, a *brawd ffydd* ydoedd i Armon Sant.—*Iolo Mss.* 221 (cf. 220, 254).

A *brawd ffydd* a chydymaith yw efe i brydydd o fardd cadeiriawg.—*Barddas*, ii. 100.

Hanner brawd, a half-brother, a brother of the half blood.

Brawd o'r naill du, a brother of the half blood, a half-brother.

Brodyr tyngedig, } sworn brothers; inseparable
Brodyr twng, } confederates.

2. a friar; a monk.

Ny dyly neb rodi alltut yn vach na neb or a uo kadarnach noc ef na mynach na *brawt* heb gannyat y abat.
Cyfreithiau Cymru, i. 432.

Cospwr y marwol bechawd,
Casbeth genyf bregeth *brawd*.
D. ab Gwilym, ccxvii. 1 (cf. 11, 48; ccxxiv. 6—25).

Peri a wnaeth y prior ganu y gloch fawr i wysiaw y *brodyr* oll i'r cabidyldy i ymgynghori am y pwnc hwnw. Yna y cawsant yn eu cynghor anfon athro mawr o ddysg, a dau o'r *brodyr* gydag ef, at oreugwyr y dref.
Hanes Gwidw (Brython, iii. 241).

Brawd yn cerdded y gwledydd
Heb bregeth, oferbeth fydd.—*Guto'r Glyn.*

Brawd crefydd, brother of a religious order; a friar; a brother in the faith.

Brawd crefyddus, a brother of a religious order; a religieux.

Lhyma Bryt Map Deo mal ydh ymdhangosses Deo y nebun *vrawt creuydhus.*—*Ymborth yr Enaid*, § 23.

Brodyr Cycyllog (*sg.* brawd cycyllog), Capuchin Friars, Capuchins.

Un o'r *Brodyr Cwcyllog.*—*Walters.*

Brodyr Duon (*sg.* brawd du), Black Friars.

Am warafun i'r fun fawl,
O'r *brawd du* oer-bryd dwywawl,
Ceiliog i'r doniog dangnef,
Calon oer i'r cul o nef!—*Dafydd ab Gwilym*, ccxvii. 47.

Brodyr y Groes (*sg.* brawd y groes), Crutched or Crossed Friars.

Brodyr Gwynion (*sg.* brawd gwyn), White Friars.

Ei breswylwyr oeddynt blaid o'r mynachod a elwid Sistersiaidd, neu y *Brodyr Gwynion*, fel y galwai y Cymry hwynt.—*Cylchgrawn*, i. 252.

Brodyr Llwydion (*sg.* brawd llwyd), Grey Friars.

Tri anhebgor uffern: rhingyll; *brawd llwyd;* a Sais.
Trioedd Doethineb: M.A. iii. 255.

Brodyr Pregethol, } Preaching Friars, Predi-
Brodyr Pregethwyr, } cants.
Brodyr Bregethwyr, }

Val y rhodhet neb yn brawt o greuydh y *brodur pregethwyr* yn ei benyt.—*Ymborth yr Enaid*, § 19.

Ac ef aeth y wraig i ymgynghori i Dŷ y *Brodyr Pregethwyr*, ac i ymddiddan â'r prior oedd wr da, ar ddygwyl Ieuan Ebostol yng ngwyliau y Nodolig.
Hanes Gwidw (Brython, iii. 241).

Brodyr Troednoeth (*sg.* brawd troednoeth), Barefooted Friars.

Car glyw llyw llys Benmynydd
Cor *brodyr troednoeth* a'i cudd.
Gr. ab Meredydd: M.A. i. 450.

A thrannoeth wedi Dyw Ystwyll y daeth y wraig yr ail waith i Dŷ y Brodyr i ymddiddan â'r brodyr ac â'r prior: ac yna y cawsant yn eu cynghor fyned ugain o *Frodyr Troednoeth*, o grefydd Saint Awstin, a llawer o leygion, i fyned i dŷ y gwr marw.—*Hanes Gwidw* (Brython, iii. 245).

Tŷ brodyr, a house or convent of friars, a friary; a monastery.

Manachlog brodyr, a monastery or convent of friars, a friary.

Ar llall onadunt a ladawd en Llundein y mewn *manachloc broder.*——*Brut Gr. ab Arthur:* M.A. ii. 358.

3. a brother; a fellow or member of a society or community.

Brodyr pob cerddorion.—*Diareb.* (M.A. iii. 150.)

Brawd, *pl.* brodiau, *sf.* [C. *breuth, breus, bres, breys, brus, brys;* Br. *breûd;* Ir. *bráth, breith, breath;* Ga. *breth*] judgment; legal decision; sentence; social right.

Pedweryd yw egnat ar y *urawt.* O deruyd y dyn or] duybleyt ebu kyfreyt e regthut guadu y *uraut* ar llall eny adef geyr eu geyr er egnat ena ar y *uraut.*
Cyfreithiau Cymru, i. 108.

Gwedy gwyd plygyd y plygeinyeu
Gwedy am daeru barnu *brodyeu.*
Einion ab Gwalchmai: M.A. i. 331 (cf. 406, 469).

Molaf hefyt bryt *brotyeu* diatneir
Un mab Meir diweir o'r geir goreu.
Gr. ab Meredydd: M.A. i. 472 (cf. 439, 460).

Cadeirieu yw eistedhüae y cyfeistedho y Creawtyr udunt wrth wneuthur y *vrodieu* ae gyfreitheu yndunt.
Hengwrt Ms.

Onid ych chwi ynoch eich hunain yn gwneuthur dosparth, ac aethoch yn frawdwyr *brodiau* drwg?
Esg. R. Davies: Iago ii. 4.

Fe weryd wirion yn y *frawd*
Rhag enllib tafawd adgas.—*Gro. Owain*, 113.

Da y buasai cael gweithred seneddol yn cynnwys *brodiau* eglur ar bynciau amaethyddiaeth.
Aneurin Owen: Amaethyddiaeth, 6.

Dydd brawd (often erroneously written *dydd-brawd*), the day of judgment, doomsday.

Dimedichat guetig hit *did braut.*
Codex Lichfeldensis (Liber Land. 271).

Guedic deduit angunel in rid erbin *dit braut.*
Myv. Arch. i. 576 (cf. 579).

Am honno y mae Gwythyr mab Greidawl a Gwynn mab Nud yn ymlad bob duw kalan mei vyth hyt *dydbrawt.*
Mabinogion, ii. 212.

Llyma yr arwydon a vydant y pymthec niwarnawt kyn *dyd brawt.* a gauas Morud esgob o lyureu sein Ieronym.
Hengwrt Ms.

Cymmeryd diofryd brawd, to undertake the decision of a sentence; to assume judicial functions.

Heuel ar doythyon . . . adodassant eu hemendyth ar er egnat a kemero *dyofryt braut* ac ar er argluyt ay rodhei ydau ar ny uypey teyr kolheuen kyfreyth a guerth guellt adof apop pedh.—*Cyfreithiau Cymru*, i. 2.

Brawd gyhoedd, a public judgment.

Brawd a chyfraith, judgment and law.

Brawdaidd, *a.* [brawd, *m.*] brotherlike.

Brawdfa, -on, -oedd, *sf.* a tribunal, a judgment-seat, a judicatory.

Rhaid i'r cryf orthrechu'r gwan,
Rhaid i'r traws gael mwy na'i ran;
Ni lefys y tlawd mewn un fan,
Och, druan! gwyno;
Hyd oni ddelo *brawdfa* ddydd,
Heb na gwad, na chel, na chudd,
Ac yno ceir clywed rhai'n yn brudd,
Yn wylo.—*Wmffre Dafydd ab Ifan.*

Brawdfaeth, -od, -i, *sm.* [an improper compound for *brawd maeth*] a foster-brother.

Paham y gwnewch chwi lewenyd kymeint a hwnnw yr gwr aladawd awch *brawtuaeth*.—*St. Greal*, § 121.

Trist yw ynof cof kawt erbyn ymbryd
Yr *brawduaeth* Llywelyn.
Cynddelw: M.A. i. 253 (cf. 278, 418).

Brawdfaethi ŷm ni o'n iaith,
Ac o un-waed ugeinwaith;
Minnau wnawn, bes mynwn i,
Foethau fwy na'm *brawdfaethi*.—*Hywel Dafydd ab Ieuan.*

Brawdfaethu, *v.* to foster as a brother; to bring up together.—*P.*

Brawdfaethwr, wyr, *sm.* one that takes a foster-brother.—*P.*

Brawdfainc, feinciau, *sm.* a judgment-seat, a tribunal.

Onid ydynt y cywaethogion yn eich gorthrymu chwi wrth drawsder, ac anyd ynt wy yn eich tynu chwi gar bron y *frawdfainc*?—*Esgob R. Davies:* Iago ii. 6.

Brawdgar, *a.* loving a brother; brotherly.

Cofiwch fi yn *frawdgar* at Lewys Hopcin a Sion Bradfford, ac at ereill a'm caro fel ag yr ydwyf.
Dafydd Nicolas (Y Taliesin, i. 95).

Brawdgarol, *a.* brother-loving; brotherly.

Brawdgarwch, *sm.* brotherly love; brotherliness.

Parhäed *brawdgarwch*.—*Heb.* xiii. 1 (cf. 1 Thess. iv. 9).

Dyma'r adeg oreu oll o'm blaen, sef ar noswaith eich cyfarfod, pryd y mae rhan fawr o honoch wedi ymgynnull trwy 'undeb a *brawdgarwch*.'—*Gronwy Owain*, 329.

Brawdiad, -au, *sm.* a judging; a sentencing.

Brawdio, *v.* [brawd, *f.*] to pronounce judgment or sentence.

Gwae a dreulio'n ofer ei amserau
Gwae frawdwr a *frawdio* gam farnau,
Gwae raglaw ai ruglon ddirwyau.
Gr. Ynad Coch: M.A. i. 517.

Brawdladd, *v.* to commit fratricide.

Brawdladd, leiddiaid, *sm.* a fratricide, a brother-killer.

Brawdladd, -au, *sm.* fratricide, the killing or murdering of a brother.

Brawdladdiad, -au, *sm.* fratricide, a murdering of a brother.

Brawdladdwr, wyr, *sm.* the killer or murderer of a brother; a fratricide.

Brawdlan, -au, -oedd, *sf.* a tribunal.

Gwr ygkroc ygkroes bedryvan
Gwr a wys a vrys y *vrawtlan*
Ef a daw nyt attaw ef attan.—*Casnodyn:* M.A. i. 431.

Brawdle, -oedd, *sf.* [brawd (*f.*)+lle] a tribunal, a judgment-seat, a judgment-place; a court of judicature.

Rhaid i ni oll ymddangos ger bron *brawdle* Crist.
2 *Cor.* v. 10 (cf. Act. xviii. 12, 16; Iago ii. 6).

Ni sonir mwy am Aristotl yn yr ysgolion; nac am Ulpian yn y *brawdleoedd;* ni ddarllenir Plato mwy gan y dysgedig; ac ni ddilynir mo Cicero gan yr areithwyr.
Gr. Wynn: Ystyriaethau, 104.

Brawdleiddiad, iaid, *sm.* a fratricide.

Brawdlyfr, -au, *sm.* a law-book; a book of legal decisions.

Canys diledyf gyffredin vyd yr awdurdaut sef yw hynny *brawtlyuyr*.—*Cyfreithiau Cymru*, i. 374 (cf. 372).

Brawdlys, -oedd, *sm.* a court of judicature; assizes, sessions.

Terfynodd *brawdlys* Caerfyrddin, dydd Sadwrn, Ebrill 28.—*Seren Gomer*, iv. 186.

Dywed Landt . . . fod y cyfarfodydd mawrion, a elwir gan rai yn *frawdlysoedd* y brain, i'w gweled weithiau yn yr ynysoedd hyny.—*Cylchgrawn*, i. 162.

Brawdlys trimisol, quarter sessions.

Nid oedd nemawr o bwys i'w drin ym *mrawdlys trimisol* diweddaf Mynwy. Ym *mrawdlys trimisol* diweddaf Trefaldwyn, cafwyd pump dyn yn euog.—*Seren Gomer*, iii. 90.

Brawdlysol, *a.* relating to assizes; assize-.

Un o'r pethau mwyaf nodadwy a ddygwyddodd i'r Dywysogaeth yn y dyddiau hyn, ydyw, y cyfnewidiad yn y dull o weini cyfraith yn y brawdlysoedd, trwy gymhwyso dull swyddi Cymru at eiddo rhai Lloegr. Dyweda y rhai ydynt hyddysg yn y gyfraith, fod y dull newydd yn hawsäu trafodiadau *brawdlysol*, ac yn hyfforddi gweinyddiad cyfiawnder.—*Carnhuanawc:* Han. Cym. 794.

Brawdmaeth, -od, *sm.* [for *brawd maeth:* cf. *tadmaeth, mammaeth*] a foster-brother.

Manaen, *brawdmaeth* Herod y tetrarch.—*Act.* xiii. 1.

Brawdog, *a.* relating to judgment.

Brawdol, *a.* brotherly, fraternal.

O herwydd iddynt hwy roddi i fyny gwbl o'r gaethiwed i Edom, ac na chofiasant y cyfammod *brawdol*.—*Amos* i. 9.

Mewn serch *brawdol* diwahanol.—*Gro. Owain*, 104.

Cariad brawdol, brotherly love.

Mewn *cariad brawdol* byddwch garedig i'ch gilydd.
Rhuf. xii. 10 (cf. 2 Pedr i. 7).

Brawdoldeb,
Brawdolrwydd,
Brawdolder, } *sm.* brotherliness; fraternity, brotherhood.

Tri chyfrwym gwlad a chenedl: tadoldeb, maboldeb, a *brawdoldeb*. Sef tadoldeb, teyrnedd yn gofalu, ac yn lluniaethu, ac yn diwallu, er caingynnal brodoriaeth; maboldeb yn ufuddhau i'r tadoldeb, er trefn a dosparth gyfiawn; a'r *brawdoldeb* yn ogydbwyll â'r ddau ereill yn eu lleoedd, yn ymgynnorthwyaw er cadarnhau cymmrawd ar wlad a chenedl, a theyrnedd ddosparthus.
Trioedd Doethineb: M.A. iii. 287.

Brawdoldeb at bob dyn o'r byd,
Holl ynni'r bryd yn heddwch.
Iolo Morganwg: Salmau, II. lxiii. 3.

Brawdoliaeth, -au, *sf.* brotherhood, fraternity; fellowship.

Mi a dorais fy ail ffon, sef Rhwymau, i dori'r *brawdoliaeth* rhwng Iudah ac Israel.—*Sech.* xi. 14 (cf. 1 Pedr ii. 17).

Ond f'allai'ch bod chwi'ch hun yn un o'r freiniawl *frawdoliaeth*.—*Gronwy Owain*, 272.

Brawdor, -ion, *sm.* a brother; an associate. See *Brodor*.

Brawdor, -ion, *sm.*=*Brawdwr.*

Brawdoriaeth, -au, *sf.* [brawd, *m.*] brotherhood, fraternity; fellowship.

Erchi awnaf itt yr y *vrawdoryaeth* ysprydawl yssyd y rom. ac yr y ffyd yssyd itt wrth Duw dywedut ymi yn digelwyd a vu ohir dyuot yr angel attat yny mod y dywedy di.
Amlyn ac Amig, 1106.

Y Ffreiers, megys y monachod, ydynt yn byw yng nghyd yn *frawdoriaethau* neu yn finteioedd trwy yr holl wledydd Pabaidd.—*Sim. Tomas:* Hanes y Byd a'r Amseroedd, 195.

Brawdoriaeth, -au, *sf.* [brawd, *f.*] judicature; judgment.

Yna ydd athoedd Iesu ein Harglwydd i mewn i neuadd y *frawdoriaeth;* ac yno ydd oedd ereill o ringylliaid â chanddynt frysgyllod yn eu dwylaw, ac ar y rhai hyny ydd oedd delwau euraid ar lun yr ymherodr Caisar.
Daf. Fychan: Efengyl Nicodemus, i.

Brawdoriol, *a.* fraternal, brotherly.

A gwedy eu dyuot ygyt pob un onadunt aaeth dwylaw mynwgyl ygilyd. ac o *vrawdoryawl* garyat pob un aressawawd ygilyd onadynt.—*Mabinogion*, iii. 300.

Brawdwr, wyr, *sm.* [brawd, *f.*] a judge.

Tri amheu braut yssyd: vn yw bot amrysonn rwg hawlwr ac amdiffynnwr am y varnn arodet vdunt ac yna ymae y dosparth ary *brawdwyr* aerodassei; eil yw bot amryssonn rwg haulwr a *brawdwr* ac ymwystlaw am y varn; trydyd yw bot ymwystlaw rwg amdiffynwr a *brawdwr* am y vrawt.
Cyfreithiau Cymru, i. 374.

Brenhinedd y ddaiar a'i holl bobloedd
Tywysogion a *brawdwyr* y gwladoedd.
Dafydd Ddu Hiraddug: M.A. i. 565.

A bu, yn y dyddiau yr oedd y *brawdwyr* yn barnu, fod newyn yn y wlad.—*Ruth* i. 1 (cf. Esa. iii. 2).

Brawdwr llys, judge of the (king's) court. He was the fifth officer in rank.

Brawdwr llys adyly rann gwyr oaryant daereteu. Ef adyry pob brawt or aberthynno yr llys.
Cyfreithiau Cymru, i. 368.

Brawdwraidd, *a.* judicial; legal.

Llariaidd, *brawdwraidd* byd Bryderi.
D. ab Gwilym, ccxxxi. 18.

Brawdwriaeth, -au, *sf.* brotherliness.

Er meithrin *brawdwriaeth*, mammaethu cydundeb, a chynnal tangneddyf.—*H. Perri:* Egl. Ffr. xlv. 2.

Brawdwriaeth, -au, *sf.* the office of a judge; jurisdiction.

Maur drygeu brydeu *brauduryaeth*.
Cynddelw: M.A. i. 250.

Greid bleid blygawd
Gretyw detyf durawd
Gnavd *brawdwriaeth*.
Cuhelyn: M.A. i. 164 (cf. A.B. ii. 6).

Brawdws, *sm.* [dim. of *brawd*] a fond or familiar word for *brawd*, a brother.

Brawdyn, *sm.* [dim. of *brawd*] a little brother, fraterculus.

Eto o nwyf it', fy nyn,
Difrodi dy wir *frawdyn*.—*D. ab Gwilym*, cix. 3.

Dau anwylyn dynoliaeth,
Brawdyn a gelyn, nid gwaeth.—*Dewi Wyn:* Blod. Arf. 79.

Brawdd, *pl.* brawddau, broddau, *sf.* a sentence; a phrase.

Dyna'i geirdd, teleidion gwawl,
Broddau enaid barddonawl.—*Robert Owen:* Gweith. 295.

Brawddaeg, -au, *sf.*=*Brawddeg*.

Deurith ddullwedd ymadrawdd neu ffugr y sydd: yn gyntaf, llunwedd neu ffugr gair; yn ail, llunwedd neu ffugr *brawddaeg*.—*H. Perri:* Egl. Ffr. xix. (cf. xv, xx.)

Brawddeg, -au, *sf.* a sentence (in grammar); a period.

Edryd yw ffugr, pan adroddir yr un sain yn nechreuad y *brawddegau*, neu y synwyrau.
H. Perri: Egl. Ffr. xxvi. (cf. xxi, xxvii.)

Y cyssylltiad, yn ol ei enw, a ddodir rhwng rhanau *brawddeg*, neu rhwng *brawddegau* cyfan, er dangaws eu hamryw berthynasau.
W. O. Pughe: Cad. Iaith Gym. III. iv. 1.

Gwahanol ranau synwyreb gyfansawdd a elwir *brawddegau*.—*D. E. Jones:* Ieith. Seis. 86.

Brawddegol, *a.* sentential; pertaining to or consisting of a sentence or full period.

Yn yr areitheb gyntaf y mae tair trawsymddwyn; sef, drain, ller, ac imp; a chan ei bod mewn un synwyr *brawddegawl*, hi a elwir dychymmyg arallegus.
H. Perri: Egl. Ffr. xv. (cf. xx.)

Brawg, *sm.* [O.Ir. *bráge*, *brágat*] the neck or throat.—*Ms.* In the following quotation both reading and meaning are doubtful:

Bet Siavn Syberw in hir erw minit
Y rug guerid ae derv
Chwerthinauc *brauc* [*al.* braut] brid chverv.
Beddau Milwyr: M.A. i. 82 (cf. A.B. ii. 34).

Brawl, *pl.* broliau, *sm.* boast, vaunt, brag; idle or noisy talk. Generally pronounced *brol* in N.W.

Ni wna' *brawl*,
Mae trawst ar fy llygad draw,
Ni chaf weled i chwiliaw.—*Gr. ab Hywel ab Tudur*.

Brawn, *sm.* a growth or produce; what is strong, muscular, or brawny.

Dewr yw Sion, a dyrys yw,
Drwy gedyrn y draig ydyw;
Oen diddig, oni ddigier,
Obry'n eu mysg, *brawn* a mer,—*Ieuan Gethin*.

Rhoi nodded o'i rhinweddau,
Brawn y glod, mae Bronwen glau.
Rhys Jones: Gwaith, 257 (cf. 230).

Brawn y ddaiar, vegetable soil or tilth.

Brawn mesyryd, the fruit or produce of autumn.

Ystryw pur i fyw, porfeydd yng nghyd,
Yd, *brawn mesyryd*, mes irwydd;
A'r pysg irion o'r afonydd.—*Tudur Aled*.

Brawn pysg, the spawn, sperm, or hard roe of fishes.

Brawn morfil, spermaceti.

Cais bwys dwy geiniog o *frawn morfil*, a elwir yn y Lladin spermaceti, a phedair ceiniogbwys o rwd gwyrdd, a phwya 'n dda ac yn fân, a rho am ben peint o laeth gafr, a hidla 'n lân drwy liain crai, a dyro i'r claf i yfed ar hen gwrw da.—*Meddygon Myddfai*, ii. 270.

Brawn y llaw, the brawny or muscular part of the hand.

Brawniog, *a.* [brawn: E. *brawny*, †*bravni*, *brauni*] brawny; musculous; strong.

Af, myn diawl, â phawl â phig
I geryddu gwar Eiddig,
Brawniog, am guro Bronwen,
O drais a ffull dros ei phen.—*Rhys Jones:* Gwaith, 246.

Brawu, *v.* to frighten, to terrify.

Glân ydoedd oll o fewn; dim adloes gas,
Na dim ofnadwy ddisgwyl drygau draw,
I *frawu* ei heddychaf fron.—*Iago Trichrug:* Bedd.

Hoew long ar wynlas li a hwylia,
Nwyf ar y blaen, a Boddiant wrth y llyw,
Nas *brawa* gorwynt, bryw ei frythiant.
W. O. Pughe: Bardd, ii. 2.

Brawychdod, -au, *sm.* fright, terror, dread.

Breuddwyd tost pan briddwyd hwn,
Brawychdod i Ann Brychdwn.—*Sion Tudur*.

Brawychiad, -au, *sm.* [bräwch] a terrifying or frightening; a dismaying.

Brawychol, **Brawychus**, *a.* terrifying, frightening, intimidating, scaring; terrific, dreadful, terrible.

Yr oedd golwg ddychrynllyd ar y bachgen yn ei wely . . . y chwys yn ddyferynau mawrion yn ymdreiglo dros ei ruddiau; ei wefusau yn grasedig; ei dafod yn olosgedig; a'i ddwylaw yn ymrwyfo yn *frawychus* yma ac acw!
Brutus: Brutusiana, 263.

Brawychu, *va.* 1. to terrify, frighten, intimidate, or dismay.

Braw a'i *brawycha* ef o amgylch.
Iob xviii. 11 (cf. vii. 14; xv. 24).

2. to be affrighted, intimidated, or afraid.

A *brawychu* a wnaethant oll gan fawredd Duw.
Luc ix. 43 (cf. xxiv. 37; Marc x. 32).

Brawychwr, wyr, **Brawychydd**, -ion, *sm.* one who frightens, terrifies, or dismays.

Bre, -on, *sm.* [C. *bre;* Ir. *bri;* Ga. *bráigh*, *bruach;* O.E. *bray*, *braye*] 1. a hill; a mount or mountain; a peak; a promontory. It enters into the names of several hills or small mountains in Wales; as, *Moelfre* (in Cardiganshire, Carmarthenshire, Anglesey, and Denbighshire); *Mynyfre* and *Penbre* (in Carmarthenshire). It occurs also in Cornwall as *bray*, *bra*, or *brea;* and as *brae* or *bray* in Scotland.

Hwyr hydd diwlydd *bre*
Eiddil hên hwyr yd re.
Llywarch Hen: M.A. i. 115 (cf. 30, 62, 161).

Madawg ai ceidw can urdas
Bryn diormail diormes
Bre uchel braint ardangos
Lle trydar Llech ysgar llys.
Cynddelw: M.A. i. 211 (cf. 81, 215, 281).

Dolyt Caer Llion deil lliaws *bre*.
Llyw. ab Llywelyn: M.A. i. 292 (cf. 288, 299).

Lluwch ar *fre*, a godre gallt,
A brig yn dwyn barrug-wallt.—*D. ab Gwilym*, ccliii. 9.

Caf rodiaw draw ym mhlith drain,
A dilyd hen flodeu-lain,
A rhodiaw yn y rhedyn,
Ymyl *bre*, a phen moel bryn.—*Hywel Llwyd.*

Chwaith *bre* Amara, i hil
Breninoedd Abyssinia drefed yw.
W. O. Pughe: C.G. iv. 313.

Pob *bre*, pob ceimle cwmlyd,
A wnair i ddwyn gwair ac yd.
Dewi Wyn: Blodau Arfon, 58.

2. a shoemaker's last.—*Pughe*, s.v. *Pren.*

Bre, *a.* high, lofty, elevated, towering.

Delwat dieirydaf y erry par ar delw rwysc rwyf *bre.*
Gorchan Maelderw: A.B. ii. 99 (M.A. i. 85).

Hawd vu y charv oe chaer newyd
Hwyl orne heul *ure* ar vrohyd glasuor
Pan vyd gloyw goror gorwymp lethryd.
Iorwerth Fychan: M.A. i. 415 (cf. 407).

Bread, -au, *sm.* [im.] a bray or braying; a harsh sound.

Nid hafal dy ffrinc a'th glesyddiaeth un organ na thelyn; a *bread* arswydus yw melusaf lais a cherddi'r adar celfyddgainc lle y bôt.—*Iolo Mss.* 175.

Brean, *v.* [im.: cf. *brëu, brefu*] 1. to bray (as an ass).

2. to make a harsh or disagreeable sound.

Brean gan faint ei brawiau.—*Deio ab Ieuan Du*, i'r Wylan.

Breb, *sm.* 1. a noise; clamour.

2. a noisy person, a rattler, a gabbler.

Y *breb* sy hagr o ragrith;
Eto *breb* a wna dŷ brith.—*Rhys Cain.*

Breban, -od, *sm.* a noisy, clamorous, or rattle-headed person.—*Gwent.*

Brebast, -iaid, -od, *sm.* [bre+post?] a big, clumsy fellow; a lout or bumpkin.—*Dyfed.*

Brebwl, byliaid, *sm.* a dunce, a blockhead, a dolt.

Nac yn *frebwl*, nac yn freibiwr,
Am un gwirion y mae'n garwr.
W. Midleton: Salmau, xv. 5.

A rhoi'r adfwl, *brebwl* brau,
Was bodiog, wrth sibedau.—*Rhys Jones:* Gwaith, 285.

Brecan, -au, *sf.* [allied to *brech, brych;* Ir. and Ga. *breacan*, from *breac*] 1. a plaid; a versicoloured covering or garment. See *Brycan.*

Breccan brenhin wheugeint atal. *Breccan* breyr trivgeint atal.—*Cyfreithiau Cymru*, i. 580 (cf. 76, 294, 296).

Tri anhebgor boneddig cynnwynawl: *brecan;* telyn; a challawr.—*Cyfreithiau Cymru*, ii. 562 (cf. 76. 294).

Tri pheth ni renir ag arall: cledd; cyllell; a *brecan.*
Cyfreithiau Cymru, ii. 562 (cf. i. 580, 722).

2. a coverlet, a rug.

Breckan lwytgoch galetlom toll adannwyt arnei. a llenlliein vrastoll trychwanawc ar uchaf y *vreckan.*
Mabinogion, ii. 374.

Brecäu, *v.* [brag] to mash malt (in brewing).—*Th. Richards*, s.v.

Breci, ïau, *sm.* [brag+gwy] 1. wort, ale-wort.

Brecci bonedd llynn
A llwyth lloer wehyn.—*Taliesin:* M.A. i. 38.

Ceraint Feddw ab Berwyn a wnaeth gwrw brag gyntaf yn iawn fal y dylai; a thyma'r ffordd y gwnaeth ef y cwrw: wedi berwi y *breci*, a berwi ynddo flodau'r maes a mêl, fe ddaeth baedd, ac a yfodd o'r cwrw, a bwrw ei ewyn a wnaeth y baedd ynddo.—*Iolo Mss.* 6.

Cymmer reol y rhafnwydden, a gwasg eu sudd, a dod ddwy lwyaid o hono am ben llwnc syched o *freci* cwrw da, ac yf; ac oni chynhyrfa, yf lwnc arall o'r *breci* heb sudd y greol.—*Meddygon Myddfai*, ii. 97 (cf. 99, 113, 147, 527).

Breci melus, sweet wort.

Breci cwrw, ale-wort.

2. a decoction, infusion, or solution.

Breci gwair, a decoction of hay; water in which hay has been boiled (generally given to calves).

Breci llin, a decoction of linseed.

Breci llin i'r lloi pan a'u tyner oddi ar eu mamau.
Llanover Ms.

Breci y barcer, the liquor of a tan-vat, tanyard ooze.

Cafn breci=*Brecigafn.*—*Cyfreithiau Cymru*, i. 302.

Brecigafn, -au, *sm.* wort-vat, ale-vat.

Brekycauan due keynnyauc [a tal].
Cyfreithiau Cymru, i. 302.

Brecini, *sm.* according to Davies, the same as *breci* ('cervisiæ liquor incoctus'), and Pughe's definition is nearly to the same effect: 'the head, or froth of wort; despumation;' but more probably it is a slightly varied form of *brycini* (from *brwg*), q.v.; having no connection with *breci* or *brag;* but rather allied to Eng. *brake.*

Closiwyd ar fodd clo Essyllt
Cneuen, fab gwinwydden wyllt;
Cylchodd hon, llun cloch oedd hi,
Caenen megys *brecini.*—*Llawdden*, i Gneuen.

A'i gwydraidd blwm i'w godrau,
A thramwy hon i'w thrymhau;
Fry yn bert yw dwyfron barch
Obry'n gau wybren gywarch;
Gwe deg i anrhegu dyn,
Gannaid fal diliau gwenyn;
Brwydrai 'r dwr, bwriad ar dant,
Brecini Aber Ceunant;
Llurig o waith llaw wrol,
Llaes ei hun, llawes o'i hol.
Mer. ab Rhys, i Rwyd (Iolo Mss. 322).

Brech, *pl.* brychion, *af.*=*Brych, m.*

Brech, -au, *sf.* [=brech, *f.* of *brych:* Br. *breac'h;* Ir. and Ga. *breac*] any pocky eruption; a pox; any spotted or pimpled disease of the skin; a rash; an eruption; exanthemata, petechiae, vibices; vaccine lymph or virus.

A da'r feddyginiaeth hon a'r un uchod i wared rhag pob echryshaint, ai chwys, ai cornwyd, ai *brech*, ai'r mwyth du, ai'r fad felen y bo.—*Meddygon Myddfai*, ii. 678.

Y frech goch, the measles.

Y frech wen,
Y frech folog, } the small pox.

Bernir i'r *frech wen* gyrhaedd Brydain tua dechreuad y nawfed canrif.—*Cylchgrawn*, i. 55.

Y frech fawr, the venereal disease, lues venerea.

Y frech Ffrengig, the French pox, lues venerea.

Y frech las, (1) the chicken-pox. (2) bluish eruptions sometimes appearing in small pox. —*Dyfed.*

Y frech ddu, (1) blackish eruptions sometimes attending the latter stage of small pox, especially when it proves fatal.—*Dyfed.*

Aeth rhyw wisg i'th oresgyn
O'r *frech ddu*, a'r fraich oedd wyn.
Tudur Aled: G.B.C. 231.

(2) a black scall or scab. Cf. *Lef.* xiii. 30—37.

Brech y cwn, dogs' mange.

Brech y moch, the swine-pox.

Brech yr ieir, the chicken-pox.

Brech yr Iuddewon, the leprosy.

Brech y fuwch, the cow-pox.

Y mae pla y frech wen, cyn yr amser y cafwyd allan effeithiau *brech y fuwch*, wedi bod yn fwy dinystriol na'r pla crybwylledig.—*Cylchgrawn*, i. 55.

Cymmerodd plentyn y frech wen a *brech y fuwch* yr un pryd.—*Seren Gomer*, iv. 287.

Brech yn y gwaed, eruptive poison in the blood.

Cymmeryd eu sudd yn unig ddiod yn y gwanwyn a'r haf a lwyr ddinystra'r *frech yn y gwaed* a'r llynor, yr hwn yw achos pob tarddant, a chrach, a chornwydon, a'r maenwynon, a'r ddarwyden fawr, a'r cancar, a'r iddwf, a'r ysgyfeinglwyf, a'r dyrglwyf, a'r gymmalwst, a'r gwst mawr, a'r tostedd, a phob mwyth a tnwymyn, a phob *brech* ar gnawd a chroen.—*Meddygon Myddfai*, ii. 795 (cf. 571, 756).

Ol y frech, pits or marks of the (small) pox.

Y mae ol y frech arno, he is pitted by the (small) pox.

Brechdan (*ā*), -au, *sf.* [brech+tan (=taen)?] a slice of bread and butter; bread and butter.

Tri pheth a gâr fy nghalon eu gweled: mêl ar fy *mrechdan;* wyneb y ferch a garaf; a chebystr am wddwg Sais.
Trioedd Doethineb: M.A. iii. 255.

Cymmer yn unig fwyd, *brechdan* bara can gwenith a mêl; ac yn unig ddiod, llaeth bronau gwraig ifanc iachus.
Meddygon Myddfai, ii. 124 (cf. 121, 305, 336).

Brechdan fêl, a slice of bread spread over with honey (instead of butter, or in addition to it): hence the proverbial expression, *Fel mêl ar ei fara*, like honey on one's bread.

Yno byddwn sicr o gael fy llawn hwde ar fwyta *brechdanau o fêl*, triagl, neu ymenyn, neu yr un a fynwn o'r tri rhyw.—*Gronwy Owain*, 183.

A ddêl i Wig Llanfigel,
I'w fwyd caiff *frechdan o fêl*.
L. Morys: Didd. Teuluaidd, 192.

Brechdan driagl, a slice of bread with treacle thereon; bread and treacle.

Brechdan o ddyn, a soft, cowardly fellow. *Yr hen frechdan!*—*C.S.*

Brechlyd, *a.* having eruptions; eruptive; pocky; scabby; pimpled, pimply; measly.

A'r feddyginiaeth hon a'r un uchod a iacha'r frech yn y gwaed a'r llynor, a'r maenwynon, a'r darwyden fawr, a elwir yn Lladin yscabies, a phob gwenwyn *brechlyd* yn y gwaed a'r llynor.—*Meddygon Myddfai*, ii. 412.

A'r Iesu hwn, drwy dwyllwybodau, y sydd yn iachäu cleifion o lawer dolur, yn ddeillion, ac yn efryddion, ac yn gloffion, ac yn geimion, ac yn *frechlydion*.
Dafydd Fychan: Efengyl Nicodemus, i.

Brechlydrwydd, *sm.* pockiness.

Antwninws a'i arferai bob cwymp a phob attardd dail, ac a waredai o hyny bob *brechlydrwydd* gwaed a llynor, yr hyn yw achos goresgynawl pob dolur tardd a chrawn yng nghorff dyn.—*Meddygon Myddfai*, ii. 756 (cf. 799).

Brechlys, *sm.* and *cl.* common chickweed (*Stellaria media*).—*H. Davies:* Welsh Bot. 42, 160.

Morsus galina, gwlydd, *brechlys*, y llynorllys.
Meddygon Myddfai, 289.

Brechog, *a.* pocky; full of eruptions; pimpled; freckled; measly.

Brechol, *a.* eruptive; that is of the nature of a pox; relating to rash.

Brediad, -au, *sm.*=*Brydiad?*

Por kor karyat per y *vredyat* pur y vrodyeu.
Gr. ab Meredydd: M.A. i. 469.

Bredych, -au, *sm.* [brad?] fright, terror, fear, dread; surprise.

Ef a edey yn ol Rolant ar deudec gogyfurd y gyt ac ef ual y bu deuawt gantaw eiryoet y amdiffin y rei blaen rac *bredycheu*.—*Yst. de Carolo Magno*, col. 471.

Ac wynteu a lunyant *bredycheu* dan y mor.
Brut Gr. ab Arthur: M.A. ii. 265 (cf. 266).

Gwander gwir pryder brad fynych cywyd
Anghadernyd bryd wrth a *bredych*.
Madog ab Gwallter: M.A. i. 404.

Iosep heb ef. paham na rody ti dy vab y dyscu dysc dynyawl. ac wrth hynny diogel bot yn well genwch ot gwn dyscu och mab. nogyt arhos *bredycheu* hyneif y bobyl.
Buchedd Mair, § 26.

Hyd yny ydyw llawer o'r broder yn yr Arglwydd yn hyderusach o blaid fau rhwymau i, ac yn llyfasu yn ddiofnusach [* llai *bredych*] draethu'r gair.
W. Salesbury: Philip. i. 14.

Terror, braw, †*brydych* (Dimet. *bredych*), dychryn, ofn, arswyd. Fear, dread, terror.—*Ed. Lhwyd:* Arch. Brit. 162.

¶ Davies considers *bredych* the same as *brad*, and Pughe renders it 'prodition;' but no decided instance of it with that meaning has occurred to me. It is in colloquial use in S.W. at the present day in the sense of fear or terror, but not in that of treachery.

Bredychawd, *sm.* [=bradychawd] perfidy, treachery.

Ragorwn greuyt a fyt a fawd
Rac agheu lledrad brad *bredychawd*.
Einion ab Gwalchmai: M.A. i. 332.

Bredychol, *a.* 'proditious; perfidious.'—*P.*

Bredychu, *v.* [=bradychu] to betray; to deceive.

Eilweith wynt a *vredychasant* Emrys Wledic. wynt a *vredychasant* Arthur pan duunassant a Medrawt i nei.
Brut Gr. ab Arthur: M.A. ii. 370 (cf. 95).

Er pan deuthant e Saeson en gyntaf yr enys hon en wastat e maent en *bredychu* en kenedyl ni.
Brut Gr. ab Arthur: M.A. ii. 382 (cf. 266, 269).

Ymaruoll vch benn creireu awnaethant hyt na hedychei vn ar brenhin heb y gilyd, ac na *vredychei* vn o nadunt y gilyd.—*Brut y Tywysogion*, 94.

Ac yn y dydyeu hynny y *bredycha* brawt y llall y agheu.
Prophwydoliaeth Sibli, § 12.

Bredychus, *a.* [=bradychus] treacherous, traitorous, perfidious; false.

Beth a rodder i tithau beth a chwanegcaer
Ar *fredychus* dafawd wrth ei ddrwg ai ddifer.
D. Ddu Hiraddug: M.A. i. 567.

Bredychus, *a.* [bredych] inspiring fear or terror; frightful, fearful, dreadful, terrible.

Gorchymynnwys Chyarlymaen y bop gwr march dodi pennwisc o liein a bretnyn y gudyaw eu llygeit rac gwelet y gwasgodyeu diawlic hynny. a bydaru eu clusteu rac clybot y lleisseu uffernawl keluydyt enryued yn diannot gwedy gwarchae clusteu y meirch ac eu llygeit y kyrchassant yn hy gan ysgaelussaw eu lleisseu *bredychus*.
Yst. de Carolo Magno, col. 405.

Breddyn, -ion, *sm.* [bre or bry+dyn; cf. Zeuss. G.C. 86; but I can trace the word no further back than Pughe (1793) and W. Richards (1798), the latter probably adopting it from the former] a freeholder, a yeoman; 'one qualified to be on the hill, or in court.' —*P.*

Brëen, *sm.* supremacy.—*P.* Probably a fictitious word, as it is not known to occur anywhere. *Breein*, in an obscure passage of the *Gododin* (567), seems to be intended for *brein* (which is the reading of several Mss.)=*brain*, crows or ravens.

Brëenhin, -edd, *sm.*=*Brenin*, *Breienin*.

Goruir Edwin. guraul *breenhin*. dilywin denvy.
Myv. Arch. i. 579 (cf. Lib. Land. 113).

Gorev *breenhin* ar gorllewin. hid in Llundein.
A.B. ii. 40 (cf. M.A. i. 579).

O Freidin *freenhin* freidgar
O Fadawg o'i fod yn daear.—*Gwalchmai:* M.A. i. 201.

Breiniwys gwr ai medd
Braint y teyrnedd *breenhin* Gwynedd.
Dafydd Benfras: M.A. i. 318 (cf. 307).

Brëenhiniaeth, -au, *sf.*=*Breniniaeth.*

Kynytwn vinheu heb sswysseu saeth
Kan an Duw ury *vreenhinyaeth.*
Llywarch ab Llywelyn: M.A. i. 307.

Bref, -au, *sf.* [im.: C. *brivia*] a lowing; a bleat or bleating; a bray or braying.

Aml y clywid llafar ffust, ac olwyn, a bwyall; aml *bref* gwartheg a defaid; ac aml cerdd gan fardd a serchog.
Iolo Mss. 223.

Bref asyn, the bray of an ass.

Bref buwch, the lowing of a cow.

Bref llo, the bleat of a calf.

Bref dafad (*oen, gafr*), the bleat of a sheep (a lamb, a goat).

Brefad, *v.*=*Brefu,* q.v.

Cwrseriaid euraid yn gweryrad,
Cyrn, bwa i ryfel, ceirw yn *brefad.*—*L. G. Cothi,* 1. ix. 37.

Awn â'r ddau ych fawr o'r arad,
Rhag i'r naill o'r ychen *frefad.*
Rhys Prichard: C. y C. cxxxvi. 52.

Brefai, *sm.* and *cl.* pennyroyal (*Mentha pulegium*). —*Hugh Davies:* Welsh Bot. 160.

Brefan, -au, *sf.* [breuan] a lump, mass, or print of butter.

Brefant, } annau, antau, *sf.* [bref, brëu: C.
Breuant, } *briansen* (=brianten); O.W. *brouant;* Ir. *bráge, braighe, brágat*] the windpipe, the trachea.

A minnau, pan na mynwn,
I'th *frefant* faw cant o'r cwn.—*Iolo Goch,* i Wyddelyn.

Tores giau ei *freuant,*
Ni thyr coed i wneuthur cant.—*Ieuan Gethin:* G.B.C. 126.

A phan welas y bugeil hynny . . . disgyn y bugeil yr llawr. ac a dyrr *breuant* y baedd a chyllell.
Doethion Rhufain, § 11.

Nid ânt o'i *frefant* a'i fron
Heb ladd lleidr, bleiddiau llwydion!
Bedo Phylip Bach, i Fytheuaid.

Yna Pawl a welas gyr bron pyrth uffern dderi tanllyt. ag wrth y keingkeu pechadurieit. ygkroc. rei onadunt gyr blew y penneu. ereill gyr y dwylaw. ereill gyr y *bruanteu.* ereill gyr y tavodeu. ac ereill gyr y breicheu.
Breuddwyd Pawl, § 1.

Gellir meddwl, gan y rhwnc mawr a wna rhai yn ardal eu *breuant,* eu bod yn ymwingo dan gyllell y cigydd.
Cwmwl, ii. 98.

Afal brefant: cf. s.v. *Afal* (2).

Brefanttrwch, } *sm.* tracheotomy, broncho-
Breuanttrwch, } tomy.—*W.*

Brefer, *a.* [bref] roaring; lowing; vociferous; loud, shrill.

Cethlydd cathyl-voddawg hiraethawg ei llev
Taith oddev tuth hebawg
Cog *vreuer* [*al.* vrever, ureuer] yn Aber Cuawg.
Llywarch Hen: M.A. 127.

Breferad, -au, *sm.* a bellowing; a braying; a roaring; a roar; a great noise.

Mi ae dangossaf itti dyn bychan heb ef. achymryt y ffonn yny law. atharaw karw a hi dyrnawt mawr. yny ryd ynteu *vreuarat* mawr. ac wrth y *vrefarat* ef y doeth o anniueileit, yny yttoedynt gynamlet ar syr yn yr awyr.
Mabinogion, i. 7.

Breferad yr wybr ferydd
A wnaeth i ni dori dydd.—*D. ab Gwilym,* xliv. 55.

Rhuo a wna â rhyw nad,
A briw ferw *breferad.*—*Iolo Goch,* i'r Tafod.

Breferad llew, the roaring of a lion.

Y llew oe *vreuerat* a vywhaa y genawon y trydydyd wedy y ganer yn varw.—*Campau Charlymaen,* § 48.

Yna y llew a wasgawd Clamados. . . Pan wybu Clamados y vriwaw yn drwc. ef a dwblawd y hyder yn gymeint ac y bu reit idaw roi *breuerat* aruthyr.
St. Greal, § 142 (cf. 192).

Breferiad, -au, *sm.*=*Breferad.*

Ae *breveryat* ae bront baryat ae brwnt beiryeu.
Gr. ab Meredydd: M.A. i. 469.

Brefiad, -au, *sm.* a lowing; a bleating; a braying; a roaring.

Pa ham yr arosaist rhwng y corlanau, i wrando *brefiadau* y defaid?—*Barn.* v. 16 (cf. 1 Sam. xv. 14).

Odyna y dynessa llew y wiryoned. ar *vreuiat* [printed *vreinat*] yr hwn yd ergrynant tyroed Ffreinc.
Brut Gr. ab Arthur: M.A. ii. 262.

Cyffelyb oedd ei lais i *frefiad* lloi ieuainc.
Gwyliedydd, iii. 106.

Y mae hyd heddyw, digon a digon, herwydd eithaf cydwybod, o'r cyfryw *frefiadau,* dan enw caniadau, ym mhob rhan o Gymru.—*Edward Dafydd:* Cyfr. y Beirdd, 6.

Breflys, *sm.* [cf. *brefai*] pennyroyal.—*Hugh Davies:* Welsh Bot. 160.

Pulegiwm, pigle [pigl?], y brymlys, *breflys,* coluddlys.
Meddygon Myddfai, 291.

Brefol, *a.* lowing; bleating; blatant.

Da brefol, lowing cattle.

Brefor, -ion, *sm.* one that lows, bleats, or brays; a bleater; a brayer.

Breforiad, -au, *sm.* a braying; a lowing.

Tri pheth anferth eu clywed: hogi llif; *breforiad* asyn; a dadwrdd meddwyn mewn tafarn.
Trioedd Doethineb: M.A. iii. 249.

Brefu, *v.* [bref: cf. Gr. *βρέμω*] to bleat; to bray; to roar.

Ac ual y *breuei* vn or deueit gwynnyon y deuei vn or deueit duon drwod. ac y bydei yn wenn. ac ual y *breuei* vn or deueit duon. y deuei vn or deueit gwynnyon drwod ac y bydei yn du.—*Mabinogion,* i. 274.

Ar y pyrth yr oed llewot mywn kadwyneu heyrn yn *breuu* ac yn gweidi yn kyn arwet ac y tybygit bot y fforest ar castell yn diwreidyaw ganthunt.—*St. Greal,* § 189.

Fel y *brefa*'r hydd am yr afonydd dyfroedd.
Salm. xlii. 1.

A *fref* ych uwch ben ei borthiant?—*Iob* vi. 5.

Brefwer, *a.* a variant, or rather a misreading, of *brefer* (written *brevuer* or *breuver*), q.v.

Brefwr, wyr, *sm.* a roarer; a brayer.

Brefydd, -ion, *sm.* one that lows, bleats, or brays; a roarer.

Breg, -au, *sm.* [cognate with E. *break* (†*breke*), which also occurs, slightly varied, in most of the Teutonic idioms: cf. Ga. *bragh;* L. *fragor, frango*] a break or breach; a rupture or fracture; a rent; a fissure; a blemish or defect.

Aryal bu gethal brif dial *brec.*—*Casnodyn:* M.A. i. 421.

Nat na thwyll na brat ar dy brydyd
Nat *vrec* uyt wiwdec ar dy wewdyd.
Gr. ab Meredydd: M.A. i. 473 (cf. 475).

Ni thebygir, gwir gariad,
Mewn peth teg bod *breg* na brad.
Dafydd ab Gwilym, ccvii. 17 (cf. cxxxiii. 14).

Mae'n anhawdd dewis derwen deg
Heb arni *freg* yn rhywle.—*Pennill.*

Bylchwyd ei pharciau beilchion,
Breg yw'r byd o'r brig i'r bon.
Rhys Jones: Gwaith, 93 (cf. 89, 123, 155, 295).

Gwna ei ol *freg* anaele.—*Daniel Ddu,* 89 (cf. 256).

Bregedd, *sm.* fragility; frailty; brittleness; vanity; a trifle.

Bregol, *a.* tending to break; eruptive; breaking; fragile, brittle.

Bregu, *v.* to become fragile; to make frail; to break, to rupture, to fracture; to decay.

Bregus, } *a.* fragile, frangible, brittle; frail;
Brecus, } broken; decaying.

Ac uwch ben y fedwen fau,
Bregus nid oedd y brigau.—*D. ab Gwilym,* cclv. 15.

Fel y mae'r llestri cyfan yn dal, pan ddelont i'r ffwrnais, ac y tyr y rhai twn *bregus* yn ddrylliau; felly yn amser cystudd ac erlid, y duwiol yn unig sydd yn dal allan.
Dr. John Davies: Llyfr y Res. II. ii. 13.

Tri pheth anhawdd eu hadnabod:
Dyn, a derwen deg, a diwrnod:
Ffals yw'r dyn; y pren sydd *fregus;*
Bore teg, prydnawn ystormus.
Rhys Jones: Gwaith, 290 (cf. 77, 268).

A'i fywyd bach yn wir beryglus,
Na dim coel i'w lestr *brecus.*—*W. Williams:* Can. vii. 9.

Bregusrwydd, } *sm.* fragility; frailty; brit-
Brecusrwydd, } tleness.

Bregwest, -au, *sf.* [breg+gwest: a compound recently formed in imitation of *breakfast;* but *gwest* is the reverse of *fast*] breakfast.

Y mae yn debyg eich bod yn cymmeryd gwydraid . . . yn y boreu cyn *bregwest.*—*Gwyliedydd,* v. 254.

Bregwesta, *v.* to breakfast.

Bregydd, -ion, *sm.* [brag] a maltster.—*W.*

Bregyn, *sm.* [brag] a grain of malt.

Bregyn, heb wâr rywiog-air,
Burmyn, hopysyn a'i pair.—*Rhisiart Phylip.*

Brehyr, -on, -iaid, *sm.*=*Brëyr.*

Breiad, aid, *sm.* a topping.—*P.*

Breian, -au, *sf.* the rippling of the tide.—*P.*

Breichaid, eidiau, *sf.* [braich] an armful; as much as can be held in both arms.

Breichdlws, dlysau, *sm.* an ornament for the arm; an armlet, a bracelet.

Breichdlysog, *a.* wearing armlets or bracelets.

Breichdlysu, *v.* to wear armlets; to put on bracelets or armlets.

Breicheidio, *v.* to embrace; to take or fold in the arms.

Ac felly y *breicheidiodd* cyfiawnder a thrugaredd Duw bob un ei gilydd.—*Edw. Iames:* Hom. i. 26 (cf. 103).

Ac yn ail, y mae fe yn ein *breicheidio* ni, ac yn ei gynnyg ei hun i ninnau i'w *freicheidio.*—*Edw. Iames:* Hom. ii. 266.

Breichell, -au, *sf.* [cf. C. *brechol* (*gl.* manica), *brehal*] 'a place for the arm;' a sleeve.—*P.*

Breichfawr, *a.* having large, brawny, or strong arms; strong-armed.

O ddechreu'r byd, bryd *breichfawr,*
Hyd ddyddbrawd, myfyrdawd mawr!
D. ab Gwilym, cxxxix. 23.

Present i drawd oed *vreichvawr* [*al.* vreichyawr] drut.
Aneurin: Gododin, 225.

¶ If *breichyawr* be the correct reading, it may be an old pl. of *braich:* cf. *cleddyfawr, byddinawr, ysgwydawr,* &c. (*God.* 121—130, 338—345).

Breichfras, *a.* having a strong, stout, or brawny arm; strong-armed.

Hoian a parchellan bychan *breichvras*
Andav de leis adar mor maur eu dias.
Myrddin: A.B. ii. 27 (M.A. i. 137).

Karadawc *Vreichuras* uab Llyr Marini penn kyghorwr ae gefynderw.—*Mabinogion,* ii. 379.

Golwg deddf amlwg diddan
Gwelw *freichfras* brenhinblas Brân.
H. ab Einion Lygliw: M.A. i. 512 (cf. 225).

Arthur yn penteyrnedd Ynghelliwig Ynghernyw, a Betwini yn pen escub, a Charadawc *Vreichvras* yn pen hyneif.—*Trioedd:* M.A. ii. 3.

Breichgul, *a.* having a thin, slender, or weak arm.

Eurych brych *breichgul* llosgedig.
Hywel Ystoryn: M.A. i. 518.

Breichhir, *a.* long-armed; having long arms or fore limbs (as an animal).

Breichir march Cyhoret eil Cynan.
Trioedd y Meirch: M.A. ii. 20.

Ny mat dodes y vordwyt
Ar *vreichir* mein-llwyd.—*Aneurin:* God. 500.

Breichiad, -au, *sm.* [breichio] an arming, a giving of one's arm (to a person); a walking arm in arm (with a person).

Breichio, *v.* to arm; to give one's arm (to); to be arm in arm.

Cerdded dan freichio, to walk arm in arm.

Breichiog, *a.* having arms; armed; brachiate.

Cadair freichiog, an armed chair, an elbow-chair.

Breichiol, *a.* brachial; relating to the arm or arms.

Ath uedi guas nym guerth na thechut
Present cyn adrawd oed *breichyaul* glut.
Taliesin: M.A. i. 62 (cf. 85).

Breichled, -au, *sf.* [lled=lledr?] a bracelet, an armlet.

Dy sel, a'th *freichledau,* a'th ffon sydd yn dy law.
Gen. xxxviii. 18 (cf. xxiv. 22).

A chymmerais y goron oedd ar ei ben ef, a'r *freichled* oedd am ei fraich ef.—2 *Sam.* i. 10.

Breichledog, *a.* wearing bracelets or armlets.

Ar yr yspeiliwr rhuthrodd Fflaw a Mordau,
Breichledog oeddynt ac eurdorchog hwythau.
Nicander: Brennus, ii.

Breichledr, -au, *sf.* [braich+lledr] a bracelet; a leather band for the arm.

Gwisgaw *breichledr,* os medraf,
O arian neu aur a wnaf.—*L. G. Cothi,* v. ii. 29.

Breichlwyth, -i, *sm.* an arm-load; as much as the arms can carry.

Dwyn *breichlwyth* o edn brychlas.—*Tudur Aled,* i Walch.

Breichlwytho, *v.* to carry a greater load in the arms than a person conveniently can.—*C.S.*

Breichrwy, -au, *sf.* [braich+rhwy] a bracelet.

Breychruy damdug.—*Cyfreithiau Cymru,* i. 306.

Neud llawer yn llify lliw amaerwy tonn
Ban llewych y bron ger y *breichrwy.*
Cynddelw: M.A. i. 217.

Breichrwy bardd a wisgir ar yr ysgwydd is law'r cymmal, sef y cnuch; ac yng Ngwynedd caw a'i gelwid yn yr hen amseroedd; felly hefyd yn Neheubarth, a mynych a'i gelwid felly ym Morganwg. . . Amrwy ac aerwy y gelwid *breichrwy* yn nosparth y Ford Gron.—*Iolo Mss.* 217 (cf. 62).

Breichrwyf, -au, *sf.* [=breichrwy]=*Breichrwy.*

Ac ymon colofyn y neuad y gwelei gwr gwynllwyt y mywn cadeir o ascwrn eliphant. . . *Breichrwyfeu* eur oed am y vreicheu. a modrwyeu amyl am y dwylaw. a gordtorch eur am y vynwgyl. a ractal eur yn kynnal y wallt. ac ansawd erdrym arnaw.—*Mabinogion,* iii. 266.

Breichrwyo, *v.* to put on or wear bracelets.

Breichrwyog, *a.* wearing bracelets.

Breichrwyol, *a.* relating to bracelets; resembling a bracelet; armillary.

Breichrwywr, wyr, *sm.* a bracelet-maker.

Breichus, *a.* brachial; relating to the arm or arms; having a (strong) arm.

Gruffydd law Caron, groew-ffydd lew Cawres;
Gruffydd lin Brochwel, groew-ffydd lân *breichus.*
L. G. Cothi, VI. ii. 33.

Breichwisg, -oedd, *sf.* a covering or ornament for the arm; a brassart.

Breiddfyw, *a.* barely alive; half-alive.

Breiddfyw yw Gruffudd ebrwyddfudr drabludd.
Iustus Llwyd: M.A. i. 557.

Yma'r ŷm yn *freiddfyw.*—*Tudur Aled.*

Gwelais brudd-fyd, gloes *breiddfyw,*
Ganwyll Fair; gwn na allaf fyw.—*Sion Tudur.*

Breiddgar, *a.* nearly friendless; deserted.

O Freidin freenhin *freidgar*
O Fadawg o'i fod yn daear.—*Gwalchmai:* M.A. i. 201.

Breiddgof, *a.* slightly remembered.

Nyd *breidgof* genyf cen bwyf llwyd
Lleas Goronwy gwr yn ysgwyd.
Gwalchmai: M.A. i. 203.

Breiddgof, -ion, *sm.* slight recollection, indistinct remembrance.

Breiddig, *a.* [braidd] heedless; undaunted.

Dyn breiddig, an unconcerned or heedless person.

Breienhin, -edd, *sm.*=*Brëenhin, Brenin.*

Breyenhin beidyawt anreith
Dywal dir vyd y oleith.
Llefoed: A.B. ii. 307 (cf. M.A. i. 155).

Eli *freienhin* elwch cyd wyd.
Gwalchmai: M.A. i. 203 (cf. 349, 369).

Anrydet gwymp arwet gwin
Anrec brifdec *breyenhin.*—*Cynddelw:* M.A. i. 234 (cf. 280).

Detholwalch buddugfalch byddin
Llywelyn llyerw *freyenhin.*
Elidir Sais: M.A. i. 345 (cf. 274, 299, 387).

Breigant, *sm.* [cf. *brigant*] a country diversified with hill and dale; an undulating region, district, or country.

Breigant, gwlad ganoldir, na bo na mynydd na dyffryn, eithr â man-fryn a gobant.—*Llanover Ms.*

Breing, *s.pl.* the commonalty, the common people, the populace.—*H. Salesbury.*

Breila, **Breilw,** **Breilwy,** -on, *sm.* and *s.cl.* [brail: C. *breilu*] the rose; roses (*Rosa*).—*H. Davies:* Welsh Bot. 49, 160.

Rosa, rhos, brail, *breilwy,* egroeswydd.
Meddygon Myddfai, 292.

O byddi crachlyd, cymmer wysgell gwraidd yr eglyn, neu wysgell dail *breila* 'r gwanwyn.—*Llanover Ms.* 4.

Pan yw balch *breilwy* rhudd
Mi ni'm daw a'm cymmudd.—*Cywydd Teilo Sant.*

Oedd dewion *breilw* yn gwridaw yn ei chylch.
W. O. Pughe: C.G. ix. 408 (cf. iv. 63; v. 705).

Mal y dydaena y *breila* felusi odd ei anian ei hun, felly calon dyn hynaws dyddyga weithredoedd da.
W. O. Pughe: E.D. vi. 1.

Hel mwysion *freila* meusydd,
Hel blodau ar gangau'r gwŷdd.
Blackwell: Ceinion Alun, 121.

Addewidion Gobaith ynt felusach no *breilw* yn y balant.
W. O. Pughe: E.D. ii. 1 (cf. ii. 4).

Breilwy gwyllt, *Breilwy y perthi,* dogrose, wild rose, wild briar, briar-rose, hip-tree (*Rosa canina*).

Cynosrhodes, rhos y cwn, *breilwy y perthi.*
Meddygou Myddfai, 283.

Rosa canina, rhos gwylltion, *breilwy gwyllt,* rhos crewyll, ciros, rhos y cwn, rhos y perthi.
Meddygon Myddfai, 292.

Breilan, **Breilen,** *sf.* a rose (*Rosa*).

Petilion, peuros, *breilan* segli (?).
Meddygon Myddfai, ii. 290.

Dwy *freilen* frwd elynawl, gwen a rhudd.
W. O. Pughe: Bardd, ii. 3.

Mieri Mair, aroglynt yn fwy per,
Y *freilen* hefyd, dyfnach oedd ei lliw.
Iago Trichrug: Bedd.

Bréilen y dwr, water lily (*Nymphaea*).

Nymphaea, alaw, rhos y dwr, *breilen y dwr.*
Meddygon Myddfai, 289.

Per freilen, sweet briar (*Rosa eglanteria*).—*Faunula Grustensis,* 99.

Breilenllwyn, -i, *sm.* a rose-bush; a rose.

Neuropaston, mieri Mair, rhos y cwn, *breilenllwyn.*
Meddygon Myddfai, 289.

Breilfa, -oedd, *sf.* a place of roses; a rosary.

Y lle bu'r gwlaw a llwybr y gwlith yn foreu
Ddyferion disgleir-frith,
Sy'n hyfrydaf *freilfa* frith,
Blodau gwyn mal blawd gwenith.
Robert Owen: Gweith. 153.

Breiliog, **Breilog,** *a.* full of or abounding with roses; rosy, rosyeate.

Gwel fwg perlysiau 'n dyrchu o Saron wen,
A Charmel *freiliawg* grib bereiddia'r nen.
Blackwell: Ceinion Alun, 153.

Breilon, **Breilion,** *s.pl.* [brail] roses.

Ac ar eu haelodau noeth
Cawodai nen flodeuawg *freilion* mwyth.
W. O. Pughe: C.G. iv. 842.

Gwarthrudda Bedd dydi; heb rin dy swyn,
Dy *freilon* edwant, gwael dy elyw ynt,
Pa genyt fwy o ffrost?—*Iago Trichrug:* Bedd.

Gwynder ei monwes a ragora ar elestren, mwy maws yw ei gwèn no gardd *breilon.*—*W. O. Pughe:* E.D. ii. 5.

Breilw, **Breilwy,** -on, *sm.* and *s.cl.*=*Breila.*

Breilylwyn, -i, *sm.* [breilw+llwyn] a rose-bush; a rose.

Rhos, rhoswydd, brail, breila, *breilylwyn.*
Hugh Davies: Welsh Bot. 49 (cf. 160).

Breindir, -oedd, *sm.* [braint+tir] land to which some privilege is attached; allodial land.

Y mae cryn aflonyddwch wedi ei greu yn amryw barthau o'n gwlad o herwydd y cais a'r gofyn a wneir ar y llywodraeth gan ddeiliaid tir, am ganiatâd i gauad i mewn y *breindiroedd* a fyddo yn cydio â'u tiroedd hwy.
Lleuad yr Oes, i. 125.

Breindref, -i, -ydd, *sf.* [braint+tref] a town enjoying some privilege or franchise; a borough.

Wedi ymdrech galed dros amryw ddyddiau am gynddrychiolaeth *breindrefi* Morganwg . . . etholwyd y blaenaf.
Seren Gomer, iii. 124.

Breinen, *sf.* [dim. of brân] a little crow; a crow.

Breinfa, -oedd, fäu, *sf.* a place of privilege; a palatinate.—*W.*

Breinfawr, *a.* highly or greatly privileged.

Breiniad, -au, *sm.* a conferring or granting privilege; enfranchisement.

Breiniarll, ieirll, *sm.* [braint+iarll] a palatine, a count palatine.—*W.*

Breiniarllaeth, -au, *sf.* a palatinate; a county palatine.

Breiniarllaeth; teyrniarllaeth; sir (swydd, tiriogaeth, &c.) y mae i'w swyddogion awdurdod arbenig i gospi troseddwyr, yn ail i awdurdod swyddogion llys y brenin.—*Walters.*

Breiniarllaidd, *a.* palatine; pertaining to a palatinate.

Elisabeth, merch Iago, a briododd Ffredrig, Etholydd *Breiniarllaidd.*—*Seren Gomer,* iii. 172.

Breinio, *v.* [braint] to privilege; to invest with some right or immunity; to enfranchise; to dignify; to endow.

Llawer i breiddin llu ai *breinia*
Breiniwys gwr ai medd braint y teyrnedd.
Dafydd Benfras: M.A. i. 318.

Gwell cerdd o'i *breiniaw.*—*Diareb.* (M.A. i. 159.)

Ac yn y wledd honno y dodes ef iddynt ddefodau, a breiniau, a rhoddion anrhydeddus, ac a'u gollynges yn obredig o roddion ac yn *freiniedig* o anrhydedd.
Brut Aberpergwm: M.A. ii. 538.

Sef a'u gelwir y rhain Tri Uuben Dygynnull am eu *breiniaw* felly y gan ddygynnull gwlad a gorwlad.
Trioedd: M.A. ii. 63.

Cadair a ddengys awdurdawd a barn; a lle bynnag cadair, ef a'i bernir ym mraint beirdd Ynys Prydain cyd na bo cof ei barnu a'i *breiniaw*, hyd na bo cof gommedd ac ymwrthod â hi.—*Iolo Mss.* 217.

Breiniog, *a.* [braint] privileged; invested with privilege; enjoying franchise; enfranchised; free.

Teyr gorset *breynyauc* adele bod gorsed er argluyd a gorset escob a gorsed abat.—*Cyfreithiau Cymru*, ii. 8.

Breiniauc loc leudir cyvanned
Meivod wenn nyt meuvyr ae med.
Cynddelw: M.A. i. 244 (cf. 270, 280).

Duw iewin breyenhin breiniawl
Breiniawg wyd bro gadwyd gedawl.
Elidir Sais: M.A. i. 349 (318).

Ond bychan a ŵyr o fod yr adeiladwr yn rhydd ac yn *freiniawg* o'r gelfyddyd.—*Gronwy Owain*, 272.

Braint *breiniawg* a argaea rhag anfreiniawg y terfyn.
Leges Wallicae, IV. XXV.

Merch tywysog *freiniog* fro,
O'r Cenarth yw'r wraig honno.—*L. G. Cothi*, v. x. 7.

Lle breiniog, a privileged place.

Llann Gadawc *lle breinyawc* rannawc rihyd.
Gwynfardd Brycheinog: M.A. i. 271.

Breiniogi, *v.* to invest with some privilege or immunity; to privilege.

Breiniol, *a.* [braint] pertaining to privilege; privileged; enjoying franchise; exempt from duty or charge; free; frank.

Os egur auyt *breynyaul* dangosset ebreynt kyn eran.
Cyfreithiau Cymru, i. 82.

Dyrchafwys brynn gwynn *breinyawl* y vreint
Yg gwyt seith mil mawr a seith vgeint.
Gwynfardd Brycheiniog: M.A. i. 270 (cf. 271).

A minnau a anwyd yn *freiniol*.—Act. xxii. 28.

Tir breiniol, privileged land; land free from rent or service; allodial land.

Ni deleir talu tir ambreinaul en lle *tir breinhawl* [*al.* tir a breint] o honau.—*Cyfreithiau Cymru*, i. 156.

Gwenwyn yn amwyn am *dir breinyawl* Powys
Ae diffwys ae glwys a glyw y hawl.
Einion ab Gwgon: M.A. i. 321.

Goreu bryn gwr byw ar ol,
Ydyw'r bryn o *dir breiniol*.
L. G. Cothi, IV. iv. 35 (cf. III. XXV. 19).

Y celfyddydau breiniol, the liberal arts; the privileged arts.

Tair celvyddyd vreiniawl y sydd, a braint trwydded . . . sev ydynt, barddoniaeth; ferylltaeth; a llenoriaeth, neu lyvryddiaeth.—*Cyfreithiau Cymru*, ii. 506.

Dywedant mai tair *celfyddyd freiniol* a ddaeth yn eu gwysg gan y Cymry dan nawdd a thywysogaeth Hu Gadarn i'r ynys hon; nid amgen, barddoniaeth, llythyryddiaeth, ac eiryddiaeth.—*Barddas*, i. 82.

Y saith gelfyddyd freiniol, the seven liberal arts.

¶ *Breiniol* is sometimes mistakingly used for *breninol;* as, *eisteddfod freiniol*, for *eisteddfod freninol*, a royal eisteddfod, an eisteddfod under royal patronage.

Efe a amgylchodd gymmaint a chae gweddol o dir, ac a adeiladodd yno gaer *freiniol*, yr hon a elwid gynt gan y Brytaniaid Caer y Garrai.—*Theo. Evans:* D.P.O. i. 4 (100).

Breiniolaeth, -au, *sf.* a state of privilege; enfranchisement; immunity; prerogative; royalty.

Y rhan a gymmerth Sir Rhobert iddo ei hun oedd rhan Iestyn . . . sef Castell Caerdyf a'r tir perthyn, a Chastell Cynffig a'r tir perthyn; hefyd *breiniolaethau* Tir Iarll a Glyn Rhodne.—*Iolo Mss.* 16.

Breinioldeb, **Breiniolder,** **Breinioledd,** *sm.* the state of being privileged; enfranchisement; immunity; prerogative; freedom.

Yng nghylch oed Crist mil a thrichant y darfu'n lân am Forgan ab Hywel ab Iorwerth, a'i *freiniol*deb yng Nghaer Llion ar Wysg.—*Iolo Mss.* 26 (cf. C.C. ii. 488).

Breinioli, *v.* to privilege; to enfranchise; to dignify; to ennoble.

Llwyn yr Hudol *freiniolir*
Tra urddas Tomas i'n tir.—*Sion Lleyn* (Y Greal, 25).

Breinioliad, -au, *sm.* enfranchisement.

Breiniwr, wyr, *sm.* one who confers privilege; a bestower of dignity; an enfranchiser.

Breinle, -oedd, *sm.*=*Breintle.*

Breinlen, -i, -au, *sf.* [braint+llen]=*Breintlen.*

Breinleniad, iaid, *sm.*=*Breintleniad.*

Breinlys, -oedd, *sm.*=*Breintlys.*

Breinllys, -oedd, *sm.* [=breninllys: cf. *Breiniol*, ¶] a royal court or palace.

Ar Dduw yr Arglwydd â'm holl lais
Y gelwais yn dosturaidd:
Ac ef a'm clybu i ar frys
O'i uchel *freinllys* sanctaidd.—*Edm. Prys:* Salm. iii. 4.

Breinog, *a.* [brain] abounding with crows.—*Dyfed.*

Breinos, *s.pl.* [dim. of *brain*] young or little crows.

A phorthi *breinos* ar gig y drudion,
A throi melinau â chrau allynion.—*Llanover Ms.* 4.

Breinrydd, *a.* of free privilege; free by privilege or prerogative.

Breinrut brwydyr breisc ualch y dawn.
Cynddelw: M.A. i. 224.

Breintle, -oedd, *sm.* a place of privilege; a place or station of dignity; a place to which jurisdiction is annexed.

Chwi a welwch â pha faint o ofal ac astudrwydd y dylech chwi ymegnïo, yn gystal i'ch dangos eich hunain yn wasanaethgar ac yn ddiolchgar i'r Arglwydd yr hwn a'ch gosododd mewn *breintle* mor barchus.
Llyfr Gweddi Gyffredin (Ffurf Urddo Off.).

Breintlen, **Breinlen,** -i, -au, *sf.* [braint + llen] a charter.

Y Freintlen Fawr, Magna Charta.

Ystyrir y *Freinlen Fawr* yn un o seiliau cadarnaf rhyddid Prydain.—*Cylchgrawn*, i. 197 (cf. 198, 199).

Breintleniad, **Breinleniad,** iaid, *sm.* a chartist.—*Gwyddoniadur Cymreig.*

Breintlys, **Breinlys,** -oedd, *sm.* a court of privilege, a prerogative court; a high court.

Breintlythyr, -au, -on, *sm.* a letter of privilege; letters-patent.

Breintlythyrog, *a.* having letters-patent; patent; patented.

Breintlythyrog, -ion, *sm.* a patentee.

Breinttir, -oedd, *sm.* [braint+tir]=*Breindir.*

Breintus, *a.* [braint] privileged; highly esteemed or favoured.

Sanctaidd air Duw, un o'r daionus roddion dewisaf a *breintusaf* a hyspyswyd ac a roddwyd i ddynawl ryw yma ar y ddaiar.—*Edw. Iames:* Hom. i. 11 (cf. 69).

Breintwas, weision, weis, *sm.* an apprentice.

Breintysgrif, **Breinysgrif,** -au, *sf.* a writing conferring privilege; a patent; a charter.

Mab hynaf penadur Lloegr a dderbyn yr anrhydedd o'i urddaw yn Dywysawg Cymru; eithr nid trwy rinwedd ei enedigaethfraint, ond trwy *freintysgrif* teyrnol.
Carnhuanawc: Han. Cym. 794.

Nesaodd dau o honynt at y drws, lle yr oedd y gweision yn sefyll, a gwaeddasant, Y *freinysgrif* dros fyth!
Seren Gomer, iii. 222.

Breintysgrif agored, letters-patent.—*W.*

Breisgad, } -au, *sm.* [breisgo] a making large,
Breisgiad, } bulky, or thick.

Breisgâd, *sm.* [breisgàu] a becoming large, bulky, stout, or thick.

Breisgäu, *v.* [braisg] to become large, stout, or thick.

Heuyt sáf weitheu mywn amseroed; kanys llês mawr a wnà, ac agori a wna y greadur, a *breisgau* a wna'r vynwgyl. teccach uyd lliw yr wyneb a *breisgau* a wna'r breicheu.
Meddygon Myddfai, i. 186.

Breisgfawr, *a.* [braisg+mawr] stout and large.

Rys . . . urys *ureiscuawr* dylwyth.
Prydydd Bychan: M.A. i. 387.

Breisghir, *a.* long and brawny.

Meirch *breischir* vch brasgeirch hafluc.
Llyw. ab Llywelyn: M.A. i. 280.

Breisgion, *s.pl.* tow or hurds (to stop chinks with); the coarse part of hemp or flax.

Breisglawn, *a.* full of strength, fortitude, or stoutness.

Dyurydet y veirt varw achlut Einyawn
Dor *breisclawn* brwysc lofrut.—*Cynddelw:* M.A. i. 233.

Breisglym, *m.* } *a.* strong and sharp; brawny
Breisglem, *f.* } and fierce.

Beilch yw y gadweilch gadarnglo Maelawr
Breisclym orwytawr rotyon ymo.
Llygad Gwr: M.A. i. 343.

Breisgo, *v.* [braisg] to make thick, large, or stout; to become large or bulky.

A'n dysgu nid ysgyg o'i drosedd
A'n puraw a'n *breisgaw* i'n brwysgedd.
Dafydd y Coed: M.A. i. 497.

Breisgrodd, -ion, *sf.* a large, liberal, or substantial gift.

Dyfnasswn vreiscdawn o *vreiscrot* Einyawn.
Cynddelw: M.A. i. 233 (cf. 247).

Breisgwr, wyr, *sm.* a stout, strong, or valiant man or hero.

Rhif ser rwy cigleu cigwledd irad i frain
O *freisgwyr* ardwyad.—*Cynddelw:* M.A. i. 262.

Lleith *breisgwyr* llith brain a chud
Lladd ryfu a channu golud.
Llywarch ab Llywelyn: M.A. i. 307.

Breithddu, *af.*=*Brithddu*, *m.*

Breithell, } -au, *sf.* [braith: C. and Br. *bresel*]
Breithiell, } a conflict, battle, or action; war; tumult.

Trycan eurdorch a gryssyassant
En amwyn *breithell* bu edrywant.
Gorchan Maelderw: A.B. ii. 99.

O *vreithyell* Gatraeth pan adrodir
Maon dychyorant eu hoet bu hir.
Aneurin: Gododin, 131 (cf. 35, 337, 931).

Trywyr a thrygeint a thrychant
Y *vreithyel* Gattraeth ydaethant.
Gorchan Cynfelyn: M.A. i. 61.

Breithell, } -au, *sf.* [braith, brith] a membrane,
Brithell, } a film; a caul.

Breithell yr ymenydd, } one of the membranes
Brithell yr ymenydd, } which invest the brain; the dura mater or pia mater.

Sef a wnaeth ynteu y deimlaw hyt pan gauas y benn. a gwascu y benn yny glyw y vyssed yn ymanodi yn y *vreithell* drwy yr ascwrn.—*Mabinogion*, iii. 96.

Breithgad, -au, *sf.* a mixed or confused conflict.

Briwgoch bric ongyr brythawd
Breithgad gwyr brydyeu Llyr Lloegyr difrawd.
Cynddelw: M.A. i. 226.

Breithgan, -ganau, } *sf.* a macaronic poem or song; a rhapsody.
Breithgerdd, -i, -au, brithgyrdd, }

Addaf gau ni thau iaith enid *frithgyrdd*
A'i *freithgerdd* ddrewedig.—*Hywel Ystoryn:* M.A. i. 519.

Breithiaith, ieithoedd, *sf.* mixed language.

Yn dwyllawr cornawr Ceirnion drwg araith
Yn dryllio *breithiaith* dillad brithion.
Iorwerth Beli: M.A. i. 476.

Breithig, *a.* [braith, *sm.*] practical.

Breithin, *sf.* [braith+hin] mixed weather; the clearing up of the weather; an interval of fine weather.

Val pan del [*al.* vel] medel ar *vreithin*
E gwnaei Varchlew waetlin.—*Aneurin:* God. 283.

Breithinon, *sf.* [braith+hinon] an interval of fair weather.

Mae breithinon yn awr, there is a little fine weather now.

Breithino, *v.* to clear up (as the sky).

Breithred, -au, -ion, *sf.*=*Brithred.*

Breithrwy, -on, -au, *sf.* a conflict.—*P.*

Breithwe, -oedd, *sf.*=*Brithwe.*

Breithwen, *af.*=*Brithwyn*, *m.*

A'i ystal yn cadw maes a thalar,
A'i stondart *freithwen* wrth dalcen dâr.
L. G. Cothi, i. xviii. 57.

Y biogen *freithwen* fron,
Gŵraidd ydwyt, nid gwirion.—*Th. Prys.*

Brelyn, *sm.* [dim. of *bral*] a little rag; a rag or shred.

Nid oes ganddi *frelyn* i'w roi am dani.—*C.S.*

Bremain, }
Bremian, } *v.* freq. of *bramu*, q.v.

Holltodd gan sain *bremain* brau,
Hyll grygodd yr holl greigiau.—*Rhys Jones:* Gwaith, 174.

Bremeinig, *a.* [bremain] breaking wind.

Cyrfyll hyll chwedryll chwydrefr pennig meirch
March glermwnt *bremienig*.
Hywel Ystoryn: M.A. i. 518.

Bremyn, *sm.* dim. of *bram*, q.v.

Brenhin, -oedd, †-edd, *sm.*=*Brenin.*

Brenig, *s.pl.*=*Brennig.*

Brenin, } -oedd, †edd, *sm.* [breenhin, breienhin, breyenhin, brenhyn, brenyn, with other variants; from *braint*, or *bryaint* (*bryeint*), an older form of that word (*Lib. Land.* 113): cf. C. *brentyn*, *bryntyn;* Br. *brientin*] a king; a sovereign; a monarch.
Brenhin, }

Gwrthdrych id est edlyg eu er hun adele gleduchu guedy e *brenyn;* ac adele bod en anredetussaf eny llys guedy e *brenyn* ar urenynes.—*Cyfreithiau Cymru*, i. 8.

Y holl cyfreith didi, ac idythyr, hac idi dair, ryd o bop guasanaith *breeninn* bydaul.—*Liber Landavensis*, 113.

Yd oed gyt ac ef hagen deudec *brenhin* ar hugeint o *vrenhined* coronawc yna yn wyr idaw.—*Mabinogion*, iii. 263.

Ac ef a doeth attaw wrth y dyyn Episttroffws *vrenin* Groec. a Mustensar *vrenin* er Affric. ac Aliffantma. neu Aliphatima. *brenin* er Espaen. ac Hirtacus *brenin* Parth. a Boccws *brenin* Medif, &c.
Brut Gr. ab Arthur: M.A. ii. 332.

Nachaf yn dyuot y mywn hyt racbronn y *brenhin* gwas ieuanc telediw. ac yn kyfarch gwell yr *brenhin*.
St. Greal, § 3.

Y dau dywyssawc deifniawc dedwyt
Brenhinet Powys au Gwenhwyssyt.
Meilir: M.A. i. 191 (cf. 190).

Breiniawc Lywelyn *brenhinedd* ei hyn.
Dafydd Benfras: M.A. i. 318.

Am erchi arch mor drahaus y *vrenhined* a ieirll a barwneit.—*Mabinogion*, i. 277.

Bid Sion ar ei ol, ein gorfoledd,
Benaf a hynaf o'r *brenhinedd*.—*L. G. Cothi*, i. xxv. 21.

A bu yn nyddiau Amraphel *brenin* Sinar, Arioch *brenin* Elasar, Codorlaomer *brenin* Elam, a Thidal *brenin* y cenhedloedd, wneuthur o honynt ryfel a Bera *brenin* Sodoma, ac a Birsa *brenin* Gomorra, a Sinab *brenin* Adma, a Semeber *brenin* Seboim, ac a *brenin* Bela, honno yw Soar.
Esg. Morgan: Gen. xiv. 1, 2.

Brenin breninoedd, king of kings.

Llyfr y Breninoedd, the Book of the Kings; the Book of Kings.

Llyfr cyntaf *y Breninoedd;* yr hwn a elwir hefyd, Trydydd *Llyfr y Breninoedd.—Beibl Cymraeg.*

Brenin pen beirdd, a 'distinction among the bards, similar to a herald king at arms; and *brenin pelen aur*, who regulated the bardic laws next before Arthur, was probably the same officer.'—*P.*

Brenin cyfeddach, king of good fellows.

Brenin yr annhrefn, lord of misrule.

Yn enw'r brenin, in the name of the king; in the name of goodness.

¶ The more usual M.W. orthography is *brenhin*, but *brenin* is of frequent occurrence. Bps. Morgan and Parry have generally *brenin* in the sing., but *brenh-* in the derivatives and compounds. When these consist of only three syllables, the aspirate is generally heard (*brenhinoedd*, *brenhines*), but not in those of four or more syllables (*breninesau*, *breniniaethau*). The *h* is often inserted in the sing. (*brenhin*), not because it is heard in the dissyllable, but either on account of etymology, or because it is considered necessary when a syllable is added. It is simpler uniformly to omit it. *Bonedd*, *cenedl*, and many other words are in this respect much in the same category as *brenin*.

Breninaidd, *a.* kinglike; kingly; royal; noble.

Purwyn arglwyd yw. ac ny cherda gyt ac un aniueil o ryuic a balchder rac y *urenhineidet.*
Mabinogion, ii. 7 (cf. iii. 100).

Dy adar, dy win yn *freninaidd*,
Dy gan, dy arian rhag ein dïŵraidd.
L. G. Cothi, I. xxix. 53.

Llyw gwrawl breinyawl *brenhineitaf*
Llywyawdyr gwenndref nef nerth a archaf
Llwydyant pob carant caraf dy uoli
Llewychuawr geli ri rywoccaf.
Llyw. ab Llywelyn: M.A. i. 295 (cf. 326).

O wraidd *brenhiniaidd* brân a henwid.
L. G. Cothi, II. x. 36.

Breninblas, -au, -oedd, *sm.* a royal palace.

Gwelw freichfras *brenhinblas* Brân.
Hywel ab Einion Lygliw: M.A. i. 512.

Breninbleth, -au, *sf.* a royal diadem; a diadem.

Medru'r gelfyddyd o elusen sy well na gwisgo *breninbleth* teyrnasoedd.—*Elis Wynn:* Rh. B. S. iv. 8 (224).

Breninbost, byst, *sm.* a kingpost or kingpiece (in architecture): also figuratively.

Cwyno bu'r wlad yno'n dost
Ei hunben a'i *brenhinbost.—L. G. Cothi*, III. xvi. 25.

Breninbren, -au, *sm.* monarch tree; a stately tree; the monarch oak; the female oak (according to some), being larger and more branchy than the male.

Y mae, o'r *breninbren* mawr,
Yma wialen ym Maelawr;
Pulstwn, a'i fam Alswn wen,
Hwn yw'r ddâr; hon yw'r dderwen.
L. G. Cothi, VII. viii. 45.

Sedd fab Addaf, sef efe a wnaeth gil golychwyd gyntaf yng nghoedydd Glyn Ebron, gan chwiliaw ac olrhain y coedydd hyd oni chafas efe dderwen fawr o *freninbren* gangenfawr, gyrhaeddbell, gaeadfrig, wasgawdlen, a thani y gwnaeth ef gor golychwyd; a honno a elwid Gorsedd.
Barddas, i. 258.

Bwrw ein parch obry, a'n pen,
Bwrw yn Hanbrw'n *breninbren.*
Sion Tudur: Md. Syr R. Clwch.

Felly, derwen fawr, *breninbren* y tyddyn, a saif yn ddigyffro yn erbyn ystorm, ond diffeithwr ger llaw a'i bwr hi i lawr â'i fwyall.—*Theo. Evans:* D.P.O. i. 4 (141).

Breninbren ar dalcen dôl.—*Rhys Jones:* Gwaith, 216.

Y dderwen fwyaf ei maintioli yr ŷm ni yn cofio am dani oedd '*Breninbren* y Ganllwyd,' neu'r 'Pren teg o'r Ganllwyd' [ger Dolgellau].
Hugh Davies: Llysieuaeth Gymreig, 182.

Breninbysg, -od, *s.cl.* the ling fish.—*P.* The word signifies king-fish.

Brenindad, -au, *sm.* a royal father.

Ardwyrews fy nhad ei fraisg *frenhindad.*
Gwalchmai: M.A. i. 196.

Brenindod, -au, *sm.* royalty, kingship.

Pan doeth Yessu vry oe *vrenhindawd*
Yt oet pym hoes byd yn gyd gaethnawd.
Einion ab Gwalchmai: M.A. i. 332.

Brenindawd balch! mal y newidia ei wedd!
Iago Trichrug: Bedd.

Brenindodawl, *a.* appertaining to royalty.—*P.*

Brenindodi, *v.* to confer royalty.—*P.*

Brenindref, -i, -ydd, *sf.* a royal town or city.

Brochfael . . . a wnaeth gyntaf Gastell yng Nghaerdydd, lle'r ydoedd hen *frenindref* yn garnedd anghyfannedd.
Iolo Mss. 13.

Brenindy, dai, *sm.* a royal house; a king's house or palace.

Y frenines Fasti hefyd a wnaeth wledd i'r gwragedd yn y *brenindy* oedd eiddo Ahasferus y brenin.—*Esth.* i. 9.

Breninddar, dderi, dderw, *sf.* the monarch oak; a stately oak.

Lle aml y gwelid *brenhinddar* a dyfai er yn oes oesoedd.
Iolo Mss. 223.

Breninddawn, ddoniau, *sm.* a royal gift or qualification.

Mau gwawdgan Afan ufuddfryd ffrwythlawn
O gof Gadwallawn *brenhinddawn* bryd.
Gwilym Ddu Arfon: M.A. i. 408.

Brenineiddio, *v.* to become kingly; to confer royalty upon.

Brenineiddwisg, -oedd, *sf.* royal apparel; a royal robe.

Ac ena or parth arall et oedyt en dwyn e vrenines en wiscedic o *vrenineidwisc* a choron o lawrwyd am i ffen.
Brut Gr. ab Arthur: M.A. ii. 322.

Brenines,
Brenhines, } -au, *sf.* a queen.

E brenyn adele roy ir *urenynes* trayan akafo o enyll o tyr a dayar ac e uelly guasanaytguyr e brenyn adeleant roy trayan y gwasanaytuyr e *urenynes.*
Cyfreithiau Cymru, i. 6.

Ar *urenhines* ygyt ac wynt yn deckaf gwreic or awelsei neb. . . Ac eisted awnaethant ual hynn. y *urenhines* or neillparth idaw ef . . . a dechreu ymdidan awnaeth ef ar *vrenhines.—Mabinogion*, iii. 7.

Ar parth et oed ef en gwasanaethu ar y *vrenines* et oed dogned o niver hard.—*Brut Gr. ab Arthur:* M.A. ii. 323.

Ony chaffwn ni lewenyd y gan y gwrda hwnnw. ni aawn att Hildegard *vrenhines* Ffreinc.—*Amlyn ac Amig*, 1090.

Brenines waddolog, a queen dowager.

Teilyngu o honot fendithio a chadw Adelaide y *frenines waddolog.—Ll. G. Gyffredin* (Litani).

Brenines gydweddog, a queen consort.

Brenines y weirglodd,
Brenines y gweunydd,
Brenines y meusydd, } queen of the meadows, meadow sweet (*Spiraea ulmaria*).—*N. W.*

Afal y frenines, queen-apple, queening.

Breninesaidd, *a.* queenly, queenlike.

Ei sefydliad teuluaidd a gydgyssylltai, os gwirionedd yr hen gân, o bethau teuluaidd a *breninesaidd*, ac a ddygid ym mlaen gyd â golwg neillduol ar y rhinwedd o gynnildeb.
Brutus: Ninefeh, 71.

Breninesan, *sf.* a little queen.

Breninesol, *a.* belonging to a queen; queenly.

Breninfa, -oedd, -on, *sf.* a royal place or station.

Teir buch a ddyly brenin: buch a ddyco cyngellawr yn attafael gwestfa y *breninfa* y brenin.
Cyfreithiau Cymru, ii. 582.

Breninfainc, feinciau, *sf.* a royal throne; a throne.

Breninfraint, freintiau, freiniau, *sf.* the prerogative of a king or queen; royal prerogative, privilege, or state.

Ysgrifener ef ym mysg cyfreithiau y Mediaid a'r Persiaid, fel na throsedder ef, Na ddêl Fasti mwy ger bron y brenin Ahasferus; a rhodded y brenin ei *breninfraint* hi i'w chyfeilles yr hon sydd well na hi.—*Esth.* i. 19.

Breniniaeth, -au, *sf.* 1. a kingdom, a realm.

Ac gwedy gorvot ar Ruveynwyr Asclepyodotus trwy annogedigyaeth tywyssogyon e teyrnas a kymyrth koron e *vrenhynyaeth*.—*Brut Gr. ab Arthur:* M.A. ii. 205.

Mi a rodaf itt heb y brenhin vym merch yn briawt. a hanner vy *brenhinyaeth* genthi.—*Mabinogion*, i. 291.

Ac y diffeithawd y Saeson mynyded Eryri, ac y dugant *urenhinyaeth* Rywynyawc. . . Ac y diffeithawd Genwlf *brenhinyaetheu* Dyfet.—*Brut y Tywysogion*, 10.

I ddynion gweinion nid gwaeth
Y bryn hwn no *brenhiniaeth*.—*L. G. Cothi*, iv. iv. 33.

Dywedant am ogoniant dy *freniniaeth*. . . Dy *freniniaeth* di sy *freniniaeth* dragywyddol.—*Salm.* cxlv. 11, 13.

2. reign; sovereignty.

A hyn a roed yng Nghastell y Colunwy, y dydd cyntaf o fis Mai, y ddeunawfed flwyddyn o *freniniaeth* Edward Caer yn Arfon.—*Siartr y Waen* (Brython, iv. 339; cf. 338).

Breniniol, *a.*=*Breninol.*

Ac yg Kaer Lundeyn ker llaw porth y gogled y cladwyt y gyt a *brenhynyawl* arwylyant.
Brut Gr. ab Arthur: M.A. ii. 177.

Aelodeu brenhin ynt yrei a berthynont vrth *vrenhinyaul* vreint kynnys pieiffont; ac ohonunt oll brenhinolaf yw yr etlig.—*Cyfreithiau Cymru*, i. 350.

Erbyn vi vy ri rwyf bedydyawl
Erbarch vchelseint breint *brenhinyawl*.
Bleddyn Fardd: M.A. i. 372.

Breninllwyn, -i, *sm.* a stately grove or bush.

Unllafn yng Ngheri a'i harianllwyn;
Unllys Cedewain a'i *breninllwyn*.—*L. G. Cothi*, iii. iii. 55.

Breninllwyth, -au, *sm.* a royal tribe.

Daw Wiliam, a'i holl dylwyth, o'r prophwyd,
O'r barwn hen-llwyd, o'r *brenhinllwyth*.
L. G. Cothi, i. xxi. 39.

Pum breninllwyth Cymru, the five royal tribes of Wales—*Iolo Mss.* 32.

Offa a wnaeth glawdd yr ail waith yn nes ataw, a gadael lle gwlad rhwng Gwy a Hafren, lle mae llwyth Elystan Glodrydd, lle ydd aethant yn un o *bum breninllwyth Cymru*.
Brut Aberpergwm: M.A. ii. 474 (cf. 480).

Breninllys, -oedd, *sm.* [brenin+llys, *court*] a king's palace, a royal palace; a king's court.

A bu ym mis Cisleu, yn yr ugeinfed flwyddyn, pan oeddwn i ym *mreninllys* Susan.—*Neh.* i. 1 (cf. Esth. i. 2, 5).

O'n *Breninllys* ar Sugnedd yn y Fallgyrch eirias, yn y flwyddyn o'n teyrnasiad, 5425.
Elis Wynn: Bardd Cwsg, 63 (cf. 64).

Breninllys, *sm.* [brenin+llys, *herb*] the herb basil (*Clinopodium*).

Breninllys dof, great basil (*Ocymum basilicum*).

Breninllys gwyllt, wild basil, field basil (*Clinopodium vulgare*).—*Hugh Davies:* Welsh Bot. 58, 160.

Brenino, *v.* to make king; to become king; to reign.

Er y gwaew irwaed a'i goron,
Ac er ei frath drwy grau fron,
Brenhined Mair heb eiriach,
Brenin nef gwna'i bron yn iach.—*Lewys Morganwg*.

Breninog, *a.* having a king or sovereign.

Breninol, *a.* royal, kingly, regal.

Ef a rodes i Arawn vap Cynvarch *brenhinawl* vediant Escotlond.—*Brut Gr. ab Arthur:* M.A. ii. 311.

Byddi hefyd yn goron gogoniant yn llaw'r Arglwydd, ac yn gylch *brenhinawl* yn llaw dy Dduw.
Esg. Morgan: Esa. lxii. 3.

Y teulu breninol, / *Y breninol deulu,* } the royal family.

Tywysog Cymru, Tywysoges Cymru, a'r holl *freninol deulu*.—*Ll. G. Gyffredin*.

Dillad breninol, royal apparel, royal robes.—*Act.* xii. 21.

Breninol haelioni, royal bounty, liberality, or generosity.

Heb law yr hyn a roddodd Salomon iddi hi o'i *freninol haelioni*.—1 *Bren.* x. 13.

Breninolion, royalties, regalia.

Breninolaeth, / **Breninoliaeth,** } -au, *sf.* royalty, regality, sovereignty.

Breninoldeb, / **Breninolder,** / **Breninoledd,** / **Breninolrwydd,** } *sm.* royalty, regality, kingship, sovereignty; the state, office, or dignity of a king.

Breninoli, *v.* to royalise.

Breninoliad, iaid, *sm.* a royalist.

Daliwyd y ddau offeiriad, a dygwyd hwy ger bron penaeth y *breninoliaid*.—*Seren Gomer*, iii. 254.

Breninolwr, wyr, *sm.* a royalist.

Breninsarff, seirff, *sm.* the king of serpents, the basilisk.

Catoblepas . . . y basiliscus, *breninsarff*, a ladd â'i olwg, megys y Fad felen gynt.
Dr. Th. Wiliams: Ms. Dict. s.v.

Breninwisg, -oedd, *sf.* a royal robe.

Breninwr, wyr, *sm.* a royalist.

Breninwych, *a.* royally splendid.

Prisiaf gennin *breninwych*
Uwch llawrwydd tragywydd gwych.—*Gronwy Owain*, 37.

Breninwys, *s.pl.* royal men or people; royalists?

Elain ar dir *breninwys* gwir a folianned.
Gorddodau Myrddin: M.A. i. 530.

Breninyn, *sm.* a kingling, a kinglet, a little or petty king.

Brennig (*sg.* -en, *f.*) *pl.* [Ir. *bairneach*] the limpet or patella; a univalve shell-fish, also called *llygaid myheryn* (*sg.* llygad myharen).

Y mae corn y Rhinoceros, o ran ei ffurf, yn debyg i gragen y pysgodyn a elwir y *brennigen*.—*Cylchgrawn*, ii. 134.

Breon, *sm.* some high but indefinite number; the next number but three to *ceugant*, or infinity!

Un, pump, deg, pymtheg, ugain, cant, mil, myrdd, myrddiwn, bunaf, myndaf, *breon*, catyrfa, gwrmwnt, rhiallu, a'r ceugant, a hwnw ni ellir rhif arno.
Barddas, i. 108.

Bresel, -au, *s.* [=breithell: C. *bresel;* Br. *bresel*] war, action, conflict. Not found in Welsh except in place-names; as, *Cenbresel*, *Conbresel*, *Combresel*, *Cilbresel*. Cf. *Liber Landavensis*, 191, 202, 213, 221; Zeuss, *G.C.* 135, 136.

Breswg (*sg.* bresygen, *f.*), *s.cl.* and *s.pl.* [L. *brassica*] cabbage, cabbage-worts, cabbages.

Brassica, *breswg*, bresych.—*Meddygon Myddfai*, 283.

Bresych (*sg.* -en, *f.*), *s.cl.* and *pl.* [L. *brassica*; Ir. *praiseach*] 1. cabbage; cabbages; cole.

Sef eu gogaur hyd guedy y keueyryer yar etyr etefho arnau a perllan a *bressyc* a llin ac eu hacure a kennyn a llin guedy y medy.—*Cyfreithiau Cymru*, i. 324.

Un fyged gerdded a gardd *fressych*.
Madog ab Gwallter: M.A. i. 404 (cf. 519).

Cais ddail y *bresych* cochon, a elwir mewn manau y cawl cochon, a bloneg iâr, a phwya'n dda yng nghyd, a dyro wrtho y nos dan rwymau.—*Meddygon Myddfai*, ii. 541.

Haidd a cheirch yn y meusydd, erfin a *bresych* yn y gerddi.—*Llanover Ms.* 63.

Oni cheffi gennin, dwg *fresych*.—*Diareb.* (M.A. iii. 174.)

Ac un a aeth allan i'r maes i gasglu *bresych*, ac a gafodd winwydden wyllt, ac a gasglodd o honi *fresych* gwylltion lonaid ei wisg.—2 *Bren.* iv. 39.

Bresych adorth: cf. s.v. *Adorth.*

Bresych cochion (*sg.* bresychen goch), red cabbage.

Bresych crychion (*sg.* bresychen grech, bresychen grych), curled cabbage, savoys.

Awst. Hau *bresych* adorth a *chrychion* erbyn y flwyddyn arall.—*Llanover Ms.* 63.

Bresych gauaf, winter cabbage.

Erfin gauaf, *bresych gauaf;* chwynu gardd a maes; cneifio ŵyn; lladd gwair.—*Llanover Ms.* 63.

Bresych gwynion, white cabbage.

Haua dy *fresych gwynion* tua diwedd Awst.
Rhisiart Sion Huw.

Bresych pengrynion (*sg.* bresychen bengron), the common cabbage.

Bresych pengrynion cochion (*sg.* bresychen bengron goch), red cabbage.

Bresych pengrynion gwyn (*sg.* bresychen bengron wen), white cabbage.

Bresych penwynion (*sg.* bresychen benwen), white cabbage.

Bresych Safwy, savoys.—*W.*

Bresych yr yd, rape, navew, coleseed, charlock, corn mustard (*Brassica napus*).

Sinapi Silvestre, berwr yr yd, *bresych yr yd*, y carl, y cerlyn.—*Meddygon Myddfai*, 293.

Bresych y cwn, dog's mercury (*Mercurialis perennis*).

Bresych y môr, sea-kale, sea-cabbage (*Crambe maritima*).

Pryf y bresych, cabbage-worm.—*W.*

2. pottage, broth, soup.

¶ In the subjoined quotation *bresych* is used for *cawl*, broth or pottage, and *cawl* for *bresych*, or cabbage. We should now say, 'Cynnull *bresych* i wneuthur *cawl;*' but *cawl* (L. *caulis*) originally denoted the herb, not its decoction; and a similar transfer of meaning must have happened in the case of *bresych*, though no longer used in that sense.

Ac yr y ty y doethant. a dydgweith y gelwis Iosep attaw y mab hynaf. Iago oed hwnnw. ac yd erchis idaw vynet yr ard y gynnullaw *cawl* y wneuthur *bressych* . . . a thra yttoed Iago yn kynnullaw y cawl. neidyr ae brathod yn y law deheu.—*Buchedd Mair*, § 37.

Ffiol fresych (=ffiol gawl, ffiol botes), a pottage-bowl, a soup-basin.

Bresych ffa, bean-pottage, bean-soup.—*Tudur Penllyn.*

Bresychen (*pl.* bresych), **Bresygen** (*pl.* breswg), *sf.* a cabbage; a single cabbage.

Cymmer ddalen *bresygen* goch, ac ira hi â gwyn wi, a gosod hi ar dy lygad wrth fyned i'r gwely.
Meddygon Myddfai, ii. 31.

I'm cinio cael *bresygen*,
Cawn yn fy nwrn erfinen.—*Llanover Ms.* 57.

Bresychu, *v.* to cabbage; to form a head (in growing).

Bretyn, -au, *sm.* [dim. of *brat*] a little rag or shred; a rag, a shred.

Hi a fu am Fruttus yn hen *frettyn*.
Iustus Llwyd: M.A. i. 559.

Bretyn bratiog, a tatterdemalion, a ragged fellow.

Brethyn (*ŭ*), -au, *sm.* [allied perhaps to *brith*, *braith:* Ir. *brat*, *bratt.* Cf. *Cormac's Glossary*, 24] woollen cloth; cloth.

Ef adely ytyr en ryd ay uarch en presguyl ay lyeyn ykan eurenynes ay *uredhen* ykan ebrenyn.
Cyfreithiau Cymru, i. 58 (cf. 42).

A pheis a swrcot o pali melyn ymdanaw. a dwy hossan o *vrethyn* gwyrdvelyn teneu am y traet.—*Mabinogion*, ii. 382.

Defnydd gwe newydd gwae anniwyd
Gwnaeth waeth hiraeth wyth wrthyd *brethyn*.
Madog Dwygraig: M.A. i. 490.

Pob peth lliain a *brethyn*,
Pob pali gwyrdd, pob plu gwyn.—*L. G. Cothi*, v. x. 51.

Tor dy bais yn ol dy *frethyn*.—*Diareb.*

Y mae gantho ugain o farsiandwyr ffeilsion i ddangos iddo yn y tywyll, y pen blaen i *frethynau* teg gwerthfawr, ond ni chaiff efe weled yr holl we *frethyn*.
Dr. John Davies: Llyfr y Res. II. iii. 37.

Brethyn arian, *Brethyn arian-bleth*, } cloth of silver tissue.

Brethyn aur, cloth of gold.—*S.*

Brethyn bras, *Brethyn garw*, } coarse cloth.

Brethyn cedenog, cotton-cloth.

Brethyn cri, raw cloth.

Brethyn cul, *Brethyn unlled*, } narrow cloth.

Brethyn cartref, home-made cloth.

Brethyn cotymog, *Brethyn cotwm*, } cotton-cloth.

Brethyn cyfrwy, saddle-cloth.

Brethyn deuled, broad cloth; fine cloth.

Brethyn dinesig, superfine cloth.

Brethin eddi, a rug or coverlet with a pile of thrums.

Brethyn elor, bier-cloth, hearse-cloth.

Brethyn Gwerddonig, Irish rug.—*S.*

Brethyn gwyn tal pentan, home-made white cloth.

Or tereu dyn ryd dyn caeth talet deudec keinawc idaw chwech dros teir kyuelin o *urethyn gwyn tal pentan* wrth lad eithin idaw yn defnyd peis.—*Cyfreithiau Cymru*, i. 696.

Brethyn odyn, a kiln-cloth.

Brethyn rhawn, *Brethyn blew*, } hair-cloth.

Brethyn sylldy, fine woollen cloth.

Map brethinnou (=mab brethynau), glossed '*in cunis*,' in the Oxford Glosses (Zeuss, G.C. 1057) seems to signify a child in swaddling clothes. Cf. *Codex of Juvencus*, 8.

Brethynaid, *a.* made of woollen cloth.

Brethynaidd, *a.* of the quality of cloth; like cloth.

Brethyniaeth, -au, *sf.* woollen drapery.

Brethynol (*ў*), *a.* relating to woollen cloth; made of cloth.

Brethynwisg, -oedd, *sf.* a woollen garment or clothing; woollen apparel.

Teregueyt ene uuluyn e deleant epeduuarsuydauc arugeyn huchof kafael heruuyd kefreyth eu *bredhenguysc* ykan ebrenyn ac eu llyeynguysc y can eurenynes.
Cyfreithiau Cymru, i. 6 (cf. 14, 16, 18, 24, 26, 28).

Brethynwr, wyr, } *sm.* a woollen-draper; a
Brethynydd, -ion, } dealer in cloth.

Brëu, *v.* [im.=brefu: cf. *efrëu*] to low; to bleat; to bray.

Breuad, aid, *sm.* a grave-worm; a worm that eats the bodies of the dead.—*D.*

Tebygwn gwelaf di mewn isel fan,
Tra yn alaraidd ar dy ddeurudd dêr
Y *breuaid* glwth yn gleingiau swrth y sydd
Heb fraw yn llewa.—*Iago Trichrug:* Bedd.

Pughe renders *breuad* 'a slaughterer, a cannibal,' as well as 'a grave-worm'; and quotes the following triplet in support of that meaning:

Lluest Cadwallawn ar Hafren,
Ac o'r tu draw i Ddygen,
A *breuaid* [al. *breiaid*, al. *afrieid*] yn llosgi Meigen.
Llywarch Hen (M.A. i. 121).

But the reading which he adopts, and which he translates 'cannibals,' is not found in any printed text; and if *breuaid* were correct, the word could hardly signify cannibals. See *Afrifaid.*

Breuan, ain, *sf.* a carrion crow.

Breuan, -au, *sf.* [brau, briw: C. *brou* (*gl.* mola); Br. *breô*, *breou;* Ir. *bron*, *broon*, *bro;* Mx. *braain.* Possibly a verb, *brëu* (to bray or pound), may have existed in Welsh] 1. a hand-mill, a quern.

E *ureuan* pedeyr keynnyauc.
Cyfreithiau Cymru, i. 304 (cf. 106).

Cliciedyn yn cloi ceudawd,
Cloppren gwern, clap *breuan* gwawd.
D. ab Gwilym, cxlvi. 19.

Elid y wrach i'r *freuan* er ei geneu ei hunan.
Diareb. (M.A. iii. 155; cf. 177.)

Ei friwo wnai y *freuan*,
Ac ni friw a gno'i y frân.—*Ieuan Tew.*

Breuan dinfoel, a round-bottomed quern; the lesser handmill.

Ni wastata mwy na *breuan dinfoel.*—*Diareb.*

Maen breuan, a quern-stone.

Gwerth deu *vaen breuan* pedeir keinnawc kyureith.
Cyfreithiau Cymru, i. 586 (cf. 304).

Egur adele e *maen* vchaf yr *vreuan;* ar greyc er hyshaf.
Cyfreithiau Cymru, i. 82 (cf. 66).

2. a brake (for hemp or flax).—*Th. Richards*, s.v.

Breuan, -au, *sf.* [probably a different word from the preceding; unless the print, as has been suggested, bore some resemblance to a quern-stone] a lump, mass, or print of butter.

Y wreic bieu yr emenyn oll namyn vn llestreit bieu y gwr: ac or byd *breuaneu* emenyn ygwr a geiff vn.
Cyfreithiau Cymru, i. 752 (cf. 534).

Breuandy, dai, *sm.* a quern-house; a mill-house.

Guerth *breuandy* punt.—*Cyfreithiau Cymru*, i. 304.

Breuanfod, -au, } *sm.* a quern shed or
Breuanfwth, fythod, } booth.

Ar e *breuanuot* pedeyr keynnyauc.
Cyfreithiau Cymru, i. 304.

Ar y *breuanfwth* pedair ceiniawg.
Leges Wallicae, III. vii. 179.

¶ The two forms seem variants of the same word, the first, which occurs in the Venedotian Code, being the older.

Breuaniad, -au, *sm.* a grinding in a mill; a braying or pounding; a breaking small.

Breuanllif, -iau, *sm.* a grindstone: also called *maen llifo*, *maen llifanu*, *maen llif*, and *breuddil.*

Breuanllyf am pop vn o henne pedeyr keynyauc.
Cyfreithiau Cymru, i. 304.

Breuant, annau, antau, *sm.* See *Brefant*, &c.

Afal breuant: cf. s.v. *Afal*, 2.

Breuanu (*ā*), *v.* to mill; to bray, pound, or bruise; to break (flax or hemp).

Breuanu llin neu gywarch, to break flax or hemp with a brake.—*Th. Richards*, s.v.

Breuanwr, wyr, *sm.* a grinder; one who brays or pounds, a pounder.

Breuawd, *sm.* [brau] brittleness; frailty; death.

Am derwyn hen enwig [*al.* euwig]
Breuhawd bragawd brig.—*Taliesin:* M.A. i. 65.

Gwir gwae i werin gwin eu gwirawd
Gwr a lywai lu cyn bu *breuawd.*—*Meilir:* M.A. i. 189.

Breubys, *s.pl.* [=bribys, from *brib*] small pieces, fragments, bits; crumbs.

Tori yn freubys, to break to pieces; to shatter.

Breubysyn, *sm.* a small bit, piece, fragment, or crumb.

Breuder, } *sm.* brittleness; fragility; frailty;
Breudra, } frankness, promptness.

Breuddil, -iau, *sm.* [brau (as in *breuan*)+dil-io] a grindstone.—*Gwent.*

Maen breuddil, a grindstone.

Breuddilad, -au, *sm.* a grinding; a pulverizing; a consuming.

Breuddilo, *v.* to break in pieces; to grind; to pound or bray; to consume.

Lliaws feiddiaw, lluydd *freuddilaw*,
Lluddiwr eiddaw, llaw ddewr roddiad.—*Sefnyn.* (*P.*)

Breuddwyd, -ion, *sm.* [braidd? Ir. *bruadair*] a dream.

Breuduid a uelun neithwir. ysceluit ae dehoglho.
Llyfr Du: A.B. ii. 5.

Ac uelly y kyscwys Maxen. ac yna y gwelei *vreidwyt.* sef *breidwyt* a welei. y uot yn kerdet dyffryn yr avon hyd y blaen.—*Mabinogion*, iii. 264.

Breuddwyd gwrach wrth ei hewyllys.
Diareb. (M.A. iii. 150.)

Y mae amryw fath o *freuddwydion: breuddwydion* oddi wrth dymmer y corff, *breuddwydion* oddi wrth ofal, a *breuddwydion* oddi wrth ysprydion.
Dafydd Lewys: Golwg, ii. 4.

Breuddwydion y beirdd ydynt.—*Gronwy Owain*, 78.

Breuddwyd o ddyn, a dreaming fellow, a dreamer, a mope.

Breuddwyd effro, a waking dream, a reverie.

Gwag freuddwyd, an idle or vain dream.

Breuddwydiad, -au, *sm.* a dreaming; a dream.

Gwarandaw fy nghwyn frwyn *freuddwydiad*
Mau glwyf a mawr-nwyf murniad.
Hywel ab Einion Lygliw: M.A. i. 512.

Breuddwydio, } *v.* to dream; to see in a
Breuddwydo, } dream.

Breudwydiaw er bun balchliw arien dos
Ys odidawg nos neu ym hepcyr.
Gwalchmai: M.A. i. 194.

Hirgwyn yssym dwyn urwyn *vreutwydaw* ·
Hirgawt nyd anhawt im ym danaw.
Bleddyn Fardd: M.A. i. 367.

Breuddwydio breuddwyd, to dream a dream.

A Ioseph a *freuddwydiodd freuddwyd*. . . Gwrandëwch, atolwg, y *breuddwyd* a *freuddwydiais* i. . . Hefyd efe a *freuddwydiodd freuddwyd* arall, ac a'i mynegodd i'w frodyr, ac a ddywedodd, Wele, *breuddwydiais freuddwyd* eto.
Gen. xxxvii. 5, 6, 9 (cf. xl. 5, 8).

Breuddwydiog, } *a.* having dreams; troubled
Breuddwydog, } with dreams; dreamful, dreamy.

Breuddwydiol, } *a.* relating to dreams; dream-
Breuddwydol, } ing, dreamy.

Yny may peunyd poen angerddawl
Kyn mynet or byd bryd *breuddwydawl*.
Bleddyn Fardd: M.A. i. 372.

Breuddwydiwr, wyr, }
Breuddwydwr, wyr, } *sm.* a dreamer; a mope.

A mab ieuaf Addaf oedd,
Breuddwydiwr a bardd ydoedd.—*Ieuan Du'r Bilwg.*

Wele y *breuddwydiwr* yn dyfod.
Gen. xxxvii. 19 (cf. Ier. xxvii. 9).

Nid yw hyny ond tywalltiad anwybodaeth, yn profi annysgeidiaeth y cyfryw *freuddwydwyr* geudyb.
Iolo Morganwg: Cyfr. y Beirdd, Rhag. 8.

Breuddwydydd, -ion, *sm.* a dreamer; a mope.

Rhy anniben wyf ail Ronabwy
Rhyw *freuddwydydd* moel coel celadwy.
Madog Dwygraig: M.A. i. 485.

Pan godo yn dy fysg di brophwyd, neu *freuddwydydd* breuddwyd, a rhoddi i ti arwydd neu ryfeddod . . . na wrandaw ar eiriau y prophwyd hwnw, neu ar y *breuddwydydd* breuddwyd hwnw.—*Deut.* xiii. 1, 3 (cf. 5).

Breuer, } *a.* [orthographical variants of *brefer*
Breufer, } (bref, brëu): cf. *brefwer*] lowing; roaring; loud; sonorous.

Cad ymrhysg Cadleu, cad yn Aber-ioed
Y ddygyfrang a dur *breuer* mawr.
Taliesin: M.A. i. 57 (cf. 14, 127).

Am rodes rwydles rwyf nifer
O'i alaf amliw biw *breufer*.—*Cynddelw:* M.A. i. 209.

Breuhâd, *sm.* a becoming brittle or tender; a making brittle or tender.

Breuhau, *v.* [brau] 1. to become brittle or fragile; to become tender (as meat, &c.).

2. to make brittle or fragile; to make tender.

Enllib, ac anllad ddrwg eiriau
A gwnnant, och! i'r genau,
I friwio hedd a'i *freuhau*.—*Daniel Ddu*, 87.

Breulif, *a.* ground-edged; sharp-edged.

Cledyf o byd *breulyf* deudec keynnyauc.
Cyfreithiau Cymru, i. 304.

Breulifaid, *a.* ground-edged; sharp-edged.

Cledyf *breulifueit* deudec keinnawc atal.
Cyfreithiau Cymru, i. 586.

Breuo, *v.* [brau] 1. to become brittle.

Nis gallant nyddu a phlethu hen wiail wedi crino a *breuo*. . . Yr wyf wedi *breuo* fel gwiail crinion.
Nicander (Haul, C.C. xiii. 197).

2. to make brittle. 3. to make (meat) tender (by cooking).

Breuol, *a.* 1. brittle; fragile, frail.

Lliavs peleidrad gwaedlad gwaedlan
Lliaws aerwyr bryw *breuawl* vidan.
Myv. Arch. i. 48 (cf. A.B. ii. 4).

Hoedyl breyr *breuawl* o beth.
Llywelyn Fardd: M.A. i. 355 (cf. 349, 354).

A brwydyr a breis[c] rwysc yn brwyscyaw
A *breuolyon* ewyn yn cwympyaw.
Cynddelw: M.A. i. 259 (cf. 225, 281).

Pan dderfydd dyddiau'r *freuol* oes
E dry y groes yn goron.—*Blodau Ieuainc*, 51.

2. prompt; of a ready disposition.

Ceuais i liaws awr eur a phali
Gan *vreuawl* rieu er eu hoffi.—*Meilir:* M.A. i. 192 (cf. 321).

Breuolaeth, -au, *sf.* brittleness, frailty, fragility; dissolution, death.

Gwnawn yrdau kyn brau *breuolaeth*
Dioheb wosseb wasanaeth.
Cynddelw: M.A. i. 250 (cf. 248).

Ei fyrddoedd cyhoedd cawsynt edgyllaeth
Am ei *freuolaeth* hiraeth hyd.
Dafydd Benfras: M.A. i. 312 (cf. 524).

Breuoldeb, }
Breuolder, } *sm.* brittleness; fragility; frail-
Breuoledd, } ty, frailness.

Gwae a gretto bro *breuolder* vuched.
Gr. ab Meredydd: M.A. i. 475.

Nad fi iwrthyd i wrthrych maswedd
Gwagedd *breuoledd* a ddiweddych.
Madog ab Gwallter: M.A. i. 405 (cf. 374, 537).

O ansicrwydd a *breuolder* bywyd dyn gwael!
Cawrdaf: Meudwy, 31.

Breuolrwydd, *sm.*=*Breuoldeb.*

Breurwydd, *sm.* [brau] brittleness, fragility.

Breuwydd (*sg.* breuwydden, *f.*) *s.cl.* and *s.pl.* berry-bearing alder (*Rhamnus frangula*).—*H. Davies:* Welsh Bot. 160.

Brewlan, *v.* [E. *brawl ?*] 1. to talk incoherently or incessantly. 2. to drizzle.—*Dyfed.*

Mae hi yn brewlan gwlaw, it rains drizzlingly; it drizzles.—*Dyfed.*

Brewych, -au, *sm.* [braw] fright, terror; surprise.

Yn ei frewych, in his fright.—*S. W.*

Brëyr, } -iaid, -on, *sm.* [from *bre ?* cf. *uchelwr:*
Brehyr, } C. *breyr*] a baron; a gentleman; one belonging to the intermediate class between the king and the villain: also called *uchelwr*, *gwrda*, and *gwr rhydd*. It is of very frequent occurrence in the Welsh Laws.

Tri ryw dyn yssyd brenhin a *breyr* a bilan ac eu haelodeu.
Cyfreithiau Cymru, i. 350.

Sev yw *brehyr*, cynnwynawl tiriawg o benteulu yn mraint brawdwr llys.—*Cyfreithiau Cymru*, ii. 556.

Sef rhyw wyr y rhei hynny, *breyryeit* heb swydd iddunt ar neb.—*Cyfreithiau Cymru*, ii. 742.

Pwy wledych wedy *brehyryeit* . . .
Dywedynt brenhin o *vrehyr*.
Cyfoesi Myrddin: A.B. ii. 223 (M.A. i. 142).

Prydyt ny hepcyr yr *breyer* braw.
Cynddelw: M.A. i. 231 (cf. 355, 496).

Derllesid i'm llaw llad ym godau
Y'ngwaith Maesgarned gan *freyrau*.
Gwalchmai: M.A. i. 195 (cf. 157, 164, 194).

Byr yw'r glod i'r *brëyr* glân,
Bwrw iaith hygar brith ogan.
Guto'r Glyn, i. H. D. ab Ieuan.

Beilchion *frëyron* mawr fri.—*Daf. Ionawr:* Gwaith, 297.

Bydded hyspys a chyfraith i bawb, yn dywysogion, ac arlwyddi, a boneddigion, a *brehyriaid*, a'u dyledogion. . . Ai arlwyddi llys, ai boneddigion o *frehyriaid*, ai gwreng, ai eillion dam y bônt.—*Iolo Mss.* 223.

Eryr a *brëyr* lle briwid bwyeill
A llaw ar ereill a oreurid.—*L. G. Cothi*, II. x. 51.

Arglwydd frëyr (*pl.* arglwyddi frëyron), lord baron.

Llys frëyr (=llys brëyr, *llys* being formerly fem.) a court-baron.

Brëyron y syllty, barons of the exchequer.—*W.*

Brëyraidd, *a.* befitting a baron; baronial.

Briw aerau a'i ron *breyraidd* ei radd.
Dafydd y Coed: M.A. i. 494.

Brëyrdir, -oedd, *sm.* baron-land; the land of barons.

Achaws yw nid amgen no bod y cyndrychawl N. yn camgynnal maint hysbys o *vreyrdir* Cymreig or tu vewn ir plas ar orsedd a vynych di.—*Cyfreithiau Cymru*, ii. 472.

Brëyrdref, -i, -ydd, *sf.* a baron-town; a barony.

Ein bod ni . . . yn rhoddi braint a thrwydded dyledogion ym *mrehyrdref* Llanilltud Fawr yng Ngwlad Forgan.
Iolo Mss. 223.

Brëyres, -au, *sf.* a baroness; a lady.

Brëyr gwŷr gweryl ymwan,
A *brëyres* loew-les lân.—*Sypyn Cyfeiliog.*

Brëyriaeth, -au, *sf.* a baronage; barony.

Bod trigolion gresynol ond heddychol y *brëyriaeth* hwn mewn cyflwr o'r tlodi eithaf.—*Seren Gomer*, v. 253.

Brëyrig, -ion, *sm.* a baronet.—*W.*

Brëyrigaeth, -au, *sf.* baronetage, baronetcy.—*W.*

Brëyriol, **Brëyrol**, *a.* baronial; pertaining to a baron or the barons.

Gwir ys henwi'r Gors honno
Yn Gedol *frëyrol* fro.—*Gro. Owain*, 46.

Llys brëyrol, *Llys frëyrol*, a baronial court, a court-baron.

Y kyntaf ar eil rac bron y brawdwr penaf y dylan atteb or byd ae gofynno ac nid y *llys brenhuryawl* [brehuryawl].
Cyfreithiau Cymru, ii. 396.

Brëyrllys, **Brëyrlys**, -oedd, *sm.* a court-baron.

Bri, -au, *sm.* [C. *bry;* O.Ir. *brig;* Ga. *brigh;* Mx. *bree*] 1. honour; dignity; rank; esteem; repute; distinction; account; worth.

Pwyll am kyveiryd or Creaudyr or cyd
Or Mab or Yspryd o'r iaunvryd *vri*.
Meilir ab Gwalchmai: M.A. i. 324 (cf. 423).

Nid oedd yr un o arian; nid oedd dim *bri* arno yn nyddiau Salomon.—2 *Cron.* ix. 20 (cf. 1 Bren. x. 21).

Y clod a'r nerth, y gallu a'r *bri*,
Fo fyth i enw'n Harglwydd ni.
W. Williams: Hymnau, DCCV. 3.

Drwg fri, bad repute; bad name.

Fy Arglwydd, bellach cofia hyn,
I'r gelyn gynt dy gablu:
Ac i'r ynfydion roi *drwg fri*,
A'th enw di dirmygu.—*Edm. Prys:* Salm. lxxxiv. 18.

2. [=bri Duw; briduw] a solemn asseveration.

Ac vrth hynny y dyvedir . . . nat kyfnewit heb *vri* heb vach: ac vrth na bu *vri* hitheu ac na bu teir llaw, nat kyfnewit.—*Cyfreithiau Cymru*, ii. 176.

Bri Duw=Briduw, q.v.

Briad, -au, *sm.* a conferring of honour, dignity, or rank; a dignifying or honouring.

Briaeth, -au, *sf.* dignity, honour.

Gwell genyf farw er eich mwyn na meddu pob golud, a dwyn holl *friaeth* bydol yn dragywydd difarw heboch.
Llythyr Serch (Y Taliesin, i. 77).

Briaidd, *a.* giving honour or distinction; honorary.

Brial, *sm.* and *s.cl.* [?] grass of Parnassus (*Parnassia*).

Brial y gors, parnassia palustris.—*H. Davies:* Welsh Bot. 31, 160.

Briallen, *pl.* briallu, *sf.* a primrose.

Briallen welw, dro yn ol,
A unig dyfai ar y ddôl.—*Telynegion*, 26 (cf. 20).

Briallog, *a.* full of or abounding with primrose.

A gerddi llawnion wrth y llanau llonydd,
Briallog nentydd dan y creigiawg fynydd.
O. Wynn Jones: Myrddin Wyllt, xvi.

Y parlas *briallawg*, yn geinwiw dryliwiawg,
Yn lledu dan neithdar y cangau blodeuawg.
O. Wynn Jones: Myfanwy Fychan, i.

Briallu (*sg.* briallen, *f.*), *s.cl.* and *pl.* the primrose; primroses (*Primula*).

O *friallu* blodeu bre.—*Taliesin:* M.A. i. 30.

Pwy bynnac a gollo y synnwyr neu y ymadrawd. yuet sud y *briallu* o vywn y deuuis y collo.
Meddygon Myddfai, i. 68.

Briallu cyffredin, common primrose (*Primula vulgaris*).

Briallu Mair, cowslip; cowslips.

Briallu Mair sawyrus, common cowslip, paigle (*Primula veris*).

Briallu Mair disawr, great cowslip, oxlip (*Primula elatior*).—*H. Davies:* Welsh Bot. 20, 160.

Briallu y cwn, the dogrose?

Dyma'r lle i feithrin *briallu cwn*, bysedd cochion, rhosynau gwylltion, mwyar duon, ac eirin perthi, a'r llysiau meddyginiaethol a ddiwyllir gan Natur.—*Haul*, C.C. xxvi. 347.

Brib (*ī*), -iau, *sm.* [probably a Celtic word, allied perhaps to *briw*, *briwys:* cf. Ir. and Ga. *brib*. The Eng. *bribe* is supposed to be from the Fr. *bribe*, a hunch of bread. Cf. Brachet, s.v. The word seems to denote a small piece or fragment] a bribe.

Y rhaglaw yn gobeithio cael *brib*, ond yn ofer.
Esg. Parry: Act. xxiv. (Cynn.)

O arian a dderbynier am beth anghyfreithlon, megys am gamdystiolaeth neu *frib*, neu gyflog puteiniaid, a bargeinion anghyfion, neu o fudr elw, megys cyflog am weithio ar y Sul, am dy anffurfio dy hun, am fod yn hutan ddigrif neu'n gyff cler.—*Elis Wynn:* Rh. B. S. iv. 8 (219).

Bribiaeth, -au, *sf.* bribery.

Bribian, *v.* to practise bribery.

Bribio, *v.* to bribe.

Twyllodd a *bribiodd* heb raid,
Carodd ddwyn da'r cywiriaid.—*Huw Dwnn.*

Bribiwr, wyr, *sm.* a briber.

Nac yn frebwl, nac yn *freibiwr*,
Am un gwirion y mae'n garwr.
W. Middelton: Salm. xv. 15.

Bribsyn, *sm.* [contr. of bribysyn]=*Bribysyn*.

Bribwl, *s.pl.* [brib] pieces, bits, shatters.

Bribys, *s.pl.* [brib] small pieces, bits, fragments; crumbs; worthless bits.—*C.S.*

Nid yw'r bythol bethau mawr
I'th dyb di'n awr ond *bribis*.
Elis Wynn: Bardd Cwsg (1703), 81.

Tori yn fribys, *Tori yn fribwl*, to break to pieces; to break into shatters; to crumble.

Bribysyn, *sm.* a small piece or fragment; a bit; a crumb.—*C.S.*

Bricyll (*sg.* -en, *f.*), *s.pl.* and *cl.* [from E. *apricot*, †*abrecock*, *abricoct*, *apricock?*] apricots; the apricot.

Y mae gwres yr haf yn peri fod amrywiaeth yng nghynnyrch y tir . . . yn y ffrwythau, o afalau a pher i eirin gwlanog . . . a *bricyll*.—*Llawlyfr Canada*, 14.

Bricyllen, *pl.* bricyll, *sf.* a single apricot.

Bricyllwydd (*sg.* -en, *f.*), *s.pl.* apricot-trees.—*H. Davies:* Welsh Bot. 160.

Brid, -iau, *sm.* an eruption; the scab; a skin disease of cattle, and especially of swine.

Brido, *v.* to break out; to burst forth; to incite, to stir.

Cerdd frido, an incentive song or poem.

Cwyn tant am ei fabsant fo,
Oedd i F'redydd *gerdd frido.*—*L. G. Cothi,* i. v. 37.

Tant brido, an incentive or stirring strain (of a stringed instrument).

Ei glod a draethir gan gildant *brido,*
Tra draetho geneu, tra ddyweto *tant.*
L. G. Cothi, i. xxii. 43.

Bridog, *a.* 1. scabby. 2. moving, stirring.

Bridol, *a.* eruptive; moving, inciting.

Briduw, *sm.* [for *bri Duw* (God's honour or majesty), the two words having coalesced, and so forming an improper compound] 1. a form of swearing analogous to 'plighting one's faith,' or 'swearing by one's faith;' 'a solemn asseveration to the truth of a thing by a person on his faith;' a solemn asseveration or adjuration; asseveration, adjuration; troth.

Kyfreith a dyweit yna nat oes cret namyn *bri duw,* ac nat kyfreitholach idaw ynteu y taraw ef ae law yn agoret noc ae law yn gayet.
Cyfreithiau Cymru, ii. 108 (cf. L.W. 113).

Ac vrth hyny y dyvedir nat *bri duv* heb dvy lav nat mach heb teir llav.—*Cyfreithiau Cymru,* ii. 176 (cf. 128).

Am *vry dyw* ew hyn. O deruit y din rodi *briduw* neu kamrit *bridiu* hi can arall a deueduit paniv ar pedeir arugein emae y *wri duw* ar llall en adef bot *bridu* ar chuech keniauc essef a deueit e kefreiht delehu o honau ef bot en atuerur pahar emae e *bridiu* ef ae ar pedeirarugein ae ar chuech keniauc kan nid ediu en guadu e *bridu.* . . Kyt dywetter y bot hi yr *vri duw* nini a deuedun nat *bridiu* eni kauarfo e teirllan ykit. . . Er egluis ar brenin adele kemell *bridiu* kanes Diu a kemerhuit en lle mach. Ar egluis bieu i guahart am *bridiu* ar brenin y kamell; kanes ykan pop din or a uedeter edeleir kemrit *bridiu.* . . Ac vrth hene edele a gur a gurich roy *bridiu* het in oet mab seihisbluit ael a dan lau e peryglaur.—*Cyfreithiau Cymru,* i. 134 (cf. 132).

Lleufer Mawr . . . a ddodes fraint gwlad a chenedl a brawd a *briduw* ar a fyddaint o'r ffydd yng Nghrist.
Trioedd: M.A. ii. 63.

Briduw gorsedd, gan ddefod, yw sefyll gan orsedd, â brysyll prydydd yn llaw, ac edrych yn wyneb haul a llygad goleuni.—*Iolo Mss.* 61.

Pa ham y troer golwg ar yr haul ym mhob *briduw* a gweddi?—*Barddas,* i. 262 (cf. ii. 72, 80, 154).

2. a contract or agreement made by solemn asseveration or *briduw.*

3. a warranty or guarantee (in buying and selling).

Pwy bynnac a holho da trwy edewit, holet trwy *vriduw.*
Cyfreithiau Cymru, i. 598 (cf. 430).

Arian briduw, earnest money. (Cf. Germ. *Gottesgeld, Gottespfennig.*)

Diofryd a briduw, curse and adjuration.

Efe a'u tyngedodd hwynt, myn dyrchafedigolder yr amherawdr bendigaid Caisar, er tystiaw o honynt yn ddianudon ys nad yng ngodineb o ordderch y cafad yr Iesu, ac ar iddynt ym mach o *ddiofryd a briduw* ddodi hyny ar dwng a chrair ger wyneb yr holl bobl a ddywedaint er gwrthwared am yr Iesu.
Dafydd Fychan: Efengyl Nicodemus, ii.

Briellyn, *pl.* briallu, *sm.* a primrose.

Yn hyn y maent mor debyg i'w gilydd ag ydyw unrhyw dri *briellyn* ar lethr y fron.—*G. Mechain:* Gwaith, ii. 490.

Brifo, *v.* a N.W. corrupt form of *briwo,* q.v.

Brig, -au, *sm.* and *s.cl.* 1. the top, summit, or apex (of anything); tops; upper branches; branches; shoots or sprigs of a tree, or of any other plant.

Gorddu yw *brig* y Werddon
Gan fwg ceginau o Fon.—*L. G. Cothi,* i Fon.

Eira mynydd llwm *brig* cawn
Ni chydfydd dedwydd a diddawn.
Engl. Eiry Mynydd: M.A. i. 547 (cf. 206, 208, 226).

Brig a bon, top and bottom; top and tail.

O'r brig i'r bon, from top to bottom; from top to toe.

Breg yw'r byd *o'r brig i'r bon.*—*Rhys Jones:* Gwaith, 93.

Brig pren, the top of a tree; the branches or upper branches of a tree.

Ef a edrychawd . . . ac a arganuu marchawc urdawl yn eisted dan *vric pren.*—*St. Greal,* § 186.

Mae'r siroedd, a'r Mars, orig,
Mal pren a fo moel heb *brig.*—*L. G. Cothi,* iv. iii. 3.

Cymmerwch i chwi ffrwyth pren prydferth, cangenau palmwydd, a *brig pren* caeadfrig.—*Lef.* xxiii. 40.

Brigau coed, / *Brig coed,* } the branches or tops of trees.

Bwyd o *frig coed* bedw y fron.—*D. ab Gwilym,* cx. 23.

Ti a wely prenn mawr. a glassach yw y *vric* nor ffenytwyd glassaf.—*Mabinogion,* i. 7.

Gorwyn blaen derw chwerw *brig* on.
Llywarch Hen: M.A. i. 122.

Afallen burwen ei *brig* a dyf y gymes yn fessig.
Myrddin: M.A. i. 150.

A gwrysc kelyn yn amyl ar y llawr. gwedy ryyssu or gwarthec eu *bric.*—*Mabinogion,* ii. 373.

Brig llwyn, the top of a grove or bush; the upper branches of a bush.

Hoff yw prydnawnol emyn llon
Y llinos wâr ar *frig* y *llwyn.*—*Telynegion,* 11.

Brig tarian, the top or upper part of a shield.

Yna ef adoeth tuac attaw. ae gledyf yn noeth yny law. ac ym *bric* y *daryan* ae trewis yny hyll hyt y pherued.
St. Greal, § 191.

Brig y don, the crest or foamy top of the wave.

Doeth dros *frig* tonniar car cadarnaf.
Gr. ab Meredydd: M.A. i. 461 (cf. 463).

A'i fwng yn debig ddigon
I fargod tŷ, neu *frig ton.*—*Guto'r Glyn.*

Brig yr hwyr, the dusk of the evening; the dusk.

Ym mrig yr hwyr, in the dusk of the evening; in the evening twilight.

Myfyrdod ar Einioes ac Angeu, a ysgrifenwyd mewn mynwent, yn y wlad, *ym mrig yr hwyr.*
D. Davis: Telyn Dewi, 29.

Brig y nos, the approach of night; the incipient night; the dusk.

Ym mrig y nos, in the dusk; in the evening twilight.

Brig y wawr, the early dawn; the early morn.

Cân adar eu plygeiniau mwyn
Ym *mrig y wawr* rhwng dail y llwyn.—*Telynegion,* 19.

Codi ym mrig un, to set upon a person; to attack one (generally with angry words).

2. the hair of the head.

Oedd wenfun hoywlun hael
A gerais dan *frig* uraeł.—*Gr. ab Meredydd:* M.A. i. 458.

Dy dal fal blodau dolydd,
Dy *frig* fal yr ewig rydd.—*Robin Ddu ab Siancyn.*

3. (in botany.)

Brigau Gwener (corr. of *briger Gwener?*)=*Briger Gwener.*

Brigau'r twynau (prob. a corr. of *briger twynau* or *briger y twynau*), yellow bedstraw, cheese-rennet (*Galium verum*).—*Hugh Davies:* Welsh Bot. 15, 160.

Brigadws, *s.pl.* shrubs, brushwood, small branches.—*Gwent.*

Brigant, -au, *sm.* [brig] a summit or top.—*P.*

Brigant, -iaid, } *sm.* [cf. *Brigantes*, a northern
Brigantiad, iaid, } people in Roman Britain: Br. *brigant*, a brigand or robber] a highlander, a mountaineer; a depredator.—*P.*

Brigant, lleidr gorwlad.—*O.V.*

Chware brigant, } an old game, partly re-
Chwareu brigant, } sembling 'prison-bars' and 'barley-break,' is thus described by Dr. Pughe (s.v.): 'A British war dance, wherein the parties sometimes move in a circle, and at other times they clap their hands in particular passages of the music; after having taken one of the party, who is called *brigant*, he is made to pass under their arms; then he is set to some work, as a tailor, or shoemaker, to denote his being a slave. He being reconciled, falls to work and sings a song, whilst the dance continues.' A minute description of this game, as played in the last century, differing in some points from the preceding account, will be found in the *University College of Wales Magazine*, iii. 159.

Brigant a ddaliwyd, *brigant* y coed,
Brigant a ddaliwyd, penaf fu erioed . . .
Brigant y coed, *brigant* a ddaliwyd, *brigant* y coed,
Brigant dan afael a chlwm ar ei droed.—*Canu'r Brigant.*

Nid oes nemawr y dydd heddyw a ŵyr *chware'r brigant;* y mae yn awr (1803) agos i hanner cant o flynyddau er pan fûm i yn un chware, ac y mae rhai pethau wedi myned dros gof imi.—*Iolo Morganwg.*

Brigbawr, borion, *sm.* browse; the tender branches or twigs of trees and shrubs, eaten by cattle and other animals.

Brigbori, *v.* to eat the tops of plants; to browse; to nibble.

Brigboriad, -au, *sm.* a browsing; a nibbling.

Brigdori, *v.* 1. to cut the top or tops; to top; to prune; to lop.

Gochel *frigdori* coed a llysiau pan fo hen y lleuad; canys a *frigdori* yr amser hyny, nid mwyach y tyf.
Rhisiart Sion Huw.

Nid yw'r march byth yn sefyll i syllu ar eu prydferthwch; na'r ych yn troi o'r neilldu i *frigdori* eu melusderau.
Myfyrdodau Hervey, 150.

2. to apocopate.

Brigdoriad, -au, *sm.* 1. a lopping, topping, or pruning.

2. an elision at the end of a word; apocope; apocopation.

Mo. Beth wrth hyny ydyw *brigdoriad?* Ffugr yn tori i ffordd ben y gair; mal gofyn, dyfyn, tros gofynu, dyfynu.—*Dr. Gr. Roberts:* Gram. 71 (cf. 70).

Brigdyfiad, -au, *sm.* an addition at the end of a word; a postfix; proparalepsis.

Mo. Beth yw *brigdyfiad?* Gr. Ffordd i ddodi llythyren ne sillaf at ddiwedd gair; mal annogi, tros annog.
Dr. Gr. Roberts: Gram. 71 (cf. 70).

Brigddyrniad, -au, *sm.* a thrashing of the tops.

Brigddyrnu, *v.* to thrash the top or tops; to thrash imperfectly.

Brigddyrnu ysgubau, to thrash the tops of sheaves (leaving the other part unthrashed).

Brigedd, *sm.* summit, top; height.

Un agwedd o *frigedd* fri,
Un rhinwedd â'i rhieni.—*Rhys Jones:* Gwaith, 132.

Briger, -au, *sm.* and *s.cl.* [brig] the hair of the head; capillaments, chives; a tuft or head of hair; a tuft; a top.

Ir carnotaul *bricer* (*gl.* uitta crinalis).
Martella Glosses, 11.

Ac ydd oedd *friger* coch ac och ardant.
Taliesin: M.A. i. 68 (cf. 56, 113, 167).

Cletyfeu cochyon cochyn *vriger.*
Cynddelw: M.A. i. 229 (cf. 576).

Dy fedd glwys, difaddeu i gler,
Dy fragod du ei *friger.*—*D. ab Gwilym*, xiv. 11.

Gorhydr, *brigerau* drwy wybr a gariant;
Un o'u banierau er neb ni wyrant.
Dewi Wyn: Blodau Arfon, 34.

Briger llaes, long or flowing hair.

Morwyn deg â *briger llaes.*—*D.*

W. Salesbury uses *briger* alone for long hair (A.V. *llaeswallt;* Gr. κόμη):

Anyd yw yntef anian yn dysgu iwch, as bydd *briger* [*gwallt hir] i wr, mai anghlod yw iddo? Ac as bydd *briger* i wraig, clod yw iddei: can ys ei *briger* a roed iddei tu ag wisg pen.—1 *Cor.* xi. 14, 15.

Briger blodeuyn, the capillaments of a flower.

Briger Gwener, } maidenhair, true maidenhair,
Briger Gweno, } Venus' hair (*Adiantum capillus Veneris*).—*H. Davies:* Welsh Bot. 161.

Brigeraidd, *a.* resembling hair; capillary.

Brigerfwsogl, *sm.* hair-moss (*Polytrychum.*—*H. Davies:* Welsh Bot. 109, 161.

Briger y twynau, yellow bedstraw, cheese-rennet (*Galium verum.*—*H. Davies:* Welsh Bot. 15.

Brigerol, *a.* capillary, hair-like.

Attyniad brigerol, }
Attyniad brigeraidd, } capillary attraction.

Esgyniad dwfr, neu unrhyw hylif arall, mewn sugr, yspwng, a phob corff mandyllog cyffelyb, math o'r attyniad hwn ydyw, a gelwir ef *attyniad brigerol;* a derbynia yr enw oddi wrth fod pibellau tra bychain eu tyllau, prin fwy na briger neu wallt, yn peri i ddwfr esgyn neu sefyll yn uwch na'i wastadedd.—*Elfenau Gallofyddiaeth*, iv.

Brigfain, feinion, *a.* sharp-pointed, cuspated, pointed.

Bonbraff a brigfain, } broad-based and sharp-
Bronfraisg a brigfain, } pointed; pyramidal, conical, tapering.

Mae y cysgod hefyd, fel y gwelwch, ar lun torth sugr, neu yn *fonfraisg a brigfain.* . . Ceir allan fod cysgod y ddaiar ym mhob diffyg yn *fonbraff a brigfain*, yr hyn sy dryddangosiad bod y corff a'i teifl yn grwn ei ffurf.
Elfenau Seryddiaeth, xv.

Brigfeiniad, -au, *sm.* a rendering cuspate or sharp-pointed.

Brigfeinio, *v.* to make cuspidate; to become sharp-pointed.

Brigfeiniol, *a.* cuspidal; tending to end in a point.

Brigfrig, *adv.* top to top; head to head (like two cocks or two dogs fighting); by the ears; in a squabbling or scuffling attitude; at loggerheads; squabblingly.

Nid oedd y Brytaniaid hwy yn gydnabyddus â'r fath ymgyrch a hwn lawlaw *frigfrig*, ac nid oedd ganddynt hwy ond cleddyfau unfiniog.—*Theo. Evans:* D.P.O. i. 2 (52).

Ar ol iddynt ddechreu ail adeiladu eu heglwysydd, a'u tai, a'u dinasoedd, a chael llonyddwch oddi amgylch, yna (megys mai hyny oedd eu hanffawd yn wastad) *frigfrig* benben yr aethant yn eu mysg eu hunain.
Theo. Evans: D.P.O. ii. 3 (241).

Briglach, *s.pl.* See *Briglyn.*

Brigladd, *a.* to lop the top or tops; to cut off the head.

Brigladdwyd bro y gwleddau,
Bwriwyd dan bridd Brytwn brau.—*Simwnt Fychan.*

Briglaes, laesion, *a.* having a spreading top; having wide spreading branches; branchy.

Rhwydd y mae Duw yn rhoddi
Coed *briglaes* a maes i mi.—*D. ab Gwilym,* cviii. 65.

Bûm yn ael maes dan *briglaes*
Yn clywed tôn adar gwylltion.
Rhys Goch ab Rhicert: Iolo Mss. 237.

Briglas, leision, *a.* green-topped; having green or fresh branches.

Afallen beren llen ar bren *briglas.*—*Myrddin:* M.A. i. 153.

A'm bedd am wen dan bren *briglas,*
Yn iach i 'nynan a'i chain wanas.
Rhys Goch ab Rhicert: Iolo Mss. 229.

Yn gywydd serchog awen,
Ar dŵr dy blas, *briglas* bren.
Sion Dafydd Morys, i'r Gog.

Briglwyd, *a.* grey-headed; having grey, hoary, or brown tops.

Y cleddyf oddi allan, a dychryn oddi fewn, a ddyfetha'r gwr ieuanc a'r wyryf hefyd, y plentyn sugno yng nghyd â'r gwr *briglwyd.*—*Deut.* xxxii. 28.

Briglwydo, *v.* to become grey or hoary.

Briglwydwyn, *m.* } *a.* hoary-headed; grey in-
Briglwydwen, *f.* } clined to white.

Briglyn, *pl.* briglach, *sm.* [brig, with an intrusive *l*] a small branch, twig, or shoot; a small top (of a plant); a shoot.

Pan fyno amaethydd fwyta ei feillion yn Ebrill neu Fai, rhaid iddo edrych fod ei wartheg yn eu bwyta yn isel, a phori pob *briglyn.*—*W. O. Pughe:* C.P. 70.

Briglach, small branches, twigs, shoots; brushwood, brush; clippings of hedges, &c.—*C.S.*

Brigo, *v.* 1. to branch, to ramify.

O henynt y dawant yr holl Adlawiaid Fesurau; fal yn *brigo* oddi wrth y Cyssefiniaid Golofnau.
Cyfrinach y Beirdd, 49.

2. to form tops, heads, or branches; to ear (as corn); to top.

Mae yr yd yn *brigo* yn dda.—*C.S.*

3. to fill or stop up (gaps in a hedge) with branches or trowse.

4. to flourish or thrive.

Brigog, *a.* 1. having tops or branches; branched, branchy; ramified.

Gorwyn blaen brwyn *brigawg* wydd
Pan daner dan obenydd.—*Llywarch Hen:* M.A. i. 123.

Gwelsant bob bryn uchel, a phob pren *brigog.*
Esec. xx. 28 (cf. xix. 10).

Ac awr a gaf i garu gwen,
Tra chano'r gog mewn *brigog* bren.
Dafydd o'r Nant: Cyfr. y Beirdd, 162.

2. flourishing, thriving, prosperous.

Gwelais yr annuwiol yn gadarn, ac yn *frigog* fel y lawryf gwyrdd.—*Salm.* xxxvii. 35.

Hil Mathafarn gadarn gynt,
Gwyddys mai *brigog* oeddynt.—*Rhys Jones:* Gwaith, 63.

Brigoglwyn, -i, *sm.* a branchy grove, a thick-topped bush.

A gostwng gystal gwlattrais
Brigawglwyn oedd braw a goglais.
Madog Dwygraig: M.A. i. 488.

Brigogrwydd, *sm.* branchiness; fullness of branches or tops.

Brigol, *a.* branching; shooting out; relating to tops or branches.

Brigwellt, *sm.* and *s.cl.* hair-grass (*Aira*).

Brigwellt ariannaidd, silver hair-grass (*Aira caryophyllea*).

Brigwellt cribog, crested hair-grass (*Aira cristata*).

Brigwellt dyfrdrig, } water hair-grass (*Aira*
Brigwellt y dwr, } *aquatica*).

Brigwellt y gwanwyn, } early hair-grass (*Aira*
Brigwellt cynnar, } *praecox*).

Brigwellt gwyrgam mynyddol, } waved mountain
Brigwellt y mynydd, } hair-grass (*Aira flexuosa*).

Brigwellt mawnog, } turfy hair-grass (*Aira*
Brigwellt tywarchaidd, } *caespitosa*).—*H. Davies:* Welsh Bot. 9, 161.

Brigwellt bychan=*Brigwellt ariannaidd.*—*Faunula Grustensis,* 83.

Brigwlad, wledydd, *sf.* the upper or higher parts of a country; the high land, upland; highlands.

Lle buant fwy na deucanmlynedd yn symmud o wlad i wlad dan ormes cenedloedd difrod ac anrhaith, lle yn y diwedd tiriasant yn Llychlyn a *brigwlad* yr Eidal a Bro Gal.
Barddas, i. 82.

Brigwlydd (*sg.* -yn), *sm.* and *s.cl.* starwort, water starwort (*Callitriche*).

Brigwlydd y dwr, water starwort (*Callitriche*).

Brigwlydd cynhauafol, autumnal water starwort (*Callitriche autumnalis*).

Brigwlydd gwanwynol, vernal water starwort (*Callitriche verna*).—*Hugh Davies:* Welsh Bot. 2, 161.

Brigwn, ynau (*ȳ*), *sm.* [brig+cwn?] an andiron, a cob-iron; andirons, fire-dogs.

Brigwydd, *s.pl.* tops or branches of trees.

A phan bo glaw, rhathu'r mwswn oddi ar y coed ffrwythydd, a dileaw *brigwydd* meirwon, a diwyllio'r gwinwydd.
Llanover Ms.

Brigwyn, *m.* } *pl.* wynion, *a.* white-topped;
Brigwen, *f.* } white-crested; white-headed, grey-haired.

Mae'n ammod imi'n unawr
Ganu i ferch *frigwen* fawr.—*Rhisiart Phylip.*

Efe a wna lwybr goleu ar ei ol; fel y tybygid fod y dyfnder yn *frigwyn.*—*Iob* xli. 32.

Trwy donnog ddwfr, fel cainc o fôr yn *frigwyn,*
A'r bleiddiaid ffyrnig ar ein hol yn dilyn.
Nicander: Moses, i.

Y don frigwen (*pl.* y tonnau brigwynion, y tonnau brigwyn), the white-crested wave.

Brigwynu, *v.* to become or make white-topped or white-headed; to become grey-headed or grey-haired.

Er fy rhynu a'm *brigwynu,*
Wen, ei mynu yw 'nymuniad.—*Gutyn Owain:* G.B.C. 190.

Ond darfu'n fy mynwes bob rhodres a rhwyf,
Brigwynu mae'm gwegil, 'r wy'n eiddil heb nwyf.
Y Taliesin, i. 94.

Brigyn, *sm.* [dim. or sg. of *brig,* q.v.] a small top or branch; a sprig, a twig; a branch; the top.

Dod *frigyn* y ffordd hyn, a *brigyn* y ffordd yna.
Iolo Mss. 159 (cf. 157).

Tyred, *frigyn* y teir-iaith,
Awr, o bydd modd, o'r bedd maith.
W. Lleyn: G.B.C. 299.

Brigynog (*ȳ*), *a.* full of sprigs or small branches; spriggy.

Brigynol, *a.* throwing out sprigs; branching.

Brigystod, -au, -iau, *sf.* a top row or swath: a term in mowing or reaping.

Bril (ĭ), -iau, *sm.* 1. a rag, clout, or shred.

2. a fribble, a fribbler, a shrimp.

Rhowch hwn, mae'n rhyw iwch hyny,
I'r hen *fril*, cyn rhynu fry.—*Thomas Prys.*

Ond, o coelir, nid celwydd,
Lladdodd *fril* ddwyfil i'w ddydd.—*Thomas Prys.*

Sal bigog, isel begawr,
A *bril* yw fo â brol fawr.—*Rhys Jones:* Gwaith, 237.

Bril-lys, *sm.* chaffweed (*Centunculus*).

Bril-lys corraidd, small chaffweed, bastard pimpernel (*Centunculus minimus*].—*Hugh Davies:* Welsh Bot. 17, 161.

Brilwm, ymiaid, *sm.* [bril+llwm?] a ragged or poorly dressed person; a barebacked fellow.—*S.W.*

Brilwydd, *s.pl.* brushwood, shrubs.—*Gwent.*

Brilyn, *sm.* 1. a little rag, shred, or clout. 2. a fribble, a fribbler, a silly fellow.

Brill, -iau, -ion, *sm.* [=prill?] a dropping, dripping, or oozing; a spring dropping out of a rock.—*Gwent.*

Brillo, *v.* to ooze, percolate, or drop.—*Gwent.*

Brio, *v.* [bri] to dignify; to confer honour or dignity on.

Ar wedyd hyn, cofleidiai ef, a llon
Y tirion wylai, gan o syniaw maint
Briasai efe ei gariad.—*W. O. Pughe:* C.G. ix. 968.

Briog, *a.* dignified, honoured; elevated; honourable.

Briol, *a.* honorary; dignified; honourable.

Brisg, -au, -ion, *sm.* a track, trace, or mark; a footmark; a vestige.

Brisc risc reu rieu rad barawd.
Cynddelw: M.A. i. 226 (cf. 494).

Tywysog gleiniog y glyn
Tesog, draw'n deffraw dyffryn!
Praff yw dy *frisg* i'n priffyrdd,
Prophwyd penial gwial gwyrdd.—*D. ab Gwilym,* cclx. 3.

Nid yw ddim oll ond chwanegiad o'u dialeddus ofn, a *brisg* i'w tywys i anobaith.
Huw Lewys: Perl mewn Adfyd, 32.

Ni welir fyth un ffordd i'r nef,
Ond yn ei *frisg* blodeuog ef.
Iolo Morganwg: Salmau, II. lxxxix. 2.

Brith, *m.* } *pl.* brithion, *a.* [C. *brith, brut;* Br.
Braith, *f.* } *brîz;* Ir. *brit,* †*brecht;* Ga. *briot*]
1. marked with different colours (especially black and white); variegated, party-coloured, versicoloured, motley, mottled, pied, piebald, speckled, spotted, checquered; brinded, brindled; mixed.

Brith (*gl.* pictam).—*Codex Juvencus,* 30.

I main *brith* dirclaud bet i pillou bichein.
Liber Landavensis, 182 (cf. 186, 187).

Peis Dinogat e *vreith vreith.*
Aneurin: Gododin, 854 (cf. 282).

Ac uchaf yr hossaneu dwy wintas o gordwal *brith.*
Mabinogion, ii. 382 (cf. i. 3).

Y kedymdeithyon hynny aoedynt yn *vrithyon.*
St. Greal, § 37.

Kigleu beleidyr briu *brith* o gyvergyr.
Cynddelw: M.A. i. 239.

Brith yn ieuanc, carpiawg hen.—*Diareb.* (M.A. iii. 180.)

Efe a wnaeth siaced *fraith* iddo.—*Gen.* xxxvii. 3 (cf. 23).

Cymmeraist hefyd o'th ddillad, a gwnaethost i ti uchelfëydd *brithion.*—*Esec.* xvi. 16.

Lleni brithion, figured fabrics; tapestry; arras.

Beth a dâl i'r rhai bydol y pryd hwnw fod ganddynt lestri gwerthfawr o aur ac arian; cywreinwaith plethedig, *lleni brithion* mawrbris, gerddi hyfryd, palasau costus?
Gr. Wynn: Ystyr. 103.

Meirch brithion (*sg.* march brith), speckled, grizzled, or party-coloured horses; piebald horses.

Yn y cerbyd cyntaf yr oedd meirch cochion . . . ac yn y pedwerydd cerbyd *meirch brithion* a gwineuon.
Sech. vi. 3 (cf. i. 8).

Neidr fraith (*pl.* nadroedd brithion), a speckled snake.

Bum *neidr fraith* ym mryn
Bum gwiber yn llynn.—*Taliesin:* M.A. i. 31 (cf. 29).

Y *neidr fraith,* medd rhai a'i gwelas,
A chwyd ei gwenwyn ar y gamlas.
Rhys Prichard: C. y C. lxxxiii. 43.

Buwch fraith, a speckled cow (generally black and white); a brindled cow.

Aderyn brith, a speckled or party-coloured bird.

Y mae fy etifeddiaeth i mi fel *aderyn brith.*—*Ier.* xii. 9.

Bara brith, plum cake.

Haf brith, a summer that is partly dry and partly wet, especially the latter.

Cynhauaf brith, a wet harvest with intervals of dry weather; a harvest of variable or unsettled weather.

Blwyddyn fraith, a year consisting of intervals of dry and wet weather, the latter predominating (applied principally to the summer season).

Mwyth brith, intermittent or remitting fever.

Gweled yn frith, to see indistinctly or inaccurately; to perceive different objects blended together; to have a disordered vision; to see double.

2. that is partly, partially, or in part; slight; mixed; mongrel.

Trwy'r moddion hyn Nathan a fwriwyd heibio i'w daith wibiog, gan *frith* gywilyddio o herwydd y pethau oedd yn dygwydd yn wrthwynebol i'w ewyllys a'i brophwydoliaethau.—*W. Lewes:* Dwy Daith, 152.

Brith adnabod dyn, partly to know a person; to have some knowledge of a person.

Brith ammheu, partly to doubt or suspect; to have some suspicion.

Brith goelio, partly to believe; to believe in part.

Brith gofio, partly to remember; to have a slight or indistinct recollection.

Brith ddiod, table beer; an inferior kind of beer.

Brith Gymro, a half-Welshman; a mongrel Welshman.

Brith Gristion, a half-Christian; a Christian in some degree; one that is but partially a Christian.

Brith Eingl, mongrel Angles.

Tori a sengi ais Eingl,
A Brython a ladd *Brith-Eingl.*—*Iolo Goch,* Cywydd Brud.

¶ In the following quotation senses 1 and 2 are intentionally introduced and played upon:

Brith yw ser ar noswaith oleu,
Brith yw meillion Mai a blodau;
Brith yw dillad y llancesau,
A *brith* gywir ydynt hwythau.—*Pennill.*

3. variegated with abundance of objects (without special reference to colour); abounding, swarming.

Mae y môr yn frith o bysgod, the sea swarms or abounds with fish.

4. (in botany).

Brith ag aur, *Brith Morganwg*, *Brith Llancarfan*, } orel, 'a very fine apple:' also called *eurel*.

Brith y gwin bach, red streak.

Brith y gwin mawr, backamore.

Brith bach Hywel, St. Mary apple.—*Cambrian Journal*, 2 S. i. 145—147.

Brith, -ion, *sm.* 1. a speckled or spotted one; a wild merry fellow.

Brith y coed, a wild fellow; a macaroni.

Brithion (=*Brithwyr*), Picts? In the following quotation the word may be an appellative.

Llu *Brithyon* brodorion bruytyrgar.
Cynddelw: M.A. i. 249 (cf. A.B. ii. 9).

Brithiaid Brycheiniog, a sportive name given to the natives or inhabitants of Breconshire.

Brith y gwanwyn, an intermitting fever (prevalent in spring).

2. (in ornithology).

Brith y fuches, *Brith yr oged*, *Brith yr had*, } the pied wagtail; the wagtail: also called *tinsigl y gwys*.

Brith y fuches felen, *Brith y fuches melyn*, } the yellow water wagtail.

Brith y fuches lwyd, *Brith y fuches llwyd*, } the grey wagtail.

3. (in ichthyology).

Brith y gro (*pl.* brithroaid, silod brithion), a samlet, salmonet, or parr=the name of the salmon in its second stage of growth or development.—*Powys*.

Brith eog, salmon trout.—*Faunula Grustensis*, 73.

Brithad, -au, *sm.* a variegating; a speckling or bespeckling; a mixing; variegation.

Brithawd, odau, *sm.* variegation; diversity of colours.

Brithawdl, odlau, **Brithodl**, -au, } *sf.* mixed rhyme, alternate rhyme; a rhyme which changes with every two lines.

Yn drydedd, *Brithodl*. *Brithodl* yw newidiad awdl ar bob dwyfraich o gerdd, fal y bydd mewn cywydd, ac mewn traethodyn, ac mewn dyrif.
Cyfrinach y Beirdd, 51 (cf. 70, 71, 80, 164).

Tri rhyw awdl y sydd: unawdl; proestawdl; a *brithawdl*. *Brithawdl* yw lle y bydd proestio yn y gerdd ac unawdl yn prif odli.—*Llanover Ms.* 48.

Brithawdl, **Brithodl**, } *a.* consisting of alternate or mixed rhyme.

Gan fod pennill *brithodl* yn gyfranog o ansawdd cynghog.
Cyfrinach y Beirdd, 71.

Brithdir, -oedd, *sm.* land or soil of a medium quality.

Brithdir i fuwch, crasdir i ddafad.—*Diareb*.

Brithdwym, *a.* partly warm; lukewarm.

Brithdwym, *sm.* parboiled flummery; a thin kind of flummery.

Brithddu, *m.* **Breithddu**, *f.* } *pl.* brithdduon, *a.* variegated with black; black-speckled.

Mae it' blu *brithddu*, cu cyfan,
Mae it' boen a brys, mae it' ben brân;
Mwtlai wyt, mae it' liw teg;
Mae it' lys hagr, mae it' lais hygreg;
A phob iaith, bybyr-iaith bell,
A ddysgud, *freithddu* asgell.—*D. ab Gwilym*, cxcviii. 59.

Brithedd, *sm.* speckledness; variety or mixture of colours; variegation; mixture.

Y mae i minnau doryn,
O'r un *frithedd*, o'r un frethyn.
Dafydd ab Gwilym, clxxxv. 39.

Britheg, *sf.* [brith] fritillary, checquered daffodil, snake's head (*Fritillaria meleagris*).—*H. Davies:* Welsh Bot. 134, 161.

Brithel, *sm.* a variegated or motley colour.

Gwisgo ffrith â chain *frithel*,
A mynu dawn man y dêl.—*Hywel o'r Garn*, i'r Mai.

Brithell, -au, *sf.*=*Breithell*.

Brithfalch, feilchion, *a.* proudly variegated.

Nid oes yr awran yn cadw meddiant ond fy modryb Dylluan hurt, neu frain rheibus, neu biod *brithfeilchion*, neu'r cyffelyb, i ddadgan campau y perchenogion presennol.—*Elis Wynn:* Bardd Cwsg, 23.

Brithfan, *a.* [brith+ban] with lines of various or unequal lengths.

E ganai'r hen feirdd y mesur hyn yn *frithfan*, sef ar fanau anghyfunhyd.—*Cyfrinach y Beirdd*, 100.

Brithfelyn, *m.* **Brithfelen**, *f.* } *pl.* brithfelynion, *a.* variegated or diversified with yellow.

Yn llaw y mackwy ydoed paladyr bras *vrithuelyn*. a phen newydlif arnaw.—*Mabinogion*, ii. 385.

Brithfyd, -au, *sm.* a world or state of vicissitude; troublesome time; trouble, tribulation.

Ban dyffon brodorion o amdiredd Mon
I holi Brython *brithfyd* dybi.
Myrddin: M.A. i. 137 (cf. 144, 150).

A guedy hynny dygovi
Brithuyt a byt dyuysgi.—*Taliesin:* A.B. ii. 304.

Pan ddel maban o hil Bryton *brithvyd* a wna.
Gorddodau Myrddin: M.A. i. 527 (cf. 181, 330).

Brithfyd a gyfyd gofal.—*Rhys Goch Eryri*.

Fe ddaw arnom *frithfyd* mawr,
Cyflawn athrist, ym mlaen gwawr,
Gan ofalon ar bob awr
Rhag tynu i lawr uchelion.—*Harri Wiliam*.

Brithgan, -au, *sf.* a macaronic poem, a poetical medley.—*W.*

Brithgerdd, **Breithgerdd**, } -i, -au, brithgyrdd, *sf.*=*Breithgerdd*.

Brithgi, gwn, *sm.* a mongrel dog.

Brithgoch, *a.* variegated with red.

Brithgochi, *v.* to variegate with red; to become partially red.

Brithgolofn, -au, *sf.* a secondary or subordinate metre.

A *brithgolofnau* y geilw rhai'r adlawiaid golofnau; sef achos eu gwneuthur â dwy, neu dair, neu ragor, o'r cyssefin golofnau.—*Cyfrinach y Beirdd*, 71.

Brithgolofnau y gelwir cynghog, a chlogyrnach, a llamodl, gan nas gellir trefn reol-bwyll arnynt.
Cyfrinach y Beirdd, 75.

Brithgyhydedd, -au, *sf.* unequal length of line (in versification).

Dangoser bellach y rhywiau ar ddyrif a dyfant o'r adlawiaid golofnau; rhai'n bennillion cyfunhydfan; ereill â'u banau yn anghyfunhyd; neu'n *frithgyhydedd*.
Cyfrinach y Beirdd, 164.

Brithgymmysg, *a.* intermixed.

A'r trofedigion a ddygant bob un ei frysyll o'r trilliw barddoniaidd yn *frithgymmysg*.—*Iolo Mss.* 62.

Brithi, *sm.* speckledness, spottedness; variety of colours.

Mae drosti wisg o risgl glân
Ar eithaf modd o *frithi* mân.
Ioan Siencyn: Blodau Dyfed, 370.

Brithi pechod, the stain of sin; a spot of sin.

Os hwy a droant at Dduw eilwaith yn ddiragrith oddi wrth eu holl bechodau, yn y fath, nad oes dim o *frithi pechod* yn aros nac yn parhau.—*Edw. Iames:* Hom. i. 25.

Brithiad, iaid, *sm.* one who variegates (*P.*); a speckled one, a Pict?

Brithiaith, ieithoedd, *sf.* [see *breithiaith*] a **Breithiaith**, mixed language.

Brithino, *v.* [brith+hin]=*Breithino.*

Brithlas, leision, *a.* variegated with blue, green, or grey; mottled grey.

Ar neill lygat yn *vrithlas* tra theryll. ar llall yn du ual y muchud ygkeuynt y phenn.—*Mabinogion*, i. 283.

Brithlasu, *v.* to variegate with different shades of blue; to make dappled grey; to become of variegated blue or green.

Brithle, -oedd, *sm.* an indifferent place.

Ffo'r bore o'r *brithle* brwnt
Ffi Lanymddyfri ddu front.—*Myv. Arch.* i. 498.

Brithlen, -i, *sf.* arras; a tapestry fabric with figures woven in colours.

Brithliw, *a.* of variegated colours; motley; checquered.

Y dolydd gleision, y pereidd-lon lwyn,
Lle odlai adar *brithliw* gerddi mwyn.
Th. Lloyd Jones: Ceinion Awen, 169.

Brithliwiog, *a.* of various colours; spotted, speckled, variegated.

Dywedir . . . bod yr anifeiliaid, heb feddwl dim am y perygl, yn nesäu i syllu ar groen hardd *brithliwiog* ei gorff.
Nicander: Dysga Farw, 18.

Brithlwyd, *a.* variegated with brown, dun, or grey; mouldy.

Bara brithlwyd, mouldy bread.

A holl fara eu lluniaeth oedd sych a *brithlwyd.*
Ios. ix. 5 (cf. 12).

Brithlwydo, *v.* to become variegated with brown, grey, or dun; to become mouldy.

Brithlyfr, -au, *sm.* a miscellany.

Brithni, *sm.* speckledness, spottedness; diversity of colours.

Y rei aoedynt yn dywedut bot yn gynlaned arglwyd y llys honno o bop pechawt. ac yr oed y maen ynteu o bop *bruthni.*—*St. Greal*, § 126.

Balchïo o ddillad fyddai megys pe balchïai lleidr o'i gebystr, neu gardotyn o'i glytiau, neu blentyn o'i *frithni*, neu ddyn ffol o'i degan.—*R. Llwyd:* Llwybr Hyff. 45.

Brithnodach, *s.pl.* miscellaneous notes, remarks, or observations; a miscellany.

Britho, *v.* 1. to variegate; to diversify in colours; to speckle; to dapple; to mottle, to spot; to mix or mingle; to checquer; to become variegated, &c.

Y marchawc ae uarch yn aruawc o arueu brychuelynyon. wedy eu *brithaw* a lactwn yr Yspaen.—*Mabinogion*, ii. 388.

Ereidr yn rhych ych yngwedd
Gwyrdd mor *brithottor* tiredd.
Gruffydd Ynad Coch: M.A. i. 394.

Y bobl hyn oeddent fyth yn cynnal yr hen ddefod o *fritho* eu crwyn ag amryw luniau o adar, seirff, a bwystfilod.—*Theo. Evans:* D.P.O. i. 3 (74; cf. 73, 157).

Mae fy llygaid yn britho, my vision is disordered; my eyes perceive indistinctly; I see double.

Mae ei wallt yn britho, his hair turns grey; he becomes greyheaded.

2. to begin to form butter (in the process of churning); to break; to curdle.

Mae y llaeth yn britho, the milk begins to form butter.—*C.S.*

Brithodl, -au, *sf.* [brith+awdl]=*Brithawdl.*

Brithodlaeth, -au, *sf.* alternity of rhyme; the use of diversity of rhymes.

Ac ar hwn y mae gwir a chyfiawn ansawdd dyrif, herwydd ei *frithodlaeth* ar acen wastad.
Cyfrinach y Beirdd, 165 (cf. 119).

Brithodli, *v.* to use mixed, variegated, or alternate rhyme.

Rhai feirdd deallus a farnant yn gyfiawn ganu, *brithodli*'r naw gorchan.—*Cyfrinach y Beirdd*, 70.

Brithog, *a.* having a variety or mixture; speckled, spotted.

Garmon . . .
Yn ei wisgoedd wnai esgyn
I ochr llethrawg, *frithawg* fryn.
Blackwell: Ceinion Alun, 112.

Brithog, -au, *sf.* a dish made of different ingredients; a fricassee; a custard; a fritter.

Dr. Davies renders it by *frixura;* and Rhisiart Morys (as quoted by Th. Richards) explains it as 'a kind of butter [batter?] with hard boiled eggs mixt in the making.'
Th. Richards: Dict. s.v.

Brithol, *a.* variegating; tending to speckle or dapple.

Brithred, *m.* **Breithred**, *f.* -ion, -au, *s.* a running in confusion or disorder; confusion, turmoil, tumult; a conflict.

Ardyledawc canu kyman caffet
Ketwyr am Gatraeth a wnaeth *brithred.*
Aneurin: Gododin, 616 (cf. A.B. ii. 106).

Yn Llongborth gweleis i *brithret*
Gwyr yggryt a gwaet am draet
A vo gwyr y Ereint bryssyet.
Llywarch Hen: A.B. ii. 275 (M.A. i. 101).

Brithredeg, *v.* to run in confusion; to run one through the other.

Brithroaid (*sg.* brith y gro), *s.pl.* samlets, salmonets=the name of the salmon in their second stage of development.—*Powys.*

Brithryw, *a.* heterogeneous; of a mixed breed or kind; mongrel.

Brithryw, -iau, *sm.* a mixed or heterogeneous kind.

Brithrywiad, -au, *sm.* a becoming or rendering heterogeneous.

Brithrywiaeth, -au, *sf.* heterogeneousness, heterogeneity.

Brithrywio, *v.* to make heterogeneous; to become dissimilar in kind or nature.

Brithrywiog, **Brithrywiol**, *a.* heterogeneous, heterogeneal; of a mixed kind.

Brithwaith, weithiau, *sm.* miscellaneous work or works; a miscellany.

Brithwe, **Breithwe**, -oedd, *sf.* a variegated web or fabric; a plaid.—*W.*

Britgue ad guiar sathar sanget.
Gorchan Maelderw: A.B. ii. 107 (M.A. i. 38).

Klotryd ceissidyd kysgut
Brithwe arwe arwrut.—*Myv. Arch.* i. 84 (cf. 61).

Brithwen, *af.*=*Brithwyn*, *m.*

Brithwisg, *a.* clothed in variegated colours; wearing a party-coloured dress.

A llawen fydd i ti pan guddio'r *frithwisg* nos y gwawl, a phan wasgaro haul drachefn y plygeiniol lwydrew.
Nicander: Dwyfol Oraclau, 31.

Brithwlaw, } -oedd, *sm.* [brith+gwlaw or
Brithlaw, } glaw] drizzling rain.

Annhebig yw'r mis dig du,
A gerydd bawb i garu;
A bair *brithwlaw*, a byrddydd,
A gwynt yn yspeiliaw gwŷdd.—*D. ab Gwilym*, cxvi. 29.

Brithwlawio, } *v.* to drizzle; to shed small
Brithlawio, } rain.

Brithwr, wyr, *sm.* 'a variegated or mottled man: it implies either a man in a party-coloured dress, or one whose body is painted: a Pict.'—*P.*

Y Brithwyr, the Picts. The more usual name in the old records is *Gwyddyl Ffichti.*

Mor yw gvael gwelet kynnwryf kynniret
Bratheu a brythuet *Brithwyr* ar gerdet.
Taliesin: A.B. ii. 299.

Dysgogan Teifi llestri lli ar llyry
A *Brithwyr* oi thorri
Llan Dudoch cloch menechi.
Myrddin: M.A. i. 134 (cf. 146).

Brithwyr du o Fanaw.—*Myrddin:* M.A. i. 134 (cf. 137).

Nid yw'r dysgedig ddim wedi cwbl gyttuno arno o blegid cyff-genedl neu ach pobl y Ffichtiaid, y rhai a elwid felly o'r gair Lladin Picti, am eu bod yn britho eu crwyn ag amryw luniau, yn enwedig â math o liw glas: ond eu henw yn Gymraeg yn ddilys ddigon yw y *Brithwyr;* ac felly y galwaf fi hwy yn yr ymadrodd a ganlyn.
Theo. Evans: D.P.O. i. 3 (73—93).

A hyny a wnaeth iddynt alw am y Saeson, y rhai a fuont yn waeth eto nag un pla na *Brithwr.*
Theo. Evans: D.P.O. i. 3 (93).

Chware Brithwyr a Henwyr, a game formerly played in some parts of Wales between two parties, called *Brithwyr* and *Henwyr*, the former apparently representing strangers or foreigners, and the latter the natives or original inhabitants.

Mi a feddyliais o hyd mai pobl bellenig oeddent [y Brithwyr] wrth y ddefod nodedig hon yn eu chwarëyddiaeth sydd ganddynt mewn amryw fanau o Gymru, yn enwedig ar lan Teifi yn Neheubarth. Canys yn y gamp y maent yn ymranu yn ddwy-blaid, dan enw *Brithwyr ac Henwyr*, y naill yn erbyn y llall. Yr *Henwyr* yw yr holl rai o'r pedwar enw cyssefin, Efan, Dafydd, Sion, a Siencyn; a'r *Brithwyr* yw pawb yn ddiwahan o un enw arall pa bynnag: ac fynychaf y mae'r *Henwyr* (er ond o bedwar enw) yn ennill y maes. Yn awr, wrth *Henwyr* y meddylir, yn ddilys, yr hen drigolion cyntaf; ac felly y *Brithwyr* ynt estroniaid a phobl ddyfod.—*Theo. Evans:* D.P.O. i. 2 (75).

Brithwy, -on, *sm.* a confusion; a conflict.

Brithwy a wyar sathar sanget.—*Aneurin:* Gododin, 617.

Brithwyn, *m.* } *pl.* brithwynion, *a.* variegated
Brithwen, *f.* } with white spots or stripes;
Breithwen, *f.* } motley-white; speckled with white.

Bum ceiliawg *brithwyn* ar ieir yn Eidin.
Taliesin: M.A. i. 37.

Tua llwybr porth y fynwent y mae offeiriad parchus y plwyf, â'i wallt yn *frithwyn*, yn ei wenwisg, yn cyfarfod â'r corff.—*Brutus:* Brutusiana, 428.

O draw, mae llawer man yn *frithwyn* arni
Gan flodau'r ceirios heirdd—O, ryfedd dlysni!
Gwynionydd: Caniadau, 103.

Brithwynu, *v.* to variegate or mottle with white; to become partially white.

Brithwyrdd, *m.* } *pl.* brithwyrddion, *a.* varie-
Brithwerdd, *f.* } gated or spotted with green.

Wybren a gudd dalcen dyn,
Awyr *brithwyrdd* yw'r brethyn.—*L. G. Cothi*, VII. ii. 49.

Brithyd, -au, *sm.* mixed corn, mong-corn, meslin.

Tincyr greffddyn brethyn *brithyd* a chwennych.
Madog Dwygraig: M.A. i. 490.

Prin y gellir byw yr awr hon (a pha fodd amgen, tra bo y *brithyd* am goron y mesur).—*Gronwy Owain*, 181.

Bara brithyd, meslin bread, bread made of mixed corn.

Brithyll, -iaid, -od, *sm.* [brith: C. *breithil* and *brithel*, mackerel); Br. *brezel*, mackerel; Ir. and Ga. *breac*=W. *brych*, f. *brech:* cf. *brychyll*] a trout.

O *frithyll!* fyfyr ieithydd,
A thyst yt' fyddaf i'th ddydd;
Pasg a deu-lyn pysg dilwfr,
Pefr *frithyll* o defyll dwr.—*D. ab Gwilym*, ccvi. 1.

Dau *frithyll*, yn canfod rhwyd pysgodwr yn eu hymlid, a ymgynghorasant â'u gilydd pa fodd y diengynt.
Iolo Mss. 155.

Brithyll y dom, the prickle-back, the stickle-back.

Brithyll y môr, } sea-trout, spotted trout, black
Brithyll brych, } trout=names given to the
Brithyll du, } salmon in its third stage of growth.

Brithyll y gog, the salmon in its fourth stage of development.

Cyn iached a'r *brithyll*=as sound as a roach.
Diareb. (M.A. iii. 150.)

Brithylla, *v.* to fish for trout; to catch trout.

Brithyllyn, *sm.* a troutlet, troutling, or small trout.

Brithyn, *sm.* a speckled one; a gay man; a macaroni.

Briw, -iau, *sm.* [C. *brew;* Ir. and Ga. *briocht*] 1. a wound, a bruise, a hurt; a sore; a cut; a break, a breach; a fragment.

Myfi a roddaf iechyd i ti, ac a'th iachâf di o'th *friwiau.*
Ier. xxx. 17 (cf. viii. 20; x. 19).

Briw cyfled a lled ei llafn.—*Gronwy Owain*, 21.

Briw marwol, }
Marwol friw, } a deadly or mortal wound.

A'i *friw marwol* ef a iachawyd.—*Dad.* xiii. 3.

Fel bo i bechod o bob rhyw
Gael *marwol friw* o'r diwedd.—*Emyn.*

2. gory matter running from a wound or sore; lochia.

3. (in botany.)

Briw y march, vervain (*Verbena*).

Briw y march cyffredin, common vervain (*Verbena officinalis*).—*Hugh Davies:* Welsh Bot. 56, 161.

Briw, *a.* broken; in pieces; shattered; bruised; crumbled.

Kigleu beleidyr *briu* brith o gyvergyr.
Cynddelw: M.A. i. 239 (cf. 206, 242, 257).

Pereis glot yrot eur gofyon Ieuan
Vriw darian vro dirion.—*Hillyn:* M.A. i. 413.

Ae gyrchu a gwaew a gossot yn y daryan yny vyd y paladyr yn yssic *vriw.*—*Mabinogion*, ii. 54.

Bara briw, broken bread; fragments or broken pieces of bread.

Bwyd briw, broken meat; fragments of bread or any dry food.

Calon friw, a broken heart.

Esgyrn briw, broken or fractured bones.

Fe fwytai a gai o gig,
A *briw esgyrn*, a brasgig.—*Lewys Meudwy.*

Briwant, annau, *sm.* a broken state.

Briwawd, *sm.* a being broken to pieces; a shattering.

Llafneu y uerd drin [*al.* yn erddyn] kyrn a ganawr
Briwawd llurugeu rac llym waewawr.
Myrddin: M.A. i. 136.

Briwdalch, deilch, deilchion, *sm.* a small piece or fragment.

Briwdeilch, shatters, shivers.

Gwnai helmau yn *friwdeilch.*
Dafydd y Coed: M.A. i. 493.

Briwder, *sm.* a broken state or condition; brokenness.

Briwdorf, -au, *sf.* a broken up or scattered host or army.

Llidiawg wrth frwydr *friwdorf* aergad.
Iorwerth Llwyd: M.A. i. 507.

Briwdwll, *m.* } *a.* [briw+twll, *f.* toll] broken
Briwdoll, *f.* } and pierced; shattered, shivered.

Gnawd fod ysgwyd frwyd *friwdoll* arnaw.
Dafydd Benfras: M.A. i. 311 (cf. 379, 401).

Aml archoll i *friwdoll* fron,
Ac wylaw gwaed o galon.—*Gronwy Owain,* 111 (cf. 29).

Ni allant wybod pa yw'r gofid cudd
A ysa 'nghalon *friwdoll* ddydd a nos.
Ceinion Awen y Cymry, 128.

Briwdwn, *m.* } *a.* [briw+twn, *f.* ton] broken
Briwdon, *f.* } and shattered; broken.

Teyrn hil cedyrn cydwiw faedd gwawr brwydr.
Briwdon wayw ar aesawr.
Meirig ab Iorwerth: M.A. i. 507.

Trwm yw ynof ei hir gadw
Trwyddaw fy mron *friwdon* fradw.
Dafydd ab Gwilym, xxii. 29.

Briwddail, *s.pl.* small herbs, herbage (*P.*): broken or jagged leaves?

A beirdd a blodeu a guddig bertheu
A briallu a *briwddail* a blaen gwydd goddeu.
Taliesin: M.A. i. 38.

Briwedig, *a.* broken; bruised; crumbled; wounded, hurt, cut.

Mi agiglef gan vn or gweisson gwelet yn y coet uchot marchawc *briwedic.* ac arueu amdlawt ymdanaw.
Mabinogion, ii. 53 (cf. 54).

Pan wnelo efe holl gerryg yr allor fel cerryg calch *briwedig.*—*Esa.* xxvii. 9.

Efe a geidw y rhai *briwedig* o yspryd.
Salm. xxxiv. 18 (cf. cxlvii. 3).

Briwedd-dy, dai, *sm.* a brewhouse.

Briweddu, *v.* [corr. of *berweddu* (q.v.), influenced perhaps by the Eng. *brew*] to brew. —*Gwent.*

Briweg, *sf.* stonecrop (*Sedum*).

Briweg y cerryg, English stonecrop (*Sedum Anglicum*).

Briweg boeth, biting stonecrop (*Sedum acre*).—*H. Davies:* Welsh Bot. 43, 161.

Orpina, y fywydog, yr orpin, y *friweg.*
Meddygon Myddfai, 290.

Briwennig, *a.* [briwant] broken; shattered; crumbled.

Aerllew tarf torfoed *friwenig*
Arllaw lles arlleg tres treisig
Cyrd cerdynt mal cynt Celliwig.—*Cynddelw:* M.A. i. 208.

Briwfara, *sm.* broken bread; fragments or crumbs of bread.

Ef adely y *bryu uara* ar bryu dyuenyon ahel dros deskel ebrenynes.—*Cyfreithiau Cymru,* i. 58.

Briwfwyd, -au, *sm.* broken meat; fragments of food (such as bread, cheese, flesh-meat, and the like).

A hwynt . . . a godasant o'r *briwfwyd* oedd yng ngweddill, ddeuddeg basgedaid yn llawn.—*Matt.* xiv. 20 (cf. xv. 37).

Briwgad, -au, *sf.* an army routed or broken in battle.

Brys *briwgad* brig bragad briwai.
Cynddelw: M.A. i. 208 (cf. 492).

Briwgig, -oedd, *sm.* broken or lacerated flesh; broken or minced flesh-meat.

Gwelais wyr gwychr yn lluydd
A gwedi boregat *briwgig.*—*Taliesin:* M.A. i. 52.

Cnoynt frein *friwgic* o lid llawryt.—*Meilir:* M.A. i. 191.

Briwgnawd, *sm.* broken or lacerated flesh.

Er ei galon donn o'i fron *friwgnawd.*
Gwilym Ddu Arfon: M.A. i. 410.

Briwgoch, *a.* broken and ruddy.

Briwgoch bric ongyr brythawd.
Cynddelw: M.A. i. 226 (cf. 302, 343).

Briwhau, *v.* to break; to bruise; to wound or hurt.

Bwrw Hywel a'n *briwhaodd,*
Baner yr haelder a'r rhodd.—*Guto'r Glyn.*

Briwiaith, ieithoedd, ieithiau, *sf.* a broken or barbarous language; a jargon.

Ry talaf ym rwyf om rwylweith molawd
Nyd molyant o *uriwyeith.*—*Cynddelw:* M.A. i. 215.

Briwio, *v.* by-form of *Briwo,* q.v.

A chymell ar ffo y gwyr aoed yny hymlit gan eu bwrw ae *briwyaw* ae llad.—*Brut Gr. ab Arthur* (B): M.A. ii. 347.

Fe ddaeth bytheuaid heibio, ac a'i *briwiasant* yn chwilfriw candryll.—*Iolo Mss.* 65.

Briwiog, *a.* broken; shattered; dilapidated.

Aie, yr edn oer rwydus,
Afrywiog liw, *friwiog* lys!—*D. ab Gwilym,* cxcviii. 77.

Briwion, *s.pl.* [briw, *a.*] broken pieces, fragments, crumbs, bits.

Cymmer y tryw, a briwa nhwy'n fân, a dod y *briwion* ar win, neu gwrw, neu fedd, idd ei yfed.
Meddygon Myddfai, ii. 58.

Briwioni, *v.* to break in pieces; to crumble; to reduce to powder; to pulverize.

Briwionyn, *pl.* briwion, *sm.* [briwion: C. *brewyonen;* Br. *brienen*] a small piece or fragment; a crumb, a bit.

A dawed a orug y llygoden maes o'i llochwes allan, a chaffael *briwionyn* o'r bara gwyn.
Dammegion (Y Greal, 368).

Briwlan, *v.* [=brewlan; briwlaw?] to rain drizzlingly, to drizzle.

Briwlaw, -oedd, *sm.* [briw+glaw or gwlaw] drizzling rain.

Briwlawio, *v.* to rain drizzlingly, to drizzle.

Briwlawiog, *a.* raining drizzlingly; full of drizzle.

Briwlio, } *v.* [im.: cf. E. *broil,* supposed to be
Briwlian, } of Celtic origin] to broil; to roast over the fire; to fry.

Beth yw polioni neu lifio dynion yn fyw, tynu'r cnawd yn dameidiau â gwrthrimynod heirn, neu *friwlio* cig a chanwyllau o fesur golwyth, neu wasgu penglogau yn lledfenau mewn gwasg, a'r holl ddirmyg erchyllaf fu erioed ar y ddaiar?—*Elis Wynn:* Bardd Cwsg, 74.

Briwlys, *sm.* woundwort (*Stachys*).

Briwlys y goedwig, } hedge woundwort (*Stachys*
Briwlys y gwrych, } *sylvatica*).

Briwlys y gors, } marsh woundwort, clown's
Briwlys y taiog, } all-heal (*Stachys palustris*).

Briwlys yr âr, } corn woundwort (*Stachys ar-*
Briwlys yr yd, } *vensis*).

Briwlys tewbannog, downy woundwort (*Stachys Germanica*).—*H. Davies:* Welsh Bot. 58, 161.

Briwllyd, *a.* ready to crumble; crumbling; brittle, fragile; broken; shattered.

Os daw un i maes o'r tonnau
Ar ystyllen *friwllyd* deneu,
Fe glyw 'stŵr ar y dwr, dwndwr yr angeu.
W. Williams: Can. viii. 1.

Briwo, *v.* [briw: C. *brewy;* Br. *breva*] 1. to break in pieces; to crumble; to reduce to powder; to break, to fracture; to destroy or demolish; to smash; to mince; to chop; to crumb.

Ac odyno yn gyfun y kyrchassant Drefdraeth, ac y *briwassant* y castell.—*Brut y Tywysogion*, 344.

A chymryt ereill or pryuet ae *briwaw* ymplith dwuyr.
Mabinogion, iii. 301.

Un a aeth allan i'r maes i gasglu bresych . . . ac a'u *briwodd* yn y crochan cawl.—2 *Bren.* iv. 39.

Briwo bara mewn llaeth, to crumb bread into milk.

2. to hurt, wound, or bruise; to injure; to cut; to be hurt or injured.

Oderuyt maru er aniueil en elle pan *briuet* kanecker er nepay *briuuis* . . . Oderuit er din re *briuasei* gurthot elluden marw atau gnaet e perchennauc eguellis ohonau.
Cyfreithiau Cymru, i. 112.

Llawer claig yn yr eigion,
Llu'r geirw draw yn *briwaw*'m bron.
D. ab Gwilym, ccxlix. 19.

A briw mawr y *briwyd* y wyryf merch fy mhobl.
Ier. xiv. 17 (cf. viii. 21).

Briwo teimladau un, to hurt one's feelings.

Briwo Cymraeg, to speak broken Welsh.

Y mae ef wedi briwo, 1. he has been hurt or injured. 2. he is ruptured.—*N. W.*

3. to have a rupture or hernia.—*N. W.*

Briwod, *sm.* [briw+ôd] driven snow.

Llathrodd dros fydoedd drumoedd dramwy,
Llwybr nod gwyn *friwod*, myn Gwenfrewy.—*Sefnyn.*

Briwsion (*sg.* -yn, *m.*), *s.pl.* [contr. of *briwysion*] small crumbs or fragments; crumbs; shatters.

Y mae y cwn yn bwyta o'r *briwsion* sydd yn syrthio oddi ar fwrdd eu harglwyddi.—*Matt.* xv. 27 (cf. Luc xvi. 21).

Haul a hyllt, garw-wyllt ei gur,
Yn *friwsion* o'i fro asur.—*W. Wynn:* C. y Farn.

Briwsion bara, crumbs of bread.

Tori yn friwsion, to shatter; to break into fragments; to dash or crumble to pieces.

Briwsionach, *s.pl.* small or worthless crumbs.

Briwsioni, } *v.* to break into small pieces; to
Briwysioni, } crumble; to mince; to become crumbs or fragments.

Mae y bara yn briwsioni, the bread crumbles.

Briwsioniad, } -au, *sm.* a crumbling; a falling
Briwysioniad, } into pieces; a mincing; a mouldering.

Briwsionllyd, } *a.* apt or ready to crumble;
Briwysionllyd, } crumbling; mouldering.

Bara briwsionllyd, crumbling bread, crummy bread.

Briwsionog, *a.* crummy; full of crumbs or fragments.

Briwsyn, *sm.*=*Briwysyn, Briwsionyn.*

Briwwellt, *sm.* and *cl.* shorter straws shaken out or separated from the larger and more useful straw; refuse straw.

Briwwydd (*sg.* -yn, *m.*), *s.pl.* and *cl.* [briw+gwŷdd] dry brushwood; small dry sticks; sticks (for lighting fire, &c.).

Duw a ethol y doethion;
Minnau sydd mal *briwwydd* bron.—*L. G. Cothi*, v. xi. 53.

Wele fi yn casglu dau o *friwwydd*, i fyned i mewn, ac i barotoi hyny i mi ac i'm mab.
1 *Bren.* xvii. 12 (cf. Act. xxviii. 3).

Briwydd, *sf.* bedstraw, Our Lady's bedstraw (*Galium*).

Rubia minor, briwydd wen, *briwydd*, briwlys.
Meddygon Myddfai, 292.

Briwydd wen, smooth heath-bedstraw (*Galium saxatile*).

Briwydd felen, yellow bedstraw, cheese-rennet (*Galium verum*).—*H. Davies:* Welsh Bot. 15, 161.

Briwydd fechan y mynydd, least bedstraw (*Galium pusillum*).—*Faunula Grustensis*, 86.

Briwydd wen y graig=*Briwydd wen.*

Briwys, -ion, *s.cl.* small fragments, crumbs.

Briwysion, *s.pl.* small fragments or crumbs; crumbs, fragments; shatters.

Llifion *briwyssion* nid browyssig.
Hywel Ystoryn: M.A. i. 519.

Briwysioniad, -au, *sm.* a crumbling; a mincing.

Briwysionllyd, *a.*=*Briwsionllyd.*

Briwysionyn, *sm.*=*Briwsionyn.*

Bro, *pl.* bröydd, *sf.* [C. *bro;* Br. *brô;* Ir. and Ga. *bruach;* Mx. *broogh*] 1. a region (of indefinite extent and of any description); a tract of country; a country; land.

Marth ym pa *vro* llad un mab Marro.
Aneurin: God. 19 (cf. 471, 719).

Ar wyneb biddinawr *broëdd* ynial.
Taliesin: M.A. i. 31 (cf. 19, 27, 131, 248).

Taer bore bradawc caduin *broit.*
Meigant: M.A. i. 161 (cf. 160, 162).

Dewi mawr Mynyw syw sywedyt
A Dewi Brefi ger y *broyt.*
Gwynfardd Brycheiniog: M.A. i. 271.

Gwrawl ei fflamdo am *fro* Freiddin.
Dafydd Benfras: M.A. i. 308 (cf. 318).

Hwyl orne heul ure ar *vrohyd* glasuor.
Iorwerth Fychan: M.A. i. 415.

Duodd ei *fröydd*, doe oedd frywus.
L. G. Cothi, vii. iii. 53.

Gollwng fi ymaith, fel yr elwyf i'm *bro*, ac i'm gwlad fy hun.—*Gen.* xxx. 25 (cf. xxxi. 45; xxxviii. 22).

Yn gymmaint a bod breninoedd y pryd hyn yn meddiannu amryw *fröydd* yr holl amherodraeth.
Morus Cyffin: Diff. vi. 11.

Tristion yw dynion bob dydd
Ar fryniau *bro* Feirionydd.
Ieuan Brydydd Hir: Gwaith, 114.

Oedd degwch *bro*, oedd degwch byd,
Mor hynod oedd o hardd.—*Tegid:* Gwaith, 191.

Cefnais i ar *fro*'r addewid, wedi profi'r sypiau grawn.
Blackwell: Ceinion Alun, 193.

Bro coedydd, land of trees; woodland.

Bro coedydd, gelltydd gwylltion.—*Gro. Owain*, 117.

Bro y cymylau, the region of the clouds.—*W.*

Ym *mro'r cymylau* dawnsia'r dydd yn llon.
Blodau Ieuainc, 20.

Bro Gadell, the district or territory of Cadell =South Wales.

Henw fy ngwlad yw *Bro Gadell.*
Dafydd ab Gwilym, cxxiii. 33.

Bardd fûm, ba arwydd fai well,
Obry i gedeirn *Bro Gadell.*—*L. G. Cothi*, iii. xxxiii. 22.

Cf. *Bro Brân, Bro Gadfan, Bro Gadwallawn* (*M.A.* i. 150, 297, 299).

Bro y nifwl, the region of vapour; the higher region of the atmosphere.

Olrheiniodd, chwiliodd yr uchelion . . .
Nodau'r lloer a'i newidion; hynt cwmwl
O *fro y nifwl* i fôr Neifion.—*Gro. Owain*, 120.

Bro marwolaeth, the land or region of death.

Bro marwolaeth! dyffryn cysgod
Angeu oerllyd, du ei wedd!—*Daniel Ddu*, 194.

2. the lowland; the plain, champaign, or cultivated country (as opposed to the upland or mountainous parts); the vale.

Caraf y *brooet* breint hywret
Ae diffeith mawrueith ae marannet.
Hywel ab O. Gwynedd: M.A. i. 277.

Bryn a bro, hill and dale; upland and lowland. —*C.S.*

Gwyr gortho *bro bryn* a phant
Gwir Cymry cymmellasant.—*Sefnyn:* M.A. i. 502.

Mae'r gwr ym mhryd mebyd mau,
Ennynodd hen awenau
Y glyn, nes oedd *bryn a bro*,
A gwig las, yn gogleisio.—*Blackwell:* Ceinion Alun, 151.

Bro a gwrthdir, lowland and upland.

Maenor fro a maenor wrthdir, a lowland manor and an upland manor.

Seithtref a vyd ym *maenawr vro* teir tref ardec a vyd ym *maenawr vrthtir*.—*Cyfreithiau Cymru*, i. 538.

Bro Morganwg, the Vale of Glamorgan=the low or maritime part of the county; locally called simply *Y Fro*.

Nid Mon, nid Arfon erfawr,
Na neb 'Mam Gymru' yn awr,
Onid glân *Fro Morganwg*,
Helaeth ei thoraeth a'i thwg.
Gwallter Mechain: Gwaith, i. 96.

'Pa bryd yr ewch i'r *Fro?*' Holiad cyffredin ym mharthau Ystrad Dyfodwg ac Aberdâr.
Gwallter Mechain: Gwaith, i. 96.

Yn fynych iawn o fewn fy ngho'
Mae dolydd *bro Morganwg*.—*Daniel Ddu*, 255.

3. a district, a neighbourhood; a locality.

Pe bai yn bridd pawb o'n *bro*,
Ei hun y'm cadwai honno.—*D. ab Gwilym*, cxciii. 21.

Gwr o'm bro, a man from my neighbourhood or district; a countryman.

Fe ddywedodd un o'm *bro*.—*Amnon:* Crwth D.C. 72.

Broaeg, -au, *sf.* the speech or dialect of a district; a patois; a brogue.

Y mae yr athraw yn llefaru Saesonaeg gyda *broaeg* sir Gaer, yn gegog, ac yn angramadegol.
Adroddiad Dirprwywyr Addysg (1848), iii. 27.

Broaidd, *a.* [bro 2] plain and cultivated; champaign; like a vale; pleasant as a vale; pleasant.

Gwledd oedd bur, mewn gwlyddaidd bant,
Cysgodol, maenol mwyniant;
Bwrdd tywyll, *broaidd*, tawel,
O fyd mwyn, hafod y mêl!—*Rhys Jones:* Gwaith, 262.

Gan hoffi oll o gylch, arogli yd
Ai gwair, ai bu, pob *broaidd* wedd, pob swn.
W. O. Pughe: C.G. ix. 430.

Broawl, *a.* [bro: Br. *brool*] relating to a lowland or champaign country; pertaining to a vale.

Broc, *a.* [Ir. *broc*, grey] roan; of a bay, sorrel, or black colour with grey or white hairs thickly interspersed; peach-coloured.

Ceffyl broc (*f.* caseg froc), a roan horse.

Broc, *sm.* a roan colour; 'a dark grizzle colour.' —*W.*

Broc, lliw'r gwilfrai'r neu'r broch.—*W.*

Broc, *sm.* [E. *wreck*, *wrack*] wreck.—*Gwynedd.*

Teflwch yr ysgerbwd yna yn ol i'r môr, rhag ofn iddo ddyfod ato ei hun; o herwydd os daw yn fyw, ni chawn ni un tipyn o'r *broc* a ddaeth i dir heddyw.
Cawrdaf: Meudwy, 26 (cf. 27).

Broc môr, sea-wreck; wreck thrown up by the sea; wreck.

Y mae *broc môr* wedi dyfod i'r lan neithwyr.
Cawrdaf: Meudwy, 22.

Brocen, -au, *sf.* a bosom, a breast.

Broch, -au, -ion, *sm.* 1. froth, foam, spume.

2. anger, wrath, fume, chafe, heat, passion.

Mae'r drom-ddor yn agori,
Mae'n fawr, braich cawr! *broch* y ci.
Dafydd ab Gwilym, cviii. 43.

Cyfrana dy ddaionus rad
(Ti 'r hwn wyt Geidwad ffyddlon)
I'r rhai sy'n ymroi dan dy law,
Rhag *broch* a braw y trawsion.
Edm. Prys: Salm. xvii. 7.

Trefi yn troi i ufel
O'i *froch*, a llwyr och lle'r el!—*Gro. Owain*, 4 (cf. 114).

3. angry noise; noise, din, tumult, uproar.

Broch, -od, *sm.* [C. *broch;* Br. *broch* (Catholicon); Ir. *broc*, *brochd*, *brech*] a badger, a grey, a brock (N.E.).

Broch ny allwys ygneit Hywel da dodi guerth kyfreith arnaw.—*Cyfreithiau Cymru*, i. 732.

Y ferch a fûm i'w herchi,
Gwrhaodd o'i hanfodd hi:
Pan truan, penyd tri-och,
Ei bod yn briod â *broch*?—*D. ab Gwilym*, ccliv. 1.

Gware broch yng nghod, } the game of badger
Chware broch yng nghod, } in the bag; a play in which each of the parties endeavoured to put one another into bag or a sack.

Ac ual y delei bob un oe niuer ynteu y mywn y trawei dyrnawt ar y got. ac y gouynnei beth yssyd yman. *Broch* medynt wynteu. Sef kyfryw chware a wneynt. taraw a wnaei bop vn dyrnawt ar y got ae ae droet ae a throssawl. Ac uelly gware ar got a wnaethant. Pawb ual y delei a ovynnei pa chware a wnewch chwi uelly. *Gware broch ygcot* medynt wynteu. ac yna gyntaf y gwarywyt *broch ygcot*.—*Mabinogion*, iii. 25 (cf. 159).

Ti fydd cydbar, far y farn,
Broch yng nghod, braich anghadarn.
Dafydd ab Gwilym, cxxv. 45.

Brochaidd, } *a.* foaming, frothing; chafing,
Brochlyd, } angry, ruffled.

Brochan, *sm.*=*Brwchan*, *Bwdran*.

Brochell, -au, *sf.* a tempest, a storm.

Brochellog, -ion, the stormy petrel.

Brochi, *v.* to foam; to chafe, to fume; to rage; to fret; to become angry, fierce, or turbulent; to storm.

Ef wedi cymmod, a rhoi llaw,
Drwy godi braw, a *frochodd*.—*Edm. Prys:* Salm. lv. 20.

Pwyth o fraw uchel, poeth a *frochodd*.
Rhys Jones: Gwaith, 187.

Brochiad, -au, *sm.* a chafing, a fuming.

Caisar, anghymhar yng nghad,
A'i brawychai â *brochiad*.—*I. B. Hir:* Gwaith, 64.

Brochus, *a.* chafing, fretting, raging; angry; blustering; snarling.

Brawychus oll, *brochus* wyf.—*D. ab Edmwnt:* G.B.C. 117.

Nid ydym ni yn *frochus* ac yn ffromwyllt iawn un amser, ond y pryd y gwrthwynebir ein hewyllys.
Elis Lewis: Drexelius, 191.

Mewn digofus, *frochus* fryd.—*Rhys Jones:* Gwaith, 7.

Brochwel, *sm.* [broch+gwel] 1. a blustering aspect.—*P.*

2. a personal name; as, *Brochwel Ysgythrog*, a prince of Powys in the 7th century.

Ei fam ef Nest ferch Cadell Deyrnllwg fab *Brochwel* Ysgithrawc.—*Brut Aberpergwm:* M.A. ii. 475.

Rhag *Brochwel* Powys a garwys fy awen.
Taliesin: M.A. i. 66.

Gruffydd lin *Brochwel*, groew-ffydd lân breichus.
L. G. Cothi, vi. ii. 34.

Brig gwŷdd Syr Gruffydd a'i sel,
Breichiau Gwenwys a *Brochwel*.—*Sion Ceri.*

The same name is also written *Brochfael*, earlier *Brochmail*, *Brochfail* (cf. *Maelgwn*, Lat. *Maglocunus*), and may have no connection with *Brochwel* (if derived as above by Pughe from *broch+gwel*).

Dyfrynt Meisir mygedawg
Dir *Brochvael* Hir rhygodded.
Llywarch Hen: M.A. i. 109.

Mochnant . . . gwlad *Vrochuael* Ysgithrawc.
Cynddelw: M.A. i. 216 (cf. 223, 243, 246).

Lladd *Brochfael* wyn a gwynaf.
Peryf ab Cedifor: M.A. i. 524.

Brychfael is probably another form of the same name.

Ny bo dyn y myw y Mon
Or *Brychuaelyeid* brychuoelyon.—*Myv. Arch.* i. 418.

¶ It is questionable whether *Brochwel* as an appellative ever occurs.

Brochwr, wyr, *sm.* one who chafes; a blusterer.

Brod, *af.* [f. of *brwd*]=*Brwd*. *Brod* is of rare occurrence, *brwd* being of common gender.

Cais wncyn o bylor gwraidd neu farfau cennin, wncyn o bylor anis, dau wncyn o bylor y glyf, a'u rhoi yng nghyd oll yn y cocwy uchod, a chau arnynt yn dda â'r toes, a'i roi mewn ffwrn *frod* gyfennyd â'r bara, a'i chrasu'n dda, a'i thynu allan yn *frod*, a'i thori yn bedwar rhan.
Meddygon Myddfai. ii. 513.

A'r un peth hefyd o gymmeryd llwyaid o'r gwysgon yn ei gawl, neu arall o ddiod *frod*, unwaith yn y dydd.
Meddygon Myddfai, ii. 796.

Brodedd, *sm.* [brawd] brotherhood, fraternity.

Broder, *s.pl.* [=brodyr] pl. of *Brawd*, now obsolete except occasionally in poetry.

Dau *froder*, un gryfder grym,
Dwy wal i'r wlad o Wilym.—*L. G. Cothi*, III. v. 5.

Brodiad, -au, *sm.* an embroidering; a darning; embroidery.

Ym y rhoed, er mwyhau rhus,
Ddwy alarwisg ddolurus;
Gŵn Faredydd gan *frodiad*,
A gŵn du Morgan ei dad.—*L. G. Cothi*, I. v. 9.

Y *brodiadau* ar wisgoedd yr offeiriaid a'r eunuchiaid, oeddynt o'r un natur. . . Yr oedd y dyfeisiadau hyn, fe allai, wedi cael eu bwriadu i arddangos *brodiadau* ar sidan, lliain, neu ddefnyddiau gwlan.
Brutus: Ninefeh, 97 (cf. 46).

Brodiaeth, -au, *sf.* embroidery.

Acw y gorwedd y dolydd, wedi eu llyfnhau yn berffaith wastad, a'u haddurno â *brodiaeth* o'r blodau tecaf.
Myfyrdodau Hervey, 106 (cf. 127).

Brodiau, *s.pl.* [*pl.* of brawd, *f.*] judgments.

Brodiedig, *a.* embroidered.

Yn y cyntaf yr oedd saethyddion a wahaniaethid wrth eu huganau byrion *brodiedig*, a phenwisgoedd, o ysnoden yn unig, ydoedd oddi amgylch eu gwallt llaes.
Brutus: Ninefeh, 319 (cf. 97, 214).

Brodig, *a.* [brawd, *f.*] relating to judgment; judicial.

Ac ew gueith dim gunelemne dim *brodic* dit.
A.B. ii. 9 (M.A. i. 184).

Bedydd gyngwara hyd *frodic* [*al.* frawd] yt para.
Taliesin: M.A. i. 25 (A.B. 216).

Brodio, *v.* [cf. *brwyd*, *brwydo:* L.L. *brodatus*] to broider or embroider; to darn.

Pebyll Naf o'r ffurfafen,
Brethyn aur, brith yw ei nen:
Angel mwyn yng ngwely Mai,
O baradwys, a'i *brodiai.*—*D. ab Gwilym*, xlvii. 49.

Os *brodiaf* gerdd ysprydawl,
Afraid i mi *frodio* mawl.—*Sion Pywel.*

Brodio hosanau, to darn stockings.—*N.W.*

Brodiog, *a.* broidered, embroidered; darned.

Barwnes, er bwrw anhun,
Bryd glwys o liw *brodiog* lun.—*D. ab Edmwnt:* G.B.C. 115.

Sidan arial, a phali
Modrwyog o *frodiog* fri.—*Nicander:* St. Paul, viii.

Gwaith brodiog, broidered work, embroidery.

Brodiol, *a.* embroidering; broidered; darning.

Brodir, -oedd, *sf.* [bro+tir] a tract of country; a region; a country; a district; a champaign or open country; cultivated land.

Gwae *frodir* Essyllt gan ai treisia.—*Taliesin:* M.A. i. 552.

Henffych well, Fon, dirion dir,
Hyfrydwch pob rhyw *frodir.*—*Gro. Owain*, 15 (cf. 13).

Dy lân bryd hael i'n *brodir*,
Cedwid Duw mewn codiad hir.—*Gruffydd Phylip.*

Brodiwr, *pl.* brodwyr, *sm.* an embroiderer.

Bardd wyf i wenferch bereiddiaf awen-faeth,
Brodiwr cain wawdiau, bwriadwr cân odiaeth;
Brwd er f' aur ddynan yw bryd ar farddoniaeth.
Morgan Gruffydd: Cyfr. y Beirdd, 100.

Brodor, -ion, *sm.* [brawd, *m.*] 1. a brother.

Ath ewythyr wyf inneu vrawt dy vam. *brodoryon* ym ni ar gwr y buost neithwyr yny ty.—*Mabinogion*, i. 247.

Trywyr a golleis tri dyledogion
Brodoryon haelon o hil Rodri.
Bleddyn Fardd: M.A. i. 363 (cf. 365, 524).

Brodorion maeth (*sg.* brodor maeth), a foster-brother.

Ac ymgeissaw aoruc ae gedymdeithon ae *vrodoryon maeth.*—*Mabinogion*, ii. 372 (cf. i. 252).

2. a native (of a country or place).

Tri rhyw wr y sydd: . . . *brodorion*, sev yw *brodorion* Cymry cynnwynawl, heb gaeth, heb alltud, heb ledach, yn y gwaed, ac ar y pedwerygwr y saiv braint *brodawr*, neu Gymro cynnwynawl ar aillt o vamwys cynnwynawl.
Cyfreithiau Cymru, ii. 526 (cf. 522).

A mi disgoganaf haf gwythloned
Kyfrwg *brodoryon* brad o Wyned.
Myrddin: M.A. i. 135 (cf. 152).

Yn ei amser ef y gwnaethpwyd llawer cyfraith dda er lles y wlad, ac a roddwyd eu cyssefin fraint i *frodorion* Morganwg.—*Iolo Mss.* 17.

Od ai 'n tiroedd dan y taerion,
Ar fyr dwyre wir *frodorion.*—*Gronwy Owain*, 101.

Y brodorion, the natives; the native inhabitants.

Y mae traddodiad hyd y dydd heddyw ym mysg y werin bobl . . . fod y Gwyddelod, ryw bryd yn yr amseroedd gynt, yn *frodorion* Cymru a Lloegr.
Theo. Evans: D.P.O. i. 1 (11).

3. a fellow or member of a community; a person of position or rank (in a community or society); a denizen. Cf. *priodor*=a native and a proprietary.

Diarebant hon gaillt ac estron;
Diarebant wawr gwreng a *brodawr;*
Diarebant hi byd barddoni.
Rhys Goch ab Rhicert: Iolo Mss. 236.

4. a layman, one of the laity.

Dygettaur y tri llv rac drech drem Iessu
Llu guirin guinion eiliv egilion
Llv arall brithion eiliv *brodorion*
Tryde llv diuedit syth leith gyweithit.
A.B. ii. 9 (cf. M.A. i. 184, 249, 283).

Yr offeiriaid oeddent megys yr eilun bugail . . . yn gadael y praidd, yn eu porthi eu hunain, ac yn gwasgaru y defaid; a'r *brodorion* hwythau a ganlynasant yn gwbl ensampl eu hathrawon.—*Theo. Evans:* D.P.O. ii. 3 (247).

Brodor a pheriglor, laic and cleric; layman and clergyman; laity and clergy.

Ac ym mhen talm o amser, syrthiasant, *frodor a pheriglor*, boneddig a gwreng, i bob math o ysgelerder a drygioni.
Theo. Evans: D.P.O. i. 3 (87).

Brodordy, dai, *sm.* a house of brothers; a friary; a monastery.

Oed Crist 1111 . . . y gwnaeth Rhobert Consyl, arglwydd Morganwg, Fonachlog Margan, a Morys de Lwndwn a wnaeth *Frodordy* 'r Wenni.
Brut Aberpergwm: M.A. ii. 541.

Ac yna y gwnaeth Ifor y *Brodyrdy* mawr yn Ynys y Fallen er diolch i Dduw am ei gyfnerth yn erbyn y Saeson.
Brut Aberpergwm: M.A. ii. 470.

Brodoriad, -au, *sm.* a conferring of social rights; fraternisation.—*P.*

Brodoriaeth, -au, *sf.* fraternity, brotherhood; fellowship; community; civil society.

Tair priv ddyledswydd teyrnedd: cainymgynnal; cadarnau addysg ar wybodau gwladolion, mal y gallawr ymgynnal gan raith a chyvraith, a chan wlad a theyrnedd; a chadarnau nawdd cywiriaid y genedl a'r *vrodoriaeth*, a'r nawdd a ddylit i eillion yn nawdd y *vrodoriaeth*.
Cyfreithiau Cymru, ii. 484 (cf. 480, 482, 486).

Ny phedrussafi ysgrivennu awch *brodoryaeth* chwi yn diffleis diamheu blaynwedeu ac ystlysseu y amryvedodyon weithredoed ef.—*Campau Charlymaen*, § 21.

Prydain ab Aedd Mawr, a wnaeth ddosparth *brodoriaeth* gwlad a chenedl, a dosparth ar wlad a gorwlad gyntaf yn Ynys Prydain.—*Trioedd:* M.A. ii. 67.

Brodoriol, *a.* federative; in fellowship.—*P.*

Brodorol, *a.* native.

Llwythau brodorol, native tribes.

Brodre, *sm.* social intercourse, social bonds.—*P.*

Sefwch allann vorynnyon a syllwch werydre
Gyndylan: llys Benn Gwern neut tande:
Gwae ieueinc a eidun *brotre*.
Llywarch Hen: A.B. ii. 279 (cf. M.A. i. 107).

Llyw cu heb astalch lle caid
Gwerydre *brodre* brwydriaid.—*Dewi Wyn:* Blod. Arf. 151.

Brodwaith, weithiau, *sm.* embroidered work; embroidery.

Maent yn ymffrost natur, yn hyfrydwch meibion dynion, ac yn gynlluniau perffaith owmal a *brodwaith*, ac yn tra rhagori hyd yn oed ar linellau dedwyddaf y puntr.
Myfyrdodau Hervey, 171.

Brodyr, *s.pl.* [pl. of *brawd*, q.v.] brothers, brethren.

Y Brodyr Cyfunol, the United Brethren=the Moravians.

Brodyraidd, *a.* brotherlike, brotherly, fraternal.

A chyda gwaredd, caredigrwydd *brodyraidd;* a chyda charedigrwydd *brodyraidd*, cariad.
Esgob R. Davies: 2 Pedr i. 7 (cf. Heb. xiii. 1).

Cymdeithas frodyraidd, a brotherly society; a brotherhood or fraternity.

Perchwch bawb: cerwch *gymdeithas frodyraidd*.
Esgob R. Davies: 1 Pedr ii. 17.

Brodyrdy, dai, *sm.*=*Brodordy*.

Brodyrdde, *sm.* friendship; social ties; fraternal union.—*P.*

Nid angau Freuer am de heno
Am damorth *brodyrdde*
Dihunav wylav vore.
Llywarch Hen: M.A. i. 110 (cf. 107, 112).

Braint brodyr gwellwyr gollewin
Broderde braw aele elin.—*Elidir Sais:* M.A. i. 345.

Nid anghof *brodyrdde*.—*Diareb.* (M.A. iii. 169.)

Nid cadarn ond *brodyrdde*.—*Iolo Mss.* 255.

Brodyriol, *a.* brotherly, fraternal.

Ac gwedy eu dyvot ygyt pob un o nadunt a aeth dwylaw mwnwgyl oy gylyd ac o *vrodyryawl* karyat pob un a gressaawd y gylyd o nadunt.—*Brut Gr. ab Arthur:* M.A. ii. 168.

Broddeg, -au, *sf.*=*Brawddeg*.

Broddosparth, -au, *sf.* [bro+dosparth] chorography.

Broddosparthwr, wyr, } *sm.* a chorographer;
Broddosparthydd, -ion, } one who describes a particular region or country.

Broelig, *a.*=*Brolig*.—*Gwent.*

Broell, *sm.* white heat, candescence?

Tri gweith o bydd y gof yn y wneuthur od eir yn y *broyll*, sef yw hynny yn oleuat, ef a dyly wynebwerth: cyll cwlltyr; a theddyf bwyall; a gwarthaf gant callawr.
Cyfreithiau Cymru, ii. 582.

Broes, -au, *sm.* [C. *bros*] a small pointed piece of wood; a prick.

Broes edafedd (*pl.* broesau edafedd), } a small
Broes gwlan (*pl.* broesau gwlan), } pointed stick, generally about 10 inches long, on which to slip the yarn when taken off the spindle; a yarn-slipper. An iron pin is sometimes used for the same purpose.

Broes canwyllau, a candle-slipper; a pointed stick, of variable lengths, which passes through the loop of the wick, and lies horizontally on the brim of the vessel in which candles are dipped.

Broew, *a.* sparkling; mantling; lively.

Myned yno, cael ein boddio,
Diod yn *froew*, cadarn a gloew.—*Edward ab Ifan.*

Broga, -od, äed, *sm.* [cognate with E. *frog;* A.S. *froga*] a frog.—*S.W.*

Cymmer *froga* o'r dwr yn fyw, a thyn ei dafod, a dod eilwaith yn y dwr, a dod y tafod hwnw ar galon dyn yn cysgu, ac efe a eddyf beth a wnaeth trwy gwsg.
Meddygon Myddfai, ii. 803.

Y mae'r galon ym mhob rhyw greaduriaid pedeirtroediog wedi ei chymhwyso a'i haddasu'n rhyfedd i'w hachos. Y mae ei chelloedd mywn rhai yn un, megys y *broga;* mywn ereill yn ddwy, ac mywn rhai, meddant, yn dair.
Dafydd Lewys: Golwg, ix. 5.

Rhyw haid o blant un diwrnod,
Mewn rhyw chwareuaeth hynod,
A daflent gerryg, gwyllt eu naws,
I lyn ar draws *brogaod*.—*Gwynionydd:* Caniadau, 97.

Mor oer a'r broga, as cold as a frog.—*Diareb.*

Grifft y broga, }
Grifft brogaod, } frog-spawn.

Bwyd y broga, }
Bwyd brogaod, } agaric, mushroom: names applied to different kinds of fungi: also called, *bwyd y llyffant, caws y llyffant, caws y llyffaint*, and *bwyd ellyllon*.

Y broga blwydd yn lladd y broga dwyflwydd, the yearling killing the two-year old frog: an expression which originated in the popular belief that frogs fight at the season of reproduction, and that the younger invariably kill the older.

¶ In N.W. both the toad and the frog are named *llyffant;* and when a distinction is necessary, the latter is called *llyffant melyn;* but in S.W. the toad alone is known as *llyffan* or *llyffant*, and the frog is always *broga* or (in some parts) *ffroga*. *Broga melyn* in S.W. signifies a yellow frog, the colour which it generally assumes in fine, warm weather; and *broga du* denotes a dark-coloured frog.

Ac mi welais dri yspryd aflan yn debyg i *ffrogäed*, yn dyfod allan o eneu'r draig.—*Huet:* Dad. xvi. 13.

Brogla, *a.* [cf. *broc*] of a dark and white colour thickly interspersed; grizzle, grizzled.

Dafad frogla, a grizzle sheep.

Broglwyd, *a.* [broc+llwyd] of a colour partaking of a brown and black; of a dull brown colour; dun, dusky-brown, dark-brown.

Ceffyl broglwyd, a dun horse.

Bröig, *a.* [bro] relating to a plain, champaign, or cultivated country; champaign, open.

Brol, -iau, *sm-f.* 1. a boast, brag, or vaunt.

Sal bigog, isel begawr,
A bril yw fo â *brol* fawr.—*Rhys Jones:* Gwaith, 237.

2. a brag, boaster, vaunter, or braggadocio.

Myn diawl, mi fynaf guro'r rhol,
Tra gwrol *frol* Tregaron.
Lewis Morys: Didd. Teuluaidd, 199.

Brolaidd (*ō*), *a.* [broawl?] luxuriant, rich, fertile.

Gwlad frolaidd iawn, a very luxuriant level country.—*Gwent.*

Broled, -au, *sm.* [brawl] a boasting or bragging; a boast or brag.—*P.*

Broled, *a.* boasting, vaunting, bragging.—*P.*

Mab Brochuael *broled* ei ddywed eidduned.
Taliesin: M.A. i. 168.

Brolgi, gwn, *sm.* a great boaster, a braggart.

Brolig, *a.* [broawl?] luxuriant; exuberant in growth; rich, fertile.

Tyfu yn frolig, to grow luxuriantly.—*Gwent.*

Brolio, **Brolian**, *v.* [brol, brawl] to brag, boast, or vaunt; to praise.

Mwyach, ffrostiwr, i ba beth
Y *broli* dy ewynau?—*Iago Trichrug:* Bedd.

Un yn bostio pa faint o arian a allai ennill, a'r llall yn *brolio* pa faint o ddiod a allai yntau yfed.
Cylchgrawn, i. 115.

Broliwr, wyr, *sm.* a braggadocio, boaster, bragger, or vaunter.

Brolwydd, -au, *sm.* prosperity or good of a country; patriotism.

Canaf wawd yr priawd ae pryn
Prif arglwyt *brolwyt* bron heilyn
Breisc anlloet beirt borthloet berthyn
Brwysc brydeu brwydyr dechreu dychryn.
Cynddelw: M.A. i. 228 (cf. 220).

Brwysc rwysc rwyf *brolwydd* bro seithbeu Dyued
Breisc am ged am gadeu.—*Cynddelw:* M.A. i. 228.

Bron, -au, *sf.* [C. *bron*; Br. *bronn*; Ir. *bruinne*; †*bronn*; Ga. *bruinne*, *bronn*] 1. a breast.

Oderuyd deuod *bronneu* arney . . . ena edeueyt e kyfreith na vyr nep beth eu hy.—*Cyfreithiau Cymru*, i. 88.

Y gwr a rannodd ini i reiniau . . .
A'n prynodd ar waed ei draed ai *fronnau*.
Gr. Ynad Coch: M.A. i. 517.

Dy fwnwgl yn dwf uniawn,
Dy *fronau*'n bellenau llawn.—*D. ab Gwilym*, cxviii. 9.

Mae o'r un wallt ar war Non
Ar *fronau*'r morforwynion.
Dafydd Nanmor: G.B.C. 157.

Ac yna y rodes ef idaw ef breich seint Simeon . . . a baryf Bedyr ebostyl. ac amdo Iessu Grist. ae gyllell. ae garegyl. ac un o'r kythri auu yndaw ar y groc. ar goron. a pheth o laeth *bronneu* Meir. ae chrys. ac esgit idi.
Ystoria Charles, 5.

Tynant yr amddifad oddi wrth y *fron*.
Iob xxiv. 9 (cf. iii. 12; xxi. 24).

Rhoi bron i, *Rhoi bronau i*, to give breast to; to give suck to; to suckle.

Gwae y rhai beichiogion, a'r rhai yn *rhoi bronau*, yn y dyddiau hyny.—*Matt.* xxiv. 19.

Sugno bronau, to suck the breasts.

Cesglwch y plant, a'r rhai yn *sugno bronau*.—*Ioel* ii. 16.

Gwyn fyd y groth a'th ddug di, a'r *bronau* a sugnaist.
Luc xi. 27.

Pen bron (*dim.* penig bron), the nipple of a woman's breast; a pap, a teat.—*D. ab Gwilym*, cxx. 38.

Y ddwy fron, the two breasts.

Dwy fron mor wynion a'r ôd,
Gloew wynach na gwylanod . . .
Nesa at fy llinosen,
A bwrw naid gar ei *bron* wen.—*D. ab Gwilym*, lxxv. 37.

Bron alarch, the cuttle-fish bone, the cuttle-bone.

Ystifflog, y pysg y gelwir ei asgwrn *bron alarch*.—*Walters.*

2. the region of the breasts; the breast; the thorax; the chest; the breast (of an animal); the bosom; the edge, margin, or border (of a thing).

O lost irmis hit *bronn* irallt.—*Liber Landavensis*, 70.

A phan y tynnei attaw y nesseynt wynteu attaw hyt ym *bron* y march.—*Mabinogion*, ii. 375.

A weleist ti y tei duon llawer ym *bronn* y coet?
Mabinogion, i. 264 (cf. 262; M.A. i. 110).

Ger bron, *Gar bron*, *Rhag bron*, before; in presence of; in front of; near the breast of.

A dygwydaw a oruc ar penn y lin *geyr bronn* yr amherodres.—*Mabinogion*, i. 281 (cf. 285, 295).

Ac odyna dyrchafel aoruc y uorwyn *rac bronn* Owein.
Mabinogion, i. 18 (cf. ii. 382).

Hyt pan ellynt en rwyd mynet *rac bron* e tewyssawc. Ac ene lle gwedy eu dyvot a sevyll *rac bron* Kynan Meyryadawc y annerch a wnaethant.
Brut. Gr. ab Arthur: M.A. ii. 214.

Ebediw gwr briw braw dygwyt
Yn dyt brwydyr *rac bron* y arglwyt.
Cynddelw: M.A. i. 257.

Fe fu ddeg o feddygon
I'm hedrych, gwr brych *gar bron*.
Dafydd ab Gwilym, ccxxiii. 15.

Gad yno dy rodd *ger bron* yr allor.—*Matt.* v. 24.

Ger fy mron (*ger dy fron*; *ger ei fron* (f. *ger ei bron*): pl. *ger ein bron*; *ger eich bron*; *ger eu bron*), before me; before thee, &c.

Ef a weley y dwywes yn sevyll *rac y vron* ac yn dywedwyt wrthaw val hyn.—*Brut Gr. ab Arthur:* M.A. ii. 103.

A chyweiriaw y uarch yn diwall. a dodi dogyn o vwyt *rac y uronn*.—*Mabinogion*, i. 33 (cf. ii. 6, 40, 382).

Ny byd gwaeth inn yno. no chyt ac Arthur yny llys . . . a didan gerdeu *rac dy uronn*.—*Mabinogion*, ii. 201.

Oni chrynwch *rhag fy mron*?—*Ier.* v. 22.

Pan ddeloch i ymddangos *ger fy mron*, pwy a geisiodd hyn ar eich llaw?—*Esa.* i. 12.

Hyd rag bron, to the presence of; before.

Nachaf yn dyuot y mywn *hyt rac bronn* y brenhin gwas ieuanc telediw.—*St. Greal*, § 3.

With the pl. poss. pronouns the pl. *bronau* is sometimes used.

Efe a fendithiodd, ac a dorodd y bara, ac a'u rhoddes at ei ddisgyblion, i'w gosod *ger eu bronau* hwynt.—*Marc* vi. 41.

Oddi ger bron, from before; from the presence of.

Bwriwch ymaith ddrygioni eich gweithredoedd *oddi ger bron* fy llygaid.—*Esa.* i. 16.

Na fwrw fi ymaith *oddi ger dy fron*.—*Salm.* li. 11.

Ym mron, on the point of; almost; near, nearly; close by.

Ar bore *ym bron* y dyd drannoeth yd ymordiwedawd rei or gwyr ac ef.—*Mabinogion*, ii. 243.

Ym mron marw, on the point of death or dying; nearly or almost dying; ready to die; moribund.

Wrth fron, on the point of; near.

Wrth fron tymp, near the time of delivery or confinement.

Myfi a debygwn fy mod i yn sefyll yng nghanol mynwent ragorol o faint, yr hon a welwn i yn llawn o ferched neu enethod iefainc o'u hoedran; y rhai'n oll a welwn i yn feichiogod, ac *wrth fron eu tymp*.
Ymddiddan Myrddin a Gwenddydd.

O'r bron, in regular succession from beginning to end; continuously, successively; in a series or order; seriatim; regularly; altogether; completely.—*S.W.* Recent N.W. writers, not apprehending the S.W. idiom, generally em-

ploy *o'r bron* in the sense of *almost, nearly*, which is anything but the meaning in S.W. writers. The nearest N.W. equivalent is *o'i gwr* (pl. *o'u cwr*).

Tair awr o'r bron, three hours consecutively; three hours running; three consecutive hours. —*S.W.*

O na bai gwybodaeth Iesu
Yn llenwi'r byd i gyd *o'r bron*,
Yn toi'r ddaiar oll o ddeutu,
Pawb yn plygu ger ei fron.—*Emyn.*

Sanct, Sanct, Sanct, meddynt oll *o'r bron*,
Yw Arglwydd Dduw y lluoedd glân.
Brutus: Brutusiana, 130.

Bron is also used in a similar sense with the (third) poss. pronouns as well as the article; and it is remarkable that in the latter case, the initial, though the word is feminine, is not inflected.

Doethineb dwyfol, oll *o'u bron*,
Yw trefnau'r greadigaeth hon.
Iolo Morganwg: Salmau, I. xx. 1.

Fe ruthrai'n garnwyllt ar ei farch
Trwy'r frwydr oll *o'i bron*.
Lewis Hopcin: Melgafod, 80.

Gwell yw ei goelfain bendigedig
Na chael gemau'r byd *o'i fron*.
Iolo Morganwg: Salmau, I. xxi. 2.

3. the breast, bosom, or heart.

Deliais ar yr hudolion,
Dur yw fy mriw drwy fy *mron!*
D. ab Gwilym, cxlviii. 7 (cf. xcvii. 34).

Mae cystudd rhy brudd i'm *bron.—Gro. Owain*, 29.

Briw yw fy *mron* gan frath a chur,
Uwch law brathiadau'r llymaf ddur.
Tegid: Gwaith, 215.

My nhyner *fron* ar dawl pelläed ei chur!
Th. Lloyd Jones: Ceinion Awen, 177.

4. (*pl.* -ydd), the slope or side of a hill; a hillside, a sideland; a hill (viewed from its side). It forms many place-names.

Llywyawc law eurawc liw eiry *bronnyd*.
Ior. Fychan: M.A. i. 415.

Ceisio medru cais Madron
Ar gaer fraith ar gwr y *fron*.
D. ab Gwilym, lv. 21 (cf. xliii. 14).

Y braenar arddodd brenin,
Bryn, a phant, a *bron*, a ffin.—*Ieuan Du'r Bilwg.*

Ti a brynaist y *bronydd*,
Tir âr gwyllt, a'r tai, a'r gwŷdd.—*Lewys Morganwg.*

Gweddw am hon yn y *bronydd*
Yw'r gog, a'r bedw a'r gwŷdd.—*Dafydd Nanmor.*

Ni wneir o *fron* anaraul
Ond cysgod, er rhod yr haul.—*Gronwy Owain*, 26.

Eidion du a dyn ei did,
Ond odid i ddyn dedwydd,
I dori ei gwys ar dir ac âr,
A braenar yn y *bronydd.—L. Morys:* Didd. Teul. 183.

Bron, *adv.* and *prep.* [short for *ym mron*] almost; near, nearly; on the point of; well nigh; all but.

Rhoddais iddo rybuddion aml a lluosog ar draul rhai ereill, nes oedd fy amynedd hir *bron* wedi blino.
Cawrdaf: Meudwy, 94.

Dengys hanesyddiaeth ei bod wedi cael teyrnasu dros galon dyn, o ddyddiau Adda hyd yr oes hon, gyda rhwysg *bron* diattal a chyffredinol.
Samuel Roberts: Ariangarwch, 27.

Bron darfod, almost or nearly at an end; almost finished or ended.

Mae efe bron darfod, he is almost finishing; he is almost expiring; he is almost dead.

Brona, *v.* to give breast to; to suckle.

Bronaidd, *a.* like a breast; protuberant, swelling.

Bronallt, elltydd, *sf.* a gentle slope, a smooth declivity.

Ffraethach yw hon mewn *bronallt*,
Y nos, na'r eos o'r allt.—*D. ab Gwilym*, clxxxiv. 35.

Bronbel, -au, *sf.* a breast-ball; a round breast.

Banadlwyn uwch yr wyneb,
Bronbelau fal siopau Sieb.—*D. ab Gwilym*, xxv. 19.

Bronbwyth, -au, *sf.* a breast-fastening; the strap which fastens the hame or collar on the breast of a horse.

Bronced, *s.* probably a kind of breast-ornament. The word is found only in the Oxford Glosses (Zeuss, G.C. 1062), in which it is glossed *bullo*. But as it occurs among articles of horse-trapping, it may possibly denote a breast-leather or a poitrel, and may be a Cornish word.

Brondengl, -au, *sf.* a breast-leather.

Brondir, -oedd, *sm.* a sideland, a hillside.

Marchogaeth yn y blaen a wnaethoedd oni ddaeth i faenol ardir, lle aml yd a gwair, a llandir caeadberth . . . ac aml gwartheg a defaid, a phob adar cân hyd *frondiroedd* coedwigaidd.—*Iolo Mss.* 223.

Brondor, -au, *sf.* [bron+tor] a breastplate; armour for the breast; a shield.

Taryf rac twryf glasuor a thewdor a theruysc
A thrylew a thrylwyn *vrondor*.
Cynddelw: M.A. i. 222 (cf. 215, 221, 226).

Gnawd ysgyn ac ysgwyd ar glet
Yn ysgor *brondor* brenhinet.
Llyw. ab Llywelyn: M.A. i. 293 (cf. 262).

Brondrist, *a.* sad-breasted.

Gan athrist *frondrist* fraen-droch,
Ni chynghan hoew gân ag och.—*Gronwy Owain*, 58.

Bronddor, -au, *sf.* [bron + dor] = *Brondor*; perhaps the more accurate form, and the one adopted by Davies, who derives it from *bron* and *dor* (q.d. *dor y fron*).

Os bar hwyr esgar a fyn
Hebawg bryn a *bronddor.—Llywelyn Fardd:* M.A. i. 358.

Bronddu, *a.* black-breasted.

Bronddu y twynau, a plover.

Broneang, *a.* full-, ample-, or large-breasted.

Ac ual y byd uelly yn kerdet ef a welei uarchawc yny ol y ar gatuarch kadarndew kerdetdrut llydangarn *bronehang*, ac ny welsei eiryoet gwr lei noc aoed ar y march.
Mabinogion, ii. 50.

Broneg, -au, *sf.* a breastplate; a stomacher.

Bronegog, *a.* wearing a breastplate.

Bronell, -au, *sf.* a gentle slope, a little eminence.

Llusgir ef fel rhyw gelain,
Y gwŷr a'i llusg i gwr llain
Oer, draw, tu allan i'r dref,
Y gwaedlyd gorff, â gwawdlef,
O barch ei gartref yn bell,
I fraenu ar y *fronell.—Nicander:* St. Paul, ix.

Bronfawr, *a.* large- or full-breasted; having a great breast.—*W.*

Bronfoll, **Bronffoll,** -au, *sf.* [bron+moll or ffoll: cf. *ffroenfoll*, *arfolli*] a breastplate; a stomacher.

Ar y gyfreith y dodaf ynneu, nat cret namyn yr honn a rodo dyn yn llaw y llall, ac nat ym llaw i y rodeisti dy cret, namyn ar vy yscwyd, neu ar vy *mronffoll*, neu yn lle ym ny dylynt y rodi.—*Cyfreithiau Cymru*, ii. 108.

Yna y marchawc a dineuawd y llyn a oed yndaw am y hwyneb ae *bronffoll*. a rodi bonclust mawr y Wenhwyfar.
Mabinogion, i. 240.

Bronfollawg, *a.* wearing a breastplate.

Bronfraith, freithod, *sc.* a thrush or throstle: also called *tresglen, pen y llwyn,* and *crecer.*

Ætinet *bronbreithet* (*gl.* cicadae).
Oxford Gloss. ii. 40 (Zeuss, G.C. 1058).

Nid rhyfygus ond *bronfraith.*—*Diareb.*

Siarad *bronfraith* is irwydd,
Ac eos fwyn, ei gas fydd.
D. ab Gwilym, lxxxix. 21 (cf. cxviii. 33).

Ar hyny e ddigwys y *fronfraith* wrthi, a'r holl adar ereill oedd geraint iddi.—*Iolo Mss.* 175 (cf. 261).

Ni chân na mwyalch, na chog
Fiwail, na *bronfraith* fywiog.—*Rhys Jones:* Gwaith, 89.

Ceiliog bronfraith, the male thrush; the thrush.

Ceiliog bronfraith cyweithas
Oedd uwch fy mhen ar len las.
D. ab Gwilym, ccxii. 5 (cf. ccxix. 9).

Bûm yn ael maes dan bren briglaes . . .
Yn gwrandaw iaith *ceiliog bronfraith* . . .
Brith oedd ei fron mewn dail gleision.
Rhys Goch ab Rhicert: Iolo Mss. 237.

Cyw bronfraith, a young thrush; a thrush.

A *chyw bronfraith* buriaith beraidd
Yn canu'n hardd, loew hoew-fardd hafaidd.
Rhys Goch ab Rhicert: Iolo Mss. 228.

Bronfrith, *m.* } *pl.* bronfrithion, *a.* having a
Bronfraith, *f.* } variegated, spotted, mottled, or speckled breast; motley-breasted.

Mwyn yw cân y ceiliog *bronfrith,*
Pan yn tywallt seiniau cymhlith.—*O. Wynn Jones.*

Bronfriw, *a.* of a wounded breast; broken-hearted.

Bronfriwo, *v.* to wound the breast.

Am foniwaw [f'eniwaw?], wyf *fron friwaw*
A'm diliwaw ym Duw lywydd.
Iorwerth ab y Cyriog: M.A. i. 505.

Bronfur, -iau, *sm.* a breast-wall.

Bronffoll, -au, *sf.*=*Bronfoll.*

Bronged (*n-g*), -au, *sf.* a boon for the heart or soul?

Mawr o wr ei ddawn a ddyfu ym rhyd
I fryd mab kwas Mair o Iesu
Mad ganed ei *fronged* o'i fru
O'i freiniawl ganmawl gynnyddu.
Elidir Sais: M.A. i. 350.

Brongedol, *a.* satisfying the bosom or heart?

Bro heirt y ueirt y ueirch can
Bronn gedawl uch bro Gaduan.
Llywarch ab Llywelyn: M.A. i. 297.

Brongengl (*n-g*), -au, *sf.* [bron+cengl] a breast-leather, a breast-girth, a poitrel.

Bronkeghel vn kerthet vyd ac vn guarthaual.
Cyfreithiau Cymru, i. 306.

Ac or diwed ymgadarnhau yny gwarthafleu awnaethant adwyn ruthur yghyt. a gwan o bob un y gilyd yny dorres eu kegleu. ac eu *brongegleu* a hwynteu yllden yr llawr.
Yst. de Carolo Magno, col. 446.

Bronglawdd (*n-g*), gloddiau, *sm.* a breast-work.

Bronglwm (*n-g*), glymau, *sm.* a breast-knot.

Bronglwyd (*n-g*), -au, *sf.* the breast-bone, the sternum.

Cymmeryd eu sudd yn unig ddiod yn y gwanwyn a'r haf a lwyr ddinystra'r frech yn y gwaed a'r llynor . . . a phob llysnafedd pen a chylla, a phob hwydd gwyn ar gymmal neu arall o fan, a phob poethni a llosg yn y gwaed a'r llynor, a phob poethwaew yn y pen, a phob cyfyngder yn y bryst a'r cylla, a than y *fronglwyd,* a phob hwydd yn y coesau a'r traed.—*Meddygon Myddfai,* ii. 795.

Hauwyd i'm dwy *fronglwyd* frau
Had galar hyd y gwyliau.—*Deio ab Ieuan Du:* G.B.C. 184.

Brongoch (*n-g*), *a.* red-breasted.

Brongoch, -iaid, *sf.* the redbreast, robin redbreast.

Brongul (*n-g*), *a.* narrow-chested.

Bronguli, } *sm.* narrowness of chest or breast.
Brongulni, }

Brongwlwm (*n-g*), gylymau, *sm.* a breast-knot.

Bronhau, *v.* to give breast to; to suckle.

Bronhau plant, to give breast to children; to suckle children.—*Gwent.*

Bronheilin, } *a.* [bron+heilin, hael] free-
Bronheilyn, } breasted, generous-hearted; generous, bountiful, liberal.

Ac wrthyf cyferchyd o deyrned Prydain
Pa *fron heilin* haelaf y syd.—*Gwalchmai:* M.A. i. 196.

Bronheilyn, -ion, *sm.* a free-hearted or generous person.

Canaf wawd i'r priawd ai pryn
Prif arglwydd brolwydd *bronheilyn.*
Cynddelw: M.A. i. 237.

Bronheulad, -au, *sm.* a basking in the sun.

Bronheulo, *v.* to bask in the sun; to bask.

Bronig, *sf.* [dim. of *bron*] a little breast; a pap, a nipple.

Bronisel, *a.* low- or flat-chested; low-spirited.

Bronlliain, einiau, *sm.* a breast-cloth; a bib.

Bronllydan, ain, *a.* broad-chested; having a great breast.

Gyrrais a llidiais farch *bron llydan* hoyw
Er hoen blodau sirian.
H. ab Einion Lygliw: M.A. i. 512.

Bronog, *a.* 1. having breasts; full-breasted.

2. full of slopes or hillsides; hilly.

Ar hyd dy wyneb *bronog* a meillionog,
Lle taflodd Hud ei holl ragorion tlysog,
Ceir mwynder, ceinder, llonder, a thirioni,
Yn plethu talaith flodau i'th goroni.
O. Wynn Jones: Myrddin Wyllt, xxiii.

Bronrhain, *a.* high- or full-breasted; having swelling breasts.

Gnawd gwynt o'r dwyrain gnawd dyn *bronrain* balch
Gnawd mwyalch ynmhlith drain.
Llywarch Hen: M.A. i. 129 (cf. 33; iii. 156).

Bronrheiniad, -au, *sm.* a swelling out of the breast or chest; a heaving of the breast.

Bronrheinio, *v.* to swell out the breast; to heave as the breast.

O gyfranc y kynfrain *bronrheino* cyfrwy
Adfydd bore coch ac och ofwy.—*Myrddin:* M.A. i. 137.

Bronrhuddog, *a.* red- or ruddy-breasted.

Bronrhuddog, -ion, *sc.* the redbreast, robin redbreast.

Bronrhuddyn, -od, *sm.* 1. a red-breasted bird; the redbreast.

A glywaist ti chwedl *Bronrhuddyn*
Y lle bu er yn blentyn?—*Iolo Mss.* 261.

A grudd fel y *bronrhuddyn.*—*D. ab Gwilym?*

2. a chaffinch.

Bronrhuddyn y mynydd, the mountain finch, the brambling.

Bront, *af.*=*Brwnt, m.*

Bronten, -od, *sf.* a dirty woman; a cross or ill-natured one.

Yn *fronten* y'th aned.—*R. Cludro,* i Ferch fudr.

Bronuchel, *a.* high- or hollow-chested; high-stomached.

Bronwaith, weithiau, *sm.* a breast-work.

Bronwal, -iau, *sf.* a breast-wall.

Bronwala, *sm.* contentment; pleasure; satisfaction.

Gwas da *bronwala* ei arglwydd.—*Diareb.* (M.A. iii. 158.)

Bronwala, *a.* satisfied; pleased.

Hoedl breyr breuawl o beth
Bron wala ei wahalieth.—*Llywelyn Fardd:* M.A. i. 355.

Bronwedd, -au, *sf.* the bosom, the breast.

Wythued yw llat a llafneu cochwet
Kelein a chathyl brein ar y *bronnwet.*
Gruffydd ab Gwrgeneu: M.A. i. 374.

Bronwen, *af.* [bron+gwen]=*Bronwyn, m.*

Bronwen, -od, *sf.* 1. a weasel.

Celfydd y gwnaeth, bu coelfain,
I'r pryfed myned i'r main;
Llyffaint mewn naint maeddu wnai,
A neidr yn fyw ni adai,
Na *bronwen* bach, bry' enwir,
Na charlwng teilwng i'r tir.—*Iolo Goch,* am Badrig.

A'r rhai hyn sydd aflan i chwi o'r ymlusgiaid a ymlusgo ar y ddaiar: y wenci [**fronwen*], a'r llygoden, a'r llyffant yn ei ryw.—*Lef.* xi. 29.

2. the water-rail: also called *cwtiar* and *rhegen y dwfr.*—*Pennant:* British Zoology, i. 118.*

3. a woman's name. *Bronwen* ferch Llyr (M.A. ii. 65) is more usually called *Branwen* (*Mab.* iii. 81—102; *M.A.* i. 498; ii. 11, 13, 18; *Llyfr Coch,* 301).

A'i lliw fal *Bronwen* ferch Llyr.—*D. ab Gwilym,* cii. 14.

Bronwen, *sf.* [supposed to be a corr. of *amranwen*]=*Amranwen.*

Bronwerth, *sf.* borage (*Borago*).

Bronwerth gyffredin, common borage (*Borago officinalis*).

Bronwerth y wiber, viper's bugloss (*Echium*).—*H. Davies:* Welsh Bot. 20, 161.

Bronwst, *sm.* pain of the breast; heart-ache.

Bronwst, } *sm.* pilewort, lesser celandine (*Ra-*
Bronwys, } *nunculus ficaria*).—*Hugh Davies:* Welsh Bot, 55, 161.

Bronwych, *a.* well-breasted; noble-breasted, noble-hearted.

Y llew *bronwych* ieirll brenin,
A thorch Galâth aur i'ch glin.—*Lewys Morganwg.*

Bronwydd, *s.cl.* 1. trees or wood growing on a slope or hillside.

Och mor galed fawedig
Wyd, Dafydd, dan *fronwydd* frig.
D. ab Gwilym, cli. 55 (cf. cxliv. 32).

Na thor glod, gweddeidd-glod gwŷdd,
Na chrin bren, brenin *bronwydd.*—*Llanover Ms.* 34.

Dolydd a gweirglodd-dir clau,
Eu gwel'd yn rhwydd a gaiff pob rhai;
Tan fargodion glenydd gloewon,
Mor hyfrydlon meillion Mai;
Llysiau, llafur, graendir, grawn,
Ffrwyth ar goedydd, *bronwydd,* brawn.
Ifan Gruffydd: Blodau Dyfed, 327.

2. (*sf.*) a wooded slope or hillside.

Bronwyllt, *a.* of a wild or passionate temper; easily excited, passionate.

Hwyl *bronwyllt* heli brouwyn.—*D. ab Gwilym,* lxix. 44.

Bronwyn, *m.* } *a.* [bron+gwyn, *f.* gwen] white-
Bronwen, *f.* } breasted.

Cledyf eurdwrn ar y glun. a racllauyn eur idaw. a chroes eurgrwydyr arnaw. a lliw lluchet nef yndi. a llugorn eliffeint yndi. a deu vilgi *uronwynnyon* vrychyon tu racdaw.
Mabinogion, ii. 200 (cf. i. 274).

Brenin y coed, *bronwyn* cadr,
Brig a dail bro Gadwaladr.—*Tudur Aled:* G.B.C. 228.

Eryr â'i dŷ ar war dar,
Bronwyn wyd, brenin adar.—*Tudur Aled.*

Mi welwn fadyn *bronwyn* bras
Dros geugwm cras yn croesi.
Ioan Siencyn: Blodau Dyfed, 394.

Bros, -au, *sf.* [Br. *broz*] dress, attire, vesture.

Ei *bros* werdd a'i bras arddau.—*Thomas Derllys,* i Went.

Cewch fy ngweled ar ol hyn
Mewn *bros* o liain meinwyn,
Wedi 'm trwsio 'n ddigon syw
A phob amryw lysieuyn.—*Llywelyn ab Hywel ab Ieuan.*

Broth, -au, *sf.* [f. of *brwth*] a stir; a tumult; a quarrel, contention, or commotion.

Bröwr, *pl.* browyr, *sm.* a man of one's district, region, or country; a countryman.

Dros ei wlad yn y gad mal gwr,
Melus fydd gan y milwr
Farw yn hy, a'i *frowyr* wnânt
Wir foliant i ryfelwr.
Elieser Williams: Blodau Dyfed, 70.

Browys, *a.* [=brywus? cf. *ffrowys.* Davies's derivation from *braw* is untenable] vigorous; ardent; fervid; spirited; fiery. (*sps.*)

Dialgur [*al.* dialgar] Aruon cyrchei eur ceinyo arurchyat
Urython *browys* meirch Cynon.
Gorchan Maelderw: A.B. ii. 103 (M.A. i. 86).

Lliaws teth rhag treth tra brimwys
A bydin a bedrawd tu eglwys
Lliaws gorwyd gwelw gwalch *frowys*
Frwysg ffer ffraeth fraisg grawn faeth grewys.
Gwalchmai: M.A. i. 202.

Pwy briw vch *browys*-uarch can
Pwy y henw hynot gyurann.
Llywarch Llaetty: M.A. i. 417.

Gruffut ged ddilut a dalyo Powys
Gwrtuar a gynnwys *vrowys* Vranvro.
Llygad Gwr: M.A. i. 342.

Serubin gynnwys Seraphin *frowys*
A ganant yn lwys leiswawd newydd.
D. Ddu Hiraddug: M.A. i. 562.

Browysig, *a.* of an ardent or lively nature; vigorous.

Llif daradr paladr plygeidig creifion
Llifion briwyssion nid *browyssig.*
Hywel Ystoryn: M.A. i. 519.

Bru, -oedd, *sm.* [C. *brys:* Ir. *brú, brui, broinn;* Ga. *bru;* Mx. *brey, brein*] the womb, matrix, or uterus.

Yn dyn dit ympryt y *mru* pan aeth
Yn dolur ygkur ygkorforaeth.
Cynddelw: M.A. i. 248 (cf. 192, 444).

Achaus y dyfu vchel vri ym *mru*
Meir yr maurhav llu llyuenyt.
Meilir ab Gwalchmai: M.A. i. 324 (350).

Ti a gymmerth cnawd o *fru* morwyndawd.
D. Ddu Hiraddug: M.A. i. 563.

Gwyn eu byd yr hespion, a'r *bruoedd* ni chenedlesont erioed.—*W. Salesbury:* Luc xxiii. 29.

Ti a'm tynaist o'r *bru* [* o'r fam, sef er pan y'm ganed]: o groth fy mam fy Nuw ytwyt.
Llyfr Gweddi Gyffredin 1567 (Salm. xxii. 9).

Pan gymmeraist arnat waredu dyn, ni ddiystyraist *fru* y Wyryf.—*Llyfr Gweddi Gyffredin* (Te Deum).

Bruchen, -au, *sf.*=*Brychen.*

Brud, -iau, *sm.* [from *Brut* or *Brutus,* the legendary hero: Br. *brud*] 1. a chronicle; a record or historical account of events (disposed in the order of time). In this sense often written *brut,* q.v.

Camber rymuster o rwym ystig
Calon ein *brudion* yn buredig.
Meirig ab Iorwerth: M.A. i. 508 (cf. 326).

Yn y plas cwmpas y caid
Brud heniaith y Brytaniaid.—*L. G. Cothi,* i. xxv. 15.

Cledd daiar Wynedd, a'i drych,
O hen wŷdd, i hon oeddych;
Mastr Wiliam (oes drwy olud)
Fychan, braisg foch yn y *brud.*—*Tudur Aled:* G.B.C. 245.

Brud mad, a good account or reputation.—*P.*

2. observance or calculation of times; a prophecy, prediction, divination, or prognostication; a conjecture (as to the future); a conjecture or surmise.

Goreu ffuryf *brudyeu* gan ffyryf brydyd.
Gr. ab Meredydd: M.A. i. 465.

Efe . . . a arferodd *frud*, a hudoliaeth, a chyfareddion.
2 *Cron.* xxxiii. 6.

Efe a dynodd ei fab trwy dân, ac a arferodd hudoliaeth a *brudiau*.—2 *Bren.* xxi. 6 (cf. Lef. xx. 27).

Gwedi i Harri VII. ennill yr orsedd, diffoddodd awen y *brud*, o ran nid oedd mwy achos am dani.
Gwallter Mechain: Gwaith, i. 64.

Hyn oedd air yr hen dderwydd,
A'i *frud*, cyn symmud o'i swydd.
Eben Fardd: Gweith. 305.

Cywydd brud, a predictive or prognostic poem.

Brudai, eion, *sc.* a chronicler.—*P.*

Brudiaeth, -au, *sf.* 1. chronology. 2. prognostication.

Brudiaethol, *a.* chronological.

Brudiaethwr, wyr, *sm.* a chronologist.

Brudiedigol, *a.* predictive, prognostic, foretelling.

Brudio, *v.* 1. to chronicle or record.

2. to predict, prognosticate, or divine; to publish or divulge (future) events; to utter dark sayings; to enigmatize; to practise divination; to conjecture, to guess.

Ac efe a yrodd ei fab drwy dân, dewinodd efe hefyd, a *brudiodd*, ac efe a fawrhaodd swynyddion, a dewiniaid.
Esg. Morgan: 2 Bren. xxi. 6.

O'r fan hon, ar fin einioes,
I'w brid wlad y *brudiai* loes.—*Eben Fardd:* Gweith. 302.

Nis gallaf frudio, } I cannot divine, guess, or
Nis gallaf frutio, } conjecture.

Brudiog, *a.* teeming with events.—*P.*

Brudiol, *a.* relating to events (past or future); chronological.

Brudiwr, wyr, *sm.* 1. a chronologer.

2. a diviner, a prognosticator; a wizard; a sorcerer; a divulger of future events; a conjecturer, a guesser.

Yna yr ymofynant ag eilunod, ac â swynyddion, ac â dewiniaid, ac â *brudwyr*.—*Esa.* xix. 3 (cf. Dan. ii. 27; v. 7).

Gorlech! tyred ar garlam,
Ti *frudiwr*—herwr—pa ham
Dai'r dynion dewrion i dir?
Ai heddwch a gyhoeddir?
Gwallter Mechain: Gwaith, i. 63.

Bruol, *a.* [bru] uterine.

Brut, -iau, *sm.* [=brud, *q.v.*] 1. a chronicle, a register of events.

Addef ach Dafydd Fychan
Y mae'r *brut* fal am ryw Brân.
L. G. Cothi, III. x. 21 (cf. II. iii. 64; iv. 4).

Mil o flwyddi, a deucant ac un ar bymtheg, cyn geni Crist y daethant genedl y Cymry gyntaf i Ynys Prydain, a hyny a elwir Amser *Brut;* sef y dyrifid blynyddau cof a chyfrif yn yr hen amseroedd dan amcan er amser Brut; sef hyny, amcan mil o flwyddi gwedi tori Tŵr Nemrwth Gawr.
Barddas, i. 406.

Tri gweinyddion gwybodaeth: cân; *brut;* a llythyr.
Barddas, ii. 68.

Fe ddarfu'r canu cenym,
Fe aeth y *brut* fyth heb rym.
Tudur Aled: G.B.C. 252 (cf. 251).

Brut y Breninoedd, the Chronicle of the Kings; one recension or copy of which goes by the name of Tysilio, and the other by that of Gruffydd ab Arthur (=Geoffrey of Monmouth).—*Myv. Arch.* ii. 81.

Oddi wrthynt hwy [y beirdd] yn ddiammheu y deryw i Dysilio fab Brochwel Ysgythrog, tywysog Powys, ysgrifenu'r Hanes sydd yr awron yn myned tan enw *Brut y Breninoedd*.—*I. B. Hir:* Diss. de Bardis, 101.

Brut y Tywysogion, the Chronicle of the Princes.—*Myv. Arch.* ii. 391, 468.

Llyma *Vrut y Tywysogion*, val y bu ryfeloedd, a gweithredoedd enseiliad, a daileddau, a rhyfeddodau. Gwedi eu tynnu o'r hen gofion cadwedig a'u blynyddu yn drefnedig gan Garadawc Llancarfan.—*Myv. Arch.* ii. 468.

Brut y Saeson, the Chronicle of the Saxons; the Saxon Chronicle.—*Myv. Arch.* ii. 468.

2. a chronicle (as it were) of future events; a prediction, prognostication, or prophecy; a conjecture, guess, or surmise.

Nid eiddof fi hanner y coelion, a'r *brutiau*, a'r cynghorion, a roir ar yr Henwr.—*Elis Wynn:* Bardd Cwsg, 58.

A'm goryw bryder *brutiau* Sibli,
Mi os canaf a syganai hi.—*Gronwy Owain*, 128 (cf. 279).

Brutio, *v.*=*Brudio.*

Wrth yr arwydd hwnw *brutiodd* y genedl honno y lledai breniniaeth Arabia ar draws y byd drwy nerth y cleddyf.
Ch. Edwards: Han. y Ffydd, 107.

'Taw, ffwl,' ebr ef, '*brutio* yr oeddwn i am fy nwy alwedigaeth, gwr o gyfraith, a phrydydd.'
Elis Wynn: Bardd Cwsg, 57.

Brutiwr, wyr, *sm.*=*Brudiwr.*

Brwch, *pl.* brychion, *sm.* [cf. *broch*] a ferment; a boiling or stirring up; a tumult or uproar.

Brwchan, *sm.* [C. *bruha* (C.V.); Ir. and Ga. *brochan*] a kind of caudle or thin flummery: also called *bwdran*, and in some places *sucan gwyn*, while in others the latter name is given to the material which, when boiled, becomes *llymru*. The difference between *brwchan* or *bwdran* and *llymru* is, that the latter is much thicker than the former.

Brwd, *pl.* brydion; *cp.* bryted, -ach, -af, *ac.* hot; warm; sultry. *Brwd* denotes a less degree of heat than *poeth*, and greater than *cynhes* and *twym*.

Gwae lwth oi lithiaw yngwenerau
Gwae fradwr oi *frydion* feddyliau.
Gruffydd Ynad Coch: M.A. i. 400.

Golch y dolur ag ef yn *frytaf* byth y gellych ei oddef.
Meddygon Myddfai, ii. 702.

Yr oedd yng ngolchfëydd *brydion* enaint Antonius un mil a chwechant o eisteddleoedd o gabolfeini.
Elis Lewis: Drexelius, 56.

Gwna fi yn *frytach* ac yn fwy tanbaid yn fy nghrefydd.
R. Vaughan: Ymarfer Duwioldeb, 350.

P'le mae palas aur Nero? ymolchfäu *brydion* Dioclesian?
Gr. Wynn: Ystyriaethau, 16.

Da'u gwaith ym mhob brydwaith *brwd*.
Edward Dafydd: Cyfr. y Beirdd, 113.

Dwfr brwd (*pl.* dyfroedd brydion), hot water.

Hin frwd, } hot or warm weather; sultry
Tywydd brwd, } weather.

Mae hi yn frwd iawn heddyw, it is very hot, warm, or sultry to-day.

Calch brwd, quicklime, unslaked lime.

Lledr brwd, boiled leather; O.E. *cuir bouilly* or *quirboilly*.

A gwan o bop un y gilyd yny daryan dyrnawt mawr yny dorres eu deu wayw yn gyffredin, ac eu *lledyr brwt*. da uu y llurugeu hagen wrth na thorres vn vodrwy o honunt.
Yst. de Carolo Magno, col. 419.

Brwd, *sm.* a boil, heating, or boiling; heat, warmth.

A varchawc heb ef beth awney di yna. Seuyll dan brenn gooer a gochel y *brwt* ar tes.—*Mabinogion*, ii. 53.

Rho un brwd iddo, give it one boiling.

Brwd o frag, a brewing of malt.

Brwd o ddiod, a brewing of ale; a whole brewing.

Yn ei frwd, in his warmth or heat of passion.

Yn ei frwd gwyllt, in a wild heat of passion.

Brwdaniaeth, -au, *sm.*=*Brydaniaeth.*

Canys felly y'n gosodid ar *frwdaniaeth* anniffoddadwy, ac y'n anrheithid byth.—*R. Llwyd:* Llwybr Hyff. 75.

Brwdfrydedd,) *sm.* warmth of sentiment;
Brwdfrydigrwydd,) enthusiasm, zealousness; warmth, ardour, fervour.

Brwdfrydig, *a.* of a warm mind or disposition; enthusiastic, zealous, fervid, ardent; warm.

Brwg, *pl.* brygau, *sm.* [cf. E. *brake*] 1. a wood or forest; a brake; a growth. It is the appellation of several places in S.W.; as, *Brwg Sant Iorys*, *Brwg Llan Sant Efraid*, *Brwg y Dyffryn*, and *Brwg Llecwydd.*

Mantell fraf yr haf yw'r hwg
Eginaidd dros Forganwg;
Hardd pob dyffryn, bryn, a *brwg*,
O gynhes fro Morganwg.—*Thomas Carn.*

2. a fleece of wool.—*O.V.*

Brwgan, -au, *sm.* [=brycan] a covering; a cloth; a garment.

Defnydd glân, nid *brwgan* brau,
Mae'n ddidwyll meinaidd edau.
Huw Morus: Eos Ceiriog, i. 78.

Brwlio,) *v.* [im.] 1. to make a rumbling noise;
Brwlian,) to rumble. 2. to broil, to roast over hot coals.

Brwmstan, *sm.* [E. *brimstone*, †*brumston*, *bremston*; from *burn* and *stone*] brimstone, sulphur.

Yn lle mae mygn wern wedi' mygnaw
A chynnau o dan a defni *brwmstan.*
Gr. Ynad Coch: M.A. i. 398 (cf. 427, 517).

Tân a brwmstan, fire and brimstone.

Ar yr annuwiolion y gwlawia efe faglau, *tân a brwmstan*, a phoethwynt ystormus.—*Salm.* xi. 6 (cf. Gen. xix. 24).

Brwmstanaidd,) *a.* resembling brimstone,
Brwmstanllyd,) brimstony, sulphurous.

Mynych yr attelir ffordd y teithiwr gan rwygiadau dychrynllyd yn y ddaiar, ac agenau dyfnion yn y defnydd *brwmstanaidd* a deflir allan o'r ceudyllau hyn a elwir y llosgwy.—*Cylchgrawn*, i. 120 (cf. 374, 375).

Daethom at amryw ffynnonau *brwmstanllyd*, yn bwrlymu yn y dyffryn.—*Brutus:* Ninefeh, 161.

Brwmstanog (*ā*), *a.* full of brimstone, brimstony, sulphurous.

Y mae'r dwr [y Môr Marw] yn *frwmstanog*, ac nis gellir llefaru eithaf ei halltrwydd ef.—*W. Lewes:* Dwy Daith, 55.

Brwmstanol, *a.* brimstony, sulphureous.

Pyle bynhac y kertho hitheu: cameu *brwnstanawl* a wna.
Brut Gr. ab Arthur: M.A. ii. 264.

Brwnt, *m.*) *pl.* bryntion; *cp.* brynted, -ach,
Bront, *f.*) -af, *a.* 1. dirty, foul, filthy, nasty.

Y neb ny chret eu *kyvryntet* bryvet broveu.
Gr. Ynad Coch: M.A. i. 403.

Am fy mod yn ddyn go led sobr, heb arfer llymeitian hyd y sucandai mân *bryntion* yma.
Gronwy Owain, 208 (cf. 173, 177).

Ae rhost brynnic ae restr ffyrnic ae rwystr ffyrneu
Ae breveryat ae *bront* baryat ae *brwnt* beiriau.
Gr. ab Meredydd: M.A. i. 469.

Benyw front, a dirty woman; a vile woman.

Dwfr brwnt, dirty water, foul water.

2. (transf. and fig.) dirty, foul, filthy; mean, base, sordid; vile; shabby; surly.

A'r hwn sy *frwnt*, bydded *frwnt* eto.—*Dad.* xxii. 11.

Canys *brwnt* yw adrodd y pethau a wneir ganddynt hwy yn ddirgel.—*Eph.* v. 12.

Trwy ba gyfraith dda y cospwyd y pethau *bryntion* hyn?
M. Cyffin: Diff. iv. 5 (cf. 9).

Tro brwnt (*pl.* troion bryntion), a dirty trick.

Y byd brwnt yma, this vile world.

Ym mhen ennyd, dyma'r druan weddw, wedi ei mygydu rhag edrych mwy ar y *byd brwnt yma*, yn dyfod tan leisio yn wan.—*Elis Wynn:* Bardd Cwsg, 33.

Gweithred front (*pl.* gweithredoedd bryntion); a dirty act or action; a vile deed.

Mae yn frwnt genyf, I am very sorry.

E fu *frwnt* anial *genyf* lawer gwaith er pan ysgrifenais atoch o'r blaen, na buaswn yn gyru i chwi Gywydd y Farn.—*Gronwy Owain*, 169.

Brwnt ei ymadrodd,) filthy in speech or lan-
Brwnt ei dafod,) guage; foul-mouthed.

Brwth, *pl.* brythau, *sm.* [Ir. *bruth*] a stir, tumult, broil, or uproar; a quarrel or contention.

Ei *frwth* Arthuraidd a'i fryd.—*Inco.*

Am unaw brad a mynu *brwth*,
Saffwy i bob Afarwy fyth.
Gwallter Mechain: Gwaith, i. 34.

Nef, gorsaf llawdd, gweithredion trais a *brwth*
Nis goddef.
W. O. Pughe: C.G. vi. 299 (cf. iv. 1077; vi. 228).

Mae rhyw frwth yn awr rhyngddynt, there is some quarrel now between them.—*Gwent.*

Brwyd, -au, *sm.* [C. *bros;* Br. *broud*, *brout;* Ir. *brad*, *brod*, *bruid*; Ga. and Mx. *brod;* E. *broider*, †*broder*] 1. a broach; a pointed instrument; a bodkin.

Tost fydd bröydd *brwyd* farwolaeth.
L. G. Cothi, iv. iii. 55.

Wyth brwyd pechawd, the eight stings of sin.

2. (*s.cl.: pl.* -au; *sg.* -en, *f.*) the harness of a loom; healds.

A hon yw'r gainc ar fainc fau,
O blith oed o blethiadau,
O deilyng-fawl edlingferch,
A brydais i â *brwyd* serch.—*D. ab Gwilym*, cxxxvii. 5.

Brwyd, lle rhwymir y ddylif neu'r ystof; pl. *brwydau*, the harnesses with which weavers, by the help of the treadles, move the thread or yarn of the warp upwards and downwards by turns, that the woof may be made to pass between.'—*Th. Richards*, s.v.

Brwyd o grwyn dyfrgi gan adargwn.
Iustus Llwyd: M.A. i. 557.

Brwydau y gyfraith, the meshes of the law; the quirks of the law.

3. (*sm.*) an embroidering frame; a quilt-frame. 4. embroidery, broidery.

Gwaith brwyd llaw, hand-made embroidery.

A *brwyd* llaw fu'n brodio y llen.—*L. G. Cothi*, i Huling.

Brwyd, *a.* full of holes; torn, rent, worn out; broken.

Gnawd fod ysgwyd *frwyd* friwdoll arnaw
Ac unbyn dengyn dengwlad iddaw.
Dafydd Benfras: M.A. i. 311.

Brwysc rwysc rwyf tewdor dor Dygen
Brwyd rwyd rad rannawc om awen.
Cynddelw: M.A. i. 222 (cf. 225).

Brwydel, -au, *sm.* embroidery; embroidered work.

Brwydel o'r sidan melyn.—*Rhys Nanmor*, i Wallt Merch.

Brwyden, *sf.* the work that divides the warp in a loom; one of the healds.

Brwydo, *v.* 1. to separate or divide.—*P.*

2. [cf. *brodio*] to broider or embroider; to interweave.

Gwal teilu tal ym a ganaf
Gnawd yw honn om bronn y *brwydaf*.
Cynddelw: M.A. i. 262.

Yna pob blodeuyn cain,
Y breila, y cammined amliw a
Uchafent fry eu penau mirain yn
Plith-eiliaw; a than draed y *brwydent* lawr
Yn ferth y millyn, cloch yr eaws, ac
Euronwy, mwy amliwiawg deilw drefn
No meini gwyrthaf.—*W. O. Pughe:* C.G. iv. 762.

3. to fret, gnaw, or corrode.

Pryfed yn *brwydo* dillad.—*C.S.*

Brwydol, *a.* 1. dividing or separating.—*P.*

2. embroidered; interwoven; braided.

Ai cudd, ai hywel plith celionos tew
Gweedig wŷdd a blodau *brwydawl* ar
Bob twyn, gwaith Efa.
W. O. Pughe: C.G. ix. 418 (cf. iv. 386).

3. fretting, corroding.

Brwydr, -au, *sf.* a battle; a fight; an engagement (between any number of men).

Brenin *brwydr* efnys gwrys gwellyniawc.
Meilir: M.A. i. 190 (cf. 161, 262).

Dybryd eich *brwydyr* daer aer aerurad.
Cynddelw: M.A. i. 221 (cf. 222, 226).

Cynyllod pob un y llu mwyaf ac allai a *brwydr* vawr a vy ryngtynt.—*Brut Tysilio:* M.A. ii. 371.

Yn y lle y gwelych y *vrwydyr* galettaf. dyrchaf yr ystondard y vynyd.—*Mabinogion*, ii. 385.

Nid *brwydr* ond gwewyr.—*Diareb.*

Pob un oedd yn troi i'w yrfa, megys march yn rhuthro i'r *frwydr.*—*Ier.* viii. 6.

Gwaed byw raiadrodd, o blegid *brwydrau.*
Eben Fardd: Gweith. 307.

Brwydr annilys, a doubtful battle.

Brwydr orsafol, a pitched battle.

Colli y frwydr, to lose the battle.

Heb ofni *colli'r frwydr*, na'r bore na'r prydnawn.—*Emyn.*

Brwydrad, -au, *sm.* a battling or fighting; a conflict.

Brwydrawd, odau, *sm.* a battling, a fighting.

Run y enw rugyl y ffossawt
Ygkynnor bydin *brwydrawd*
Gwae Brydein or diwarnawt.
Cyfoesi Myrddin: A.B. ii. 220 (cf. M.A. i. 139).

Brwydrgar, *a.* given to fighting; pugnacious.

Llu Brithyon brodorion *bruytyrgar.*
Cynddelw: M.A. i. 249 (cf. 449).

Gwr beilch e ayrweilch arwymp drydar
Gwr bwlch nat ydiw gwayw briw *brwydyrgar.*
Bleddyn Fardd: M.A. i. 365 (cf. 420).

Brwydrglwyf, -au, *sm.* a battle-wound.

Rwysc vrwysc vreisc vreuawl dyghed
Rwyd vrwyd *vrwydrglwyf* rwyf rwytged.
Cynddelw: M.A. i. 225 (cf. 446).

Brwydriad, iaid, *sm.* a battler, fighter, or combatant; a warrior.

Adar *brwydryat* [*al.* crwydryat, crwydryar, &c.].
Aneurin: Gododin, 416.

Lle cu heb astalch lle caid
Gwerydre brodre *brwydriaid.*—*Dewi Wyn:* Blod. Arf. 151.

Brwydrin, -au, *sf.* a battle, conflict, or combat.

Gwanas deyrnas deg cywrenhin
Gwreidd teyrnedd taer ym *mrwydrin.*
Dafydd Benfras: M.A. i. 308 (cf. 189).

Aruaeth ehelaeth hwyl gyrchyat *brwydrin*
Eryr Caer Vyrddin vyddin veiddyat.
Bleddyn Fardd: M.A. i. 368 (cf. 199).

Brwydrin, *a.* disposed to fight; inclined to fighting; pugnacious; fighting.

Anifail brwydrin, a pugnacious animal; an animal apt to fight.

Nytal un *anyueyl bruydryn* kaflauan: sev eu *anyueyl bruydryn* estaluyn nystal ykylyd ac nys tal na baet na taru na hwrd na bucc [*al.* hwch] na keylyauc na keylachuyd ykylyd: o lladant huenteu anyueyleyt ereyll hue ay talant.
Cyfreithiau Cymru, ii. 4 (cf. L.W. 558).

Brwydrlawn, *a.* apt to fight; warlike.

Eryr plant rhyswyr rhyswr *brwydrlawn.*—*Einion Offeiriad.*

Brwydrlonedd, *sm.* warlikeness.

Brwydro, *v.* to battle, to fight, to combat.

A gwedy hynny kynnullaw y llu mwyaf a allei aoruc pob un. ac ymgyuaruot parth traw y Humyr. a *brwydraw* yn dost aorugant.—*Brut Gr. ab Arthur* (B): M.A. ii. 371.

Mor ogoneddus mae'r Seison yna yn *brwydro.*
Daniel Ddu, 333.

Brwydrol, *a.* combating, battling, fighting.

Brwydrwaith, weithiau, *sm.* employment in fighting, engagement.

Echaws bod clod clo marmor
Ochl *brwydr-waith* ail Beredur.
Gr. ab Meredydd: M.A. i. 450.

Brwydrwr, wyr, } *sm.* a combatant, a fighter,
Brwydrydd, -ion, } a battler; a warrior.

Y *brwydrydd* tafawd, sy ddinerth yn awr . . .
I adrodd wrthym ei ofidus gwyn.—*Iago Trichrug:* Bedd.

Brwydwaith, weithiau, *sm.* embroidered work, embroidery.

Brwydweithio, *v.* to embroider.

Brwydweithiwr, wyr, } *sm.* an embroiderer or
Brwydweithydd, -ion, } broiderer.

Brwydweithyddes, -au, } *sf.* a female em-
Brwydwraig, wragedd, } broiderer.

Brwydydd, -ion, } *sm.* one who embroiders, an
Brwydwr, wyr, } embroiderer.

Brwydyddes, -au, *sf.* a female embroiderer.

Brwylio, *v.* [cf. *briwlo, brwlio*] to broil; to fry.

Y mae'r traed a'r dwylo hwythau
Gwedi'u clymu mewn cadwynau;
Ac heb allael troi na threiglo
O'r lle'r ydys yn eu *brwylio.*
Rhys Prichard: C. y C. cxxxvi. 20.

Brwyn (*sg.* -en, *f.*), *s.pl.* [C. *bronnen, brunnen;* Br. *broenn*, sg. *broenen*] rushes. See *Brwynen.*

Mal *brwyn* yt gwydynt rac y adaf.
Aneurin: Gododin, 558 (cf. 26).

Gorwyn blaen *brwyn* cymwyn biw
Redegawc vy neigyr hediw.
Llywarch Hen: M.A. i. 123 (cf. 64).

Gnawd lle bo dwfr y bydd *brwyn.*
Diareb. (cf. M.A. iii. 156.)

Mis Rhagfyr byrddydd hirnos
Brain yn egin *brwyn* ar ros.
Englynion y Misoedd: M.A. i. 16.

Canwyll frwyn, } a rush-candle, a rush-
Canwyll frwynen, } light.

Twyn brwyn, } a rush-bed; a tump where
Twmpath brwyn, } rushes grow.

Llestr brwyn (*pl.* llestri brwyn), a vessel of rushes.—*Esa.* xviii. 2.

Brwyn heilltion (*sg.* brwynen hallt), rushes growing on a salt marsh.

Brwyn, -ion, -au, *sm.* [Ir. and Ga. *bròn*] a pricking pain; pain, sorrow, grief; anxiety; melancholy.

Terwyn gwyn *brwyn* bron
Nys kel naws calon.
Gr. ab Meredydd: M.A. i. 437 (cf. 224, 427).

Llafn Fflamddwyn fal *brwyn* brain ar goludd.
Gwilym Ddu Arfon: M.A. i. 409.

Y fun fwyn . . .
Mae *brwyn* i'm dwyn am dani.—*Ieuan Deulwyn.*

Efelly drud y prynwn seibiant byr
Er deufwy *brwyn.*
W. O. Pughe: C.G. iv. 116 (cf. xi. 479).

Arwyddfeirdd yn cyd-riddfan,
O! *frwyn* dwys, a'u llyfrau'n dân . . .
Danfon cwyn, mewn *brwyn* a braw,
Trallodaidd at wŷr Llydaw.—*Dewi Wyn:* Blod. Arfon, 24.

Brwyn, *a.* smarting, pricking, throbbing, painful; anxious; sad, grievous; distressing.

Na wisg wedy cwyn na vid *vrwyn* dy vryd.
Llywarch Hen: M.A. i. 115 (cf. 227, 367).

Can dyddaw i fraw *frwyn* dynged.
Gwalchmai: M.A. i. 201 (cf. 207, 225, 230).

Myfanwy . . .
Poen a'th gar afar ofwy
Poen *brwyn* ei ryddwyn i ddwy.
H. ab Einion Lygliw: M.A. i. 512 (cf. 437).

Uthr yw fy nghwyn o *frwyn* fraw.
Iolo Goch: Md. D. ab Gwilym.

Bryd brwyn, a pensive mind.

Nid oes glefyd, na *bryd brwyn,*
A el ynddo o Landdwyn!—*D. ab Gwilym,* lxxix. 7.

Brwyna, *v.* to gather, collect, or get rushes.

Naud y guas ystauell yw or pan eler y *vrwynaha* a thanu gwely yr brenhin or brwynn ae gudyaw a dillat yr hyt honno hebrwg y dyn.—*Cyfreithiau Cymru,* i. 352 (cf. 628).

Brwynach, } *s.pl.* [dim. of *brwyn*] small or
Brwyniach, } dwarfish rushes.

Bronwen, tyred i'r *brwyniach,*
Eurog fun, am orig fach.—*Rhys Jones:* Gwaith, 245.

Brwynai, eion, *sc.* a gatherer of rushes.

Brwynaidd, *a.* rushlike; like a rush.

Brwynddail, *s.pl.* spiderwort (*Anthericum*).

Brwynddail y mynydd, mountain spiderwort (*Anthericum serotinum*).—*H. Davies:* Welsh Bot. 133, 161.

Brwyneg, -au, *sf.* [Br. *broennec* (Catholicon), *broennek*] a place where rushes grow; juncetum.

Brwynen, *pl.* brwyn, *sf.* 1. a rush (*Juncus*).

Wrth gamu *brwynen* breit na dygwyt.
H. ab Owain Gwynedd: M.A. i. 278.

A gyfyd *brwynen* heb wlybaniaeth? a dyf hesg heb ddwfr?
Iob viii. 11.

Gwnewch ar bleth gan-pleth i'w gwau,
Tair *brwynen* tua'r bronau.
Dafydd Nanmor: G.B.C. 157.

Nid gwaeth genyf o frwynen, I do not care a rush.

Addawodd eich brawd Llewelyn o Geredigon yr edrychai ryw amser am le i mi yng Nghymru; ac *nis gwaeth genyf fi o frwynen* ym mha gwr o Gymru.—*Gronwy Owain,* 164.

Ni thâl ef frwynen, it is not worth a rush.

Mor uniawn a brwynen, as straight as a rush.

Peth rhyfedd i dderwen, mor union a *brwynen,*
Fel 'sgolpen o'r gromen, wargrymu.
Edw. Richard: Bugeilgerdd, ii. 11.

Brwynen bellenaidd (*pl.* brwyn pellenaidd), common rush (*Juncus conglomeratus*).

Brwynen dalgron, round-fruited rush (*Juncus bulbosus*).

Brwynen flewog (*pl.* brwyn blewog), hairy rush (*Juncus pilosus*).

Brwynen flewog y maes, hairy field rush (*Juncus campestris*).

Brwynen flodeuog, flowering rush (*Butomus umbellatus*): also called *engraff.*

Brwynen galed, hard rush (*Juncus glaucus*).

Brwynen glymog, } jointed rush (*Juncus ar-*
Brwynen gymmalog, } *ticulatus*).

Brwynen glymog glaer-gib, shining-fruited jointed rush (*Juncus lampadocarpus*).

Brwynen glymog â blodau blaenfain, sharp-flowered jointed rush (*Juncus acutiflorus*).

Brwynen glymog â blodau blaen-dwn, blunt-flowered jointed rush (*Juncus obtusiflorus*).

Brwynen y goedwig, wood rush (*Juncus silvaticus*).

Brwynen gyffredin=*Brwynen bellenaidd.*

Brwynen y llyffant, toad rush (*Juncus bufonius*).

Brwynen droellgoryn, moss rush, goose corn (*Juncus squarrosus*).—*Hugh Davies:* Welsh Bot. 33—35.

2. a track; a current.

Brwynen y ffordd, the trodden part of the road; the middle of the road.

Brwynen afon, the channel or middle stream of a river; the mid-stream.

Trwy weddi wresog agorodd ffordd i fyned drwy *frwynen yr afon* enwog Tems, yn droedsych.
Ch. Edwards: Han. y Ffydd, 181.

Brwynfron, -au, *sf.* a sad breast or heart; a grief-oppressed breast.

Gwedi caledi, cyni, cwynion . . .
Gwyarlliw fraen-friw oer *frwynfron,* nid mud
Mawl cain côr astud mil can Cristion.—*Gro. Owain,* 126.

Brwynfryd, -au, *sm.* a troubled or anxious mind; anxiety of mind.

Ny threfyt *brwynuryt* om bronn
Nac om cof nac om callon.—*Cynddelw:* M.A. i. 253.

Cadd ei wraig ber drymder draw
Am ei gwaraidd, lariaidd lyw;
A'i blant hefyd *frwynfryd* fraw,
Odid un fath dad yn fyw.—*Gronwy Owain,* 66.

Brwynglwyf (*n-g*), -au, *sm.* the wound of grief or sorrow.

Dau *frwynglwyf* i'm dwyfron-gledr.—*Madog Benfras.*

Brwyngoll (*n-g*), *sm.* a sad or grievous loss.

Aer uyrt aryf kyrt kettennin
Aruoll *brwyngoll* breenhin.—*Einion Wan:* M.A. i. 334.

Brwyngur (*n-g*), *sm.* sad affliction or anxiety.

Nid lle ym geisiaw llafur *brwyngur* braw
Rhof a phryd alaw fal ffrwd wylais.
Gr. ab Dafydd ab Tudur: M.A. i. 480.

Brwyngwyn (*n-g*), -ion, *sm.* a grievous complaint; vexation.

Brwyngwyn gyuamwyn gyuamrut afyrdwyth.
Cynddelw: M.A. i. 258 (cf. 385).

Brwynhuno, *v.* to sleep with sorrow or anxiety.

Bryn Caw *brwyn-hunaw* brenhinaidd froydd.
Gr. ab Meredydd: M.A. i. 458.

Brwyniad, iaid, *sm.* [brwyn, *pl.*] a smelt or sparling; a fish of the trout kind, which has a taste of rushes—hence the name.

Gwnaethost o *frwyn* yng Ngwynedd
Bysgod glân basg gyda gwledd.
Ior. Fynglwyd, i Ffraid Leian.

Brwyniad, -au, *sm.* a smarting; a throbbing; a sorrowing.

Brwynio, *v.* to smart; to throb; to grieve.

Brwyniog, } *a.* grieved, sorrowful, sad; dis-
Brwynog, } tressed; anxious.

Llesmeiriawg, *frwynawg* fronau,
Trais tost oedd yn eu tristäu.
Dewi Wyn: Blodau Arfon, 22.

Brwyniol, *a.* smarting; throbbing; painful.

Brwynog, *a.* [brwyn, *pl.*] rushy; full of or abounding with rushes.

Mae'r llwyni *brwynog* welir draw ac yma
Yn cuddio wyneb gynt oedd fel yr eira.
O. Wynn Jones: Myrddin Wyllt, xiv.

Tir brwynog, rushy land or soil.

Brwynog, -au, *sf.* a rushy place; a place full of rushes; juncetum.

Brwynogrwydd, *sm.* rushiness.

Brwynos, *s.pl.* small rushes.

Brwynwellt, *s.cl.* bogrush (*Schoenus*).—*Fau nula Grustensis*, 82.

Brwys, *a.* luxuriant; of fine growth; exuberant; thick-branching; large; rich, fertile.

Peraist deganau purion,
Percwe *brwys* mewn parc a bron.—*D. ab Gwilym*, cclx. 9.

Y ddaiar *frwys* sy ber ar ol cawodau mân.
W. O. Pughe: C.G. iv. 708 (cf. 294; xii. 19).

Göynys Twyr, neu y Chersonesos Taurica, yn ol hanes teithyddion, a yw doreithiawg a *brwys* o winwydd.
W. O. Pughe: H.G. 37.

Chwi ddolydd teg, a meusydd *brwys*,
A deildai glwys Llanofer,
Mor llon pa fodd blodeuwch chwi,
A mi mor llawn o drymder!—*Telynegion*, 17.

Brwys, -ion, *sm.* fertile growth, luxuriance, exuberance.

Ac yn y maes o gan mil
Y caed *brwys* fal coed Brossil.—*L. G. Cothi*, III. xviii. 23.

Brwysaidd, *a.* somewhat luxuriant or fertile.

Brwysanaeth, *sm.* luxuriance; fertility.

Gwyranaeth *brwysanaeth* serch.—*N.* i'r Bedwlwyn.

Brwysdir, -oedd, *sm.* rich or fertile land.

Ym *mrwysdir* amorestig
Y cân hoff organ o'i phig.—*Ieuan Gethin.*

Brwysedd, *sm.* luxuriance; exuberance of growth; fertility.

Brwysel, -au, *sm.* a brake or thicket.

Brwysg, *a.* [cf. *brysg*] 1. impetuous, precipitate, headlong, heady. Generally in a favourable sense in medieval poetry, in which it is of comparatively frequent occurrence.

Brwysg lafnau yg crau yg crai celaned.
Cynddelw: M.A. i. 208 (cf. 202, 219, 228, 233).

Brwysc rwysc rwyf tewdor dor Dygen.
Cynddelw: M.A. i. 222 (cf. 226, 227, 262).

Ruthyrlym grym Gruffut etiuet
Rwysc *urwysc* ureisc o ureint a dewret.
Llygad Gwr: M.A. i. 343 (cf. 299, 435).

Mab mad mygyr lleityat llauynrut
Brwysc breinyawl gretual Gruffut.
Prydydd Bychan: M.A. i. 379 (cf. 444, 535).

Buant *brwysgyon* breisc aruaeth
Buant briw ger eu brawd maeth.—*Myv. Arch.* i. 418.

2. drunk, drunken, intoxicated, topheavy.

Dyfod yn *frwysg* o'r dafarn.—*D. ab Gwilym*, clxxiv. 10.

'Pam?' heb y cath; 'poni roddaist ti dy gred ar ddyfod ataf fi pan harchwyf it'?' 'Ie,' heb y llygoden, '*brwysg* oeddwn i yna; ac am hyny ni chynnaliaf fi ammod yr awr hon.'—*Iolo Mss.* 166 (cf. M.A. iii. 143).

Mawrion byd yn llawn cynddaredd,
Ym mhob gwŷn i'r eitha'n *frwysg;*
Doeth a genfydd y gwirionedd,
Drwg yn dirwyn pen ei dwysg.
Iolo Morganwg: Salmau, I. xviii. 2 (cf. xxxvii. 2).

3. unwieldy; disorderly; rude, gross.

Eu gobaith nid fal hyn, pan drwy rwyg môr
Y dygai gwmwl uthr y cadawl gordd . . .
Nid, pan y ffwyrai Trechiad blwng y gad,
Gan hwysgaw Canaan dren o ei haiarn glud:
Nac yr Amoriad seirchiawg, *brwysg* o drefn,
I ryfel Gibeon dan bump llyw pan aynt.
W. O. Pughe: Pal. 14 (cf. C.G. vi. 726).

¶ *Brwysg* in the subjoined instances is erroneously used for *brwys:*

A phan yw yr yd gwaeanwyn wedi ei hau, ac adferiad effaith yr haul yn peri adnewyddiad llysiau, hwythau gan adfywio a haenant y ddaiar â chnwd *brwysg*. . . Mae y ceffylau yn weili ar yr amser pan yw *brwysgaf* twf y chwyn.—*Aneurin Owen:* Amaethyddiaeth, 12, 13.

Brwysg, -au, *sm.* a drinking bout, a booze, a carousal.

Llawer dwsmel a thelyn,
A llawer *brwysg* gar llaw'r Bryn.—*L. G. Cothi*, VII. v. 17.

Brwysgaid, *a.* drunk, intoxicated.

Ac yvet a wnaethant yny yttoedynt *vrwyskeit.*
Mabinogion, iii. 273.

Brwysgaidd, *a.* somewhat drunk; tottering.

Brwysgedlys, *sm.* coriander (*Coriandrum sativum*).—*H. Davies:* Welsh Bot. 134, 161.

Brwysgedd, *sm.* drunkenness, intoxication.

Arglwyd heb y uorwyn kyt dywetto ef overed o *vrwysged* a meddawt part ac attat ti. kywirha y geir a dywedeist gynneu ac a edeweist wrthyf i.—*Mabinogion*, i. 270.

Klaer eurvreisc gorff llathr cler ar *vrwysged.*
Rhiserdyn: M.A. i. 433 (cf. 497, 535).

Pei rhon peri ym' ammhwyll,
Mewn *brwysgedd* tywylledd twyll.—*D. ab Gwilym*, lxi. 23.

Brwysgflaen, *a.* having an over-bearing or overwhelming top or crest.

Ton frwysgflaen, the overwhelming-headed wave; the impetuous crest of the wave.

Ar hoywvun iu hun hoen gynwanec maen
Pan wisc tonn *vrwysgvlaen* gaen am garec.
Casnodyn: M.A. i. 421.

Brwysgiad, -au, *sm.* a getting drunk; intoxication, inebriation.

Brwysgl, *a.* unwieldy; huge, vast.

Ymlenwi a wnaethant; a mawr fu'r rhialwch: ond pan dderyw'r ystoriant *brwysgl*, e feddylwys y bleiddiaid gwympo yn nesaf ar y defaid.—*Iolo Mss.* 174.

Pan nycha nid hir bell yn agosäu
Y gelyn ar drwm drawd yn ffyrf a *brwysgl*,
O bedrwgl cau yn treiglaw ganto ei
Gythreulig offeryndawd.—*W. O. Pughe:* C.G. vi. 608.

Brwysgl yw ei gwaith mewn bras-goed,
Ban y cân ar benau coed.—*N.*

Brwysglawn, *a.* full of drink; festive.

Deheubarth feddbarth fuddbarch gyfoeth beirdd
Byrddau *brwysglawn* beunoeth.
Dafydd y Coed: M.A. i. 495.

Brwysglym, *m.* } *a.* sharp and impetuous;
Brwysglem, *f.* } sharply impetuous.

Brwysg-lym lafn eurdrafn aerdraingc
Brwydr drom a wnaeth ar ffraeth Ffraingc.
Gr. ab Meredydd: M.A. i. 453.

Brwysgo, *v.* 1. to become drunk or intoxicated; to fuddle.

Ac yna y dywawt Peredur gwedy y *vrwyscaw* wrth y gwr du.—*Mabinogion*, i. 270.

Ac o *brwysga* efe yn y wledd, neu wneuthur o hono un ansyberwyd arall, colli ei rodd a'i glera.—*Barddas*, ii. 114.

Brisg mawr hir, *brwysgo* mae rhai,
Pa ryw asgen a'u *brwysgai?*—*Rhisiart Phylip.*

2. to precipitate; to fall headlong.

A gwyr gyrth am byrth yn burthyaw gorwlad
A bragad yn briwaw
A brwydyr a breis[c] rwysc yn *brwysgiaw*
A breuolyon ewyn yn cwympyaw.
Cynddelw: M.A. i. 259 (cf. 257).

A llafyn coch yn llaw gynnifyad
A *brwyscaw* a briwaw bragad.
Llyw. ab Llywelyn: M.A. i. 279.

Brwysgol, *a.* of unwieldy tendency; intoxicating, inebriating.

Brwysgwr, wyr, *sm.* a drunken man, a drunkard.

Brwysgwraig, wragedd, *sf.* a drunken woman.

Diod gadarn tafarnwas,
Rhyw saig gan ei *frwysgwraig* fras.—*Gro. Owain*, 56.

Brwysgyn, *sm.* a drunkard, a boozer, a tippler.

Brwyso, *v.* [brwys] to make luxuriant; to fertilize; to luxuriate.

Un arddiad yn nechreu gauaf, ac ail yn y gauaf, neu gynnar yn y gwanwyn, a fydd gyflawnach yn malurio ac yn *brwyso* y ddaiar, na phump neu chwech ar un tro arall yn y flwyddyn.—*W. O. Pughe:* C.P. 45.

Brwysog, *a.* luxuriant; exuberant in growth; of fine growth.

Brwysogrwydd, *sm.* luxuriance; exuberance.

Brwysol, *a.* tending to make luxuriant; fertilizing; luxuriant; rank.

Grawn o dwf buan a *brwysol* a hauer ar y ddaiar . . . a gynnorthwya lawer iawn er dyfetha y chwyn trafferthus hyn.—*Aneurin Owen:* Amaethyddiaeth, 45.

Bry, -on, *a.* [cf. *bre*] high; above.

Bryon ac obryon, flights and depressions; ups and downs.

Bryon ac obryon Awen, mewn Awdl ar ail sefydliad Cymdeithas y Cymmrodorion, yn Llundain, yn y flwyddyn 1820.
Gwallter Mechain: Gwaith, i. 99.

Bry, *adv.* above; upward; aloft, on high, high.

Duu issi *vry.* vrenhin trindaud.—*Myv. Arch.* i. 576.

Kyvyt vu vinheu heb suyseu saeth
Gan an Duu *vry* vrenhinyaeth.
Cynddelw: M.A. i. 248 (cf. 331).

Wrth Duw yt yolaf hynny
Wertheuin vreyenhin *vry.*
Llywarch ab Llywelyn: M.A. i. 286.

Ac wynteu a dywedassam ni *vry* drwy sorr a gyrchassant y castell.—*Brut y Tywysogion*, 140 (cf. 124).

Eiddig dawel o'i wely
Wrth bryd llwyr fryd y lloer *fry.*
D. ab Gwilym, civ. 33 (cf. lxi. 31; cxciv. 30).

Cas dyn yma, cas Duw *fry.*—*Diareb.* (M.A. iii. 150.)

E wnaeth y frân ei nyth *fry,*
A'r wylan, ar ei wely.—*Ieuan Deulwyn:* G.B.C. 127.

Ei henw ym mlaen Frytaen *fry,*
Un o'th hynaif wnaeth hyny.—*Hywel Swrdwal.*

Arfer a wnaid ar fron nant
Fry o hely, arfer Rolant;
A lladd iwrch ein llewaidd ion,
Fry, a charw ar fraich Aeron.—*Llawdden.*

O fry, from above; from on high; on high; aloft.

Peth ryued a weleis. maen yn nouyaw yn yr aber *o vry.*
St. Greal, § 3.

¶ *Bry* is almost invariably used in the soft sound (*fry*), even in the earliest writings, whether affected by a preceding word or not. The poets occasionally, but very rarely, retain the initial unchanged, when it better serves the purpose of alliteration; and Dr. Pughe sometimes adopts the same form, though not for the same reason. Its use is mostly adverbial.

Gyrwyd tros gesyg geirwon,
Yma a thraw,—braw'm mhob bron;
Bry ac obry—breg ebrwydd
Dda'i nes nes—heb les, heb lwydd!
Gwallter Mechain: Gwaith, i. 6.

Dagon ei enw, mor-wrthfil, *bry* yn ddyn,
Ac obry pysg.—*W. O. Pughe:* C.G. i. 485 (cf. ii. 335).

Brycan, -au, *sm.* [brwg? cf. *brecan*] 1. a rug; a covering; a garment; a cloak; tartan; a plaid.

Tawlbort brenhin: ae telyn: ae *brycan:* chweugeint yw gwerth pob un o honunt.—*Cyfreithiau Cymru*, i. 722.

Wele ben Olophernes, pen-tywysog milwriaeth yr Assyriaid, ac wele'r *brycan* yr oedd efe yn gorwedd ynddo yn ei feddwdod.—*Iudeth*, xiii. 15.

Brycan, a blanket. Brec yn iaith yr Ucheldir ydyw brith; a *brecan* y galwant len o wlanen o amryw liwiau; yr hon ydyw eu hugan y dydd, a'u cynfas y nos, a'u hamdo yn y bedd.—*Edw. Lhwyd:* Arch. Brit. 233.

2. [Ir. *brog*] a clog, brogue, or large shoe to wear over another; an over-shoe.—*Gwent.*

Brycas, -au, *sm.* [L. *braca;* pl. *bracae, braces*] a pair of breeches.—*Iolo Glossary.*

Brycell, -au, *sf.* [brwg] a covert or brake.

Brycini, } *sm.* [brwg: cf. *brecini*] a brake or
Brycin, } covert; a place overgrown with trees; a wood or forest.

Brycini, } coed, fforest, coedlwyn, prysglwyn, prysgell.—
Brycin, } *O.V.*

Brych, *m.* } *pl.* brychion, *a.* [Br. *breac'h;* Ir. *brec,*
Brech, *f.* } *breac;* Ga. *breac*] 1. of a variegated brown colour; of a colour consisting of a mixture of black and red; brindled, brinded; freckled; speckled; tabby.

Uch law hynny gwelei y mackwy yn eisted ar benn cruc. a deu vilgi vronnwynnyon *vrychyon* mywn kynllyuaneu yn gorwed geyr y law.—*Mabinogion*, i. 274.

Ych brych, a brindled ox.

Ny wdant hwy yr *ych brych* bras ei benrhwy.
Taliesin: M.A. i. 45.

Y melyn gwannwyn. ar *ych brych* yn deu gyt breinawc a uynnaf.—*Mabinogion*, ii. 222.

Buwch frech (*pl.* buchod brychion), a brindled cow; a red and black cow.

Cath frech (*pl.* cathod brychion), a tabby cat.

Dyn brych, a freckled man.

Eurych brych, a freckled tinker.

Eurych brych breich-gul llosgedig.
Hywel Ystoryn: M.A. i. 518 (cf. 519).

2. (as an epithet or cognomen of persons): freckled; as, *Merfyn Frych, Dyfnwal Frych, Owain Frych.*

3. foul; arrant; great, excessive; very.

Y gofid, och o'i gofio,
Yw *brych* anfwyniant ein bro.—*Huw Lewys.*

Myfi a glywaf fod gwŷr Mon am ddeol y Sais *brych* a dderchafwyd i fod yn berson Trefdraeth.
Ieuan Brydydd Hir: Gwaith, 201.

Gelyn brych, a foul, great, or violent enemy.

Da brych, very good.—*Gwent.* Cf. *da budr, da ffiaidd,* expressions used in some parts.

Brych, -ion, *sm.* 1. a brindled brown. 2. that which is variegated, freckled, or brindled; a rough, spotted, or brown-streaked covering; a Scotch plaid; a plaid.

3. (*pl.* -au) a mote; a speck, a freckle; a spot, a stain: generally used in the plural (*brychau*), or in the singulative form (*brycheuyn*).

Brych mewn wyneb, a freckle on the face.

Os bydd ond amliw mewn gwisg, *brych mewn wyneb*, ticyn o amliw mewn cap, yn ddioed arferwn ryw fodd i'w gael oddi yno, neu i'w olchi ymaith.
Elis Lewis: Drexelius, 225.

4. (in anatomy) the placenta, secundine, or afterbirth (used of the lower animals).

Brych buwch (*pl.* brychau buchod), the heam or afterbirth of a cow.

5. (in ornithology).

Brych y cae, the hedge sparrow: also called *gwrachell y cae*, *gwas y gog*, *llwyd y gwrych*, and *llwyd y baw*.

Dysga *brych y cae* a brith yr oged yr un iaith oddi wrth gyw y gog, yr hwn a fagwyd yn eu nyth.
Cylchgrawn, ii. 169.

Brychan, -au, *sm.* [brych] 'a brown-streaked surface; a brindled covering;' tartan; a plaid.

Brychan uchelwr trugeint atal.—*Cyfreithiau Cymru*, i. 722.

Arferid gwisgoedd brithion gan y Celtiaid er yr amseroedd boreuaf; ond yr oedd yr amrywiaeth lliwiau yn y *brychan* yn fwy neu yn llai yn ol urddas y neb a'i gwisgai. Yr oedd *brychan* y brenin Celtig yn cynnwys saith o wahanol liwiau.—*Brython*, iii. 80.

Also the name of a man, 'who settled in Breconshire, in the sixth century, from Ireland; and the country theretofore called *Garth Madryn*, was from him named *Brycheiniawg*.' —*P.* From his connection with the district now called *Brycheiniog*, he is often called *Brychan Brycheiniog*.

Am eiluann *Urychan Urecheinyawc* henyd
Bu Hiruryn berchennawc.
Llywarch ab Llywarch: M.A. i. 305.

Tri Sanctaidd Linus Y.P. llinus Bran ab Llyr, a llinus Cunedda Wledig, a llinus *Brychan Brycheiniawc*.
Trioedd: M.A. ii. 10 (cf. 61).

Brychau, *s.pl.* motes, maculae; specks, spots, stains; small particles; atoms.

Brwysgedd alawedd ynn na liwia
Brycheu eneidiau Ion oe la cywyd
Bryd pawb ai gwrthyd ai gwarthua.
Iorwerth ab y Cyriog: M.A. i. 535.

Brychau a meflau ydynt, yn ymddigrifo yn eu twyll eu hunain.—2 *Pedr* ii. 13.

Brychen, -au, *sf.* springing or bubbling water; a spring, a source. Davies gives the word (which he writes *bruchen*) on the authority of Dr. Th. Wiliams.

Brycheuad, -au, *sm.* a gathering or picking of motes; maculation; trending.

Brycheulyd, *a.* full of motes, spots, or stains; foul with light or flying particles; maculate.

Brycheuo, *v.* to pick out motes, spots, hairs, or dirt; to free from impurities; to pick; to trend.

Brycheuo gwlan, to pick wool.

Brycheuog, *a.* full of motes or light particles; abounding with spots or stains.

Brycheuol, *a.* tending to stain; maculating.

Brycheuwr, wyr, *sm.* one who picks out motes, spots, or stains.

Brycheuyn, *pl.* brychau, *sm.* a mote; a light or flying particle; a spot, a stain.

A pha ham yr wyt yn edrych ar y *brycheuyn* sydd yn llygad dy frawd, ac nad ydwyt yn ystyried y trawst sydd yn dy lygad dy hun?—*Matt.* vii. 3 (cf. 4, 5).

Brychewyn, -au, brychau, *sm.*=*Brycheuyn*, of which it is an euphonic form.

Brych ne *vrychewyn*, mote.—*W. Salesbury*, s.v.

Am hyny y difeia'r Arglwydd ei weision, a thyn ymaith bob trawst a *brychewyn* o'u llygaid hwynt.
Ch. Edwards: Hanes y Ffydd, 325.

Brychfelyn, *m.* } *pl.* brychfelynion, *a.* varie-
Brychfelen, *f.* } gated with yellow; yellow-speckled.

Y marchawc ae uarch yn aruawc o arueu *brychuelynyon*. wedy eu brithaw a lactwn yr Yspaen.—*Mabinogion*, ii. 388.

Brychfoel, *a.* freckled and bald.

Ny bo dyn y myw y Mon
Or Brychuaelyeid *brychuoelyon*.—*Myv. Arch.* i. 418.

Brychgoch, *a.* freckled with red spots; red and speckled; red-speckled.

Ac y doeth Ronabwy a Chynnwric *vrychgoch* gwr o Vawdwy.—*Mabinogion*, ii. 372.

Angharad ferch Dafydd *Frychgoch*.—*Celtic Remains*, 51.

Brychi, } *sm.* freckledness; speckledness;
Brychni, } spottedness; brindle; stain; mildew.

Oian a parchellan bichan *brychni*
Andau de leis adar myr maur ev hynni.
Myrddin: A.B. ii. 27 (M.A. i. 137).

A newidia yr Ethiopiad ei groen, neu y llewpard ei *frychni*?—*Ier.* xiii. 23.

Os bydd yng nghroen eu cnawd hwynt ddisgleiriadau gwynion wedi gordduo; *brychni* yw hyny yn tarddu yn y croen.—*Lef.* xiii. 39.

Brychni wyneb, freckledness of face; freckles in the face.

Brychiad, iaid, *sm.* a salmon trout.

Brychlas, leision, *a.* variegated or freckled with blue, green, or grey spots.

Dwyn breichlwyth o edn *brychlas*.—*Tudur Aled*, i Walch.

Brychlyd, *a.* freckly; rather freckled or brindled.

Brychni, *sm.*=*Brychi*.

Brychnod, -au, *sm.* a freckled mark or spot: a freckle.

Math o wahanglwyf â *brychnodau* ar y croen.
Th. Charles, s.v. 'Brychni.'

Brychog, *a.* brindled, freckled; spotted; sprinkled with spots.

Brychog, -iaid, *sm.* a salmon trout. 'A sort of salmon trout in the Teivi is called *Brychawg*.' —*P.*

Brychol, *a.* tending to be brindled or spotted with brown.

Brychu, *v.* to freckle; to make or become brindled.

Brychwelw, *a.* pale-brindled; pale and freckled.

Ar hynny llyma Peredur yn dyuot yr neuad ar geffyl *brychwelw* ysgyrnic.—*Mabinogion*, i. 240.

Brychwineu, *a.* of a brindled brown inclining to grey, bay, or auburn.

Brychwyn, *m.* } *pl.* brychwynion, *a.* of a
Brychwen, *f.* } brindled or freckled white; brown inclining to white; having spots or freckles on a white surface.

Ni bydd *brychwen* llen llawanycher
Ni bydd *brychwyn* dyn dydd cladder.
Gruffydd Ynad Coch: M.A. i. 399 (cf. 32).

O brochaist, y gwr *brychwyn*,
Bai tost oedd beri yt' hyn.—*Th. Prys.*

Brychyll, -iaid, *sm.* [brych: cf. *brithyll* from *brith*] a trout.—*Gwent.*

Brychyn, *sm.* 1. a single mote, a spot. 2. a freckled or brindled one; a freckled face.

Brychyn, -iaid, *sm.* a trout.—*Hengwrt Ms.*

Brychynu, *v.* to brindle; to freckle.

Bryd, -iau, -au, *sm.* [C. *brys*, *bres*; Ir. *broth*] 1. mind; thought; the bent of the mind; an impulse.

Ny lyuassei neb yn y lle y clywei y mab. kynnullaw na meirch nac arneu. rac dodi y *vryt* or mab arnunt.
Mabinogion, i. 236.

Chweryd *bryd* wrth a garawr.
Llywarch Hen: M.A. i. 124.

Hael hygleu *urydeu uryd* eryr yn aer
Yn aros kyuergyr . . .
Breinrut brwydyr breisc ualch y dawn
Bryd ar llwrw ar llary Einyawn.
Cynddelw: M.A. i. 224 (cf. 226, 262).

Llachar uar aeruar eruynyad
Llachar uron o *urydeu* Gwriad.
Einion ab Gwgon: M.A. i. 322.

Duw a glyw uy llef ym lluc *urydyeu*.
Einion ab Gwalchmai: M.A. i. 330.

Cymhwys a fuasai cymmeryd llwybr uniawnach, a myned yn hawddgarach i weithio, od ydoedd yn eu *bryd* hwy ganlyn gwirionedd.—*Morus Cyffin:* Diff. i. 6.

Os gan ddigio y digia efe, gwybydd fod ei *fryd* ef ar ddrwg.—1 *Sam.* xx. 7 (cf. 33).

Y codai yna o leiaf anfoddhäus
Feddyliau, *brydau* ac amcanion gwag.
W. O. Pughe: C.G. iv. 879.

Mae yn fy mryd fyned ymaith, I have a mind to go hence; I intend to go away.

O un fryd, with one accord; with unanimity.

Atteb y Ffreinc *o un vryt* uu hwnn.
Campau Charlymaen, ‡ 100.

2. purpose, intent; intention; resolution.

Gyrru callon yn y gwyr aoruc ae hannoc y ymlad, a bot yn drech gantaw y *vryt* noe oet.—*Brut y Tywysogion*, 168.

Yr wyf yn tybio nad oedd yn ei *bryd* y pryd hyny farw byth.—*Gronwy Owain*, 324.

Llymhau bryd, to sharpen the resolution.

Yr oedd yn fawr fy mryd dy weled, it was greatly my intention to see thee.

Brydai, eion, *sm.* [brwd] a heater; a heating iron.

Brydaidd, *a.* [brwd] rather hot or warm; tepid; sultry.

Brydain, *a.* [brwd] full of heat or warmth.—*P.*

Brydaint, *sm.* warmth; inflammation; acrimony.—*P.*

Brydaniaeth, -au, *sm.* [brwd] 1. heat, warmth; inflammation.

Yr holl fudreddi a ddug yr Iorddonen sy'n nofio ar wyneb y dwfr, a thrwy gynhyrfiad y gwynt yn gyfan gyfannedd, mae mewn amser yn ceulo'n ewyn, a phan ddelo i'r lan, a gresir trwy fawr *frydaniaeth* yr haul, mae yn myned yn ddu megys pyg.—*W. Lewes:* Dwy Daith, 26.

2. (fig.) heat, warmth, ardour; excitement; acrimony.

Ym *mrydaniaeth* yr holl son a'r siarad yma, Sabatai Sefi a ddaeth i Smyrna, dinas ei enedigaeth.
W. Lewes: Dwy Daith, 128.

Brydanu (*ā*), *v.* to make or grow hot; to become scalding hot.

Brydian, **Brydianu,** } *v.* to heat; to inflame; to throb.

Brydiannol, **Brydiannus,** } *a.* heating, warming; inflammatory; throbbing.

Brydiant, iannau, *sm.* [brydio, brwd] a heating or warming; warmth, ardour; inflammation; a boiling, a scalding; a throbbing; a throb.

Da fyddai iddo nas safai fyth gerwyneb â chariadfab cariadfawr a fai â llym-gledd i'w law, a *brydiant* serch yn ei galon.—*Llythyr Serch* (Y Taliesin, 77).

Brydio, *v.* [bryd] to think; to cogitate; to meditate; to intend.

Dyled dyn yw *brydio* 'n glos, tra byddo'n aros yma,
Am ffordd onest lân i fyw; a'm bwriad yw porfela.
Hywel Llwyd.

Brydio, *v.* [brwd] to heat, to warm; to boil; to inflame; to throb.

A'n hamcan oedd i ymadaw y dydd nesaf; eithr, a'r haint y nodau yn *brydio* yn Aleppo, y consul a'n cymhellodd ni i aros gyd ag ef.—*W. Lewes:* Dwy Daith, 57.

Y llychion du yn chwai o daenawl fflam
A *frydia* awyr.—*W. O. Pughe:* C.G. iv. 889.

Pan fydd briw neu ddolur yn llidio, byddwn yn dywedyd ei fod yn *brydio*.—*Cronicl Cymru*, rh. 208.

Mae y gwaed yn brydio ynof, the blood boils within me.

Brydiog, *a.* heated; abounding with heat.

Brydiogrwydd, *sm.* the state of being heated.

Brydiol, *a.* heating; imflammatory; throbbing.

Brydioldeb, **Brydiolrwydd,** } *sm.* the state of being inflammatory.

Brydlawn, *a.* [bryd] intent; resolute; diligent.

Brydlonedd, **Brydlonder,** } *sm.* fixedness of purpose; resoluteness.

Brydni, *sm.* heat, warmness, warmth.

Cymmer galch heb ladd, a phylora, a llosgladd arian byw pedryran y calch, a dod am ben cymmaint o fel ag a'i gwna yn doesyn, a dod mewn llestr pridd mewn ffwrn *brydni* bara, a chras gyfennyd â chrasiad bara.
Meddygon Myddfai, ii. 555.

Megys pei dywedai un am ddigllonedd, ei fod yn *frydni* y galon, yn gwneuthyd yr wyll yn las, y llygaid yn danllyd, a'r corff yn grynllyd.—*Henri Perri:* Egl. Ffr. xxxix. 2.

Brydwaith, weithiau, *sm.* [bryd+gwaith] the effort, action, or operation of the mind; mental production; study.

Helaethu doethineb, a gwynfyd, a dedwyddyd; a chyfiawnhau barn, a *brydwaith*, a myfyrbwyll.
Cyfrinach y Beirdd, 20.

Nid pennod y llawen yw lliwo bwriadau
A *brydwaith* ystyrbwyll naws dur-bwynt damweiniau.
Dafydd o'r Nant: Cyfr. y Beirdd, 91 (cf. 113).

Brydwst, *sm.* [brwd+gwst] inflammation.

O bydd *brydwst* arnat, cymmer . . . mefus-ddail; a iechyd a geffi.—*Llanover Ms.* 4.

Brydychwil, -od, *sf.* [=*budrchwil?* cf. *bryntyn* 2] a lizard, a newt or eft: also called *budrchwil*, *ethrychwil*, *bwdrchwil*, and *pwdrchwil*.

Brydd, *a.* [cf. *efrydd*] infirm, weak, feeble; sickly; valetudinarian.

Cwympodd ym marn . . .
Ef a'i grefydd *frydd* ar frys.—*Sion Cent.*

Brydd, -ion, *sm.* 1. a volunteer; a self-devoted person.

Ar annhiriog nis dylit gyru llaw ar gledd, achaws nid oes gantho dir iddei golli; ac nid iawn iddo golli bywyd ac aelawd tros arall, namyn gadael iddo ei serch a'i gynghyd; a lle ydd elo llaw ar gledd, *brydd* a'i gelwir; a braint *brydd* a ddylit iddo.—*Cyfreithiau Cymru*, ii. 562.

Tri thrwyddedawg dichwain y sydd: celfydd anianawl a wnelo nid llai no gorchest ar gelfyddyd er lles brodoriaeth; anghyfiaith a ddihangawr o long a doro ym môr; a *brydd*, sef a wareto Gymro ym mhyd angeuawl.
Trioedd Dyfnwal: M.A. iii. 311.

2. an exempted or disabled person; a valetudinarian.

Bryddawn, onau, *sm.* looseness, feebleness; incompactness.—*P.*

Bryddoneg, -au. *sf.* babble, tattle, prattle, prating, babbling; incoherent, idle, or foolish talk.

Ba ryw ddyn, er *bryddoneg*,
A'th fynai di, ddoeth fain deg!
Mastr Harri, i Ieuan Tew.

Bryf, -iau, *sm.* a small book, according to Henry Salesbury and those who have copied him; but it is simply the Eng. word *brief* slightly modified.

Tori a gaiff mewn tyrau gwŷdd,
A llaw *fryfiau* llyfr Ofydd.—*Ieuan Deulwyn:* G.B.C. 129.

Brygai, eion, *sm.* [brwg] what overgrows.—*P.*

Brygain, *a.* springing up luxuriantly.—*P.*

Brygaint, *sm.* luxuriance of growth.—*P.*

Brygawthan, **Brygawtho**, **Brygawtha**, *v.* [=prygawthan or pregawthan, modf. of *pregethu*] to talk foolishly or incoherently; to babble, to prattle; to rant.

Brygawthen, -au, *sf.* a preachment; ridiculous talk, babble, tattle; rant.

Tri pheth anhebgor mewn cân i ddiawl: gwich hwch pan a'i lladder; offeiriad rheglyd; a *brygawthen* Sais.
Trioedd Doethineb: M.A. iii. 254.

Pregethu brygawthen, to make a preachment.

Methodd, fe bylodd ei ben,
I *bregethu brygawthen.*—*W. Cynwal.*

Brygawthwr, wyr, *sm.* a preachman; a babbler; a foolish talker; a ranter.

Y mae talm o amser er pan ddarllenais ffregod ac anghyssonedd y *brygawthwr* hwn.
Ioan Wallter: Dwy Bregeth, 42.

Pregeth brygawthwr, a preachment.

Brygedd, *sm.* luxuriance of growth.—*P.*

Brygewdyn, *sm.* an insignificant little fellow; a fribble.—*Dyfed.*

Brygiad, -au, *sm.* a being luxuriant.—*P.*

Brygol, *a.* spreading out, growing over; luxuriant.

Brygu, *v.* [brwg] to grow out, to overspread.—*P.*

Brymlys, **Brymllys**, -iau, *sm.* [cf. *brynllys* (of which it may be a corruption), and *breflys*] pennyroyal. (*Mentha pulegium*).—*Hugh Davies:* Welsh Bot. 57, 161.

Cymmer y gruw, sef hwnw'r teim, a rhuw, a'r *brymllys*, ac isob, a gwraidd y perllys, a ffunel, a dail yr ysgyr, a elwir yn y Lladin chamaerops, a dwy lwyaid o had anis, a berw y cwbl mewn chwart o ddwr a thair llwyaid o fêl.—*Meddygon Myddfai*, ii. 443 (cf. p. 291).

Brŷn, *pl.* brynau, *sm.* grudge; malice; bad feeling.

Na ladd. Na wna odineb chwith,
Na lladrad byth anfoddog.
Na ddwg gam dyst, er bâr na *brŷn*,
Yn erbyn dy gymmydog.
Edm. Prys: Dengair Deddf, 13.

Bryn, -iau, *sm.* [C. *byrn*, *burn*; Br. *bern*] a hill; a mount.

Hid impen vu *brin* erbin ev barnv.—*Myv. Arch.* i. 577.

Yssid hynn ar *vrynn* gwynn goleu vchel.
Gwynfardd Brycheiniog: M.A. i. 273.

Sef a wnaeth pawp oe welet ef yn kyuodi ac yn mynet y ymwan yr marchawc. mynet ar benn y tei ar *brynneu* ar lle aruchel y edrych ar yr ymwan.—*Mabinogion*, i. 268.

Trwy'r dolydd taro'r delyn,
Oni bo'r ias yn y *bryn.*—*Gro. Owain*, 83.

Bryn moel, a bare or bald hill; a treeless hill.

Bryn dioddef, the hill of suffering; a place of execution.

Yr oedd rhwng palas y barnwr a'r lle yr oeddid yn arferol o ddienyddu (neu y *bryn dioddef*) afon fawr yn rhedeg a elwir Tems, neu Tafwysg. . . Wedi ei ddyfod (efe a'r lluaws ag oedd yn ei ganlyn) i'r *bryn dioddef*, y dienyddwr, fel y dywedais o'r blaen, wrth weled y gwyrthiau, a droes yn Gristion.—*Theo. Evans:* D.P.O. ii. 2 (199, 200).

Bryn Dinan, the Hill of Dinan, an old name of a constellation.—*Barddas*, i. 404.

Bryn a thyno, hill and dale; upland and lowland.

Dewissaf arglwyt didramgwyt dro
Dywyssawc breinyaw *brynn a thyno.*
Llygad Gwr: M.A. i. 342.

Coed maes *tyno a bryn.*—*Taliesin:* M.A. i. 75 (cf. 65, 157).

Bryn a phant, hill and hollow; hill and dale.

Bryn llawenydd, the hill of joy.

Gwedy dodi gawr ar *Vrynn Llewenyd* onadunt. ymgymmysgu aorugant ar paganyeit.
Yst. de Carolo Magno, col. 483.

Brynar, -au, *sm.* [corr. of *braenar*]=*Braenar.*

Bryncyn, -au, *sm.* [bryn+-cyn] 1. a hillock, a tump. 2. a balk or break in a furrow.

Bryncynai, eion, **Bryncynwr**, wyr, *sm.* a balker; 'one that breaks lumps in furrows.'

Bryncyniad, -au, *sm.* a balking; 'a breaking down irregularities in furrows.'—*P.*

Bryncynu, *v.* to break clods.

Bryndir, -oedd, *sm.* a hilly region, country, or district; a hill-country.

Ym min nos, a mi'n nawswyllt,
Ar gyrch dros y *bryndir* gwyllt.—*D. ab Gwilym*, ccliii. 3.

Er fod trysorau celloedd oerion yr ia yn toi *bryndir* Switserland, eto mae llysiau cyffredin gwledydd Ewrop, o Lapland hyd at Itali, yn helaeth ynddi.
R. Roberts: Daearyddiaeth, 121.

Y wawr oedd deg, a gwên yr haul
Yn araul ar y *bryndir.*
Th. Lloyd Jones, i Gantref y Gwaelod.

Dy *fryndir* gwyllt sydd yn rhagorol hafod
I'r defaid gwirion ac i'r geifr diorfod.
O. Wynn Jones: Myrddin Wyllt, xxiv.

Bryned (*ȳ*), -au, *sf.* a hand.—*Arch. Brit.* 214.

Brynial, *v.* to be heaping or piling up; to hill.

Ruyt guyn rac Eingl iaun llad
Iaun vrinyn *vrynnyal* [*al.* vriwyn vriwyal].
Gorchan Cynfelyn: M.A. i. 60 (cf. A.B. ii. 95).

Brynio, *v.* to hill; to raise into hills or eminences; to mound.

Bryniog, *a.* hilly; abounding with hills or eminences.

Maent oll yn taflu lledrith amrywiaethog,
Ac arswyn ceinder dros y gantref *fryniog.*
O. Wynn Jones: Myrddin Wyllt, iii.

Gwlad fryniog, a hilly country.

Bryniol, *a.* relating to a hill or to hills; hilly.

Brynllys, *sm.* pennyroyal (*Mentha pulegium*).

Cais y *brynllys* a gasgler y Sul Gwyn neu nos wyl Ieuan Fedyddwr, a berw y rhai'n, a sych, a gwna'n bylor, a dyro ar ddiod i'r claf i yfed.—*Meddygon Myddfai*, ii. 634 (cf. 633).

Brynnig, *a.* [brwnt] dirty, filthy, foul; base, mean.

Ae rhost *brynnic* ae restr ffyrnic ae rwystr ffyrneu.
Gr. ab Meredydd: M.A. i. 469.

O Faallt *frynnig* lyniedig law.
Madog Dwygraig: M.A. i. 487 (cf. 489).

Budredd-leidr nos, baw dreidd-lwnc,
Braen hygryg fol *brynnig*-granc.
Rhys Goch Eryri: G.B.C. 93.

Brynnon, *s.pl.* [brwnt] refuse, rubbish.—*Iolo Glossary.*

Bryntai, eion, *sc.* [brwnt] a dirty or filthy one; a base or dirty fellow.

Ac oni bai hefyd, fod y fath gnotäedig gyrchfäau o ryw furguniaidd furiäau o ddrewllyd a choeg gynhenus a sothachlyd *frynteion* a dieithraid rhy anhygar, yn dyfod ar ddybryd amserau yn eu plith hefyd, ac yn eu hanurddo.
Dr. I. D. Rhys: Gram., Rhag. 7.

Brynti, } *sm.* dirtiness, filthiness, foulness,
Bryntni, } nastiness; filth.

Am iddo felly reoli eich calonau chwi, fal nad ydych yn canlyn siampl y byd drygionus, y rhai a osodant eu meddyliau ar *frynti* pechod, er eich bod chwi eich dau yn ofni Duw ac yn casäu pob *brynti*.—*Edw. Iames:* Hom. iii. 166.

A phenaethiaid y bobl a'r offeiriaid a wnaethant lawer o anwiredd yn erbyn y cyfreithiau, ac a ragorasant ar holl *frynti*'r holl genedloedd.—1 *Esd.* i. 49 (cf. Rhuf. i. 27).

Mae *bryntni* eu buchedd hwynt yr awr hon yn hynod i'r holl fyd.—*M. Cyffin:* Diff. (ed. 1849), iv. 3 (cf. 2).

Bryntioni, *sm.* [from *brwnt*, like *daioni*, *drygioni*, from *da*, *drwg*] filthiness, dirtiness; filth; turpitude, baseness.

Gware Italiad *bryntioni*, gware Cymro serch.
Diareb Genedlig.

Bryntyn,-od,*sm.* [brwnt] 1. a filthy or dirty one.

A glywaist ti chwedl y Mochyn,
Yn ymswyn rhag camp *bryntyn*?
Nid ffiaidd ond y meddwyn.—*Iolo Mss.* 261.

Gan ei fod heb ei nodi,
Diau iawn nid yw i ni
Fwyta'r mochyn, *bryntyn* brych,
Na chynnyg byth ei chwennych.
Iolo Morganwg: Salmau, i. 220.

2. a newt or eft, a small lizard.

Brynu, *v.* [bryn] to hill; to raise into hills or elevations.—*Gwent.*

Brynu gwair, to cock hay.

Brynu mydylau, to make cocks.

Brys, -iau, *sm.* haste; speed; dispatch; expedition; quickness; hurry.

A gwedy tebygu or brenhin y bydei ymlad ar y castell aoed yn Thegygyl kyffroi llu aoruc drwy diruawr *vrys* a dyuot hyt yn Rudlan.—*Brut y Tywysogion*, 198.

Po mwyaf y *brys*, mwyaf y rhwystr.—*Diareb.*

Ar frys, in haste; hastily; quickly; expeditiously.

Ac en e lle gwedy darvot idaw gadarnhau e llogeu evelly. *ar vrys* erlyt e gelynion aoruc enteu.
Brut Gr. ab Arthur: M.A. ii. 308.

Efe a'i canlynodd hi *ar frys*, fel yr ych yn myned i'r lladdfa.—*Diar.* vii. 22 (cf. xx. 21; xxv. 8).

Pa ham y mae y gyfraith yn myned *ar* y fath *frys* oddi wrth y brenin?—*Dan.* ii. 15 (cf. iii. 24; vi. 19).

Mewn brys, in haste; hastily; in a hurry, hurriedly.

Mis Gorphenaf teilwng chwys
Gweiriau ar dan pawb *mewn brys*.
Englynion y Misoedd: M.A. i. 15 (cf. iii. 228).

Gwnewch y peth ar frys, ond nid mewn brys, do the thing quickly, but not hurriedly.

Gan frys, with haste; in haste; hastily.

A rey onadynt. *kan frys* a wiskynt eu harneu.
Brut Gr. ab Arthur: M.A. ii. 289.

A chychwyn a oruc Auarw a dyuot *gan urys* hyt y lle yd oed Ulkessar.—*Brut Gr. ab Arthur* (B): M.A. ii. 188.

Gyda brys, with haste; with speed; quickly; speedily; expeditiously.

Gwaith brys, hasty work.

Y mae brys arnaf, I am in haste; I make haste.—*Iob* xx. 2.

Pa frys sydd arnoch? } why in such
Beth yw'r brys sydd arnoch? } haste? what haste are you in? what is your hurry?

Brys, *a.* hasty; quick, speedy; fleet.

Cyfryssedd Gwynedd *brys* orchorddion.
Taliesin: M.A. i. 73.

Pasgen wrys pascueirch *vrys* vreiscdawn.
Cynddelw: M.A. i. 221.

Brys ar fwyd, *brys* ar waith=quick at meat, quick at work.—*Diareb.*

Brysfarch, feirch, *sm.* a post-horse.

Croesais fynyddoedd Pontus . . . mor fuan ag y gallasai *brysfeirch* fy nghludo.—*Brutus:* Ninefeh, 13.

Brysfawr, *a.* full of haste or hurry; hasty; expeditious, speedy.

Gwedi dangaws hyny i Nest, chwaer Gruffydd ab Rhys, hi a ddanfones gennadon *brysfawr* at ei brodyr yng Ngwynedd.—*Brut Aberpergwm:* M.A. ii. 543.

Brysfynag, fyneig, fynegion, *sm.* [brys+mynag, myneg] a telegraph.

A ganlyn yw yr anerchiad a ddanfonodd ei mawrhydi, trwy gyfrwng *Brysfynag* Môr y Werydd, at lywydd Taleithiau Cyfunol America.—*Brython*, i. 161.

Brysg, -au, -ion, *sm.* [=brisg] a track, trace, or mark; a foot-mark; a vestige.—*P.*

Brysg, *a.* [Ir. and Ga. *briosg*] hasty; quick; speedy; nimble; brisk.

Adwaenwn, gwn yn gynnil,
Ei throedlam *brysg* ym mysg mil.
D. ab Gwilym, ccxlviii. 15.

Brysgam, -au, *sm.* a hasty step or pace.—*W.*

Brysgar, *a.* hasty; speedy; quick; expeditious; dispatchful.

Y *brysgar* liaws tan ryfeddu aent
I mewn, a molent rai y gwaith a rhai
Yr adeiladydd.—*W. O. Pughe:* C.G. i. 760.

A welaist ti wr *brysgar* yn ei eiriau?
Dr. T. Briscoe: Diar. xxix. 20.

Brysgarwch, *sm.* hastiness; speediness.

Brysged, -au, *sf.* [Br. *buched*, *brusk*; O.Fr. '*breschet*, originally *brischet*, a word of Celtic origin:' cf. *Brachet*, s.v. *Brechet*] a brisket; 'the breast of a slain animal.'—*Th. Richards:* Dict. s.v.

Brysged, the breast.—*H. Salesbury* (Arch. Brit. 214).

Brysgennad, -au, -on, *sc.* a courier.

Brysgennadol, *a.* relating to a courier.

Brysglud, -au, -ion, *sm.* an express carriage; a diligence.

Brysglwyn, -i, *sm.* a form sometimes inaccurately used for *prysglwyn*, q.v.

Brysgoes, -au, *sf.* a stilt.

Brysgyll, -au, -od, *sm.* a mace, truncheon, or baton; a staff or wand (of office).

Yna ydd athoedd Iesu ein Harglwydd i mewn i neuadd y frawdoriaeth; ac yno ydd oedd ereill o ringylliaid â chanddynt *frysgyllod* yn eu dwylaw, ac ar y rhai hyny ydd oedd delwau euraid yr ymherodr Caisar: a phan ddathoedd i mewn ein Harglwydd Iesu, y *brysgyllod* a ymgrymasant ac a ymostyngasant iddaw ef. A phan welaint yr Iuddewon y *brysgyllod* a'r delwau euraid oedd arnaddynt yn ymgrymu fal y dywespwyd ac yn ymwarogi i'n Harglwydd, hwy a waeddasant ar y rhai a arweiniynt y *brysgyllod* â llafar a ddangosai ddigofaint.
Dafydd Fychan: Efengyl Nicodemus, i.

Y ddau frenin . . . sydd ag un llaw yn ddyrchafedig, ac yn dwyn gwrthddrych cyffelyb i *frysgyll*.
Brutus: Ninefeh, 162.

Brysiad, -au, *sm.* a hastening; speed.

Brysiad, iaid, *sm.* a hastener.

Gwenwyn rent present *bryssyat* yw aruaeth
Waethwaeth hudolyaeth oe hadeilyat.
Llywelyn Ddu: M.A. i. 416.

Brysiawr, iorion, *sm.* a hastener.

Brysio, *vn.* 1. to haste or hasten; to make haste; to hurry.

Ac wrth henny *bryssia* di Uthyr. *bryssia* ac na ohir gwneuthur brwydyr ath elynyon.
Brut Gr. ab Arthur: M.A. ii. 284.

Brysiwch, ac ewch i fyny at fy nhad. . . *Brysiwch* hefyd, a dygwch fy nhad i waered yma.—*Gen.* xlv. 9, 13.

2. *va.* to hasten; to expedite; to accelerate; to speed.

Brwydyr gygrwn gygres
Bryssyws bwyd branhes.
Cynddelw: M.A. i. 222 (cf. 262, 276, 431).

Brysio hynt, to hasten or expedite a journey; to accelerate an expedition.

Sef a wnaethant *bryssyaw eu hynt* parth ac Ynys Prydein.
Brut Gr. ab Arthur (B): M.A. ii. 224.

3. *vn.* to shoot with a cross-bow.

Brysiog, *a.* hasty; full of haste; quick; expeditious.

Cam brysiog, a hasty step or pace.

Brysiol, *a.* hasty; hastening; making speed; accelerative.

Brysiwr, wyr, *sm.* a hastener.

Bryslythyr, -au, -on, *sm.* a dispatch.

Brysneges, -au, *sf.* a telegraphic message or dispatch.

Mae y llysgennadwr Prydeinig wedi anfon *brysneges* am filwyr i fyned yno yn ddioed.—*Llan*, Mawrth 4, 1887.

Brysnegesydd, -ion, *sm.* a courier; an express.

Bryst, -au, *sm.* [E. *breast*, †*brest*, *brust* (N.E.); A.S. *breòst:* common Teutonic] the breast, chest, or thorax.

Cymmeryd eu sudd yn unig ddiod yn y gwanwyn a'r haf a lwyr ddinystra'r frech yn y gwaed a'r llynor . . . a phob poethni allosg yn y gwaed a'r llynor, a phob poethwaew yn y pen, a phob cyfyngder yn y *bryst* a'r cylla, a than y fronglwyd.—*Meddygon Myddfai*, ii. 795 (cf. 357, 358).

Brest is also used, not only in the colloquial, but sometimes in the literary language.

Mi a gaf o blwyf Afan
Gyfrwy ym mysg y gwefr mân;
Ac yn frith ddigon ei *frest*,
Ac yn wyn, ac yn onest.
L. G. Cothi, III. xxxiii. 47 (cf. IV. xxiv. 56).

Bryswaith, weithiau, *sm.* hasty work.

Brysyll, -au, -od, *sm.* [=brysgyll, byrllysg?] a truncheon, baton, or mace; a staff (of office).

Pob bardd gorseddog, o bwy achen y bo bynnag, a ddwg yn ei law yng ngorsedd *frysyll*, neu ffon grair, yn gyfunlliw â'i wisg, ac yn wrhyd ei hyd; a'r trofedigion a ddygant bob un ei *frysyll* o'r trilliw barddonïaidd yn frithgymmysg, yn nod ac arwydd trofedigaeth, ac a wisgant ar y fraich ddeau freichrwy o'r un lliwiau; ac os yn nawdd y bydd yr awenydd, *brysyll* hanner gwrhyd; ac os ym mraint y bydd, sef trwyddedog nawdd, gwrhyd y bydd hyd ei *frysyll*.
Iolo Mss. 62 (cf. 61, 217).

Tair dyrnawd arglwydd ar ei wr yn ei reoli: un â'i *frysyll*, sef ei swyddwialen.—*Trioedd Doethineb:* M.A. iii. 311.

Brytäu, *v.* [brwd] to heat or warm.

Os mewn cymmal neu aelod y bydd y dolur, dod y garlleg yn ol eu gwasg-hidlo i *frytäu*, a dod yn dwymaf gallech wrth y dolur.—*Meddygon Myddfai*, ii. 572.

Bryttyb, -iau, *sm.* [brwd+tyb] heated imagination.

Brutiau a geuon *bryttyb*.—*Sion Phylip*, i'r Brutwyr.

Brytwn, **Bryton,** **Brytan,** *sm.* [=Brytwn, Brythwn=E. *Briton*] field southernwood (*Artemisia campestris*).—*Hugh Davies:* Welsh Bot. 161.

Y dyn a gollo y synnwyr. kymer lygat y dyd. a'r *brytwn*. a'r saluia (i. saies) a tharaw ar wîn; a dyro yr claf oe yuet bymtheg nieu.—*Meddygon Myddfai*, i. 102.

Cais lygad y dydd, a *bryton*, a'r geidwad, a phwya'n dda, a dod ar win, a gad sefyll deirawr.
Meddygon Myddfai, ii. 664.

Brytan, southernwood.—*H. Salesbury* (Arch. Brit. 214).

Brythai, eion, *sc.* [brwth] one that rises a commotion or tumult; a rioter.

Brythain, *a.* full of commotion or bustle.

Brythaint, *sm.* commotion, tumult, uproar.

Brythar, eiriau, *sm.* [brwth] an eructation, a belch.

Ban ddaw o ddechreu mawr ei *fretheiriau*
Pan ddel or dehau mawr ei ferthidau.
Taliesin: M.A. i. 22.

Brythawd, odau, *sm.* disturbance, tumult, commotion.

Pan ddescynno Cadwaladyr yn nyffryn Tywi
Biawt tra thrwm ebyr
Gwascarawdd [*al.* guascaraut] ai *brythawd* Brython brithwyr.—*Cyfoesi Myrddin:* M.A. i. 146 (A.B. ii. 229).

But beirtyon barteir om tauawd
Briwgoch bric ongyr *brythawd*.—*Cynddelw:* M.A. i. 226.

Brytheiriad, -au, *sm.* [brythar, brwth] eructation, a belching.

Brytheiriad yr ermigion dwfn o lwng,
Croch ruad pa ryw rai o afwy dwrf
A rwygai ymysgaroedd wybr.
W. O. Pughe: C.G. vi. 646.

Brytheirio, *v.* to eructate, to belch; to belch out; to ejaculate, to give vent to.

Arwydon kylla afiachus ynt; trymder corf, anorbeidrwyd ymdeimlaw ac ef, diogi yn y weithretoed; hwyd yn y wyneb. dileugen yn uynych a golwc ymatlaes, a *brytheiryaw* yn uynych.—*Meddygon Myddfai*, i. 185.

Na *frytheiria* ar dy ford.—*Hen Ysgrif.*

Brytheiriol, *a.* eructating, belching.

Brytheiriwr, wyr, *sm.* one who eructates, a belcher.

Brythfed, -au, *sm.* [brwth+med-i] a tumultuous cutting down.—*P.*

Mor yu gauel guelet kynnurf kynniret
Bratheu a *brythvet* [*al.* brythied] Brithuyr ar gerddet.
Taliesin: M.A. i. 76.

Brythiant, *sm.* tumult, uproar, commotion, disturbance.

Nwyf ar y blaen, a Boddiant wrth y llyw,
Nas brawa gorwynt, bryw ei *frythiant*.
W. O. Pughe: Bardd, ii. 2.

Brythol, *a.* tumultuous, turbulent.

Brythor, -ion, *sm.* [brwth] one that raises a tumult or commotion; a rioter; a quarreller or wrangler.

Brythred, -ion, -au, *sf.* [brwth: cf. *brithred*, *breithred*] a conflict, a fight; a broil.

Brythu, *v.* [brwth] to fight, to quarrel.

Oc eu diota i *frythu* yna aent.
W. O. Pughe: C.G. xi. 718.

Brythus, *a.* tumultuous, turbulent, uproarious; boisterous; brawling.

Brythwch, *sm.* [brwth] tumult, commotion, turbulence; brawl.

Gnawd yw honn om bronn y brwydaf
Brydeu anaraf *brythwch* gaeaf garw
Bytin darw deyrnaf.—*Cynddelw:* M.A. i. 262 (cf. 227).

Gwewyr trwch, *brythwch*, a braw,
Trwyddynt sy'n awr yn treiddiaw.—*Powysion*, ii. 130.

Brythwy, -on, *sm.* tumult, uproar.—*A.B.* ii. 40.

Brythwr, wyr, *sm.* a rioter; a brawler.

Brythyn, -au, *sm.* an abrupt stir or commotion.—*P.*

Bryw, -iau, *sm.* vigour; energy; strength; liveliness, briskness.

Gwan-fardd heb obaith gwynfyd,
Na *bryw* yn fy myw ym myd.—*Sion Cent.*

Is brigau rhwys, a somant draw ein prin
Ddiwylliad, a dylyant fwy no ni
O ddwylaw syw i dociaw *bryw* eu twf.
W. O. Pughe: C.G. iv. 687.

Tir â bryw ynddo, land that has strength in it.—*Gwent.*

Bryw, *a.* vigorous; lively, brisk; wanton.

Llyavs peleidrad guaedlad guadlan [*al.* gwaedlan]
Llyaus aerwyr *bryv* breuaul vidan.
A.B. ii. 4 (cf. M.A. i. 48).

Eu rhoddion idd ein rhoddiaid caniatäwn
Yn hawdd, a hael ddawnhau o hael ddawnhâd,
Pan amla Anian ei thwf *bryw*, ac o
Aflwythaw a gynnydda addon fwy.
W. O. Pughe: C.G. v. 338 (cf. 312).

Brywaidd, *a.* of a vigorous nature; lively, brisk.

Brywder, **Brywdra**, *sm.* vigorousness; liveliness, briskness; wantonness.

Brywes, *sm.* crumbled oat-meal bread steeped in the hot fat skimmings of pottage; brewis.—*N.W.*

Bod â bys yn y brywes, to have a finger in the pie.

Brywiad, -au, *sm.* invigoration.

Brywio, *v.* to invigorate; to enliven.

Pettai yn llawes yr Arth ar ei wres,
Brywiaw i arthes, bwrw rhai weithiawn:
Fal eilon mynydd y sarff hwn y sydd;
Fal hydd o'r gweunydd dros gae uniawn.
L. G. Cothi, III. xxvi. 37.

Brywiog, *a.* full of vigour or strength; vigorous; lively, brisk.

Brywiol, *a.* invigorating, strengthening; enlivening.

Brywus, *a.* [cf. s.v. *Browys*] vigorous; energetic; lively, brisk; wanton.

Ei attal . . .
Er iddo gynt, ar ddydd gwyl,
Fwrw ei serch, *frywus* orchwyl.
Dafydd Llwyd ab Ll. ab Gruffydd.

Duodd ei fröydd, doe oedd *frywus;*
Du Arfon oll, darfu'n ewyllys.—*L. G. Cothi*, VII. iii. 53.

Brywusder, **Brywusdra**, **Brywusedd**, *sm.* vigorousness; liveliness, briskness, wantonness; vigour, energy.

Eu haur i brifeirdd, heb warafyn,
A rhoi *brywusder* i bob erestyn.—*L. G. Cothi*, IV. x. 53.

Brywusig, *a.* invigorating; energetic.

Brywyllt, *a.* [bryw+gwyllt] wild, ferocious.

Bu, *v.* [bod] 3rd pers. sing. pret. of the substantive verb *bod* (q.v.): was; has been: Lat. *fuit.*

Brodir, gnawd ynddi brydydd,
Heb ganu ni *bu*, ni bydd.—*Gronwy Owain*, 13.

Bu, -on, -aid, *sf.* [cf. *bou* in *boutig* (=beudy) in Oxf. Gloss. ii. 6 (Zeuss, G.C. 1053): C. *buch* (=W. *buch*); Br. *bu*, *buoc'h*, *bioc'h*, *buc'h;* Ir. *bó*, †*bou;* L. *bos;* Gr. βοῦς] a cow.

Y vlwydyn honno . . . y prynwyt y gloch uawr yn Ystrat Fflur yr trugein a dwy vorc ar bymthec arhugeint a dwy *vu*.—*Brut y Tywysogion*, 340.

Y mab uchelwr a ddyly deir-*bu* celain am danaw; ac ereill o'r llyfrau a ddywaid ddylyu chwe *bu* celain am danaw.—*Leges Wallicae*, v. ii. 45.

Gan hoffi oll o gylch, arogli yd
Ai gwair, ai *bu*, pob broaidd wedd, pob swn.
W. O. Pughe: C.G. ix. 430.

Ei nodd a adnewyddir,
Efe a ä yn fwy ir;
A *buaid* teg a'i bwytânt,
Hwy ddistaw ymloddestant.—*Eben Fardd:* Gweith. 149.

¶ Under this word Pughe gives the additional meanings of 'a being,' and 'a living principle,' subjoining the phrase, '*Y Bu Cyfiawn*, the just Being.' He was probably led into this error by a misprint in a triplet by Elis Wynn (*Prif Addysg y Cristion* (1755), 180), in which 'Y Cyfion *bu*' appears instead of 'Y Cyfion *cu;*' and which he quotes in his first edition, omitting it in his second; but though the passage is left out, the definition founded upon it is retained. The triplet is, or should be, as follows:

Hosannah yn y goruchafion,
Hai, cydunwn ninnau â dynion
I foli'r *Cyfion cu*.

Buach, -od, *sm.* a churl; a clown.

Buachu, *v.* 1. to do a mean or churlish act.—*P.*

2. to cower; to stoop.

Buachu am ben y tân, to cower or stoop over the fire.—*Mawddwy.*

Buad, -au, *sm.* a past event or circumstance.

Ymwybodi â buadau, to acquaint one's self with past events; to become acquainted with past circumstances.

Tair gormes teyrnedd: anmrawd . . .; anrhaith . . .; ac anymdawr, sev yw hyny gwallymbwyll ar syrth amserau a dichweiniau, ac ereill orvodau, lle cauont yn erbyn cyfraith, ac nis gellir eu gwared namyn o raith gwlad a theyrnedd, i weled ac i *ymwybodi a buadau*, ac i wellau ac amnewyddu a vo achaws gorvodawg yn darogan.
Cyfreithiau Cymru, ii. 484 (cf. M.A. iii. 286).

Buadol, *a.* relating to the past; preterite, past.

Amser buadol, past or preterite tense.

Buadolion, past events or circumstances; things of the past.

Buael, *sm.*=*Bual.*

Hil Dardan hael wyd, wrda,
Huw Wiliam ddoeth, hael am dda;
Ab Siancyn hoew felyn hael,
Ab Ieuan aur gyrn *buael*.—*Ieuan Tew.*

Bual, ail, -od, -iaid, *sm.* [bu: Br. *bual;* L. *bubalus*, *bufalus;* Gr. βούβαλος] 1. a buffalo, a wild ox.

Deg o ychen pasgedig, ac ugain o ychen porfadwy, a chant o ddefaid, heb law ceirw, ac iyrchod, a *buail*, ac ednod breision.—1 *Bren.* iv. 23.

Llygaid *bualiaid* i'w ben,
Lliw gwydr, a blew llygoden.—*Gutyn Owain:* G.B.C. 224.

Ni chefais lawer o gyfleusderau, medd ysgrifenydd diweddar, i sylwi yn bersonol ar ychain gwylltion neu *fuail* Deheudir Affrica.—*Cylchgrawn*, i. 221.

Eu teuluoedd a ânt gyda hwynt, ac a'u cynnorthwyant i wneuthur amrywiol fath o gaws o laeth defaid, gwartheg, a *bualod*.—*Cylchgrawn*, i. 266.

Corn bual, a buffalo horn; a drinking-horn.

Ygan yneb aorffo pan vo amrysson cadeir y keiff ef *corn bual* a modrwy eur ar gobennyd a dotter y danaw ynny gadeir.—*Cyfreithiau Cymru*, i. 368.

Bwäau, yn *gyrn bual*,
A noded yn eu dau dal.
L. G. Cothi, I. xxxix. 43 (cf. VIII. iii. 64).

Yr englyn canlynawl a ennillodd y *corn bual* yn Eisteddfod Caerdydd, Awst 20, 1834.—*Tegid:* Gwaith, 91.

2. a complimentary epithet frequently bestowed in former times by the bards upon their patrons, or subjects of their panegyric.

Nawdd Iesu ar y *bual*,
Niclas Ryd.—*L. G. Cothi*, IV. xviii. 1 (cf. v. 40; IV. v. 26).

Pan aeth Iesu â'r *bual*,
Yr aeth gwrolaeth gwŷr Ial.
Gutyn Owain: G.B.C. 196 (cf. 193).

Pwy yw'r ddau orau i wared tlodion?
Y *buail* union, ef a'i blaned.—*L. G. Cothi*, IV. v. 39.

3. (*pl.* bualau, bueli, buail) a buffalo horn; a drinking-vessel made of buffalo horn; a drinking-horn.

Oet tost y cynial pan yuei o *wual*.—*A.B.* ii. 52.

Sengi wit [*al.* sengiwyd] gwned *bual* am dal med.
Aneurin: God. 618 (cf. 142, 156).

Ys meu y deliedeu ai gorefrasseu
Medd o *fualeu* a da dieisieu.—*Taliesin:* M.A. i. 59.

Kyllell a edyw ym bwyt. a llynn ym *bual*.
Mabinogion, ii. 201.

Nyt oet un llestyr yn gwassanaethu y bwrd namyn eur neu aryant. nen *vueli*.—*Mabinogion*, i. 5.

Rif llif llu *vueil* eil Ulkassar.
Casnodyn: M.A. i. 426 (cf. 222, 257, 260).

Ar ol gwin o wydr ac arian, medd o *fual*, a bragawd o fasarn, yr aeth i'w ystafell.
Breuddwyd Gruffydd ab Addaf (Y Greal, 341).

b. a bugle or bugle-horn, a sounding-horn, a horn.

Gwrth eurdro eurdrull gno gnythawd
Gwrth eurdal *bual* bugunawd.—*Cynddelw:* M.A. i. 226.

Bualgen, -au, *sm.* [bual+cen] the skin or hide of a buffalo; buff-skin; buff-leather.

Pais fualgen, a buff coat.—*W.*

Bualgorn, *pl.* bueilgyrn, bualgyrn, *sm.* a buffalo horn; a drinking-horn; a drinking-cup made of horn.

Ermydedawg lyn erbyn eurban
Eurgyrn buelin *bueilgyrn* ban.—*Cynddelw:* M.A. i. 211.

Ym *mueilgyrn* Cefn Melgoed
Y bu'r medd i bawb er moed.
L. G. Cothi, III. viii. 7 (cf. I. xviii. 75).

Yn chwantus, *bueilgyrn* dadlenwent,
Am heddwch llawen ymddiddanent.—*Y Greal*, 179.

Buan, *pl.* buain, *a.* [C. *buhan;* Br. *buan, buhan*] swift; rapid; fleet; quick; fast; nimble; hasty.

Ysgwyt ysgauyn lledan ar bedrein mein *vuan*.
Aneurin: Gododin, 5.

Cyflauan *vuan* vu ar dreigyeu byt.
Llyw. ab Llywelyn: M.A. i. 295.

I galon wan da traed *buan* . . .
Buan i'r wledd, *buan* i'r bedd.
Buan ar farch, *buan* i'r arch.
Buan ar droed a gyrch hir oed.—*Iolo Mss.* 227.

Aethant heibio megys llongau *buain*.—*Iob* ix. 26.

Buanach yw ein herlidwyr nag eryrod yr awyr.
Galar. iv. 19.

Buan yw yr haul yn ei gwrs.—1 *Esd.* iv. 34.

Buan barn pob ehud.—*Diareb.* (M.A. iii. 150.)

Buan o droed, swift of foot, swift-footed.

March buan (*pl.* meirch buain), a swift horse.

Nid rhaid *march buan* danad.—*D. ab Gwilym*, lxix. 25.

Buan bo=*Buarth baban* (s.v. *Baban*).

Yn fuan, 1. swiftly, rapidly, fleetly, &c.

Dal *yn fuan* dy waneg,
A dos o Gilgwri deg.—*Rhys ab Dafydd.*

2. (of time), soon; quick, quickly; early.

Dos oddi yma i waered *yn fuan*. . . Ciliasech *yn fuan* o'r ffordd.—*Deut.* ix. 12, 16.

Daw angeu, daw, mae ar ei hynt,
Yn fuan hefyd daw.—*Tegid:* Gwaith, 192.

Buanawr, *a.* swift, fleet; hasty, hastening.

Derw *buanawr* rhagddaw cryneu nef a llawr.
Taliesin: M.A. i. 30.

Buander, Buandra, Buanedd, *sm.* swiftness, rapidity, fleetness; velocity, celerity; speed.

Ae farch ynteu oedd odidawc yn amrafaelion gampeu o *fuander*.—*Buchedd Gr. ab Cynan:* M.A. ii. 586.

Megys iyrchod ar y mynyddoedd o *fuander* oeddynt hwy.
1 *Cron.* xii. 8.

O'i law bu i anaw *buanedd* llifnant.
Madog Dwygraig: M.A. i. 481.

Buandrem, *a.* quick-sighted; quick to discern.

A phob edlym olwg a'r a ddelo ym meddwl a than selwedd dyn, ac ym mryd a chrebwyll o gelfydd fwriad y bardd *buandrem*.—*Cyfrinach y Beirdd*, 13.

Buandroed, *a.* swift of foot, swift-footed.

Gan ateb dywedai'r *buandroed* Achilles,
Llefara yn hyf y gair sy'n dy fynwes.
Dr. L. Edwards: Traeth. Llen. 495 (cf. 494, 496, 497).

Buanfarch, feirch, *sm.* a swift or fleet horse.—*Mic.* i. 13.

Buanfryd, *a.* of quick mind or perception.

A'r iaith yn alluog ac awchlym, a'r dyfalu yn fyrbwyll *buanfryd*.—*Cyfrinach y Beirdd*, 39.

Buangyrch (*n-g*), *a.* straight to the point; direct; pointed.

Rhaid ei bod yn amleddfawr, niferog, a lluosogrif ei geiriau . . . ac yn *fuangyrch* at nod a selwedd pob irnwyf ac arial-deimlad, a serchiadaeth.—*Cyfrinach y Beirdd*, 13.

Buanllaw, *a.* quick-handed; handy, dexterous.

A gymmeri di was digrif, diddan, *buanllaw*, buandroed, celfydd-bwyll, i ganlyn pen dy farch?—*Araith Gwgan.*

Buanocâd, *sm.* acceleration.

Buanocaol, *a.* accelerative; quickening; acquiring velocity.

Buanocäu, *v.* to accelerate; to acquire velocity.

Buanog, *a.* [buan: Br. *buanek*] hasty; full of swiftness or celerity.

Buanogaeth, -au, *sf.* a tendency to be hasty; acceleration.

Buanol, *a.* accelerating; hastening, quickening.

Buanred, *a.* of swift or rapid course; rapid, fleet.

Buanrwydd, *sm.*=*Buander.*

Buanu, *v.* to accelerate, to hasten, to quicken; to speed.

I lawr ar wysg ei hed
Buana, a thrwy y nwyfreawl wybr
Roth cyfrwng byd a bydoedd hwylia efe.
W. O. Pughe: C.G. v. 283.

Buarth, -au, *sm.* [bu+garth] 1. a pen or enclosure for cattle; a cow-yard; a yard or enclosure into which cows are turned to be milked.

Tri phriodolion gwahanredawl gwr gwlad a chymmrawd . . .: tŷ; *buarth;* ac ydarth.—*Cyfreithiau Cymru*, ii. 492.

O bob eidon *buarth*, dimei y dyd a dwy y nos.
Cyfreithiau Cymru, i. 740 (cf. L.W. III. x. 42, 63).

Glas fydd adladd hen *fuarth*.
Engl. Eiry Mynydd: M.A. i. 548.

Gwell *buarth* hysp nag un gwag.—*Diareb.* (M.A. iii. 159.)

Tair buwch mewn *buarth* ni welir.
Heinyn: M.A. i. 553 (cf. 217, 548).

Buarth gwartheg, an enclosure for cattle, a cow-yard, a cow-pen, a cattle-fold.

Allwest rhywiawg tir meillionawg,
Hyd wyneb ton dolau gleision,
A *buarth* teg yn llawn gwartheg.—*Iolo Mss.* 234 (cf. 233).

2. a yard, pen, or enclosure (for any animals).

Buarth defaid, a pen for sheep, a sheep-fold; a fold.—*S. W.*

Hyd na bo racllaw dros wynebeu ynessoyd y dayar onyd vn bugeil ac vn *buarth*.—*Dydd Brawd*, 7.

Buarth moch, an enclosure for pigs, a swine-yard.

A'r fonwent oreu fynoch,
Anferth y mae'n *fuarth moch*.—*Ieuan Tew*.

3. an enclosure; a yard; a court; a place of resort or assembling; a circle.

Gwladaidd ei chwedl hoced-laes,
A mul mewn *buarth* dail maes.—*D. ab Gwilym*, xcviii. 51.

Ef goruc am gerryc mor llwch
Am *vuarth* Caduan cad arrwch.
Llyw. ab Llywelyn: M.A. i. 280 (cf. 161).

Nid llawen Cenarth heb weilch Deheubarth,
Na Sycharth, *buarth* y ddwy Bowys.
L. G. Cothi, v. ix. 17.

Er bod y *buarthau* lluosog hyn bob un yn cynnwys carnau mawrion o lymeirch, yn cyd-bydru yn agos at eu gilydd . . . eto nid yw iechyd y torfeydd o ddynion a arosant yno dros y tymmor, yn cael ei ddrygu mewn un modd.
Cylchgrawn, i. 191.

Buarth beirdd, the resort or rendezvous of bards.

Buarth beirdd ar nys gwypo
Pymtheg mil drostaw.
Taliesin: A.B. ii. 115 (cf. M.A. i. 27).

Cael o hwn, coel a honnir,
Calon Is-Aeron a'i sir,
Ac iechyd, a phlant gwych-heirdd
Yn Sycharth, *buarth y beirdd*.—*Iolo Goch*, i O. Glyndwr.

Buarth baban: cf. s.v. *Baban*.

Buarthaid, eidiau, *sm.* as much as a yard or fold contains; a fold-ful.

Buarthdail, *sm.* land manured by folding herds and flocks on it.

Tir gwŷdd a fo *buarthdail* arnaw, pum mlynedd y dylir ei aredig.—*Buarthdail*, tair blynedd ei aredig. *Buarthdail* ni bo tir gwŷdd tair blynedd y dlyir ei aredig.
Leges Wallicae, II. xvii. 19, 20 (cf. C.C. i. 180).

Buarthfa, -oedd, *sf.* a folding-place.

Buarthfor, -oedd, *sm.* a bay or channel? The allusion in the subjoined quotation is to Carmarthen Bay.

Mae i Niclas, dan ei blas blawr,
Wŷdd a phorthfa dda ffrwythfawr;
Badau a aeth â phob da
O'r *buarthfor* i'r borthfa.—*L. G. Cothi*, IV. xviii. 17.

Buarthiad, -au, *sm.* a folding; a penning.

Buartho, } *v.* to confine in a fold, pen, or
Buarthu, } yard; to fold; to pen.

Sef ryw eydyo[n], eidyon a ddyly ar y *fuarthu* sef fydd hwnnw eydyon a ddyddyfner.—*Cyfreithiau Cymru*, ii. 594.

Peleidr ar ysgwydd
Ysgwyd yn llaw Godeu a Rheged yn ymddulliaw
Neu fi a weleis wr yn *buarthaw*.—*Taliesin:* M.A. i. 57.

Buarthu defaid, to fold sheep.

Yr arfer o *fuarthu* neu locio *defaid*, mor gyffredin yn Lloegr, a adwaenid gynt yng Nghymru.
Aneurin Owen: Amaeth. 22 (cf. 24).

Buarthog, *a.* enclosed in a fold; having folds or pens.

Buarthol, *a.* relating to a fold or pen.

Dyblethent flodau blithion . . .
Am gyrn teg ifyrn y gau
A *buarthol* aberthau.—*Nicander:* St. Paul, viii.

Bubannog, *sf.* [bu+pannog] cow's lungwort, bulloch's lungwort (*Verbascum thapsus*).

Buch, -od, *sf.* [C. *buch*, *bugh*; Br. *buch*, *buoch*, *bioch*; Ir. *bó*; L. *bos*, *vacca*; Gr. βοῦς] a cow.

Buch (*gl.* juvenca).—*Oxf. Gloss.* ii. 38 (Zeuss, G.C. 1055).

Buch neu ych ageiff y gan y teulu obop anreith.
Cyfreithiau Cymru, i. 362 (cf. 270, 272, 290, 368).

O derfydd i ddyn brynu *buch* y gan arall, a mach ar deithi y genti, a'i hymol yn y flwyddyn gyntaf, a bod llo a llaeth genti; cyd bo ryderig wedy hyny byth, ni ddyly y neb y doeth y gantaw deithi o hyny allan.
Leges Wallicae, v. iv. 12.

Buch pan yw bannawg
Gwraig pan yw serchawg.
Taliesin: M.A. i. 36 (cf. 29, 76, 132).

Rac llyngher: kymer laeth *buch* y bo llo gwrwf yn y sugnaw.—*Meddygon Myddfai*, i. 111.

Buch, *sm.* lowing or bellowing of cows.—*Gwent.*

Buch, *sf.* life; manner of life.

Y mynyd kyt at uo vch
Nyt eidigafaf ydwyn vym *buch*
Ys ysgawn gan rei vy ruch.
Llywarch Hen: A.B. ii. 286 (M.A. i. 111).

Ei unig ferch, enwog fodd,
Fachludodd o *fuch* wladol.—*Pedr Fardd:* Mêl Awen, 22.

Buchad, -au, *sm.* a lowing or bellowing.

Buchaidd, *a.* resembling a cow; relating to cattle.—*Davies*, s.v. 'Bucerius.'

Buchan, *sf.* a little cow.—*W.*

Buchdraeth, -au, *sf.* narrative of life; life; biography.

Buched, *v.* to low, to bellow.

Buchedd, -au, *sf.* [Br. *buchez*, *buhez*, *buez*] 1. life; life (in reference to conduct or morals); manner of living; condition of life.

Ef a allei wybot bot y *vuched* wedy teruynu.
St. Greal, § 220 (cf. 13, 255).

Pan deuthant er anreithwyr henny e foes Sampson archescob a seith escyb ygyt ac ef hyt en Llydaw. ac eno en enrydedus ed erbyniwyt hyt e dyd dywedaf oi *vuched*.
Brut Gr. ab Arthur: M.A. ii. 311 (cf. 287).

Yndaw ef *buched* oed. ar *vuched* oed leuuer yr dynyon. ar lleuuer a lewycha yn y tywylluc. ar tywylluc nys amgyffredant.—*Llyfr Gwyn Rhydderch*.

Lle byd *buched* heb angheu, a ieuengtit heb heneint.
Buchedd Beuno: C. B. Saints, 21.

Canys gwell yw dy drugaredd no *bucheddau*.
D. Ddu Hiraddug: M.A. i. 564.

Henaint oedranus yw *buchedd* ddihalog.
Doeth. iv. 9 (cf. Act. xxvi. 4).

Buchedd Duw, the life of God.—*Eph.* iv. 18.

Buchedd santaidd, holy life; holy living.

Ac uelly y bu y marchogyon hynny yn y *vuched santeid* honno yny vuant veirw.—*St. Greal*, § 255.

Dyma i tithau Ysgwîr neu Reol *Buchedd Sanctaidd*.
Elis Wynn: Rh. B. S., Rhag. 1.

Y pryd na lesâ dim ond *buchedd sanctaidd*.
Gr. Wynn: Ystyr. 102.

Buchedd dda, good life, living, or conduct.

Yna y gwr da a oed gyflawn o *vuched da*.—*St. Greal*, § 13.

Fel y dygont ynom ffrwyth *buchedd dda*.
Ll. G. Gyffredin (Cymmun).

Buchedd unig, a single life.

Y fuchedd farwol hon, this mortal life.

Dyro ras i nyni i ymwrthod â gweithredoedd y tywyllwch, ac i wisgo arfau y goleuni, yn awr yn amser *y fuchedd farwol hon* . . . fel y byddo i ni yn y dydd diweddaf . . . gyfodi i'r *fuchedd* anfarwol.—*Ll. G. Gyffredin* (1567—1840).

Buchedd dragywydd, } eternal or everlasting
Buchedd dragywyddol, } life.

Buchedd dragywydd a drig iddaw.
Gr. Ynad Coch: M.A. i. 396 (cf. 575).

Drwy gannhorthwy Beuno Sant, val y gallom nynheu gaffel, y gyt ac euo, *buchedd tragywyd*.
Buchedd Beuno: C. B. Saints, 21.

Yr hwn o'th iawn adnabod y mae'n *buchedd dragywydd* yn sefyll arno.—*Ll. G. Gyffredin* (B.W.).

Haua had *buchedd dragywyddol* yn eu meddyliau.
Ll. G. Gyffredin (1567—1840).

Pren y fuchedd (=pren y bywyd), the tree of life.

Ac yn y diwedh yr hwnn a vwytai o *brenn y vuchedh*. ny chleuychai vyth. ac ny bydhai varw vyth.
Lucidar, § 18 (cf. 19, 20).

A rhwydd dangnefedd drwy *bren y fuchedd*,
A rhan trugaredd o'th wledd, o'th wlad!
D. ab Gwilym, ccxlv. 173.

Llyfr y fuchedd (=llyfr y bywyd), the book of life.

Pa beth a dhywedir y lhyuræ a egoret. a *lhyuer y vuchedh*. a meirw a varnwyt drwy y petheu a oedhunt yscriuenedic.
Lucidar, § 121.

Ac a honno ydh inseilir calonneu fydhlonion Christ au henwau yn *lhyver y vuchedh*.—*Ymborth yr Enaid*, § 26.

2. life; a narrative of a person's life; biographical narration.

Dyma *fuchedd* Collen Sant, ab Gwynawg ab Caledawg.
Buchedd Collen (Y Greal, 337).

Bucheddau'r Apostolion a'r Efengylwyr, a gasglwyd allan o'r Ysgrythyr Lân, ac o Ysgrifenadau'r Athrawon goreu.
Ed. Samuel: Bucheddau'r Ap. a'r Ef. (Enw).

Buchedd y Tadau, the Lives of the Fathers (a book).

Ynn lyfyr aelwir *Byched y Tadeu* ymae ynn dangos ynn ysgrifenedic gymryd o vanach adneu y kadw.
Cyfreithiau Cymru, ii. 420.

Buchedd Beuno Sant. *Buchedd* Dewi Sant. *Buchedd* Catrin Santes. *Buchedd* Margret Santes.
C. B. Saints, 13, 102, 211, 219.

Buchedd Gruffydd ab Cynan, the Life of Gruffydd ab Cynan.—*Myv. Arch.* ii. 583.

3. life; living; means of subsistence; sustenance; livelihood.

Y mae yn dywedut trigyaw Ioseph yn y castell a vu eidaw brenhin Peleur. a chaeu y castell arnaw hyt na allei neb vynet attaw y mywn. heb *vuched* idaw onyt yr hynn a vynnei Duw y anuon idaw.—*St. Greal*, § 255.

Buchedda, *v.* to lead a life; to live.

Bucheddhau, *v.*=*Bucheddu*, *Bucheddocäu*.

O ddynion hon ail han, tra bychan ond
O rif, tra ar eu bryd y byddo braw
Am farn a fu, yn ofni Duw, a maint
O deimlad am yr iawn y *bucheddhânt*.
W. O. Pughe: C.G. xii. 14.

Bucheddiad, -au, *sm.* a leading a course of life; a living a course of life; a living.

Bucheddiaeth, -au, *sf.* the practice, doctrine, or system of the duties of life; morals; morality.

Bucheddiaeth a berthyn i fuchedd a dyledswydd pob dyn yn ei alwedigaeth. . . *Bucheddiaeth* a renir i rinweddawl, moesawl, teuluawl, a gwladawl. Rhinweddiaeth ydyw y rhan gyntaf o *fucheddiaeth*, yr hon a draetha rinweddau moesawl ymddygiad pob dyn yn ei alwedigaeth.
Dosparth y Saith Gelfyddyd.

Bucheddocâd, *sm.* a leading of a life; conduct.

Bucheddocäu, **Bucheddogi**, *v.* to live; to lead a life; to conduct one's self.

Os gwyrvawrockach marw en glotyawr no *buchedokau* en gywilydus anghlodvawr.
Brut Gr. ab Arthur: M.A. ii. 297 (cf. 570).

Ac uelly y *buchedockaawd* hi ymywn cret da yny bu varw.
St. Greal, § 250 (cf. 62, 213, 246).

Myvi ae gwn vy hun. a pha amkan y *vuchedoccaa* pawb ar y daear.—*Buchedd Mair*, § 26 (cf. 24, 29).

Drwy ein Harglwydd ni Iesu Grist dy fab di yr hwn a *fucheddoccaa* ac a wledycha gyda thi a'r Yspryd Glan yn dragywyddawl.—*Dafydd Ddu Hiraddug:* M.A. i. 567.

Bucheddog, *a.* leading a life.

Bucheddogaeth, -au, *sf.* the course of life; living; life.

Bucheddogi, *v.* to lead or live a life.

Bucheddol, *a.* relating to life; that regards one's course or mode of living; moral; practical.

Kyrchawd Crist Naf tros veich Adaf treis *vuchedawl*.
Gr. ab Meredydd: M.A. i. 467 (cf. 572).

Tri pheth a wnânt lwybrau doethineb yn ddirwystrau: meithriniad *bucheddawl* gan rieni; addysg ar ddeddfoldeb cyfiawn gan athrawon; ac ymgyfeillachu â doethion cynneddfawl yn unig.—*Trioedd Doethineb:* M.A. iii. 215.

Gwr bucheddol (*f.* gwraig fucheddol), a moral man; a devout man.

Ac ena er rodet en i le enteu en archescob Dewi. a *gwr buchedawl* esbrydawl dwywawl oed hwnnw.
Brut Gr. ab Arthur: M.A. ii. 325 (cf. 364).

A *gwŷr bucheddol* a ddygasant Stephan i'w gladdu.
Act. viii. 2 (cf. ii. 5).

Ymadroddion bucheddol, moral discourses; practical discourses.

Ymadroddion bucheddol yng nghylch Marwolaeth.
Th. Williams: Ymadr. Buch. (Enw).

Rheolau bucheddol, rules of practical life; practical or moral rules.

Gadëwch i ni eto gystadlu *rheolau bucheddol* pob un o'r ddwy grefydd.—*Edw. Samuel:* Grotius, vi. 8.

Gwybodau bucheddol, moral attainments; practical knowledge; knowledge of moral conduct.

Tri pheth anferth eu gweled: celfyddyd heb ddosparth gywair: teulu heb *wybodau bucheddawl;* a gwlad heb arferau daionus.—*Trioedd Doethineb:* M.A. iii. 269.

Bucheddoldeb, *sm.* practicalness; morality.

Tripheth y dylai bob dyn ochelyd eu gwneuthur . . . ai moes ai defawd, ai dysg ai celfyddyd, ai gwybodau doethineb a *bucheddoldeb*, neu beth arall bynnagryw y bo.
Barddas, i. 332.

Bucheddu, *v.* to lead or live a life; to live.

Ni wnaeth un o honynt bechawd cnawdol erioed . . . namyn *bucheddu* yn weryddon.—*Trioedd:* M.A. ii. 75.

Yn hwnw boed im' rodio fyth,
Bucheddu 'n ddilyth ynddo;
Holl blant ein byd, boent, er dy glod,
A'u brys am ddyfod iddo.
Iolo Morganwg: Salmau, i. lxxxiii. 4.

Bucheddwr, wyr, *sm.* a liver (with reference to conduct); a liver.

Bucheddwr da, a good liver; a moral man.

Bucheddwr drwg, a bad liver; an immoral man.

Buches, -au, *sf.* 1. [buch] a fold or enclosure into which cattle are brought for milking; a cow-pen, a cow-yard; a fold; a yard.

Mis Ionawr myglyd dyffryn,
Blin trulliad, treiglad clerddyn;
Cul bran, anaml llais gwenyn;
Gwag *buches*, diwres odyn.
Englynion y Misoedd: M.A. i. 14 (cf. 133).

A gwartheg res a *buchesau*.—*Gro. Owain*, 9.

O ddeutu hanner y nos, cefais fy neffroi gan swn anarferol yn y *fuches* oedd tu cefn i'm hystafell.
Cylchgrawn, i. 9.

Brenines y *buchesydd*
Yw Mwynen deg ym min dydd.
Rhys Jones: Gwaith, 145.

Buches ddefaid, a fold for milking sheep; a sheep-fold.

2. that which is contained in the milking fold; a herd.

Buches hardd o wartheg, a fine herd of cows.

3. (transf.) an enclosure; a court; a place of resort.

Buches beirddion [cf. *buarth beirdd*], a place frequented by bards; the resort of bards.

Eithid y espyd y esporthyon
Ymyw mynw aches *buches beirtyon*
Gortyfnws udut but a berthon.—*Cynddelw:* M.A. i. 220.

Buches cyrdd, the resort of songs; the hall of song.

Buarth llat llonyt o uragawd
Buches kyrt kertoryon wasgawd.
Cynddelw: M.A. i. 226 (cf. 236, 284).

Buchesa, *v.* to fold; to be in a fold or enclosure.

Ni fyn yr Arglwydd . . . i'w anwylyd ef yn oestadol fod megys lili ym mysg y drain, neu wenith ym mlhith ysgall; nac i'w ŵyn tirion gyd-*fuchesa* â draenogion.
Ch. Edwards: Han. y Ffydd, 327.

Bucheslawn, *a.* having a full fold; rich in cattle.

Bucheslawn arglwydd ni'n llwydd yn llaw
Buchedd dragywydd a drig iddaw.
Gr. Ynad Coch: M.A. i. 396.

Buchiad, -au, *sm.* [buch] a lowing, a bellowing.

Buchio, *v.* to low, to bellow; to cry.

Buchiol, *a.* lowing, bellowing.

Buchlys, *sm.* cow-plant (*Gymnema lactiferum*).

Buchwedd, -au, *sf.* life; manner or condition of life.

Er agheu hona a vyd budugolyaeth a *buchwed* i'r eneit.
Brut Gr. ab Arthur: M.A. ii. 305 (cf. 320).

Y mae hanes y Mediaid . . . wedi ei gorchuddio â thywyllwch; ac ychydig neu ddim a wyddir am danynt, nac am eu moesau a'u *buchwedd.*—*Th. Charles*, s.v. 'Mediaid.'

Buchweddocäu, *v.*=*Bucheddocäu.*

Gwedy darvot y Vrutus adeylat o dynas y dywedpwyt wuchot gossot kywdawtwyr a oruc yndaw. ar rody kyvreythyeu a breinhyeu udunt trwy yr rey y gellynt *buchwedokau* gan heduch a thagneved yndaw.
Brut Gr. ab Arthur: M.A. ii. 115.

Buchweddu, *v.*=*Bucheddu.*

A heny oll en *buchwedu* o lavur eu dwylaw.
Brut Gr. ab Arthur: M.A. ii. 364.

Buchweddwr, wyr, *sm.* a liver.

Buchwellt, *sm.* cow-grass (*Trifolium medium*).

Buchwydden, *pl.* buchwydd, *sf.* the cow-tree (of South America).

Y *fuchwydden*, neu bren y fuwch, sy bren llaeth-rodd a dyf yn y Caraccas, yn Neheubarth America.
Brython, iv. 198.

Buchydd, -au, *sm.*=*Buchedd.*

Llawen beird bedyd tra vo dy *uuchyd.*
Taliesin: A.B. ii. 184 (M.A. i. 55).

Budr, -on, *cp.* butred, -ach, -af, *a.* filthy, dirty; nasty; obscene; unclean; vile, mean.

Ar dannedd gwynnion fal hen ebillion
Yn escyrn llwydion *budron* budredd.
D. Ddu Hiraddug: M.A. i. 537 (cf. 536).

Megys ffynnon wedi ei chymmysg â gofer *budr.*
Diar. xxv. 26.

Y mae yn rhaid iddo ymogelyd rhag yr elw hwnw a'r a elwir yn gyfiawn yn *fudr* elw.—*Ier. Owen*, 106.

Iaith fudr, filthy or obscene language.

Bratiau budron, filthy rags.—*Esa.* lxiv. 6.

Dillad budron, filthy garments or clothes.—*Sech.* iii. 3, 4.

Ysprydion budron (=ysprydion aflan), unclean spirits.

Trwy awdurdod a meddiant y gorchymmyn ef yr *ysprydion budron*, ac wy ddânt allan.
W. Salesbury: Luc iv. 36 (cf. vi. 18).

¶ In Glamorgan, and in some parts of N.W., *budr* is frequently, but most improperly, used simply to enhance the force of an epithet, without regard to the signification of the word; as, *glân budr*, very beautiful; *da budr*, very good; *oer budr*, very cold. *Brych* and *ffiaidd* are in some districts similarly misemployed.

Budrad, -au, *sm.* a dirtying, soiling, or defiling; pollution.

Budraidd, *a.* rather dirty or filthy; soiling.

Budrchwil, **Budrchwilen,** } *pl.* budrchwilod, *sf.* a newt or eft: by some called *pwdrchwil* and *bwdrchwil.* Cf. *Brydychwil.*

Budredd, -au, -ion, *sm.* filthiness, dirtiness; nastiness; dirt.

Cynnyg ym *fudredd* riniawg drewedig.
Madog Dwygraig: M.A. i. 486.

Ti sy'n ymdrochi mewn bydolder,
Yn ffiaidd bryfyn dan bob rhith;
Gan ymdomenu dan dy falchder,
A'th holl *fudreddau* rif y gwlith.
Iolo Morganwg: Salmau, i. iii. 1.

Budreddair, eiriau, *sm.* an obscene word or expression.

Tri pheth anferth ar lafar gan westeiaeth: celwyddau; *budreddair;* a beiaw neu achwyn ar arall.
Trioedd Doethineb: M.A. iii. 282.

Budreddgar, *a.* fond of filth or dirt; dirty, filthy, nasty.

Aflan a swglyd a *budreddgar* oedd gwraig Eidwyll, ac annhrefnus ac annoeth ym mhen ei theulu.—*Iolo Mss.* 161.

Budreddi, *sm.* dirtiness, filthiness; filth, dirt; ribaldry.

Y byrddau oll sydd lawn o chwydfa a *budreddi*, heb le glân.—*Esa.* xxviii. 8 (cf. iv. 4; 1 Pedr iii. 21).

Na buasai bosibl iddo oddef blas ac archwaeth *budreddi* ei ymadroddion ei hun.—*Gro. Owain*, 273.

Clywaf fod gair wedi myned allan, yng Ngwynedd, fy mod i wedy bod â llaw yn y gwaith o ddwyn i mewn i'r iaith y *budreddi* hwn.
Iolo Morganwg: Salmau, i. Rhag. 9.

Budreddiad, -au, *sm.* a making filthy; defilement.

Budreddu, *v.* to make dirty or filthy; to defile or pollute.

Hyn a ä y mewn i'r geneu nis haloga [* *budredda*] ddyn.
W. Salesbury: Matt. xv. 11.

Budreddus, *a.* filthy, dirty; full of dirt or filth.

Tri pheth a lanwant wagder: dadwrdd anghall ym mhen gwag; chwerthin anghall o galon wag; a llaid *budreddus* mewn ffynnon wag.—*Trioedd Doethineb:* M.A. iii. 212.

Budreiriad, -au, *sm.* obscene language, obcenity, ribaldry.

Budreiriog, *a.* abounding with obscene words or expressions; full of ribaldry; obscene, ribald.

Budrelw, -on, *sm.* filthy lucre; sordid, base, or vile gain.

Y rhai sydd yn dymchwelyd tai cyfain, gan athrawiaethu y pethau ni ddylid, er mwyn *budr-elw.*
Titus i. 11 (cf. 1 Pedr v. 2).

Budrelwa, *v.* to get filthy lucre.

Nid yn ddaueiriog, nid yn ymroi i win lawer, nid yn *budr-elwa.*—1 *Tim.* iii. 8 (cf. 3; Titus i. 7).

Budrelwant, *sm.* ill-gotten wealth, sordid gain.

Budrelwr, wyr, *sm.* one given to filthy lucre or base gain.

Dir yw i episcop fod yn ddiargywedd . . . nid yn gyrrith, nid yn ddigllon, nid yn gorhoffi gwin, nid tarawgar, nid *budr-elw-wr.*—*W. Salesbury:* Titus i. 7.

Budren, -od, *sf.* a dirty woman, a slut.

Budrhâd, *sm.* a making filthy; pollution, defilement.

Budrhaol, *a.* tending to soil, pollute, or defile.

Budrhau, *v.* to make dirty; to defile or pollute.

Trwy lythineb y *buttreir* ag gwlychir.—*Pwyll y Pader*, § 3.

Budrhäwr, hawyr, *sm.* one who soils; a defiler or polluter.

Budriaith, *sf.* foul, obscene, or filthy language.

Cyfraith *fudriaith* a fedrai,
Coeg rüwr bas, torwr tai.—*D. ab Gwilym*, ccxxx. 19.

Budrni, *sm.*=*Budredd, Budreddi.*

Ond mae ei *fudrni*'n y fath radd aflawen.
Iago Emlyn: Gweith. i. 135.

Budro, *vn.* 1. to become dirty, filthy, soiled, or turbid.

Ac yna y *budrawdd* Hafren o'i blaen tua ei haber.
Trioedd: M.A. ii. 16 (cf. iii. 166).

2. *va.* to make dirty; to soil; to make turbid.

Budrocäu, *v.* to make dirty; to soil.

Budrog, *a.* full of dirt or filth; soiled, polluted; filthy.

Budrog, -od, *sf.* a filthy or dirty one; a slut, a slattern; a meretricious woman; a drab, a prostitute.

Budrog ddienwog ddyn-waedd,
Benfras, anghyweithas waedd!
Dafydd ab Gwilym, clxxxiv. 23.

O byddai wr wedi priodi gwraig gyfoethog, brydweddol . . . a'i rwydo cyn belled, o gariad rhyw gardotes ddiffaith anhonest, a fai forwyn waith yn ei dŷ ef, ac y gwrthodai gwmpeini a chyfeillach ei wraig er ei mwyn hi, ac y treuliai ei amser yn cellwair ac yn cymmŵedd a'r *fudrog* honno.
Dr. J. Davies: Llyfr y Res. II. i. 22.

Carn-buteiniaid, a fu yn cadw mân *fudrogod* tanynt, i i gael gwerthu yr un morwyndod ganwaith.
Elis Wynn: Bardd Cwsg, 81 (cf. 101).

Na son am fursenod, na drygau *budrogod;*
O wrando cymhendod coegenod cei gas.
Edw. Richard: Bugeilgerdd, ii. 8.

O'r fudrog front! Oh, you filthy drab!

Budrogod bryntion, filthy meretricious ones.

Budrogaeth, -au, *sf.* dirtiness, filthiness; slatternliness, sluttishness; filth.

Tri nod budrog o gwbl: bod yn ddigywilydd yn ei *budrogaeth;* bod yn haerllyd yn ei amddiffyn; ac eiste yn esmwyth yn ei ganol.—*Trioedd Doethineb:* M.A. iii. 240.

Budrogaidd, *a.* sluttish; meretricious; loose; debauched.

Budrogen, -od, *sf.* a slut or slattern; a meretricious one; a loose woman, a drab.

Budrogi, *v.* to make filthy or dirty; to become filthy or polluted.

Budroglyd, *c.* } *a.* sluttish, slovenly; dirty,
Budrogled, *f.* } filthy.

Tair merch gocheler eu priodi: merch bengoch; merch chwedleugar; a merch *fudrogled.*
Trioedd Doethineb: M.A. iii. 263.

Budrol, *a.* tending to dirty or soil; soiling; polluting.

Budrwch, *sm.* dirtiness, filthiness, foulness; filth.

Dewis y brain hyn yn gyffredin lwyn o goed uchel i adeiladu eu nythod arnynt; ond och o'r swn a'r *budrwch* a wnânt!—*Gwyliedydd*, vii. 41.

Budy, dai, dyau, *sm.* See *Beudy* and its derivation. *Budy* (bu+tŷ) is an etymological spelling, and does not represent the pronunciation (*beudy*).

Budd, -iau, -ion, *sm.* [Br. *bud;* Ir. *bóid, buáidh*] benefit, advantage, profit, gain; interest.

Gwr y uodrwy hon nyt oed vynych ytt gaffel *bud.*
Mabinogion, ii. 216.

Ni bydd *budd* o ychydig.—*Diareb.* (M.A. iii. 166.)

Hyd hyn y dysgasom y *budd* ysprydawl sydd yn dyfod o adfyd, drwy bwy un y cynnysgaeddir ac yr addurnir enaid dyn â doethineb a phob rhinwedd: yr awr hon gedwch weled pa *fuddiau* bydol sydd yn fynych yn cydgymdeithas ac yn calyn adfyd a gorthrymder.
Huw Lewys: Perl mewn Adfyd, 117 (cf. 128).

Pa *fudd* sydd i ddyn o'i holl lafur a gymmer efe dan yr haul?—*Preg.* i. 3 (cf. iii. 9; v. 16).

Er budd ysgolion Sul, for the benefit or use of Sunday schools.

Buddai, eiau, *sf.* [=Ir. *muidhe;* L.L. *modius?* Cf. W. *myddi*] a churn.

Gorpwyfy kyn bwyf bet *butei* newyt
Tir Tegygyl teccaf yny eluyt.
Hywel ab Owain Gwynedd: M.A. i. 277.

Budey due keynnyauc.
Cyfreithiau Cymru, i. 296 (cf. 582, 722).

Buddai gorddi, a churning vessel, a churn.—*C.S.*

Buddai, eiod, *sf.* [L. *butio*] the bittern. The Lat. *butio* seems to be represented in Welsh by *buddai*, and *buteo* by *bod* (q.v.). Cf. *Bod y Fuddai*, in Merioneth, and *Rhyd y Fuddai*, in Cardiganshire, with *Rhyd y Bod*, near Bala in the former county. Near the latter place is a tenement called *Cnwc y Barcut.*

Buddain, *a.* advantageous, benefiting.—*P.*

Buddaint, *sm.* advantage, benefit, gain.

Buddeilw, -ydd, *sm.* [bu+dal]=*Buddelw.*—*P.*

Buddel, } *pl.* buddelwydd, *sm.* [bu+dal] a cow-
Buddal, } post; a post.

Buddelw, -ydd, *sm.* [bu+dal] 1. a cow-post; one of the posts in a cowhouse to which the cattle are tied.

O deruyd bod amresson er am eredyc y rwng deu gyuarwr ar neyll en mennu eredyc empell ar llall en acos nyny adeuedun nadeleant venet namyn val y kallont er ecchen keraydu eu *budelu* ac eu gued en guan val en kadarn en ekamud ehun.—*Cyfreithiau Cymru*, i. 318.

Byddawd gwaeth *buddelw* no chrwyn.
Myrddin: M.A. i. 133.

Addoed gynfyl chwyl chwaledig
Y bydd *buddelw* tan cyllestrig.
Hywel Ystoryn: M.A. i. 518.

Buddelwydd, cow-posts.

2. a post, a rail.

Buddelwydd allor, altar railing.

Mainc wrth *fuddelwydd yr allor* o'r tu deheu oddi allan, ar yr hon y penlinia breninoedd Prydain Fawr wrth eu coroni.—*Walters*, s.v. 'Faldstool.'

Buddfawr, *a.* of great benefit, profit, or advantage; highly advantageous or profitable; gainful, beneficial, advantageous, profitable.

Gwerthefin ddar trugaredd
Gwyrth fawr Ior *buddfawr* o'r bedd.
Gr. ab Meredydd: M.A. i. 459 (cf. 296, 365, 369).

Afallen beren bren addfeinus
Gwasgadfod glodfawr *buddfawr* brydus.
Myrddin: M.A. i. 151.

Nhwy . . . a ymroddant i ddysgu pethau ysprydol, *buddfawr* i'r enaid.—*Dr. Gr. Roberts:* Athr. Grist., Rhag. 4.

Buddfawredd, *sm.* advantageousness.

Och wael drymglwyf rhwyf rhodiad *buddfawredd*
Byddaf farw am danad.—*Gr. ab Meredydd:* M.A. i. 442.

Buddgar, *a.* gain-seeking, gain-loving.

Bu'n hir y gauaf maith, nos tywyll ar bob tir;
Ffug *buddgar* ar ei waith am ddiffodd goleu'r gwir.
Iolo Morganwg: Salmau, II. cxciv. 2.

Buddged, -ion, -au, *sf.* a liberal gift; a benefit.

Buddged, *a.* liberal in gifts; liberal, generous.

Deuwell y rhed (*buddged* bor,
Diwyd wyf) dy wawd, Ifor.—*D. ab Gwilym*, vi. 3.

Buddiant, iannau, *sm.* advantage, benefit, profit, gain; interest.

Dyar gardei bun *buddiant* buch anhun.
Taliesin: M.A. i. 29 (cf. 34).

Modur rhwydd rhydd *buddiant* bydiant pobloedd,
Budd byddinoedd, torfoedd terfysg.—*Einion Offeiriad.*

Y fath ydyw y *buddiant* ag sydd eisoes wedi deilliaw o wellâd y gelfyddyd feddygol.—*Cylchgrawn*, i. 23.

Buddig, *a.* [budd] giving advantage; advantageous; lucrative, profitable; beneficial; victorious.

Caraf vy *vudic* lleithic a vu anaw
Kyndilic Aeron kenhan lew.—*Aneurin:* Gododin, 760.

A gwedlin ar eu grut
Grut *vutic* wledic wlad ohen.
Cynddelw: M.A. i. 258 (cf. 31).

Buddio, *v.* to be advantageous, beneficial, or profitable; to benefit, to profit, to gain; to avail; to be serviceable.

Nym *byd* bun nym beidd dyn dyhuded.
Gwalchmai: M.A. i. 201.

Aeg lad i'r llygad o'r llaw,
I'r un byddar yn *buddiaw.*—*Dewi Wyn:* Blod. Arf. 31.

Ni fuddia iddo, it will not avail him; he will not benefit or profit by it.

Buddiog, *a.* advantageous, beneficial, profitable, gainful; useful.

Hon [ffraethineb] . . . yn y lân eglwys sy nerthawg, yn y llys sydd orfyddawg, ym mhob cyflwr sy *fuddiawg*, yn dwyn lles i laweroedd, heb waethygu na drygu ar nebun.
H. Perri: Egl. Ffr., Rhag. 7.

Buddiol, *a.* beneficial, advantageous, profitable, gainful; useful; expedient; conducive; serviceable.

I ychydig y mae ymarfer corfforol yn *fuddiol:* eithr duwioldeb sydd *fuddiol* i bob peth.
1 *Tim.* iv. 8 (cf. 2 Tim. iii. 16).

Gwybodaeth fuddiol, useful knowledge.

Buddioldeb, **Buddiolder,** **Buddiolrwydd,** *sm.* profitableness, advantageousness, beneficialness, gainfulness; usefulness; profit; advantage; expedience.

Buddiolfawr, *a.* highly advantageous; very useful.

Gwr cywrein-dyb, bywiog-ddawn, oedd Llywelyn Sion; a dibaid ei ymegnïaeth, a *buddiolfawr* ei lafur, parth llenoriaeth.—*Cyfrinach y Beirdd*, Rhagdd. 12.

Buddioli, *v.* to make profitable, beneficial, or useful; to utilise.

Buddlawn, *a.* full of benefit; beneficial.

Bodlyv croyw heilhoyw haelhard
Budlawn oe vawrdawn y vard.—*Casnodyn:* M.A. i. 423.

Buddred, -ion, *sf.* advantage, profit, benefit; use.

Buddug, *sf.* [budd] 1. the form given as the Welsh equivalent of the classical *Bodicea*, *Boudicea*, *Bouducea*, *Boadicea*, or *Boadica*), the name or epithet of the celebrated queen of the Iceni in the first century. In our day it is sometimes used as a translation of (Queen) *Victoria*.

Ac ar hyny *Buddug*, gwraig Brasydog, cadbenwraig llu y Brytaniaid . . . a areithiodd hithau.
Theo. Evans: D.P.O. i. 2 (51).

A Mon dan wastraff min dinystrwyr,
Tarawai *Buddug* etwa'r baeddwyr.
Dewi Wyn: Blodau Arfon, 22.

Sometimes written *Buddig*.

Gelwir hi hefyd Boadicea a Voadica, ac yn y Groeg Boundouica; eithr y Cymry a'i galwant *Buddig*.
Carnhuanawc: Hanes Cymru, 83.

2. Victory (personified); the goddess of victory.

Tan Picton y syrthiai ei farch ar ol march,
A *Buddug* a wylai dros dynged y gwron.
Tegid (C.Q.M. iv. 446).

Buddug, *a.* victorious; triumphant.

Cennin i'w fyddin *fuddug*
Nodai i'w dwyn, a da'u dug.—*Gronwy Owain*, 71.

Nid ofnaf Rufain na'i dur lengau *buddug*,
Na'i chledd na'i bwa, na'i bygythion haerllug.
Nicander: Brennus, ii.

Budduges, -au, *sf.* a victress, a conqueress.

Buddugfalch, feilchion, *a.* victoriously or triumphantly proud.

Detholwalch *buddugfalch* byddin
Llywelyn llyerw freyenhin.—*Elidir Sais:* M.A. i. 345.

Buddugo, *v.* to get, obtain, or win the victory; to gain advantage; to triumph.

Buddugo ar, to obtain the victory over; to triumph over.

Buddugwyd ar Ammon, ennillwyd y dydd,
Er gwaedu merch Iephtha mae Israel yn rhydd.
D. Silvan Evans.

Buddugol, *a.* 1. victorious; triumphant.

Budicaul (*gl.* victo).—*Oxf. Gloss*, ii. 39 (Zeuss, G.C. 1058).

Budugawl yw Bedwyr. kynny wypo y gerd honno.
Mabinogion, ii. 230.

Sef a oruc Gereint o hynny allan caru carw twrneineint a chyfrangeu calet. a *budugawl* y deuei ef o bop un.
Mabinogion, ii. 28 (cf. 213).

Bun ry haerllug *fuddugawl.*—*D. ab Gwilym*, ccxiv. 11.

Hwy a weithiasant felly ar wŷr Gruff[udd], tywysog Gwynedd, fal y lladdasant hwy ef; a gwedi colli'r tywysog y buant yn hawdd *fuddugawl* ar wŷr Gwynedd. . . A hyny a gawsant gan Wrgan ab Ithel, a'i fab Iestyn, arlwyddi Morganwg, a buant *fuddugawl.*—*Iolo Mss.* 21.

2. victorious or successful (in a competition).

Cerdd fuddugol, a successful or victorious poem (in a competition); a prize poem.

Cawsom 'fugeilgerdd *fuddugol;*' ond yn sicr ddigon nid ydyw yn meddu ond pur ychydig o anhebgorion y fath gân.
Brython, iii. 96.

Traethawd buddugol, a prize essay.

Buddugol, -ion, *sm.* a victorious one, a victor; a conqueror.

Pan wnel *butugawl* beteu ir uoch uoch
Bytyn droch a drychir.—*Cynddelw:* M.A. i. 260.

Kyn amlet oed y gwaet yna. ac y gallei y *budugolyon* nouyaw yndaw hyt eu mynygleu.
Yst. de Carolo Magno, col. 397 (cf. 404).

A dwy gadeir a ossodes y *vudugolyon* yr amryssoneu.
Brut y Tywysogion, 228.

Buddugoldeb, *sm.* victoriousness.

Buddugoliaeth, -au, *sf.* victory; conquest; triumph.

A gwedy bot pop peth yn parawt kychwyn a oruc Llyr a Chordeylla y verch y gyt ac ef ar llu hwnnw kanthynt hyt pan deuthant hyt yn Ynys Prydeyn. Ac yn diannot ymlad yn erbyn y dofyon a oruc a chaffael y *wudugolyaeth.*
Brut Gr. ab Arthur: M.A. ii. 134.

Ac yna ydymchoelawd Maredud a meibion Kadwgawn adref, heb lyuassu goresgyn y wlat rac y Ffreinc kyt keffynt y *vudugolyaeth.* . . Y vlwydyn rac wyneb y bu uarw Mwrcherdarch, y brenhin pennaf o Iwerdon yn gyflawn o luossogrwyd a *budugolyaetheu.*
Brut y Tywysogion, 144 (cf. 160).

Ar dygheduen a welas damwheinaw y *uudugolyaeth* y Lud.
Mabinogion, iii. 304.

A Chymru o'i ddeutu ddaeth
I gael y *fuddugoliaeth.*—*Gronwy Owain*, 72.

Buddugoliaethog, *a.* flushed with victory; victorious.

Buddugoliaethol, **Buddugoliaethus,** *a.* victorious; conquering, vanquishing; triumphant.

Tramwyodd y wlad gyda rhwysg *buddugoliaethawl.*
Carnhuanawc: Han. Cym. 742.

Edrychwn yn awr arno yn dychwelyd yn *fuddugoliaethus* o yspeilio'r gelynion.—*Nicander:* Dysga Fyw, 396.

Yr Eglwys fuddugoliaethus, the Church triumphant.

Buddugoliaethu, *v.* to obtain victory; to be victorious; to triumph.

Buddugoliaethu ar, to be victorious over; to triumph over or on; to conquer.

Buddugoliaethaf ar Philistia.
Salm. cviii. 9 (cf. Esth. ix. 1).

Buddugoliaethwr, wyr, *sm.* a victor; a conqueror.

Pan ddaeth i'r lan, bu yn hir yn prynu y caethion oddi ar y *buddugoliaethwyr.*—*Cawrdaf:* Meudwy, 228.

Buddugre, *sm.* 'the impeller, or hastener to victory; the demon of war.' Such is the explanation given by Pughe, who, in illustration, quotes the following couplet from a poem ascribed to Taliesin (*M.A.* i. 169):

Tra vu *vuddugre* vore ddugrawr
Chwedleu am gwyddir o wir hyd lawr;

but the word is a proper name, and does not appear to be ever used as an appellative, being probably a phonetic modification of *Buddugfre* (buddug+bre), or hill of victory. More than one place in the Principality bear the name. One of them, and perhaps the best known, is the Radnorshire *Buddugre*, a mountain range in the hundred of Maelienydd, of which one of the comots is designated *Swydd Fuddugre* (see 'Parthau Cymru' in *M.A.* ii. 608); near the southern end of the range is a tumulus called *Tomen Buddugre;* and at the foot of it, in the same direction, lies *Buddugre* farm.

The Merionethshire *Buddugre* is between Barmouth and Dolgellau. *Buddugre* (locally pronounced *Boddigre*) gives name to two of the townships in the parish of Llanarmon yn Ial, Denbighshire, which are called respectively *Buddugre yr Iarll* and *Buddugre yr Abad.*

The name is found, among those of several well-known localities, in one of the poems of Cynddelw:

Rhan Llywelyn llyw aere
Or Rug hyd ym *Mudugwre*
Llawer marchog march dyre
Lliaws gwas ar hyd glasfre.—*Myv. Arch.* i. 212.

And Llywarch ab Llywelyn, in a poem addressed to Prince Gruffydd ab Cynan, mentions '*Buddugre lys,*' or llys Buddugre:

Ef ae dwc oy dec werydre
Ef kymer hyder hyt *Uudugre lys*
Ef dengys emys amyl eu gorne.—*Myv. Arch.* i. 288.

Bach Buddugre, a name assumed by or given to *Cyrys o Ial,* an early collector of Welsh Proverbs (*M.A.* iii. 145), was probably derived from Buddugre in Denbighshire.

The *Buddugre* of the 'Gododin' appears to be quite a different place from those already mentioned.

Ermygei rac vre rac bronn *Budugre.*—*Gododin,* 566.

Buddugwr, wyr, *sm.* a victor; a conqueror.

Gyfeillion! y *buddugwyr* beilchion hyn
Pa liam na ddônt ym mlaen?
I. D. Ffraid: Coll Gwynfa, vi. 707.

Bueilgyrn, *s.* pl. of *bualgorn,* q.v.

Buel, -oedd, *sf.* [bu] a herd of cattle; a herd.

Ac yn y *fuel* honno ugain mil ac un yn wartheg blithion.
Trioedd: M.A. ii. 70.

Buelin, *a.* [bual] belonging to a buffalo; made of a buffalo horn: bugle-.

Anoeth byd brawd bu yn [*al.* buyn] cynnull
Am gyrn *buelin* am drull . . .
Am gyrn *buelyn* amwys.—*Llywarch Hen:* M.A. i. 105.

Hirlas *buelin* breint uchel hen ariant.
Owain Cyfeiliog: M.A. i. 266.

Corn buelin, a buffalo horn; a bugle-horn.

Tri *chorn buelin* y brenhin punt a tal pob un o honunt: corn kyfedach; a chorn kyweithas; a chorn hely yn llaw y penkynyd.—*Cyfreithiau Cymru,* i. 780 (cf. 76, 294, 436).

Dywallaw di venestr vet hidlaid melus
Ergyrwayw gwrys gochwys yn rheid
O *gyrn buelin* balch oreureid.
Owain Cyfeiliog: M.A. i. 266.

Buelin, -au, *sm.* a drinking-cup made of buffalo horn; a drinking-horn; a bugle-horn.

O ved o *vuelin* o Gatraeth werin
Mi na vi Aneurin ys gwyr Talyessin.
Aneurin: Gododin, 443.

Gwirawd Ywein draw dra Digoll Uynyt
Mor vynych y haruoll
O win kyuyrgein nyd kyuyrgoll
O vet o *vuelin* oll.
Cynddelw: M.A. i. 234 (cf. 211, 213, 226).

Ar het ar dyhet ar deheu ri
Yr yueis y win o valch *uuelin.*
Llywarch ab Llywelyn: M.A. i. 303.

Gnawd yr yfawdd glyw gloyw win o fual
O fuarth *buelin.*—*Elidir Sais,* i. 345 (cf. 478, 576).

Buelith, *sm.* [buel+llith]=*Bulith, Biwlith.*—*H. Davies:* Welsh Bot. 60, 161.

Buelu, *v.* [buel] to tend a herd or herds of cattle; to herd.—*Myv. Arch.* ii. 70.

Buelydd, -ion, *sm.* [buel] a herdsman, a keeper of herds, a neatherd.

Tri *buelydd* gosgordd Ynys Prydain: Bennren *Fuelydd* yng Ngorwennydd, a gedwis fuel Caradawc ab Brân a'i osgordd; ac yn y fuel honno ugain mil ac un yn wartheg blithion; ail, Gwydion fab Don a gedwis wartheg gosgordd Gwynedd uch Conwy, ac yn y fuel honno ugain mil ac ûn; trydydd, Llawfrodedd Farfawc a fuelis wartheg Nudd Hael fab Senyllt, ac yn y fuel honno ugain mil ac un yn wartheg blithion.—*Trioedd:* M.A. ii. 70.

Buelyn, *sm.* a castrated bull; 'and in some places it is a bull.'—*P.*

Buelyn, *a.*=*Buelin,* of which it is simply an orthographical variant.

Ac or parth arall y kyuodes Bedwyr a mil ygyt ac ynteu yn adurnedic o amryual wiscoed y wasnaethu or vedgell trw amryualyon lestri gorulycheu a fioleu eureit ac aryant a chyrn *buelyn* goreureit y wallaw amryualyon wirodeu.
Brut Gr. ab Arthur (B): M.A. ii. 324.

Buelyn, -au, *sm.*=*Buelin.*

Bod am rod am rwyd galennig
Buelyn am win am wenyg o fed
Feirdd orsed wersyllig.—*Cynddelw:* M.A. i. 208.

Ay corn adely uod en *bueylyn* ay guerth eu punt.
Cyfreithiau Cymru, i. 36.

Bufeddyg, -on, *sm.* [bu+meddyg] a cow-leech, a cattle doctor.

Bufrech, *sf.* [bu+brech] cow-pox.

Bufrechu, *v.* to vaccinate.

Bufflaid, *s.pl.* [E. and Fr. *buffle*] buffles, buffaloes.

Y pedwar onadunt a arwedant coroneu eur. y chwech ereill a ymchoelir yn kyrn *buffleit.* y rei y gyffroant teir ynys Prydein oc eu hyscymyn sein.
Brut Gr. ab Arthur (B): M.A. ii. 264.

Bugad, -au, *sm.* [bu+cad] 1. the fighting of cattle, a cattle-fight.

2. the lowing or bellowing of cattle in fighting.

3. a confused noise or bustle; a babbling or prattling noise; the bustling or hurrying of men; a noisy confusion.

Ban fu fwya' caethfa cad,
Bygwth Saeson a'u *bugad.*—*Madog ab Gronwy Gethin.*

Bugadu, **Bugad,** *v.* to bellow (as cattle in fighting); to make a confused noise; to vociferate; to vaunt or brag.

Bugail, geiliaid, geilydd, *sm.* [bu + cail: C. *bugel, begel, bigel, bygel;* Ir. *bochaill;* Gr. βουκόλος] 1. a herdsman; one who looks after herds or flocks; a shepherd.

Wythuet eu *bukeyl* trefkort.—*Cyfreithiau Cymru*, i. 110.

Tri gweithret yssyd ar brawf: . . . gweithret llwdyn yn llad y llall yggwyd *bugeil* trefgord tystolyaeth y *bugeil* yn wybydyat a seif am hynny.
Cyfreithiau Cymru, i. 458 (cf. 272).

Am Olwen ail byddwn *fugail*.
Rh. Goch ab Rhicert: Iolo Mss. 235.

Cynhen hefyd oedd rhwng *bugeilydd* anifeiliaid Abram a *bugeilydd* anifeiliaid Lot. . . Ac Abram a ddywedodd wrth Lot, Na fydded cynhen, atolwg, rhyngof fi a thi, na rhwng fy *mugeiliaid* i a'th *fugeiliaid* di.—*Gen.* xiii. 7, 8.

Cyfaill blaidd, *bugail* diog.—*Diareb.* (M.A. iii. 152.)

Bugail gwartheg, a herdsman, a neatherd, a cowherd; one who tends cattle.

Bugail defaid (*pl.* bugeiliaid defaid), a shepherd, a keeper of sheep.

Yn y dydyeu hynny ydoed gwr yn yr Israel. Ioachym y enw. o lwyth Iuda. a hwnnw *bugeil deueit* oed.
Buchedd Mair, § 2.

Bugeiliaid defaid yw dy weision, nyni a'n tadau hefyd.
Gen. xlvii. 3 (cf. iv. 2; xlvi. 34).

Bugail geifr (*pl.* bugeiliaid geifr), a goatherd.

Bugail moch, a swineherd, a keeper of swine or pigs.

Bugail brain, a person employed to scare away crows (from corn-fields, &c.).

2. (transf.) a shepherd, a pastor.

Kadarn *bugeil* Crist nid adweil y teilygdaud.
Myv. Arch. i. 576.

Yn awr chwi a ddychwelwyd at *Fugail* ac Esgob eich eneidiau.—1 *Pedr* ii. 25 (cf. v. 4; Heb. xiii. 20).

Bugail eglwys, the pastor of a church.

Ai llai perygl y bobl a ymadawant â'u heglwys eu hun, ac a ymwrthodant â'u *bugail?*
Moses Wiliams: Llawlyfr, 13.

Pei gwyddit ti ragor na *bugail* Llangoedmor.
Edw. Richard: Bugeilgerdd, ii. 21 (cf. 37).

Bugeila, **Bugeilio,** *v.* to tend herds or flocks; to act as a shepherd or herdsman; to watch over; to look after; to take care or charge of; to guard; to attend.

Bugeilia ni yn wastad
Rhag pob tramgwydd ddygwyddiad.—*H. D. ab Ieuan.*

Mynega i mi . . . pa le yr wyt yn *bugeilio.*—*Can. Sal.* i. 7.

Y sawl a arferynt o amgyrchu i'r moelydd a'r banau hyny er mwyn *bugeila.*—*Dr. I. D. Rhys:* Gram., Rhag. 8.

Bugeila defaid, *Bugeilio defaid,* to tend sheep; to look after sheep.

Dywedodd yntau wrtho, *Bugeilia* fy *nefaid.*—*Ioan* xxi. 16.

Bugeila gwartheg, to tend or feed cattle; to look after cattle.

Bugeila moch, to look after pigs; to tend swine.

Bugeila brain, to watch crows; to scare crows away.

Bugeila cwn, to look after dogs; to watch dogs.

Bugeila plant, to look after children; to take care or charge of children.

Bugeilio eglwys, to act as pastor or minister of a church; to feed a church.—*Act.* xx. 28.

Bugeilio pobl, to be shepherd of people; to rule people (as a shepherd does his flock).—*Matt.* ii. 27; *Dad.* vii. 17.

Bugeilio â gwialen haiarn, to rule with a rod of iron.—*Dad.* ii. 27; xii. 5; xix. 15.

Dyn wrth ei fugeila yw, he is a man that requires looking after or watching; he is a suspicious character.—*Dyfed.*

Bugeilad, **Bugeiliad,** -au, *sm.* a tending of flocks or herds; a looking after.

Bugeilaidd, **Bugeiliaidd,** *a.* pastoral; resembling a shepherd; shepherdish, shepherdly.

Holl boblogaeth y rhanau mynyddig o'r wlad a arweiniant fywyd *bugeilaidd.*—*Cylchgrawn*, i. 223.

Prydyddiaeth fugeilaidd, pastoral poetry.

Cân fugeilaidd, *Cerdd fugeilaidd,* a pastoral poem, a bucolic, an eclogue.—*W.*

Bugeildy, dai, *sm.* a shepherd's cot or hut.—*W.*

Bugeilddyn, -ion, *sm.* one that is a shepherd; a shepherd or herdsman.

Er bod ambell fwthyn ar fynydd y brenin
I dderbyn *bugeilddyn* o'r drycin ar dro.
Edw. Richard: Bugeilgerdd, ii. 24 (cf. 16).

Bugeileg, -ion, *sf.* a bucolic, pastoral, or eclogue.

Annichon i ddarllenydd y prophwyd Esaiah ddarllen y bedwaredd *fugeileg* i Virgil heb sylwi o reidrwydd ar y tebygoldeb tra hynodol a hanfoda llawer meddylrith o'r eiddo bardd Mantua i syniadau arddunol ei ragflaenor.
Blodau Ieuainc, 130 (cf. 1).

Yn hyn o beth y mae'r delyneg a'r *fugeileg* yn geraint agos i'w gilydd. . . Y bardd hwn [Theocritus] a ystyrir yn brif-fardd pencerddol yn nosparth y bugeilgerddi. Virgil, drachefn, a ganodd *fugeilegion* melusber a thra barddonol.—*Brython*, iii. 95 (cf. 94, 95).

Bugeiles, **Bugeilies,** -au, *sf.* a shepherdess.

Hyd y llawr, dirfawr derfyn,
Haul a ddaw mal hoew-liw ddyn,
Yn deg o fewn corff y dydd,
Bugeiles wybr bwygilydd.—*D. ab Gwilym*, lxii. 27.

Bugeilfa, -oedd, fëydd, *sf.* 1. a herd.

Y mae'r wlad hon yn llawn o ffynnonau peraidd, a phorfëydd hyfryd, ym mha rai y pesgant laweroedd o ddiadellau o ddefaid, a *bugeilfa* o dda a gwartheg.
W. Lewes: Dwy Daith, 58.

2. a place for grazing herds or flocks; pasture; a place for shepherds.

Ac ambell ffrydig swnllyd draw ac yma,
A brwynog weunydd yn ddifai *bugeilfa.*
O. Wynn Jones: Myrddin Wyllt, xi.

Bugeilfardd, feirdd, *sm.* a pastoral poet.

Bugeilffon, ffyn, *sf.* a shepherd's staff or crook; a pastoral staff.

Esgob St. Asaph a ddisgynodd oddi ar ei geffyl, ac a osododd ei feitr ar ei ben, ac a ymaflodd yn ei *fugeilffon*, gyda bwriad i ysgymmuno Giraldus.
D. Peter: Hanes Crefydd, 301.

Y Groes ydyw arwyddlun y ffydd sydd yng Nghrist Iesu, sel y cyfammod tragwyddol, *bugeilffon* dysgyblaeth defaid Crist.—*Haul*, 2 C.C. iii. 336.

Bugeilgan, -au, **Bugeilgerdd,** -i, -au, *sf.* a pastoral poem, a bucolic, an eclogue, a pastoral.

Bugeilgerdd, sef Ymddiddan rhwng dau Fugail, Gruffudd a Meurig, bob yn ail bennill.
Edw. Richard: Bugeilgerdd, i.

Y mae *Bugeilgerdd* Mr. Richards o Ystrad Meurig wedi ei hanafu gan yr argraffydd; a gresyn oedd, o herwydd gwaith godidog ydyw ar y mydr hwnw.
I. B. Hir: Gwaith, 210.

Argraffwyd *Bugeilgerdd* gyntaf Edward Richard y tro cyntaf yn Amseroni Gwilym Hywel am y fl. 1767.—*D. S. E.*

Bucolic, *bugeilgan*, bugeilgerdd.—*Walters*, s.v.

Math o *fugeilgerdd* ardderchog ydyw Caniad Solomon.
Gr. Edwards: Gwaith Prydyddawl, 136.

Bugeilgi, gwn, *sm.* a shepherd's or herdman's dog.

Tri anhebgor havodwr: bwd; *bugeilgi;* a chyllell.
Cyfreithiau Cymru, ii. 562.

Bugeiliad, -au, *sm.*=*Bugeilad.*

Bugeiliad, iaid, *sm.*=*Bugail.*—*P.*

Bugeiliaeth, -au, *sf.* pastoral care, pastorate; a watching or guarding (as a shepherd); shepherdism.

Py aniueil bynnac ny dylyo eu perchennawc y *bugeilaeth* nae gadw, ny dyly ynteu difwyn y llwgyr nar gweithret.
Cyfreithiau Cymru, ii. 110.

Ef a fydd y dydd â'i deg
O nodwyddau, a'i deuddeg,
O'r amrant er ymrwystr fydd
Bugeiliaeth serch bwygilydd.
D. ab Gwilym, xlviii. 19 (cf. ccxxix. 46).

Bugeiliaidd, *a.*=*Bugeilaidd.*

Bugeilies, -au, *sf.*=*Bugeiles.*

Bugeilig, *a.* bucolic, pastoral.

Cân fugeilig, a pastoral, a bucolic.

Bugeilio, *v.*=*Bugeila.*

Bugeiliol, *a.* pastoral; bucolic; tending a flock or herd.

Yr hyfrydwch mwyaf a ellir gael mewn barddoniaeth *fugeiliol* ydyw, oddi wrth yr olygfa a rydd o dawelwch a sefyllfa ddedwydd bywyd gwledig.
Gr. Edwards: Gwaith Prydyddawl, 134.

Cerdd fugeiliol=*Bugeilgerdd.*

Bernir mai *cerddi bugeiliol*, neu fugeilgerddi, oedd y caneuon boreuaf.—*Caledfryn:* Drych Barddonol, 5.

Bugeiliwr, wyr, *sm.* a herdsman; a shepherd.

Bugeilres, *sf.* irony, jest, derision; empty babbling, nonsense, twaddle.

Ironia, Illusio, Gwatworgerdd, fydd ryw *fugeilres* neu watwor, nid yn llawn llythr ar eiriau, ond ar acen neu arwydd y dyn a'i dyweto, neu y dyweter wrtho.
Pum Llyfr Cerddwriaeth, 124.

Y geiriau yma sy yn arwyddocäu *bugeilres*, neu watwaredigaeth.—*H. Perri:* Egl. Ffr. vii.

A rhoddais am danaf sachwisg: ac aethym iddwynt yn ddiareb [**fugeilres*].—*Ll. G. Gyffredin* 1567 (Salm. lxix. 11).

Yr awr hon y casëir gwir grefydd, y diystyrir duwioldeb, y ffleiddir purdeb sel, y diflesir ar uniondeb, y dirmygir pregethwyr, y distedlir proffeswyr, a'r dynion da oll gan mwyaf a gymmerir ar *fugeilres*.
Robert Llwyd: Llwybr Hyff. 144 (cf. 81).

Tra ddygid chwi allan weithiau trwy wradwyddau a gorthrymderau, i fod yn ddrychiolaeth [*fystrych, *fugeilres*].—*Esg. R. Davies:* Heb. x. 33.

Bugeilwas, weision, weis, *sm.* a pastoral youth, a swain.

Bugeilwas llencynaidd o'ch ethol had chwi.
Daniel Ddu, 182.

Bugeilwraig, wragedd, *sf.* a woman that looks after flocks or herds; a shepherdess.

Bugeilwriaeth, -au, *sf.* pastoral office or care; pastorate; the occupation of a shepherd.

Bugail ffydd â bagl a ffon,
Bugeilwriaeth â bagl Aron.—*Lewys Morganwg.*

Bugeilydd, -ion, *sm.*=*Bugail.*

Medd *bugeilydd* o Feirionnydd ofer ynni.
Madog Dwygraig: M.A. i. 488.

Yn nesaf doai
Bugeilydd, o gynteifiaid gwiw ei gail
A ddygai yn fwy gwâr.—*W. O. Pughe:* C.G. xi. 436.

Bugeilyddes, -au, *sf.* a shepherdess.

Bugeilyddiaeth, -au, *sf.* the office or occupation of a shepherd; pastorate, pastorship.

Bugel, -ydd, *sm.* [=bugail]=*Bugail.*

Ac ar y ffregeth hi llawer a gredassant. canys *bugelydd* aoed yny chylch hynny a geternheynt rywelet ohonunt egylyon berued y nos yn disgynn or nef.
Buchedd Mair, § 15.

Nac ammharcha'th riaint na *bugelydd* allor.
Myv. Arch. iii. 8.

Bugelyt Havren balch eu clywed.
Owain Cyfeiliog: M.A. i. 265 (cf. 406).

A dwy archescobawt oedynt yn wac heb *vugelydd* endynt. nid amgen Kaer Efrawc a Chaer Llion ar Wysc.
Brut Gr. ab Arthur: M.A. ii. 279 (cf. 263, 375).

O cana, Awen nefawl, hon oddi ar
Ben Horeb, neu o gwmwl Sinai ddu,
A roddit idd y *bugel* hwnw ddawn.
W. O. Pughe: C.G. i. 6 (cf. ix. 1085).

¶ *Bugelydd* in the preceding instances may be, and probably is, intended as the pl. of *bugail* (=*bugeilydd*, *bugeiliaid*).

Bugladd, *v.* [bu+claddu]=*Bugloddi.*

Ny *buglait* y warthec nys arlleueir nep.—*Myv. Arch.* i. 180.

Buglawdd, gloddiau, *sm.* [bu+clawdd] earth turned up by a bull.

Bugloddi, **Bugloddio,** *v.* 1. to turn up the ground, as a bull with his hoofs.

Bedwyr o Dudur dadwys,
Buglodda Glawdd Offa ddwys.—*L. G. Cothi*, viii. v. 55.

2. to gore or demolish with the horns, as cattle do hedges, &c.—*Mawddwy.*

3. to bellow or roar.—*W.*

Bugloddiad, -au, *sm.* the turning up of the ground by a bull; demolition by the horns; a bellowing; a threatening.

Bugunad, -au, **Bugunawd,** *sm.* [im.: cf. L. *mugio*] the bellowing of cattle; roaring; vociferation; noise, clamour; noisy babbling.

Bugelyt Havren balch eu clywed
Bugunat cyrn met mawr a wna neued.
Owain Cyfeiliog: M.A. i. 265.

Hyny, myn Mair! a bair bod
Bugunad debyg ynod,
A bloeddio fal pabl Iuddew;
Mi a adwaen flaen dy flew.—*D. ab Gwilym*, cxlvi. 33.

Ef a gân ei *fugunad*
Fwy na'r gloch fwya'n ein gwlad.
Bedo Phylip Bach, i Darw.

Nid llai na *bugunad* llym
Gan lwyr-ddrwg hen lew erddrym.
Dafydd Ionawr: Gwaith, 297.

Gwrth eurdal bual *bugunawd*
Buelin oreurin wirawd.—*Cynddelw:* M.A. i. 226.

Bugunad ar, to bellow to.

Yr oedd y tarw arall yn *bugunad* arno yntau.—*Walters.*

Bugunad, **Buguned,** *v.* to bellow; to roar; to vociferate; to make a loud outcry.

A chwilfriw eirf ac eres nych y ffoai
Dy hyll *fuguned.*—*W. O. Pughe:* C.G. vi. 398.

Bugunad fel tarw, to roar like a bull.

Bugunadwr, **Bugunwr,** wyr, *sm.* a bellower; a roarer.

Bugunawr, *sm.* a bugle?

Balch ei *fugunawr* pan nefawr ei lef
Pan ganer cyrn cydawr
Corn Llywelyn llyw lluydfawr
Bon ehang blaen hang bloed fawr.
Cynddelw: M.A. i. 218.

Bul (*ŭ*), -ion, *sm.* 1. the husk or hull that encloses the seed of flax.

Fal y *bul* ar y llin.—*Diareb.*

2. the seed-vessel or pericarp 'of all plants of the same class' (as flax).—*P.*

Buladd, *sm.* [bu+lladd] cowbane, water hemlock (*Cicuta virosa*).—*Hugh Davies:* Welsh Bot. 161, 162.

Bulith, *sm.* [bu+llith]=*Biwlith.*

Bulwg, *sm.* [bu+llwg] cockle (*Agrostemma*). Sometimes written *bwlwg.*

Tyfed ysgall yn lle gwenith, a *bulwg* yn lle haidd.
Iob xxxi. 40.

Bulwg yr yd, } corn-cockle, corn-poppy
Bulwg Rhufain, } (*Agrostemma githago*).

Cais y pabi, sef *bwlwg yr yd*, a gwell yw na'r *bwlwg Ffrengig*, a'r morgelyn, neu'u had, a mortyra'n dda, a berw mewn gwin, ac â hwnw ir dy ffroenau.
Meddygon Meddfai, ii. 666 (cf. p. 284, 285, 288).

Papaver erraticwm, *bwlwg yr yd*, cysglys yr yd.
Meddygon Myddfai, 290.

Bulwg Ffrengig, poppy (*Papaver*).—*H. Davies:* Welsh Bot. 43, 152.

Bulwg lledfegin, } cultivated cockle, corn-
Bulwg yr ardd, } cockle.

Papaver sativwm, *bwlwg yr ardd, bwlwg lledfegin.*
Meddygon Myddfai, 290.

Bulyn, *pl.* bulion, *sm.* a petal, a flower-leaf.—*Gwent.*

Bumustl, *sm.* [bu+bustl]=*Buladd.*—*H. Davies:* Welsh Bot. 162.

Cymmer dalm o flodau'r banadl, a gelesg, a phriellau, a dyrnaid o wraidd y dynaid cochon, a gwraidd y *bumustl*, yr hwn a elwir y cegyr mawr, a dail y morgelyn, a dail llydain y ffordd a fo â had arnynt.
Meddygon Myddfai, ii. 191 (cf. 722).

Bun (*ū*), *sf.* [cf. *benen;* Ir. *bean, ben, ban, bainion;* Ga. *bean;* Mx. *ben:* cf. *benyw*] a woman; a maid; a fair one.

Arduyreaue vn issy deu ac un . . .
A unaeth Maurth a Llun, a mascul a *bun.*—*M.A.* i. 575.

Am dewis gydran gyhydrec a *bun.*
H. ab Owain Gwynedd: M.A. i. 277.

Echdoe gwelais man y rhodiais,
Hoen mandes haf, *bun* a garaf.
Rhys Goch ab Rhicert: Iolo Mss. 233 (cf. 234—249).

Bun â serch yw'r beunes hon.—*Guto'r Glyn.*

Ni ddaw fy *mun*, ni ddywaid,
Ni ery, ni ffy, ni phaid.—*Bedo Brwynllys.*

Bun, -au, *sf.* [cf. *buna*] a host, a number.

Kayawc kynhorawc men y delhei
Diffun ymlaen *bun* med a dalhei.
Aneurin: Gododin, 21 (cf. 690).

Dy ar gardei *bun* buddiant buch anhun
Blaen llin blaen *bun* tarddei am at gun.
Taliesin: M.A. i. 29.

Buna, -on, -oedd, } *sm.* [bun] a million
Bunaf, -on, -au, -oedd, } (used rather indefinitely).

Deg o ddegau yw cant, deg cant [yn] y mil, deg mil yn y myrdd, deg myrdd yn y rhiallu, deg rhiallu yn y *buna*, deg *buna* yn y gattorfa, deg gattorfa yn yr annant, deg annant yn y trŵn; a deg cylch rhif y gelwir y rhai hyn.
Barddas, i. 104 (cf. 100, 106, 110).

Un, pump, deg, pymtheg, ugain, cant, mil, myrdd, myrddiwn, *bunaf*, myndaf, breon, cattyrfa, gwrmwnt, rhiallu, a'r ceugant; a hwnw ni ellir rhif arno.
Barddas, i. 108.

Rhiallu rhialluoedd yw *buna; buna bunaoedd* yw tyrfa.
Barddas, i. 108.

Ei dda, rif *buna*, beunydd,
A'i fwyd i'r holl fyd y rhydd.
Gutyn Owain: G.B.C. 200.

A hael danai i'w lu dynion,
Gân fwyn eon gan *funäau.*—*Rhis. Powel:* Tymm. 24.

Bunagatrif, -oedd, *sm.* the number *catrif* a million times.

A chwedi hyn y rhif yn ol y degau; sef deg catrif, cant catrif, milgatrif, myrdd gatrif, *bunagatrif*, a chatrif o gatrifoedd.—*Barddas*, i. 106.

Bundad, *s.* a collected host, army, or number?

Ystynnawc vyg glin
A *bundat* y—en ty deyeryn.—*Aneurin:* Gododin, 438.

Bunnywen, *sf.* [bun+duw?] a goddess; a nymph.—*P.*

Buor, -iaid, *sm.* [bu] a dairyman.—*Iolo Gloss.*

Buordir, -oedd, *sm.* dairy land, a grazing farm.

Buordy, dai, *sm.* a dairy-house, a dairy.

Buoriaeth, -au, *sf.* dairy; the business of managing milk.

Bur, -ion, *sm.* violence; rage.—*P.*

Eu llafneu dur eu med eu *bur.*—*Taliesin:* M.A. i. 21.

A glyweisti a gant Cormoc
Breinyawl gyvreith annoc
Pob *bur* ledrat y groc.—*Englynion y Clywed:* M.A. i. 173.

Burgyn, -od, -iaid, *sm.* [bur (as in *buria* +dim. term. -cyn: by some derived from L. *morticinum:* cf. Ir. *muirtchenn*] 1. carrion; a dead carcase; a carcase; a morkin.—*Lef.* xi. 8—40; *Deut.* xiv. 8.

Taflodd gawri yr hen fyd i fod yn *furgynod* ar y ddaiar.
Ch. Edwards: Han. y Ffydd, 54 (cf. 113).

Pettwn ddewin, ni fwytäwn *furgyn.*
Diareb. (M.A. iii. 175.)

Y maent yn awr . . . wedi darfod am danynt, hwynt-hwy a'u hiaith hefyd . . . a'u hawdurdod fawr gynt wedi ei llarpio, megys *burgyn* gan adar ysglyfaeth.
Theo. Evans: D.P.O. i. 1 (4).

2. a carrion or carcase; a poor or worthless wretch: a term of reproach.—*Yr hen furgyn!*

Wrthych oll yr achwynaf, na chefais nemor o gyflawn na thymmerus adeg . . . i allu cwplhau a pherffeithio y llyfran yma, yn hanner cystal ag yr oedd fy ewyllys, ac y gallyswn pei llonyddwch a gathoeddwn gan elynion ein hiaith ni, a *burgyniaid* o ddynionach dieithr gogleddig.
Dr. I. D. Rhys: Gram., Rhag. 6.

Da y gwn na ddichon fod ar law *burgyn* o'm bath i ganu iddi fel yr haeddai.—*Gro. Owain*, 183.

Burgynaidd, } *a.* carrion-, cadaverous; stink-
Burgyniaidd, } ing; putrid.

Ac oni bai hefyd, fod y fath gnotäedig gyrchfäau o ryw *furgyniaidd* furiäau o ddrewllyd a choeg gynhenus a sothachlyd frynteion o ddieithriaid rhy anhygar yn dyfod ar ddybryd amserau yn eu plith.
Dr. I. D. Rhys: Gram. Rhag. 7.

Burgyngeg (*n-g*), *sm.* one that has a carnivorous mouth or throat; a kite.

Burgyniad, -au, *sm.* a making a carcase of; the act of depriving a beast of its life.

Burgynio, *v.* to make a carcase of; to mangle.

Burgyniol, *a.* tending to make a carcase or carrion of; cadaverous; stinking.

Burgyniwr, wyr, *sm.* one that makes a carcase; a mangler.

Buri, ïon, } *sm.* [cf. *bery*] a carnivorous bird;
Bury, -on, } a bird of prey; a bird that feeds on carrion: sometimes used for the kite and sometimes for the vulture.

Y lluman creuliw yn gorhwyfaw uch
Eu tal, y torfoedd tryfysg ffrawdd-gyrchëynt:
Ei faeth tyngedig selai Angeu rhwth
Ei ranc, *burïon* chwiw trywyddynt waed.
W. O. Pughe: Pal. 31 (cf. 74).

Y *buri*, gan adawu man mor brin
O braidd i lewa ŵyn neu fynod mân
Ar fyniau deadellawg . . . pan eheda.
W. O. Pughe: C.G. iii. 478.

Y llwynog ar hyd dy heolydd a uda,
A'r *buri* ar weddill y cledd a loddesta.—*D. Silvan Evans.*

Buria, iäu, *sm.* a carcase, a carrion; a morkin; a wretched fellow.

Talai ym' ddoe talm o dda,
Heno'n farw fal hen *furia.*—*Iolo Goch.*

Y *buria* nid oedd barod!
Rhys Jones: Gwaith, 285 (cf. 259).

Burm, *sm.* [=burym, *q.v.*] barm, yeast; foam, froth, spume.

Nid trwy falais y trafoliwn,
Ond trwy fwyniant taer erfyniwn
Furm, a breci, gwaddod hefyd.—*Rhys Jones:* Gwaith, 309.

Burman, *sm.*=*Burym, Burm.*

Burmio, } *v.* [burm, burym] to ferment; to
Burmo, } work as barm or yeast; to foam, froth, or spume.

Burmog, *a.* full of barm or yeast; yeasty, barmy; foamy, frothy, spumous.

Burmog fôr, yeasty or foaming sea.

Yr haul olwynog, sy'n lleibio'n wresog
Y tonnog, *furmog fôr.*
Rhys Jones: Gwaith, 310 (cf. 155).

Burol, *a.* [bur] violent, furious, raging.

Beli bydd o bawl i bawl,
A chasnar a bâr *burawl.*—*Robert Owen:* Gweith. 296.

Burth, -ion, -iau, *sm.* a repulse, resistance, repulsion; a thrust.

Cad i'th alon, *burthion,* barth,
Naw telging; enaid Talgarth!—*L. G. Cothi,* 1. xvii. 7.

Burthiad, -au, *sm.* repulsion; a driving or chasing off; a repulse.

Perygyl yn *burthiad* cyrchyniad cewig.
Llywarch Hen: M.A. i. 128.

O ben Pumlumon hyd borth Caerlleon
Pair dragon draig *furthiad.*—*Gwalchmai:* M.A. i. 202.

Berth nerth ner haelder huenyg
Burthiad cad cedeirn ar drusyg.
Cynddelw: M.A. i. 208 (cf. 226).

Yn drylwyn pan i gyrchu, sefyll, neu
I chwelyd *burthiad* cad, neu pan i gau,
Neu pan i agori rhychau rhyfel grem.
W. O. Pughe: C.G. vi. 256.

Burthio, *v.* to repulse or repel; to drive or chase away.

Lloegyr lleityeit llofrutyeit llachar
Yorueirthyawn y *vurthyaw* esgar.
Cynddelw: M.A. i. 256 (cf. 259).

Cad y Coed Aneu cadyr anant borthi
Burthyeist wyr yn diuant.
Llywarch ab Llywelyn: M.A. i. 299.

Burwy, -on, *sm.* [bu+rhwy] a fetter or fastening to a cow's legs when milked; a cow-fetter.

Buruy fyrlyg [a tal].—*Cyfreithiau Cymru,* i. 298.

Gruffudd iarll Mawddwy groth hanner aerwy
Grwth brau mewn *burwy* wrth hen bared.
Iustus Llwyd: M.A. i. 557.

Bury, -on, *sm.*=*Buri.*

Burym, *sm.* [E. *barm,* †*berme, birm;* A.S. *beorma;* Ger. *bärme;* Ga. *beirm;* L. *fermentum*] barm, yeast; froth, foam, spume.

Bus, -au, *sf.* [Ir. *bus*] the (human) lip.—*P.* The word does not appear to occur in its simple form, but it is found with a prefix in *gwefus.*

Bustach, bustych, -iaid, -od, *sm.* [the first syllable may perhaps be cognate with L. *bestia* (bwyst), and the other with Ga. *agh,* heifer] a bullock, a steer.

Yna yr offrymant *fustych* ar dy allor.—*Salm.* li. 19.

Bustachaidd, *a.* like a bullock; obstreperous.

Bustachu, *v.* 1. to beat or buffet about; to beat down; to beat; to maltreat.

Y cryfion a dreisiant y gweiniaid, megys y bydd yr anifeiliaid cryfaf yn rhuthro ac yn *bustachu* y gwanaf.
R. Llwyd: Llwybr Hyffordd, 209.

2. to keep or put down; to check or restrain.

Sef yw hyny, os hwy (tra fo'r Pab a'i brelatiaid naill ai yn cysgu mewn diogi, neu ynte yn gwrthladd pob daioni) a *fustachant* drythyllwch yr offeiriaid, gan eu gyru hwy i'w gwaith.—*Morus Cyffin:* Diff. vi. 8.

Bustl, -au, *sm.* [C. *bistel;* Br. *bestl*] 1. gall; bile; choler.

Cais *fustl* ysgyfarnog, a *bustl* giâr, a *bustl* llysywen, a *bustl* carw, a dwr gwyra, a dail gwinwydd, a tharo ddyrnod ar bren eiddiorwg.—*Meddygon Myddfai,* ii. 70.

Llyn y bustl, bile.

Dwfr bustl, water of gall.—*Ier.* viii. 14; ix. 15; xxiii. 15.

Bustl chwerwedd, } gall of bitterness.—*Act.*
Bustl chwerwder, } viii. 23.

Cyn chwerwed a bustl, as bitter as gall.

Mor chwerw a bustl brain, as bitter as the gall of crows; as bitter as the bitterest gall.—*Dyfed.*

Bustl haul, a mock-sun.—*Mon.*

Bustl y ddaiar, centaury, common centaury (*Chironia centaurium*).—*Hugh Davies:* Welsh Bot. 23, 162.

2. (fig.) something bitter as gall; gall.

Od wyf gyff cler a *bustl* i'r byd,
Fe'th gyfyd i foddlonrwydd.—*Gro. Owain,* 113.

Bustlaidd, *a.* of the nature of gall; bitter as gall; bitter.

Eu grawnwin hwynt sydd rawnwin *bustlaidd.*
Deut. xxxii. 32.

Hyn a wneir fynychaf trwy ddifenwau a gwradwyddiadau *bustlaidd.*—*Edw. Samuel:* Holl Ddyleds. Dyn, xiii. 3.

Bustlawl, *a.* bitter like gall; bitter.

Nhwy a'u maddeuant â'u diogswrth eisteddach, â'u *bustlawl* serthedd, ac â'u ysmala gyfeddach.
Dr. Gr. Roberts: Athraw. Grist., Rhag. 4.

Bustledd, *sm.* bitterness like that of gall or bile; bitterness.

A'u geneu llawn (fel gwenwyn llith)
O felltith, ac o *fustledd;*
Ac anian esgud yw eu traed
I dywallt gwaed a dialedd.
Edm. Prys: Salm. xiv. 5 (cf. lxiv. 3).

Bustlo, *v.* to embitter; to be surly.

Bustlwr, wyr, *sm.* one who pours out gall; one that embitters; a contentious, surly person.

Buswynog, -ydd, *sf.* [bu+swynog, q.d. a charmed cow?] a farrow cow; a cow that has had a calf, but fails in a subsequent year: more usually written *myswynog.*—*Dyfed.*

Buw, *sf.* [Br. cf. *biw, bu, buch*] a cow.

Y saraet eu chue *byu* a chue ugeyn o aryant.—Y guert eu chue *byu* a chue ugeyn *myu* gan e ardyrchauael unweith.
Cyfreithiau Cymru, i. 34 (cf. 6, 26, 36, 54).

Beth yw galanas breyr diswydd? Ae chwe *byw* a chwe ugein-*muw?* Chweugein-*muw* yw yr alanas ar chwe *buw* yw yr sarhaet celein.—*Cyfreithiau Cymru,* ii. 692 (cf. 694).

Gwell can *muw* i gan-nyn nag un *myw* i undyn.
Diareb. (M.A. iii. 159.)

Buwch, *pl.* buchod (from *buch*), buwchod [cf. s.v. *buch*] a cow.

Gwae vi . . . na bvm varw o nerth arvev. rac vi marw val *beuch.*—*Brut y Saeson:* M.A. ii. 515.

Y *fuwch* hefyd a'r arth a borant yng nghyd.—*Esa.* xi. 7.

Aerwy cyn *buwch.—Diareb.* (M.A. iii. 146.)

Y *Fuwch* Laethwen Lefrith a roddai laeth eu gwala i bob un a'i ceisiai.—*Iolo Mss.* 85.

Da gwaith Duw roi cyrn byrion i'r *fuwch* a hwylio.
Diareb. (M.A. iii. 153.)

Y fuwch goch, } the lady-cow, lady-bug,
Y fuwch goch gota, } lady-bird, or lady-fly.

Buwch fôr, the sea-cow or manatee.

Buwch â llo, } a cow that has a calf.
Buwch mam llo, }

Buwchan, *sf.* a little or young cow.—*W.*

Buwl, *Humecillus.* Such is the entry in Davies, and nothing more seems to be known of either word. I have not met with *buwl* anywhere; and as to its supposed Latin equivalent, it is, so far as is known, found exclusively in Davies. It is unknown both to classical and medieval Latin; and so neither of the words throws light on the other. It has been suggested as possible that *humecillus* may be an error for *hemicillus* (ἡμίκιλλος), a *mule*, as a term of reproach, found in a doubtful passage of Cicero (*Att.* xiii. 51); and probably it was some such impression that induced Thomas Jones (1688) to explain *buwl* by 'mul ieuangc, *a young mule.*' In that case *buwl* would represent *muwl*=*mul*, the ordinary Welsh form of the Lat. *mulus*. Th. Richards (1753) simply reproduces the entry in Davies, without any comment; and later dictionaries omit it.

Büyn, *sm.* [bu] a bullock, steer, or ox; an animal of the ox kind.

Y rhag Caer Luyd Coed neus dug Moriael
Pymtheccant *muhyn* a phenn Gwriael.
Meigant: M.A. i. 160.

Os disgyureitha y deiliat y march pan dalher ar yr yt talet tri *buhyn* camlwrw yr brenhin.
Cyfreithiau Cymru, i. 740.

Bw, *sm.* [cf. *bo*] 1. fear, dread, terror, fright; a threat.

Gwrab oedd yn gyru *bw*,
Gwreigan gul greg yn galw.—*D. ab Gwilym*, clix. 47.

Bw i Loegr, a mablygad
Anwyl iawn wyt yn dy wlad.—*Iolo Goch*, i R. Mortimer.

Y bwbach iach â'r gwaew us,
A yr *bw* ar rai beius.—*L. G. Cothi*, II. vi. 1 (cf. VI. iv. 52).

Ei wyneb ef a wna *bw;*
Na bo hen wyneb hwnw.—*Bedo Brwynllys.*

2. an object of fear or dread; an awe-inspiring object; a bugbear.

3. an overlooker or overseer; one that looks after workmen (considered by them as a frightful object).

Bw, *int.* 1. an exclamation of frightening, scaring, or threatening; bo! boh!

Gormod *bw* ar ebol.—*Diareb.* (M.A. iii. 158.)

Rhaid im' ochel bugelydd . . .
O bell rhag dywedyd *bw!*
Gair hynod garw yw hwnw.—*Iolo Goch*, i Farch.

2. a sound imitating the lowing of oxen; boo, booh.

Bw, *sm.* [im.: cf. *mw*, and Ir. *bó*] a lowing (imitated); boo, booh.

Cnyw byw, canu *bw* y bydd,
Rhuo i'w ordderch yr hirddydd.—*Huw Arwystli*, i Darw.

Bwa, *pl.* bwäu, bwäau, *sm.* [Ir. *bogha;* A.S. *boga;* E. *bow*] 1. a bow.

Wele'r annuwiol â'u *bwäu,*
A'u cawell saethau'n barod.
Edm. Prys: Salm. xi. 2 (cf. xxi. 12).

Bwa saeth, a bow (for shooting arrows).

Bwa a saeth, bow and arrow.

Bwa a saethau, bow and arrows.

A gwedy menegi hynny o honaw y Vreint Hir kymryt *bwa a saetheu* aoruc Breint.
Brut Gr. ab Arthur (B): M.A. ii. 373.

Bwa croes, a cross-bow, an arbalest or arcubalist.

Bwäu hirion hwynt bioedd,
Bwäu crwys yn bicra oedd.—*L. G. Cothi*, II. xi. 27.

Pan oeddem o fewn ergyd *bwa croes* i'r llys, Gwaelder a wypodd ac a alwodd.—*Marchog Crwydrad*, i. 8.

Bwa hir (*pl.* bwäu hirion), a long bow.

Bwa yw, a bow made of yew.

Annelais rhwng fy nwylaw
Fwa yw drud, a fu draw.—*D. ab Gwilym*, clxxxii. 15.

Bual Cyfeiliawg Bowys,
Bwa yw tyn y byd dwys.
L. G. Cothi, VI. iii. 55 (cf. III. xiv. 46).

Bwa rhyfel, a battle bow.

Toraf hefyd y cerbyd oddi wrth Ephraim, a'r march oddi wrth Ierusalem, a'r *bwa rhyfel* a dorir.
Sech. ix. 10 (cf. x. 4).

Bwa dur, a steel bow.

Efe a ffy oddi wrth arfau haiarn; a'r *bwa dur* a'i trywana ef.—*Iob* xx. 24 (cf. 2 Sam. xxii. 35).

Bwa arian, a silver bow.

Hwnw a fydd berchen bwa,
I hwnw y daeth enw da.
Y saeth aur a ddug fy sant,
A'i bwrw â'r *bwa ariant.*—*L. G. Cothi*, VIII. ix. 31.

Tynu bwa, } to draw a bow; to shoot
Tynu mewn bwa, } with a bow.
Annelu bwa, }

Vn or gwyr ieueinc a *dynnawd y vwa* ac a ellygawd saeth ym plith y llu.—*Brut y Tywysogion*, 148.

A rhyw wr a *dynodd mewn bwa* ar ei amcan.
1 *Bren.* xxii. 34.

Bwa crwth, a bow for a violin.

A'i fwnwgl yn addfwyn-wych,
Fal *bwa'r crwth*, flew byr crych.—*Guto'r Glyn*, i Farch.

Bwa cyfrwy, the bow of a saddle.

Bwa llygod, a mouse-trap?—*W. Salesbury*, s.v.

Bwa y Milwr, the Soldier's Bow; an old constellation.—*Barddas*, i. 404.

2. a bow or rainbow; the iris.

Bwa yr arch, the rainbow (cf. *Gen.* ix. 8—18).

Bwa gwlaw, } the rainbow or iris.
Bwa yr hin, }

Tebyg yw, mal y tybiem,
I'r *bwa glaw*, a'i big lem.—*Deio ab Ieuan Du:* G.B.C. 187.

Dangos, wrth yfed osai,
Y bwa rhodd i bob rhai;
Bwa'r hin, heb un llinyn,
Y sydd bedwar defnydd dyn.—*L. G. Cothi*, V. ii. 31.

Bwa y Drindod, the bow of the Trinity; the rainbow (in allusion to the promise in *Gen.* ix. 8—18).

Pan y gwelech *fwa'r Drindod*,
Cofia farn Duw, a'i gyfammod.
Rhys Prichard: C. y C. lxxxix (*b*).

Ar lun cu o flaen cawod go heulog
Y gwelir *bwa'r Drindod.—Cawrdaf:* Gweith. 189.

Bwa y cyfammod, the bow of the covenant (with reference to *Gen.* ix. 9, 12, 15, 16).

Bwa'r wrach [corr. of *bwa'r arch*] the rainbow.

Bwa y cwmwl, the bow in the cloud; the rainbow (*Gen.* ix. 13, 14, 16).

Bwa'r wybren, the bow in the sky; the rainbow.

Bwa'r wybren yn y borau,
Argoel aml mân gawadau;
Bwa'r wybren y diwedydd,
Fe fydd hinon dros y gwledydd.—*Pennill.*

3. an arch (as in a bridge or a gateway): sometimes formerly called a *bow*.

Bwa pont, the arch of a bridge.

Bwa maen (*pl.* bwäu meini), a stone arch.

Ffenestri cyfyng oedd i'r ystafelloedd . . . ac felly yr oedd i'r *bwäau meini*.—*Esec.* xl. 16.

¶ In some parts, to avoid the hiatus caused by the coming together of *äau* (*bwäau*), the *a* of the singular is changed into *e* in the plural, as *bweau;* and sometimes for the same purpose the letter *f* is inserted between the vowels; as, *bwafau*.

Goreu naf â *bwafau*,
Goreu ior y mwyn-ior mau.
Lang Lewys, i Syr W. Mathew.

For a similar reason, the contracted form *bwäu* is preferable to *bwäau*.

Bwäad, } *sm.* [bwa, bwhau] a bowing or bend-
Bwâd, } ing like a bow; a bowering (in weaving); an embowering; a playing (on a violin or fiddle) with a bow.

Bwaog, *a.* bow-bent, bent like a bow; bowed; arched; bent.

Yr oedd y palas â thri uchder llofft iddo, dwy aden *fwaog* ar bob talcen.—*Cawrdaf:* Meudwy, 103.

Wrth ddrws y lluest, dan gysgodion gwinwydd
Yn borth *bwaog*, cymhleth yn eu gilydd,
Eisteddai Miriam.—*Nicander:* Moses, iii.

Bwaol, *a.* tending to bend like a bow; bow-like; bending.

Bwäu, *v.* [bwa] to bend like a bow; to arch; to form into an arch or vault; to make like an arch; to curve.

Bwäu tân, to stir up the fire; to stir or raise the fire so as to admit air under it.

Seithfed yw, chwythu [*al.* hwythu, *al. bwäu*] y tân yny ennyno.—*Leges Wallicae*, iii. iv. 7.

Bwäwr, wyr, *sm.* a bowman; an archer.

Bwbach, -od, *sm.* 1. a bugbear, a bug; a frightful object; a scarecrow; a goblin or hobgoblin; a spectre.

Bwbach ar lun mynach moel.—*D. ab Gwilym*, clxxi. 40.

Yni ddêl dros ddwr Mynyw
Y du bach a'r *bwbach* byw.—*L. G. Cothi*, iii. xiii. 59.

Ni cherdd y nos, chwerw ddyn bach,
Y baban, rhag ofn *bwbach;*
E wŷl y berth oleu y bon,
Was brwd, yn llawn ysprydion.—*Thomas Prys.*

Bwbach a ganai bibau,
Blaidd gwyllt yn rhoddi bloedd gau.
Sion Tudur, i'r Ddylluan.

Nid *bwbach* yw pechod i yru ofn yn unig, ac heb ddim ond hyny.—*R. Llwyd:* Llwybr Hyff. 392 (cf. 389).

Yr aberth-eilun yma a wnaid ar lun dyn, eithr aruthrol o faint, o gangau coed, â'i freichiau a'i draed ar led, ac a sicrhëid megys *bwbach* mawr yn y ddaiar ger llaw i ryw garnedd. . . Ac yn ddiattreg cynneuid tân oddi tan y *bwbach*, i rostio y drwg weithredwyr yn fyw.
Theo. Evans: D.P.O. i. 4 (153).

Ni welwyd un ellyll na *bwbach* mor erchyll
Erioed yn traws sefyll tros afon.
Edw. Richard: Cân y Bont, ii. 3.

Bwbach brain, } a scarecrow; a man of
Bwbach y brain, } straw.

Bwbach dallan, blindman's buff, hoodman blind.

2. a booby, lubber, or lout.

Methodistiaid, haid di hedd,
Bwbachod; baw i'w buchedd!
Rhys Jones: Gwaith, 198 (cf. 217, 255).

Bwbachaidd, *a.* like a bug or bugbear; resembling a scarecrow.

Bwbaches, -au, -od, *sf.* a she-goblin; a female booby.

Bwbachesau, blychau blew,
Pruddion, yn pori eiddew.—*Dafydd Trefor*, i Eifr.

Bwbachog, *a.* full of bugbears; abounding with goblins; boobyish.

Deicyn, cyw melyn cymmalog, dyrys,
Adarwr *bwbachog.—Rhys Jones:* Gwaith, 183.

Bwbachol, *a.* relating to bugbears or goblins; tending to scare or terrify.

Bwbachu, *v.* to scare, affright, or terrify; to buffet; to beat or drive about; to blindfold.

Onid ennyd, lledfryd llu,
Bychan, cyn ei *fwbachu.—D. ab Gwilym*, cclxi. 39.

Aed yn iach, lle'm *bwbachwyd*,
Y byd rhwng ei dair rhwyd.—*L. G. Cothi.*

Erthwch fal yr hwch ar haf,
A beichiaw, a'm *bwbachai.—Gro. Owain*, 8.

Bwbachus, *a.* easily terrified or frightened; timid, faint-hearted.

Tri o wŷr ni chynghan serch arnynt: gwr hagr gwladaidd; gwr llwrf *bwbachus;* a gwr cybyddlyd tlawd.
Trioedd Serch.

Bwbachwr, wyr, *sm.* one who scares or terrifies.

Bwbechni, *sm.* bestiality, pederasty.

Bwbw, *sm.* a child's name for an ox or bullock.

Bwcai, eiod, eion, *sm.* [cf. *magai*] a maggot.

Bwci, ïod, *sm.* [bwg: C. *bucca;* Ir. *puca*] a goblin, a ghost, a bogy, a bogle, a spectre; a bugbear; an object of terror.

Os dall a fydd, efe a ä heibio i wrach y rhibyn a phob *bwci* yn ddigyffro.—*Ioseph Harris:* Gweith. 130.

Ond yr oedd arni hi ddychryn wrth feddwl am gynnal y fath gynnadledd â'r *bwci* bal.—*Ystên Sioned*, 82.

Holl eneu'r hyllaf, i *fwci* debycaf,
Sy'n cynneu, mi gwelaf, o'r gwaelawd.
Blodau Dyfed, 200.

Gyru, gyru i ffair y Fenni
I ymofyn cleddeu i ladd y *bwci.—Rhigwm yr Aelwyd.*

Ofn bwci, dread of bogies or ghosts.

Bwcïaidd, *a.* resembling a goblin; ghostlike; dark and gloomy; dismal.—*Dyfed.*

Tywydd bwcïaidd, gloomy or dismal weather.

Edrych yn fwcïaidd, to have a gloomy or dismal appearance; to look grim.

Bwcl, *pl.* byclau, *sm.* [E. *buckle;* Fr. *boucle,* †*bocle;* L.L. *bucula*] a buckle.

Un anghwrtais yn lleisio;
Yn garreiau *byclau* bo!—*D. ab Gwilym*, lxv. 39.

Ac efe a anfonodd iddo *fwcl* aur.—1 *Macc.* x. 89.

Dyn traws fûm yn dwyn tros fôr
Dur Melan i dir Maelor;
Clos haiarn *fyclau* seirnial,
Cwplid a welid o Ial.—*Guto'r Glyn.*

Bwcled, -au, -i, *sm.* [E. *buckler;* Fr. *bouclier,* †*bocler;* Br. *bouclezr;* C. *bocler;* Ir. *buicleir.* The term. *-ler* may have become *-led* under the influence of *breich-led*] a buckler; a kind of shield.

Beth a wnai'r cledd a'r *bwcled*,
A dau lun ar ei glun gled?—*D. ab Gwilym*, clviii. 29.

Un cledd, un *bwcled* i'r cyffredin.
L. G. Cothi, i. xviii. 121.

Cefais arf, cofus hiriell,
Clwyd ddur o *fwcled* oedd well . . .
Ni werthaf *fwcled* Dafydd,
Nis rhof ddau naw-oes yr hydd.—*Guto'r Glyn.*

Tri afraid byd: crib i wr moel; drych i wr dall; a *bwcled* i wr unllawiawg.
Trioedd Doethineb: M.A. iii. 141 (cf. 191).

A'r brenin Salomon a wnaeth ddau gant o darianau aur dilin . . . a thri chant o *fwcledi* o aur dilin; tair punt o aur a roddes efe ym mhob *bwcled*.—1 *Bren.* x. 16, 17.

Tarian a bwcled, shield and buckler.—1 *Cron.* xii. 8.

Bwcledr, -au, *sm.* [from *bwcled;* in imitation of *breichled* and *breichledr*] a buckler.

Bwcledwr, wyr, *sm.* a buckler-maker.—*W.*

Bwco, *v.* to swell (as cheeses, &c.); to heave.

Bwcran, *sm.* [E. *buckram*, †*bokeram;* Fr. *bougran*, †*boucaran;* L.L. *boquerannus*] buckram, a kind of cloth.

Llyma was ieuanc coch gobengrych gwineu llygadawc hydwf gwedy eillaw y varyf yn dyuot . . . a pheis o pali melyn ymdanaw . . . gwedy y gwniaw ac adaued o sidan coch a dwy hossan am y draet o *vwckran* gwyn teneu.
Mabinogion, ii. 383.

Bwch, *pl.* bychod, *sm.* [C. *boch;* Br. *bouc'h;* Ir. *boc, bocc;* Ga. *boc;* Mx. *bock;* Fr. *buc*] 1. a buck; the male of the goat, deer, and some other animals.

A dwyn *bwch* heb ef ae dodi gerllaw y gerwyn. a dodi o honaf inheu y neill troet ar geuyn y *bwch*. ar llall ar ymyl y gerwyn.—*Mabinogion*, iii. 210.

Lle y berwir barf y *bwch* cyrnig.
Hywel Ystoryn: M.A. i. 519.

Arwydd nad cig *bwch*.—Nid tomlyd ond *bwch*.—Mwy na *bwch* i'r odyn.—*Diarebion.*

Bwch gafr } (*pl.* bychod geifr), a he-goat.—
Bwch geifr } *Num.* vii. 16—82.

Wele hefyd *fwch geifr* yn dyfod o'r gorllewin, ar hyd wyneb yr holl ddaiar.—*Dan.* viii. 5 (cf. 8).

Hwy a ddygasant saith o fustych, a saith o hyrddod, a saith o ŵyn, a saith o *fychod geifr*.—2 *Cron.* xxix. 21.

Bwch diangol (*f.* gafr ddiangol), a scapegoat.—*Lef.* xvi. 8, 10.

Bwch gwyllt (*f.* gafr wyllt), the wild goat.—*Deut.* xiv. 5.

Bwch gwyllt yn ebach gelltydd,
Ba hyd i'w fywyd a fydd?
E gyrhaedd angeu gorwyllt
Ebach a gwâl y *bwch gwyllt*.—*Gronwy Owain*, 106.

Bwch danas }
Bwch danys } (*pl.* bychod danas), the buck or
Bwch daniog } male of the deer.

Goris hyny yr oedd iyrchod ac iyrchellau llawdrwynion yn carlamu; ger llaw hyny yr oedd *bychod daniawg* a geifr yn bonllymu.—*Breuddwyd Gr. ab Addaf* (Y Greal, 342).

Y mynydd uchel, a'r bryn glas,
Yw llwybr y *danas fychod*.—*Edm. Prys:* Salm. civ. 18.

Arwydd y Bwch (=arwydd yr Afr), Capricorn.

Lle gweli'r lleuad yn arwydd yr Afr, sef y *Bwch*, neu yn arwydd y Dyfrhëwr, dyna'r amser goreu i aru tir yd a gardd.—*Rhisiart Sion Huw.*

Gwynt y bwch, 1. a goatish smell. 2. the smell of a rat.

Clywed gwynt y bwch, to smell a rat.—*S. W.*

2. a shock of corn, consisting of eight or ten sheaves set up in the field, three or four on each side and one at each end, forming a kind of roof: the *hattock* of the North of England.

Bwd, *sm.* [allied to *bod*, *f.*] a booth or bothy; a hut or cottage.

Tri anhebgor havodwr: *bwd;* bugeilgi; a chyllell.—Tri anhebgor *bwd* havodwr: nenbren; nenfyrch; a bangor.
Cyfreithiau Cymru, ii. 562.

Bwda, -ou, *sm.* [bwd] a tumulus: also called in some places *mwda* and *muda*.—*Iolo Glossary.*

Bwdran, *sm.* 1. a thin kind of flummery; washbrew; the same as *brwchan*, q.v.

Ysgadenyn hallt am hanner dydd,
A thracht, os bydd, o *fwdran*.
Ioan Siencyn: Blodau Dyfed, 379.

2. something of the consistency of washbrew or thin flummery.

Cymmer had rhuw, neu'r dail, a phwya nhwy yng nghyd am ben aesel onid el yn *fwdran*, a dod am ben hen gwrw, a chymmysg yn dda.—*Meddygon Myddfai*, ii. 355.

3. thin or fine mortar; grouts.

Bwdrchwil, -od, *sf.*=*Budrchwil.*

Bwëydd, } -ion, *sm.* a bowman; a bowyer, a
Bwedydd, } maker of bows.

Bwg, *sm.* 1. a goblin, a bogy, a bogle, a ghost; a phantom; a bugbear, a scarecrow.

Yn llunio *bwg* llawenydd.—*Sion Cent.*

Bwg, a ghost.—*H. Salesbury* (Arch. Brit. 214).

Bw, bwbach, hudwg, hwdwg, ysgod, *bwg*, bwgan.
Walters, s.v. 'Bugbear.'

2. a grudge; secret enmity or animosity; sullen malice. It denotes more than coldness, and less than a feud. In this sense it is sometimes pronounced *bwc*.

Y mae bwg rhwng y ddau deulu, there is an unfriendly feeling between the two families (as if there were some bugbear to keep them apart).—*Dyfed.*

Bwgan, -od, *sm.* [bwg: C. *bucca;* Ir. *bogain, puca* (=W. *pwca*); Ga. *bogan*] a bogy, bogle, hobgoblin, sprite, or ghost; a bugbear; a scaring or terrifying object.

Pa ham y mae dwylaw *bwganod* mor ddychrynllyd o oer?
Ystên Sioned, 83.

Os cuddiwyd arian neu aur yn rhywfan,
Rhyw yspryd aflan neu *fwgan* fydd
O ddeutu'r sorod, er dychryndod,
Braidd cyn darfod gwawr y dydd.
Cawrdaf: Gweith. 204.

Bwgan brain, a scarecrow.

Bwgwl, *pl.* bygylau, *sm.* [bwg]=*Bygwl.*

Bwgwl, *a.*=*Bygwl.*

Bwgwth, *pl.* bygythion, bygythiau, *sm.*=*Bygwth.*

Bwgwth, *v.*=*Bygwth, Bygythio.*

Bwgwydd, *sm.*=*Bygwydd.*

Bwng, *pl.* byngau, *sm.* 1. an orifice; a bung; the hole in the bilge of a cask.

Bwng baril, the bung-hole of a barrel.

Bwng (derbyn-dwll, geneu) baril.—*Walters.*

2. a bung; the stopple of the orifice of a cask or barrel.

Twll y bwng, the bung-hole; the hole or orifice in the bilge of a barrel.

Bwhâd, *sm.* [bwa]=*Bwäad, Bwâd.*

Bwhau, *v.* [bwa]=*Bwäu.*—*C. C.* i. 257.

Bwhwman, *v.* to waver, fluctuate, or vacillate; to rise in waves and surges; to move to and fro or up and down; to be tossed about; to wave; to reel (in walking).

Mae yn grwm yn *bwhwman*,
Mae'n gwest o'r lluest i'r llan.
D. ab Gwilym, clxiii. 39 (cf. cxxiv. 29; cxcv. 29).

Fel na byddoch mwyach yn blantos, yn *bwhwman*, yn cael ein cylcharwain â phob awel dysgeidiaeth, trwy hoced dynion.—*Eph.* iv. 14.

Bwhwman, *sm.* [im.] a fluctuation, wavering, vacillation, or floating.

Iesu, dod erof is dy darian,
I'm hap yma yn mhob *bwhwman*.
Gruffydd ab I. ab Ll. Fychan.

Bwhwman, *a.* wavering, fluctuating.

Pan uo Lloegyr yn griduan
A Chymru [*al.* chynir] yn drycanyan
Y byd y lluyd *bwhwman*.
Cyfoesi Myrddin: A.B. ii. 227 (M.A. i. 112).

Ymddiddan *bwhwman* hwyr
A wnaeth yr enaid neithwyr.—*Iolo Goch.*

Bwhwmanllyd, *a.* fluctuating, wavering, fluctuant, unsteady, vacillant.

Ser gwibiog *bwhwmanllyd*,
Sy'n rhedeg yma a thraw
At y pleserau cyntaf
Ynddynt a ymaflo eu llaw.
W. Williams: Theomemphus, xv. 36.

Bwl (*ŵ*), *pl.* bylau, *sm.* [Br. *boul;* Ir. *ball*] a round body; a globe; a ball; a knob.

Yr oedd Elidur erbyn hyn wedi byw ryw dalm mawr o amser gyda'r trigolion hyn ym mherfedd y ddaiar, ïe, wedi cael ffafr fod yn gydymaith i fab y brenin, ac yn taflu *bwl* aur yng nghyd i ddifyru eu hunain. . . . Yr hen lances a roddes glust i'r chwedl, ac a geisiodd ganddo ddwyn *bwl* aur gydag ef y tro nesaf yr ymwelai efe â hi. . . . Ac fal yr oedd efe yn brysio â'r *bwl* yn ei law tua thŷ ei fam, ac efe yn awr ar y trothwy, dyma ddau ddynyn bach o'r byd isod yn ei oddiwes, ac yn achub y *bwl* oddi arno.
Theo. Evans: D.P.O. ii. 4 (274; cf. 110).

Nid yw'r twyni a'r pantau sydd yn y byd, ond fel llwch ar wyneb *bwl*.—*D. Lewys:* Golwg, vi. 1.

Yr oedd drysau bychain yn agor, a *bylau* pres yn disgyn ar gloch bres i daro yr oriau.—*Brython*, iii. 115.

Bwl cert, } the nave or hub of a cart-wheel.
Bwl cart, }

Bwl ar gorn buwch, a metal knob put on the tips of a cow's horns, that she may not wound another.

Bwla (*w̄*), -od, *sm.* [cf. E. *bull*, †*bolle*, *bule*] 1. a bull castrated after he has grown to maturity; a gale: the same as *adfwl*.

Gwellt y bwla, coarse, tall mountain grass; in most parts of N.W. called *crawcwellt*.—*Dyfed.*

2. a bull (in some parts); the same as *tarw*.

Bwla oedd flaidd â bloedd flong.
Sion ab H. ab Ll. Fychan, i Darw.

Tiria, y *bwla!* heb oludd;
Truan yw'n rhwym, tro ni'n rhydd.
L. G. Cothi, viii. v. 17 (cf. 62).

Bwlan, -od, *sf.* [bwl] 1. a round vessel made of straw, to hold corn: also called *bwlgan;* and generally in S.W. *cawnen*.

2. a leather budget or mail.

Gweddus baeled gwiddon,
Bwlan tew ar lethr blaen ton.—*Ieuan Fychan ab Ieuan.*

Bwlas, } *sm.* [E. *bullace;* Br. *bolos*, *polos;* Ir.
Bulas, } *bulos;* Ga. *bulaistear*] bullace, bullace-tree (*Prunus insititia*].—*H. Davies:* Welsh Bot. 48, 162, 187.

Eirin bwlas, the fruit or plums of the bullace-tree; wild plums. The sloes, or fruit of the black thorn (*Prunus spinosa*) is also so called in some parts.

Bwlch, *pl.* bylchau, bylch, *sm.* [Br. *boulc'h;* Ir. *bealac'h*, *bealg;* Ga. *bealach*] 1. a gap; a defile; a notch; a nick; a jag; a break or breach.

Tutvwlch Kyvwlch a oreu *vwlch* ar vann caereu
Gan Vynydawc bu atveillyawc eu gwirodeu.
Gorchan Tudfwlch: A.B. ii. 93 (M.A. i. 21).

Ac ynteu a odefawd y elynyon y yskynnu tu ar *bylcheu*.
Brut y Tywysogion, 170.

Pedwar bylch byd, the four corners of the world.

Ar gylch i *bedwar bylch byd*.
D. ab Gwilym, lxii. 68 (cf. viii. 25).

Bwlch mewn cyllell, a notch in a knife-blade.

Bwlch mewn caer, } a gap or breach in a wall; a
Bwlch mewn mur, } battlement; an embrasure.

Ar wreic ohen ar uorwyn dec yar *vwlch y gaer* yd oedynt yn edrych.—*Mabinogion*, i. 265 (cf. 250; ii. 12).

2. a pass, defile, or opening between two hills or mountains; as, *Bwlch Llorien*, *Bwlch y Groes*, *Bwlch Oerddrws*, *Bwlch y Fedwen*, *Bwlch y Pawl*, *Bwlch y Cibau*.

Gwercheidw Llafur *Bwlch Llorien*.
Beddau Milwyr: M.A. i. 83.

A rhwng y *bylchau*, lle ceisiodd Ionathan fyned drosodd at amddiffynfa y Philistiaid, yr oedd craig serth o'r naill du i'r *bwlch*, a chraig serth o'r tu arall i'r *bwlch*.
1 *Sam.* xiv. 4 (cf. xiii. 23.

Bwlch dau fynydd, a pass, passage, or opening between two mountains; a defile.

Bwlch, *m.* } *a.* broken; cut; notched; nicked;
Bolch, *f.* } jagged; in cut.

Y gwr bieu y kic *bwlch* ar caws drychauedic oll ar llestrei *bwlch* or emenyn ar baccyneu *bwlch* ar caws *bwlch*.
Cyfreithiau Cymru, i. 524 (cf. 82).

Cedwyr balch *bwlch* eu hysgwyd.
Cynddelw: M.A. i. 212 (cf. 214. 219, 222, 225).

Gwefus folch (*pl.* gwefusau bwlch), a harelip.

Bwlffyn, -od, *sm.*=*Pwlffyn*.

Bwlg, *pl.* bylgau, *sm.* [cf. *bolgan*] a rotundity; a bulky round body; a bulk.—*P.*

Bwlgan, -au, *sf.* [=*bolgan*, q.v.] a bulky round vessel made of straw, to hold corn; any round budget; a mail or budget.

Bwlgan groen, a leather bag or mail; a port-manteau.

Bwlpwth, pythau, *sm.* a large, lumpish mass of anything; a very fat man, woman, or child; an unusually fat beast. Cf. *Pwlpwth*.—*Gwent.*

Bwltur, -od, *sm.* [from L. *vultur*] a vulture.

Bwltys, -au, *sm.* [Ir. *buaillite*] yellow water lily (*Nymphaea lutea*).—*H. Davies:* Welsh Botanology, 53, 162.

Bwlwg, *sm.* [bwl- (as in *bwla*)+llwg or gwg?] the threatening attitude assumed by an angry bull, in which he turns his head and eye in a peculiar way toward the object of his dislike.

Bwlwg, *sm.*=*Bulwg*. This is the usual orthography in 'Meddygon Myddfai.'

Bwlyn, -au, *sm.* [bwl] a small round body; a small globe; a ball.

Os na allasai *bwlyn* bychan ddyfod yno wrth ddamwain, pa fodd y gallasai y nefoedd fawr, o'r hon nid oedd ond cyffelybrwydd gwan, ddyfod o honi ei hun?
Ios. Harris: Gweith. 182.

Bwm, *sm.* [im.] a booming or hollow sound; boom; a deep sound with much resonance.

Bwm, bwm, bwm, lle mae llwm llog,
Byd gwan am bob dwy geiniog.—*Sion Mawddwy.*

Aderyn y bwm (=aderyn y bwn), the bittern.

Bwmbaril, *sm.* 'a bird [in Glamorgan] like a wren, but larger; it makes its nest like that of a wren; and has a longish bill.'—*Iolo Glossary.*

Bwmbro, *v.* [cf. *bwmbwrth*] to hoodwink, to blindfold.

Bwmbwl, bylau, *sm.* [prob. im.: cf. E. *bubble*] a bubble.

Tri pheth nis gellir eu gwacach: masgell dedwydd; *bwmbwl* ar y dwr; a llaw mab y crinwas.
Trioedd Doethimeb: M.A. iii. 247.

Fel gwennol Iob mae'n hoes yn llithro,
Fel rhosyn Dafydd mae hi'n gwywo,
Fel gyrfa Paul y mae'n diweddu,
Fel *bwmbwl* Iago mae'n diffoddi.
Rhys Prichard: C. y C. cix. 1.

Meddwl nad yw bywyd undyn
Ond fel *bwmbwl* ar y llynwyn.
Rhys Prichard: C. y C. lix. 17.

I lawr i'r bedd y torir balch,
A'i ben-balch megys *bwmbwl.*—*D. Davis:* Telyn Dewi, 97.

Bwmbwr, *sm.* [im.] a booming, hollow, or murmuring sound; a deep reverberating sound.

Bwmbwr y môr, the murmur or roar of the sea.

Tri pheth nid oes daw arnynt: clap y felin; *bwmbwr y môr;* a chelwydd Sais.—*Trioedd Doethineb:* M.A. iii. 254.

Bwmbwrth, *sm.* a blindfold; a bandage over the eyes; a blind-board (put on the forehead of a vicious bull, or any unruly bovine animal).—*S.W.*

A phenderfynodd Sion roi *bwmbwrth* ar ei lygaid,
Fel gallai yn ddīboen i wel'd y perlau'n danbaid.
Amnon: Crwth D. C. 161.

Mae bwmbwrth ar ei lygaid, he is blindfolded; he is hoodwinked.

Bwmp, *pl.* bympiau, *sm.* a hollow noise or sound.

Bwmp y gors, } the bittern. Cf. bitter-*bump*
Aderyn y bwmp, } or butter-*bump* of provincial English.

Bwn, *pl.* bynoedd, byniaid, *sm.* [Ir. and Ga. *bunnan*] the bittern.

Ef adele yanredethu oteyr anrec edyt elladho yhebauc un o tri ederyn; ay *bun* ay caran ay cryhyr.
Cyfreithiau Cymru, i. 24 (cf. 650).

A muroed Kaerloyw y gwna y *bwn* y nyth.
Brut Gr. ab Arthur (B): M.A. ii. 266.

Adain fain fal edn o fynydd,
Adain â *bwn* dani bydd.—*Ior. Fynglwyd.*

Asgell ing [*al.* hwn], os gollyngwn,
Angori bydd yng ngwar *bwn.*—*Tudur Aled,* i Walch.

Ewin ei ddwrn, ni wnai ddydd,
Drwy'r *bwn* a d'rewir beunydd.
Gutyn Owain: G.B.C. 205.

Y *bwn* neu ŵydd byw ni ad,
Na chrèyr hoew, na chyw'r hwyad.—*Guto'r Glyn.*

Aderyn y bwn (*pl.* adar y bynoedd, adar y bwn), the bittern.

Cael gweled arlwy fy swper o win, ac elyrch, ac *adar y bynoedd,* ac ymrafael olwythion pupuraidd ar ben hyny.
Araith Gwgan.

Minnau . . . a'i gosodaf hi yn feddiant i *aderyn y bwn.*
Esa. xiv. 22, 23.

Edn y bwn=Aderyn y bwn.

Ebillion ceimion yn cau
Edn y bwn dan ei binau.—*Tudur Aled.*

¶ *Bwn,* as well as *bwm* and *bwmp,* seems imitative of the *boom* or cry of the bird.

Bwn, *pl.* byniaid, *sm.* a spear-head.—*P.*

Bwncath, -au, *sm.*=*Boncath,* q.v.

Bwngler (*n-g*), -od, -iaid, *sm.* [according to some, *bwngler* is=*bon y gler* (q.v. s.v. *Bon*]. The origin of the Eng. *bungler,* as proposed by English etymologists, can hardly be considered satisfactory. Cf. Skeat, s.v. *Bungle.* It does not seem to be in early use either in Welsh or in English. It is in W. Salesbury (1567), in Davies (1632), and in most dictionaries since] a bungler, a botcher; a clumsy awkward workman; a blunderer.

Nis cais *bwngler* o glerwr,
Nis gwisg ond hy was y gwr.—*Guto'r Glyn.*

Ha ferch, ebr ef, tybia i ryw grefftwr cywrain wneuthur delw yn gelfyddgar dros ben; ac yno i ryw *fwngler* trwsgl ddyfod heibio, a rhyfygu emendio gwaith y crefftwr cynnil. A fyddai efe fodlon gael o'i waith y cyfryw driniad gan *fwngler?*—*Theo. Evans:* D.P.O. ii. 9 (332).

Nid wyf ond *bwngler* am ysgrifenu llythyr Cymraeg, o eisieu arferu.—*Gro. Owain,* 165.

Bwnglera, } *v.* to bungle, to botch; to blun-
Bwngleru, } der; to manage awkwardly.

Bwngleraidd, *a.* bungling, botching; clumsy; awkward.

Bwnglerus, *a.* bungling, botching; clumsy.

Bwnglerwaith, *sm.* bungling or clumsy work or performance; a bungle, a botch; botchery.

Bwnglerwch, } *sm.* botchery; clumsiness; awk-
Bwnglerdra, } wardness.

Bwnglerwr, wyr, *sm.*=*Bwngler.*

Bwog, *a.* hairy, hirsute; rough; wiry.—*Gwent.*

Bwr (*ŵ*), *pl.* byrau, *sm.* a work thrown up for defence; an entrenchment; a pile, a heap.

Ny seuis na thwr na *bwr* bu krein
Nac argoed na choed na chadlys drein.
Einion ab Gwgon: M.A. i. 321.

O newydd frys a nerth y twythai fry
Fal *bwr* o dân idd yr eangder gwyllt.
W. O. Pughe: C.G. ii. 1069.

Rhyw fryn aruchel a ddangosa idd
Ei olwg deg ardremiant rhyw dir all
O gyntaf sylwad, neu ryw ddinas brif
Yn hardd o dyrau llathr a *byrau* maen
A eura paladr haul ar godiad gwymp.
W. O. Pughe: C.G. iii. 594.

Bwra, *sm.* a small enclosure or croft by a house.—*Gwent.*

Bwrch, *pl.* byrchau, *sm.* [Br. *bourc'h;* E. *borough,* †*burgh, burch;* Fr. *bourg;* Ger. *burg*] a rampart, a wall; a borough.

Eraill ar eu traed hwy goed kilhyn
Trwy *vwrch* y ddinas fforas ffohyn.
Golyddan: M.A. i. 157 (A.B. ii. 125).

Darparer hefyd . . . fod i faer Llundain, ac i bob maer arall, beilïaid, a phenswyddogion ereill, o bawb oll o'r dinasoedd, *borwchau,* a threfi corfforedig o fewn y deyrnas hon.—*Act Unffurfiad* 1558.

Cf. *Niwbwrch, Ednbwrch*=Newborough, Edinburgh.

Bwrchan, *sm.* the grunting of a hog or boar.

Iaith gerrygog, iaith gregwaedd,
Iaith heb gân, fal *bwrchan* baedd.
Lang Lewys, i'r Seisoneg.

Bwrd, *sm.* a grudge, ill-will.

Y mae ef mewn bwrd iddo, he owes him a grudge.—*Meirion.*

Bwrdais, deisiaid, *sm.* [mut. of *bwrgais*] 1. a burgess; a member of a corporation; a freeman, a citizen.

A gwedy kymryt or mab gygor ef a aeth y dinas Twrs y geissaw aryant echwyn y gan *vwrdeisseit* y dinas. A phan

gigleu y brenhin hynny, anuon kenadeu aoruc y brenhin at y *bwrdeisseit*, y wahard udunt dan boen y holl da, nat echwynynt dim oe uab ef.—*Brut y Tywysogion*, 220.

Ai cystal amgylch castell,
Neu a gaid *bwrdeisiaid* gwell?—*L. G. Cothi*, v. v. 7.

Llyma bwnc a ddamwyniodd. . . yn y dref a elwid Alest, pedair milltir ar hugain o Efiniwn, yn y dydd y bu farw *bwrdais* cadarn a elwid Gwidw.
Hanes Gwidw (Brython, iii. 241).

2. a burgess; a representative of a borough in parliament.

Ai e, ai e, meddwch chwi, Mr. Owen yw'r *bwrdais* dros dref y Duwmaris.—*Gronwy Owain*, 197.

Bwrdeisdref, -i, -ydd, *sf.* a borough town, a borough; a corporation.

Maer a meistr ar *fwrdeisdref*.—*Guto'r Glyn*.

Pob un o'r lleoedd canlynol a wneir yn *fwrdeisdref* newydd.—*Seren Gomer*, xv. 257.

Bwrdeisiaeth, -au, *sf.* the state, quality, or privilege of a burgess; burgess-ship.

A swmp mawr y daethym i i gael y *fwrdeisiaeth* hon [*braint y dinas hon].—*W. Salesbury:* Act. xxii. 28.

Bwrdeisio, *v.* to admit a burgess.—*W.*

Bwrdeisiol, *a.* relating to a burgess; pertaining to a borough.

Bwrdiwr, wyr, *sm.* one that grudges; a malevolent one.

Berw a dyr craig, *bwrdiwr* craff,
Blaidd wybren yn rhoi bloedd-braff.
Mer. ab Rhys, i'r Gwynt.

Bwrdd, *pl.* byrddau, *sm.* [see *Bord*] 1. a table; a board.

Ar trydyd chwech o nadunt a dodassant llieineu ar y *byrdeu*. ac a arlwydassant vwyt. . . Ac aryant oed y *bwrd*. a bliant oed lieineu y *bwrd*.—*Mabinogion*, i. 4 (cf. 245).

Ti a wdost ynda panyw Iessu Grist awnaeth yn gyntaf un aelwit y vort. kystal yw hynny yngkymraec a *bwrd* y bwyteir arnaw.—*St. Greal*, § 20.

Beirdd gwelais, *bwrdd* a gwely
A faeth perchentyaeth tŷ.—*Llywarch Bentwrch*.

Bwrdd a lletty, board and lodging.

Bwrdd yr Arglwydd, *Bwrdd Crist*, } the Lord's table.—1 *Cor.* x. 21.

Bwrdd y Cymmun, *Bwrdd y Cymmundeb*, } the Communion table.

Bwrdd tal, a high table; the upper table (in a hall).

A *bwrdd tal* y beirdd wyt ti.—*Guto'r Glyn* (Iolo Mss. 317).

Bwrdd crwn (*pl.* byrddau crynion), a round table.

Bwrdd Arthur, King Arthur's Table, a name borne by several cromlechs—*Archaeologia Cambrensis*, 4 S. iv. 269; v. 88, 175.

Y mae ereill yn swydd Gaerfyrddin, megys *Bwrdd Arthur*, Gwâl y Filast, a Llech y Fleiddast.
Cylchgrawn, i. 317.

Bwrdd cyfrif, a counting-table; an abacus; a bank.

Pob gwas . . . cywir a rydd yr arian a dderbyniodd am nwyf ei feistr, ym *mwrdd cyfrif* ei feistr.
Daniel Rowland: Pregethau, vii. 75.

Bwrdd cyfnewid, board of exchange; a bank.

A pha ham na roddaist fy arian i i'r *bwrdd cyfnewid*?
Luc xix. 23.

Dros y bwrdd, over the table; across the table.

Uwch law bwrdd, above board, openly.—*W.*

Gwasanaethu byrddau, to serve tables.—*Act.* vi. 2.

2. a board (for transacting some business); a committee.

Bwrdd masnach, *Bwrdd trafnid*, } board of trade.

Bwrdd ysgol (*pl.* byrddau ysgol, byrddau ysgolion), a school board.

Bwrdd gwarcheidwaid, board of guardians.

Bwrdd amaethyddiaeth, *Bwrdd diwyllodraeth*, } board of agriculture.

Dyna ddull yr aradr a ddyfalid gan Mr. C. Hassal, yn ei fynegiad o swydd Penfro at y *Bwrdd Diwyllodraeth*.
W. O. Pughe: C.P. 41.

3. deck (of a ship).

Bwrdd llong, the deck of a ship.

Ar y bwrdd, on deck; on board.

Ar fwrdd llong, on board ship; on the deck.

Ac ar hynny nachaf un or llongeu yn raculaenu rac y rei ereill. ac y gwelynt dyrchauael taryan yn veh no *bwrd y llong*.—*Mabinogion*, iii. 82.

Dros y bwrdd, over board; over the deck.

Bwrel, -au, *sm.* [bwrw] a piece (as of a wall fallen down, and the like); a large shapeless mass, fragment, or piece.

Mae *bwrel* o'r wal wedi cwympo.—*Dyfed*.

Bwrfais, feisiau, *sf.* [bwrw+mais: cf. *dyfais*] device, plan, scheme, project; purpose.

Mae dy lais yn rhoi distawrwydd
Ar holl *fwrfais* wag y byd,
Yn gwastoti pob rhyw derfysg
Fago nwydau croes yng nghyd.
W. Williams: Hymnau, dccxlvii. 4.

Fe'th lanwodd o ryw *fwrfais*,
Meddylgar wyt a phrudd;
Am Philo'r wyt yn meddwl
O ddechreu nos i ddydd.
W. Williams: Theomemphus, xiii. 89 (cf. x. 47).

Bryd a bwrfais, bent and study; aim and object.

Boed fy *mryd*, a'm hyfryd *fwrfais*,
A fy mhleser tra fwyf byw,
Uwch teganau gwag y ddaiar,
Ar gymdeithas bur fy Nuw.
W. Williams: Hymnau, dccxlv. 3.

Bwrgais, geisiaid, *sm.* [E. *burgess*, †*burgeys*; O.Fr. *burgeis*; L.L. *burgensis*; C. *burges*; Br. *bourc'hiz*] 1. a burgess; a citizen.

Ac ef a welei *bwrgeis* ar geuyn march mawr yn dyuot parth ac attaw. . . Arglwyd heb y *bwrgeis* ryued yw gennyfi vot gwr kystal athydi o debygu heb varch da idaw. Arglwyd heb y Gwalchmei ny allafi i wellau ef yssywaeth. A unben heb y *bwrgeis* y ba le y mae yth vryt ti vynet.
St. Greal, § 114 (cf. 120).

A choffau a wnaeth Rys Gryc rac brat y gan y *bwrgeisseit*, a cheissaw kyffroi y Kymry y diogelwch y coedyd.
Brut y Tywysogion, 312.

2. a burgess; the representative of a borough in parliament.

Bwrgeisiaeth, -au, *sf.* burgess-ship.

Bwrgeisio, *v.* to admit a burgess.

Bwrgeisiol, *a.* of or belonging to a burgess.

Bwriad, -au, *sm.* [bwrw] 1. a throwing, a casting, &c. (after the verb *bwrw*).

2. intent, purpose, design; intention, aim; inclination, disposition.

Tydi Arglwyd rwyd rinwedeu bob awr
A rodet dan llawr vawr *vwryadeu*.
Gr. ab Meredydd: M.A. i. 471 (cf. 433).

A'r Arglwydd a welodd mai aml oedd drygioni dyn ar y ddaiar, a bod holl *fwriad* meddylfryd ei galon yn unig yn ddrygionus bob amser.—*Gen.* vi. 5.

Llawnion oedd y gweision gau
O frydiawg ddrwg *fwriadau*.—*D. Ionawr:* Gwaith, 170.

Bwriadlawn, *a.* full of intentions or designs; fully intent.

Bwriadol, *a.* intending, purposing, designing; intentional, intended, designed, purposed.

Yn fwriadol, intentionally, designedly, on purpose, purposely, by design.

Bwriadu, *v.* to purpose, intend, or design; to resolve; to devise; to forecast.

Efe a ddodes gwyn yn erbyn Iorwerth ei fod yn *bwriadu* brad a thwyll yn ei erbyn.
Brut Aberpergwm: M.A. ii. 535 (cf. 501).

Ni fuasai cymmaint mor rhusaidd . . . i amcanu a *bwriadu* gwneuthyd y peth.—*H. Perri:* Egl. Ffr., Rhag. 3.

Bwriadu bwriadau, to devise or forecast devices; to conceive purposes; to form designs.

Ni wyddwn *fwriadu* o honynt *fwriadau* yn fy erbyn i.
Ier. xi. 19 (cf. xlix. 20, 30; Dan. xi. 24).

Bwriadus, *a.* having a design, intention, or purpose; intentional, designed, purposed.

A chan i ni wybod mai y ddoethineb hon yw amcan *bwriadus*, a meddwl hylawch pob dyn athrawgar anchwith, yn y byd hwn, na esgeuluswn ninnau neb rhyw un o'r cyfryngau sydd i'n harweddu ac i'n tywys ati.
H. Perri: Egl. Ffr., Rhag. 3.

Bwriadwr, wyr, } *sm.* one who intends or
Bwriedydd, -ion, } purposes; one who forms a design or purpose; an intender; a designer.

Yn nesaf, galwyd *Bwriadwr* Dyfeisiau.
Elis Wynn: Bardd Cwsg, 65.

Bwriedig, *pt.* [bwrw] thrown, cast; overthrown.

Ar pump marchawc a oedynt . . . yn kynnullaw meirch y *bwryedigyon*. ac yn eu hanuon y gastell o Gamalot.
St. Greal, ¶ 100.

Bwrli, *sm.* [corr. of *myrtle?*] sweet gale, Dutch myrtle (*Myrica gale*).—*Hugh Davies:* Welsh Bot. 162.

Bwrlwg, *sm.* [bwrw+llwg?]=*Bwlwg*.

Mae'n taflu *bwrlwg* chwithig,
A malu ewyn ffroch,
Ysgrecha yn fwy oerllyd
Na gwrach y rhibyn groch.—*Gwynionydd:* Briallen, 15.

Bwrlwm, lymau, *sm.* [im.] a bubble; a water bladder; a gurgling.

Hen ffynnon loew Ceitho Sant,
O'r graig yn gysson dardd;
Ei tharddiad hi a ffurfia nant,
A'i *bwrlwm* arnom chwardd.
Gwynionydd: Caniadau, 94.

Bwrlymaidd, *a.* like a bubble; bubbling; gurgling; having a purling noise.

Pa oergri *fwrlymaidd* o'r Ganges a glywir?
Maban a foddwyd gan grefydd y fam.
Blackwell: Ceinion Alun, 186.

Bwrlymiad, -au, *sm.* a bubbling; a gurgling.

Bwrlymog, *a.* full of bubbles; bubbling.

Bwrlymol, *a.* bubbling or gurgling (as of a liquid out of a narrow-mouthed vessel, without vent or air; or as bubbles rising from the bottom of a spring to the surface).

Bwrlymu, *v.* to bubble; to gurgle; to rise in bubbles.

Yr afon nesaf a welwn ydyw yr Aeron, yn *bwrlymu* trwy ddyffryn ffrwythlon a theg o'r un enw.
Gwallter Mechain: Gwaith, ii. 342.

Dafydd ab Gwilym, pen-awenydd Cymru,
Athrylith goeth oedd ynddo yn *bwrlymu*.
Gwynionydd: Briallen, 17.

Bwrn, *pl.* byrnau, *sm.* [C. *bern;* Br. *bern*] a truss; a bundle; a burden; a heap.

Bwrn a baich, bundle and burden: cf. s.v. *Baich*.

Bwrn ar y cylla, pressure on the stomach.

Bwrnel, -i, -au, *sm.* [bwrn] a bundle, a truss; a heap; a large shapeless piece.

Ynddo ni chaid namyn *bwrnel* o fanwellt a chlustog frwyn, a'r hen wr yn farw arnynt.—*Iolo Mss.* 180.

Bwro, *v.* by-form of *bwrw*, q.v.

Bwrw, *v.* 1. to cast, to throw.

Ac ar hynny y arganuot or teulu a *bwrw* llyskyon idaw.
Mabinogion, i. 241.

A lle nad elont ar y gair cyntaf, *bwriaf* fal hyn fy ffon arnynt; a chyda hyny *bwrw* ei ffon â holl nerth braich. . . Mal dall yn *bwrw* ei ffon.—*Iolo Mss.* 182.

Bwrw cerryg, to throw, cast, or hurl stones.

Bwrw golwg, to cast a look or glance; to glance.

Ac yna *bwrw golwc* oe blaen ac arganuot croes uawr ucheldec.—*St. Greal*, ¶ 176.

Bwrw golwg lem a'r drem draw
Am wen, a'i mawr ddymunaw.—*D. ab Gwilym*, lxx. 9.

Bwrw naid, to take a leap; to leap, bound, vault, spring, or jump.

Yna roi y cledyf aoruc ef ar y gwely gyt ae wein. a *bwrw neit* or ysgraff aoruc. ac ymlad ar cawr ac ar hynt y lad.
St. Greal, ¶ 50 (cf. 75, 150, 171).

Sef a oruc Oweyn *bwrw neit* a chyrchv lle klywei yr awr.
Brut y Saeson: M.A. ii. 550.

Bwrw coelbren, to cast lots.—*Ios.* xviii. 6, 8, 10; *Mat.* xxvii. 35.

Bwrw coelbrenau, } to cast lots.
Bwrw prenau, }

A hwy a *fwriasant* eu *coelbrenau* hwynt.—*Act.* i. 26.

Yna y *bwryassan brenneu* y edrych beth a wnelei pob un.
Buchedd Mair, ¶ 9.

Wynt a rannassant vyn dillat. ac a *uuryassant brenneu* ymdanunt.—*Y Groglith*, ¶ 11.

Bwrw ergyd, to give or send a blow; to strike a blow.

Bwrw saeth, to throw, discharge, shoot, or send an arrow.

Gwedy *bwrw saetheu* o bop tu y dygwydawd Owein yn vrathedic.—*Brut y Tywysogion*, 138 (cf. 148).

Bwrw â saeth, to strike or hit with an arrow; to shoot with an arrow.

Un or kennadeu yr hwn aelwyt Ymbert a annelawd y wua ac a *wriws* Coryneus *â sayth*.
Brut Gr. ab Arthur: M.A. ii. 106.

A phan weles Alecsander Meneläws, ef a *fwriodd* Alecsander ef *â saeth*, ac a'i medrawdd yn ei forddwyd.
Ystori Dared, ¶ 65 (cf. 86).

Brathwyt a saeth y gan Wallter Turel marchavc idaw oe anuod, pan yttoed yn *bwrw* karw y medrawd y brenhin ac ae lladawd.—*Brut y Tywysogion*, 64 (cf. 164).

Bwrw angor: see *Angor*.

Bwrw ewyn, to foam; to cast out foam.

Yntau a *fwrw ewyn*, ac a ysgyrnyga ddannedd.
Marc ix. 18.

Bwrw cyrch, to make a sally; to sally; to set out; to make an attack.

Bwriais gyrch hyd Abererch.—*Gro. Owain*, 8.

Bwrw amcan: see *Amcan*.

Bwrw esgus, to make an excuse.

Ac wynteu heb allel ymdiret yr brenhin a geissassant achaws y *vwrw escus*.—*Brut y Tywysogion*, 66.

Bwrw y cardiau, to cast or throw the cards; to consider; to calculate.

Bwrw ar dyb, to grant hypothetically; to suppose; to assume.

Bwrw hawl, to establish a title (in law).

Bwrw barn, to give judgment.

Bwrw awen, to poetize; to compose verse or poetry.

Bwrw yng ngharchar, } to cast into prison.—
Bwrw i garchar, } *Ioan* iii. 24.

A *bwrw* Iorwerth *yng ngharchar* yn annhrugarawg ac yn anghyfiawn.—*Brut Aberpergwm:* M.A. ii. 535.

Bwrw clawdd, to cast up a bank or mound.

Yna y daw brenin y gogledd, ac a *fwrw glawdd*, ac a ynnill y dinasoedd caerog.—*Dan.* xi. 15.

Bwrw tail, } to throw or spread manure; to
Bwrw dom, } carry manure (to fields); to dung, to manure.—*Luc* xiii. 8.

Bwrw heli yn y môr (=bwrw dwr yn Hafren, yn Nhawy, yn Nheifi, yn Nyfi, yng Nghonwy, &c.), to cast water into the Thames; to carry coals to Newcastle.

Bwrw lludded, } to recover of fatigue or toil.
Bwrw blinder, }

A thi a deuy gyt a mi y *vwrw* dy *ludet* ti ath wyr.
Mabinogion, i. 25.

Bwrw ei annwyd, to keep out the cold; to get or regain one's heat (by bodily exertion).

Bwrw i fyny, to throw or cast up; to vomit.

Bwrw i lawr, to cast or throw down.

Bwrw ar led, to cast abroad.

Bwrw at, to throw or cast to or at; to hint at; to allude to.

Na thybied neb fy mod i yn *bwrw atynt* hwy.
Ch. Edwards: Han. y Ffydd, 184.

Bwrw allan, to cast out; to cast forth; to send forth, to emit.—*Gal.* iv. 30.

2. to throw or overthrow; to overturn; to cast or throw down.

Hyd nat oed un heb y *vwrw* or marchawc namyn Arthur a Gwalchmei. . . Ac ny bu agos yr un o nadunt a *bwrw* ygilyd yr llawr.—*Mabinogion*, i. 24 (cf. 242, 267, 280).

Bwrw saer gwawd, tafawd hyfedr,
Berw eurwawd, bwy mwy a'i medr?
Bwrw pencerdd, bu wr pynciau,
Bu hoew dra fu'n eu bywhau.
Ior. Fynglwyd: Iolo Mss. 317.

3. to strike; to hit.

Ac ar hynny kymryt un oe aflacheu a wnaeth Paredur. a *bwrw* y marchawc ar daryan goch yn gynffestet ac yny oed y gaflach drwy y arueu.—*St. Greal*, ¶ 82.

Diffeithwr ger llaw a'i *bwr* hi i lawr â'i fwyall.
Theo. Evans: D.P.O. i. 4 (141).

Bwr di fi, os beiddi, strike me, if you dare.

Bwrw â dwrn, to strike with the fist.

4. to pour, to empty; to cast or found; to run.

Bwrw iddi hefyd bedair modrwy aur, a dod ar ei phedair congl.—*Ecs.* xxv. 12.

Y peth bo adeg iddo,
Ni thâl ei esgeuluso;
Rhaid curo'r haiarn yn ei wres,
A *bwrw*'r pres pan doddo.—*Pennill.*

Haiarn bwrw, cast haiarn.

5. to bring forth young (used of quadrupeds); to drop; to cast.

Y mae rhai creaduriaid yn y moroedd yn *bwrw* eu rhai bach yn fyw, fel anifeiliaid y ddaiar.
D. Lewys: Golwg, xiii. 4.

Bwrw llo, to drop a calf, to calve.

A fedri di wylied yr amser y *bwrw* yr ewigod *loi*? . . . Ymgrymant, *bwriant* eu llydnod, ac ymadawant â'u gofid.
Iob xxxix. 1, 3.

Bwrw oen, to lamb.

Bwrw cwn, to pup, to litter.

6. to rain; to shed; to pour.

Mae (hi) yn bwrw, it rains; it is raining.

Mae'n *bwrw* 'ng Nghwm Berwyn, a'r cysgod yn estyn.
Edw. Richard: Bugeilgerdd, i. 33.

Bwrw gwlaw, to rain.

Bwrw eira, to snow.

Bwrw cenllysg, } to hail.
Bwrw cesair, }

Bwrw dagrau, to shed tears; to weep.

7. to suppose; to imagine; to conceive; to conjecture; to think.

Er nad yw raid i ni fod o'r un tyb â'r rhai sydd yn *bwrw* y diddymir y ddaiar gan y ffaglau tân a dreiddiant trwy ei holl gyrau hi.—*Ier. Owen*, 42.

Nid wyf fi yn *bwrw* ddarfod i mi gael gafael.—*Phil.* iii. 13.

Y mae bywyd anifail yn beth tra rhyfeddol. Y mae'n llawer rhyfeddach nag y mae llawer yn *bwrw* ei fod.
D. Lewys: Golwg, ix. 9.

8. to cast; to calculate, reckon, count, or compute.

Bwrw rhif, to practise arithmetic; to cipher; to cast accounts; to calculate.

Tair cainc barddoniaeth y sydd: prydu; darllen ac ysgrifenu; a *bwrw rhif.*—*Llanover Ms.*

Bwrw y draul, to count or estimate the expense; to calculate the cost; to cast up the cost.

Pwy o honoch chwi â'i fryd ar adeiladu tŵr, nid eistedd yn gyntaf, a *bwrw y draul*?—*Luc* xiv. 28.

9. to cast; to condemn; to convict; to sentence.

Mae Duw yn bendifaddeu'n bresennol yng nghydwybod pob rhyw ddyn yn Dyst ac yn Farnwr; hyny yw, y mae ef yno yn Gofiadur i adgoffa'n gweithredoedd ni, ac yn dyst i'w dwyn oll i'r farn, ac yn Farnwr i gadw neu i *fwrw*.
Elis Wynn: Rh. B. S. iii. 1 (26).

Yr hwn wr hefyd sydd wedi ein *bwrw* ni yn euog.
M. Cyffin: Diff. vi. 4.

Wedi iddo fod ennyd yn bwrw celanedd i'w geubal ddiwala, parodd roi dyfyn i'w ddeiliaid, ac a symmudodd o'r allor i orseddfainc echryslawn dra uchel, i *fwrw*'r carcharorion newydd ddyfod.—*Elis Wynn:* Bardd Cwsg, 59.

10. to spend or pass (as time).

Y bobl a lawenychasant yn ddirfawr, ac a *fwriasant* y diwrnod hwnw trwy orfoledd mawr.—1 *Macc.* vii. 48.

Bwrw enwog oes, heb ry nac eisieu.—*Gro. Owain*, 9.

Bwrw yr haf, to pass or spend the summer; to summer; to estivate.—*Esa.* xviii. 6.

Bwrw y gauaf, to pass or spend the winter; to winter; to hibernate.

11. to send forth; to emit; to give or bestow.

Bwrw dysc in mysc yrfyd crynfa
Bwrw fendith in plith pletha ddwyolder
Ner na rysommer rhai sy yma
Buriaf i weddi ym a wedda
Buriaf y gennyt gennyt ydd a.
Iorwerth ab y Cyriog: M.A. i. 535.

¶ *Bwrw* is generally conjugated as if the infinitive were *bwrio;* and in M.W. the *w* is regularly changed into *y* in the finite moods; as, *byryeis, byryei, byryawd, byrir, byrywys;* but this mutation is no longer made. In the dialect of Gwent the final *w* is sometimes retained, when it assumes its consonantal power.

Yr arlwydd a *fwrwodd* yn ei fryd fod Hywel erbyn hyny wedi ei losgi yn yr odyn.—*Iolo Mss.* 171.

Edrychod y bardd ar bob hanfod ac anian, a *bwrwed* lawn a chyfiawn seldrem ar bob peth.
Cyfrinach y Beirdd, 39.

Cymmered y llyn a ddangoswyd yn ei eneu lwyaid ar y pryd, a thrafoded â'i dafawd a'i anadl yn dda, onid el yn ei lwnc, a gochel ei lyncu, a *bwrwed* allan.
Meddygon Myddfai, ii. 640.

Lle *bwrwaist* arnaf gyflawn wg,
Am fod yn ddrwg fy muchedd.
Iolo Morganwg: Salmau, i. xciv. 4.

Sef mal y kedwis adelei o varchawc yno. Owein ae *byryei*.
Mabinogion, i. 21.

Bwrw, *pl.* bwriau, *sm.* 1. a cast or throw; the thing thrown; what is cast in the mind; intention.

Brwysc rwysc rwyf trydar
Bwrw lwrw lid anwar
Bwyd adar oe adaf.—*Cynddelw:* M.A. i. 262 (cf. 286, 435).

Bwriau, intentions, devices.

Geiryeu amyl *vwryeu* ymleveryd.
Gruffydd ab Meredydd: M.A. i. 465.

2. the woof or weft (in weaving).

3. a tally (in counting).

Bwrw o wyau, six eggs (in reckoning); that is, three in each hand.

Bwsg, *pl.* bysgau, *sm.* an instrument for raising the bark in grafting or inoculation.

Bwt, *pl.* bytiau, *sm.* 1. a hole; a button-hole. 2. a dung-cart. 3. a kind of basket, to place in the stream to catch fish.—*Gwent.*

Bwtias, -au, *sm.* [cf. *botas*] a pair of boots.—*N.W.*

Bwtias y gog=Botas y gog.—H. Davies: Welsh Bot. 33, 162.

Bwtiasen, *sf.* a boot.—*S.*

Bwtwn, *pl.* bytynau, *sm.=Botwm, Botwn.*

Nad fod *bwtwn* heb ei gaued,
Cyn y caffo neb dy weled.
Rhys Prichard: C. y C. cxxxix. 2.

Bwth, *pl.* bythod, *sm.* [Ir. *both, boith;* Ga. *buth;* E. *booth*] a booth; a cot, a cottage; a hut; a shed; a tent.

Ysgawd o fewn bargawd *bwth*.
Iustus Llwyd: M.A. i. 558.

I'r bedw, nid er bwydydd,
Nid gwahawdd glwth i *fwth* fydd.—*D. ab Gwilym*, xix. 5.

Ofnes o Gawres i Langurig,
A hyd ym *mythod* gwlad Amwythig.
L. G. Cothi, iv. ii. 51.

Mewn *bythod* yr aroswch saith niwrnod; pob priodor yn Israel a drigant mewn *bythod:* fel y gwypo eich cenedlaethau chwi mai mewn *bythod* y perais i feibion Israel drigo, pan ddygais hwynt allan o dir yr Aipht.
Lef. xxiii. 42, 43.

Bwthyn, -au, -od, *sm.* [dim. of *bwth*] a small booth, cot, or hut; a booth, cot, or cottage.

Byw fal hyn mewn *bwthyn* bach;
Brenin wyf a'm bron yn iach.
Dafydd o'r Nant: Cyfr. y Beirdd, 161.

Bwthynwr, wyr, *sm.* a cottager, a cottar.

Y mae y *bwthynwyr*, yn lle bod yn faich i'r plwyfi, wedi dyfod yn gyfranwyr at dreth y tlodion.
Lleuad yr Oes, i. 127.

Bwy, *pr.=Pwy.*

Berw eurwawd, *bwy* mwy a'i medr?
Iorwerth Fynglwyd: Iolo Mss. 317.

Bwy unfraint â'r hen Benfras?
Gwae fe fyw, ei lyw a las.—*Gro. Owain*, 14.

Bwy gilydd=Bwygilydd, Pwygilydd.

Bwyaid, *s.pl.* [=mwyaid, *q.v.*] 1. consecrated wafers; the eucharist.

Mi ae gowinneis y offereid bid
Ae hesgip ae higneid
Pa beth orev rac eneid
Pader a *buyeid* a bendiceid
Credo ae canho rac eneid
Hid wraud goreu gortywneid.—*A.B.* ii. 44 (M.A. i. 579).

2. the mass (of the R. C. Church).

Ny chenir *buyeid* ar ffo.
A.B. ii. 5 (cf. 305; M.A. i. 33, 154).

Bwyall, } eill, *sf.* [C. *boell, bool, biail;* Br. **Bwyell,** } *bouc'hal;* Ir. and Ga. *biail*] 1. an axe, a hatchet.

Bahell (*gl.* securis): *laubael* (*gl.* secularia).
Oxf. Gloss. v. 42 (Zeuss, G.C. 1061).

Ef a glywei dyrnawt mawr rwng ysgwyd a mynwgyl idaw a mynybyr *bwyall.—Mabinogion*, i. 280.

A *bwyall* droed afall, draw,
O'm cwr i'm lladd, a'm curaw.
D. ab Gwilym, ccxviii. 23 (cf. ccviii. 91).

Bwyall arf, pl. bwyeill arf, } a battle-axe.
Arf-fwyall, pl. arf-fwyeill, }

Buyall aryf due keynnyawc.—*Cyfreithiau Cymru*, i. 304.

Aref buyall due keynnyauc.—*Cyfreithiau Cymru*, i. 304.

Bwyall ddeufin, } a two-edged axe, a battle-
Bwyall ddeufiniog, } axe.

Bwyall ddeupen, } a double axe, a battle-
Bwyall ddeupenog, } axe.—*W.*

Bwyall ennilleg, a battle-axe.

Bwyall enillec dwy geinhawc kyfreith.
Cyfreithiau Cymru, i. 726.

Bwyall gaib, a pickaxe.—*S.W.*

Bwyall gymmynu, a felling-axe.—*N.W.*

Bwyall gynnud, an axe for felling trees; a fuel axe or hatchet.

Y gwr a geiff y gallawr ar tappin neu y breccan ar gobenyd ar cwlltwr ar *vwyell gynnut* ar taradyr.
Cyfreithiau Cymru, i. 522 (cf. 72, 554, 580, 722, 760).

Bwyall hir, a long axe, a felling axe.

Bwyall lydan, a broad axe, a working axe, a squaring axe.

Buyall ledan pedeyr keynnyauc. *Buyall kenut* due keynnyauc.—*Cyfreithiau Cymru*, i. 298 (cf. 66, 680, 722).

Bwyall fechan, a small axe, a hatchet.

Buall vecan un keynnyauc kyfreith.
Cyfreithiau Cymru, i. 298.

Bwyall ryfel, a battle-axe.—*W.*

Llaw-fwyell, a hand-hatchet.

Llawvwyell keinnawc kyureith atal.
Cyfreithiau Cymru, i. 580.

Bwyall Llawdden, Llawdden's axe, Llawdden's polisher; that which gives polish or smoothness to a poetical composition; Llawdden having been appointed to improve and systematize Welsh versification at the Carmarthen Eisteddfod held in 1451. His own compositions are very finished and flowing; and the expression may also have some reference to the *gold axe* which he won at the same Eisteddfod.

Y mae ol bwyall Llawdden ar y gerdd, the poem has marks of Llawdden's axe or polisher; it is a finished piece of poetry.

Gwr oedd Llawdden o Ddeheubarth . . . a chystal oedd ei gamp ar iaith a chynghanedd fal y cafwyd o hyny y ddiareb, sef pan y gwelir penigamp o gerdd dafawd ac araith, y dywedir fod arni *ol bwyall Llawdden;* ac achos hyny y dodes Gruffydd ab Nicolas arno drefnu yr ystatud ar gerdd.—*Y Greal*, 60 (cf. 59).

A'r ddegfed flwyddyn cynnal ail eisteddfod fawr Caerfyrddin, lle ennillodd Dafydd ab Edmwnt y gadair arian am ei orchestion a fernid yn oferbwyll celfyddyd gan feirdd Morganwg; a Llawdden yn bencerdd cadeiriog, a gafodd y *fwyall aur* am ei wellâd ar y cynghaneddion; ys ef, ni bu achos gwelläu ernynt ym mhellach fyth wedi hyny.—*Cyfrinach y Beirdd*, 240.

A gwr oedd, un goreu 'i air,
A gaid yn dwyn dwy gadair . . .

A *bwyall aur* (da 'i bwyll oedd)
Morganwg, lle mae'r gwinoedd . . .
Rhoddai'n ei gerdd ryw ddawn gall
A fai yn *ol ei fwyall;*
A naddai'r cynghaneddion
Mal prifardd yn hardd â hon.
Ior. Fynglwyd, am Lawdden: Iolo Mss. 318, 319.

Llwyddiant i *fwyall Llawdden.*
D. Ddu Eryri: Corff y Gainc, 168.

2. an axe, a battle-axe: a common meaning in connection with olden warfare.

Troist wŷr yn gyrch, troist rai'n gall,
Ti â'th faeart a'th *fwyall.*
L. G. Cothi, VIII. vi. 19 (cf. IV. ix. 28).

Eryr a brëyr lle briwid *bwyaill,*
A llew ar eraill a oreurid.
L. G. Cothi, II. x. 51 (cf. v. v. 50).

¶ Both forms (*bwyall* and *bwyell*) are old, as will be seen by the preceding extracts, and both are in common use. Most editions of the Bible have *bwyall* in the singular, with *bwyill* in the plural.

Bwyd, -ydd, -au, *sm.* [C. *buit* (C.V.), *boys;* Br. *boéd* (pl. *boédou*), *bouéd;* Ir. *biad, biaidh, buadh;* Ga. *biadh*] 1. food, meat, victuals; provisions.

Hy adely y *buyt* or llys; ay dyllat.
Cyfreithiau Cymru, i. 72.

Alldudyon tros vor neu ogluad arall ac agheueys ny deleyr nac am *voet* nac am dym arall eu dyenyhu.
Cyfreithiau Cymru, i. 256.

Kanyt oes yma neb heb y wassanaethu o bop kyfryw *vwydeu* mawrweirthyauc or a rybychei ehun.—*St. Greal*, § 5.

Ni mynut, ben ymwanwr,
Bwyd y dydd, ond bedw a dwr;
Bwyd o frig coed bedw y fron,
Bwyd ieir mewn bedw irion.—*D. ab Gwilym*, cx. 21.

Y bol a dreulia bob *bwyd;* ond y mae rhyw *fwyd* yn well na *bwyd* arall. Taflod y geneu a edwyn amryw *fwyd* hela.
Eccl. xxxvi. 18, 19.

Ar fwyd, at meat, at table; during meal.

Suydhocyon eryfassam ny huchof dyuethaf *ar uuyt* ynt.
Cyfreithiau Cymru, i. 4.

Bwyd a diod, } meat and drink.
Bwyd a llyn, }

O gwely *vwyt a diawt* or byd reit itt wrthaw. ac na bo o wybot a dayoni y rodi itt. kymer dy hun ef. . . Yna y kymerth Peredur hanner y *bwyt ar llynn* idaw ehun.
Mabinogion, i. 238, 239 (cf. 5, 263).

Heb gymmeryd na rhodd na gobr, na *bwyd* na *llynn* . . . eithr i dlawd ac anghenus y rhoddynt roddion o'u haur a'u harian, a'u gwisgoedd, a'u bwydydd.—*Trioedd:* M.A. ii. 61.

Nid yw teyrnas Dduw *fwyd a diod.*—*Rhuf.* xiv. 17.

Gwybydet pawb mae kyrff y dynion yssyd yn erbyn y *bwydeu ar llyn.*—*Meddygon Myddfai*, i. 178.

Offrwm bwyd (*pl.* offrymau bwyd), meat-offering.

Torwyd oddi wrth dŷ yr Arglwydd yr *offrwm bwyd*, a'r offrwm diod.—*Ioel* i. 9.

Er i chwi offrymu i mi boeth-offrymau, a'ch *offrymau bwyd*, ni fyddaf foddlawn iddynt.—*Amos* v. 22.

Bwyd a dillad, food and clothing.

Bwyd cennad y meirw, food for the messenger of the dead. In some parts of N.W. it is customary for children, on All Saints' Day, to go about to beg for some article of food, telling their message in the following rhyme:

Dydd da i chwi heddyw,
Bwyd cennad y meirw.

They generally receive small cakes made for the occasion; but these are sometimes commuted for coppers.

Mydrwyr yn canu ar eu bwyd eu hunain (1), a cant phrase for musical amateurs.—*P.*

(2) amateur poets; poets who lived on their own means, as distinguished from the *cler* or itinerants, who were poets by profession, and obtained their subsistence by going round their circuits.

Llyma ddyledog goffadwriaeth am lawer o henwau mydrwyr o'r Brytaniaid a'r oedd ar unwaith, o'n cyfoes ni, *yn canu ar eu bryd eu hun*, fal y mae y ddiareb; yn foneddigion, ac uchelwyr da; ond am y prydyddion sydd yn clera, ni soniwn am danynt.—*Y Greal*, 105.

Ieuan lygad y bwyd, } a smell-feast; a hunter
Sion lygad y bwyd, } of great men's tables; a parasite; an epicure.

Bwyd llwy, spoon victuals.

2. (in botany.)

Bwyd y barcud=*Bwyd y llyffant.*

Bwyd y gwcw, cuckoo's meat, cuckoo's bread, wood sorrel (*Oxalis acetosella*): also called *suran y gog, suran y coed*, and *suran teirdalen.*—*S. W.*

Bwyd y llyffant, } agaric, mushroom (*Agaricus*).—*H. Davies:* Welsh
Bwyd llyffaint, } Bot. 122, 162.
Bwyd ellyllon, }

Cymmer fadarch, a lle ni bo, ffwng y ddaiar a elwir *bwyd llyffaint*, a'r dail cochon a fydd ar y gwern, ac ymenyn puredig, a berw yng nghyd mewn llaeth defaid.
Meddygon Myddfai, ii. 595.

Bwyd hwyaid, } duckweed, duck's meat
Bwyd yr hwyaid, } (*Lemna*).—*Hugh Davies:* Welsh Bot. 83, 162.

Lens palustris, *bwyd hwyaid*, llinhad y llyn.
Meddygon Myddfai, 287.

Bwyd hwyaid y dwr, lesser duckweed (*Lemna minor*).

Bwyd y moch, haws, the fruit of the hawthorn: also called (in S.W.) *crawel moch.*

¶ Formerly the pl. was generally *bwydau*, but now more usually *bwydydd*, a change not for the better.

Bwyda, *v.* to feed; to give food to.

Bwyda 'r llo, newynu 'r plentyn,
Lladd y diddrwg yn ei rwymyn.
Rhys Prichard: C. y C. lxxxix. (*b.*)

Bwydedydd, -ion, *sm.* a victualler.—*W.*

Bwydfa, -oedd, *sf.* an eating-place, a victualling house.—*W.*

Bwydfawr, *a.* much given to eating; gluttonous.

Dyn bwydfawr, a great eater, a glutton.

Un *bwydfawr* iawn ydoedd [Nyniaw ab Brân], a hyny a fu achos ei wallgof.—*Iolo Mss.* 10.

Bwydgais, *a.* seeking food; hungry.

Gafr hyfram fawtgam *fwytgais* fon llommach
No llumman Llanferrais.
Madog Dwygraig: M.A. i. 488.

Bwydgell, -oedd, -au, *sf.* a pantry, a larder.

Iddi hi yn unig yr ymddiriedid agoriadau y *bwydgell.*
Brutus: Ninefeh, 72.

Bwydiad, -au, *sm.* a feeding; a feed; the quantity of fodder given to cattle at one time.

Bwydiar, -au, *sf.* a large wooden platter to hold victuals; a tray.

Bwydiog, *a.* abounding with meat; gluttonous, gormandizing.

A myneich geuawg *bwydiawg* gwydius.
Myrddin: M.A. i. 151.

Bwydlawn, *a.* full of meat.

Bwydlys, -iau, *sm.* salad.

Y llysieuyn cyffredin hwn sydd *fwydlys* iachus a blasus, gwedi ei ferwi, yng nghyd â chigfwyd.—*H. Davies:* Llysieuaeth Gymreig, 160 (cf. 157, 207, 214, 235).

Bwydo, *v.* 1. to feed; to supply with food; to victual.

2. to fill (as leguminous plants); to grow or become full.

Mae y ffa yn bwydo yn dda, the beans fill well. —*Gwent.*

Bwydoffrwm, ymau, *sm.* meat-offering.

Dy holl *fwyd-offrwm* hefyd a hellti di â halen. . . Ac os offrymi i'r Arglwydd *fwyd-offrwm* y ffrwythau cyntaf . . . yd a gurir allan o'r dywysen lawn, a offrymi di yn *fwyd-offrwm* dy ffrwythau cyntaf.—*Lef.* ii. 13, 14 (cf. 1—11).

Bwydwahardd, *a.* restricted from victuals, food-forbidden: an epithet in the Welsh Laws for a proscribed person, to whom it was forbidden to give food.

O dervyd porthi dyn deholedic o vrawd y gyfreith neu *vwyd wahardd* o genad arglwyd hyd y dwetto rei y vod yn dirwys kyfreith hagen a dweid na dylir ar y neb ae portho namyn camlwrw.

Cyfreithiau Cymru, ii. 398 (cf. 60, 204).

Ni ad fo ennyd ei fardd
Ef o'i dŷ yn *fwydwahardd*.—*L. G. Cothi*, VIII. ii. 49.

Bwydwr, wyr, *sm.* a feeder; one that gives or provides food or victuals.

Bwydydd, -ion, *sm.* a feeder; a victualler.

Bwyell, eill, *sf.*=*Bwyall*.

Bwyellan, **Bwyellig**, } *sf.* a small axe, a little hatchet.

Bwyellawd, odau, *sf.* a stroke, blow, or cut with an axe; an axe-stroke.

Teir anfad *fwyellawt* Y. Pr. *bwyellawt* Eidyn ym pen Aneurin, ar *fwyellawt* ym pen Iago mab Beli, ar *fwyellawt* ym pen Goliden [*al.* Golyddan] Fardd.

Trioedd: M.A. ii. 9 (cf. 14).

Bwyellfaen, feini, fain, *sm.* an axe-stone.

Bwyellgaib, geibiau, *sf.* a pick-axe, a grub-axe, a grubbing-hoe.

Bwygilydd, **Bwy gilydd**, } *adv.* [pwy+gilydd] to another; to the other; one another; one to the other; severally; mutually. Also written *pwygilydd*, *pygilydd*, *beugilydd*, *bygilydd*.

Yn ŵaled, o fan *bwygilydd*,
O blith y gwlith i bleth gwŷdd.—*D. ab Gwilym*, l. 25.

Yr hwn ni ddywaid, ac ni wna,
Ddim ond o'r da *bwygilydd*.—*Edm. Prys:* Salm. xv. 3.

O ben bwygilydd, from one end to the other; from one end to another; from end to end.

Ië, ei throi yn wydr gloew, yr hwn y gallwn weled trwyddo a thrwyddo o'r *pen bwygilydd*.—*Ier. Owen*, 43.

A llanwyd tŷ Baal o *ben bwy gilydd*.—2 *Bren.* x. 21.

O'r môr bwygilydd, from one sea to the other; from sea to sea.

O gwr bwygilydd y ddaiar, from one corner of the earth to another; from one end of the earth to the other; from pole to pole.

Bwyll, -au, *sm.* See *Pwyll*, *Pwylldid*.

Bwyllwr, **Bwyllwrw**, } llyriau, *sm.* [bwyd+llwrw?] provisions for a journey; viaticum; provisions, victuals, sustenance.

Ac yno y gvnaethan anadasrwyd dwyn ysgrybyl or eglwis yn *bwyllwr* ydunt.—*Brut y Saeson:* M.A. ii. 550.

Ynteu ae gedymdeithon yn llidiawc drist a ymhoylyssant dracheuyn. a hwynteu yn tri yn diogel a oydynt yn yr ogof. ac nyt oed dim *bwyllwr* ganthunt yssywaethiroed.

Bown o Hamtwn, § 28.

Ygkylch gosper pann yttoed y mynach yn kerdet yr un dittryf gynt. a chorff yr Arglwyd gantaw. a pheth *bwyllwrw* idaw ehun. nachaf hitheu yn dyuot.

Llyfr Gwyn Rhydderch.

Cymmeryd *bwyllwrw* o gorff yr Arglwydd a'i waed.

Llyfr Gwyn Hergest. (*D.*)

Y ddau wŷr hyny a etholes Agamemnon yn gyfeillion iddaw, i gydgerdded ag ef wrth ddwyn *bwyllyriau* iddynt y gan Delephws o Mysia.—*Ystori Dared*, § 69.

Parotoi *bwyllyriau* a llenwi ei llongau o honynt.—(*D.*)

Bwyllwrw llu, victuals or provisions of an army.

Bwyllyriaeth, -au, *sf.* commissariat.

Bwyllyrio, *v.* to victual or provision.

Bwys, -au, **Bwysi**, ïau, } *sm.* [=pwys, pwysi; E. *posy*] a nosegay, a bouquet, a posy.

Neu *fwys* gwych yng nghein-faes Gwent.

Thomas Derllys.

Peraidd *fwys* o'r rhos glwysion.

Ieuan Llwyd, i Ruddiau Merch.

Puraidd fin fal peraidd *fwys*.—*Wiliam Egwad*, i Ferch.

A bysio mun yn ei *bwys* mêl.—*Ieuan Gethin.*

Bwys, -au, *sm.* [=mwys; C. *muis:* cf. L. *mensa*] a basket, a hamper; a vessel of capacity.

A *bwysau* fal buesynt
Un tro â rhai Gwyddno gynt.

Meirig Dafydd, i Wledd Syr E. Lewis.

Bwysel, -i, -au, *sm.* [bwys, probably suggested by E. *bushel*] a bushel: also written *mwysel* (from *mwys*).

Arfer yw o wyl Lucas hyd wyl y Grog ym Mai, gosod iddo o geirch beunoeth y chweched ran o *frwysel*, a gwerth deuddeg ceiniog o wellt yr haf. . . Os ych a gaiff ei gynnal, ef a ddyly gaffael tair ysgub a hanner yn yr wythnos; o herwydd ein gosod ni, deg ysgub a ä i geisio y *bwysel* ceirch.

Cato Cymraeg (Y Greal, 199).

Bwysg, -au, *sm.* [=bwys or mwys] some vessel of capacity; a bushel?

Wb, os gwir am y *bwysg* yd.—*N.*

Bwyst, -ion, *sm.* [L. *bestia;* C. *best;* Ir. and Ga. *biast*] a beast, an animal.

Gwae berchenog bwyd ac a gaeo ei glwyd
Ac ni alwo *bwyst* wrth ei vwyta.—*Taliesin:* M.A. i. 99.

Bwyst, *a.* wild, ferocious, savage.—*P.*

Bwystfil, -od, †-aid, †-edd, *sm.* [bwyst+mil; probably a pleonastic compound, *bwyst* (=L. *bestia*) and *mil* having the same meaning] a wild beast or animal; a beast; a brute.

Ansawd oed ar e mynyd hwnw vwchel oed ac yni ben en iawn et oed kelli. a cherryc dyffwys en y kylch. a lle adas i preswylva *bwystuiled*.

Brut Gr. ab Arthur: M.A. ii. 286 (cf. 82).

A chyt gerdet awnaei a *bwystuileit*. a chyt ymborth ac wynt yny oedynt gynefin ac ef.—*Mabinogion*, i. 27.

Y bwystfil, the beast.—*Dad.* xiii. 1 (cf. 2—15).

Bwystfil y ddaiar (*pl.* bwystfilod y ddaiar), the beast of the earth.—*Gen.* i. 24.

Bwystfilod y maes (*sg.* bwystfil y maes), the beasts of the field.—*Gen.* ii. 19; iii. 1.

Bwystfilod rheibus, ravenous beasts.

Pam y caiff *bwystfilod rheibus*
Dori 'r egin mân i lawr?

W. Williams: Hymnau, ccxlviii. 1.

Bwystfil o ddyn, a beast or brute of a man; a brutal or beastly fellow.

Ni welwyd erioed *fwystfil o ddyn* gwaeth na'r penaeth.

Gronwy Owain, 333.

Bwystfilaidd, *a.* like a beast; beastly, beast-like; brutal, brutish, ferocious, savage.

O ran eu hanianawd a'u hymddygiad, pobl anwar, *bwystfilaidd*, a chreulawn, oedd y Daniaid, didrugaredd, a dideimlad.—*Carnhuanawc:* Hanes Cymru, 395.

Bwystfilawl, *a.* brutal, brutish; like a wild beast.

Dewissach kanthunt o *bwystvylawl* devawt ymborth ar cyc ac ar lyssyeuoed kan kynhal eu rydyt pellach. noget ymarveru o bob melyster.—*Brut Gr. ab Arthur:* M.A. i. 89.

Bwystfileiddio, *v.* to brutalise; to become beastly, brutal, or ferocious.

Mae rhwysg hunangais bydol grefydd
Yn *bwystfileiddio* calon dyn.
Iolo Morganwg: Salmau, ci. 5.

Bwystfiles, -au, *sf.* a female beast or brute.

Aeth y *fwystfiles* hon o'r diwedd yn flinder mor anoddefol, fel y cyttunodd Putnam â phump o'i gymmydogion ei hela hi yn olynol.—*Gwyliedydd*, ii. 329.

Bwystfilyn, *sm.* a little beast; a beast.

Ymlusgiad a *bwystfilyn* daiar, wrth ei ryw bob un.
W. O. Pughe: C.G. vii. 525.

Bwystgun, -ion, *sm.* [bwyst+cun?] a beast of prey, a wild beast.

Ban beisg berion a *bwystgunion* coed
Cadr bonhed bud a berthon
Cyflafan taerdan rag teyrnon
Cain felaig pen draig a phendragon.
Gwalchmai: M.A. i. 199.

Bwysti, *sm.* brutality, ferocity?

A llwyr dywyllwg wrth odrigaw
A lleng gythreuliaid yn ei threiliaw
A llawer *bwysti* heb ystyriaw ced
A llawer syched trwydded trwyddaw.
Dafydd Benfras: M.A. i. 310.

Bwystlawn, *a.* full of brutality or ferocity; voracious; devouring.

Bwystlawn geneu callawr.—*Diareb.* (M.A. iii. 250.)

Bwystnon, *sm.* [the second element (*non*) has not been explained] a disease or pestilence among cattle; murrain. In the following quotation, the only known instance, it is used for the fifth plague of Egypt.

Pumed *bwystnon* ar holl vibnon [veibion] Egypcion.
Taliesin: M.A. i. 40.

Bwystus, *a.* ferine, ferocious, brutal, brute.

Can reidus *bwystus*, bostiai â'i dafod
O Deifi hyd Fenai.—*Dafydd ab Gwilym*, ccxxx. 61.

Pan y bu i'r arch, oedd gaeth, anafu'n dost
Ei *fwystus* ddelw.—*I. D. Ffraid:* Coll Gwynfa, i. 550.

Bwystwal, -au, *sf.* [bwyst+gwâl] the lair of a wild beast.

Bustl y gerdd, *bwystwal* i gyd,
Bwch awen-fost, baich ynfyd.—*Syr Sion Fychan.*

Bwyta, } *v.* [bwyd] to eat; to consume; to
Bwyto, } corrode.

Ac ual yd oed Owein diwarnawt yn *bwyta* ar y bwrd ygkaerllion ar Wysc. nachaf uorwyn yn dyuot ar uarch gwineu mynggrych.—*Mabinogion*, i. 26.

Ac ny *bwyteynt* onyt gwreid llysseuoed. ac ansawd galet arnunt.—*St. Greal*, § 255.

Mi a ddanfonaf dy aelodau cyn peidiaw . . .
At y cwn ar bleiddiaid a'r brain iw *bwyttaw*
Mi a ddanfonaf anwiredd i'r lle y daw.
Heinyn: M.A. i. 553.

Hi a *fwyty* dy gynhauaf di, a'th fara, yr hwn a gawsai dy feibion di a'th ferched ei *fwyta:* hi a *fwyty* dy ddefaid di a'th wartheg; hi a *fwyty* dy winwydd a'th ffigyswydd.
Ier. v. 17.

Tair iaith a gafwyd ac a fuant o'r dechreuad o waith Duw: un y cafas Addaf ym mharadwys, ac ef a'i colles pan *fwytawdd* yr afal drwy dwyll y cythraul.
Cyfrinach y Beirdd, 29.

Rhaid cyfri'r bwyd a *fwytaist*,
Rhaid cyfri 'r melus win.
W. Williams: Theomemphus, ii. 9.

Adda gollodd hen Baradwys
Am yr afal gynt a *fwytwys.*
Rhys Prichard: C. y C. lxxxix. (*b*).

Y bara a *fwyto*, ai nad melus idd ei flas?
W. O. Pughe: E.D. v. 2.

Goganu 'r bwyd a'i *fwyta.*—*Diareb.* (M.A. iii. 157.)

Bwyta ac yfed, to eat and drink.

Bwyta y tamaid goreu, to eat daintily.

Bwyta ei eiriau, to eat one's words; to retract.

Bwyta amser, to consume time; to take up the time.

Tŷ bwyta (*pl.* tai bwyta), an eating-house.—*W.*

¶ Some of the persons in the finite moods follow the conj. of verbs in *-äu* or *-a* (*bwyta*); as, *bwytaodd*, *bwytëwch*, *bwytäwn;* others that of verbs in *o* (*bwyto*); as, *bwytodd*, *bwyty*, *bwytwch;* and some indifferently the one or the other; as, *bwytaf* or *bwytâf*, *bwytant* or *bwytânt*. The colloquial language, especially that of S.W., prefer *bwyto*, except in the infinitive, which is of rare occurrence.

Bwyta, *sm.* eating; consumption.

O amryu amryvus *vuyta*
O bu chuant chuennychu traha.—*Cynddelw:* M.A. i. 251.

Os y teulu fydd ry fychan i'r oen, efe a'i gymmydog nesaf i'w dŷ a'i cymmer, wrth y rhifedi o ddynion; pob un yn ol ei *fwyta* a gyfrifwch at yr oen.—*Ecs.* xii. 4.

Bwytâd, }
Bwytäad, } *sm.* the act or action of eating.

Bwytadwy, *a.* eatable, edible, esculent.

Bwytäedig, *pt.* [bwyta] eaten; consumed.

Bwytäedigaeth, -au, *sm.* the act of eating; eating; consumption.

Megys y troir y bwyt yn gic yr neb ac bwytao. velhy y trossir pob ffydhlawn yn gorph y Christ trwy y *bwytaedigaeth* hwnnw. . . A thrwy *vwytaedigaeth* y gorph ef. in gwnair ni yn un gorph ac ef. ac am hynny rait yw ein dwyn ni yr lhe y mae Christ.—*Lucidar*, § 44.

Bwytai, eion, *sc.* an eater; a devourer.

Bwytal, *sm.* [L. *victualia:* cf. *bitel*] victuals, provisions.

Dyuot a oruc gwyr Iwerdon hyt att Arthur a rodi *bwyttal* idaw.—*Mabinogion*, ii. 241.

Bwytaol, *a.* 1. eating; devouring, consuming. 2. esculent, eatable, edible.

Y mae'r wlad yn cynnyrchu ffrwythau rhagorol, ac yn neillduol afalau euraid, a grawnwin, yng nghyd ag amledd o ffrwythau *bwytaol.*—*Cylchgrawn*, ii. 168.

Bwytatwys (*sg.* bwytaten, *f.*), *s.pl.* [E. *potatoes;* Sp. *patata*, *batata*, the latter being the native name in South America. *Bwytatwys* is an adaptation of the Eng. name, influenced by *bwyd, bwyta:* cf. Ga. *bun-taghta* (=choice root), *buntàta*, similar imitations of the original form] potatoes.

Yn un o'r rhanau hyn y bydd hi yn planu *bwytatwys*, ac yn y llall yn hau gwenith, bob yn ail flwyddyn; y *bwytatwys* a blenir ganthi yn rhesau yn y sofl gwenith, a'r gwenith a hauir ganthi yn y tir *bwytatwys*. Y mae hi yn rhoi tail yng ngwaelod y rhesau i'r *bwytatwys;* ond nid yw hi yn rhoi dim tail i'r gwenith.
Y Greal, 189 (cf. 190, 191, 192).

Y mae'r *bwytatwys* a'r ffrwythau yn cyrhaedd prisiau da ym marchnadoedd Lloegr.—*Llawlyfr Canada*, 44.

Bwytäwr, awyr, *sm.* an eater; a consumer or devourer.

Dyfrhâ y ddaiar, ac a wna iddi darddu a thyfu, fel y rhoddo had i'r hauwr, a bara i'r *bwytäwr.*—*Esa.* lv. 10.

Bwytawyr dynion, man-eaters, cannibals.

Bwytäwr da, a good eater; a dainty eater.

Bwytead, aid, *sm.* an eater.

Ofer ywch gyfodi cyn lleufer eglur
Cyfodwch o'ch eistedd *bwyttëaid* bwyd dolur.
Dafydd Ddu Hiraddug: M.A. i. 570.

Bwytedig, *pt.* [bwyto] eaten; consumed.

Bwytëig, *a.* [bwyta] given to eating; gluttonous; voracious; consuming, devouring.

Llyngcler ser sarphod *bwytteig*.
Hywel Ystoryn: M.A. i. 519.

Y brenin Ioas a wrthladdodd drythyllwch a goruchfalchder yr offeiriaid *bwytëig*.—*M. Cyffin:* Diff. vi. 10.

Gan fod ein Israeliaid ni'n bobl *fwytëig*, gadëwch iddynt gael y ddau cymmaint o luniaeth.
W. Lewes: Dwy Daith, 64.

Os bydd iddynt ddyfod ar eu hynt o bell i unrhyw wlad, y maent yn newynllyd, ac yn ganlynol yn fwy *bwytëig* ac ofnadwy.—*Gwyliedydd*, v. 108.

Tân bwytëig, consuming or devouring fire.

E ddaeth y mwg allan o'i ffroenau, a *thân bwytëig* o ei eneu: glo a ennynai ganthaw.
Llyfr Gweddi Gyffredin 1567 (Salm. xviii. 8).

Bwyteigrwydd, *sm.* addictedness to eating; voraciousness; gluttony.

Bwytty, tai, tyau, *sm.* [bwyt+tŷ] an eating-house; a larder, pantry, or buttery.

Y naud eu duyn y dyn a wnel e kam dros teruyn tyr ellys. Y lety eu e *buyty*.
Cyfreithiau Cymru, i. 64 (cf. 72, 78).

Naw tai a ddylyant bileiniaid y brenin eu gwneuthur: neuadd, ystafell, *bwytty*, ystabl, cynhordy, ysgubawr, odyn, tŷ bychan, cerner neu hundy.
Leges Wallicae, I. xlvii. 8 (cf. C.C. i. 78).

I *fwytty* pobloedd af attad Forgan.
Madog Dwygraig: M.A. i. 483.

Myned i'r *bwytty*, dysgu yr oeddid yno wersi o gymhendod mindlws wrth fwyta.
Elis Wynn: Bardd Cwsg, 32 (cf. 19).

By, *c.* [mut. of *py*=*pe*, *ped*, *pes*] if.

By doai yma, mi a dalwn iddo, if he would come here, I would pay it him.

By-, an inseparable 'prefix in composition, of which *my* is a mutation. It gives a diminutive characteristic to words.'—*P.* It is probably identical with the Lat. *ve-* in *vegrandis*, *vecors*, *vepallidus*.

Byclo, **Byclu**, *v.* [bwcl] to buckle; to fasten with a buckle or clasp.

Byclwr, wyr, *sm.* a buckle-maker.—*W.*

Bych, -od, *sm.* a poor creature.—*P.*

Bych, *v.* [=byddych] 2nd pers. sing. fut. of the subj. mood of *bod;* and also the 2nd pers. pl. imperf. of the same verb: in both cases more usual written *byddych*.

Tra *uych* di yn kyscu. minneu aaf y ymwelet ar iarll.
Mabinogion, ii. 44 (cf. 204; i. 8; iii. 10).

Bych gwr het yn hawturyd ar sawl
A geif tud an tad ysprydawl.
Llyw. ab Llywelyn: M.A. i. 281 (cf. 286).

Mwynach a *fych*, fy meinwen,
Archaf i Dduw Naf, ddyn wen.
Gro. Owain, 6 (cf. 42, 46, 74).

Ardd cyd *bych*, ardd cyn ni *bych*.—*Diareb.* (M.A. iii. 148.)

Cyn bych (=cyn y byddych), ere you be.

Bychaidd, *a.* [bwch] like a buck; buckish.

Bychan, *m.* **Bechan**, *f.* *pl.* bychain; *cp.* bychaned, -ach, -af, and lleied, llai, lleiaf, *a.* [bach: C. *bechan*, *bichan*, *byhan*, *bihan*, *bian*, *bochan;* Ir. *beagan*, *beccán;* Ga. *beagan*] 1. little, small; exiguous; diminutive.

Guyalen eur kehyt ac ef ehun akyn urasset ac y uys e *becan*.—*Cyfreithiau Cymru*, i. 6.

I main brith dirclaud bet i pillou *bichein*.
Liber Landavensis, 182.

A phan welas y elynyon *bychanet* oed y nifer yn amdiffyn o vywn y castell drychafael yscolyon wrth y muroed awnaethant.—*Brut y Tywysogion*, 168.

Meddiant *bychan* i ewyllys drwg.—*Diareb.* (M.A. iii. 164.)

Bychain mewn deall, *bychain* mewn ffydd, *bychain* yn eu tyb eu hun, *bychain* yng ngolwg y byd; eto mawrion yng ngolwg angylion da.—*Daniel Rowland:* Pregethau, vii. 84.

Bychan bach, very little, small, or diminutive.

Eto ychydigyn *bychan bach*, ac fo ddaw yr hwn sy yn dyfod, ac ni thrig.—*Esg. R. Davies:* Heb. x. 37.

A chan nad ydyw'r plwyf ond bychan, nid yw pob rhan o'r ddyledswydd ond *bychan bach*.—*Gro. Owain*, 316.

Cynhyrfir ni fel Agrippa, dim ond o fewn ychydig, rhyw ronyn *bychan bach*, ac anghofio hyny'n union deg.
Nicander: Dysga Farw, 13.

Mab bychan (*pl.* meibion bychain; *f.* merch fechan), a young child; a child.

Ef a welit ym vy mot yn gwelet yr arglwydes deckaf or holl vyt yn ymrydhau o *vab bychan*.—*St. Greal*, § 250.

Cyfod, a chymmer y *mab bychan* a'i fam, a dos i dir Israel: canys y rhai oedd yn ceisio einioes y *mab bychan* a fuant feirw.—*Matt.* ii. 20 (cf. 8, 9, 11, 13, 14, 21).

Plant bychain (*sg.* plentyn bychan), little children.—*Matt.* xviii. 13, 14.

Rhai bychain (*sg.* un bychan; *f.* un fechan), little ones.—*Gen.* xxxiv. 29; xliv. 20.

Bychan o gorffolaeth, little of stature.—*Luc* xix. 3.

Tŷ bychan=*Tŷ bach* (s.v. *Bach*).—*Leges Wallicae*, I. xlvii. 8.

Pethau bychain, small things.—*Sech.* iv. 10.

Llythyrenau bychain, small letters or characters.

Dyn bychan, (1) a small or little man.

Nachaf y marchawc yn eu gordiwes. ac yn gofyn y Idawc a gaffei ran or *dynyon bychein* hynny gantaw.
Mabinogion, ii. 376 (cf. 377).

(2) a young child; a child; an infant.

A wybydh yr eneitieu a vuont yngcorphoroedh y *dynion bychain* dim?—*Lucidar*, § 71 (cf. 77).

2. (as a cognomen) little; less; young; younger, junior.

Iago Fychan, James the Little, James the Less.

Ym mhlith y rhai yr oedd Mair Magdalen, a Mair mam *Iago fychan* a Iose, a Salome.—*Marc* xv. 40.

¶ Formerly when the son bore the same name as the father, the former was sometimes distinguished from the latter by the epithet *Bychan* (*Fychan*); as, *Rhys Fychan*, Rhys the Younger: hence the surname *Fychan*, Eng. *Vaughan*.

V vlwydyn honno y goresgynnawd *Rys Vychan* uab yr arglwyd Rys gastell Llan Gadawc.—*Brut y Tywysogion*, 262.

Bychanaidd, *a.* somewhat small, smallish.

Y mae y creaduriaid *bychanaidd* hyn yn byw yn ol deddfau priod eu hunain, ac yn arddangos y callineb sydd anghenrheidiol i'w helyntion hwy.—*Gwyliedydd*, iii. 331.

Bychanbeth, -au, *sm.* a small thing; a light matter.

Nid yw hyny ond *bychanbeth*.—*Walters*.

Bychander, **Bychandod**, **Bychandra**, **Bychanedd**, *sm.* littleness, smallness; diminutiveness; exiguity; fewness; smallness in quantity or number; disparagement.

Y mae hefyd i rai enwau ddau rif lluosog, y naill yn ffurfiol o'r llall, a'r olaf yn arwyddocäu mawr amledd . . . hefyd i ereill y mae dau rif unig; a'r olaf yn arwyddocäu *bychander*.—*Robert Davies:* Ieith. Cymr. II. i. 1.

Daeth yr Ysgotiaid ar hyd y môr i diroedd Gwrgan ab Ithel, tywysawg Morganwg, ac yn eu herbyn gwŷr y wlad,

fal a'u lladdwyd gymmaint yng ngwaith Toniwlwg, onid oedd y gwaed hyd egwydledau'r meirch; a'r *bychandawd* ni laddwyd o honynt a ffoasant hyd fôr i Wlad yr Haf.
Brut Aberpergwm: M.A. ii. 505.

Yr holl wybodaeth ag y mae rhai dynion anllythyrenog yn ymffrostio o honi, oddi wrth y dynion hyny (Duw yn y blaen) y mae hi, y rhai y maent hwy, yn anniolchgar iawn, yn bwrw *bychandra* arnynt.—*Ier. Owen*, 95.

Bychaniad, -au, *sm.* a making little or small; disparagement, derogation.

Bychanig (*ā*), *pl.* bychanigion, *a.* diminutive; very small.

Bychanigion, diminutives (in grammar); very small things.

Y *bychanigion* o rif unig ynt y rhai hyn—an, en, yn, ig, og, a, o, w, ws. Ac o rif lluosawg y mae y *bychanigion* hyn —ach, os, ac weithiau ain.
W. O. Pughe: Cad. Iaith. Gymr. II. i. 5.

Lluosogaeth rhai *bychanigion* a arferir o hoffder neu fwynder.—*Robert Davies:* Ieith. Cymr. II. i. 1.

Tri anferthwch gwledd: meddwdod; ymrysonau; a chrochwerthin am ben *bychanigion* o chweiniau.
Trioedd Doethineb: M.A. iii. 269.

Yn ol braint a defod bwcïod yn gyffredin, nid oes dim sicrwydd beth oedd achos y bwci *bychanig* hwn.
Ystên Sioned, 86.

Bychanigo, *v.* to render diminutive.

Bychanigol, *a.* diminutival.

Bychanigrwydd, *sm.* diminutiveness; littleness.

Y mae ansawdd *bychanigrwydd* i rai enwau unig a lluosawg; ac yr hyn ansawdd a ymddengys yn eu terfyniadau.
W. O. Pughe: Cad. Iaith Gymr. II. i. 5.

Y mae y gair yn gwbl mor briodol i ychydigrwydd mewn nifer, ag ydyw efe i *fychanigrwydd* mewn mesur.
Th. Charles, s.v. 'Cyssegr.'

Bychanigyn, *pl.* bychanigion, *sm.* a very small thing; a diminutive thing; a diminutive.

Bychanigyn, *a.* very little or small; diminutive.

O döi i fedw-gell bellach,
Fy nyn *bychanigyn* bach!—*D. ab Gwilym*, xci. 11.

Aerwy gwydr yw ar gadach,
Euryn *bychanigyn* bach.—*Iolo Goch*, i Fodrwy.

Ac odid mawr nad edrych y cyfryw ddynionach ar y gorchwyl *bychanigyn* yma megys gwrthwaith ac anoberi.
Moses Wiliams: Cofrestr, Cyfl.

Fe a welir fod y gwybedyn a elwir glöyn Duw mewn pryf; a sylwedd rhyw blanigion, neu win, mewn lle *bychanigyn.—Ed. Samuel:* Grotius, ii. 12.

Bychanllyd, *a.* depreciatory, disparaging, slighting.

Geiriau bychanllyd, depreciating words, disparaging expressions.

Y mae yn gwedyd yn *fychanllyd* iawn am dano.—*Gwent.*

Bychanol, *a.* tending to lessen; depreciative; diminutive; diminutival.

Bychanolion, diminutives.

O arferu ach arwyddocëir *bychanolion* o ddirmyg; megys, 'pydron ddynionach.'
W. O. Pughe: Cad. Iaith Gymr. II. i. 5.

Bychanrwydd, *sm.* littleness, smallness; diminutiveness.

Bychanu, *v.* to lessen; to lower; to depreciate or disparage.

Edrychwch, gan hyny, ar na byddo i chwi ei *bychanu* hi, megys ag y mae arfer rhai.—*Ier. Owen*, 95 (cf. 16, 31).

Ef a ddelwent ddilynwyr Camden, pei gwelynt fal y mae yn argyhoeddi ac yn ceryddu eu beiau, a'u tuedd gwyrgam, yn *bychanu* ac yn distadlu y pethau nad ydynt yn eu deall.—*Ieuan Brydydd Hir:* Diss. de Bardis, 98.

Bychanu pob dyn y mae, ac efe yn fychanach na neb.
Llanover Ms.

Bychanus, *a.* tending to lessen or lower; disparaging, depreciating, depreciatory.

Dymuno'dd wyf, y Cymry mwynion,
Wrandawiaeth deg i'm cân yr awron,
Ac nas rhoddwch mewn gwrthwyneb
Imi draws *fychanus* ateb.
Gwahoddiad i Pennsilfania (Llanover Ms. 40).

Bychanwerth, *sm.* little or small value.

Bychanwerth, *a.* of little or small value; of little worth; cheap.

Mawrwerth pob newid, *bychanwerth* pob prid.—*Diareb.*

Bychanwr, wyr, *sm.* a depreciator, a disparager.

Bychdid, *sm.* [bych, bychod] littleness, smallness.

Beich o bechodeu nyd bychodrwyt
Bychdid dall aghall aghyuarwyt.
Einion ab Gwalchmai: M.A. i. 333.

Bychedig, *a.* = *Bychodig*, *Bychydig.*

Bycheiddio, *v.* [bychaidd, bwch] to become like a buck; to buck.

Bycheiddrwydd, *sm.* the quality or state of being like a buck; goatishness.

Bychenyd, *sm.* [bychan] smallness, littleness; diminutiveness.

Bychanaf o'r *bychenyd*
Yw Hu Gadarn, fe'i barn byd.—*Rhys Brydydd.*

Byches, -au, *sf.* the female of animals the males of which are called *bwch* (q.v.); but also applied catachrestically and in contempt to a woman.—*Gwent.*

Bychod, *s.* the pl. of *bwch.*

Bychod, -au, *sm.* [bach] smallness (in quantity or in number); a small matter; a little, a trifle.

A vo gleu gochlyuir y glot
O *uychot* godolir.—*Llefoed:* M.A. i. 156 (A.B. ii. 308).

Gormot yw *bychod* o bechodeu.
Ein. ab Gwalchmai: M.A. i. 331 (cf. 333).

Llanvechan *vychot* y berthed.—*Cynddelw:* M.A. i. 244.

Gwell *bychod* yng nghod no chod wag.
Diareb. (M.A. iii. 159; cf. 158.)

Bychodedd, *sm.* smallness (in quantity or in number); fewness; a small quantity or number; scarcity.

Rhedais o bechawd nid *bychodedd.*
Elidir Sais: M.A. i. 348.

Na werth er *bychodedd.—Diareb.*

Bychodedd minialedd.—*Diareb.* (M.A. iii. 150.)

Bychodedd o Gristianogion oedd yr amser hyny.—*D.*

Bychodig, *a.* = *Bychydig.*

Na phoener, na synier son,
Ychydig *fychodigion.—Gwallter Mechain:* Gwaith, i. 432.

Bychodog, *a.* [C. *boghodoc;* Ir. *bocht, bochtan;* Ga. *bochd*] poor, needy; destitute; in want.

Bychodrwydd, *sm.* smallness of quantity or of number; fewness.

Bychod gouyged trwyted tramgwyt
Buchet anvedret o ynvydrwyt
Beich o bechodeu nyd *bychodrwyt.*
Einion ab Gwalchmai: M.A. i. 333.

Bychu, } *v.* [bwch] to shock sheaves; to set up
Bycho, } sheaves on end in the harvest-field. The same process is in some places called *gafrio.*

Bychydig, *a.* [by- + ychydig] very little; small, little; trifling.

Duw a wyr heb y uorwyn na char hi dydi na *bychydic* na dim.—*Mabinogion*, i. 17.

Kyt boet mawrweirthawc eur y cae hwnn. heb hi. *bychydic* yw hynny eissoes wrth y mein mawrweirthawc yssyd yndaw.—*Campau Charlymaen*, § 95.

Yn lle gwir heb y meudwy *bychydic* a dal vy nghyngor i y ti. oni bei roi ohonat ym diofvryt nat elych vyth yny chyuyl.—*St. Greal*, § 19 (cf. 32, 91).

Nid ydyw y byd ond *bychydig*.
Diareb. (M.A. iii. 171; cf. 173.)

Ac Duw a weithredawdd wyrthiau nid *bychedigion* [* bachain] trwy ddwylaw Paul.
W. Salesbury: Act. xix. 11.

Bychydig, -ion, *sm.* a little; a small quantity; a trifle.

Bychydigion, small matters; trifles.

Bychygyr, *sm.* [=begegyr] a drone; a wasp.

Byd, -oedd, *sm.* [†bit; C. *bys, bes;* Br. *bêd, bet;* Ir. *bioth, bith, bûd, budh;* Ga. *budh*] 1. the world; the universe; the cosmos.

Ac o Rodriawg rwyf lliwydoed
Rodri rad gymryd y *byd fydoed*.
Gwalchmai: M.A. i. 199.

Wrth ffydd yr ydym yn deall wneuthur y *bydoedd* trwy air Duw.—*Heb.* xi. 3 (cf. i. 2).

Cyn byd, before the world; before the world was.

Am swynwys sywydd sywydon *cyn byd*.
Taliesin: M.A. i. 30.

Y byd mawr, the great world; the macrocosm.

O ba le y daethost, a pheth yw dy ddechreuad?—O'r *byd mawr* y daethym, a'm dechreuad yn annwn.
Barddas, i. 226.

Y byd bychan, } (1) the little world; the micro-
Y byd bach, } cosm; the world of man.—*W.*

D. O ba beth y crewyt dyn. M. O gadernyt corphorawl ac un ysprydawl. Y corphorawl or pedwar defnydh megys y byt. ac am hynny y gelwir ef y *byt bychan*.—*Lucidar*, § 15.

Ym mha le'r ydwyt yn awr, a pha fodd y daethost i'r lle 'dd ydwyd?—Yr wyf yn y *byd bychan*, lle daethym gan dreiglo cylch yr abred, ac yn awr yn ddyn ar ei derfyn a'i eithafon.—*Barddas*, i. 226.

(2) a little world; the earth (as compared with larger worlds).

Gan fod cymmaint dy awydd i weled cwrs y *byd bach*, ces orchymmyn i roi i ti olwg arno.
Elis Wynn: Bardd Cwsg, 20.

Ei dithau 'n waeth, *fyd bychan*,
Byth, byth, ar druan dranc.—*Elis Wynn:* Bardd Cwsg, 50.

2. the world (we live in); the world (with reference to its inhabitants); the earth.

Yn y *byd* gorthrymder a gewch: eithr cymmerwch gysur, myfi a orchfygais y *byd*.—*Ioan* xvi. 33.

Byd heb ddim yw bod heb Dduw.
Dafydd ab Gwilym, cclvi. 12.

Nid *byd*, *byd* heb wybodaeth.—*W. Lleyn.*

Ein hynaif iawn wahenynt
Bedair rhan o'r *byd* ar hynt;
Dwy oludog, dew, lydan,
(Duw Ion a ŵyr) a dwy'n wan;
O gyfan bedair rhan *byd*,
Dwy-ran i mi y deiryd.—*Gronwy Owain*, 47.

Yr Hen Fyd, (1) the Old World, the world before the flood.

Taflodd gawri *yr Hen Fyd* i fod yn furgynod ar y ddaiar.
Charles Edwards: Han. y Ffydd, 54 (cf. 42).

(2) the Old World; the world as known before the discovery of America.

Y Byd Newydd, the New World; America, as distinguished from Europe, Asia, and Africa.

O'r byd, of or from the world; belonging or relating to the world; mundane; in the world; in all the world.

O'r byd nid ydynt, megys nad wyf finnau *o'r byd*.
Ioan xvii. 16 (cf. 14).

Ac a oed goch o honunt yn gyngochet ar gwaet cochaf *o'r byt*.—*Mabinogion*, ii. 376.

Dyn o'r byd, (1) a man of or from the world; a person belonging to this world; any man in the world; any person whatever.

Yd oedd ef hagen yn wir oleuat y oleuhau pob *dyn o'r byd*.—*Efengyl Ieuan Ebostol*, § 4.

Y mae y Arthur o vilwyr da mwy noc y vrenhin *o'r byt*.
St. Greal, § 227.

Sef yd oed mab iarll arall ym erchi ynneu ym tat. Nyt awn ynneu om bod attaw ef. nym rodi ynneu vynn tat om hanuod idaw ef nac y iarll *or byt*.
Mabinogion, i. 252 (cf. 32).

Ni feiir yn ei fywyd,
Ni yr bw ar un *o'r byd*.—*L. G. Cothi*, VI. iv. 51.

A pha ddyn *o'r byd* a allai ddioddef hyn?
Dr. J. Davies: Llyfr y Res. I. ix. 5.

(2) (in nonconformist phraseology) a person who is not a member of any religious community or denomination.

Yn y byd, in the world; in possibility; at all; whatever.

Nid oedd neges yn y byd a'i rhwystrai, there was no engagement whatever that would prevent him.

Dim yn y byd, nothing in the world; nothing at all; nothing whatever.

Ni ddylid rhy hir ddyfalu ar *ddim yn y byd*, rhag blino bryd a myfyrdod.—*Cyfrinach y Beirdd*, 39.

Dim yn y byd mawr, nothing in the great or wide world; nothing whatsoever.

Yr holl fyd, } the whole world; all the world.
Y byd i gyd, }

Nis gwnawn er y byd i gyd, } I would not
Nis gwnawn er y byd yn gyfan, } do it for all the world.

Y byd daiarol, the terrestrial world or globe; the mundane sphere; the earth.

Am y *byd daiarol*, yn enwedigol awyr, goleuni, a phwys.
D. Lewys: Golwg, v.

Y byd ynfyd, the foolish or insane world.

Rhydda i'r *byd ynfyd* oedd,
Iawn i fod yn nef ydoedd.—*Gronwy Owain*, 52.

Offeiriad byd, a secular priest.

Gwae *offeiriad byd* ni angreiftia gwyd.
Taliesin: M.A. i. 98 (cf. 579).

Da byd, } wordly goods, possessions, or pro-
Da y byd, } perty.

Amser gynt ydd oedd mewn plwyf ryw wr mawr o arglwydd goludog yn byw; a mwyaf ei olud a'i gyfoeth o dai a thiroedd, ac o aur ac arian, a phob *da byd* . . . o neb yn ei ardal oedd ef.—*Iolo Mss.* 180 (cf. 181, 182).

Ni all *da'r byd*, ennyd awr,
Estyn einioes dyn unawr.—*W. Lleyn.*

Eto yn fawr iawn ei chwant a'i fwriad ar gynnull *da'r byd*.
Iolo Mss. 181.

3. the (unbelieving) world (as opposed to the church).

Mi a eglurais dy enw i'r dynion a roddaist i mi allan o'r *byd*. . . Drostynt hwy yr wyf fi yn gweddïo: nid dros y *byd* yr wyf yn gweddïo.—*Ioan* xvii. 6, 9 (cf. 11—25).

Y byd a'r eglwys, the world and the church.

4. the world (as divided into countries or regions).

A thrannoeth y kyuodes. ac nyt y llys a gyrchwys. namyn eithafoed *bydoed*. a diffeith vynyded.—*Mabinogion*, i. 26.

5. a world; a great multitude or quantity.—*Iago* iii. 6.

Poblog iawn yw'r byd, y dydd heddyw, ym mhob man. Pa *fydoedd* meithion sydd o Baganiaid a Thyrciaid?
Ier. Owen, 16 (cf. 17).

Y byd Cristionogol, the Christian world.

Er mwyn dwyn *y byd Crist'nogol* at reolaeth dda.
Ier. Owen, 101.

Byd o ryfeddodau, a world of wonders.

6. (*a*) state of existence; condition, state; course of life; condition of life; life; a living. This is the more usual meaning when *byd* forms the last element of a compound; as, *adfyd*, *blinfyd*, *drygfyd*, *gwynfyd*, *hawddfyd*.

A *byt* deg a bywyd hir
A gawn o charwn y gwr.—*Gr. Ynad Coch:* M.A. i. 517.

Boed heddwch a *byd* diddan
Byth it'; ti a gerit gân.—*Gro. Owain*, 53 (cf. 22, 43, 44).

Gwyn ei fyd, blessed is his state or condition; blessed is he.—*Salm.* i. 1.

Genyf y mae, *gwyn fy myd!*
Ugain haf ac un hefyd.—*D. ab Gwilym*, lii. 11.

Y sawl a ddiango o'i bachau hi, *gwyn ei fyd* fyth.
Elis Wynn: Bardd Cwsg, 112.

Byd da, good living; good circumstances; luxurious life.

Yr oedd rhyw wr goludog, ac a wisgid â phorffor a lliain main, ac yr oedd yn cymmeryd *byd da* yn helaethwych beunydd.—*Luc* xvi. 19.

Nid oes trysor na ddorwn,
Na *byd da*'n y bywyd hwn.—*Gro. Owain*, 59.

Mae efe yn gynhes yn y byd, he is in good circumstances; he lives well.

(*b*) (contextual, or elliptical) a state of trouble or worry; trouble of life; trouble, worry.

Y mae efe mewn *byd!*—*C.S.*

7. a term of affection or endearment, generally preceded by the poss. *fy*; as, *fy myd!* my world! my life! my treasure!

Mae dan wŷdd Morfydd fy *myd;*
Gorwedd ynt oll mewn gweryd!
D. ab Gwilym, cclxii. 13 (cf. ccxx. 29; cclvi. 37).

Rhyfedd yw Doethion Rhufain,
Rhyfeddod pryd fy *myd* main!—*D. ab Gwilym*, xiv. 23.

Cell er ei mwyn yn min coedlwyn,
Lle cai fy *myd* droi'n ei bywyd.
Rh. Goch ab Rhicert: Iolo Mss. 234 (cf. 237).

Yn ias ir ei naws eirian
Fy *myd* i gyd oedd y gân.—*Iolo Morganwg.*

8. a long but indefinite space of time or of distance, used as an intensive particle to denote very great or much; very far or long; very, much. With *byd* in this sense compare the archaic English use of *world* in '*world* without end' of the doxology.

Ym mhell byd, at a very great distance; very far away.

Ym mhellbell byd, at the far end of the world; very far away.

Yr hawg byd, a very long while.

Er ys talm byd, a very long time since.

Byda, *pl.* bydäau, bydäu, *sf.*=*Bydaf*.

Bydaf, -au, *sf.* a swarm or nest of wild bees; a wild swarm or hive. In the Welsh Laws it is opposed to *modrydaf*, a hive or swarm of domestic bees.

Py deruyn bynnac y caffer *bydaf* yndaw, kyfreith a dyweit bot yn iawn yr perchennawc kymynu y prenn o pop parth; ac yr neb y dygwydo y prenn ar y dir, y byd y *vydaf*.—*Cyfrelthiau Cymru*, ii. 96 (cf. i. 192, 502).

A gwedy treulaw eu gwled ac eu darmerth o honunt. dechreu awnaethant ymborthi ar gic hela a physcawt a *bydafeu*.—*Mabinogion*, iii. 147.

Heidiau *bydafau*, bob dair,
Ac â'u beddau'm mhrysg Byddair.
L. G. Cothi, III. xviii. 35.

Adar *bydafau*, heidiau hedant,
A daw cain gogau dolau deil-bant.
Rhys Goch ab Rhicert: Iolo Mss. 241 (cf. 242).

Abad fal y *bydaf* yw.—*Owain ab Llywelyn Moel.*

Bydafog, -ion, *sc.* one who has no office or employment, and is entitled to gratuitous maintenance; one entitled to be treated as an inmate wherever he may be; an inmate.

Tri thrwyddedawg *bydavawg* y sydd: oedranus; maban, sev plentyn, ai gwr ai gwraig y bo; ac estron anghyvaith: sef yw *bydavawg*, un na vytho arno na swydd na gorchwyl, a'i drwydded yn rhad gan gyswyn paladr.
Cyfreithiau Cymru, ii. 548 (M.A. iii. 311).

Bydafog, *a.* admitted as an inmate; domiciliated.

Bydafu, *v.* to hive.

Bydan, *sm.* [dim. of *byd*] 1. a little world.

Teimlo eitha'r *bydan* hudol,
A'r byd tragwyddol, mawr, dieithrol, ar ei wartha'.
Elis Wynn: Bardd Cwsg, 114.

2. a period of the world; a course of things.

Hoian a parchellan. *bidan* a vit
Mor truan y dyuod ac ew dybit.
Myrddin: A.B. ii. 27 (M.A. i. 137).

Bydenwog, *a.* of world-wide celebrity or renown.

Bydgar, *a.* loving the world; devoted to this world; worldly.

Pe buasai yn cael y cyfan oedd yn y god, nid oedd hyny fawr i ddyn ag oedd yn hollol dan lywodraeth egwyddorion *bydgar* a chybyddlyd.—*Haul*, C.C. xv. 52.

Bydgarwch, *sm.* love of the world; worldliness; covetousness.

Gelwir *bydgarwch* wrth yr enw ffiaidd eilunaddoliaeth.
Ios. Harris: Gweith. 151 (cf. 136, 149—153).

Gwreiddyn y cynllun oedd ariangarwch; ar *fydgarwch* yr oedd wedi ei sylfaenu.—*Haul*, C.C. xv. 53.

Bydgarwr, wyr, *sm.* a lover of the world; a worldly or covetous person; a worldling.

Dichon *bydgarwyr* ddywedyd am eu cyfoeth, pan ddeffront, y peth cyntaf yn eu meddwl, a'r peth olaf cyn cysgu drachefn, yw eu golud.—*Ios. Harris:* Gweith. 151.

Bydiaeth, -au, *sf.* course or condition of life; livelihood; life.—*Gwent.*

Bydiaethol, *a.* relating to a course or condition of life.

Bydiant, iannau, *sm.* living, livelihood; mode of life.

Bydig, *a.* relating to the world; mundane?

Yscinvaen beirt bid *bydic* [*al.* budic] clydur.
Gwyddno: M.A. i. 165 (cf. A.B. ii. 56).

Bydio, *v.* to lead a course of life or existence; to be in a state; to fare; to live.

Pam na welwchwi 'r haul yn hwylaw 'r awyr
Pam na welwchwi 'r syr wedi syrthiaw
Pam na chredwchwi Dduw dyniadon ynfyd
Pam na welwch chwi 'r byd wedy *bydiaw?*
Gr. Ynad Coch: M.A. i. 397.

Er hyd y bôm, lle y rhodiwn,
Yn *bydio* hwyl y byd hwn.—*Th. Prys.*

Ymröwn i *fydio*'n dlawd er ennill teyrnas nef.
Iolo Morganwg: Salmau, II. clxxxvii. 5.

Bydiog, *a.* having life; full of the world.

Bydiog, *sf.*=*Beidiog*, q.v. Cf. *Hugh Davies:* Welsh Bot. 77, 162.

Bydiogi, *v.* to bring into the world; to act as a midwife or accoucheur.—*H. Salesbury.*

Bydol, *a.* 1. relating to the world; mundane, wordly; terrestrial; secular; profane (as opposed to sacred or divine).

Caru Duw o fryd iniawn
Ac erchi archau cyfiawn
A bair nef a *bydawl* ddawn.
Ymdd. Arthur ac Eliwlod: M.A. i. 176 (cf. 268, 323).

Y vlwydyn rac wyneb y bu uarw Sulyen . . . gwr oed aeduet y geluydyt, ymadrodwr dros y genedyl, a dadleuwr kymedrodwyr, hedychwr amryuaelon genedloed, adurn o vrodyeu eglwyssolyon ar rei *bydolyon*.
Brut y Tywysogion, 166.

Goreu o'r goreuon oedd Taliesin Ben Beirdd am bob gwybodau llên a doethineb, a chelfyddyd cerdd dafod, a phob gwybodau *bydolion* a dwyfolion.—*Iolo Mss.* 78.

Tri pheth a gaiff gwr deddfawl: digonedd *bydawl;* heddwch ysprydawl; a llawenydd nefawl.
Trioedd Doethineb: M.A. iii. 87.

Tanbeidiach na'r tân *bydol*.—*Tudur Aled.*

Dyn bydol, a man belonging to this world or the earth; a mortal or earthly man; an earthling.

A gofyn aoruc Owein ae *dyn bydawl*.—*Mabinogion*, i. 31.

Ag eissoes nyt adnabu y byd ef. sef yw hynny nyt adnabu *dynyon bydawl* a oeddynt pechaduryeit y byd.
Efengyl Ieuan Ebostol, ¶ 5.

Dyma si o'r naill i'r llall, fod yno *ddyn bydol*. '*Dyn bydol!*' ebr un; '*dyn bydol!*' eb y llall; tan ymdyru ataf, fel y lindys, o bob cwr.—*Elis Wynn:* Bardd Cwsg, 55.

Cyssegr bydol, a worldly sanctuary.—*Heb.* ix. 1.

Da bydol, worldly substance, possessions, or property.

Ac adaw aoruc i bawb oi wyr os efo a orfei rengu eu bod hwynteu val y heidunei bob un onadunt o eur ac ariant a thlyseu mawrweirthiawc a thired a deieryd. a ffob kyvryw *da bydawl* a vo en i vediant ef.
Brut Gr. ab Arthur: M.A. ii. 355.

2. worldly; devoted to this world.

Sef ynt y seith hynny . . . nyt amgen. syberwyt. kynghorveint. irllonedd. tristit *bydawl*. neu lesgedd gwneuthur da.
Pwyll y Pader, ¶ 1.

Dyn bydol (*pl.* dynion bydol), a worldly person, a worldling.

Nid yw ryfeddod fod ar *ddynion bydol* ofn marw, o herwydd y mae angeu yn eu difuddio hwy o bob anrhydedd, cyfoeth, a meddiannau *bydol*, wrth feddiannu y rhai y mae'r *bydol* yn ei gyfrif ei hun yn ddedwydd. . . Yno ni ddichon feddwl amgen am dano ei hun na'i fod yn annedwydd, am iddo golli ei hoffder a'i lawenydd *bydol*.
Edw. Iames: Hom. i. 115.

Bydolion, worldlings.

Dyma eich cyflyrau, O *fydolion* truenus!
Daniel Rowland: Pregethau, v. 28 (cf. 27).

Gan fod ar encil ger dy fron,
O ffyrdd *bydolion* anghall.
Iolo Morganwg: Salmau, II. lxii. 3.

Bydol ei fryd, worldly-minded.

Bydoldeb, } *sm.* worldliness; devotion to
Bydolrwydd, } the world; covetousness; secularity.

Nid aberthau, nid ffurfioldeb,
Yw'r addoliad wrth fodd Duw;
Nid dychymmyg dall *bydoldeb*,
Na thraddodiad geubwyll yw.
Iolo Morganwg: Salmau, II. cciv. 1.

Gwreiddyn yr holl annuwioldeb, a'r holl ddrygioni, a'r holl *fydolrwydd*, a'r holl ddirmyg ar grefydd . . . yw anwybodaeth dynion o Dduw.—*D. Lewys:* Golwg, iii. 8.

Bydolder, *sm.* 1. worldliness; secularity.

Ti, sy'n ymdrochi mewn *bydolder*,
Yn ffiaidd bryfyn dan bob rhith.
Iolo Morganwg: Salmau, I. iii. 1.

2. the universe; the system of beings.

Sef y rhoddes Duw ei enw ar lafar, a chyda'r gair cyflam yr holl fydoedd a'u perthynasau, a'r holl *fydolder* i fod a bywyd.—*Barddas*, i. 38.

Bydolddoeth, -ion, *a.* worldly-wise.

Dyn bydolddoeth, a worldly-wise man.

Y bydolddoethion, the worldly-wise ones, the wise ones of the world.

Trwy dybiadau'r *bydolddoethion*,
Ar gyfeiliorn y bu'n taith.
Iolo Morganwg: Salmau, II. lv. 2.

Bydolddoethyn, *pl.* bydolddoethion, *sm.* a worldly-wise man; a worldling.

Bydolddyn, -ion, *sm.* a worldly man, a worldling.

Yna pa un oreu y pryd hyny bod yn sant credadwy, ai ynte yn *fydolddyn* anianol?
Galwad i'r Annychweledig, Rhag. 9.

Bydolfryd, } *a.* worldly-minded; earthly-
Bydolfrydig, } minded.

Myned yn fydolfryd, to become worldly-minded.

Bydolfrydedd, *sm.* worldly-mindedness.

Bydoli, *v.* to render worldly or secular; to secularise.—*Llan*, Tach. 9, 1882.

Bydolrwydd, *sm.*=*Bydoldeb.*

Bydolyn, *pl.* bydolion, *sm.* a worldling.

Er bod y *bydolion* yn hoff gantynt fwyta, yfed, dawnso, neido, canu, marchogaeth, a rhedeg, a'r fath bethau hyny; eto, er hyn i gyd, ni allant aros yn wastad yn y rhyw fywyd hyny, heb gymmysgu ag ef ryw ddifyrwch arall.
Marchog Crwydrad, i. 13.

Bydraenu, *v.* to maul; to beat; to beat to pieces.—*Gwent.*

Bydraith, reithiau, *sf.* the law of the world.

Llewenyt llu bedyt *bydreith*
Llyw anaw llauyn eurllaw aerlleith.
Cynddelw: M.A. i. 215.

Bydrefion, *s.pl.* small pieces, fragments, fritters.

Tori yn fydrefion, to break in pieces; to shatter.

Bydu, *v.* [byd] to give existence; to cause life; to live.

Mi a *fyda* [fyddaf?] hyd dyd brawd
Ar wyneb daiarawd.—*Taliesin:* M.A. i. 20.

Bydwr, wyr, *sm.* an accoucheur, a man-midwife.

Bydwraig, wragedd, *sf.* a midwife.

A brenin yr Aipht a lefarodd wrth *fydwragedd* yr Hebrëesau.—*Ecs.* i. 15 (cf. 16—21; Gen. xxxvii. 17).

Bydwreica, *v.* to midwife; to act as a midwife.

Bydwreigiaeth, -au, *sf.* midwifery.

Bydyn, *sm.* a little world.

Bydyssawd, *sm.*=*Bedyssawd.*

Mi a fum dysgawd ir holl *fydysawd*.
Taliesin: M.A. i. 20 (cf. 25, 147).

Uchaf Geli tri wyd trindawd Arglwydd
Erglyw feirdd *bydyssawd*.
Gr. ab Meredydd: M.A. i. 449 (cf. 226).

Bydd, *v.* [C. *bêdh*, *byth;* Br. *bez*] 1. 3rd pers. sing. fut. of *bod:* will be, shall be; there will or shall be (Lat. *erit*).

Cymru fu Cymru *fydd* or mor bwygilydd.
Taliesin: M.A. i. 49.

Golwg serchawg syberw *fydd*.—*Diareb.* (M.A. iii. 157.)

Ony *byd* o wybot y venegi itt. nyt arnat ti y *byd* y keryd.
Mabinogion, i. 246.

Ac ni *bydd* nos yno.—*Dad.* xxii. 5.

Besides the future proper, *bydd* is sometimes, especially in the dialect of N.W., used with the force of the present tense to denote habit

or custom; as, *a fydd ef yn myned i'r dref bob dydd Llun?* will he be going (=is he in the habit of going, does he habitually go) to town every Monday?

A fydd llawer o waith arno? will there be much work on it? *Bydd*, there will be; yes.

2. 2nd pers. sing. imperative: be (Lat. *es*). *Bydd di*, be thou.

Na *fydd* ry hy ar rywiawg.—*Diareb.* (M.A. i. 165).

Bydd, -ion, *sm.* a tie, a knot; a fastening.—*P.*

Byddag, -au, *sf.* a snare, a springe; a noose; a knot, a tie.

Llawrotyad llaw rot gaffael
Nyd llaw *vytac* vytei hael.—*Cynddelw:* M.A. i. 225.

Llinyn tag *fyddag* a fydd.—*Gruffydd Hiraethog*, i Fwa.

Hapus ddifeius fywyd
A ffy rhag *byddag* y byd.—*Robert Hughes.*

Byddag ysgub, the tie, knot, or fastening of a sheaf.—*Dyfed.*

Byddagl, -au, *sf.* a snare or springe; a noose; a tie or knot.

Byddagliad, -au, *sm.* an ensnaring or entrapping; a taking by surprise.

Byddaglu, *v.* to ensnare; to entrap; to springe.

Byddaglwr, wyr, *sm.* one that ensnares or entraps; a deceiver or inveigler.

Byddair, eiriau, *sf.* an ambuscade; an army for scouting.—*P.*

Y drev wen yn y dyfrynt
Llawen y *byddair* wrth gyvamug câd
Ei gwerin neu'r derynt.—*Llywarch Hen:* M.A. i. 110.

Byddar, -ion, air, *a.* [C. *bodhar, bother;* Br. *bozar, bouzar;* Ir. and Ga. *bodhar;* Mx. *bouyr*] 1. deaf.

Y maent fel y neidr *fyddar* yr hon a gau ei chlustiau.
Salm. lviii. 4.

Pa faint mwy tosturi a ddylid ei gymmeryd tuag at y rhai o ran eu heneidiau ydynt ddeillion, a *byddair*, a mud?
R. Llwyd: Llwybr Hyff. 369.

Ni chlywai'r duwiau *byddair* waedd y weddi.
Nicander: Brennus, iii.

Mud a byddar, dumb and deaf; deaf and dumb: *pl.* byddair mudion.

Troi y glust fyddar at, to turn the deaf ear to; to be deaf to.

2. surd (in prosody); unheard.

Pan fo dwy lythyren fud unrhyw yn ol bogal, neu lythyren dawdd, fal y mae, bratt, neu tant, honno a elwir silltaf fud, neu o henw arall, silltaf *fyddar*. A phan fo silltaf â'i dechreu yn bengamleddf a'i diwedd yn fud neu yn *fyddar*, fal y mae braint; honno a elwir dipton fud neu *fyddar*.
Pum Llyfr Cerddwriaeth, 44.

Byddar, -iaid, -ion, air, *sm.* a deaf person.

Dyddwg o eir deill a *byddeir* o bob aeled.
Taliesin: M.A. i. 44 (cf. 461).

Or byd y berchennawc tir etiued dianaf ac arall anafus megys dall neu *vydar* neu gruppul y dianaf a vyd etiued or holl tir.—*Cyfreithiau Cymru*, i. 546.

Yna yr agorir llygaid y deillion, a chlustiau y *byddarion* a agorir.—*Esa.* xxxv. 5.

Y mae efe yn gwneuthur i'r *byddair* glywed.
Marc vii. 37.

O *fyddariaid*, gwrandëwch; a'r deillion, edrychwch i weled.—*Esa.* xlii. 18 (cf. xliii. 8).

Byddardra, **Byddardod,** *sm.* deafness; dullness of hearing.

Byddariad, -au, *sm.* a deafening.

Byddariaeth, -au, *sf.* a deafening; a making deaf; a stunning.

Byddarleddf, *a.* surdisparsison; denoting a letter or syllable that loses its force.

Pan fo sillaf â'i ddiwedd yn dawddleddf, a'i ddechreu yn fyddar, fal y mae cwlldr, honno a elwir *byddarleddf*.
Edeyrn: Dosparth, 20.

Pan fo silltaf â'i dechreu yn fyddar a'i diwedd yn gadarnleddf, fal y mae cwlltr, neu puntr, hyny a elwir silltaf *fyddarleddf.*—*Pum Llyfr Cerddwriaeth*, 44.

Byddarllys, *sf.* and *cl.* houseleek (*Sempervivum tectorum*).—*Hugh Davies:* Welsh Bot. 47, 162.

Byddarllysg, *sf.* and *cl.* [=byddarllys: for the paragogic *g*, cf. *merllysg, claerllysg, ysgarllysg*, for *merllys, claerllys, ysgarllys*]=*Byddarllys.*

Cymmer wraidd y gloria, ereill a'u geilw yr helesg, a'r rhisg nesaf at yr ysgaw, a sudd y *fyddarllysg*, a'u mortyru'n dda.—*Meddygon Myddfai*, ii. 341 (cf. 65, 71, 188).

Byddarol, **Byddeiriol,** **Byddarus,** *a.* deafening; tending to stupefy; worrying, bothering.

Cludwyd y surdoes i Gymru gan y Saeson, y rhai yn eu gwlad eu hunain a gadwent y dadwrdd mwyaf *byddeiriol*, trwy areithio, ac ymffrostio, a bygwth.
Carnhuanawc: Han. Cym. 793.

Byddaru, *v.* to deafen; to stun or stupefy; to be deafened; to be stunned.

Nid wyf fi yn cael mo'r amser, na heddwch, na hamdden, gan yr hen ysgol front yma, a drygedd y cywion Saeson, fy nisgyblion, yn suo yn ddidor ddidawl yn fy nghlustiau, yn ddigon er fy syfrdanu a'm *byddaru.*—*Gro. Owain*, 173.

Byddarwch, *sm.* deafness; want of hearing.

Byddarwch y clustiau yn llwyr a dyn ymaith,
Diddanu'r byddariaid â swynol nefol-iaith.
Blodau Ieuainc, 2.

Bydderi, *sm.* deafness; hardness of hearing.

Da yw sud y kenin. a bystyl gauyr a mel yn dri thraean rac *byderi.*—*Meddygon Myddfai*, i. 135 (cf. 31, 134).

Byddin, -oedd, -au, *sf.* [cf. *bodiniou* (*gl.* phalanges) in Luxemb. Gloss.: Zeuss, G.C. 1064] 1. an army.

Gwell a wnaeth e aruaeth ny gilywyt.
Rac *bedin* Ododin odechwyt.—*Aneurin:* God. 33 (cf. 380).

Kikleu odures eu llaueneu
Kan Run en rudher *bedineu*
Guir Aruon rudyon eu redyeu.—*Cyfreithiau Cymru*, i. 104.

Llydw ysgor ysgwyd *bytineu*.
Cynddelw: M.A. i. 227 (cf. 313).

Yny dyffryn yn gyuagos y kyweirawd Rosser Mortymer a Hu Dysai yn *vydinoed* aruawc.—*Brut y Tywysogion*, 242.

Gofyn aoruc Owein yr mackwyeit. pa *vydin* ydoed yr iarll yndi.—*Mabinogion*, i. 30.

Gwrt am deruyn amhyl doruoet
Gwr *bytin* gwawr *bytinoet.*—*Prydydd Bychan:* M.A. i. 379.

Y rhai . . . a yrasant *fyddinoedd* yr estroniaid i gilio.
Heb. xi. 34.

Y fyddin a'r llynges, the army and navy.

2. a detachment or division of an army; a battalion; a corps; a band, a troop.

Pan welas y elynyon llunyaethu y lu awnaeth yn *vedinoed*. Ac yna y dodes ef teir *bydin* o varchogyon Llydaw gyt ac ef ehun ar neilltu ar rei ereill oll ym plith gwyr yr ynys yny *bydinoed.*—*Brut Gr. ab Arthur* (B): M.A. ii. 270.

A daeth allan o wersyll y Philistiaid anrheithwyr, yn dair *byddin:* un *fyddin* a drodd tu â ffordd Ophrah, tu â gwlad Sual; a'r *fyddin* arall a drodd tu â ffordd Beth-Horon; a'r drydedd *fyddin* a drodd tu â ffordd y terfyn sydd yn edrych tu â'r dyffryn Seböim.—1 *Sam.* xiii. 17, 18.

3. a host, a throng, a company; a band.

Yr helwyr godent gyda brys
Ryw foreu'n foddus *fyddin*.—*Daniel Ddu*, 259.

Byddinoedd o angylion, hosts of angels; angelic throngs.

Megis o'i adolwg ef y caffom, ac yr haeddom yr egluraf obrwy, yr hwn a ddywedir idd ei gaffael gyda *byddinoedd o engylion* yn oes oesoedd.
Emynau Curig (3): C. B. Saints, 277.

Byddinad, -au, *sm.* a setting an army in battle array; the array or order of battle.

Byddinawr, *s.* an old pl. of *byddin*.

Kynran en racwan rac *bydinawr*
Kwydei pym pymwnt rac y lafnawr.
Aneurin: God. 48 (cf. 130, 342).

Ar wyneb *biddinawr* broëd ynial.
Taliesin: M.A. i. 31 (cf. 157, 166, 297).

Arglwyti gyntwryf gyntorawr yn toryf
Yn teruysc *bydinawr*.
Cynddelw: M.A. i. 214 (cf. 289, 366, 369).

Byddinfawr, *a.* having a large army or armies; consisting of numerous hosts or forces.

Darogan dylan deil geirw gwelwon mor
I *fyddinfawr* gor fu ei ddanfon.
Gr. ab Meredydd: M.A. i. 461.

Byddiniaeth, -au, *sf.* tactics; generalship.

Celfyddyd rhencio (byddino) milwyr; *byddiniaeth*.
Walters.

Byddino, *v.* to set an army in array; to array for battle; to embattle.

Ac gwedy gwyscaw a *bydynaw* yn dyannot kyrchu gwyr Ruveyn a orugant.
Brut Gr. ab Arthur: M.A. ii. 188 (cf. 354).

A thrannoeth y dug Ector ei lu o'r gaer allan i'w *byddinaw*.
Ystori Dared, ¶ 64.

Ac efe a *fyddinodd* yn ei erbyn yn nyffryn Megido.
1 *Esd.* i. 29.

Byddino llu, to arrange an army in order of battle; to array troops.

Byddinog, *a.* having an army or a host; possessed of armies; arrayed in order of battle; embattled.

Teyrnuab Ioruerth berth *byddinawc*.
Uab Owein uur prein preitrwyf enwawc.
Llywarch ab Llywelyn: M.A. i. 304 (cf. 359).

Ar y ceiliogod rhedyn nid oes brenin, hagen gwersyllant yn *fyddinawg*.—*H. Perri:* Egl. Ffr. xxix. 4.

Breninoedd *byddinog* a ffoisant ar ffrwst.—*Salm.* lxviii. 12.

Rhyfel byddinog, battle array; a drawn battle.

Nac ymladd â hwynt mewn *rhyfel byddinog*.
Iudeth vii. 11.

Byddinol, *a.* belonging to an army or armies.

Byddinawl fanerau ni welir yn chwyfaw
O flaen dy byrth mwyach, nac arfau 'n disgleiniaw.
D. S. Evans.

Byddon, *sf.* [cf. s.v. *Betain:* L. *betonica;* Fr. *bétoine.* Cf. Brachet, s.v. *Bétoine*] betony (*Betonica*); agrimony (*Agrimonia*).

Byddon chwerw, hemp agrimony (*Eupatorium cannabinum*).—*Hugh Davies:* Welsh Bot. 76, 163.

Bwyta dwy weith beunyd deu dameit o dauot yr hyd. gogel wreid y llyseuoed. kanys trysgli a uagant. yf y *uedon chwerw*.—*Meddygon Myddfai*, i. 78.

Rac pessychu: mortera *uedwon chwerw*. a bwrw y sud y mywn llaeth berwedic.—*Meddygon Myddfai*, i. 107.

Or mynny na bych uedw; yf y bore lloneit plisgyn wy o sud y *vedon chwerw*.—*Meddygon Myddfai*, i. 56.

Byddu, *v.* to be, to exist; to endure.—*P.* Probably a form inferred from *bydd*, as it is not known to occur.

Bygant, aint, *sm.* [bwg] a sheriff; a senator (*H. Salesbury*): a scarer; a bailiff.—*P.*

Bygant, annau, *sf.* 1. a coin, the precise value of which is not ascertained.

Tri dyn a vyddant eneidvaddeu, ac nis gellir eu prynu: bradwr gwlad a chenedl; a latho arall o fyrnicder; a lleidyr provedig am werth mwy no phedair *bygant*.
Cyfreithiau Cymru, ii. 530.

In the corresponding passages in the Venedotian and Dimetian Codes (*C.C.* i. 252, 462) the expression is 'pedair *ceiniawg*,' or four *pence;* hence it may be inferred that *bygant* and *ceiniog* were coins of much the same value. *Bygant* has by some been identified with the *bezant* or *byzant*, a gold coin first struck at *Byzantium* or Constantinople (whence the name), 'varying in value between the English sovereign and half-sovereign, or less. It was current in Europe from the 9th century, and in England, till superseded by the noble' (value 6*s.* 8*d.*), a coin of Edward III. 'There were also silver bezants, worth from a florin to a shilling.' The bezant, however, could hardly have been the coin intended in the Laws; for, besides the difference in value between *bezant* and *bygant*, the change of *z* or *s* to *g* is unknown. *Bygant* may be explained as a Welsh word (by-+cant); and the same substantive (*cant*) may be the origin of *ceiniog*, though supposed by some to be a borrowed word. Cf. *Bysant*.

2. in the subjoined instance, *bygant* evidently denotes a very small coin; a trifle.

Mi a werthaf hyn [llonaid gren bridd o laeth] am *fygant*, ac a brynaf gyw iâr; honno a ddwg imi wy bob dydd dros amcan deg o amser.—*Iolo Mss.* 181.

Bygegyr, -on, *sm.*=*Begegyr*.

Bygel, -ydd, *sm.* [bwg] a bugbear, a frightful object?

Bygel nos, a phantom, a hobgoblin.—*P.* This is rather Breton than Welsh; for the term does not appear to occur in the latter language. *Bugel*, in Breton, signifies a child or infant, having apparently no connection with our *bwgan* or *bwci;* and *bugel-nôz* is a child of night. 'Ce mot est composé de *bugel*, enfant, et de *nôz*, nuit.'—*Le Gonidec*, Dict. Bret.-Fr. (ed. Villemarqué) s.v. *Bugel-nôz*.

Bygilydd, *adv.* [mut. of *pygilydd*]=*Bwygilydd*.

Y mae'r fraich o ben *bygilydd* yn gynghanedd groes gwbl-berffaith.—*Cyfrinach y Beirdd*, 58.

Dos o fan bygilydd, go from one place to another; go from place to place.

Awn yno o un bygilydd, we will go there one by one; we will go there one after another.

Byglwm, glymau, } *sm.* a cluster; a bunch;
Bygylwm, gylymau, } a knot.

Byglymu, } *v.* [by-+clwm, cwlwm] to clus-
Bygylymu, } ter; to knit (as bees); to cling together.

Mal gwenyn yn *byglymu*.—*Diareb.*

Bygwl,) *pl.* bygylau, *sm.* [bwg] a threat or
Bwgwl,) threatening, a menace; a terrifying or bullying.

Colofn Ercwlf nis arfeidd *bygwl.*—*Taliesin:* M.A. i. 69.

Ny uagei *uygwl* attcb
Ne uaeth negyuaeth y neb.
Llywarch ab Llywelyn: M.A. i. 294.

Nyd oedud *fygwl* fugail Prydain.
Cynddelw: M.A. i. 204.

Bwgwl gwlad fydd rhuad rhai;
Bawddyn oedd na'm rhybuddiai.
Gr. Gryg (D. ab Gwilym, cxxii. 53).

Trwy ffydd ni phrisiodd efe ar *fygylau* brenin Pharao.
Edw. Iames: Hom. i. 47.

Bwgwl cedeirn, bugail cadr,
Bwla Cymru benbaladr.—*L. G. Cothi,* VIII. v. 61.

Bygwl,) *a.* intimidated; frightened; timid,
Bwgwl,) fearful, faint-hearted.

Ry wann yw dy uedwl di a ry wreigeid. a chewilyd yw bot gwr mor *vygwl* y ymadrawd a hynny am vab. . . Ac ystynnu aoruc Chyarlys y llythyreu yna ar Wenwlyd. ac ual y ryd y brenhin yny law ys dygwydant wynteu yr llawr. ae law ynteu yn krynu. ac yn eu dyrchauel wynteu y uynyd y deuth chwys idaw y bop aelawt rac kewilyt y uot mor *vygwl* a hynny.—*Yst. de Carolo Magno,* col. 464, 465.

Y neb a vo medyannus arnat ny orchyuygir vyth. ny byd *bygwl.* ny chryn yr ouyn neb.—*Campau Charlymaen,* § 110.

Bygwl, *v.* [bwg]=*Bygylu.*

Bygwth,) *pl.* bygythion, bygythiau, *sm.* a
Bwgwth,) threat, a menace; a threatening; a terrifying.

Tewy arawrhon a wnawn am danaw kanys *bygwth* ryvel y gan Ffreync beunyd e syd arnaf.
Brut Gr. ab Arthur: M.A. ii. 233.

Menegi y gyfranc y Arthur a Gwenhwyuar. ac y bawb or teulu ar *bygwth* ar Gei.—*Mabinogion,* i. 243.

A Saul eto yn chwythu *bygythiau* a chelanedd.—*Act.* ix. 1.

Ac yn awr, Arglwydd, edrych ar eu *bygythion* hwy.
Act. iv. 29.

Yma bellach y gwelwn osod ger ein bronau addewidion a *bygythiau.* . . Yna y syrthiwn mewn perygl o'r *bygythiau* sy wrthwyneb i hyny.
Dr. J. Davies: Llyfr y Res. II. ii. 36.

Bygwth,) *v.* to threaten, to menace, to threat;
Bwgwth,) to terrify.

Gan *fygwth bygythiwn* hwy, na lefaront mwyach wrth un dyn yn yr enw hwn.—*Act.* iv. 17 (cf. 21).

Oni chydnabyddwn ef, y mae yn *bygwth* gafaelu arnom.
Ier. Owen, 37.

Bygwydd, -au, *sm.* [bwg] a hobgoblin, a phantom.—*H. Salesbury* (Arch. Brit. 214).

Bygyliad, -au, *sm.* a threatening or menacing; commination.

Bygyliaeth,) -au, *sf.* [cf. *bicoled* (*gl.* vecordia)
Bygylaeth,) in Luxemb. Gloss.: Zeuss, G.C. 1064] intimidation; commination; a threatening or menacing.

Freuer wen brodyr a'th vaeth
Ni hanoeddynt o'r difaeth
Gwyr ni vegynt *vygyliaeth.*—*Llywarch Hen:* M.A. i. 110.

Bleinyat gat hwylgat haelonaeth a geidw
Heb gytuot *bygylaeth.*—*Einion Wan:* M.A. i. 337.

Bygylog, *a.* threatening, menacing; commination; intimidating; scaring.

Annog *bygylog* elyn,
Afraid i Frytaniaid hyn.—*Gro. Owain,* 85.

Na bo i'r galon, yn rhai *bygylog,*
Lygru draw wythi hen Loegr doreithiog.
D. Ddu Eryri: Corff y Gainc, 44.

Bygylu, *v.* 1. to threaten, to menace; to intimidate.

Ni chadarnhëir gyda'r gwirion
I'm gŵydd o gelwydd a *fygylon'.*
W. Midleton: Salm. ci. 7.

Mae'r Mab Cryg, oedd fyg pan fu
Ab Gwilym yn *bygylu?*—*Gro. Owain,* 14.

2. to bully or harass; to worry.—*S. W.*

Bygylus, *a.* threatening, menacing, commination.

Bygylwr, wyr, *sm.* a threatener or menacer.

Ffrwynodd *fygylwyr* Ffreinig.
Ioan ab Hywel: Blodau Dyfed, 142 (cf. 122).

Bygythfa, fäu, faoedd, *sf.* a threat or threatening, a menace.

Oni wasanaetha na'r rhybudd mwyn na'r *fygythfa* greulon hyny; yno y dengys Duw ei greulon wedd arnom.
Edw. Iames: Hom. i. 107.

Y gyfraith a'r Ysgrythyrau a gynnwysant ynddynt lid, digofaint, a *bygythfäu* Duw.—*Edw. Iames:* Hom. i. 114.

Bygythiad, -au, *sm.* a threatening or menacing; commination; a threat, a menace.

Bygythiadau, threatenings, threats, menaces.

Ariaspes . . . a ddychrynodd efe yn y fath fodd trwy *fygythiadau* . . . fel y gwenwynodd ei hun.
Simon Lloyd: Amseryddiaeth, 298.

Bygythiadol,) *a.* comminatory, menacing,
Bygythiannol,) threatening.

Bygythiant, *sm.* commination.

Bygythiedydd, -ion, *sm.* a threatener or menacer.

Bygythio, *v.* to threaten, to menace; to intimidate; to scare.

Ac ouer yw *begythyaw* y neb ny throsso y uedwl byth yr bygwth.—*Yst. de Carolo Magno,* col. 465.

Ys da y gampeu heb guympau yn afyrdul
Ysyaun difygul oe *uygythyau.*—*Llygad Gwr:* M.A. i. 340.

Pawb o nadunt esyd yn *bygythyaw* dwyn Emreis Wledyc o Lydaw.—*Brut Gr. ab Arthur:* M.A. ii. 245.

Cas a *fygythio* bawb, ac ni bo ar neb ei ofn.—*Diareb.*

Bygythiog, *a.* containing threats or menaces; threatening, menacing.

Cynhwrf y tyrfau, drwy'r entrych *fygythiawg,*
Sy'n arllwys llynau cronedig yr awyr,
Nes y mae'n disgyn ar wyneb y ddaiar
Curwlaw llifeiriawg.
W. Saunders: Cerddi Arwraidd, 31.

Bygythiol, *a.* threatening, menacing, comminatory.

Bygythiwr, wyr, *sm.* a threatener, a menacer.

Byl (*ў*), *sm-f.* a brim or edge; a rim.

Llawn hyd y fyl, full to the brim; brimful.—*S. W.*

Bylch, *s.* a pl. of *bwlch,* the more usual form being *bylchau.*

Bylchaidd, *a.* [bwlch] like a notch or cut.

Bylchau, *s.* the ordinary pl. of *bwlch.*

Bylchiad, -au, *sm.* a notching; a hacking; a forming of breaches or gaps.

Bylchfin, -ion, *sm.* a notched edge; a harelip.

Hard arveu vwlchvur hyrdeiryf *vylchvin.*
Rhiserdyn: M.A. i. 433 (cf. 556).

Bylchlafn, -au, *sm.* a notched blade or weapon.

Teleto balch a *bylchlafyn* eurweith.
Llygad Gwr: M.A. i. 345 (cf. 342, 439, 446).

Bylchlain, leiniau, *sf.* a notched blade.

Bylchog, *a.* 1. having notches, notched; having gaps or breaches.

Yscauael valch-hael *vylchawc* keiryd.
Iorwerth Fychan: M.A. i. 415.

Gwefus fylchog, a harelip.

2. embattled (in heraldry).

Mae erailh yn dwyn aruæ *bylchoc*, a hwynt a elwir velhy achos eu bot yn debyc y vylchæ ar gaerau cestylh.
Cyfraith Arfau.

Bylchraidd, reiddiau, *sf.* a broken or shivered lance.

[Hopcyn] fab Thomas falchras *fylchraidd* ynghammawn
Fab Einiawn fyrddlawn drin greulawn draidd.
Dafydd y Coed: M.A. i. 494.

Bylchron, -au, *sf.* a broken or diminished lance.

Ceredigiawn walch balch *bylchron*.
Dafydd y Coed: M.A. i. 495 (cf. 493).

Bylchu, *v.* [bwlch] 1. to notch; to make a gap or breach; to breach; to diminish.

Carafy gaer ualchweith or Gyuylchi
Yny *bylcha* balchlun vy hun yndi.
H. ab Owain Gwynedd: M.A. i. 275 (cf. 258, 377).

Am ein balchedd yma'n *bylchwyd*.—*L. G. Cothi*, iv. iii. 25.

Duw'n hawdd y *bylchawdd* wŷr beilchion.
W. Midleton: Salm. lxviii. 21.

A llawer aestalch falch a *fylchai*.
Gwallter Mechain: Gwaith, i. 10.

Bylchu gair, to break (one's) word.

A thryssor athreisic salwed
A *bylchu* vyg *geir* a balched.
Gr. ab Meredydd: M.A. i. 474 (cf. 454).

2. to make a gap in; to diminish or lessen.

Hil Einiawn Glud uniawn glêd annedd
Fab Gwallter ni *fylchir* ei falchedd.
Dafydd y Coed: M.A. i. 497.

Byle, -on, *sm.* a box, a trunk.—*H. Salesbury* (Arch. Brit. 214).

Gwelent, rhwng bargodion yr eiddew oedd yn brwydo y ffenestr, wr boneddig tal yn dyfod i fyny yr ardd, a hogyn ar ei ol yn dwyn *byle* ar ei ysgwydd.—*Gwyliedydd*, vii. 244.

Bylen, -au, *sf.* [bwl] the bush of a wheel.—*S.W.*

Bylgan, -au, *sf.*=*Bwlgan*.—*Davies*, s.v. 'Bulga.'

Byliad, -au, *sm.* [byl] an edging.

Bylio, *v.* [bwl] to bowl; to play at bowling.

Buchedd foethus, dawnso, chwareu, llettya yn esmwyth, cariad yr arlwyddesau, chwerthin, hela, heboca, adara, marchogaeth, neido, *bylio*, saethu, gwych ymdrwsio, a phob peth ag a fedrych ei ddamuno i gyflenwi dy wyllys.
Marchog Crwydrad, i. 6.

Bylio, *v.* to sound a trumpet; to blow a horn.

Bylu, *v.* [byl] to make a rim or edge.

Byllt, *s.* pl. of *bollt*.

Bynafu, **Bynafod**, *v.* [=mynafu: by-+anafu] to hurt, to maim; to injure.

Bynawyd, -au, *sm.* [=mynawyd] an awl.—*C.S.*

Mynawyd . . . *bynawyd* crydd, offeryn sydd gan grydd i dyllu ag ef.—*Th. Charles*, s.v. 'Mynawyd.'

Bynna, *pron.*=*Bynnag*.

Bynnag, *pron.* [mut. of *pynnag*: L. *-cunque*; C. *bennag*, *pennag*, *pynnag*; Br. *pennag*] soever. The word is almost always used with *pwy*, referring to persons; and *pa* (†*py*), *peth* or *beth*, concerning things.

Pwy bynnag, whoever, whosoever; whomsoever.

Peth bynnag, *Beth bynnag*, (1) whatever, whatsoever. (2) however, at all events; be (that) as it may.

Pa ddyn bynnag (*pl.* pa ddynion bynnag), whatever man, what man soever.

Pa beth bynnag (*pl.* pa bethau bynnag), whatever thing, what thing soever; whatever, whatsoever.

Pa un bynnag (*pl.* pa rai bynnag), (1) whatever one, whoever; whatever; whichever. (2) (followed by *ai*), whether (or).

Pa bryd bynnag, *Pa amser bynnag*, whatever time; at whatever time; whenever.

Pa (beth) bynnag a ddêl, whatever may come; come what may.

Peth bynnac o garueidrwyd a vei y dyd. ny bu un nos hyt ympenn y vlwydyn amgen noc a uu y nos gyntaf.
Mabinogion, iii. 8.

Pa fodd bynnag, *Pa wedd bynnag*, in whatever way or manner; however, howsoever.

Pa le bynnag, *Pa fan bynnag*, in whatever place; wherever, wheresoever; into whatever place, whithersoever.

Eiddo ef yw y *peth bynnag* sydd yn y nefoedd, neu'r ddaiar.—*Charles Edwards:* Han. y Ffydd, 110.

Pa ddyn *bynnag* fych. . . Croesaw pan ddelych.
Deio ab Ieuan Du: G.B.C. 171.

Pa glot a geffy di yr llad gwr marw *pwy bynnac* a uych.
Mabinogion, ii. 60.

Pa bethau bynnag sydd wir, *pa bethau bynnag* sydd onest, *pa bethau bynnag* sydd gyfiawn, *pa bethau bynnag* sydd bur, *pa bethau bynnag* sydd hawddgar, *pa bethau bynnag* sydd ganmoladwy . . . meddyliwch am y pethau hyn.—*Phil.* iv. 8.

Pa ffordd *bynnag* y trothom ein hunain.
Ios. Tomas: Buch. Grist. 156.

Pa un *bynnag* fyddo ai da ai drwg.—*Preg.* xii. 14.

Yna y kerdynt y gyt *py le bynnac* y dyckei y tyghetuen wynt, a llosci tref neb un wrda a orugant, a *phy beth bynnac* a ellynt y dwyn gantunt.—*Brut y Tywysogion*, 94.

2. *bynnag* sometimes precedes *pa* or *pwy*.

Bynnag pa amser y dyweto Tad yr ysprydoedd y gair hwn . . . yr holl gyfryngau a'r moddion ag a feidr celfyddyd dyn eu chwilio allan, ni thalant ddim.—*Ier. Owen*, 51.

3. sometimes, but very rarely, a verb intervenes between *pa* or *pwy* and *bynnag*.

Pa diaspettych di *bynnac* am gyfreitheu llys Arthur. nyth ellyngir di y mywn. yny elwyfi y dywedut y Arthur gysseuin.—*Mabinogion*, ii. 202.

4. in some instances *bynnag* or *pynnag* occurs without *pa*, *pwy*, or *peth*.

Tair braint arbenigion bardd: trwyddedogaeth ym *mhynnag* o wlad ydd elo; nas dycer arf yn ei erbyn ym *mhynnag* o fan bo; a gair ar bawb ei air ef parth gwybodau *pynnag* o fan y bytho.—*Barddas*, ii. 32.

Tri pheth y dylai bob dyn ymostwng iddynt: ei allu corfforawl; ei ddymbwyll deall; a'i gydwybod ei hunan, *bynnag* o beth ei gofynion.
Trioedd Doethineb: M.A. iii. 222.

Yr holl gamweddau hyn a haerwyd gynt . . . ar bawb o'r sawl *bynnag* yn y dechreuad a dderbyniasant wirionedd yr efengyl.—*Morus Cyffin:* Diff. i. 3.

¶ The older form is *pynnag* (*pynnac*, *pennac*), but is seldom met with, especially in the modern language.

Pui pennac agustlo gustel adeuedic atebiccu o honau ef vrth na does vach arnau bot eguestel en anilis.
Cyfreithiau Cymru, i. 120 (cf. 116).

¶ *Bynna*, *benna*, *bennag*, are forms of the same word. Pughe (s.v. *Pyna*) says that *pynna* (bynna) 'is used before words with consonant initials, and *pynnag*, before vowels.' Such, however, is not actually the case; for *bynnag* or *pynnag* occurs in all positions, and *bynna* or *benna* is not of frequent occurrence in the literary, though common in the colloquial, language.

Pa ddrwg *benna* a'th ddug yma?
Rh. Goch ab Rhicert: Iolo Mss. 240.

A gwna, pa le *bynna* bôn',
Na'u gwŷl un o'u gelynion.—*H. D. ab Ieuan.*

O ddilyn hwn, ble *benna*'r af,
Pob man a gaf yn oleu.
Iolo Morganwg: Salm. i. xxiii. 2.

Byr (*ў*), *m.* } *pl.* byrion; *cp.* byred, -ach, -af, *a.*
Ber (*è*), *f.* } [C. *ber;* Br. *berr;* Ir. *bear;* Ga. *bearr*] short; brief; concise; curt; abrupt; deficient.

Ystarn de winev *birr* y blev.—*M.A.* i. 576 (A.B. ii. 43).

Gwr fab Madawg gwrddfeirch arab
Gwrhyd Pyrr *byrr* y bu fab.
Llyw. ab Llywelyn: M.A. i. 307.

Byr feddwl a wna hir ofal.—*Diareb.* (M.A. iii. 150.)

Byr a darfodedig yw gogoniant y byd.
Huw Owen: Dilyniad, II. vi. 2.

Cyflym ydd ä rym yr oes;
Duw anwyl, *fyred* einioes!—*Gro. Owain*, 39.

Eto bernir y tair cyhydedd *byreifion* yn afrywiocach na'r chwech ereill.—*Cyfrinach y Beirdd*, 129.

Ateb byr, a short answer; a brief reply.

Ar fyr, shortly, briefly; in short.

Kanys *ar vyr* edeuey a phorth egan Selyf brenin Llydaw.
Brut Gr. ab Arthur: M.A. ii. 378.

Ar fyr, dyna'r awr a'r amser y rhydd buchedd dda ac edifeirwch diragrith fwy o gysur a llawenydd na holl ddifyrwch a mwyniant daiarol.
Huw Owen: Dilyniad, I. xxiv. 4.

Ar fyr eiriau, in few words; briefly, shortly. —*Heb.* xiii. 22.

2. shortly; in a little time; soon.

Bod yn fyr, (1) to be short or brief. (2) to be short (of); to come or fall short (of); to fail (in).

Ac ar galan (yn anad
Un dydd) bûm o wr, yn dad:
Finnau ni bûm yn f'einioes
Eto'n *fyr* it' o iawn foes.—*Gronwy Owain*, 63.

Byr ei olwg (*f.* ber ei golwg; *pl.* byr eu golwg), short-sighted; near-sighted.

Llaw fer, short hand, stenography.

Byr a thoddaid, brachyochyte; a peculiar Welsh metre, consisting of eight lines of sixty-four syllables. Dr. I. D. Rhys, who translates the term by *brachyochyton* (whence *brachyochyte*) describes it thus:

Byr a thoddaid a fesurir o bedwar pennill byrion unllinellog, heb rai mân ynddynt, ac o wyth sillaf bob un: a phaladr megys o englyn unodl union o'r blaen yn nechreu yr awdl; a'r cyffelyb baladr o hyd yn ol y pennillion byrion yn diweddu mesur yr awdl.—*Gramadeg*, 208 (cf. 209, 211).

Cf. Edeyrn, *Dosparth*, 30, 269; W. Midleton, *Barddoniaeth*, 71; *Cyfrinach y Beirdd*, 179, 221; Robert Davies, *Ieith. Cymr.* 134. The following is a modern specimen:

A ddywedai eddewidion, a wiriwyd
O warant wir ffyddlon,
Od ai'n tiroedd dan y taerion,
Ar fyr dwyre wir frodorion,
Caem i'r hen-fri Cymru hoen-fron,
Lloegr yn dethol llugyrn doethion,
Llawn dawn dewr-weilch Llundain dirion, impiau
Dewr weddau Derwyddon.—*Gronwy Owain*, 101.

Byradwy, *a.* that may be shortened.

Erioed ni bu *fyradwy*,
Na thwn yn eu henwaith hwy.—*Ieuan Llwyd Brydydd.*

Byranadlog, *a.* short-breathed; asthmatic.

Byrbryd, -iau, *sm.* a light meal, a luncheon.

Byrbrydio, *v.* to lunch.

Byrbwyll, *a.* [byr+pwyll: C. *berboell*] 1. inconsiderate, thoughtless; rash; hasty, precipitate; giddy; unadvised.

Mi deflais y dis, gan roi fy einioes yn fy llaw, a diystyru pob perygl a allai fy ngorddiwes, a hyny nid yn *fyrbwyll*, ond o hir ystyried.—*Gronwy Owain*, 331.

Gweithred fyrbwyll, a rash or inconsiderate act.

2. prompt; inelaborate; concise; impromptu.

Yna dyfaler yn *fyrbwyll* ragorwerth y peth a gwyner am dano.—*Cyfrinach y Beirdd*, 40 (cf. 39).

Byrbwyll, *sm.* rashness, inconsideration, hastiness.

Ar fyrbwyll, without thought or consideration; rashly, precipitately, unadvisedly.

Ni ddarfu i ni wneuthur dim *ar fyrbwyll*, nac o falchder.
M. Cyffin: Diff. vi. 15.

Mewn byrbwyll, rashly, precipitately, unadvisedly; hastily; without thought or consideration.—*Act.* xix. 36.

Am hyny ni ddylai neb ei chymmeryd arno, na'i gwneuthur, *mewn byrbwyll*, o ysgafnder meddwl, neu nwyfiant.
Ll. G. Gyffredin (Priodas).

Chwi a glywsoch mor ddamnedig yw tyngu anudon, neu gadw llw a wneler *mewn byrbwyll*, neu yn anghyfreithlon.
Edw. James: Hom. i. 100.

Byrbwylldra, } *sm.* hastiness, inconsiderate-
Byrbwyllder, } ness, rashness, precipitancy,
Byrbwylledd, } thoughtlessness.

Byrbwyllig }
Byrbwyllog, } *a.* apt to be rash, hasty, or giddy; precipitate, rash, hasty,
Byrbwyllus, } inconsiderate.

Y mae yn rhyfeddach genym fod Pab Rhufain mor anrhesymol, yr hwn gan wybod o hono beth oedd awdurdod yr amherawdwr . . . eto, fynu o hono ef mor *fyrbwyllus* gyfroddi y swydd honno iddo ei hunan.
Morus Cyffin: Diff. vi. 11.

Byrbwyllo, *v.* to become thoughtless, inconsiderate, rash, or hasty.

Byrder, } *sm.* shortness, briefness, brevity; con-
Byrdra, } ciseness; deficiency.
Byrdeb, }

Lle saif prif ragoriaeth cerdd mewn rhwydd ac eglur adroddiad parth damweiniau, ac ymbwylliadau, a synwyr, ac athrawiaeth, a *byrder* ymadroddion, goreu o'r holl fesurau yw traethodyn.—*Cyfrinach y Beirdd*, 107.

Er mwyn *byrdra*, at ba un yr ydym yn ceisio, rhoddir y brophwydoliaeth, bob yn rhan, yn y lle cyntaf.
Simon Lloyd: Amseryddiaeth, 360.

Byrder yw enaid ffraethder.—*Brython*, iii. 80.

Ar fyrder, shortly; in a little time; soon; quickly; in short.

Ac *ar uyrder* ytt ny thygyei yr paganyeit arueu rac dyrnodeu y Cristonogyon.—*Yst. de Carolo Magno*, col. 480.

Mi a ddeuaf atoch *ar fyrder*.—1 *Cor.* iv. 19.

Byrdew, -ion, *a.* short and thick, or fat; punchy; squabby; stubby.

Byrdon, *sf.* [byr+tôn (*P.*); but it appears to be the same as *byrdwn*, q.v.] the bass (in music).

Byrdra, *sm.*=*Byrder.*

Byrdwn, *sm.* [E. *burden, bourdoun, burdown;* Fr. *bourdon;* L.L. *burdo*, drone: cf. *dwnad, dwndwr, dwrdd*] the burden or refrain (of a song); a chorus; that which is often repeated.

Canu y byrdwn, (1) to bear the burden (in a song).

Ac fel hyn chwi a welwch pa wedd y bydd coed a cherryg eich tai yn *canu byrdwn* i'ch erbyn.
Robert Llwyd: Llwybr Hyff. 213.

(2) to harp always on the same string.

Byrdd, *s.pl.*=*Byrddau* (sg. *bwrdd*).

Amsathyr cyrt a *byrt* a bartoni.
Cynddelw: M.A. i. 219 (cf. 215).

Byrddaid, eidiau, *sm.* [bwrdd] a tableful.

Ac efe a orchymmynodd iddynt beri i bawb eistedd yn *fyrddeidiau* ar y glaswellt.—*Marc* vi. 39 (cf. Luc ix. 14).

Gwelwn ereill yn *fyrddeidiau* yn gwledda, a pheth o bob creadur o'u blaen.—*Elis Wynn:* Bardd Cwsg, 30.

Byrddiad, -au, *sm.* a boarding; a flooring.

Byrddfawr, *a.* having a large table; hospitable.

Karyatvawr *byrdvawr* beirdvaeth.
Casnodyn: M.A. i. 422.

Byrddiedig, } *pt.a.* covered with boards or
Byrddedig, } planks; boarded, planked; floored.

Ai amser yw i chwi eich hunain drigo yn eich tai *byrddiedig*, a'r tŷ hwn yn anghyfannedd?—*Hag.* i. 4.

Byrddio, } *v.* 1. to cover with boards or planks;
Byrddu, } to board; to plank; to board over.

Efe a *fyrddiodd* barwydydd y tŷ oddi fewn ag ystyllod cedrwydd, o lawr y tŷ hyd y llogail y *byrddiodd* efe ef â choed oddi fewn: *byrddiodd* hefyd lawr y tŷ â phlanciau o ffynidwydd.—1 *Bren.* vi. 15 (cf. 9; 2 Cron. ii. 5; xxxiv. 11).

A llu yn *byrddu* ddeucan byrddaid.
L. G. Cothi, III. xxii. 35.

2. to board (as a lodger).

Fe gynnygiwyd i mi le i *fyrddio* . . . yn ol wyth bunt y flwyddyn; a pha faint rhatach y *byrddiwn* ym Mon?
Gro. Owain, 199.

3. to board; to go on board.

Y mae Horas, yn neillduol, yn darlunio gofal yn *byrddio* y llestr.—*Cylchgrawn*, i. 18.

Byrddiog, *a.* having boards; boarded; floored.

Byrddiwr, } wyr, *sm.* one who boards; a boarder;
Byrddwr, } a lodger.

Byrddlawn, *a.* having a full table; hospitable.

Hopcyn wirawd-lyn reid-wlad hardd golofn . . .
Fab Thomas ddigas ymddygiad cyfiawn
Fyrdd-lawn fab Einiawn feirdd erbyniad.
Madog Dwygraig: M.A. i. 482 (cf. 494).

Byrddol, *a.* [bwrdd 2] relating to a board or boards; board-.

Ysgolion byrddol, board schools.

Byrddwely, -au, *sm.* a table-bed.—*W.*

Byrddwn, *sm.* [cf. *byrdwn*]=*Byrdon.*

Byrddydd, -iau, *sm.* a short day; the shortest day.

Mis Rhagfyr *byrddydd* hirnos
Brain yn egin brwyn ar ros.
Engl. y Misoedd: M.A. i. 16 (cf. 13).

Tri byrddaid o wŷr trwy y *byrddydd*.
L. G. Cothi, III. i. 40.

Byrddydd gauaf, } the short day of winter;
Byrddydd y gauaf, } the shortest day; mid-winter, winter solstice.

Tri amseroedd egored y sydd, ac arnynt rhydd yw cynnal cadair ac eisteddfod . . . sef y dyddiau, a'u gwylau, a'u tradwyau, y delo'r haul i gyfnod cyhydedd y gwanwyn, ac i gyfnod hirddydd haf, ac i gyfnod cyhydedd y mesyryd, ac i gyfnod *byrddydd y gauaf*.—*Barddas* ii. 128.

Y Groegiaid yn gyffredin a ddechreuent eu blwyddyn o ddeutu hirddydd haf; a'r Chineaid diweddar, a'r Rhufeiniaid, ar ol Numa, o ddeutu *byrddydd y gauaf*.
Simon Lloyd: Amseryddiaeth, 7.

Yn iaith yr hen feirdd, Alban arthan a arwyddai *fyrddydd gauaf*.—*Cylchgrawn*, i. 205.

Byreb, -ion, *sf.* [byr] an abbreviation, a contraction, an abbreviature.

Ar fyreb, in short; shortly, briefly.

Ar fyreb, nid yw y droell hon onid cyffelybrwydd wedi ei chorni mewn un gair.—*H. Perri:* Egl. Ffr. xii.

Byrfelyn, *m.* } *pl.* byrfelynion, *a.* short and
Byrfelen, *f.* } yellow.

A gyru a wnaeth y brenhin a gwas *byruelyn* gyt ac ef. . . . Yna y dywawt y gwas *byrruelyn* wrth yr unbennes. . . Ar gwas *byrruelyn* a aeth parth ac att y brenhin.
Mabinogion, i. 288.

Byrfraisg, *pl.* byrfreisgion, *a.* short and thick; stubby, stocky.

Byrfrydig, *a.* hasty-minded; rash; irritable.

Byrfwch, fychod, *sm.* 1. a buck or he-goat.

Ni fyn merch, er ei pherchi,
'Ngolud yw, fy ngweled i,
Mwy na phe rhoid mewn ffair haf
Barf a chyrn *byrfwch* arnaf!—*D. ab Gwilym*, cxli. 19.

2. a badger; an animal with long coarse hair: often used as a term of abuse.

Melis, daiarhwch, daiarfochyn, *byrhwch* (& *bwrfwch*), pryf llwyd, pryf penfrith.—*Edw. Lhwyd:* Arch. Brit. 88.

Mi fûm yn heliwr hwylus,
Yn dal *byrfychod* awchus,
A'r dwrgi dig, dan waeddi'n groch,
A'r cadno coch twyllodrus.
Ioan Siencyn: Blodau Dyfed, 387.

Da gwyddost, fawr-fost *fyrfwch*,
Blaenio hwn â blewyn hwch.—*Syr Lewys o Langyndeyrn.*

¶ In the first sense *byrfwch* appears to owe its form to that of the second, retaining the meaning of *bwch;* while in the second sense, it seems to be confounded with *byrhwch* (q.v.), and has the same signification.

Byrfwch, *a.* badger-like; covered with long and coarse hair (like that of a badger or of a goat); rough with long hair; hairy and coarse; rough and shaggy; unpolished.—*S. W.*

Dyn byrfwch, a hairy, coarse-looking person (generally used of men of low stature).

Gwallt byrfwch, rough, uncombed hair.

Ci byrfwch, a shaggy dog; a dog covered with long and coarse hair.

Byrfyfyr, *a.* impromptu; inelaborate.

Byrfys, -edd, *sm.* the little finger.

Byrffyrf, *m.* } *a.* short and thick; thick and
Byrfferf, *f.* } firm; stocky, stubby.

Llaryeiddwalch geirfalch gorfu abrwysgldyrf
Llyry *byrffyrf* briwgyrf bragad fylchu.
Gr. ab Meredydd: M.A. i. 443.

Byrgam, *a.* short-paced.

Y maent nid yn unig yn fwy cynnwysfawr; ond yn fwy difyr i'w darllen, na'r brawddegau *byrgam*, byranadl, sydd yn awr mewn arferiad cyffredin.
Dr. L. Edwards: Traeth. Llen. 162.

Byrgibog, *a.* [byr+cib] siliquose, siliquous.

Y llwyth byrgibog, the order siliculosa (in botany).—*Hugh Davies:* Welsh Bot. 61.

Byrgibogion, siliculosa.

Byrgoed, -ydd, *s.cl.* short, stunted, or dwarf trees.

Ac adaw y coet aorugant a dyuot y wastattir mawr. ac ac ym perued y gwastattir ydoed *byrgoet* pendew dyrys.
Mabinogion, ii. 38.

Byrgoes, *a.* short-legged.

Gwartheg gyddygfain a *byrgoes* a fyddant laethog a chigog, ac epiliog, a chedeirn yr ychain oddi wrthynt.
Cato Cymraeg (Y Greal, 205).

Byrgrwn, *m.* } *pl.* byrgrynion, *a.* short and
Byrgron, *f.* } round; stubby and circular.

A rwng y dheu rudhelhion lygeit ydoedh yn cyrchu *byrrgrwn* destluslwys eneu, trwyn cyuladhdrum uniawnllun, froeneu agoret ac yn gwanegu serchawluryt gariat.
Ymborth yr Enaid, § 23.

Pan y tyfo y planigyn hwn i berffeithrwydd, y mae ganddo gyff *byrgrwn* coediog.—*Cylchgrawn*, i. 125.

Byrhâd, *sm.* a shortening; abbreviation, contraction; abridgement; a cutting short.

Byrhaol, *a.* shortening, abbreviating.

Byrhau, *v.* to shorten; to abbreviate, to abridge; to become shorter.

Ac uelly y mae Rolant ettwa yn keissaw *byrrau* vy oes ynneu.—*Yst. de Carolo Magno*, col. 464.

Tri anesgor clefyd: gwanhau y corff; pylu y deall; a *byrhau* yr einioes.—*Trioedd Doethineb:* M.A. iii. 269.

Er y barnaf y gellid er lles grynoi a *byrhau* llawer iawn o'r draith a'r ymadrodd.
Edward Dafydd: Cyfr. y Beirdd, 4.

Gostyngodd efe fy nerth ar y ffordd; *byrhaodd* fy nyddiau.—*Salm.* cii. 23.

Mae y dyddiau yn byrhau, the days shorten; the days become shorter.

Byrhau un o'i ben, to shorten one of his head; to behead or decapitate a person.

Gwŷr y wlad a ddygasant gyrch yn ei erbyn, a'i yru hyd ym min y Mers, a'i ddal, a'i *fyrhau o ben*.
Brut Aberpergwm: M.A. ii. 514 (cf. 524).

Byrhäwr, hawyr, *sm.* one who shortens; an abbreviator or abridger.

Byrhoedl, -au, *sf.* a short life.

Byrhoedledd, *sm.* shortness of life.

Gwedy anrheufedd pyr i'n gwna ni *byrhoedledd*.
Taliesin: M.A. i. 24.

Byrhoedlog, *a.* short-lived.

A glywaist ti chwedl Geraint,
Mab Erbin, cywir, cywraint?
Byrhoedlog dygasawg saint.
Iolo Mss. 255 (cf. M.A. i. 172).

Byrhwch, hychod, *sm.* [byr+hwch] a badger. Like *byrfwch* it is used also as an abusive term.

Cais floneg mochyn bychan, a elwir mewn manau *byrhwch*, a bloneg ceffyl, a bloneg baedd, a'r llysiau a elwir y tormwyth.—*Meddygon Mjddfai*, ii. 560.

Nid dyswrth ond *byrhwch*.—*Diareb.* (M.A. iii. 173.)

Diarebion gloewon ein gwlad a fwrwaf
At *fyrhwch* anynad.—*Iolo Morganwg*, i O. Myfyr.

Byriad, -au, *sm.* an arm.

Ni chaiff [y meddyg] y ganddynt eithr eu gwaed-ddillad . . . onid o un o'r tri arberygl; sef yw y rhai hyny, dyrnawd yn y pen hyd yr ymenydd; a dyrnawd yn y corff hyd yr ymysgar; a thori un o'r pedwar post; sef rhai ynt, y ddau forddwyd a'r ddau *fyriad* [*al.* y ddwy fraich a'r ddau forddwyd].—*Leges Wallicae*, i. xxiii. 6.

Byriadur, -on, *sm.* a breviary.

Byriaith, *sf.* brevity of language, brachylogy; laconism.

Byriaith, *a.* concise in language or expression; laconic; terse.

O moler mewn galargerdd, bydded yn *fyriaith* fyrbwyll.
Cyfrinach y Beirdd, 40.

Byriau, ieuau, *sf.* [byr+iau] a short yoke; a yoke with two oxen abreast: written *beriau* (q.v.) in the Welsh Laws.

Petwar troetued yn hyt y *verryeu* ac wyth yn hyt yr eyl yeu.—*Cyfreithiau Cymru*, i. 166 (cf. 186; L.W. 139, 279).

Byrieithad, } -au, *sm.* a concise mode of ex-
Byrieithiad, } pression; laconism.

Byrieithiad sy ddull cryno cynnwysfawr ar ymadroddi, yr hyn a fydd pan ddywedir llawer mewn ychydig eiriau.
Robert Davies: Ieith. Cymr. 109.

Byrieuwys, *s.pl.* [byriau+gwys] the oxen under the short yoke.

Er amaeth adele kemehorth e keylguat odale er ecchen ac ny dele eu hellunc namyn y deu *bereuys*.
Cyfreithiau Cymru, i. 318.

Byrleiau, *s.pl.* the wooden frame to which the healds of a weaver's loom are fastened.

Byrllawiog, } *a.* short-handed; without means.
Byrllofiog, }

Hael byrllawiog, liberal without means.—*Myv. Arch.* iii. 161.

Hyn o ddynion ni ddylyir credu eu tystoliaeth . . . *hael byrllofiog* a dreulio ei holl dda.—*Leges Wallicae*, v. ix. 6.

Byrllysg, -au, *sm.* [byr+llysg] a truncheon, a mace; a rod or staff (of office).

A rwng y dwy ael arlhwybr, pefrganneit dyscleirder megys maen mererit lhathreit ynghymheruedh *byrllysc* or heben gloewduaf.—*Ymborth yr Enaid*, § 23.

Byrn, -au, *sm.* [cf. *bern, ebyrn:* E. *bourn, burn*] a brook or stream?

Cain cynnwyre tarthawg *byrn*,
Esgudnaid ceirw tros ebyrn:
Gnawd aml ei amcwydd trachwyrn.
Englynion Cain Cynnwyre: M.A. iii. 142.

Byrnaid, eidiau, *sm.* [bwrn] what is tied up in a truss; a truss-ful; a truss; a bundle.

Byrneidio, *v.* to tie up in a truss or bundle; to bundle, to truss.

Byrniad, -au, *sm.* a trussing or bundling; a tying up in a truss or bundle.

Byrnio, *v.* to truss or bundle; to bundle up.

Byrnod, -au, *sm.* [byr+nod] a mark denoting a short sound or note (˘) or (`).

Dwy acennod sydd yn eisieu yn y Gymraeg; sef yr acen hir, neu hirnod (¯); â'r acen fer, neu *fyrnod* (`).
D. Silvan Evans: Llythyraeth, § 208.

Byrnodi, *v.* to mark as short; to denote with a short mark.

Pan chwaneger sill neu chwaneg atynt, fel y byddont ddwysill neu amrysill, gwrthdröer y drefn hon, a *byrnoder* y byrion, a gadawer yr hirion yn ddinod.
D. Silvan Evans: Llythyraeth, § 27.

Byroes, -au, *sf.* a short life.

Bywyd yt', ferch, draserch dro,
Bär Suddas, *byroes* iddo!—*D. ab Gwilym*, lxvi. 21.

Mae dyn, ail gwyfyn yw gwedd ei *fyroes*,
A'i fwriad ar wagedd.
Dafydd Ddu Eryri: Corff y Gainc, 25.

Byroes, *a.* short-lived; of short duration.

Dwyrea llysoedd llon orphena'r had
Yr hyn ddechreu'sid gan ei *fyroes* dad.
Blackwell: Ceinion Alun, 154.

A'r byd *byroes* newidiol hwn hefyd mor helaethlawn o bob difyrwch.—*Th. Williams:* Ymadr. Buch. 24.

Byrsain, *a.* having a short sound or quantity; short (in prosody).

Y mae enw pob llythyren sydd yn terfynu mewn cydsain yn *fyrsain*, beth bynnag fyddo ansawdd y gydsain y diweddo ynddi.—*D. S. Evans:* Llythyraeth, § 12 (cf. 27—87).

Llafariaid byrsain, short vowels.

Byrsain, seiniaid, *sf.* a letter with a short sound; a short letter.

Y mae ac, yr, yn, gan, dan, ar, er, pan, fel, am, a *byrseiniaid* cyffelyb, i'w gweled yn tryfritho pob cyfansoddiad.
D. S. Evans: Llythyraeth, § 34 (cf. 54, 88).

Byrwaith, weithiau, *sm.* short or concise work.

Byrwaith, *a.* short in execution; concise, laconic.

Seinfawr i fawrwaith, seinber i serch, galarus mewn galargan, blaenllym yn achos dysg a doethineb; *byrwaith* mewn synwyr-bwyll.—*Cyfrinach y Beirdd*, 15.

Byrwela, *a.* short-sighted, near-sighted.—*Lleyn.*

Byrwellt, *sm.* and *cl.* short straw; short grass.

A phan edrychwyt y dyle nyt oed arnei namyn *byrwellt* dysdlyt chweinllyt.—*Mabinogion*, ii. 373.

Byrwg, *a.* [byr] dwarfish; stunted; short.—*Iolo Glossary.*

Byrwg, *sm.* a short, thick, stumpy, or stocky thing—*Iolo Glossary.*

Byryn, *sm.* [byr] a short, stocky, or stubby thing; a dwarf.—*Iolo Glossary.*

Byrysgrifen, } *pl.* byrysgrifau, *sf.* brachygra-
Byrysgrif, } phy, short-hand.

Byrysgrifiaeth, -au, *sf.* brachygraphy, stenography.

Byrysgrifol, *a.* stenographic.

Byrysgrifydd, } -ion, *sm.* a stenographer,
Byrysgrifenydd, } a brachygrapher, a short-hand writer.

Bys, -edd, *sm.* [C. *bes, bis;* Br. *bez, biz;* O.Ir. *bos* (=W. *bos*), hand; Ga. *bas.* palm of the hand] 1. a finger.

Tegach oed y dwylaw ae *byssed* no channawan gotrwyth o blith man gaean ffynnawn ffynhonws.
Mabinogion, ii. 218.

Bys llaw (*pl.* bysedd llaw, bysedd dwylaw), the finger of the hand; a finger.

Bys troed (*pl.* bysedd troed, bysedd traed), a toe.

Y bys bach, } the little finger.
Y bys bychan, }

A llathen eur kehyt ac ef ehun a chyn urasset ae *vys bychan.*—*Cyfreithiau Cymru*, i. 234.

Cylyma *fys bach* y dyn, ac efe a ettail y gwaedu.
Meddygon Myddfai, ii. 217.

Y bys blaen, } the forefinger, the index.
Bys yr uwd, }

Y bys canol, } the middle finger.
Y bys perfedd, }

Bys y fodrwy, } the ring-finger.
Bys y gyfaredd, }

Y bys bawd, the thumb.

Bys bawd troed, the great toe.

Dywedir wrthym am un wedi ei fwrw i farw, yr hwn, er mwyn cael prawf o rym y gwenwyn, a glwyfwyd ym *mys bawd* ei droed ag un o'r saethau hyn, ac iddo farw, er fod dau feddyg o Europ yn barod wrth ei glun i dori ymaith yn union yr aelod a glwyfwyd.—*W. Williams:* Pantheologia, 129.

Lled bys, a finger's breadth; a digit.

Ar benau ei fysedd, } at the fingers' ends.
Ar ben pob bys, }

2. the hand (of a timepiece).

Bys yr oriau, the hour-hand.

Bys y mynydau, the minute-hand.

3. a guard or protection for a sore finger.

4. (in botany.)

Bysedd cochion, } foxglove; purple foxglove
Bysedd y cwn, } (*Digitalis purpurea*).—*Hugh*
Bysedd ellyllon, } *Davies:* Welsh Bot. 61, 163.

Bysedd yr iâr, wild radish, jointed charlock (*Raphanus raphanistrum*).—*H. Davies:* Welsh Bot. 65, 163.

Bysaid, eidiau, *sm.* as much as can be held on or taken up by the finger; a pinch.

Bysaid o fêl, as much honey as can be held on the finger.

Bysant, } annau, *sf.* [E. *byzant, bezant,* †*beasaunte, bezaunde*] a byzant or bezant,
Besant, } a coin varying in value at different times, so called from *Byzantium*, now Constantinople, where it was first struck. See *Bygant.*

A gwedy daruot hynny y rodes Chyarlys deudeng mil o vgeineu o aryant ar riuedi hwnnw o *vysanneu* eur a gwisgoed anrydedus.—*Ystoria de Carolo Magno*, col. 492.

Anuonwn idaw cann meirch, a chann pynn arnadunt o *vyssaneu* eur.—*Campau Charlymaen*, § 81 (cf. 116).

Sef a wnaeth y padriarch yna truanhau wrthaw. a rodi idaw mil a deugaint *bysant* o eur dilifyn.
Bown o Hamtwn, § 23.

Pan doeth y gwrda gynt a galw y drigweis attaw. a roi att un *besant* o eur. . . A phan doeth geyr bronn y veistyr y gyfrif ac ef. ef a dywawt. . . Ti a roeist attafi bump *besawnt* o eur. . . A gwedy hynny ef a doeth yr hwnn a gymmerassei dwy *vesawnt.* ac a dywawt. Arglwyd heb ef ti a roeist attafi dwy *vesawnt* o eur.—*St. Greal*, § 18 (cf. 19).

Gwag oedd bwysoedd o *besawnt*
Wrth wŷr a meirch Arthur Mawnt.—*Guto'r Glyn.*

Bysawr, *s.pl.* an old pl. of *bys.*

Hirwyn fy *myssawr* pell na bum heussawr.
Taliesin: M.A. i. 31.

Rywiscuis llaur am y *vyssaur* eur amaervy.
A.B. ii. 39 (cf. Myv. Arch. i. 579).

Byseddog, *a.* having fingers; fingered; digitate.

Byseg, -au, *sf.* a thimble.

Bysfedd, -i, *sf.* a digit.

Digitus, *bysfedd,* $\frac{1}{16}$ o droedfedd.—*Rhisiart Morys.*

Ystyrir tryfesur yr haul wedi ei ranu yn 12 rhan gyfartal, a elwir *bysfeddi;* ac ym mhob diffyg rhanol, cynnifer o'r rhanau hyn o dryfesur yr haul ag a guddir gan y lleuad, dywedir fod cynnifer a hyny o *fysfeddi* neu ranau o hono dan ddiffyg. Er anghraifft, diffyg chwech-ran, neu ddiffyg o chwech *bysfedd*, yw diffyg a guddio hanner wyneb yr haul.—*Elfenau Seryddiaeth*, xv.

Bysfeddol, *a.* digital.

Bysfal, } *v.* [cf. *palfal-u,* from *palf*] to feel
Bysmal, } with the finger or fingers; to finger.

Bysiad, -au, *sm.* a fingering.

Bysio, *v.* to finger; to touch with the fingers.

Bysiog, *a.* having fingers, fingered.

Bysle, -au, *sm.* } a guard for a sore finger;
Byslen, -i, -au, *sf.* } a finger-stall.

Byslen ledr am fys, a leathern stall for a sore finger.

Bysled, -au, *sm.* a finger's breadth; a digit.

Bysledr, -au, *sm.* a leathern protection for the finger; a thimble.

Cordalium . . . rhywogaeth fodrwy, gwnïadur, a *bysledr*, a erfyr gwnïedyddion, taelwriaid, a chryddion, rhag briwo eu bysedd.—*Dr. Th. Wiliams:* Dict. s.v.

Byson, -au, *sf.* [C. *bisou;* Br. *besou, bizou, bizeu*] a ring for the finger; a ring.

Bystol, -au, *sf.* [bys+dôl: cf. *dyrntol*=dwrn +dôl] a loop for the finger; a loop, a handle.

Bystol y cyd, the handle of discord.

Buost udfa, bost adfoel,
Bwbach ieir, lun manach noel;
Bustl cerdd, *bystol y cyd,*
Buwch awen-fost, baich ynfyd.—*Syr Gruffydd Fychan.*

Bystwn, *sm.* [E. *impostume?*] a whitlow, paronychia.

Y dwr hwn a drych y llysnafedd ar ymenydd dyn, ac a drych y poen wrth garthu'r mysgar a'r coluddion . . . ac a ddinystr y *bystwn*, ac a lawenhâ'r galon.
Meddygon Myddfai, ii. 791 (cf. 280—286).

Bysu, *v.* to finger; to touch slightly; to touch.

Bysu tipyn arno, to touch or examine a thing a little.—*Gwent.*

Byswain, weiniau, *sf.* a finger-guard, a thimble.

Byswellt, *sm.* and *cl.* cock's-foot grass (*Dactylis*). —*Hugh Davies:* Welsh Bot. 10, 163.

Byswellt garw, } rough cock's-foot grass,
Byswellt garwaidd, } orchard-grass (*Dactylis glomerata*).

Byswellt garw. . . . Cynnyrch y *byswellt* ar erw sydd yn fawr.—*Aneurin Owen:* Amaeth. 22.

Bysyn, *sm.* a little finger.—*W.*

Byth, -oedd, *sm.* [C. *byth, bith, bis;* Br. *bis, bi;* Ir. *bith, bioth, bid;* Ga. *bith*] eternity, everlasting, eternal duration. *Pyth* is another form of the same word.

Da yw Duw, a hir yw *byth.*—*Diareb.* (M.A. ili. 153.)

A wyt ti yn meddwl mai byr yw *byth,* ac mai hir yw einioes dyn daiarol?—*Morgan Llwyd:* Cyfarwyddyd, 118.

Am fyth, } for ever; to eternity; eternally;
Am byth, } evermore.

Dros fyth, } for ever; to eternity; eternally;
Dros byth, } everlastingly.

Hyd fyth, } for ever; to eternity; for ever-
Hyd byth, } more.

Saint y Goruchaf a dderbyniant y freniniaeth, ac a feddiannant y freniniaeth *hyd byth,* a *hyd byth bythoedd.*

Dan. vii. 18.

A'r cyfan *hyd fyth bythoedd,* heb dranc, heb orphen.

Barddas, i. 294.

Nis gellir amgen na bod a bywyd, a gwybod a gwynfyd, *hyd fyth fythoedd.*—*Iolo Mss.* 45.

Byth, *adv.* ever; for ever; always.

Mi a rodaf idaw uarch ac arueu *byth.*—*Mabinogion,* i. 29.

A damchwein y keffit chwedyl *byth* am neb onadunt.

St. Greal, § 2.

Ac ny doeth *vyth* drachefyn.—*Mabinogion,* i. 32.

Nym tynn i *vyth* neb odymma. o nyt y neb am arwed ar y glun.—*St. Greal,* § 3.

Einioes *fyth* i Ynys Fon,
A dwy einioes i'w dynion.—*L. G. Cothi.*

Y dydd tecaf o haf hinon,
Nos fydd *fyth* yn Ynys Fon.—*Iolo Goch.*

Dyma fy enw *byth.*—*Ecs.* iii. 15.

Byth bythoedd, for ever and ever.—*Salm.* xcii. 7; *Esa.* xlv. 17.

Byth a hefyd, ever and anon; now and then.

Byth ac yn dragywydd, for ever and ever.

Byth tragywyddol, for ever and ever; everlastingly.

Cynted byth, as soon as ever.

Byth heb ddiwedd, world without end; to all eternity; for ever and ever.

Byth a beunydd (=beunydd a byth), ever and anon; at one time and another; continually. —*Mon.*

Byth (with a negative expressed or implied), never, not ever.

The pl. *bythoedd* is sometimes used in an adverbial sense, in the same way as the singular.

Yr Arglwydd gogoneddus fydd,
Trwy fawr lawenydd, *bythoedd.*

Edm. Prys: Salm. civ. 31.

Pe gwypit ti ein gwynfyd ni
Sy'n cyfanneddu'r dyfroedd,
Doit tithau i waered ataf fi,
I aros yma *bythoedd!*—*Telynegion,* 47.

¶ *Byth* and *fyth* are used indifferently in the middle and at the end of a sentence. *Byth* is sometimes a modification of *pyth;* as, *am byth* (pyth), *dros byth, hyd byth.*

Bythbarhäus, } *a.* lasting for ever, ever-during,
Bythbarhaol, } everlasting, eternal.

Hollalluog a *bythbarhäus* Dduw, yr hwn a roddaist ras i'th Apostol Bartholomeus, i wir gredu.

Ll. G. Gyffredin (Dydd S. Bartholomëus).

Bythdy, dai, *sm.* [bwth+tŷ] a booth, a cot, a hut.

Gwrengyn llafurus yn gorfod talu chwe swllt yn y flwyddyn am lewyrch yr haul trwy ddrws, corn mwg, neu ddrylliedig barwydydd ei *fythdy;* ffenestr, fe allai, ni fedd ar ei drigfan.—*Gwallter Mechain:* Gwaith, ii. 65.

Bythddeiliog, *a.* always having leaves; evergreen.

Bytheiriad, -au, *sm.*=*Brytheiriad.*

Nid oes ychwaith goel ar ei gair na'i llw hi, mwy nag ar *fytheiriad* ci.—*Morgan Llwyd:* Tri. Aderyn, 14.

Rhwng ambell *fytheiriad* trwm . . . a'r llawr yn fudr eisys rhwng colli diod a phoeri, mi ofnais y gallai gastiau butrach na'r rhai hyny fod yn agos.

Elis Wynn: Bardd Cwsg, 30.

Bytheirio, *v.* [=brytheirio] to eructate, to belch, to belch out.—*Salm.* lix. 7.

Yna *bytheirio* oedd y gras bwyd.

Elis Wynn: Bardd Cwsg, 30.

Bytheuad, aid, *sm.* [huad] a hound.

Nyt oes werth kyfreith ar *ueitheiat.*

Cyfreithiau Cymru, i. 730 (cf. 300).

Ni all neb illwng na milgi na miliast i un anifail pan fo'r *bytheuaid* yn ei ymlid, oni bydd iddo yntau *fytheuaid* yn ei ymlid; ac oni bydd, fe all y neb a fo yn canlyn y *bytheuaid* dori llinyn gar ei filgi, os efe a'i gillwng.

Cyfraith Hely: M.A. iii. 198 (cf. 173).

Y gwr a glywai lafar *bytheuaid* yn ymlid carw ar ei dir.

Iolo Mss. 154.

Ac un or llawuorynyon a gymerth y *bitheiat* ac ae hanuones y ystauell y vrenhines.—*St. Greal,* § 89 (cf. 87).

Bytheuadast, eist, } *sf.* a hound-bitch.
Bytheuades, -au, }

Ac fal ydd oedd y gwr drannoeth yn dyfod o hela, a *bytheuades* oedd iddo, yr hon oedd anwylach ganto no'r holl gwn ereill.—*Doethion Rhufain* (Brython, iii. 92).

Bytheuadgi, gwn, *sm.* a dog of the hound breed; a hound.

Megys pan fo carw wedi ei glwyfo, y bydd corgwn, *bytheuadgwn,* a brain, a phiod, a barcutanod, bawb o un chwant yn llygattynu tuag ato.—*Theo. Evans:* D.P.O. i. 4 (125).

Bythfendigaid, } *a.* ever-blessed, blessed for
Bythfendigedig, } ever.

Bythfodol, *a.* ever-living or existing.

Adnewyddir hwy'n dragywydd,
Bythfodolion byddant oll.

Iolo Morganwg: Salmau, cxix. 2.

Bythfywiol, *a.* everliving.

Hyd oni chrwydrodd haechen yr holl fyd yng nghylch amcanion eu calonau eu hunain, gan ymwrthod a gwir anrhydedd yr unig a *bythfywiol* Dduw.

Edw. Iames: Hom. i. 64.

Hollalluog a *bythfywiol* Dduw.—*Ll. G. Gyffredin,* fq.

Bythgofiadwy, *a.* ever-memorable.

Wedi taith o ychydig oriau, ac o ddeutu saith milltir o bellder, cyrhaeddasant faes nodedig a *bythgofiadwy* Waterlw.—*Gwyliedydd,* vii. 211.

Bythgofus, *a.* ever-memorable.

Ar lenydd heirdd Teifi, *bythgofus* yw'r lle,
Y lluoedd Normanaidd gartrefent.

Gwynionydd: Caniadau, 31.

Bythig, *a.* eternal; continual, constant.

A gwr hewr [dewr?] *bythig* a fe'i feddw ei wreig.

Taliesin: M.A. i. 56.

Bythigrwydd, *sm.* everlastingness; eternity.

Bythol, *a.* 1. eternal, everlasting; endless; continual, constant.

Yr Arglwydd tyngodd, ac ni wad,
Ti sy'n offeiriad *bythol.*
Edm. Prys: Salm. cx. 4 (cf. xxiv. 7, 9).

Ond gnawd mawl *bythawl* lle bo,
Rhyddaf i'r gwr a'i haeddo.—*Gro. Owain,* 11.

Byth bythol, for ever and ever; eternally.

Eu henw hwynt a ddileaist *byth bythol.*—*Salm.* ix. 5.

Y bythol fyd, the eternal world.

2. (adverbially) for ever; endlessly.

O'ch arfeddyd wych wir fuddiol,
Er nef, *fythol,* wŷr, na fethoch.—*Gronwy Owain,* 103.

Bytholdeb, **Bytholder,** **Bytholrwydd,** } *sm.* eternity, everlastingness; endlessness; perennity.

Gwr a ymrotho i Dduw, a chynghor ei saint, ac nac ymgais ag amgen, gan nas gellir *bytholdeb* ar ddim arall o beth a ellir godeb arnaw.—*Llanover Ms.* 73.

Bytholi, *v.* to eternise; to make everlasting.

Bytholwyrdd, *m.* **Bytholwerdd,** *f.* } *a.* always green; evergreen.

Bythu, *v.* [bwth] to dwell (as in a booth or cot); to live.

Nid allwn i *fythu* yn afieithus fy nghwrs,
Yn llwm f' ysguboriau, heb arian i'm pwrs.
Huw Morus: Eos Ceiriog, i. 160.

Bythwyrdd, *m.* **Bythwerdd,** *f.* } *pl.* bythwyrddion, *a.* evergreen; verdant throughout the year.

Rhoer blodau i hulio ei wely hedd,
A dail *bythwyrddion* ar ei fedd.—*Blodau Ieuainc,* 74.

Byw, *vn.* [C. *bew, bewa;* Br. *beva;* Ir. *biu, beo;* L. *vivo;* Gr. βιόω] 1. to live; to be alive; to exist; to subsist. It is used only in the infinitive mood, *bod* being borrowed as auxiliary to express the various tenses.

Byw'n gymhwys heb hen gamau
A bair i hil gwr barhau.—*W. Lleyn.*

Gan *fyw* y bydd efe *byw.*—*Esec.* iii. 21.

Dysga fyw, learn to live.

Byw fyddo y brenin, long live the king; God save the king.—1 *Sam.* x. 24; 2 *Sam.* xvi. 16.

2. *va.* (with a cognate object) to live.

Byw ydwyf . . . a'r hyn yr ydwyf yr awr hon yn ei *fyw* yn y cnawd, ei *fyw* yr ydwyf trwy ffydd Mab Duw.
Gal. ii. 21.

Byw bywyd rhinweddol, to live a virtuous life.

Byw, *a.* [C. *bew, biu, byw;* Br. *beô;* Ir. *beo, biu;* L. *vivus*] living; quick; live; alive; animate, animated.

Yna . . . y lladassant eu gwyr oll. ac y gadassant y gwraged yn *vyw.*—*Mabinogion,* iii. 274.

Y Duw byw, the living God.

Y byw, the living; the quick.

Tir y byw, the land of the living.

Y byw a'r meirw, *Byw a meirw,* } the living and the dead; the quick and the dead.—2 *Tim.* iv. 1; 1 *Pedr* iv. 5.

Oddi yno y daw i farnu *byw a meirw.*—*Credo yr Apostolion.*

A thrachefn y daw efe trwy ogoniant i farnu y *byw a'r meirw.*—*Credo Nicea.*

Dyn byw, a living man.

Dyn byw! man alive!

Fel mai byw fi, as sure as I am alive; as I live.

Traeth byw, a quicksand.

Cig byw, *Cnawd byw,* } quick flesh; raw flesh.—*Lef.* xiii. 10.

Dwfr byw, living water; spring water.

Nid gwaeth y llyn hwnw na *dwr byw* ar les corff dyn.
Meddygon Myddfai, ii. 325.

Dyfroedd byw, living waters.—*Ier.* ii. 13.

Agor di'r ffynnonau gloewon,
Grisial ffrydiau'r *dyfroedd byw.*—*Emyn.*

Daiar fyw, solid earth; earth that has not been stirred or loosened.

Trwy ddaiar fyw, through solid earth; with great difficulty.—*S. W.*

2. lively, animated; full of life.

A phen na ffolai benyw,
Calon iach, a chorff bach *byw.*—*Gro. Owain,* 57.

¶ The pl. *bywion* is of comparatively rare occurrence.

Nid yw ef Dduw y meirw, eithr Duw y *bywion.*
W. Salesbury: Marc xii. 27.

Mi ddiffygieswn pe na buaswn yn credu cahel gweled daioni yr Arglwydd yn nhir y *bywion* [* y rhai byw].
Ll. G. Gyffredin 1567 (Salm. xxvii. 13; cf. lvi. 13).

Duw . . . a beris hanfod wrth fywydoldeb i *fywion* a byw-iaduriaid.—*Barddas,* i. 208.

Fel y rhodiwyf fi gar dy fron
Yng ngoleu'r *bywion* eto.
Edm. Prys: Salm. lvi. 13 (cf. xxvii. 13).

Byw, *sm.* 1. life; the living flesh.

Byw y llygad, the quick of the eye.

I'r byw, to the quick; to the life.

Gwisgoedd y gefyn hyd y *byw,*
Nes i air Duw amseru.—*Edm. Prys:* Salm. cv. 19.

Brathu i'r byw, to sting to the quick.

2. life; lifetime.

Yn *myw* Owain ac Elphin
Berwassei ei phair breiddin.—*Llywarch Hen:* M.A. i. 106.

Oes un gwr a'm gwelsai gynt,
Ym *myw* dyn, a'm hadwaenynt?
Dafydd ab Gwilym, cxlviii. 31.

Am eich dwyn ym *myw* dynion,
Yr oerai 'r sir, eryr Sion!—*Tudur Aled:* G.B.C. 229.

Yn ei byw hi, in her lifetime.—*Lef.* xviii. 18 (cf. Iudeth x. 3).

Yn fy myw, (1) in my life; in my lifetime.

(2) for my life; for my heart.

Canys *yn fy myw* ni chawn gan y mwyaf ddysgu gair o Gymraeg.—*Gro. Owain,* 164 (cf. 323).

3. life; vigour, energy.

Blaenor â *byw* ei lonaid.—*Tudur Aled.*

Ac fel y bo i ti glywed mwy o *fyw* ynot, ddarllenydd hawddgar, yng nghylch hyn o beth.
Dr. J. Davies: Llyfr y Res. i. x. 15.

Bywaidd, *a.* having signs of life; living.

Bywawdr, odron, *sm.*=*Bywiawdr.*

Bywawdr, *a.*=*Bywiawdr.*

Bywdeb, **Bywder,** } *sm.* vitality; liveliness; animation.

Bywed, *sm.* the core of fruit; the pith of shrubs or trees; the crumb of bread.

Bywedig, *a.* animate, animated; living.

Pob byw a *bywedig* a dreiglant gylch yr abred o ddyfnder annwn.—*Barddas,* i. 232.

Bywedigion, *s.pl.* living or animated beings.

Tri achos *bywedigion:* cariad Duw gan eithaf deall cyflawn; deall Duw yn gwybod eithaf moddion; a nerth Duw gan eithaf myn cariad a deall. . . Tri chyflwr hanfod *bywedigion:* cyflwr abred yn annwn; cyflwr rhyddyd yn nyndod; a chyflwr cariad, sef gwynfyd, yn y nef.
Barddas, i. 170, 172 (cf. 348).

Bywedyn, *sm.* core; pith; crumb.

Byweiddiad, -au, *sm.* animation, vivification.

Byweiddio, *v.* to animate, to vivify; to enliven.

A ynfyd, y peth ydd wyt ti yn ei heheu, ni *fyweiddir* [* fywheïr, fywocëir] addi eithr iddo farw.
W. Salesbury: 1 Cor. xv. 36.

Byweiddiol, *a.* animating, vivifying.

Bywfyth, *a.* everliving.

Bywfyth, *sf.* houseleek (*Sempervivum*).

Y fywfyth fwyaf (*Sempervivum tectorum*).—*H. Davies:* Welsh Bot. 47, 163.

Y fywfyth leiaf, wall-pepper, biting stonecrop (*Sedum acre*).

Bywgraffiad, -au, *sm.* biography.

Bywgraffiad y diweddar Barch. Ioshua Thomas, o Lanllieni, swydd Henffordd.—*Seren Gomer*, v. 65.

Ac yma terfynwn *fywgraffiad* un o'r dynsodion disgleiriaf yn ei ddosparth a gynnyrchodd ein Tywysogaeth ni.—*Gwyliedydd*, viii. 260.

Bywgraffiadol, **Bywgraffyddol,** *a.* biographical.

Ni cheir mo'i enw mewn un geiriadur *bywgraffiadol*.
Llyfryddiaeth y Cymry, 80.

Yr ydym yn cael cyfeiriadau *bywgraffyddol* yn fynych yn y cyfrolau ger ein bron.—*Traethodydd*, xxviii. 112.

Bywgraffydd, -ion, **Bywgraffwr,** wyr, *sm.* a biographer.

Bywgraffyddiaeth, **Bywgraffiaeth,** -au, *sf.* biography (considered as a branch of literature).

Bywhâd, *sm.* animation, vivification; revival; a quickening.

Angeu Crist, ebe St. Awstin, yw ein *bywhâd* ni.
Nicander: Dysga Fyw, 415.

Bywhaol, **Bywhäus,** *a.* animating, vivifying, quickening, life-giving; enlivening, inspiring.

Bywhau, *v.* 1. to animate, to vivify; to give life (to); to quicken; to inspirit.

Myfi sydd yn lladd ac yn *bywhau*—*Deut.* xxxii. 39.

Yr hwn sydd yn *bywhau* pob peth.—1 *Tim.* vi. 13.

Bywhau byddin, to animate or encourage an army.

Eu herlyt a wnathoedynt yr Ruveynwyr ac Avarwy vap Llud wynt gan *vywau* eu *bydynoed*.
Brut Gr. ab Arthur: M.A. ii. 183.

2. to show signs of life; to appear alive or as alive.

Gwelwn rywbeth yn bywhau yno, I could see something move there.—*Dyfed.*

Bywhäwr, hawyr, **Bywhëydd,** -ion, *sm.* one that gives life or animation; an animator, a quickener.

Bywhiliog, *a.* viviparous.

Yr wyf yn tybio i'n hynafiaid gynnwys tan yr enw hwn [bragwair] bob math o laswellt *bywhiliog*.
H. Davies: Llysieuaeth Gymreig, 160 (cf. 11).

Bywhiliol, *a.* vivivarous.

Gellir dweyd yn briodol fod yr anifail hwn yn *fywhiliol*.
Y Ddaiar a'r Creaduriaid, ii. 417.

Bywi, *s.pl.* earthnuts; the earthnut, pignut, or kipper (*Buium*).—*H. Davies:* Welsh Bot. 27, 163.

A llyma y llyssev hynny: y iewyd, y tryw . . . ar uabcoll, ar wtrot a deil y *bywi*, ar trydon.—*Meddygon Myddfai*, i. 12.

Bywiad, iaid, *sm.* a living being; an animal.

Duw sul eurllyw byw *bywiaid* arwyrain
Oriain [*al.* o riain] gain gannaid
Uthr wedd anrhydedd i'n rhaid
Yth aned benrhaith enaid.
Gruffydd ab Meredydd: M.A. i. 459.

Bywiaid yr awyr, aerial animals.—*W.*

Bywiad, -au, *sm.* animation, vivification.

Ef a chwythodd yspryd *bywiad* yn ei hwyneb.
Llyfr Coch Hergest. (*P.*)

Bywiadur, -iaid, *sm.* a living or animate being.

Duw yn ymgyd o gariad a thosturi yn athrugar ar y difywyd, sef y drwg, ar oddeu ei ddarostwng i'r bywyd, a beris hanfod wrth fywydoldeb i fywion a *bywiaduriaid*, ac felly y gafaelodd y bywyd â'r marw.—*Barddas*, i. 208.

Bywiadwy, *a.* that may be animated or quickened.

Bywiant, *sm.* life, vigour, animation.

Am hyny yr wyt gynhebic di yr prenn marw drewedic lle nyt oes yndaw chwaith melystra na *bywyant*. namyn drewyant a chwerwder.—*St. Greal*, § 19.

Bywiawd, *sm.* a quickening or vivifying; vivification.

Bywiawdr, iodron, **Bywiawdwr,** wyr, **Bywiawdur,** -iaid, *sm.* a giver of life; an animator, a quickener; an enlivener.

A chredaf yn yr Yspryd Glân, Arglwydd a *Bywiawdur*.
Ll. G. Gyffredin 1567 (Credo Nicea).

A chredaf yn yr Yspryd Glân, yr Arglwydd a'r *Bywiawdr*.
Ll. G. Gyffredin (1746—1841).

A chredaf yn yr Yspryd Glân, yr Arglwydd a'r *Bywiawdwr*.—*Ll. G. Gyffredin* (1841, &c.).

Bywiawdr, *a.* life-giving, vivifying, quickening.

Yspryd bywiawdr, a life-giving or quickening spirit (πνεῦμα ζωοποιοῦν).

A'r Adda diwethaf a wnaethpwyd yn yspryd *bywawdr* [* bywogi, bywogaeth, a wna yn fyw].
Ll. G. Gyffredin 1567 a 1586 (1 Cor. xv. 45).

A'r Adda diwethaf a wnaethpwyd yn yspryd *bywodr*.
W. Salesbury: 1 Cor. xv. 45.

Bywio, 1. *va.* to vivify, to animate; to enliven.

Yr Arglwydd ei ceidw, ac ei *buwa*.
Ll. G. Gyffredin 1567 (Salm. xli. 2).

Gan ei loewder ariala hwn y byd, y *bywia* gynnyrch y ddaiar gan ei wres.—*W. O. Pughe:* E.D. vii.

2. *vn.* to live; to subsist; to fare.

Bywiocâd, *sm.* vivification, animation; revival.

Bywiocaol, **Bywiocäus,** *a.* vivifying, animating, vivific; enlivening.

Bywiocäu, *v.* to animate, vivify, or enliven; to become lively or animated.

Anadl yr Hollalluog a'm *bywiocaodd* i.—*Iob* xxxiii. 4.

A'r adar bach, gan *fywiocäu*,
Sy'n dechreu gwau caneuon.—*Daniel Ddu*, 233.

Bywiocäwr, cawyr, *sm.* an animator or quickener; an enlivener.

Bywiog, *a.* lively, vigorous; vivacious; brisk; spirited.

Bywiocach yw doethineb na dim *bywiog*.—*Doeth.* vii. 24.

Bywiogi, *v.* to animate, to enliven; to revive; to become lively.

A phan ganfu efe y cerbydau a anfonasai Ioseph i'w ddwyn ef, yna y *bywiogodd* yspryd Iacob.—*Gen.* xlv. 27.

Diben cerdd yw . . . diddanu'r bryd a'r ysprydiaeth, a sirioli'r nwyf, a *bywiogi* arial ac ynni.
Cyfrinach y Beirdd, 19.

Bywiogrwydd, } *sm.* liveliness, vivacity; life,
Bywiogder, } animation; sprightliness.

Hylawn ber heulwen bywyd,
Hael arglwydd *bywiogrwydd* byd.—*H. D. ab Ieuan.*

Ar ansawdd a dognedd y gwaed yr ymddibyna nerth a *bywiogrwydd* y corff.—*Cylchgrawn*, ii. 6.

Bywiogwr, wyr, *sm.* one who enlivens or animates; an animator or enlivener.

Bywiol, *a.* living; live; lively; animate; vigorous; quick.

Elinans aoed yn keissyaw Lawnslot ympoblle yny kafas. ac yn *vywyawl* y daraw a gwaew yn y vyd y daryan wedyr dyllu.—*St. Greal*, § 222.

Dwfr bywiol (*pl.* dyfroedd bywiol), living water.—*Ioan* iv. 10, 11; vii. 38.

Bara bywiol, living bread.—*Ioan* vi. 51.

Maen bywiol (*pl.* meini bywiol), a living stone, a lively stone.—1 *Pedr* ii. 4, 5.

Y bywiol a'r gwir Dduw, the living and true God.—1 *Thess.* i. 9.

Bywiolion, } living ones; animated or living
Bywolion, } beings; the living.

Ei thrigolion sydd o ddau fath, sef *bywiolion* ac anfywiolion; creaduriaid byw a chreaduriaid difywyd. Yng nghylch *bywiolion* yn gyffredinol mi soniaf am y deg peth hyn.—*D. Lewys:* Golwg, viii.

Er addysg i'r *bywiolion* a ymwelent â'r lle.
Cylchgrawn, i. 116.

Bywiolaeth, }
Bywoliaeth, } -au, *sf.* a living; a livelihood;
Bywioliaeth, } life; a living or benefice.

Nid oes fodd byth i oddiwes gwynfyd amserol na thragwyddol ond trwy *fywioliaeth* sanctaidd.
Elis Wynn: Rh. B. S., Rhag. 1.

Am fy *mywioliaeth*, nid ydyw ond go helbulus.
Gro. Owain, 164 (cf. 162).

Fe a ddarllenir agos ym mhob man yn y Groegiaid, ac yn rhai o'r Lladingwyr, am *fywoliaeth* erwin-wyllt y cawri y crybwyllodd Moses am danynt.
Edward Samuel: Grotius, i. 16.

Yr oedd y dyn, fe allai, yn dra gwanaidd yng nghychwyniad ei *fywoliaeth.—Brutus:* Brutusiana, 101.

Amser bywiolaeth, time of life.—2 *Bren.* iv. 16, 17 (cf. Gen. xviii. 10, 14).

Bywiolaeth eglwysig, a church living, a benefice.

Bywiolaethu, }
Bywoliaethu, } *v.* to live; to be maintained in life; to subsist; to make a
Bywioliaethu, } livelihood.

Gallant gyflafareddu â Christionogion ac Iuddewon, a gwneuthur heddwch, a *bywioliaethu*.
Brutus: Ninefeh, 173 (cf. 126).

Bywioli, *v.* to enliven, to quicken, to animate; to inspirit.

Bywion, *s.pl.* ants, emmets, pismires.

Cymaint vu craphter Duw yn creu yr ednot ar chwain ar *bywion* ac yn creu yr angylion. . . Y *bywion* hagen ar adrcop ar pryvet erailh a ymrodhant y waith a llauur a orug Duw yr cymryt ohonam ninau angreifft y ganthunt wy y astudiaw ac y lauuriaw ar y da.—*Lucidar*, § 17.

Ei arfer ydyw ei lusgo yn ysgafn dros yr heidiau o *fywion* a ddeuant allant o'u llochesau.—*Cylchgrawn*, i. 314.

Bywion cocos, cockles boiled and taken out of the shells.

Dim ond y *bywion!*—*Brutus.*

Bywionod, *s.pl.* small insects or ants.

Llanwyd y wlad o fwmiawl fân *fywionod*,
Gwenyn colynog, cacwn, heidiawg chwilod.
Nicander: Moses, vi.

Bywionyn, *pl.* bywion, *sm.* an ant, emmet, or pismire.

Fe dreiddia o'r dyfnder isaf
I'r uchaf oror iach,
O fro y seraph claerwyn
I gell *bywionyn* bach!
Dafydd Ddu Eryri: Corff y Gainc, 282.

Bywlosg, *a.* burning glowingly; burning with vehement heat.

Tri gormail mawr ar Gymro: bod yng nghrog gerfydd ei sodlau; gorwedd ar farwor *bywlosg;* a bod yng ngwlad Sais.—*Trioedd Doethineb:* M.A. iii. 253.

Rhônt farwor *bywlosg* dan ein traed,
Mawr iawn sychedant am ein gwaed.
Iolo Morganwg: Salmau, i. lv. 3.

Er hyn
Goddefai, nes ar draeth y *bywlosg* fôr
Y safai.—*W. O. Pughe:* C.G. i. 318.

Bywlys, -iau, *sm-f.* stonecrop, wall-pepper (*Sedum*).—*Hugh Davies:* Welsh Bot. 43, 163.

Herba Jovis, llysiau'r gwaew, y *fywlys* fawr, *bywlys* mawr.—*Meddygon Myddfai*, 286 (cf. 293).

Bywlys llydanddail, orpine, livelong (*Sedum telephium*).

Addurnai pawb eu drysau yn y boreu â bedw gleision, ffenigl, *bywlys llydanddail*, llysiau (neu eirinllys) Ifan, lili, a blodau prydferwych ereill.—*Gwyliedydd*, vi. 247.

Bywofydd, -ion, *sm.* a biologist.

Tybia yr enwog *fywofydd* Germanaidd, Rudolph Wagner, fod oedran y rhai hyn ryw le o ddeutu deg neu dair mil ar ddeg o flynyddau.—*Beirniad*, 1869, 316.

Bywofyddiaeth, -au, *sf.* biology.

Ceir anianeg yn darnodi deddfau defnydd ammheirianedig, a *bywofyddiaeth* yn dynodi eiddo cyrff ermigol.
Cronicl Cymru, Rhag. 8, 1866.

Bywofyddol, *a.* biological.

Bywull, *s.pl.* [byw+gwull] the buds of trees; scions, grafts, sprouts.

Fal dwr gwyra neu groew, neu dwf blagur a *bywull*, fal tardd dail a glaswellt, a balant blodau.
Cyfrinach y Beirdd, 17.

Bywullu, }
Bywullo, } *v.* to bud; to graft or inoculate.

Y mae yn y colynau hyn wlybwr tra gwenwynllyd, yr hwn, pan *fywullir* ef yn y corff, a ennyna dandde yn y man brathedig.—*Gwyliedydd*, iii. 330.

Bywullyn, *sm.* a bud; a graft; a first shoot.

Bywus, *a.* lively, sprightly; vigorous.

Y nos caid eos i'n dail,
Yn *fywus*, ag iaith fwail.—*D. ab Gwilym*, cclv. 29.

Tŷ cynhes, tân da, bwyd prydd, diod *fywus*, a chalon lawen, a waredant rhag pob afiechyd.—*Llanover Ms.* 63.

Bywusder, *sm.* liveliness, sprightliness; vigorousness.

Hwn hefyd a bair i ddyn mewn oedran, ednwyf a *bywusder* corff a meddwl.—*Meddygon Myddfai*, ii. 787.

Bywyd, -au, *sm.* [byw: L. *vita;* Gr. βίος] 1. life (=animate existence).

Ny doeth neb eiryoet y erchi yr arch honno a elei ae *bywyt* gantaw.—*Mabinogion*, ii. 216.

Bywyd du yw'r *bywyd* yma,
Bywyd gwael, na wel mo'i wala;
Bywyd gwyn yw'r *bywyd* arall,
Bywyd dâl ei geisio'n ddiwall.
Rhys Prichard: C. y C. lxxxix (*b*).

Bywyd tragywyddol, eternal or everlasting life.

Bywyd ac angeu, life and death.

Byw a bywyd, life and existence.

Prif ragorgamp a rhagorwerth iaith yw ei phurdeb. . . Ac yn nesaf dalwerth erni yw amledd . . . er dyfalu ac adrodd pob damwain a dygwydd, a phob dir a deddf, a phob barn a dychymmyg, a phob pwyll a chrebwyll, a phob gwaith ac anian, a phob hanfod a deall, a phob myfyr a moes . . . a phob deall ac ystyr er a ddichon herwydd bod a damwain ymdrafod â chorff ac enaid, a *byw a bywyd*, a sain a synwyr.—*Cyfrinach y Beirdd*, 15.

Nid oedd na byw na bywyd iddo, there was neither life nor existence left him; there was no living for him.—*C.S.*

Ymladd dau fywyd, to fight a duel; to fight a single combat.

2. life; lifetime; a course of life.

Coffa i ti dderbyn dy wynfyd yn dy *fywyd*.—*Luc* xvi. 25.

Yr un bai ar ein *bywyd*,
Ar bawb, a hudol yw'r byd.—*Iolo Goch.*

Bywyd a buchedd, life and conduct.

Un ydyw, ni ŵyr air o Saesneg; ac nid all fod dim bai ar ei *fywyd a'i fuchedd*.—*Theo. Evans:* D.P.O. i. 4 (141).

3. a livelihood; a living; sustenance; substance.

Ac yr rodi *bywyt* yr iarll y rodes ynteu y dwy iarllaeth idi drachefyn.—*Mabinogion*, i. 30.

Ac efe a ranodd iddynt ei *fywyd*.
Luc xv. 12 (cf. 30; viii. 43; xxi. 4; Marc xii. 44).

Yno y glynais hyd oni ddysgais ennill fy *mywyd*.
Gronwy Owain, 167.

4. income; means of subsistence; property.

Ac nad elai ond un at wr o ddegpunt o *fywyd;* a dau at wr o ugeinpunt o *fywyd*.—*Rhol Caerfyrddin* (Y Greal, 52).

Ef a wnaeth lawer o grefydd-dai a manachlogoedd, ac ef a roddes *fywyd* iddynt.
Hanes y 24 *Brenin* (Brython, ii. 194).

Nid yw pob math ar feiau ereill ond gorchwylwyr i gybydd-dod, i wasanaethu ei gyfraid ef, megys cludwyr i gyrchu, ac i ddwyn i mewn iddo ei *fywyd*.
R. Llwyd: Llwybr Hyffordd, 79.

5. a reward or premium.

Yn yr amser hyny yr oedd cri y brenin, fod pymtheg punt gan y brenin i'r neb a laddai yr herwyr, neu a'u dalient yn fyw; neu i'r neb a laddai y bleiddiau hyny, tra fai fo fyw: ac yn ol bod wedi gwybod o bawb i Weithfoed eu lladd hwynt, gwr arall a aeth at y brenin, ac a ddywed iddo ef eu lladd hwynt, ac a gafas *fywyd* o bymtheg punt gan y brenin. . . Ac ar hyny y rhodd y brenin y gwr a ddywedasai gelwydd yng ngharchar, a'r *bywyd* i Weithfoed.
Hanes Gweithfoed (Y Greal, 104, 105).

Bywydog, *sf.* stonecrop, wall-pepper (*Sedum*). —*Hugh Davies:* Welsh Bot. 43, 163.

Cymmer yr erllyriad, a llygaid Crist, a dail yr ysgaw, a'r tryw, a'r edafeddog, a'r bengaled, a'r syfi, a'r *fywydog*, sef yr orpin, gydag ymenyn heb halen, a gwasga trwy liain glân, a'i gadw, ac elïo'r dolur ag ef; a gwna ddiod i'r claf â dail y syfi, a'r *fywydog*, a'r dderwen fendigaid.
Meddygon Myddfai, ii. 727 (cf. 746).

Bywydog boeth, biting stonecrop (*Sedum acre*).

Bywydog lydanddail, orpine, livelong (*Sedum telephium*).

Bywydog felen, yellow stonecrop (*Sedum reflexum*).

Bywydol, *a.* relating to life; vital; animate, animated; animating; life-giving.

Ac nid oes namyn tydi a'th fath yn y byd o fyw a *bywydol* nad yw yn llawen ganthynt fy nghlywed yn dadgan iddynt goelfain newyddion da ddyfod hirddydd haf a hinon.—*Iolo Mss.* 157.

Tri chyflwr y sydd ar ansawdd bodol a *bywydol*.
Barddas, i. 342.

Ti fyddi, Haul *bywydol*, ar fyr ddydd,
Yn taenu dros fy meddrod fantell werdd.
Dewi Dhu, 894.

Da bywydol, live stock or property.

Tri lledrad y sydd: cymeryd yn lledrad; attal yn lledrad; lladd *da bywydawl* yn lledrad.—*Cyfreithiau Cymru*, ii. 532.

Chwyth bywydol, vital breath, the breath of life.

Am hwn boed diolch i ti fyth,
Tra phery'n *chwyth bywydol*.
Iolo Morganwg: Salmau, I. xxiii. 5.

Bywydolion, (1) live or animate beings.

Tri chyflwr *bywydolion:* annwn, ac yno dechreuad; abred, ac ynddaw cynnull gwybodaeth, ac o hyny daioni; a'r gwynfyd, ac yn hyny cyflawnder pob daioni, o wybodaeth, gwirionedd, a chariad, a bywydoldeb didranc.
Barddas, i. 370 (cf. 208, 210, 342, 348, 352).

Ni bu adeilad *bywydolion*,
Na tho, muriau, na thai mawrion . . .
Ni bu ac ni bydd y rhyw waith ar wŷdd.
Lewys Morganwg, i Leision Abad.

(2) vitals; vital parts.—*W.*

Bywydoldeb, *sm.* vitality; life, animation.

Tri chyssefiniaid pob peth: cyffyroldeb; modoldeb; a *bywydoldeb*.—*Barddas*, i. 198 (cf. 208, 344, 370, 372).

Ystyriwn weithredoedd Duw Ion,
Eu tegwch, eu nifer, a'u creth;
Mae'r holl *fywydoldeb* yn son
Am faint ei ddaioni, 'm mhob peth.
Iolo Morganwg: Salmau, II. cxxvi. 2 (cf. cxlviii. 2).

Bywydoliaeth, -au, *sf.* vitality; animation.

Ac felly y gafaelodd bywyd â'r marw; ac o hyny y tarddwys y bywydolion a'r *bywydoliaeth* menedig gyntaf.
Barddas, i. 208.

Bywydu, *v.* to animate; to vitalise; to endow with life; to quicken or vivify.

Tri phrif orchwyl Duw: goleuo'r tywyll; corffoli dim; a *bywydu*'r marw.—*Barddas*, i. 266.

Dydd yw'n *bywydu*'r galon drist,
Dydd genedigaeth Iesu Grist.
Iolo Morganwg: Salmau, II. lxv. 3 (cf. I. clxix. 3).

Bywydus, *a.* full of life, vigour, or energy; lively, active.—*Ystrad Tywi.*

Bywyn, -au, *sm.* [byw] the pulp of apples and some other fruit; crumb; pith; core.

Gwahana had yr egfaen oddi wrth y *bywyn*, a sych nhwy oni bônt gras.—*Meddygon Myddfai*, ii. 24.

Bywyn afal, the pulp of an apple.

Cymmer wallt plentyn, a thor ef mor fân ag a ellir, a rho gymmaint ag a wedd ar goron aur mewn *bywyn afal* rhost, neu mewn mêl; a hyn a ladd y llynger.
Meddygon Myddfai, ii. 26 (cf. 17, 100, 115).

Bywyn bara, the crumb or soft part of bread.

Cais hufen llaeth . . . a rho mewn llestr ar y tân, a *bywyn bara* can, a chwyr, ac ychydig o fêl.
Meddygon Myddfai, ii. 224 (cf. 387).

Bywyn pren, the pith of a tree.

Bywynaidd, *a.* that is like pulp, crumb, or pith; pulpy, pithy, pulpous.

Bywyneiddiad, -au, *sm.* a becoming like pulp or crumb.

Bywyneiddio, *v.* to become like pulp, pith, or crumb; to make pulpy or pithy.

Bywyneiddiol, *a.* tending to become like pulp, pith, or crumb.

Bywyneiddrwydd, *sm.* pulpiness.

Bywynog, *a.* full of pulp or pith; pithy; crummy.

Bywynogrwydd, *sm.* fullness of pulp, pith, or crumb; pulpiness.

BIBLIOTHECA REGIA MONACENSIS

BSB Bayerische StaatsBibliothek

MDZ Münchener DigitalisierungsZentrum Digitale Bibliothek

Evans, Silvan

Dictionary of Welsh Language By the Rev. D. Silvan Evans. Geiriadur Cymraeg. Gány Parch D. Silvan Evans

Bd.: 2

1888

4 L.rel. 143-1/2
urn:nbn:de:bvb:12-bsb11504040-9